Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Ddrafft 2021-22

Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau o fewn pob Prif Grwp Gwariant

Rhagfyr 2020

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41617 ISBN digidol 978-1-80082-425-6

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Dyddiad: **13eg Ionawr 2021**
Lleoliad: **Y Senedd, Bae Caerdydd**
Teitl: **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22**

1. Pwrpas

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Tachwedd 2020 yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar eu cynigion Cyllideb Ddrafft a gofyn iddynt ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021-22 ac mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

3. Trosolwg o'r Gyllideb

	2021-22
Refeniw	**£m**
DEL Sylfaenol 2020-21 fel yr oedd yn y Gyllideb Derfynol	8256.527
Addasiadau sylfaenol	(2.296)
Dyraniad MEG	420.576
COVID	10.000
Trosglwyddiadau MEG i MEG	(2.863)
DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22	**8681.944**
Cyfalaf	
Cyllideb Sylfaenol Ddangosol	366.528
Dyraniad MEG	16.000
DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22	**382.528**
Cyfanswm Cyffredinol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	**9064.472**

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

Mae manylion yr holl drosglwyddiadau yn Atodiad A y papur hwn.

4. Sut cafodd cynigion y Gyllideb eu llunio

Mae'r gyllideb hon wedi cael ei gosod wrth i'n sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wynebu cyfnod heriol iawn y gaeaf ar ddechrau 2021. Mae'r GIG yn trin tua 2,000 o gleifion mewn ysbytai sy'n dioddef o effeithiau'r coronafeirws, ac mae nifer yr achosion yn parhau i dyfu. Ar yr un pryd, mae'r GIG newydd ddechrau ar y rhaglen brechu torfol fwyaf yn ei hanes, gyda'r gobaith o gyrraedd mwyafrif y boblogaeth erbyn canol 2021. Pan fydd cyfnod acíwt y pandemig yn cilio yn 2021, bydd wedyn angen i'r GIG ganolbwyntio ar ymateb i'r niwed hirdymor y mae'r pandemig wedi'i achosi, o ran amseroedd aros hirach am ofal rheolaidd, yr effaith ar gyflyrau cronig, ac effaith y pandemig a'r cyfyngiadau angenrheidiol ar iechyd meddwl.

Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch datblygiad y pandemig, felly yn y gyllideb hon rydym wedi canolbwyntio ar ddiogelu ein GIG ar gyfer yr hirdymor, a pharhau i fuddsoddi yn ein gweledigaeth o system iechyd a gofal integredig fel y nodir yn ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*. Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o ddyraniadau yn y Gyllideb Derfynol i sicrhau bod gan y GIG yr adnoddau sydd eu hangen arno i barhau â'r ymateb i'r pandemig yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i gefnogi gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Gan ganolbwyntio ar ddiogelu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn buddsoddi £430.6m o gyllid refeniw ychwanegol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol a £16m o gyllid cyfalaf.

Buddsoddi yn GIG Cymru

Yn 2021-22, byddwn yn buddsoddi **£385 miliwn** arall o gyllid refeniw yn ein GIG, gan godi cyfanswm cyllid refeniw y GIG i dros **£8.4 biliwn.** Mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd hirdymor i'r GIG allu parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd o safon, gan sicrhau mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl a sicrhau canlyniadau iechyd da.

Mae ein cynlluniau gwario craidd ar gyfer y GIG yn dal yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2014 a'r Sefydliad Iechyd yn 2016 ynghylch lefelau'r buddsoddiad sy'n ofynnol i gynnal gwasanaethau diogel craidd, wedi'i diweddaru i ymgorffori'r buddsoddiad ychwanegol mewn dyfarniadau cyflog ar gyfer ein staff GIG hynod werthfawr na ddaw dan yr adroddiadau hyn.

Yn ogystal â chyllido twf costau craidd yn GIG Cymru, byddwn yn buddsoddi i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau iechyd ac yn buddsoddi mewn technolegau newydd. Mae hyn

yn cynnwys buddsoddiadau newydd mewn meddygaeth fanwl, gan gynnwys mewn Cynnyrch Meddyginiaethol Therapiwtig Uwch a genomeg, a pharhau i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG yn y dyfodol.

Mae profiad pandemig COVID wedi dangos bod angen buddsoddi rhagor mewn diogelu iechyd. Byddwn yn darparu £10m ychwanegol i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o drawsnewid Gwasanaethau Diogelu Iechyd yng Nghymru. Gan adeiladu ar y buddsoddiadau rydym eisoes wedi'u gwneud i foderneiddio a chynyddu capasiti yng ngwasanaeth microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gan Gymru wasanaeth diogelu iechyd arloesol ar gyfer yr hirdymor.

Byddwn hefyd yn buddsoddi £25m arall i fwrw ymlaen â'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach*. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni ataliol ac yn blaenoriaethu rhaglenni digidol. Bydd y rhain yn cynnwys data cenedlaethol, wardiau digidol, rhagnodi a gofal llygaid a byddwn yn parhau i edrych ar ragor o drawsnewid digidol a chymorth wedi'i dargedu i gynnal gwasanaethau hanfodol. Yn ystod y pandemig, rydym wedi bod yn defnyddio technoleg yn gyflymach ar hyd a lled Cymru, nid yn unig drwy wreiddio ffyrdd newydd o weithio ond drwy wella mynediad at gyngor gofal iechyd o gartrefi. Mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn darparu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ac yn dangos sut y gall technoleg ddigidol rymuso gofal cleifion.

Cyfalaf

Bydd cyllideb gyfalaf y GIG ar gyfer 2021-22 yn cynyddu £16m i £383m, a bydd yn cael ei buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a hygyrch o ansawdd uchel ac i fwrw ymlaen â thrawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd. Mae'r cyllid hwn yn golygu bod y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2020-21 4% yn uwch.

Bydd buddsoddiad cyfalaf y flwyddyn nesaf yn cynnwys parhau â'r gwaith i ailddatblygu ac i foderneiddio Ysbyty'r Tywysog Siarl ynghyd â chwblhau'r gwaith newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili.

Ar lefel Cymru gyfan, mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu ar gyfer rhaglenni cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn blaenoriaethau ar draws offer delweddu a diagnostig, datgarboneiddio, iechyd meddwl, seilwaith ysbytai ynghyd ag ategu datblygiadau digidol a gwybodeg.

Bydd cyllid sy'n gysylltiedig â chynlluniau datgarboneiddio ar gyfer 2021-22 yn canolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys goleuadau LED a gosodiadau ynni adnewyddadwy. Bydd cynlluniau sy'n gallu sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn carbon yn cael eu targedu drwy gydweithio â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon.

Yn ogystal â chynlluniau yn y sector acíwt, mae'r gyllideb cyfalaf yn cynnwys buddsoddiad parhaus yn y gwaith o ddarparu piblinell o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol fel rhan o weithredu ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig.

Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Roedd y gyllideb fanwl a gyhoeddwyd ar 21ain Rhagfyr yn nodi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fesul BEL. Mae Atodiad A yn cynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau i'r gyllideb.

5. Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf yn nodi perfformiad ariannol sefydliadau'r GIG ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd hefyd yn nodi'r camau rwyf wedi'u cymryd i gael gwared â'r baich o ad-dalu cymorth ariannol a diffygion yn y dyfodol gan y sefydliadau hynny nad ydynt mewn balans ariannol, i gefnogi eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth iddynt ddod allan o'r pandemig.

Yn anochel mae COVID wedi effeithio ar berfformiad ariannol sefydliadau'r GIG yn 2020-21. Mae'n bwysig nodi bod y model cyllido y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal ar gyfer GIG Cymru, ar sail y dystiolaeth a nodwyd yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield (2014) a'r Sefydliad Iechyd (2016), yn dangos bod cynaliadwyedd ariannol GIG Cymru yn bosibl drwy gyfuniad o gynyddu'r cyllid mewn termau real yn flynyddol a chyflawni un y cant o leiaf o effeithlonrwydd yn y GIG bob blwyddyn. Roedd y ffaith bod angen i'r GIG ymateb yn gyflym i effaith sylweddol COVID wedi golygu y bu'n rhaid atal rhaglenni effeithlonrwydd arferol. Bydd hyn yn effeithio ar sefyllfaoedd sylfaenol y GIG wrth symud ymlaen.

Gan gydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym yn ystod mis Mawrth ac Ebrill er mwyn rhoi'r ymyriadau angenrheidiol ar waith, cymerodd fy swyddogion gamau cyflym ar ddechrau'r argyfwng i sicrhau bod prosesau llywodraethu a rheoli ariannol cadarn yn cael eu sicrhau o'r dechrau gan sefydliadau'r GIG. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi canllawiau i Swyddogion Atebol a chanllawiau ariannol i Brif Weithredwyr ar 30ain Mawrth yn amlinellu ystyriaethau allweddol wrth wneud penderfyniadau brys mewn amgylchedd pandemig, yn unol â safonau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Gyda chymorth yr Uned Cyflawni Cyllid, sefydlodd swyddogion drefniadau monitro ariannol ychwanegol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol i sicrhau y gellid cofnodi a monitro'r effaith ar gynlluniau ariannol sylfaenol y GIG yn ofalus. Datblygwyd dadansoddiad manwl o effeithiau cost

uniongyrchol, effeithiau darparu effeithlonrwydd a gwrthbwyso arbedion adnoddau. Mae prosesau monitro ariannol wedi sefyll ochr yn ochr â'r prosesau cynllunio chwarterol, gan sicrhau eu bod yn dilysu'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol sy'n sail i'r cynlluniau gweithredol a'r cynlluniau gweithlu.

Ar ben hynny, cafodd ymarferion adrodd ariannol pwrpasol a phenodol eu cyflwyno ar draws y system i ymyriadau allweddol, gan gynnwys y gweithlu, cyfarpar diogelu personol, Profi, Olrhain a Diogelu, Ysbytai Maes a'r rhaglen brechu torfol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu gwaith modelu manwl cyflym ac adroddiadau manwl mewn meysydd allweddol fel cyfarpar diogelu personol lle nad oedd systemau ar waith cyn y pandemig ar y raddfa angenrheidiol.

Roedd yr ymateb hefyd yn golygu bod angen ail-bwrpasu'r rhaglen gyfalaf yn sylweddol. Mae hyn wedi arwain at gyfeirio tua £104m o'r rhaglen tuag at gynlluniau gan gynnwys agor Ysbyty Athrofaol y Grange yn gynnar, y labordy profi ychwanegol a'r cyfarpar ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a buddsoddiadau galluogi digidol ledled Cymru. Mae'r capasiti o 400 o welyau ychwanegol gwerth £33m ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael ei gefnogi'n llawn o safbwynt cyfalaf drwy Gyllidebu Strategol.

Yn Llywodraeth Cymru, mae fy nhîm cyllid wedi gweithio'n agos gyda swyddogion cyllid a chyllidebu o bortffolios eraill a gyda Thrysorlys Cymru a staff cyllid canolog. Mae uwch swyddogion iechyd wedi mynychu cyfarfodydd cyllidebu a chyllid mewnol wythnosol sydd wedi sicrhau cyfathrebu cadarn ar draws Llywodraeth Cymru a sicrhau cyngor cyson i Weinidogion. Ar ben hynny, mae swyddogion iechyd wedi gweithio gyda swyddogion Trysorlys Cymru i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU i ddeall goblygiadau ariannol datblygu polisïau yng Nghymru a Lloegr, ac i sicrhau cyllid canlyniadol priodol.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod dull gweithredu GIG Cymru yn cyd-fynd â gwledydd eraill, drwy ddeialog rheolaidd a rhannu dulliau a rhagdybiaethau â chydweithwyr yn GIG yr Alban, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Bwrdd Iechyd a Chomisiynu Gogledd Iwerddon.

Er gwaethaf yr angen am ymateb gweithredol sylweddol a chyflym i'r argyfwng, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar berfformiad ariannol drwy gydol y cyfnod a gan edrych ymlaen at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan weinidogion ym mis Awst wedi caniatáu inni sefydlogi'r sefyllfa ariannol, gan ystyried y diffygion arfaethedig a oedd yn cael eu rheoli drwy'r broses gynllunio cyn y pandemig. Gyda'r cafeat anochel na allwn ragweld yn sicr sut bydd y pandemig yn datblygu dros y misoedd nesaf, ar hyn o bryd rydym yn asesu y bydd yr arian sydd bellach wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol yn ddigon i reoli ymateb parhaus y GIG hyd at ddiwedd y flwyddyn.

6. Darparu gofal iechyd yn y dyfodol

Manylion sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o ofal rheolaidd, ac yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o driniaethau o ganlyniad i'r pandemig.

Drwy raglen o fuddsoddi'n flynyddol mewn perfformiad, roedd nifer y cleifion sy'n aros yn hir wedi gwella o un flwyddyn i'r llall ers 2016 i'r pwynt isaf mewn 6 mlynedd ym mis Mawrth 2019 (8,985 o gleifion yn aros dros 36 wythnos). Mae'r patrwm hwn wedi cael ei wrthdroi'n sydyn oherwydd llai o gapasiti staffio o ganlyniad i newidiadau treth yn 2019/20, ac, yn fwy arwyddocaol, y gostyngiad mewn capasiti oherwydd y pandemig. Erbyn mis Medi 2020, roedd nifer y cleifion a oedd yn aros dros 36 wythnos wedi cynyddu 159,959 ers mis Mawrth 2019, gydag ychydig o dan 169,000 o gleifion bellach yn aros dros 36 wythnos.

I roi hyn mewn persbectif, arweiniodd y gostyngiad mewn capasiti yn 2019 oherwydd newidiadau treth a rhywfaint o effaith COVID at 19,309 o gleifion ychwanegol yn aros dros 36 wythnos. Ym mis Medi 2020 roedd pandemig COVID wedi golygu bod 169,000 yn ychwanegol o gleifion yn aros dros 36 wythnos.

Mae'r ôl-groniad sylweddol sydd wedi cael ei greu yn ystod yr wyth mis yn debygol o dyfu hyd at fis Mawrth 2021 a thu hwnt. Y rheswm am y twf parhaus yw'r cyfyngiadau ar gapasiti, a achosir gan y mesurau angenrheidiol i leihau'r risg o COVID, ac atgyfeiriadau'n dychwelyd i lefelau normal. Y flaenoriaeth ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael yw cleifion brys (gan gynnwys canser), a'r rheini y nodwyd eu bod mewn perygl enbyd o orfod aros yn hirach. Mae targedu adnoddau fel hyn yn arwain at yr effaith leiaf ar amseroedd aros rheolaidd a thwf yr ôl-groniad o bobl sy'n aros yn hir. Mae'r ffaith nad oes modd cynyddu adnoddau'n sylweddol ar hyn o bryd, yn enwedig staff, a'r ystad, yn cyfyngu ar allu'r GIG i gynyddu capasiti'n gyflym er mwyn cael unrhyw effaith go iawn ar leihau'r ôl-groniad.

Bydd mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn gofyn am gydbwysedd rhwng blaenoriaeth glinigol y claf, yr angen i drin ein cleifion sy'n aros yn hir cyn gynted â phosibl, ac ymwybyddiaeth o'r cyfyngiadau o ran capasiti, yn enwedig staff sydd wedi bod dan gymaint o bwysau wrth ddelio â phandemig COVID. Am y rheswm hwn, bwriadwn fynd i'r afael â'r ôl-groniad fesul cam dros bedair blynedd, gyda chymysgedd o atebion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr opsiwn i leihau'r cyfnod adfer yn dibynnu ar yr atebion cyflenwi sydd ar gael fel rhai y gellir eu cyflawni yng Nghymru.

Mae cynnydd sylweddol o ran ail-lunio modelau gwasanaethau wedi dechrau yn ystod COVID yn unol â *Cymru Iachach* a'r strategaeth gofal sylfaenol i gefnogi symud gwasanaethau'n briodol i'r gymuned, hyrwyddo hunanreolaeth a gweithio ar y cyd rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Gwasanaethau Canser

Yn unol â'r fframwaith Gwasanaethau Hanfodol, mae Byrddau Iechyd wedi ceisio cynnal gwasanaethau canser yn ystod y pandemig ac wedi ymateb yn arbennig o dda i ddulliau arloesol fel cynnig apwyntiadau rhithwir, profi'n syth a gweithredu profion FIT.

Roedd nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng yn sylweddol ddechrau mis Ebrill (tua 70%) ac maent bellach yn ôl i'r lefelau arferol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cleifion wedi bod yn amharod i ddod ymlaen, ac o ganlyniad mae atgyfeiriadau canser tua 18,000 yn llai (Hydref 2020) nag y byddem yn ei ddisgwyl. Gan dybio bod tua 25% o'r rhain wedi cael triniaeth yn rhywle arall neu ddim angen triniaeth mwyach, amcangyfrifir bod o leiaf 13,500 o bobl ag amheuaeth o ganser y gellid eu hatgyfeirio rywbryd yn y dyfodol agos. Mae'n amlwg, y bydd y nifer hwn ynghyd â mwy o ôl-groniadau mewn byrddau iechyd oherwydd pwysau diagnostig yn cymryd cryn amser i glirio. Ein hamcangyfrif gorau yw y gall gymryd 132 wythnos i weld ac i adolygu'r nifer ychwanegol o gleifion, a chredwn fod hynny'n annerbyniol. Felly, rydym yn bwriadu datblygu a gweithredu cynllun tair blynedd sy'n cynnwys trawsnewid diagnostig a thriniaeth. Rydym yn bwriadu cadarnhau cyllid ar gyfer y cynllun hwn ar gyfer 2021-22 cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

7. Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Blaenoriaethu atal/ymyriadau cynnar mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Canolbwynt y gyllideb hon yw diogelu poblogaeth Cymru drwy barhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau GIG craidd ar gyfer yr hirdymor. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ac yn cynyddu'r buddsoddiad hwnnw. Sicrhau sefydlogrwydd hirdymor ein gwasanaethau iechyd a gofal yw ein blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad ataliol yn y gyllideb hon.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG, sydd hefyd yn Gyfarwyddyd y Gweinidog i'r GIG, bob amser yn ceisio cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pharhau i gryfhau sut mae sefydliadau'n gweithio i gyflawni eu cynlluniau gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio. Ers dechrau'r pandemig, bu ffocws cryf hefyd ar y **pedwar niwed** sef y cyd-destun ansawdd allweddol y mae'n rhaid darparu gwasanaethau a gofal o'i fewn.

Mae'r pedwar niwed yn berthnasol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol ond mae'r angen i atal niwed "o gyfyngiadau symud/camau cymdeithasol ehangach" hefyd yn darparu cyd-destun ehangach a thymor hirach i gynllunio ac i fuddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn disgwyl y bydd dull eang o atal yn cael ei ddefnyddio ym mhob agwedd ar gynllunio. Caiff hyn ei gefnogi gan bolisi Llywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi o safbwynt atal, boed hwnnw'n safbwynt iechyd cyhoeddus mwy traddodiadol neu mewn gofal heb ei drefnu neu ofal wedi'i gynllunio. Roedd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd, er enghraifft, hefyd yn ystyried atal o ran modelau gofal a datgarboneiddio gan gynnwys cynlluniau teithio llesol.

Yn y pen draw, bydd dulliau ataliol o ymdrin â phob math o iechyd a llesiant corfforol a meddyliol yn atal cyflyrau a salwch rhag gwaethygu. Rhaid ystyried cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a fydd yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol ac yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Yn anffodus, rydym wedi dysgu drwy gydol yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn fod y rheini sydd â chyflyrau isorweddol wedi dioddef yn anghymesur. Dylai'r hyn a ddysgwn o COVID ddarparu'r sylfeini i weithredu mentrau ataliol sy'n gallu dylanwadu ar leihau'r pedwar niwed.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein hagwedd o drin i atal. Y weledigaeth a sefydlwyd gennym yn *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ar ymyriadau cynnar.

Ategu cyllid cynaliadwy, tymor hirach ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal wedi bod yn edrych ar opsiynau hirdymor. Mae ein swyddogion wedi darparu gwybodaeth dechnegol yn ddiweddar i'r pwyllgorau Cyllid, Iechyd a Chymunedau

Yn amlwg, mae'r amgylchedd ariannol wedi newid yn sylweddol dros y misoedd diwethaf. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall y safbwynt sy'n cael ei ddatblygu gan lywodraeth y DU ar gyllido gofal cymdeithasol. Mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ffafrio cael ateb i'r materion hyn ar lefel y DU, ond rydym wedi bod yn gweithio yn y Grŵp Rhyngweinidogol gan wybod efallai y bydd angen inni lunio ein llwybr ein hunain.

Cafodd y terfyn cyfalaf a ddefnyddir wrth godi am ofal preswyl ei godi i £50,000. O ganlyniad mae preswylwyr yn cael cadw hyd at y lefel hon o'u cyfalaf heb orfod gwario hwn ar eu gofal. Cyflwynwyd uchafswm ffi o £100 yr wythnos ar gyfer gofal cartref ar 6 Ebrill 2020 er mwyn cwblhau'r ymrwymiad hwn.

Hyrwyddo integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cymru Iachach yw'r cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ddwy flynedd ers lansio'r strategaeth, ac yng nghyd-destun COVID, rydym yn adolygu'r 40 cam gweithredu â blaenoriaeth.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid wedi parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru ac wedi cael eu defnyddio fel mecanwaith ar gyfer adnoddau ychwanegol i gefnogi'r ymateb i COVID

Bydd arian pontio ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid yn parhau yn 2021-22.

£89m o refeniw'r Gronfa Gofal Integredig a £40m o gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, ynghyd â £50m o refeniw ar gyfer y Gronfa Trawsnewid a £10m ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid. Bydd cam nesaf prosiectau'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig yn canolbwyntio ar symud dulliau integredig llwyddiannus o gam prosiect i gam cyllid busnes craidd ac iechyd a gofal cymdeithasol craidd. Sefydlwyd Cymunedau Ymarfer i rannu arferion gorau a phrofiadau ac i ystyried modelau gofal llwyddiannus fel y rhagwelir gan Cymru Iachach. Dechreuodd y rhain gyda gwasanaethau Adre o'r Ysbyty a byddant nawr yn parhau ar themâu Gofal yn Seiliedig ar Leoedd; Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Emosiynol; a Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg.

Cyn argyfwng COVID, roedd partneriaethau'n dod yn eu blaenau'n dda o ran cydgysylltu gwasanaethau, gweithredu modelau gofal ar raddfa fwy a buddsoddi mewn llety arbenigol, gan arloesi ar yr un pryd ag adeiladu ar wersi o'r gorffennol. Yn ystod argyfwng COVID, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r gwasanaethau maent wedi'u datblygu wedi dangos bod gan bartneriaethau'r cryfder a'r ystwythder sydd eu hangen i ymateb i argyfyngau iechyd mewn ffordd gydlynus.

Y mwyaf nodedig fu'r prosiectau Adre o'r Ysbyty (rhyddhau o'r ysbyty'n gyflym) a'r modelau osgoi derbyn a ddatblygwyd drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid sydd wedi darparu gwasanaeth hanfodol yn ystod yr ymateb i COVID 19. Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig wedi clustnodi adnoddau i gefnogi gofal canolraddol ac ailalluogi, a hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai. Roedd ac mae'r prosiectau hyn yn hanfodol i ysbytai o ran capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr ymateb i COVID 19 ac maent wedi cael eu cyflymu'n sylweddol. Roedd y rhan fwyaf o brosiectau a gwasanaethau'r Gronfa Gofal Integredig wedi parhau neu wedi cael eu haddasu yn ystod yr argyfwng.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi adnewyddu cynlluniau buddsoddi refeniw y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2020-21 i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth yn cael eu diwallu drwy ddatblygu gwasanaethau integredig.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bwrw ymlaen â phrosiectau/gwasanaethau integredig sy'n cael eu hariannu gan y £10 miliwn ychwanegol i gefnogi gwasanaethau rhyddhau cleifion COVID o ysbytai.

Elfen hanfodol arall o'r ymateb fu defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi ffyrdd newydd o weithio a gofalu am bobl. Mae bron i 100,000 o ymgyngoriadau fideo wedi cael eu cynnal ar draws y platfform Attend Anywhere. Mae 3,000 o glinigwyr y GIG a 207 o dimau cartrefi gofal wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r rhaglen, a dywedodd dros 90% o'r defnyddwyr fod y rhaglen yn dda neu'n rhagorol. Rydym yn cynnal cynlluniau peilot i benderfynu a ellid ehangu'r gwasanaeth ymhellach i feysydd fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg.

I ategu Attend Anywhere, mae Cymunedau Digidol Cymru wedi caffael dyfeisiau llechen electronig i gefnogi preswylwyr cartrefi gofal ledled Cymru. Mae hyn wedi helpu pobl i gynnal cysylltiadau teuluol a chael gafael ar wasanaethau iechyd hanfodol yn ystod y pandemig. Yn y cam cyntaf, mae 1,051 o ddyfeisiau llechen electronig yn cael eu darparu i 584 o gartrefi gofal. Mae dros 380 o staff rheng flaen wedi cael eu hyfforddi i gefnogi preswylwyr i ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol.

Sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy

Fel rhan o *Cymru Iachach*, roedd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn cyd-arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru. Cafodd y strategaeth ei lansio ym mis Hydref 2020. Un o nodau'r strategaeth yw datblygu gweithlu cynaliadwy ac iach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae AaGIC a GCC wedi nodi'r blaenoriaethau dros gyfnod y gaeaf mewn cynllun cyflawni sydd wedi'i ddylunio i gefnogi'r Cynllun Diogelu ar gyfer y Gaeaf a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae rhagor o fanylion am gyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol ar gael yn nes ymlaen yn y papur.

Ym mis Rhagfyr 2020, roeddem wedi cytuno ar gynllun comisiynu a hyfforddi addysg GIG Cymru ar gyfer 2021-22, gyda chyfanswm y buddsoddiad yn £227.901m, £17.5m yn uwch na 2020-21. Mae hyn yn fwy nag erioed o gyllid a bydd yn cynyddu'r gweithlu i sicrhau system iechyd a gofal cymdeithasol gynaliadwy, fel y nodir yn *Cymru Iachach*.

Lleihau a Rheoli Gwariant ar Staff Asiantaethau

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithio ar y cyd ag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd i ddylunio fframwaith rheoli ar gyfer gwariant ar staff asiantaeth a staff locwm, gan gynnwys cynyddu'r gwaith craffu ar lefel bwrdd, defnyddio llai ohonynt a gwella'r gwerth am arian drwy gapio cyfraddau a chaffael mwy effeithiol. Cafodd y fframwaith rheoli ei gyhoeddi yng nghylchlythyr iechyd WHC/2017/042 sy'n rhoi sylw i effaith defnyddio Staff Asiantaeth a Locwm Meddygol yn GIG Cymru, a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2017 ac a luniwyd i weithio ochr yn ochr â'r Cyswllt Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Nyrsys Asiantaeth a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017 ac a ddyluniwyd i gyflawni gwell gwerth am arian drwy arbedion maint.

Er bod niferoedd y gweithlu wedi codi oddeutu 6% rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mehefin 2020, mae COVID wedi cael effaith sylweddol ar yr angen am weithlu ac mae staff profiadol yn

gweithio oriau ychwanegol drwy asiantaethau wedi bod yn gyfraniad gwerthfawr at yr ymdrech ar draws Cymru. Bydd gwaith paratoi cynharach i wella gwerth am arian wrth ddefnyddio staff asiantaeth drwy gontractau fframwaith wedi sicrhau gwell gwerth am arian ar gyfer y buddsoddiad hwn. Serch hynny, mae gwariant ar asiantaethau wedi cynyddu fel rhan o'n buddsoddiad mewn staff ychwanegol drwy gydol y flwyddyn.

Rhagwelir y bydd £195m yn cael ei wario ar staff locwm ac asiantaeth yn 2020-21, o'i gymharu ag alldro o £177m yn 2019-20 a chynnydd o 10% yn y flwyddyn. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwariant hwn yn dal yn anwadal iawn, ac y gallai'r alldro ar gyfer 2020-21 fod yn wahanol iawn i'r rhagolygon presennol.

Lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, yn dal yn flaenoriaeth Weinidogol ac mae pandemig COVID wedi rhoi mwy o ffocws fyth ar leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae ardaloedd gwledig yn aml yn dibynnu ar drefniadau cydweithio ehangach ar gyfer darparu gofal a gwasanaethau i'w cleifion a chreu mynediad cyfartal. Er enghraifft, mae byrddau iechyd Hywel Dda a Phowys wedi datblygu perthynas gref â byrddau iechyd partner i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg ac arloesedd digidol, gan gynnwys ymgyngoriadau fideo a gweithio o bell, wedi dod yn rhan annatod o ofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, gan gefnogi pobl i gael gofal a chyngor yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. I'r cleifion hynny a'u teuluoedd, sy'n byw mewn rhannau gwledig o Gymru, mae hyn wedi cael ei groesawu'n benodol, gan leihau amser a chostau teithio.

8. Effaith COVID ar ddyraniadau

Manylion sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft o flynyddoedd blaenorol o ganlyniad i COVID.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael cyllid ychwanegol gros o £1,442m yn y gyllideb atodol gyntaf a'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 i gefnogi ymatebion y GIG a gofal cymdeithasol i COVID. Bydd rhagor o gyllid ar gyfer y rhaglen brechu torfol yn cael ei ddyrannu yn y drydedd gyllideb atodol. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan y cyfraniad anghylchol o £114m a wnaeth y MEG i'r gronfa ganolog COVID yn y gyllideb atodol gyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfanswm o £766m yn yr Adolygiad o Wariant ar gyfer 2021-22 o ganlyniad i wariant sy'n ymwneud â COVID yn Lloegr. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ynghylch dyrannu'r cyllid hwn yn diwallu'r heriau sy'n datblygu yn sgil y pandemig, mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl nawr a dyrannu cyllid yn y Gyllideb derfynol fel ein bod yn deall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Bydd cadarnhad o'r cyllid ar gyfer yr ymateb iechyd a gofal cymdeithasol parhaus yn cael ei gadarnhau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, gan sicrhau bod ymyriadau parhaus yn gallu parhau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddelio'n effeithiol ag achosion presennol a rhagamcanol COVID, a chynnal gweithrediad sy'n gallu cynyddu ei allu i helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo, bydd £10m yn cael ei ddyrannu i ddechrau i gynnal y gweithlu olrhain cysylltiadau. Mae'n bwysig bod y gweithlu olrhain cysylltiadau'n cael ei gynnal drwy gydol 2021 er mwyn gallu ymchwilio ac olrhain achosion positif newydd a chysylltiadau agos, ac i ymdopi ag unrhyw gynnydd uchel yn y dyfodol yn nifer yr achosion. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i recriwtio'n rhanbarthol ac i gynllunio'r gweithlu ar gyfer yr hyn sy'n rhan ganolog o strategaeth y Llywodraeth i ailgychwyn yr economi ar yr un pryd â rheoli lledaeniad y feirws.

9. Trawsnewid

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi trawsnewid gwasanaethau yn y tymor hirach (hy y tu hwnt i oes y Gronfa Trawsnewid bresennol), i sicrhau bod modd cynnal y cynnydd ar yr agenda trawsnewid, a bod ffocws ar gyflwyno'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o gynlluniau peilot llwyddiannus;

• Sut bydd y gyllideb hon yn cefnogi datblygu 'dull system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach;

• Unrhyw feysydd cyllid penodol eraill sydd wedi'u targedu at gefnogi newid neu ddatblygu gwasanaeth;

• Sut bydd Llywodraeth Cymru, wrth bennu ei chyllideb, yn cydbwyso'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.

Mae'r Gronfa Trawsnewid yn un o'r prif fecanweithiau cyllido i gefnogi rhoi *Cymru Iachach* ar waith, a lansiwyd yn haf 2018. Prif amcan y gronfa yw rhoi modelau newydd o ofal ac iechyd lleol di-dor ar waith ar raddfa ranbarthol ac, mewn rhai achosion, ar raddfa genedlaethol, a drwy hynny newid y ffordd mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru.

Mae argyfwng COVID wedi cael effaith sylweddol ar brosiectau trawsnewid. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda thimau rhanbarthol i alluogi hyblygrwydd er mwyn i brosiectau allu cyfrannu at yr ymateb. Arweiniodd hyn at ailflaenoriaethu a chafodd prosiectau yn y categorïau adre o'r ysbyty, aros yn iach gartref a'r categorïau digidol eu cyflymu. Cafodd ymdrechion eraill nad oeddent mor uniongyrchol berthnasol i'r ymateb ond sy'n bwysig i drawsnewid y system eu gohirio neu eu harafu.

Mae'r Gronfa Trawsnewid wedi cael ei hymestyn am ddeuddeg mis a £50m er mwyn caniatáu i ranbarthau adfer eu gweithgareddau trawsnewid a chyflawni prosiectau, sydd wedi cael eu gohirio oherwydd argyfwng COVID. Mae'r proffiliau cyllido wedi cael eu cadarnhau i bartneriaethau cyflawni i gefnogi'r gwaith o gyflawni a chynllunio cynaliadwyedd, yn ogystal â dull wedi'i reoli i roi diwedd ar gontractau cyfnod penodol ar gyfer rhywfaint o staff prosiect. Mae'r cyfanswm sydd wedi'i ddyrannu yn llai na chyllideb lawn y Gronfa Trawsnewid ar gyfer 2021-22, er mwyn gallu targedu cymorth er mwyn gweithredu prosiectau rhanbarthol presennol ar draws nifer o ranbarthau ac yn genedlaethol, yn enwedig dulliau sy'n cyfrannu at adferiad COVID. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried allbynnau o Gymunedau Ymarfer sydd wedi cael eu datblygu fel rhan o ddull gweithredu'r Gronfa Trawsnewid.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i siapio'r opsiynau ar gyfer rhaglen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol, ar ôl mis Ebrill 2022. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yn *Cymru Iachach* i gysoni ffrydiau cyllido a gweithgarwch er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl a darparu mwy o gydgysylltu a chydlyniaeth i gyllid trawsnewid strategol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cyllid trawsnewid yn gyfyngedig o ran amser ac roedd yn rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu achosion busnes i gefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad parhaus a sut bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno eu cynlluniau i Lywodraeth Cymru ac wedi cael adborth ar gynaliadwyedd ac effaith ar ganlyniadau. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy amodau yn llythyrau cyllido 2021-22.

Mae gwerthuso'n rhan ganolog o Gyllid Trawsnewid a chytunwyd ar fframwaith a mesurau ar ddechrau'r cam cyflwyno a chawsant eu profi drwy werthusiad canol cyfnod annibynnol. Mae'r gofynion gwerthuso wedi cael eu hadolygu i adlewyrchu effaith COVID ar amserlenni, ac i gofnodi effaith yr ymateb i COVID ar gyflawni ac ar ganlyniadau. Bydd yn rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno adroddiad gwerthuso annibynnol wedi'i ddiweddaru erbyn diwedd mis Ebrill 2021, wedi'i ddilyn gan adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2022. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cyfrannu at gyhoeddi dau adroddiad gwerthuso cenedlaethol pellach.

Er mwyn rhannu profiadau ac arferion gorau ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae nifer o Gymunedau Ymarfer thematig yn cael eu sefydlu. Mae'r themâu hyn yn cynnwys

gwasanaethau Adre o'r Ysbyty; Gofal seiliedig ar leoedd; Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Emosiynol; a Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg.

Mae'r Cymunedau Ymarfer yn cynnwys ymarferwyr a rheolwyr cyflawni prosiectau a'u nod yw:
• dod â thimau sy'n gweithio ar fodelau tebyg ledled Cymru at ei gilydd;
• rhannu'r cynnydd a dysgu oddi wrth ei gilydd drwy weithgareddau a thrafodaethau ar y cyd;
• cefnogi'r gwaith o weithredu modelau gofal newydd ar draws rhanbarthau;
• darparu enghreifftiau o ddulliau arferion gorau o'r DU;
• cyfrannu at flaenoriaethau'r dyfodol o ran darparu Cymru Iachach.

Cafodd y Gymuned Ymarfer gyntaf ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2020 i ganolbwyntio ar Wasanaethau Adre o'r Ysbyty ac mae wedi cael ei chynnal ar y cyd â'r Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol ac Uned Gyflawni GIG Cymru. Bydd yr hyn a ddysgir o'r Gymuned Ymarfer hon yn cael ei ddefnyddio i siapio rhagor o Gymunedau Ymarfer mewn meysydd thematig eraill, yn ystod 2021.

Wrth inni symud i flwyddyn olaf y gronfa, bydd tîm y Gronfa Trawsnewid yn parhau i weithio'n agos gyda rhanbarthau i gefnogi eu darpariaeth a sicrhau bod gwariant a darpariaeth yn parhau ar y trywydd iawn. Bydd y cyllid yn cael ei adolygu'n fanwl.

Drwy ddarparu cyllid ychwanegol yn y ffordd strwythuredig hon sy'n cael ei rheoli'n genedlaethol, gallwn gefnogi rhanbarthau i ddylunio ac i brofi gwasanaethau a modelau gofal newydd dros gyfnod cymharol fyr, yna i wreiddio prosiectau llwyddiannus mewn arferion busnes rheolaidd, gan ddisodli dulliau hanesyddol.

Cyfle'r Gronfa Trawsnewid

Mae'r ffordd strwythuredig mae'r Gronfa Trawsnewid yn ei defnyddio i gefnogi "modelau newydd o ofal ac iechyd lleol di-dor" drwy gyllid trawsnewid wedi cael ei datblygu a'i mireinio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r dull hwn wedi'i gyfyngu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y gorffennol, ond byddwn yn ystyried sut gellir defnyddio hyn i gefnogi cyflwyno a datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol mewn iechyd fel rhan o'n gwaith i sefydlogi ac i ailadeiladu yn dilyn COVID. Byddai prosesau a gwaith llywodraethu a gwerthuso'r gronfa trawsnewid (gan gynnwys Cymunedau Ymarfer) yn cael eu hailadrodd gan ganolbwyntio mwy ar heriau iechyd ac ysbytai a drwy gyllid wedi'i dargedu at Fyrddau Iechyd Lleol yn benodol. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn defnyddio adolygiadau o'r ymateb i COVID a chyfleoedd fel Astudiaeth Arloesi'r GIG a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2021.

Arloesi

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n strategol mewn meysydd a fydd yn cefnogi ac yn gwella gwasanaethau drwy ddefnyddio ymchwil ac arloesedd, gan gefnogi cynlluniau sy'n ceisio mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio a modelau gofal a'u lledaenu mewn ffordd systematig.

Mae **Esiamplau Arloesi** Comisiwn Bevan a'r rhaglen **Esiamplau Technolegau Iechyd** a gyflwynir mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn cefnogi staff GIG Cymru i gydweithio â'r diwydiant i roi technoleg iechyd arloesol ar waith. Nod y rhaglenni hyn yw gwella ffyrdd GIG Cymru o weithio, datrys problemau iechyd a gwella canlyniadau iechyd; a darparu mecanwaith i ddatblygu, i gyflymu ac i fabwysiadu cynnyrch a gwasanaethau technoleg iechyd arloesol ar raddfa eang.

Sefydlwyd rhwydwaith Cymru gyfan o **Ganolfannau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIICHs)** yn 2019, gyda'r dasg o ddod â'r holl weithgarwch ymchwil, arloesi a gwella at ei gilydd yn eu hardaloedd, gan gynnal dadansoddiad cydlynol o'r gweithgarwch hwn gyda ffocws ar ganfod arferion da, y gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, a ffyrdd newydd o weithio / modelau gofal newydd sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Er mwyn helpu i gynnal y cynnydd a sicrhau bod y dysgu'n cael ei ledaenu a'i fabwysiadu mewn ffordd systematig, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi **Academïau Dysgu Dwys** penodol, ymrwymiad allweddol yn *Cymru Iachach*. Bydd arweinyddiaeth broffesiynol o ansawdd uchel yn rhan hanfodol o lwyddiant a gwytnwch integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd yr academïau hyn yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad arweinwyr cymwys sy'n deall pwysigrwydd arweinyddiaeth ar y cyd a'r datblygiad strategol a phroffesiynol sydd ei angen i'w gefnogi. Bydd tair academi ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen: Academi Dysgu Cymhwysol ar gyfer Iechyd Ataliol; Academi Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth; Academi Cymru Gyfan ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10. Gofal sylfaenol a gofal yn nes adref

Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, a sut mae hon yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn y tair blynedd diwethaf.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gofal sylfaenol drwy ddarparu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, ac yn 2021-22 byddwn yn adeiladu ar y buddsoddiad y cytunwyd arno a ddarparwyd yn 2020-21 ar gyfer y contractau gofal sylfaenol.

Mae cynllunio ac ailgydbwyso'r system iechyd a llesiant yn gymhleth ac nid oes modd mesur hyn dim ond drwy ystyried cyllidebau a chofnodi gwariant, yn hytrach mae'n rhaid dangos y newid yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol. Byddwn yn parhau i gefnogi byrddau iechyd i gryfhau eu gwaith i gynllunio'r system gyfan drwy broses yr IMTP.

Mae ein diffiniad o ofal sylfaenol yn eang fel y nodir yn y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. Yn ogystal â'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu contractio gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion, mae ein diffiniad hefyd yn cynnwys yr ystod eang o wasanaethau, gofal a chymorth i iechyd ac i lesiant pobl yn y gymuned ehangach.

Mae Bwrdd Iechyd y GIG yn gyfrifol am wariant ar ofal sylfaenol dros y 3 blynedd diwethaf, sef:
2019-20 £947.338 miliwn
2018-19 £911.739 miliwn
2017-18 £876.346 miliwn
Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys presgripsiynau gan feddygon teulu ac maent yn net o newidiadau i gleifion deintyddol a gafodd eu hadennill.

I ba raddau mae hyn yn cyflawni'r nod polisi o symud gofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol?

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu llawer iawn o gyllid i fyrddau iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn heb ei neilltuo ac felly nid oes ffordd gadarn o fesur ailgydbwyso'r system yn unol â'r weledigaeth sydd yn *Cymru Iachach* sef bod mwy o ofal ataliol ar gael yn nes at y cartref.

Mae modelau darparu gwasanaeth newydd fel 111, ffonio/cysylltu'n gyntaf a'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn pwysleisio'r agenda gofal sylfaenol brys sy'n gweithio ar ryngwyneb gofal sylfaenol ac eilaidd, gan chwalu ffiniau gwasanaethau ar y llwybr tuag at gyflawni *Cymru Iachach*. Eleni:

- Rydym wedi ategu'r buddsoddiad 'wedi'i frigdorri' yn WAST/111 yn 2020/21 ar gyfer datblygu'r model 'cysylltu'n gyntaf' trawsnewidiol. Mae'r model hwn yn ceisio cyfeirio cleifion y mae eisiau neu angen cyngor brys neu asesiad arnynt i'r lle iawn, y tro cyntaf er mwyn sicrhau'r profiad a'r canlyniad gorau posibl. Bydd y model yn golygu bod modd archebu lle i gleifion mewn slotiau argyfwng mewn adrannau yn ystod y dydd gan sicrhau na fydd gormod o bobl yno, a symud pobl at wasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol, gan leihau'r galw diangen ar wasanaethau gofal brys prysur. Mae gwerthusiad wrthi'n cael ei gynnal. Mae angen cytundeb ar gyllid cylchol ar gyfer 2021/22 a 2022/23 yn gynnar er mwyn gallu ymestyn contractau'r gweithlu a recriwtio pobl i ddelio â'r galwadau a staff clinigol i gyflawni'r model.

- Dyrannwyd cyllid i Fyrddau Iechyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni canolfannau gofal sylfaenol brys 24/7 yn 2020/21. Bydd y model hwn yn cael ei staffio gan gyfuniad o ffisiotherapyddion, meddygon teulu, ANPs, APPs a chlinigwyr eraill sy'n gallu asesu a thrin cleifion sydd ag anghenion gofal brys yn eu cymuned yn ddiogel, heb fod angen iddynt fynd i'r adran frys. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â Cymru Iachach a'r awydd i

symud adnoddau i'r gymuned, gan alluogi pobl i gael eu hasesu a'u trin yn agos at eu cartref a dim ond yn yr ysbyty os yw hynny'n hanfodol.

- Cynhelir gwerthusiad i ddeall pa mor llwyddiannus fu'r canolfannau dros y gaeaf o ran rheoli cleifion sydd ag anghenion gofal brys, gwerth am arian, profiad y staff a ffactorau llwyddiant allweddol eraill. Bydd y gwerthusiad hwn yn cyfrannu at ddylunio model gofal sylfaenol brys 24/7 cenedlaethol. Mae angen cytuno ar gyllid ar gyfer 2021/22 yn gynnar yn y broses er mwyn trosglwyddo contractau staff i'r flwyddyn ariannol newydd ac er mwyn gallu gwerthuso'r model yn briodol dros gyfnod hirach.

Mae'r Rhaglen Diwygio Contractau, sydd ar waith ym maes Gofal Sylfaenol, yn canolbwyntio ar allu symud gwasanaethau priodol i ffwrdd o ddarparu gofal eilaidd i ddull gweithredu yn y gymuned. Mae dysgu o ddulliau gweithredu Optometreg ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn allweddol i'r cynnydd hwnnw ac mae'n amlwg y bydd angen adnoddau pan fydd gwasanaethau'n newid. Nid yw hyn yn rhwydd ac rydym yn parhau i reoli'r rhyngwyneb hwnnw. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd yng nghyllid Byrddau Iechyd yn golygu bod ganddynt rywfaint o ddisgresiwn o ran cyfeirio cyllid – yn enwedig yn ystod yr ymateb i COVID. Drwy ddiwygio a chryfhau trefniadau contract, ein nod yw hwyluso'r symud tuag at fwy o ofal yn y gymuned. Bydd ein dull gweithredu ar gyfer cyflwyno'r brechlyn COVID yn golygu ein bod yn contractio'r gwasanaeth hwn i bob un o'r pedwar darparwr am y tro cyntaf. Bydd hyn yn cryfhau sgiliau a gwytnwch wrth ddarparu'r brechlyn yn ei gyfanrwydd ac yn cynnig man dysgu pwysig ar gyfer contractio ar sail Gofal Sylfaenol a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at drefniadau cyllido'r gwasanaeth cyfan yn y dyfodol.

Mae amrywiaeth o fodelau gofal newydd yn cael eu cyflwyno ledled Cymru sy'n galluogi gofal yn y cartref neu'n agos at y cartref. Dyma rai enghreifftiau:

- platfform digidol Attend Anywhere sy'n galluogi pobl i gynnal ymgyngoriadau dros y ffôn ac ar fideo gyda gweithwyr iechyd proffesiynol
- Consultant Connect sy'n galluogi gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol i ofyn am gyngor dros y ffôn gan arbenigwyr mewn ysbytai i gefnogi pobl i aros yn iach neu i gael gafael ar ofal gartref
- Ymgyngoriadau grŵp rhithwir i roi cyngor i bobl ar sut i reoli eu cyflyrau iechyd hirdymor
- Canolfannau gofal sylfaenol brys mewn cymunedau lleol i ddarparu mynediad ar yr un diwrnod
- Mwy o allu i gefnogi adsefydlu yn y gymuned (y 4 llwybr rhyddhau i adfer ac asesu)

11. Gofal cymdeithasol

Y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol:

Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Fel rhan o'r cyllid i gefnogi *Cymru Iachach*, roeddem wedi cynyddu grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol £10m i £40m yn 2020-21. Ac ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector o ganlyniad i'r pandemig ac yn unol â'r codiadau blaenorol, mae hyn wedi cael ei gynyddu i £50m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Yn 2019-20, a 2020-21, defnyddiodd awdurdodau lleol y cyllid hwn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynaliadwyedd y gweithlu. Er enghraifft, roedd rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio rhan o'r cyllid hwn i gefnogi darparwyr yn y sector annibynnol i dalu am y codiadau i'r cyflog byw statudol.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn 2021-22 drwy gefnogi gwella a llesiant y sector gofal cymdeithasol; parhau i ehangu cofrestr y gweithlu gofal cymdeithasol; a chefnogi'r sector a'r gweithlu i sefydlogi ac i adfer ar ôl pandemig COVID 19 ac ymadael â'r UE.

Yn 2021-22 bydd y Cyllid Craidd Cymorth Grant i Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynyddu £2m i £22.383m. Bydd hyn yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau statudol fel y nodir yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac i gyflawni ei gylch gwaith ar gyfer arwain gwelliannau ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn 2021-22 bydd tri maes allweddol y bydd y cyllid hwn yn eu cefnogi:

1. Costau uwch o ganlyniad i ehangu'r drefn reoleiddio statudol – gan gynnwys y cynllun i ymestyn cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol.
2. Cefnogi sefydlogi ac adfer y sector gofal cymdeithasol drwy gyflawni'r Strategaeth Gweithlu
3. Gweithredu strategaethau ymchwil a data, a gwaith parhaus i gefnogi trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys cyflawni Strategaeth Ddata Genedlaethol Gofal Cymdeithasol

Mae'r rhaglen waith fwy yn hanfodol i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu parhau i ddiwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol a'r gweithlu ar ôl COVID 19, a pharhau i gyflawni ei swyddogaethau i gefnogi llesiant a gwella.

Cymorth y Trydydd Sector

Byddwn yn parhau i gefnogi mudiadau Trydydd Sector sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol drwy ddyrannu £1.5m ychwanegol yn 2021-22. Yn 2021-22 byddwn yn symud ymlaen i ail flwyddyn cylch tair blynedd y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae £0.89m yn cael ei ychwanegu at y grant ar gyfer 21-22 i dalu

am y cynnydd yng nghostau'r prosiect wrth i'r prosiectau ddatblygu i flwyddyn dau. Dros y tair blynedd, byddwn yn gwneud £4.9m o gynnydd yng nghyfanswm ymrwymiad y grant hwn, felly bydd cyfanswm y buddsoddiad yn werth hyd at £25.9m. Mae ffocws y prosiectau wedi cael ei newid mewn ymateb i'r prosiectau pandemig i gyflawni yn y sefyllfa sydd ohoni ac i ymateb i anghenion pobl y mae angen gofal neu gymorth arnynt neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt oherwydd y pandemig.

Un o ofynion allweddol y cynlluniau a fydd yn cael eu cyllido yw eu bod yn cyflawni ymyriadau cynnar a chamau ataliol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth yn unol â blaenoriaethau Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb a *Cymru Iachach*. Bydd y prosiectau a gyllidir yn ategu'r nodau a'r egwyddorion llesiant sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu hariannu yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, anableddau corfforol neu synhwyraidd, anableddau dysgu a phobl hŷn.

Yn ogystal â'r mudiadau trydydd sector a fydd yn cael eu cyllido drwy'r grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae cyllid yn cael ei ddarparu i fudiadau Trydydd Sector y mae eu gweithgareddau'n hanfodol yn y sector Gofal Cymdeithasol ac i fudiadau sy'n cefnogi blaenoriaethau polisi gofal cymdeithasol penodol. At ei gilydd bydd dros £11m o gyllid yn cael ei ddyfarnu i fudiadau Trydydd Sector sy'n gweithredu yn y sector Gofal Cymdeithasol.

Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2021-22, a manylion y targedu – lle bo'n briodol – ar gyfer cyllid o'r fath;

Rydym yn buddsoddi £0.576m yn Maethu Cymru. Mae recriwtio gofalwyr maeth yn allweddol i lwyddiant a datblygiad maethu gan awdurdodau lleol. Nodwyd mai un o'r gofynion i gyflawni'r nod hwn fyddai datblygu "brand Cymru gyfan ar gyfer maethu Awdurdodau Lleol", brand cenedlaethol cyson ar gyfer maethu Awdurdodau Lleol sy'n adlewyrchu cryfderau a phersonoliaethau'r 22 Awdurdod Lleol – 'Maethu Cymru' yw'r brand hwn. Mae Maethu Cymru yn cynnig cyfle i ailgydbwyso'r ddarpariaeth o wasanaethau, mynd i'r afael â'r galw, a gwella ansawdd y dewis o leoliadau i blant. Bydd Maethu Cymru yn

- cynyddu faint o leoliadau lleol sydd ar gael, eu digonolrwydd a'r dewis ohonynt. Rhoi rheolaeth yn ôl i'r awdurdodau lleol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lleoliadau hynny pan fydd eu hangen arnynt, gan leihau'r ddibyniaeth ar drydydd partïon a chael gwared â'r hyn sy'n rhwystro lleoliadau.
- galluogi gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd sy'n esblygu. Bydd ymgyrchoedd recriwtio yn cael eu targedu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.
- hwyluso recriwtio cronfa newydd o ofalwyr maeth. Bydd modd canolbwyntio'r gwaith recriwtio a hyfforddi i ddatblygu sgiliau mewn gwaith ailuno, anghenion cymhleth a maethu rhiant a phlentyn.

- galluogi plant y mae angen gofalwr maeth arnynt i gael gafael ar y gofalwr maeth iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lleoliad iawn

Cafodd £0.319, ei fuddsoddi yn ystod 2020-2021 i ddechrau'r ymgyrch drwy ddarparu'r seilwaith ar gyfer yr ymgyrch. Yn ystod 2021-2022 bydd £0.576m yn cael ei fuddsoddi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu brand Maethu Cymru.

Cefnogaeth i sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref;

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal wedi bod yn edrych ar opsiynau hirdymor. Mae ein swyddogion wedi darparu gwybodaeth dechnegol yn ddiweddar i'r pwyllgorau Cyllid, Iechyd a Chymunedau

Yn amlwg, mae'r amgylchedd ariannol wedi newid yn sylweddol dros y misoedd diwethaf. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall y safbwynt sy'n cael ei ddatblygu gan lywodraeth y DU ar gyllido gofal cymdeithasol. Mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ffafrio cael ateb i'r materion hyn ar lefel y DU, ond rydym wedi bod yn gweithio yn y Grŵp Rhyngweinidogol gan wybod efallai y bydd angen inni lunio ein llwybr ein hunain.

• ***Cymorth i ofalwyr.***

Yn 2021-22 byddwn yn parhau i gyllido gweithgareddau sy'n bwrw ymlaen â'n tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr, gan ddyrannu £1.245m. Mae hyn yn cynnwys £1 miliwn i fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr, ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi gofalwyr o bob oed ac mae'n cynnwys unrhyw weithgareddau newydd sy'n angenrheidiol i helpu gofalwyr i reoli effaith y pandemig yn eu hardaloedd. Byddwn hefyd yn dyrannu £0.236m i waith parhaus y prosiect cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Cenedlaethol, a gynhyrchir ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac awdurdodau lleol. Yn ogystal â hyn, ceir prosiectau yn y grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a fydd yn helpu i wella ymwybyddiaeth gofalwyr o'u hawliau. Bydd hefyd yn cefnogi newidiadau diwylliannol a strwythurol ehangach ar gyfer y dyfodol, o ran dylunio'r gwasanaeth, darparu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

12. TGCh

Asesiad diweddar o gostau cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digidol a data, fel sy'n cael ei ddisgrifio yn Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal rhithwir.

Fel rhan o Cymru Iachach, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ategu trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol drwy fanteisio i'r eithaf ar elfennau digidol, data a thechnoleg. Sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol sylweddol o £50 miliwn y flwyddyn ar draws 5 maes blaenoriaeth, yn gysylltiedig â threfniadau cyflenwi ac arwain cryfach. Dyma oedd y pum maes:

- Gwasanaethau i'r cyhoedd a chleifion
- Gwasanaethau i weithwyr proffesiynol
- Diogelwch a chadernid seiber
- Moderneiddio dyfeisiau a gwasanaethau parod i'r cwmwl
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus

Cwblhawyd adolygiadau annibynnol o Lywodraethu Digidol a Phensaernïaeth Ddigidol yn 2019, gan asesu'r gallu yn erbyn y weledigaeth ar gyfer elfennau digidol a data a nodwyd yn Cymru Iachach. Roedd argymhellion yr adolygiadau hyn wedi llywio penderfyniadau ar gyfluniad iechyd a gofal digidol yn y dyfodol, a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2019. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal, trosglwyddo Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, fframwaith llywodraethu newydd ar gyfer iechyd a gofal digidol, cynllun buddsoddi strategol mewn seilwaith dros nifer o flynyddoedd, a phedwar adolygiad strategol arall.

Asesu costau Trawsnewid Digidol

Ar y lefel strategol, mae ein hasesiad o gostau cyflawni trawsnewid digidol yn seiliedig ar waith gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru, ar gymharu â lefel y buddsoddiad mewn rhannau eraill o'r GIG (a nodir mewn adolygiadau diweddar o drawsnewid digidol yn GIG Lloegr gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Phwyllgor Archwilio Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin), ac asesiad realistig o ba mor gyflym y gellir cynyddu buddsoddiad yng Nghymru.

Mae'r ymateb digidol i COVID wedi dangos sut mae modd targedu trawsnewid yn gyflym iawn, ond mae hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyfyngiadau capasiti yn ein seilwaith darparu digidol. Mae ymrwymiadau Gweinidogol o 2019 ar strwythurau newydd a buddsoddiad ychwanegol yn adlewyrchu'r angen i ddatblygu capasiti ynghyd â chynyddu buddsoddiad, ochr yn ochr â'i gilydd.

Ar y lefel weithredol, mae ein hasesiad o gostau yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau rhaglenni trawsnewid strategol unigol, ac amcangyfrifon o fuddsoddiad mewn seilwaith. Mae'r asesiad hwn yn cael ei adolygu'n barhaus ac mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu blaenoriaethu ar

gyfer buddsoddi mewn seilwaith a thrawsnewid hanfodol, er enghraifft i fynd i'r afael â chapasiti rhwydweithiau ac i ddisodli 'hen' offer a systemau sy'n dal i gael eu defnyddio ar ôl y cyfnod yr oedd bwriad i'w defnyddio.

Ar sail ein hasesiad presennol, rydym yn cynyddu ein cymorth ar gyfer gofal digidol a gofal rhithwir mewn dwy ffordd.

- Byddwn yn dyrannu £10m ychwanegol i gefnogi'r gwaith o sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig newydd GIG Cymru ar gyfer Digidol, a fydd yn cefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau digidol cenedlaethol, gan gynnwys nifer o systemau sy'n hanfodol i'r ymateb i COVID a'r ail-greu ar ei ôl, a hefyd yn cynyddu'r capasiti ar gyfer seilwaith digidol cenedlaethol yn sylweddol. Mae angen hyn i gefnogi mwy o weithio o bell ac ymgynghori rhithwir, ac i gynnal cadernid a seiberddiogelwch ein rhwydweithiau.
- Bydd cyllid trawsnewid drwy'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol yn cynyddu o £50m i £75m, er mwyn cynnal cyflymder a graddfa'r newidiadau digidol rydym wedi'u gweld fel rhan o'r ymateb i COVID, i drawsnewid gwasanaethau sy'n ymateb i COVID i fod yn wasanaethau arferol pan fyddant yn cynnig gwerth parhaol, ac yn benodol fel rhan o adferiad ac ailadeiladu ar ôl COVID.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn hefyd yn datblygu capasiti a gallu'r gweithlu digidol a'n strwythurau darparu digidol, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig digidol newydd, Prif Swyddog Digidol dros iechyd a gofal a swyddfa gefnogol, a symud i drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau newydd ar gyfer iechyd a gofal digidol.

Bydd gweithio gyda dyfeisiau digidol a thechnoleg yn rhan hanfodol o'r ffyrdd newydd o weithio sydd eu hangen ar frys i fynd i'r afael ag ôl-groniadau a rhestrau aros ac i gefnogi'r symud parhaus o'r ysbyty fel y gwelir drwy brosiectau'r Gronfa Trawsnewid sy'n cael eu darparu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cyllid Trawsnewid Digidol

Ers 2019-20 mae'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) wedi blaenoriaethu buddsoddiad i ddechrau i ddisodli seilwaith a dyfeisiau a oedd y tu hwnt i ddiwedd eu hoes, ac i raglenni strategol hanfodol gan gynnwys Rhaglen Gwasanaethau Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), a Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol newydd, a gwelliannau i wasanaethau gwybodeg canser digidol. Mae'r rhan fwyaf o raglenni sy'n cael cyllid DPIF yn rhaglenni buddsoddi strategol dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r DPIF wedi cael ei ddefnyddio'n gyflym i gefnogi elfennau allweddol yr ymateb digidol i COVID, gan gynnwys dyfeisiau symudol, gweithio o bell, ymgynghori dros fideo a chynyddu lled band rhwydwaith. Yn anochel mae hyn wedi effeithio ar faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddi mewn trawsnewid digidol a oedd wedi cael ei gynllunio cyn COVID, gan gynnwys

buddsoddi mewn seilwaith strategol. Er hynny, mae DPIF wedi parhau i gefnogi rhaglenni gweithredol a buddsoddiad hanfodol, ac mae hefyd wedi cefnogi rhai rhaglenni newydd sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID neu'r adferiad ar ei ôl, fel systemau digidol newydd ar gyfer Gofal Dwys, sy'n rhan allweddol o'r ymateb i COVID.

Cyllid ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru / Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r gwasanaeth darparu digidol cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. O fis Ebrill 2021 ymlaen, bwriedir trosglwyddo swyddogaethau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i Awdurdod Iechyd Arbennig newydd GIG Cymru a fydd yn cael ei alw yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'r rhaglen i sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi adolygu costau ychwanegol gweithredu fel Awdurdod Iechyd Arbennig, gan gynnwys er enghraifft cadeirydd ac aelodau bwrdd, cyfarwyddwyr gweithredol, a gorbenion llywodraethu corfforaethol ychwanegol. Mae'r costau Awdurdod Iechyd Arbennig ychwanegol hyn oddeutu £2.0m. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gadarnhau'r gofyniad am gyllid craidd yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau digidol cenedlaethol, gan gynnwys trosglwyddo o fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a seilwaith i gostau refeniw gwasanaethau sy'n cael eu lletya yn y cwmwl a modelau trwydded tanysgrifio.

Rydym yn disgwyl y bydd trawsnewid digidol yn elfen fawr o adferiad COVID drwy gydol 2021 a 2022, fel rhan o newid yn gyflym i ffyrdd newydd o weithio sy'n defnyddio technoleg, data a'r digidol. Rhaid i'r ffyrdd newydd hyn o weithio gyflawni effeithlonrwydd a graddfa i fynd i'r afael ag ôl-groniadau a rhestrau aros. Dylent anelu at leihau cyswllt wyneb yn wyneb a phwysau mewn ysbytai, a bydd angen gwneud hynny heb gynyddu'r galw am staff gofal iechyd. Mae'n bwysig bod gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig digidol newydd ddigon o adnoddau i arwain y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau newydd hyn. Byddwn yn buddsoddi'r cyllid angenrheidiol i sicrhau bod y sefydliad newydd yn cael ei sefydlu gyda dyraniad sylfaenol cylchol sefydlog.

Yr Ymateb Digidol i COVID19

Mae'r ymateb digidol i COVID wedi cael ei gyflawni'n gyflym, gyda nifer o raglenni Cymru gyfan yn cael eu cyflwyno'n genedlaethol mewn cylchoedd o 6-8 wythnos. Mae'r rhain yn cynnwys:

• Gwasanaeth ymgynghori dros fideo i Gymru gyfan, dan arweiniad y Rhaglen Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ac a gefnogir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Ers mis Mawrth, mae dros 86,000 o rith-ymgyngoriadau wedi cael eu cynnal ac mae dros 12,000 o weithwyr proffesiynol wedi cael defnyddio'r gwasanaeth sydd bellach ar gael ar draws dros 100 o arbenigeddau mewn gofal Sylfaenol, Eilaidd a Chymunedol ac mae'n cael ei ymestyn i Ddeintyddiaeth, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg. Mae'r adborth gan y clinigwyr a'r cleifion wedi bod yn gadarnhaol dros ben.

- Mae buddsoddiad sylweddol mewn gweithio symudol a gweithio o bell wedi golygu cymorth i ddyfeisiau, cynyddu lled band rhwydweithiau, capasiti a chadernid, a gwasanaethau gweithio o bell penodol. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno Microsoft Teams ac Office 365 ledled Cymru ym mis Ebrill a mis Mai, a mynediad i' bwrdd gwaith o bell i bob meddyg teulu yng Nghymru. Mae galluogi'r holl staff i weithio o bell wedi galluogi clinigwyr i weithio gartref pan fyddant yn hunanynysu ac mae wedi bod yn sail i'r holl waith partneriaeth agos rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid eraill.

- Cafodd platfform olrhain cysylltiadau digidol ar gyfer Cymru gyfan ei gomisiynu, ei ddatblygu a'i gyflwyno gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru mewn llai na 40 diwrnod ym mis Ebrill a mis Mai ac mae wedi golygu bod timau lleol wedi gallu gweithio gyda'i gilydd fel rhan o system genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau perfformiad gwell o lawr na'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau yn Lloegr.

- Mae platfform brechlyn digidol ar gyfer Cymru gyfan wedi cael ei ddatblygu'n fewnol er mwyn gwella System Imiwneiddio bresennol Cymru (WIS) ac roedd ar waith ddechrau mis Rhagfyr. Ar y diwrnod cyntaf roedd Cymru wedi darparu cyfanswm o 1500 o frechlynnau, i gyd wedi cael eu cofnodi'n ddigidol, o'i gymharu â 5000 yn Lloegr.

- Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i integreiddio gwasanaethau profi digidol Cymru gyfan, gan adeiladu ar Wasanaeth Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru (WLIMS) cenedlaethol presennol. Mae hyn wedi sicrhau bod yr holl brofion sy'n cael eu cynnal yn labordai GIG Cymru yn cael eu cofnodi ar unwaith mewn gwasanaethau olrhain cysylltiadau a bod modd eu cofnodi ar Ap COVID y GIG o'r lansiad, yn wahanol i Loegr, a oedd nifer o wythnosau ar ei hôl hi cyn bod canlyniadau profion y GIG ar gael i ddefnyddwyr yr Ap. Mae Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru hefyd yn sicrhau bod canlyniadau'r holl brofion COVID ar gael i feddygon teulu yng Nghymru fel rhan o'r cofnod iechyd gofal sylfaenol. Cafodd Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru ei uwchraddio'n genedlaethol ddechrau mis Rhagfyr i ddarparu mwy o swyddogaethau a chapasiti, gan ei alluogi i ddelio â mwy o brofion COVID.

Mae'r ymateb digidol i COVID wedi cael ei gyflawni am gost gweddol fach (wrth gymharu â chyfanswm y gwariant ar COVID) sef llai na £30m, gydag oddeutu £10m o hwnnw'n cael ei fuddsoddi mewn dyfeisiau a chyfarpar a fydd yn para am o leiaf 2-3 blynedd. Byddwn yn adeiladu ar yr enghreifftiau hyn o ddefnyddio gwasanaethau digidol yn gyflym ac yn effeithiol ar draws Cymru gyfan fel rhan o'r ymateb i COVID i ysgogi rhagor o drawsnewid digidol i feysydd nad ydynt yn ymwneud â COVID, ac fel rhan o'r adfer a'r ailadeiladu ar ôl COVID.

13. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Gwybodaeth am ddyraniadau cyllideb yn eich portffolio oherwydd bod y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae negodiadau Llywodraeth y DU gyda'r UE ynghylch y berthynas yn y dyfodol wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Nid ydym yn gwbl glir o hyd ynghylch a fydd modd dod i gytundeb erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, nac os felly, beth fydd natur y cytundeb hwnnw. Mae'r cyd-destun hwn o ansicrwydd ynghylch natur ac effaith y berthynas yn y dyfodol wedi parhau i olygu ei bod hi'n heriol iawn cynllunio cyllideb.

Mae Trefniadau Pontio'r UE yn torri ar draws ystod eang o feysydd polisi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n golygu bod gweithgarwch perthnasol yn cael ei brif ffrydio ar draws gwahanol gyllidebau. Felly, nid yw bob amser yn bosibl dadgyfuno cyllid 'Trefniadau Pontio'r UE' penodol o gyllidebau polisi cyffredinol.

Serch hynny, mae rhai rhannau penodol o'r gyllideb sy'n gwneud cyfraniad penodol. Yn ystod y broses o ymadael â'r UE, mae dyraniad cyllideb penodol (£0.260m yn 2020-21) wedi cael ei gynnwys i gefnogi gweithgareddau rhai o'n partneriaid allweddol i sicrhau cyfnod pontio mor ddidrafferth â phosibl ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r dyraniad hwn wedi cael ei ddefnyddio'n fwyaf diweddar i gyllido gweithgareddau yng Nghonffederasiwn GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â diogelwch iechyd ac Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru mewn perthynas â swyddogaethau newydd. Er bod rhai o'r gweithgareddau presennol hyn yn dod i ben yn 2020-21, rydym yn rhagweld y bydd angen inni gadw'r gallu hwn i ariannu prosiectau lle nodir angen penodol.

Mae'r Pwyllgor wedi cael ei friffio ar Drefniadau Pontio'r UE ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar wahanol gamau wrth i'r DU ymadael â'r UE. Rhan bwysig o'r paratoadau hyn oedd sicrhau trefniadau cadarn i sicrhau cyflenwad parhaus o nwyddau critigol (gan gynnwys meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol a Deunyddiau Traul Clinigol - MDCCs) drwy gydol unrhyw gyfnodau posibl o darfu. Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni parhad cyflenwadau ledled y DU lle mae'r rhain yn briodol i Gymru, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyfrannu £0.22m at weithredu'r trefniadau hyn yn 2021/22.

Yn ogystal â'r cymorth tymor byr sydd ei angen i reoli'r newid i berthynas newydd â'r UE, mae blwyddyn 2021/22 yn flwyddyn bwysig o ran gwneud y gorau o'n gallu i ddylanwadu ar bolisïau a rhaglenni yn y dyfodol mewn ffyrdd sydd o fudd i iechyd a lles yng Nghymru. Ar ôl ymadael â'r UE, bydd angen inni gynnal cadwyni cyflenwi cadarn, diogelu pwerau datganoledig, a mynd ar drywydd cyfleoedd newydd sy'n deillio o'r newid yn y berthynas â Llywodraeth y DU a'r UE. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu cadwyn gyflenwi'r GIG a ddylai gefnogi blaenoriaethau clystyrau BBaCh, yr economi sylfaen a'r economi gylchol. Bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltiad y GIG â phrifysgolion a diwydiant i sicrhau cyfleoedd o berthnasoedd

masnachu newydd, Fframweithiau Cyffredin y DU (Bil y Farchnad Fewnol); a sicrhau ein cyfran o gyllid ymchwil y DU ac olynydd cyllid strwythurol yr UE.

Ar wahân i unrhyw gostau datblygu yn y dyfodol, mae'r gyllideb wedi gorfod ystyried costau uniongyrchol y swyddogaethau ychwanegol a gaiff Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o ganlyniad i ymadael â'r UE. Bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg yn 2021-22.

Atodiad A

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Dyddiad: 13eg Ionawr 2021

Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2021-22 a'r Ail Gyllideb Atodol (Hydref 2020).

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
9267.236	8347.301	(919.935)

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ategu'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chorff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd

Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£(842.400)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (2il Atod)
- **£(497.104)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)
- **£75.910m** o gyllid wedi'i ailgyfeirio ar gyfer COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)

Newidiadau MEG i MEG ar gyfer MEG newydd ar MHW&WL

- **£(16.803)m** Cyllidebau wedi'u symud i MEG MHW&WL

Dyraniadau newydd ar gyfer 21-22

- **£10.000m 21-22** dyraniad COVID ar gyfer Olrhain Cysylltiadau
- **£230.000** Twf GIG (oddeutu)
- **£20m** Iechyd Meddwl
- **£81.986m** Dyraniadau eraill y GIG gan gynnwys Genomeg, ATMPs a Gofal Sylfaenol
- **£16.372m –** AaGIC fel rhan o £17.5m ar gyfer y Gweithlu
- **£10.000 -** Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Diogelu Iechyd newydd

Trosglwyddiadau MEG i MEG ar gyfer 21-22

- **£(3.863)m** MEG i MEG

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- **£(4.033) –** addasiadau technegol

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau’r GIG wedi’u Targedu		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
130.818	136.424	5.606

Mae’r cam gweithredu hwn yn cefnogi cyllidebau iechyd amrywiol eraill gan gynnwys Gweithlu’r GIG, *Cymru Iachach* a chyllidebau iechyd eraill.

Esboniad o'r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau’r GIG wedi'u Targedu

Tynnu Addasiadau un-tro yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£(0.5)m** o addasiadau dyraniad COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)
- **£(20.9)m** o ddyraniad incwm gordal mewnfudo yn ystod y flwyddyn
- **£(2.296)m** o addasiadau gwaelodlin ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed ac ymadael a’r UE

Newidiadau MEG i MEG ar gyfer MEG newydd ar MHW&WL

- **£(10.000)m** Cyllidebau wedi’u symud i MEG MHW&WL

Dyraniadau newydd ar gyfer 21-22

- £37.700m – dyraniad ychwanegol i BEL Cymru Iachach

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- £1.554m – addasiadau technegol

Cam Gweithredu: Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
23.542	27.905	4.363

Mae addysg a hyfforddiant yn sylfaenol i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y GIG yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir i gynorthwyo'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy’n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae mwyafrif yr arian yn y cam gweithredu hwn yn talu am y costau ychwanegol a ysgwyddir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru ar gyfer addysgu (cynnal) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Yn

ogystal, mae'n ategu hyfforddi nifer o leoliadau hyfforddi ôl-raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academaidd clinigol. Mae cyllid o fewn y cam gweithredu hwn hefyd yn ategu dyfarniadau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG

Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£3.300m** o gyllid wedi'i ailgyfeirio ar gyfer COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)
- **£(1.047)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)

Dyraniadau newydd ar gyfer 21-22

- **£1.142m** o ddyraniad ychwanegol fel rhan o £17.5m ar gyfer y Gweithlu

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- **£0.968m** Addasiad technegol

Cam Gweithredu: Rhaglenni Iechyd Cyhoeddus		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
22.669	14.941	(7.728)

Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni iechyd cyhoeddus fel Trawsblannu Organau a Meinwe, Imiwneiddio, Taliadau i Public Health England sy'n darparu nifer o wasanaethau diogelu iechyd arbenigol a rhai gwasanaethau labordy cyfeirio i Gymru, Cychwyn Iach a NICE.

Esboniad o'r Newidiadau i Raglenni Iechyd y Cyhoedd

Addasiad Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£0.665m –** o gyllid Covid wedi'i ailgyfeirio (Atod 1af)

Newidiadau MEG i MEG ar gyfer MEG newydd ar MHW&WL

- **£(7.189)m** Cyllidebau wedi'u symud i MEG MHW&WL

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- **£(1.204) – Addasiadau technegol**

Cam Gweithredu: Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd

Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m	Newid £m
6.025	6.025	-

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru yn gwbl barod ac yn gydnerth i ddelio â'r amrywiaeth lawn o beryglon a bygythiadau a nodwyd mewn Asesiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o bandemig ffliw a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Hydref.

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol a Chymorth		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
5.615	4.562	1.053

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau.

Mae'r rhaglen waith ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth Oedolion yn bennaf yn ategu gweithrediad parhaus Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ac yn hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl. Yn 2019-20 bydd gweithredu'r NPP (Gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach) yn flaenoriaeth, gan gynorthwyo Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fwrw ymlaen â hyn, ynghyd â chefnogaeth barhaus i’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae rôl Byrddau Diogelu yn cwmpasu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rolau fel gofalwyr a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ar yr un pryd. Mae hyn yn ganolog i sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth o ddifri wrth gefnogi gofalwyr, ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed gan yr amcangyfrifir bod gofalwyr anffurfiol, di-dâl yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, gofal y byddai'n rhaid ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol fel arall.

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd cyllid i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac yn benodol y Rhaglen Gwella Bywydau i Bobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddir cyllid hefyd i symud ymlaen o fewn y Fframwaith Gweithredu i Bobl sydd â'r Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu Gofal a Chymorth i Bobl sy'n Fyddar neu sy'n Byw gyda Cholled Clyw.

Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol a Chymorth

Tynnu Addasiad a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£(1.053)m** - o ddyraniad COVID yn ystod y flwyddyn (2il Atod)

Cam Gweithredu: Partneriaethau ac Integreiddio		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
0.526	0.526	-

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i gynorthwyo ag integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor ac arweiniad ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn ategu’r gwaith o ystyried ardoll gofal cymdeithasol sy'n cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a chydnerth drwy ystyried dewisiadau i ddarparu'r cyllid a ragwelir yn y dyfodol i ateb y gofynion cynyddol am ofal cymdeithasol sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Hydref.

Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
51.215	12.715	38.500

Mae mwyafrif y Cam Gweithredu hwn yn cyllido'r grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae’r arian yn y Cam Gweithredu hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ategu'r gwaith o gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (RISCA) a gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sy'n cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion yng nghanol yr holl ofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin ymarfer sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cydgynhyrchu, gofal ac atal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymagweddau ymyriadau cynnar.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£(40.195)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)
- **£0.195m** o gyllid wedi'i ailgyfeirio ar gyfer COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)

Dyraniadau newydd ar gyfer 21-22

- **£1.500m** – Dyraniad ar gyfer cymorth 3ydd Sector

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol Cymru		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
19.398	22.613	3.215

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
Cyllidir Gofal Cymdeithasol Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, magu hyder ymysg y gweithlu, ac arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae:

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chynorthwyo'r rhai sydd angen help
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da â'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru

Dyraniad newydd ar gyfer 21-22

- **£2.000m** – Dyraniad newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- **£1.215m** – Addasiadau technegol 20-21

Cam Gweithredu: Comisiynydd Pobl Hŷn		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
1.589	1.589	-

Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, comisiynydd statudol annibynnol. Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd yn cael eu diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008 yn mynnu bod y Comisiynydd yn cynhyrchu ac yn cyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant ei swyddfa, a fydd yn cael ei archwilio gan Weinidogion Cymru a'i gyflwyno gerbron y cynulliad cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Hydref.

Cam Gweithredu: Cymorth i Blant		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**	**Newid £m**
96.359	93.691	(2.668)

Mae mwyafrif y cyllid yn y cam gweithredu hwn yn ategu'r cynnig gofal plant (sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid y cam gweithredu hwn ar gyfer Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cynorthwyo plant sydd wedi eu mabwysiadu i sicrhau bod ganddyn nhw a'u teulu y mynediad angenrheidiol at wasanaethau cymorth i ddechrau eu bywyd teuluol.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cymorth i Blant

Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 20-21

- **£(24.500)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (2il Atod)
- **£(30.000)m** o ddyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)
- **£30.956m** o gyllid wedi'i ailgyfeirio ar gyfer COVID yn ystod y flwyddyn (Atod 1af)

Dyraniadau newydd ar gyfer 21-22

- **£19.876m** – dyraniadau newydd fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft

Trosglwyddiadau MEG i MEG ar gyfer 21-22

- **£1.000m** MEG i MEG, cywiro'r gyllideb gan EPS.

Cam gweithredu: CAFCASS Cymru		
Cyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £m	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £m**	**Newid £m**
12.152	13.652	1.500

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain ar sail galw, sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teulu, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu lles a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.
O'r gyllideb o £10.267 miliwn, mae 92% i'w briodoli i gostau staffio ac 8% i gostau gwasanaethau a seilwaith a gomisiynwyd. Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i gynorthwyo rhieni sydd wedi gwahanu, pan fydd y Llys Teulu yn rhoi cyfarwyddyd iddynt gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu CAFCASS Cymru

Dyraniadau o fewn y MEG ar gyfer 21-22

- **£1.500m** yng nghyswllt cyllid craidd ychwanegol y cytunwyd arno yn 20-21.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – 14 Ionawr 2021

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwario fel Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yng nghyswllt y cyllidebau diwylliant a threftadaeth yn fy mhortffolio. Mae'r cynlluniau gwario'n cael eu gosod yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae'r papur hwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae'r sectorau yn fy mhortffolio wedi wynebu heriau sylweddol eleni o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Bydd rhai o'r heriau hyn yn parhau'r flwyddyn nesaf wrth inni geisio cefnogi ein sectorau i oroesi ac i adfer. Er ein bod wedi canolbwyntio ar yr ymateb iechyd ac economaidd, rydym hefyd wedi mynd ati'n gadarn i sicrhau goroesiad ein diwylliant a'n treftadaeth, ein sefydliadau cenedlaethol a'r cymunedau sy'n eu diogelu a'u meithrin.

Gan gydnabod pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth i wella iechyd a llesiant, yn enwedig fel rhan o'r adferiad ar ôl y pandemig, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein buddsoddiad yn y meysydd hyn ac yn ceisio cynyddu ein buddsoddiad cyfalaf lle bynnag y bo modd.

Mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru a'n cestyll eiconig yn siapio ein hunaniaeth ac yn adrodd hanes Cymru i'r byd. Mae llyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau, safleoedd treftadaeth a lleoliadau celfyddyd ledled Cymru yn galluogi miloedd o bobl i fwynhau ac i ymwneud â'n diwylliant. Maent yn creu ymdeimlad unigryw o le yn ein cymunedau ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg. Mae miloedd o bobl wedi elwa o fynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol. Amgueddfa Cymru yw'r darparwr addysg mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru – mae dros 180,000 o fyfyrwyr ysgol yn mwynhau gweithgareddau addysg bob blwyddyn. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn casglu ac yn gwarchod diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn sicrhau eu bod ar gael i bawb er mwyn iddynt allu dysgu, ymchwilio a mwynhau ac mae'n croesawu tua 2 filiwn o ymwelwyr a defnyddwyr ar-lein. Drwy Cadw, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Bob blwyddyn, bydd dros 2.4 miliwn o bobl yn ymweld â'r 130 o henebion sydd dan ofal y wladwriaeth, ac mae Cadw hefyd yn cefnogi 35,500 o berchnogion a meddianwyr sy'n gofalu am adeiladau a safleoedd hanesyddol ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal â bod yn bwysig ynddo'i hun, mae ein diwylliant yn gwarchod ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae diwylliant yn creu swyddi mewn treftadaeth, adeiladu ac atgyweirio adeiladau traddodiadol, a'r celfyddydau. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal yr 11,500 o fusnesau sydd yn y diwydiant twristiaeth, ac mae'r celfyddydau yng Nghymru yn sail i'n diwydiannau creadigol. Mae ein diwylliant yn ganolog i frand Cymru a hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol drwy'r Strategaeth Ryngwladol.

Mae ein diwydiannau creadigol yn hyrwyddo Cymru ym mhob cwr o'r byd. Mae datblygu sylfaen sgiliau gynaliadwy a datblygu doniau yn flaenoriaeth allweddol i Gymru Greadigol i sicrhau bod unigolion yn

gallu manteisio ar gyfleoedd, gwella llwybrau at yrfaoedd hyfyw a chefnogi rhagor o bobl i gael ac i gadw cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.

Rhaid i'n sefydliadau allweddol oroesi'r argyfwng hwn a rhaid inni gynllunio er mwyn i'n cymunedau a'n sectorau lleol allu dychwelyd yn gadarnhaol ac edrych tua'r dyfodol gyda gobaith. Mae Cadw a'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn cefnogi ein partneriaid cyflenwi – Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru – sydd rhyngddynt yn cyrraedd cynulleidfa enfawr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae arnom hefyd eisiau sicrhau ein bod yn gallu diogelu'r sector yn wyneb heriau ymadael â'r UE ond gan ei gefnogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar yr un pryd. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n bwysig bod y sector yn cael sylw yn y cyswllt hwn, nad yw'n agored i niwed a'i fod wedi'i arfogi i symud ymlaen ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Er bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd gyda brechlynnau a'n bod nawr yn gobeithio y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd ymhen amser, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd a bydd angen i'n cynlluniau fod yn hyblyg 'u bod yn gallu esblygu mewn amgylchiadau sy'n datblygu'n gyflym. Er bod yr adferiad yn allweddol, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru fel newid hinsawdd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, a gwella sgiliau a rhagolygon swyddi. Bydd y rhain yn themâu pwysig wrth i'n cenedl gael ei chefn ati ar ôl effaith y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n hollol ffyddiog y gall diwylliant a threftadaeth helpu'r genedl i ymgodi'n gadarnhaol o'r cyfnod heriol hwn – mae hi'n hollbwysig cryfhau ein synnwyr o hunaniaeth, ein llesiant meddyliol a sicrhau adferiad economaidd y sectorau sy'n ychwanegu mwy o werth ac ystyr i fywydau pob un ohonom.

2.0 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf. Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad manwl o wybodaeth ariannol treftadaeth a diwylliant 2019-20 i 2020-21 fesul Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae rhagor o fanylion am benderfyniadau ynghylch y gyllideb ar gael yn y diweddariadau ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

2.1 Cyllideb Adnoddau

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb adnoddau rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 1** fel a ganlyn:

TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB ADNODDAU (Gan gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol)

Diwylliant a Threftadaeth	Ail Atodol 2019-20 £'000	Addasiad Sylfaenol £'000	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000
Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau	121,566	(50,257)	71,309	1,012	72,321
Cyfryngau a Chyhoeddi	3,730	0	3,730	0	3,730
Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol	15,036	(267)	14,769	1,000	15,769

Cyfanswm yr Adnoddau	**140,332**	**(50,524)**	**89,808**	**2,012**	**91,820**
Pensiwn Cyrff a Noddir	3,013		3,013	10,987	14,000
Cyfanswm AME	**3,013**	**0**	**3,013**	**10,987**	**14,000**
CYFANSWM	**143,345**	**(50,524)**	**92,821**	**12,999**	**105,820**

Addasiadau Sylfaenol

At ei gilydd, mae'r addasiad o £50.524m yn adlewyrchu'r cymorth ychwanegol anghylchol ar gyfer yr adferiad mewn ymateb i'r pandemig, sef £51.5m ac wedi'i wrthbwyso gan £0.976m o ostyngiadau i gefnogi ymyriadau Covid-19.

Roedd y Gyllideb Atodol Gyntaf yn canolbwyntio ar ailgyfeirio cyllidebau presennol i ymateb i'r pandemig ar unwaith. Cafodd y cyfraniad o £0.976m ei wneud drwy dorri 2% oddi ar gyllid Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol a oedd yn rhoi cyfanswm o £0.678m a chyllideb heb ei hymrwymo o £0.298m yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

Roedd yr Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys rhagor o fesurau a gymerwyd i ymateb i'r pandemig gan gynnwys £53m ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol (CRF) i gefnogi ac i gynnal y sector oherwydd heriau parhaus a oedd yn cynnwys £50m o refeniw a £3m o gyfalaf. Ers hynny rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad yn y Gronfa Adferiad Diwylliannol £10m i dros £63m.

Cyhoeddwyd £14m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden er mwyn darparu cynaliadwyedd tymor hirach i'r sector chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys £1.5m ar gyfer darparwyr annibynnol a digwyddiadau chwaraeon a reolir o dan y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

2.2 Newidiadau yn y Gyllideb

Yn 2021-22, mae cyllid ar gyfer y cyrff a noddir a sefydliadau partner yn cael ei gynnal er gwaethaf pwysau sylweddol a helaeth ar y Gyllideb sydd 3.6% yn is mewn termau real nag yn 2010-11. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer pwysau Covid posibl. Mae lefelau incwm masnachol Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn annhebygol o godi i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys rhai buddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o benderfyniadau ariannol ar gyfer y sector treftadaeth a diwylliant yn cael eu hasesu wrth inni ddeall effaith y pandemig yn well, wrth inni ddynesu at y gwanwyn a'r haf ac wrth inni ddechrau gweld effaith cyflwyno brechlynnau. Rhaid cofio bod y swm a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru yng nghyswllt Covid 19 yn is o lawer na'r hyn a ddarparwyd yn 2020-21.

At ei gilydd mae'r newid o £2.012m yn adlewyrchu gofynion ychwanegol nad ydynt yn rhai arian parod ac ailalinio cyllidebau o fewn y portffolio a fydd yn cael eu gwrthbwyso gan ad-daliadau. Mae'r gyllideb adnoddau yn cynnwys £9.383m (£8.103m yn 2020-21) ar gyfer taliadau dibrisiant nad ydynt yn arian parod. Yn 2021-22, mae angen cyllideb ychwanegol heb fod yn arian parod o £1.280m ar gyfer datblygiadau mawr yng nghastell Caernarfon, castell Caerffili a Llys Tretŵr gan Cadw - £1m, a buddsoddiad digidol yn yr Amgueddfeydd Cenedlaethol - £0.280m. Mae'r gyllideb Cymorth i Chwaraeon sef £0.57m hefyd yn cael ei chyfuno yn y Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol i gysoni blaenoriaethau cyflawni. Mae cyfanswm Ad-daliadau Buddsoddi i Arbed o £0.025m ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni yn Amgueddfa Cymru.

Ar ben hynny mae dyraniad o £0.6m ar gael yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol i fwrw ymlaen â gwaith archwiliadol ar gyfer Black Lives Matter.

Ceir hefyd gynnydd o £14m yn y cyllidebau AME i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer unrhyw amrywiad mewn ffioedd pensiwn a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Rhagolwg 2020-21

Mae'r £150.422m o alldro refeniw yn rhagolwg cyffredinol 2020-21 yn **Atodiad A** yn adlewyrchu'r £10m o gyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Bydd hyn yn cael ei weithredu yn y Drydedd Gyllideb Atodol ochr yn ochr ag ailflaenoriaethu £7m o gyllid, yn bennaf i gefnogi gweithwyr llawrydd, o BEL Cyngor Celfyddydau Cymru a fydd yn cael ei reoli gydag ymyriadau yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn bartner gwerthfawr a chydag asesiad cyflym a chadarn, llwyddwyd i ddod o hyd i 222 o sefydliadau i gael cyllid ar unwaith, gan ddiogelu dros 1,800 o swyddi. Mae'r manylion llawn ar gael yn y Datganiad ysgrifenedig. Roedd y dyraniad o £10m yn cynnwys cymorth i'n sefydliadau cenedlaethol i fynd i'r afael ag effeithiau penodol y pandemig Covid: Llyfrgell Genedlaethol Cymru £0.25m; Amgueddfa Cymru £0.3m a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru £0.24m.

Alldro Terfynol 2019-20

Roedd ffigurau alldro terfynol 2019-20 yn weddol debyg i'r gyllideb gyda rhywfaint o ailflaenoriaethu yn y portffolio a'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg ehangach.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £14m yn cefnogi'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer unrhyw ffioedd pensiwn a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

2.3 Cyllideb Cyfalaf

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb cyfalaf rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 2** fel a ganlyn:

TABL 2: TROSOLWG O'R GYLLIDEB CYFALAF

Diwylliant a Threftadaeth	Ail Atodol 2019-20 £'000	Addasiad Sylfaenol £'000	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000
Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau	17,816	(3,000)	14,816	2,570	17,386
Cyfryngau a Chyhoeddi	780	0	780	(750)	30
Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol	5,241	3,700	8,941	180	9,121
CYFANSWM	**23,837**	**700**	**24,537**	**2,000**	**26,537**

Addasiadau Sylfaenol:

Mae'r Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys £3m o gyllid cyfalaf sydd wedi'i gynnwys yn y £53m ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gefnogi ac i gynnal y sector o ganlyniad i'r heriau parhaus. Roedd effaith y pandemig wedi gohirio datblygiadau mawr yng nghastell Caerffili, Llys Tretŵr a chastell Caernarfon

felly cafodd £3.7m ei ddychwelyd i'r cronfeydd i gael eu hailflaenoriaethu. Mae'r symudiad net yn ostyngiad o £0.7m.

Newidiadau yn y Gyllideb

Yn 2021-22, mae buddsoddiad cyfalaf wedi cynyddu 8% o'i gymharu â 2020-21. Mae crynodeb o'r newidiadau yn **Nhabl 3** fel a ganlyn:

TABL 3: NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB CYFALAF

Sefydliad	Dyraniad Prosiect 2020-21 £'000	Dyraniad 2021-22 £'000	Newid £'00	Blaenoriaethau Buddsoddi
Amgueddfa Cymru	350	1,000	650	Datgarboneiddio a datblygiadau digidol *2020-21 - System rheoli cysylltiadau cwsmeriaid*
Llyfrgell Genedlaethol	400	500	100	Datgarboneiddio a datblygiadau digidol *2020-21 - gweinyddion a system TG*
Cyngor Celfyddydau Cymru	400	1,220	820	2021-22 - Datblygu Theatr Clwyd *2020-21 - Buddsoddi mewn prosiectau celfyddydol*
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	100	280	180	Buddsoddi mewn bioamrywiaeth *2020-21 - Cyllid effeithlonrwydd ynni*
Cymru Greadigol	0	1,000	1,000	Datblygiadau ar y gweill
Cyngor Llyfrau Cymru	750	0	(750)	*2020-21 - System weithredu TG a dosbarthu integredig newydd*
CYFANSWM	**2,000**	**4,000**	**2,000**	

Mae buddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor ein sefydliadau cenedlaethol yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth i benderfyniadau'r gyllideb er mwyn cyflawni Cymru Carbon Isel a bydd yn golygu bod y sefydliadau'n gallu mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, yn enwedig allyriadau CO2 ac effeithlonrwydd ynni.

Mae diwylliant yn rhan annatod o lesiant meddyliol. Yn ystod yr ynysu oherwydd y pandemig, fe wnaeth y sefydliadau addasu a hyrwyddo'r casgliadau'n ddigidol er mwyn i unigolion allu mwynhau diwylliant a threftadaeth gartref. Bydd y cyllidebau cyfalaf yn golygu bod modd buddsoddi rhagor mewn technoleg er mwyn adfer a chynnig mynediad ehangach.

Bydd y buddsoddiad cyfalaf o £4.197m yn Amgueddfa Cymru yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol y busnes ar gyfer y systemau gwresogi ac awyru er mwyn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni. Bydd y buddsoddiad hefyd yn galluogi'r Amgueddfa i barhau i warchod trysorau'r genedl ac ymestyn y cynnig ar gyfer digideiddio o bell a manteisio ar y cyfleoedd a ganfuwyd yn ystod y pandemig. Bydd hefyd yn cefnogi'r paratoadau ar gyfer ailddatblygu amgueddfa lechi Llanberis.

Gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal ein llyfrgell hanesyddol genedlaethol, rydym wedi cynyddu'r gyllideb gyfalaf i £3.195m a fydd yn targedu buddsoddiad i adnewyddu offer a chyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, uwchraddio goleuadau, seilwaith TGCh a gosod paneli solar. Bydd yn golygu bod modd integreiddio'n well a bydd yn gwella'r cadernid i'r hirdymor. Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi'r rhaglen ddigideiddio at ddibenion sy'n amrywio o ymchwil ysgolheigaidd i therapi hel atgofion i bobl sydd â dementia.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner allweddol o ran buddsoddi mewn diwylliant a'r celfyddydau. Cyfanswm y gyllideb yn 2021-22 yw £1.575m. Mae'r £1.22m ychwanegol yn 2021-22 (£1.8m yn 2020-21) yn rhan o'r gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer datblygu Theatr Clwyd. O'r £3m a drosglwyddwyd o MEG yr Economi a Thrafnidiaeth, a fydd yn cael ei weithredu yn y Drydedd Gyllideb Atodol, mae proffil y prosiect wedi cael ei newid a bydd yn cael ei reoli drwy gyflymu'r gwariant ar gyfer chwaraeon a diwylliant.

Mae cynyddu'r buddsoddiad yn y brand Cymru Greadigol cryf i £6.989m yn cefnogi'r strategaeth ryngwladol o ran codi proffil Cymru i'r byd, nid yn unig fel canolfan o ragoriaeth greadigol, ond fel lle gwych ar gyfer ymweld a byw. Mae buddsoddiad creadigol a diwylliannol yn hanfodol ar gyfer adfywio ledled Cymru ac mae'r cyllid yn cefnogi cynyrchiadau a mentrau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae lefel y buddsoddiad newydd o £0.375m yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn dangos yr ymrwymiad i hyrwyddo bioamrywiaeth, datblygu cynaliadwy, ymchwil a chadwraeth, a dysgu gydol oes.

2.4 Rhagolwg 2020-21

Alldro cyfalaf cyffredinol 2020-21 sef £26.337m o'i gymharu â £23.837m yn yr Ail Gyllideb Atodol yn **Atodiad A**, gan adlewyrchu'r gwariant ychwanegol ar Theatr Clwyd.

2.5 Alldro Terfynol 2019-20

Roedd ffigurau alldro terfynol 2019-20 yn weddol debyg i'r gyllideb gyda rhywfaint o ailflaenoriaethu yn y portffolio, yn bennaf ar gyfer buddsoddi yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru a'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg ehangach.

2.6 Rhagolwg 2020-21

Mae'r alldro cyfalaf cyffredinol yn 2020-21 o £26.387m yn **Atodiad A** yn adlewyrchu'r £1.8m o gyllid ychwanegol ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd (£1.22m arall yn 2021-22), cyflymu datblygiadau digidol gwerth £0.7m yn Amgueddfa Cymru ac addasiadau amrywiol. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn y Drydedd Gyllideb Atodol.

3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

3.1 Gwybodaeth am sut mae cyflawni'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a'i ganlyniadau cysylltiedig yn cael ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.

Nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob sefydliad partner yn eu llythyrau cylch gwaith. Maent yn defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer eu cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Mae fy swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn mewn cyfarfodydd

monitro chwarterol a chyfarfodydd eraill, fel y cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda Phrif Swyddogion Gweithredol ac mae presenoldeb swyddogion mewn cyfarfodydd y Bwrdd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gadw mewn cysylltiad agos drwy gydol y flwyddyn.

3.2 Manylion polisïau neu raglenni penodol o fewn y MEGs perthnasol (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

Tlodi: Rhaglen Cyfuno

Nod y rhaglen Cyfuno yw mynd i'r afael â materion tlodi a llesiant drwy weithgareddau diwylliannol. Mae wedi parhau i hybu ymgysylltiad â chymunedau gan gynnig atebion arloesol a phwrpasol i ymgysylltu ag unigolion a chymunedau, drwy ddefnyddio adnoddau digidol a darparu pecynnau o wybodaeth ddiwylliannol. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig achubiaeth ddiwylliannol i unigolion ac i gymunedau er mwyn gwella effeithiau tlodi, iechyd a llesiant.

Mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (fel gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) roi hwb i sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyhead, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu anfantais economaidd.

Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth i barhau i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno a'i gwaith o ymgysylltu ag unigolion a chymunedau mewn ardaloedd difreintiedig. Er gwaethaf yr anawsterau a gafwyd yn ystod y pandemig, mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn ddyfeisgar o ran dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu a hybu gweithgareddau diwylliannol. Cafodd llawer o arian ei ailgyfeirio o gyllideb Cyfuno yn 2020-21 er mwyn cefnogi'r ymdrech yn erbyn Covid. Cafodd Cyfuno £215k o refeniw a oedd £215k yn is na'r gyllideb gychwynnol y flwyddyn honno. Bydd cyllideb ddiwygiedig Cyfuno ar gyfer 2021-22 sef £430k yn cynnwys y bwriad i ehangu'r rhwydwaith cydlynwyr, gwerthusiad annibynnol a phrosiectau digidol fel rhan o'r ymrwymiad i adolygiad CWLC "minnau hefyd" o'r rhaglen Cyfuno.

Iechyd meddwl

Dros y genhedlaeth ddiwethaf, bu newid o fodel meddygol o iechyd i un sy'n cydnabod rôl a phwysigrwydd cymunedau ym maes iechyd. Mae'r portffolio'n cefnogi cymunedau iach, a llefydd iach drwy gyfleoedd i wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, a hefyd drwy gefnogi cyfleusterau cymunedol lleol fel llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth.

Ceir tystiolaeth dda bellach i gefnogi effeithiau cadarnhaol cymryd rhan yn y celfyddydau ar iechyd meddwl. Roedd adolygiadau llenyddiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru Celfyddydau a Diwylliant ym maes Cyfiawnder Troseddol a Llesiant yn nodi canlyniadau corfforol a seicolegol cadarnhaol i gleifion o ganlyniad i ymyriadau cerddoriaeth mewn amrywiaeth o leoliadau ysbyty.

Roedd ein hastudiaeth ddiweddar ein hunain ar y dirwedd celfyddydau ac iechyd yng Nghymru wedi dod o hyd i fwy na 200 o brosiectau ar hyd a lled y wlad sy'n effeithiol o ran atal salwch, helpu i gadw iechyd meddwl a chorfforol da a helpu pobl i wella. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi adnewyddu ei ymrwymiad i Gonffederasiwn GIG Cymru i godi ymwybyddiaeth o fanteision y celfyddydau i iechyd a llesiant pobl ac i wreiddio mentrau celfyddydau ac iechyd ar draws y GIG yng Nghymru. Roedd gwerthusiad 2018 o'r cynllun Bancio amser (mae Cadw yn cymryd rhan ynddo) yn dangos bod ansawdd bywyd cyffredinol wedi gwella i 83% o'r rheini a oedd wedi cymryd rhan ac roedd 52% yn teimlo'n llai ynysig ac unig.

Casgliad y Werin Cymru

Byddwn yn parhau i gefnogi rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflwyno drwy bartneriaeth wedi'i ffedereiddio o dri chorff a noddir: Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r rhaglen yn annog, yn grymuso ac yn cefnogi unigolion a grwpiau cymunedol i greu ac i lwytho eu cynnwys digidol eu hunain i fyny i wefan Casgliad y Werin Cymru, ochr yn ochr â deunydd sy'n cael ei roi gan y prif bartneriaid a sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol eraill. Mae adolygiad deng mlynedd o'r rhaglen wedi cael ei gwblhau yn 2020, ac mae'r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o sicrhau bod model, llwyfan ac allbynnau'r rhaglen yn addas i'r diben. Mae ein cyllideb i gefnogi'r gweithgarwch hwn yn 2021-22 yn £350k o gyllid refeniw ac yn £50k o gyllid cyfalaf.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Byddwn yn cynnal £594k o gyllid refeniw ac yn cynyddu'r buddsoddiad cyfalaf £280k ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn 2021-22. Mae'r cyllid yn cefnogi cenhadaeth graidd yr ardd, sef ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ei hymwelwyr.

Mae'r ardd yn dal i anelu at gyflawni sylfaen ariannol a masnachol gref gydag incwm gan ymwelwyr, gweithgareddau corfforaethol a chodi arian a mentrau masnachol newydd i hwyluso'r gwaith o gyflawni ei chenhadaeth.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o fentrau, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau ar gyfer y rheini sydd mewn addysg bellach ac uwch, darparu gweithgareddau therapiwtig ac adsefydlu sy'n gysylltiedig â garddwriaeth a natur drwy weithio gyda byrddau iechyd lleol, a gweithgareddau cadwraeth ac ymchwil i gynnal ac i wella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach a gweithredol.

3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai effeithio ar y flwyddyn ariannol 2021-22 fel sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth newydd sy'n galw am ddarpariaeth yn y gyllideb yn 2021-22.

3.4 Goblygiadau oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE ar y portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a sut bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw effaith a ragwelir.

Mae'r portffolio wedi elwa'n fawr dros y blynyddoedd o ganlyniad i gyllid yr UE ar gyfer rhai prosiectau. Ar gyfer Cadw, dim ond ychydig o gyllid sydd wedi'i sicrhau mewn blynyddoedd diweddar iawn; ond yn fwy cyffredinol, disgwylir eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch i ba raddau y bydd y llinellau sylfaenol yn cael eu cynyddu i ddisodli cyllid yr UE, a sut bydd y trefniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio.

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai'r hyn a fyddai'n disodli'r rhaglen Ewrop Greadigol yn elwa o gyllid uniongyrchol fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid yw'r elfen Diwylliant wedi cael ei chefnogi'n uniongyrchol, fodd bynnag mae'r elfen ffilm a sgrin greadigol wedi cael ei chefnogi. Mae cyfleoedd yn dal ar gael i ddefnyddio cronfa gyfyngedig iawn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cynigion Llywodraeth y DU yn gryf ar gyfer mudo yn y dyfodol. Yn ystod pandemig COVID-19 a'r argyfwng economaidd a ddaeth i'r amlwg, taflwyd goleuni ar y ddibyniaeth ar weithwyr sy'n dod yn wreiddiol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen hanfodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn glir nad yw'n bwriadu newid amseriad na chynnwys ei system yn y dyfodol o ganlyniad i'r tarfu a achosir gan COVID-19. Roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn rhwym yn yr amgylchiadau hyn i ymgysylltu â datblygu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder Gweithwyr Cymru (SOL) er mwyn adlewyrchu, hyd eithaf ein gallu ar hyn o bryd, y gofynion sgiliau sydd yn economi Cymru ar hyn o bryd. Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i gynnwys dim ond gwaith NQF lefel 3 neu uwch fel gwaith 'medrus', mae ein hystyriaeth ni hefyd yn cynnwys bylchau sgiliau o dan y trothwy hwn.

3.5 Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effaith ariannol y pandemig ar feysydd yn y portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth (o ran costau uwch ac incwm is) a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb.

Mae cyllidebau refeniw wedi cael eu cynnal ar gyfer 2021-22. Er bod yr effeithiau niweidiol yn debygol o barhau o ganlyniad i'r pandemig, ni ellir mesur yr effaith ariannol yn gywir. Felly nid oes dyraniadau ychwanegol yn y Gyllideb ddrafft, ond mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus a bydd asesiad yn cael ei gynnal o'r sectorau treftadaeth a diwylliant er mwyn ystyried rhagor o gyllid ar draws portffolios wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar lefelau incwm masnachol Cadw yn 2020-21. Mae disgwyl y bydd yr effaith yn parhau yn 2021-22. Er y dylai darparu brechlynnau helpu, mae'n dal yn debygol y bydd effaith sylweddol ar y sefyllfa gyffredinol o ran incwm masnachol ar gyfer y flwyddyn gan fod cyfran fawr o'r incwm yn cael ei chynhyrchu yn ystod y gwanwyn a'r haf, cyn i'r rhaglen frechu gael effaith lawn. Bydd Cadw yn parhau i ymdrechu i gynyddu ei lefelau incwm masnachol, yng nghyd-destun y cyfyngiadau hyn. Yn yr un modd, bu effaith ddifrifol ar y sector treftadaeth drwyddo draw eleni. Darparwyd rhywfaint o gymorth yn 2020-21 drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ogystal â'r cynllun ffyrlo, ond hyd yn oed i'r sefydliadau hynny sy'n goroesi, bydd yr adferiad yn anodd ac yn cymryd amser.

Mae ystadegau swyddogol yn dangos maint gwerth economaidd a rôl bwysig y sectorau diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd cyn pandemig Covid-19 yn dangos bod Gwerth Ychwanegol Gros y diwydiannau creadigol a'r sectorau diwylliannol yng Nghymru yn £1.5bn[1] (£1,018m a £493m, yn y drefn honno). Ar ben hynny, mae'r sectorau hyn yn cyflogi tua 85,000 o bobl yng Nghymru, ac mae 38,000 ohonynt (45%) yn hunangyflogedig[2], ac mewn perygl ychwanegol o ganlyniad i effeithiau economaidd negyddol y feirws. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys canran uwch o weithwyr hunangyflogedig wrth gymharu â nifer y bobl hunangyflogedig yng ngweithlu'r DU drwyddo draw (15.1%)[3]. Ar ben hynny, mae oddeutu 8,000 o fusnesau wedi cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru sy'n gweithredu yn y sectorau hyn[4].

Mae tystiolaeth yn dechrau datgelu graddfa effeithiau negyddol posibl y pandemig. Rydym yn gwybod bod y dirywiad hwn mewn cyflogaeth yn effeithio'n wael iawn ar y rheini sy'n gweithio yn y sectorau diwylliant a chelfyddydau'n benodol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal arolwg o fusnesau yn y DU i ddeall effaith COVID-19 ar sectorau[5]. Mae ymatebion gan 361 o fusnesau

[1] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2018: Gwerth ychwanegol gros rhanbarthol
[2] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2019: Cyflogaeth
[3] Tueddiadau mewn hunangyflogaeth yn y DU: Dadansoddi nodweddion, incwm a chyfoeth pobl hunangyflogedig.
[4] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2018: Demograffeg Busnesau
[5] Canlyniadau Arolwg Effaith COVID-19 ar Fusnesau (BICS)

celfyddydau, adloniant a hamdden wedi'u cynnwys mewn ton ddiweddar (19/10/2020 – 01/11/2020). O'r busnesau hynny yn y sector hwn a holwyd, dywedodd 31% fod yr elw wedi gostwng dros 50% yn ystod y pythefnos diwethaf, a dywedodd 17% fod gostyngiad o rhwng 20% a 50%. Dywedodd 40% o fusnesau yn y sector hwn eu bod yn hyderus iawn y byddai eu busnes yn goroesi dros y tri mis nesaf, a oedd 10% yn uwch na thon flaenorol yr arolwg. Fodd bynnag, dywedodd 10% o fusnesau nad oedd ganddynt lawer o hyder neu ddim hyder o gwbl y byddai eu busnes yn goroesi'r 3 mis nesaf. Dywedodd busnesau yn y sectorau hyn fod 33.6% o'r staff ar ffyrlo rhannol neu lawn – mae'r ffigur hwn yn uwch na'r 14 dosbarthiad diwydiant arall.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[6] yn nodi bod y 'sgytwad diwylliant' hwn wedi effeithio ar y diwydiannau diwylliannol a chreadigol ym mhedwar ban byd. Maen nhw'n dweud mai sectorau sy'n seiliedig ar leoliadau (amgueddfeydd, celfyddydau perfformio ac ati) yw'r rhai sy'n cael eu taro galetaf gan fesurau cadw pellter cymdeithasol a bod gostyngiad sydyn mewn refeniw wedi arwain at lai o enillion cyflogau a dileu swyddi yn y sector, sydd wedyn yn effeithio ar gadwyn gwerth cyflenwyr. Heb gymorth ymatebol cyhoeddus a strategaethau adfer, bydd lleihau'r sectorau diwylliannol a chreadigol yn effeithio'n negyddol ar ddinasoedd a rhanbarthau o ran swyddi a refeniw, lefelau arloesi, llesiant dinasyddion a pha mor fywiog ac amrywiol yw cymunedau.

Fodd bynnag, nid dim ond colled economaidd fydd hon. Gwelir gwerth llawn y sectorau diwylliant a chelfyddydau drwy eu heffeithiau ehangach. Mae gweithgareddau'r sectorau hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig a thrawsbynciol at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan wrth ragweld a fydd rhywun yn dweud a yw eu llesiant yn dda ai peidio, gan fod y rheini sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol 23% yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn ar fywyd[7]. Mae sefydliadau a chyrff diwylliannol hefyd yn helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chefnogi gwirfoddolwyr[8], gweithredu fel hybiau addysg a darparu sesiynau dysgu ffurfiol[9], a chefnogi'r system cyfiawnder troseddol[10].

3.6 Manylion lle'r oedd cyllid wedi'i ddyrannu'n flaenorol i'r portffolios Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth ond sydd wedi cael eu ailflaenoriaethu oherwydd cyfyngiadau ar weithgarwch oherwydd y pandemig.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd i'r rheini sy'n gweithio yn y sector diwylliant a threftadaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £63m sy'n cael ei rheoli yn 2020-21. Mae hon yn sefyllfa sy'n datblygu ac mae'r amserlenni ar gyfer adfer yn aneglur ac yn ansicr. Rydym yn bwriadu darparu cyllid ychwanegol ar gyfer adfer yn 2021-22 ond ar y cam cynnar hwn nid ydym wedi penderfynu ar y raddfa na'r dull gweithredu.

Meysydd penodol

Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol a Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol

3.7 Dyraniadau a sylwadau ynghylch gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

[6] Culture Shock: COVID-19 and the cultural and creative sectors
[7] Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant
[8] A review of the Social Impacts of Culture and Sport
[9] Spotlite ar Amgueddfeydd 2016: Adroddiad i'r Is-Adran Amgueddfeydd,

Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
[10] Arts and culture in health and wellbeing and in the criminal justice system: A summary of evidence

Roedd gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i fod i bara pum mlynedd rhwng 2016 a 2021. Bydd gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer ei gweithredu felly'n dod i ben yn 2020-21. Er y bydd rhywfaint o gostau blynyddol yn dal yn gysylltiedig â'r Ddeddf, byddwn wedi symud o'n cam gweithredu arfaethedig a bydd unrhyw gostau'n cael eu cyfrif fel gwariant arferol o gyllidebau arferol Cadw.

Cadw

3.8 Dyraniadau a sylwadau yng nghyswllt Cadw gan gynnwys targedau cynhyrchu refeniw, a ffigurau cynhyrchu incwm blynyddol diweddar.

Mae'r incwm wedi cynyddu'n sylweddol iawn ers 2013-14 pan roedd yn £4.8m. Mae hyn wedi deillio o nifer o gynlluniau i ddenu rhagor o ymwelwyr i safleoedd, gan gynnwys buddsoddi yn y cyfleusterau, ynghyd â chynnydd mewn prisiau. Y ffigur incwm terfynol ar gyfer 2019-20 oedd £8.0m – record i Cadw. Cyn y pandemig, a oedd yn ein gorfodi i gau safleoedd ar 17 Mawrth, roeddem ar y trywydd iawn i ragori ar y ffigur incwm a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn a sicrhau ffigur o oddeutu £8.2m.

Roedd cyllideb incwm 2020-21 yn £8.5m. Fodd bynnag, mae'n anochel bod y pandemig wedi cael effaith enfawr, gyda safleoedd naill ai ar gau, neu ar agor ond gyda niferoedd cyfyngedig o ymwelwyr o ganlyniad i'r angen i gadw pellter cymdeithasol, a hefyd oherwydd cyfyngiadau symud a chyfyngiadau teithio lleol. Mae'r rhagolwg diweddaraf yn £1.4m, ac mae cyflawni hyd yn oed y ffigur hwn yn dibynnu ar allu agor safleoedd ym mis Chwefror a mis Mawrth yn benodol, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu fel arfer.

Bydd prisiau'n cael eu cadw ar lefelau 2020-21 yn 2021-22. Fodd bynnag, un agwedd gadarnhaol yw bod nifer yr aelodau wedi cynyddu ychydig. Roedd disgownt yn cael ei gynnig i aelodau o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'r nifer sydd wedi adnewyddu eu haelodaeth wedi aros yn weddol sefydlog, ac mae aelodau newydd wedi ymuno. Dylai hyn helpu lefelau incwm yn y dyfodol, ar yr amod bod aelodau'n adnewyddu ar y gyfradd lawn, wrth inni ddod drwy effeithiau'r pandemig.

Dyrannwyd cyfalaf ychwanegol o £10.1m i Cadw yn ystod 2018-19 i 2021-22 er mwyn buddsoddi mewn safleoedd i ddatblygu profiad yr ymwelwyr a chynyddu lefelau incwm yn y dyfodol. Mae cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r cestyll yng Nghaerffili a Chaernarfon bellach yn cael eu rhoi ar waith.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio dros amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i warchod yn dda i Gymru. Mae'n gofalu am 130 o henebion ledled Cymru ac yn darparu mynediad i'r cyhoedd at yr henebion hynny. Mae 29 o'r rhain yn safleoedd sydd â staff ac mae'r gweddill yn safleoedd mynediad agored am ddim. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.

3.9 Dyraniadau tuag at gyllid ar gyfer perchnogion asedau hanesyddol

Mae dros 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eiddo preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny'n gofalu'n gydwybodol am eu heiddo, sy'n etifeddiaeth werthfawr i genedlaethau heddiw ac yfory.

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod eang o ganllawiau a chyfeiriadau ynghylch y cyllid grant sydd ar gael ac mae modd eu llwytho i lawr am ddim o wefan Cadw. Mae fy swyddogion Cadw bob amser yn fodlon rhoi cyngor ar ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol, ond cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymholiadau penodol sy'n ymwneud â rheoli adeiladau

rhestredig. Fodd bynnag, os bydd gwaith arfaethedig neu faterion eraill yn codi cwestiynau anodd, mae fy swyddogion yn fodlon cynnig cyngor mewn trafodaethau cyn ymgeisio sy'n cynnwys pob parti.

Nid yw rhestru adeilad neu restru heneb yn rhoi unrhyw hawl i gael cymorth grant. Yn yr un modd â gydag unrhyw adeilad, y perchennog sy'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant sy'n seiliedig ar amcanion craidd ein strategaeth genedlaethol – *Ffyniant i Bawb*. Bydd penderfyniadau ynghylch gwerth am arian yn cael eu gwneud ynghylch amcangyfrifon wedi'u costio a gyflwynir gan yr ymgeisydd ac a fydd yn cael eu hasesu gan Arolygwyr Cadw.

Mae Cadw yn cynnig y cynlluniau grant cyfalaf canlynol:

- **Grantiau Adeiladau Rhestredig**

  Ar hyn o bryd mae Cadw yn blaenoriaethu grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol rhestredig fel neuaddau pentref a chymunedol, sefydliadau, llyfrgelloedd a mannau addoli hanesyddol sy'n agored i'w defnyddio'n ehangach yn y gymuned. Fel rheol bydd adeiladau cymwys yn cynnwys asedau cymunedol rhestredig sydd mewn perygl, cynlluniau sy'n cynnig mynediad gwell i'r cyhoedd a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddi, a chynlluniau sy'n darparu manteision i gymunedau neu sy'n ysgogi cyfleoedd adfywio.

  Fel arfer, ni fydd eiddo preswyl sy'n eiddo preifat yn gymwys, gan eu bod yn tueddu i beidio â darparu'r manteision ehangaf posibl fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol.

- **Grantiau Henebion Hynafol**
  Mae henebion hynafol yn gallu amrywio o siambrau claddu Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol. Mae nifer yn agored i niwed ac rydym yn cydnabod y gallai'r gwaith atgyweirio fod yn ddrud neu efallai nad yw bob amser er budd ariannol perchennog yr heneb.

  Byddwn yn ystyried ceisiadau grant am waith cadwraeth, cynnal a chadw a rheoli henebion hynafol. Ystyrir mynediad i'r cyhoedd a dehongli henebion hefyd. Bydd yr union waith yn amrywio gan ddibynnu ar a yw'r heneb yn olion castell cerrig neu'n heneb maes, fel gwrthglawdd cynhanes.

  Bydd ceisiadau am grantiau yn cael eu hasesu yn ôl meini prawf, gan gynnwys pa mor angenrheidiol a brys yw'r gwaith, pa mor briodol yw'r cynigion, hyd a lled yr effaith ddisgwyliedig, gwerth arian cyfatebol a lefel y manteision i'r gymuned. Mae manteision ehangach i'r gymuned mae modd eu cyflawni drwy brosiectau cadwraeth yn cynnwys darparu dehongliad, cynnal diwrnodau agored neu gymryd rhan mewn digwyddiadau drysau agored, darparu cyfleoedd hyfforddiant a chynnwys gwirfoddolwyr. Byddem hefyd yn disgwyl bod mynediad rhesymol i'r cyhoedd yn cael ei gynnig i'r safle.

  Yn 2020-21, rhagwelir y bydd y gwariant cyfalaf ar y rhaglenni grant hyn yn £0.7m. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021-22 yn cael ei chynyddu i £1.1m

<u>Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>

3.10 Dyraniadau a sylwadau ynghylch Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw dargedau cynhyrchu refeniw.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru ill dwy yn sefydliadau diwylliannol uchel

eu proffil. Mae'r naill a'r llall yn mynd ati'n rhagweithiol i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth a chynnwys pobl Cymru mewn gweithgareddau diwylliannol ac maent yn gwneud gwaith pwysig hefyd drwy hyrwyddo diwylliant Cymru yn rhyngwladol.

Rydym wedi gallu cynnal cyllidebau refeniw'r ddau sefydliad cenedlaethol hyn yn 2021-22. Mae'r naill sefydliad a'r llall yn cydnabod bod dewisiadau cyllido'n gyfyngedig i Lywodraeth Cymru wrth iddi orfod rheoli pandemig Covid-19 ynghyd â chaledi parhaus.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad Pwrpasol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf, a byddwn yn gweithio gyda'r Llyfrgell i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Targed cynhyrchu incwm blynyddol masnachol y Llyfrgell Genedlaethol yw £0.7m a tharged gros yr Amgueddfa yw £5.5m, gyda tharged net o £1.3m. Mae'r Llyfrgell yn llwyddo i ddenu llawer o roddion elusennol a chymynroddion, ond mae'r targed i gynhyrchu incwm masnachol yn fwy heriol, gyda llai o ddewisiadau ar y safle i gynhyrchu refeniw wrth gymharu â'r Amgueddfa gyda'i siopau a'i chaffis ar draws saith safle.

Mae cynnig mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru yn dal yn ymrwymiad. Mae hwn yn bolisi pwysig o ran chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl o gefndiroedd difreintiedig a/neu bobl ar incwm isel rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Mae hefyd yn annog pobl i ymweld eto ac yn annog cymunedau i ddefnyddio safleoedd a chyfleusterau Amgueddfa Cymru.

Bydd cyfanswm y cyllid cyfalaf sef £7.392m yn 2021-22 yn cefnogi datgarboneiddio a blaenoriaethau digidol ac yn helpu i fynd i'r afael â heriau gweithredu mewn adeiladau hanesyddol, yr angen i gadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel, a'r gofyniad i ddarparu mynediad parhaus a diogel i'r cyhoedd tra bydd gwaith cynnal a chadw yn parhau. Mae'n rhaid i Amgueddfa Cymru reoli'r heriau hyn ar draws saith safle gwahanol. Mae cyllid cyfalaf cynnal a chadw'n golygu mwy na dim ond datrys problemau sydd eisoes yn bodoli – er bod ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfalaf ar hyn o bryd. Mae'n golygu cefnogi ffrydiau gwaith a fydd yn gwella'r profiad i ymwelwyr ac yn cynyddu gallu'r cyrff i gynhyrchu refeniw ychwanegol o'r mannau cyhoeddus sydd wedi cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio.

Mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru rôl genedlaethol flaenllaw o ran datblygu gwerthfawrogiad o amgylchedd archaeolegol, adeiledig a morol Cymru. Mae'r Comisiwn yn gofalu am gasgliad enfawr ac unigryw o ffotograffau, mapiau, delweddau, cyhoeddiadau ac adroddiadau. Mae hyn yn cael ei wneud gan dîm o staff arbenigol a darperir cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o ansawdd uchel sydd ar gael yn rhwydd i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn cynnal cyfanswm ei gyllideb sef £1.799m yn 2021-22.

Mae'r tri sefydliad hyn yn rhan o Bartneriaeth Cymru Hanesyddol. O ystyried y pwysau eithriadol ar ein cyllideb refeniw, bydd angen hyd yn oed rhagor o gydweithio yn 2021/22 rhwng yr holl gyrff ym mhartneriaeth Cymru Hanesyddol i archwilio pa arbedion effeithlonrwydd y gellir eu sicrhau drwy gydweithio effeithiol: drwy bartneriaethau masnachol a phosibilrwydd rhannu swyddogaethau rheoli cefn swyddfa.

Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

3.11 Dyraniadau a sylwadau ynghylch y Strategaethau Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau.

Bydd cyfanswm y cyllid sef £3.467m yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol yn 2021-22 yn cefnogi llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau i gyflawni ein blaenoriaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar ehangu cyfranogiad, gwella iechyd a llesiant, mynd i'r afael ag unigrwydd a rhoi hwb i sgiliau i'r rheini sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig – gan gyfrannu at gyflogadwyedd, ymgysylltu â phobl ifanc a'u grymuso, a chefnogi'r blynyddoedd cynnar drwy ddysgu fel teulu a mentrau llythrennedd a darllen wedi'u targedu.

Byddwn yn parhau i gefnogi ein gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i ddarparu ar gyfer eu cymunedau lleol gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu adnoddau digidol i ehangu mynediad i'r rheini nad ydynt yn gallu ymweld. Mae Covid-19 wedi dangos bod angen gwasanaethau digidol gwell a dull mwy cadarn o allu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid pan nad yw'n bosibl i bobl ymweld yn gorfforol â gwahanol sefydliadau. Mae hyn yn golygu llawer mwy na pharhau i ymgysylltu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cael ei wneud yn weddol lwyddiannus – mae'n ymwneud â thrawsnewid sut gellid cynnig gwasanaethau a digwyddiadau'n gyffredinol, ac mae'n ymwneud ag ystyried a allai'r math hwn o drawsnewid digidol ymestyn cyrhaeddiad ein sefydliadau diwylliant a threftadaeth yn sylweddol ac o bosibl darparu ffrydiau incwm ychwanegol maes o law. Mae cymorth ariannol ychwanegol sydd eisoes wedi'i ddosbarthu i'r sector eisoes yn gwneud gwahaniaeth a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth y flwyddyn nesaf.

Drwy fabwysiadu dull integredig ar draws y ddarpariaeth genedlaethol a lleol, byddwn hefyd yn cynyddu'r manteision mae pobl yn eu cael o gasgliadau a gwasanaethau. Mae'n hanfodol bod y sector yn cael ei gefnogi yn ei waith a hybu datblygu gweithio mewn ffordd sy'n fwy strategol yng nghyswllt gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ledled Cymru. Mae angen inni hybu gweithio mewn partneriaeth i ddefnyddio buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y ffordd orau.

Amgueddfeydd

Mae staff proffesiynol a gwirfoddolwyr ymroddedig mewn amgueddfeydd ledled Cymru yn gofalu am filoedd o wrthrychau sy'n adrodd straeon pobl a chymunedau lleol. Maent yn darparu llawer iawn o gyfleoedd addysgol y tu allan i ysgolion. Mae'r pandemig wedi golygu bod gwasanaethau addysg ac allgymorth wedi symud ar-lein ac mae angen cyllid ar amgueddfeydd i ddatblygu ac i atgyfnerthu'r newid i ddarpariaeth ddigidol. Mae angen cymorth ar amgueddfeydd ledled Cymru i sicrhau bod eu harddangosfeydd a'u casgliadau'n cynrychioli cymunedau amrywiol – yn enwedig mewn ymateb i ymgyrch Black Lives Matter. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth hanfodol i'r sector lleol ac yn rheoli cynllun y DU ar gyfer Achredu Amgueddfeydd.

Archifau

Mae archifau'n parhau i fod yn adnodd hanfodol ar gyfer deall ein hanes cenedlaethol, cymunedol a phersonol. Byddwn yn parhau i gefnogi Safon Achredu Archifau'r DU yng Nghymru, ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau archifau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel ceidwaid ein cofnod cenedlaethol. Bydd cyllid hefyd yn cefnogi'r sector i fynd i'r afael â'r her hollbwysig o reoli'r symudiad tuag at gadw cofnodion digidol a mynediad at yr adnoddau digidol hyn.

Llyfrgelloedd

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer cymunedau, teuluoedd ac unigolion, a gyda 1.3 miliwn o aelodau llyfrgell, maent yn cyrraedd bron i 50% o'r boblogaeth[11]. Mae llyfrgelloedd yn ymgysylltu â phartneriaid i gefnogi cynhwysiant digidol, sgiliau, darllen a dysgu yn y blynyddoedd cynnar, iechyd a llesiant, a chynhwysiant cymdeithasol - yn

[11] Adroddiadau blynyddol y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus 2019 i 2020

enwedig ar gyfer pobl hŷn; yn ogystal â darparu mynediad at ddiwylliant, gwybodaeth a thechnoleg. Byddwn yn parhau i gefnogi rôl hollbwysig llyfrgelloedd o ran cefnogi iechyd a llesiant cymunedau ledled Cymru. Llyfrgelloedd yw'r mannau delfrydol yng nghalon y gymuned i ddarparu cymorth i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalwyr. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn parhau i ddatblygu adnoddau hel atgofion ar gyfer y rheini sy'n dioddef o ddementia. Mae parhau i ddatblygu llyfrgelloedd sy'n Deall Dementia yn gwella cynhwysiant ac ansawdd bywyd pobl â dementia a'u gofalwyr.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn adnoddau llyfrgell digidol flwyddyn nesaf a bydd £200,000 o gyllid yn cael ei sianelu drwy Lyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflawni'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Cenedlaethol sydd ar gael i ddefnyddwyr llyfrgelloedd Cymru drwy borth llyfrgelloedd Cymru a drwy wasanaethau llyfrgelloedd unigol Cymru. Mae hyn yn hanfodol wrth ystyried bod llyfrgelloedd wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer yr unigolion sy'n defnyddio adnoddau digidol, yn enwedig ers Covid-19. Mae Bolinda, un o'r prif ddarparwyr e-lyfrau ac e-lyfrau sain yng Nghymru drwy ei wasanaeth Borrowbox, wedi dweud bod nifer y benthyciadau rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019 yn 186,002 a bod y ffigur hwn wedi codi i 394,089 ar gyfer yr un cyfnod yn 2020, a oedd yn golygu bod nifer y benthyciadau wedi codi 112%.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid i gyflawni ein gofynion statudol mewn perthynas â llyfrgelloedd, gan gynnwys monitro darparu gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964.

Buddsoddiad cyfalaf

Mae angen amlwg i gynnal ein buddsoddiad cyfalaf y flwyddyn nesaf ar draws y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Mae ein rhaglen Grantiau Trawsnewid Cyfalaf yn agored i'r sector lleol ac yn darparu dros £1.4m o gyllid cyfalaf bob blwyddyn. Roeddem wedi dyfarnu dros £1.2m o grantiau i ddeg amgueddfa a llyfrgell ledled Cymru yn 2020-21 fel rhan o'r gronfa hon ac mae galw ychwanegol am gymorth y flwyddyn nesaf.

Cyngor Celfyddydau Cymru

3.12 Dyraniadau a sylwadau yng nghyswllt Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi ac i hyrwyddo cyfraniad pwysig y celfyddydau i Gymru, meithrin amgylchedd lle mae'r celfyddydau'n gallu ffynnu – amgylchedd sy'n nodi ac yn meithrin doniau creadigol, ble bynnag y bônt yng Nghymru, i'w lawn botensial. Mae blaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys Hyrwyddo Cydraddoldeb fel sail i ymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru a chryfhau gallu a chadernid y sector, gan alluogi doniau creadigol i ffynnu. Mae cyllid refeniw o £32.042m wedi'i ddiogelu yn 2021-22. Mae'r dyraniad cyfalaf o £1.575m yn darparu ar gyfer Theatr Clwyd.

Mae'r pandemig wedi dangos yn amlwg iawn pa mor bwysig yw'r celfyddydau i lesiant ac i iechyd corfforol. Mae'r Celfyddydau'n darparu dihangfa i lawer o unigolion, aelwydydd a chymunedau yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn. Yn y gyllideb hon, byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Cyn y pandemig, roedd dros bedwar miliwn o bobl mewn digwyddiadau a gyflwynwyd gan aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru y Cyngor Celfyddydau. Yn 2019/20, roedd 87% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru wedi mynychu digwyddiadau

celfyddydol ac roedd 86% o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol.

Bydd cyllid yn helpu i greu'r cyfalaf diwylliannol ar gyfer adferiad sy'n meithrin y diwydiannau creadigol gyda gwybodaeth, sgiliau a syniadau ac yn parhau i sefydlogi'r sector, gan gynnal cyflogaeth a chyfleoedd gwaith. Mae HARP – Ymchwil Celfyddydau Iechyd Pobl yn un enghraifft o ymyriadau i atal afiechyd. Mae'n gydweithrediad gyda'r GIG i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin ag iechyd, llesiant a chreadigrwydd.

Byddwn yn parhau i gefnogi Celfyddydau a Busnes Cymru. Mae'n gyswllt hanfodol rhwng byd busnes a'r Celfyddydau, gan godi arian i gefnogi Artistiaid ac mae'n cynnal digwyddiad gwobrwyo mawreddog, lle mae C&S yn noddi'r wobr Dyngarwch.

3.13 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid i hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau.

Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y llythyr Cylch Gwaith. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant i dalu cyllid craidd i 67 o sefydliadau celfyddydol strategol allweddol ac rydym yn disgwyl iddynt barhau i flaenoriaethu gwaith ymgysylltu a mynediad. Mae Cynllun Corfforaethol pum mlynedd 2018-23: Er Budd Pawb yn pwysleisio'r ymrwymiad i ganolbwyntio mwy ar fynediad, cydraddoldebau ac amrywiaeth ac mae'n nodi bod 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' yn sylfaen ar gyfer ymrwymiad clir i ymestyn allan yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru. Mae ganddo Grŵp Monitro Cydraddoldeb pwrpasol wedi'i gadeirio gan Aelod o'i Gyngor, ac mae ei holl strategaethau a rhaglenni yn destun profion helaeth sy'n edrych ar yr effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r sefydliad wedi gohirio cam ymgynghori cyntaf ei Adolygiad Buddsoddi oherwydd y pandemig a bydd yn dechrau'r broses eto yn 2021. Mae'r broses hon yn cael ei defnyddio i ddewis y grŵp o sefydliadau a fydd yn ffurfio ei Bortffolio Celfyddydau Cymru yn y dyfodol, ar ôl adolygiadau tebyg yn 2010 a 2015. Bydd y cam ymgynghori cyntaf hwn yn dod i ben ddiwedd 2021. Mae'r Adolygiad Buddsoddi yn canolbwyntio ar alluogi rhagor o bobl yng Nghymru i fwynhau ac i gymryd rhan yn y celfyddydau, bod gweithgareddau a ariennir yn cynyddu amrywiaeth y cyfranogwyr drwy gyrraedd ar draws cymdeithas Cymru yn ehangach a denu amrywiaeth eang o ymwelwyr.

3.14 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid sydd wedi'i anelu at ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i fynd i'r afael â thlodi.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol allweddol yn y rhaglen Cyfuno, gan gefnogi sefydliadau i gymryd rhan drwy ddarparu cyngor ymarferol a hwyluso cyflwyniadau rhwng partneriaid Cyfuno ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol yn eu hardaloedd. Pan fydd yn berthnasol, bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd ac yn lledaenu gwybodaeth drwy ei e-newyddion, ei wefan ac i gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae Cyngor y Celfyddydau yn parhau i estyn allan at y cymunedau difreintiedig hynny drwy gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru ac mae hefyd yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau hynny.

3.15 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid sydd wedi'i anelu at annog/galluogi sefydliadau celfyddydol i gynhyrchu mwy o'u hincwm eu hunain.

Mae Rhaglen Cydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael ei phrofi'n sylweddol yn ystod y pandemig gan fod angen llawer o arian ychwanegol i gadw nifer o Sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru yn solfent. Bydd angen monitro a chefnogi rhagor ar y rhaglen cydnerthedd nes bydd y sector Celfyddydau yn gallu dychwelyd i'r amgylchiadau gweithredu arferol.

Mae Rhaglen Cydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn canolbwyntio mwy ar fusnes, yn rheoli ac yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol, a'u bod yn gallu datblygu a rheoli eu gweithgareddau i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor a diogelwch ariannol mewn hinsawdd ariannol heriol. Mae'r gronfa hon, sy'n werth £2m, wedi cefnogi 57 o'r 67 o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru i rannu arferion gorau, modelau cyflawni a threialu dulliau gwahanol o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i 85% o bortffolio refeniw craidd Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi cofrestru â'r rhaglen.

Cyfryngau a darlledu

3.16 Dyraniadau a sylwadau ynghylch unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.

Yn 2020-21 cafodd £4.51m ei ddyfarnu i Gyngor Llyfrau Cymru er mwyn cefnogi'r sector cyhoeddi ac i roi cymorth COVID-19 brys i gyhoeddwyr. Mae cyllid refeniw yn cynnwys cymorth i Golwg Cyf a'r Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg, Golwg 360. Mae cyllid hefyd ar gael drwy gymorth argyfwng COVID-19 Llywodraeth Cymru ar draws yr economi, fel y Gronfa Cadernid Economaidd sydd wedi bod o fudd i sefydliadau'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru. Cafodd £0.750m o fuddsoddiad cyfalaf ei ddyrannu ar gyfer model cyhoeddi integredig newydd.

Yn 2021-22 roedd cyfanswm y gyllideb yn £3.760m er mwyn parhau i gyllido mentrau Cyngor Llyfrau Cymru a'r Gwasanaeth Newyddion Cymraeg Digidol. Mae Cymru Greadigol yn edrych ar sut gellir cynyddu cyfleoedd i sefydliadau'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru elwa o gynlluniau cymorth ehangach Llywodraeth Cymru a rhai allanol yn ystod y cyfnod ariannol hwn. Bydd gwaith i ddatblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi mwy o weithio mewn partneriaeth ar faterion darlledu hefyd yn ystyried sut gallwn fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

3.17 Manylion gwariant y Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol, gan gynnwys sut cafodd y penderfyniadau cyllido hyn eu gwneud, a beth maent yn ceisio ei gyflawni.

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Hydref 2020, mae'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol (ICJF) wedi darparu bron i £160k o gyllid i gyhoeddiadau newyddiaduraeth gymunedol annibynnol, a elwir hefyd yn gyhoeddiadau lleol iawn. Mae cyfanswm y cyllid hefyd yn cynnwys £53k o gyllid grant brys a ddarparwyd i helpu cyhoeddiadau mewn ymateb i argyfwng Covid-19.

Roedd yr ICJF yn gwahodd ceisiadau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Roedd y broses yn un ysgafn ac roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu manylion cryno ynghylch eu cyhoeddiad, cadarnhau eu bod yn gymwys a rhoi gwybod beth fyddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Roedd swyddogion ar gael i drafod ceisiadau a chymhwysedd cyn cyflwyno'r cais ac roeddent ar gael i dywys ymgeiswyr drwy'r broses.

Cafodd y ceisiadau eu gwerthuso fesul achos gan Banel Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r ystyriaethau gwerth am arian. Er mwyn helpu gyda'r broses werthuso, rhoddodd pob ymgeisydd cymwys ganiatâd i'w cais gael ei rannu â'r Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol (C4CJ). Roedd y C4CJ yn gweithredu fel arbenigwyr ym maes newyddiaduraeth leol iawn i roi sylwadau ar y gweithgareddau arfaethedig; fodd bynnag nid oeddent yn rhan o'r broses gymeradwyo.

Ym mis Ebrill 2020, roedd rhywfaint o danwariant a chafodd grant brys ei gynnig i gyhoeddiadau cymwys i gefnogi'r sector yn ystod y misoedd allweddol nesaf er mwyn ceisio cynnal cynaliadwyedd a pharhau i roi newyddion hollbwysig i gymunedau yn ystod argyfwng Covid-19. Roedd y cyllid grant cadernid busnes hwn at ddibenion costau o ddydd i ddydd fel costau rhent, costau cyflogau a ffioedd trwyddedau/gwefannau ac ati.

Mae'r ICJF wedi cefnogi amrywiaeth o weithgareddau ac roedd y gweithgareddau cyllido'n amrywio o arloesi a gynlluniwyd i greu ffrydiau incwm newydd, i adeiladau mwy a gwefannau gwell. Mae canlyniadau'r ICJF yn cynnwys:

- Mwy o farchnata a brandio gan gynnwys optimeiddio peiriannau chwilio er mwyn cynyddu nifer y darllenwyr ac ehangu cyrhaeddiad cyhoeddiadau.
- Mwy o hysbysebu i gynyddu ffrydiau refeniw.
- Gwelliannau technegol i wefannau, meddalwedd newydd, platfformau wedi'u huwchraddio i'w gwneud yn haws eu defnyddio.
- Datblygu gwasanaethau ar-lein newydd.
- Datblygu staff drwy hyfforddiant a bod yn bresennol mewn cynadleddau diwydiant.
- Costau staff arbenigol ychwanegol fel staff gwerthu, ffotograffiaeth a hysbysebu i wella prosesau'r busnes ac i wella cynhyrchiant.
- Tyfu'r busnes a gwell proffesiynoldeb drwy ehangu i ofod swyddfa newydd.

Cymru Greadigol

Yn 2021-22, mae cyfanswm dyraniad cyllideb Cymru Greadigol yn £8.697m, gan gynnwys dyraniad ychwanegol o £1m i gyflymu'r prosiectau sy'n cael eu datblygu. Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchu ffilmiau a theledu, cynhyrchu digidol a cherddorol yn cynrychioli un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae ei drosiant blynyddol dros £2.2biliwn ac mae'n cyflogi dros 56,000 o bobl, 40% yn fwy na 10 mlynedd yn ôl. Roedd cwmnïau ffilm a theledu wedi gwario oddeutu £55m yng Nghymru yn 2018, gan gefnogi busnesau lleol a chyfrannu at dwristiaeth ac ymwybyddiaeth o Gymru. Fel un o golofnau'r strategaeth ryngwladol, bydd y buddsoddiad ychwanegol o £1m yn cryfhau'r cynnig ac yn hyrwyddo ein henw da rhyngwladol ymhellach fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu a dramâu teledu o safon uchel, gyda stiwdios mawr fel Fox, NBC Universal, Netflix ac HBO i gyd yn dewis Cymru ar gyfer eu cynyrchiadau.

3.18 Manylion unrhyw gyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gymru Greadigol i gefnogi newyddiaduraeth.

Mae manylion cyfanswm y cyllid sef £158,546 yn **Atodiad B**.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch yr angen am gyllid penodol drwy gyllideb 2021-22 Cymru Greadigol i gefnogi newyddiaduraeth. Felly bydd angen i unrhyw benderfyniad i gefnogi newyddiaduraeth ystyried y gost cyfle a'r effaith gyffredinol ar y gyllideb, gyda llai o gyllideb ar gyfer ar gyfer gweithgareddau ehangach i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae modd defnyddio rhaglenni datblygu sgiliau a rhaglenni ehangach fel y prosiect Clwstwr i annog pobl newydd i ymuno â'r farchnad ac i gefnogi datblygiadau newydd mewn newyddiaduriaeth.

Cerddoriaeth Fyw

3.19 Manylion unrhyw gyllid sydd wedi cael ei ddyrannu i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad

Mae'r penderfyniadau terfynol ar gyllideb 2021-22 a'r Cynllun Busnes ar gyfer Cymru Greadigol yn cael eu hystyried. Fel sector allweddol sy'n cael ei dargedu gan Cymru Greadigol, bydd Cynllun Busnes 2021-22 Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar gymorth i'r diwydiant cerddoriaeth, gyda chyllid yn cael ei neilltuo i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Bydd hyn yn ategu'r cyllid a ddyfarnwyd i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn 2020-21 i helpu'r sector i ymateb i heriau pandemig COVID-19 a chefnogi cadernid parhaus y sector.

Cymorth i gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu

3.20 Y ffigurau refeniw a refeniw rhagamcanol diweddaraf, a graddfa feddiannaeth Stiwdios Pinewood ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.

Ym mis Tachwedd 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i Gytundeb Gwasanaethau Rheoli ar gyfer gweithredu cyfleusterau Stiwdios Gwynllŵg. O dan delerau'r cytundeb, roedd Pinewood yn rheoli'r Stiwdio ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd costau rhedeg y stiwdio'n cyfateb i tua £1.185m y flwyddyn. Yn ystod rhan gyntaf y cytundeb, roedd y ffigurau rhent oddeutu £0.46m y flwyddyn.

Ym mis Mawrth 2019 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gytundeb Llwyfan gyda Bad Wolf Studios Wales i rentu'r gofod gwag cyfan am ddeuddeg mis, gyda'r dewis i ymrwymo i gytundeb pellach am ddwy flynedd arall. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Bad Wolf Studios Ltd yn defnyddio 80% o'r stiwdio, a oedd yn cynnwys prif ofod y stiwdio, ac roedd 20% yn cael ei ddefnyddio gan denantiaid yr Hyb Cyfryngau – swyddfeydd bach a osodwyd i gwmnïau'r gadwyn gyflenwi yn y sector. O dan y cytundeb hwn, roedd costau rhedeg y stiwdio'n cael eu talu a chafodd elw bach ei wneud. Dewisodd Bad Wolf i beidio ag ymestyn y cytundeb y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis.

Daeth y cytundeb â Pinewood i ben ar 31 Mawrth 2020, gyda Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gofod dros dro nes dod o hyd i ateb ar gyfer tenant tymor hirach. Roedd cyfyngiadau symud Covid wedi dechrau'n fuan ar ôl i'r cytundeb â Bad Wolf ddod i ben. Am gyfnod felly byddai diffyg rhwng yr incwm a'r gwariant gan nad oedd unrhyw incwm o ddefnyddio'r stiwdio i gynhyrchu. Roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r stiwdio wedi aros yn gyson yn ystod y cyfnod hwn (ardrethi busnes a oedd yn £400k y flwyddyn, diogelwch a oedd yn £222k, cynnal a chadw).

Rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020, cynhyrchwyd refeniw oherwydd bod cynyrchiadau newydd yn cael eu ffilmio yn y stiwdio, gan gynnwys Urban Myth a Hartswood Productions.

Ar ôl cyfnod llwyddiannus o negodi, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gytundeb prydles 10 mlynedd gyda Great Point Media, cwmni buddsoddi yn Llundain sydd eisoes â phortffolio o ddatblygiadau stiwdio yn UDA. Roedd Great Point Seren Studios wedi cymryd y brydles ar 1af Hydref, ac mae'n gyfle i gwmni cynhyrchu cyfryngau sefydledig fuddsoddi yn y stiwdio a'i datblygu a dod â llu o gynyrchiadau newydd. Mae'r brydles ar delerau masnachol, ac mae'r manylion yn gyfrinachol.

3.21 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad, yr elw ar y buddsoddiad a'r gwariant yng Nghymru (fesul prosiect).

Mae crynodeb o fuddsoddiadau'r benthyciadau unigol, y cyllid sydd wedi'i adennill hyd at fis Medi 2019, a balans pob prosiect sydd wedi cael ei gefnogi gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau ar gael yn **Atodiad C**.

3.22 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cronfa Sgrin Cymru gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad a'r gwariant yng Nghymru (fesul prosiect).

Mae cyfanswm gwerth y cynigion yn £30.908m ac mae disgwyl i'r gwariant fod yn £365.748m. Mae rhestr o'r prosiectau ar gael yn **Atodiad D**.

3.23 Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthyciad Llywodraeth Cymru i Bad Wolf Studios gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a'r gwariant yng Nghymru (wedi'u meincnodi yn ôl targedau Llywodraeth Cymru).

Mae cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Bad Wolf Studios yn £18,447,588. Ym mis Tachwedd 2020, £94.4m oedd y gwir wariant yng Nghymru ac roedd disgwyl £133m. Mae cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y benthyciad yn £1.064m gyda'r ad-daliadau'n dechrau yn 2020-21. Mae'r manylion ariannol diweddaraf ar gael yn **Atodiad E**.

Annex A - Overview of Culture and Heritage Finances - 2019-20 to 2021-22

RESOURCE		2019-20		2020-21						2021-22		
Action	**BEL Description**	**Second Supp Budget £'000**	**Final Outturn £'000**	**2020-21 Final Budget £'000**	**Change £'000**	**First Supp Budget £'000**	**Change £'000**	**Second Supp Budget £'000**	**Forecast £'000**	**2020-21 Final Budget £'000**	**Change £'000**	**New plans Draft Budget £'000**
Support for Culture and the Arts	Arts Council of Wales	31,346	31,346	32,042	0	32,042	25,200	57,242	50,142	32,042	0	32,042
	Amgueddfa Cymru - National Museums of Wales	22,118	22,918	24,355	(445)	23,910	0	23,910	24,210	24,355	255	24,610
	National Library of Wales	10,835	11,235	11,144	(200)	10,944	0	10,944	11,194	11,144	0	11,144
	Support for Local Culture & Sport	3,287	2,204	2,060	(298)	1,762	26,000	27,762	44,462	2,060	757	2,817
	Creative	1,708	1,786	1,708	0	1,708	0	1,708	1,708	1,708	0	1,708
Total Support for Culture and the Arts		**69,294**	**69,489**	**71,309**	**(943)**	**70,366**	**51,200**	**121,566**	**131,716**	**71,309**	**1,012**	**72,321**
Media and Publishing	Books Council of Wales	3,649	3,814	3,730	0	3,730	0	3,730	3,730	3,730	0	3,730
Total Media and Publishing		**3,649**	**3,814**	**3,730**	**0**	**3,730**	**0**	**3,730**	**3,730**	**3,730**	**0**	**3,730**
Support the Historic Environment	Cadw	11,608	10,452	12,411	0	12,411	300	12,711	12,411	12,411	1,000	13,411
	National Botanic Garden of Wales	581	581	594	0	594	0	594	834	594	0	594
	Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments for Wales	1,853	1,623	1,764	(33)	1,731	0	1,731	1,731	1,764	0	1,764
Total Support for the Historic Environment		**14,042**	**12,656**	**14,769**	**(33)**	**14,736**	**300**	**15,036**	**14,976**	**14,769**	**1,000**	**15,769**
TOTAL RESOURCE		**86,985**	**85,959**	**89,808**	**(976)**	**88,832**	**51,500**	**140,332**	**150,422**	**89,808**	**2,012**	**91,820**

CAPITAL		2019-20		2020-21						2021-22		
Action	BEL Description	Second Supp Budget £'000	Final Outturn £'000	2020-21 Final Budget £'000	Change £'000	First Supp Budget £'000	Change £'000	Second Supp Budget £'000	Forecast £'000	2020-21 Final Budget £'000	Change £'000	New plans Draft Budget £'000
Support for Culture and the Arts	Arts Council of Wales	355	424	755	0	755	2,000	2,755	4,452	755	820	1,575
	Amgueddfa Cymru - National Museums of Wales	2,136	1,786	3,547	0	3,547	0	3,547	4,267	3,547	650	4,197
	National Library of Wales	1,955	1,305	3,095	0	3,095	0	3,095	3,095	3,095	100	3,195
	Support for Local Culture & Sport	1,630	1,447	1,430	0	1,430	1,000	2,430	2,513	1,430	0	1,430
	Creative	515	2,111	5,989	0	5,989	0	5,989	5,989	5,989	1,000	6,989
Total Support for Culture and the Arts		**6,591**	**7,073**	**14,816**	**0**	**14,816**	**3,000**	**17,816**	**20,316**	**14,816**	**2,570**	**17,386**
Media and Publishing	Books Council of Wales	30	175	780	0	780	0	780	780	780	(750)	30
Total Media and Publishing		**30**	**175**	**780**	**0**	**780**	**0**	**780**	**780**	**780**	**(750)**	**30**
Support the Historic Environment	Cadw	4,710	4,014	8,731	0	8,731	(3,700)	5,031	5,011	8,731		8,731
	National Botanic Garden of Wales	95	395	195	0	195	0	195	195	195	180	375
	Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments for Wales	95	97	15	0	15	0	15	35	15		15
Total Support for the Historic Environment		**4,900**	**4,506**	**8,941**	**0**	**8,941**	**(3,700)**	**5,241**	**5,241**	**8,941**	**180**	**9,121**
TOTAL CAPITAL		**11,521**	**11,754**	**24,537**	**0**	**24,537**	**(700)**	**23,837**	**26,337**	**24,537**	**2,000**	**26,537**
TOTAL RESOURCE & CAPITAL		**98,506**	**97,713**	**114,345**	**(976)**	**113,369**	**50,800**	**164,169**	**176,759**	**114,345**	**3,920**	**118,265**

AME		2019-20		2020-21						2021-22		
Action	BEL Description	Second Supp Budget £'000	Final Outturn £'000	2020-21 Final Budget £'000	Change £'000	First Supp Budget £'000	Change £'000	Second Supp Budget £'000	Forecast £'000	2020-21 Final Budget £'000	Change £'000	New plans Draft Budget £'000
Sponsored Bodies Pensions	Amgueddfa Cymru - National	2,391	0	2,391		2,391		2,391		2,391	6,609	9,000
	National Library of Wales Pension Provision - AME	622	0	622		622		622		622	4,378	5,000
TOTAL AME		**3,013**	**0**	**3,013**	**0**	**3,013**	**0**	**3,013**	**0**	**3,013**	**10,987**	**14,000**

Atodiad B – CYLLID NEWYDDIADURAETH

Cyhoeddiad	Gwariant	Rhif y Cais	Gweithgaredd a Gefnogir
Caerphilly Observer	£24,058	1	Costau staff cymorth, trwyddedau meddalwedd, hyfforddiant staff, gwasanaethau newydd i'r wefan, costau dosbarthu lleol
		2	Rhentu gofod swyddfa
		3	Crysau polo â'r brand arnynt ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, hyfforddiant dadansoddeg google, hysbysebu a fideo hyrwyddo
	£8,500	4	Cyllid argyfwng Covid-19
My Town Media	£26,608	1	Pecyn cyfryngau, cyfeiriadur busnes, argraffu a dosbarthu taflenni
		2	Cyflogi ffotograffydd am 2 fis, gwefan hunanwasanaeth
	£8,500	3	Cyllid argyfwng Covid-19
Wrexham.com	£31,624	1	Cefnogi cost y fideo-graffydd/ffotograffiaeth un diwrnod yr wythnos
		2	Prynu enw parth newydd, Gogledd Cymru, brandio newydd, ail-ddylunio'r wefan, recriwtio gohebydd rhan amser a chefnogi cyflogau
	£8,500	3	Cyllid argyfwng Covid-19
Llanelli Ar-lein	£6,526	1	Hyfforddiant technegol, uwchraddio'r wefan, recriwtio staff gwerthu a marchnata, cefnogi tanysgrifiadau
		2	Rhentu gofod swyddfa
		3	Cefnogi costau cyflogau, dylunio taflen, costau dosbarthu
	£8,452	4	Cyllid argyfwng Covid-19
Inksplott	£14,180	1	Gwella'r wefan, argraffu taflen ddwyieithog a'i dosbarthu, datblygu brand ar gyfer inksplott
	£8,500	2	Cyllid argyfwng Covid-19
Cwmbran Life	£2,199	1	Gwella'r wefan a hyfforddiant
	£2,400	2	Cyllid argyfwng Covid-19
Deeside.com	£8,500	1	Cyllid argyfwng Covid-19
CYFANSWM	**£158,547**		

Atodiad C - PROSIECTAU A GYLLIDWYD GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU (11 Tachwedd 2020)

Prosiect	Gwerth y Buddsoddiad £m	Swm a gafodd ei adennill £m	Enillion / (Colledion) Net hyd yma £m	Gwariant wedi'i dargedu yng Nghymru £m	Gwariant yng Nghymru hyd yma £m
Dan Reolaeth Pinewood					
Take Down	3.144	1.11	-2.03	1	1.089
Their Finest	2	2.05	0.05	1.3	1.618
The Collection	1.750[1]	0.38	-1.37	5.5	5.187
Show Dogs	1.566[2]	0	-1.56	4.737	4.338
Journey's End	0.85	0.631	-0.21	1.5	0.903
Don't Knock Twice[3]	0.63	0.655	0.02	0.63	0.641
Minotaur	0.026	0	-0.026		N/A[4]
Lionel the First	0.025	0	-0.025	Amh	N/A[5]
Cyfanswm	**9.99**	**4.82**	**-5.16**	**14.667**	**13.776**
Dan Reolaeth Llywodraeth Cymru					
Trampires[6]	2	0	-2	1.6	1.621
Eternal Beauty	1.05	0.87	-0.16	1.214	1.255
Bang	0.35	0	-0.35	1.5	2.562
Tiny Rebel	0.318	0.03	-0.288	0.25	0.26
Goose Green	0.025	0	-0.025	Amh	N/A[7]
Almost Never (True Believers yn flaenorol)	0.622	0	-0.622	2.118	2.118
Six Minutes To Midnight	0.75	0.51	-0.24	3.88	3.52
Cyfanswm	**5.11**	**1.41**	**-3.67**	**10.562**	**11.336**
Cyfanswm Cyffredinol	**15.1**	**6.2**	**-8.82**	**25.229**	**25.112**

[1] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £600,000 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[2] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £362,000 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[3] Roedd Don't Knock Twice hefyd wedi cael £75,000 o gyllid grant dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

[4] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

[5] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

[6] Roedd Trampires hefyd wedi cael £652,572 o gyllid grant dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

[7] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

Atodiad D - BUDDSODDIAD CRONFA SGRIN CYMRU (11 Tachwedd 2020)

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2012/13	Tonto Films and Television Ltd	Da Vinci's Demons Cyfres 1	0.495	3.823
2012/13	Urban Myth Films	Atlantis Cyfres 1	0.25	4.026
2012/13	Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies)	Boj & Buddies	0.2	1.003
2012/13	Fiction Factory (Hinterland Films Ltd)	Hinterland Cyfres 1	0.215	3.691
2012/13	Tonto Films and Television Ltd (DVDS2)	Da Vinci's Demons Cyfres 2	0.99	15
2013/14	Avanti Media Group	Wonder World	*0.127	0.763
2013/14	Urban Myth Films	Atlantis Cyfres 2	0.25	4.026
2013/14	Lime Pictures Limited	Rocket's Island	*0.143	0.966
2013/14	Mirror Productions	Petroleum Spirit	0.051	0.358
2013/14	Modern Television	A Poet In New York	0.053	0.855
2013/14	Adastra Creative a Shrinking Cap Productions Ltd	Grandpa in my pocket	0.129	1.612
2013/14	Three Stones Media (The Rastamouse company)	Rastamouse Cyfres 4	0.145	0.885
2013/14	Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd)	The Drake Equation	*0.74	5.208
2014/15	Lime Pictures Limited	Rocket's Island Cyfres 4	0.07	0.7
2013/14	Lupus Films	Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest	0.55	3.034
2013/14	Green Bay Media Ltd	Castle Builders	0.045	0.32
2013/14	YJB Films (From a Jack to a King Ltd)	From a Jack to a King	0.1	1.229
2013/14	Hartswood Television Ltd	Lady Chatterleys Lover	0.125	0.813
2014/15	Gritty Realism Productions Ltd	Heart of Darkness	0.15	1.794
2014/15	TCFTV UK Productions	The Bastard Executioner	2.5	10
2014/15	Cwmni Da Cyf	Country Fair	0.125	1.019
2014/15	Animortal Studio (Trampires Ltd)	Trampires	0.674	6.738
2014/15	Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd)	Decline and Fall	0.1	1.8
2014/15	RF Movie Productions Ltd	Robin Friday - The Movie	*0.2	1.95
2014/15	Touchpaper Televison Ltd	Coming up	0.08	0.809
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd)	Hinterland 2	0.304	5.3

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd)	Hinterland 3	0.25	4.21
2015/16	Bad Wolf Ltd	Bad Wolf Productions	9	133
2015/16	Hartswood Films (Sherlock TV Ltd)	Sherlock Cyfres 4	0.24	2.409
2015/16	Heel Stone Pictures Ltd	Crossing the Border	0.202	2.519
2015/16	Ninth Floor UK Productions Limited	Will Cyfres 1	1.5	18.761
2015/16	Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14)	The Collection	0.6	5.5
2015/16	Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd)	Don't Knock Twice	0.075	0.63
2015/16	Vertigo Television Ltd	Britannia VFX	1.1	11.149
2016/17	Beakus Ltd	Toggle Top	0.076	0.944
2016/17	Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd)	Luo Bao Bai	0.225	3.183
2016/17	Riverstone Pictures (Showdogs Ltd)	Showdogs	0.362	4.737
2016/17	Vox Pictures (Keeping Faith Ltd)	Keeping Faith	0.328	4.25
2016/17	Green Bay Media	Mountains and Life	0.03	0.54
2016/17	New Pictures (Requiem Productions Ltd)	Requiem	0.4	5.016
2016/17	Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd)	Apostle	0.385	5.767
2017/18	World Productions (BTK 2016 Ltd)	Born to Kill	0.2	2.5
2017/18	The Forge Entertainment Ltd	Kiri	0.2	2.382
2017/18	Coracle Pictures Limited (Denmarc)	Denmarc	0.085	1.383
2017/18	Rondo Media Cyf	The Wall	0.045	0.363
2017/18	Touchpaper Television Ltd	4Stories	*0.04	0.631
2017/18	Illuminated Productions Ltd	The Rubbish World of Dave Spud	0.09	0.906
2018/19	Eleven Film Ltd	Schooled	0.485	3.879
2018/19	Boom Cymru	15 days	0.089	1.074
2018/19	Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited	Dream Horse	0.35	4.384
2018/19	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson Cyfres 4	0.156	1.927
2018/19	Mad as Birds Ltd a Reliance Entertainment Productions Six Ltd	Six Minutes To Midnight	0.4	3.879
2018/19	Keeping Faith (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures)	Keeping Faith Cyfres 2	0.3	4.654

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2018/19	Hat Trick Productions	Warren	0.109	1.304
2018/19	Monterey Productions Ltd (HBO)	Brooklyn	0.22	2.412
2018/19	GOL Production Ltd (Pulse Films)	Gangs of London	0.35	4.209
2018/19	IeIe Productions	Merched Parchus	0.041	0.444
2018/19	Blacklight TV	4Stories cyfres 2	0.102	1.574
2019/20	All That Limit	Brave New World	2	20
2019/20	Joio	Bang Cyfres 2	0.19	2.3
2019/20	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson Cyfres 5	0.06	1.827
2019/20	Vox Pictures (Keeping Faith Cyfres 3)	Keeping Faith Cyfres 3	0.240	3.965
2019/20	WP Productions Ltd (World Productions)	The Pembrokeshire Murder	0.200	2.135
2020/21	Hartswood TV Ltd	Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse	0.225	2.247
2020/21	Illuminated Productions Ltd	The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2	0.140	1.407
2020/21	Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd)	Bang Cyfres 2	0.190	2.302
2020/21	Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd)	Kensukes Kingdom	0.100	0.841
2020/21	Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd)	The Pact	0.595	5.953
2020/21	One Tribe TV Limited	Wonders of the Celtic Deep	0.077	0.618
2020/21	Eleven Films (Starco TV 3 Ltd)	Sex Education Cyfres 3	0.432	5.186
2020/21	WOTW2 Ltd- Urban Myth films	War of the Worlds Cyfres 2	0.750	7.344
CYFANSWM (heb gynnwys cynigion a dynnwyd yn ôl*)			**30.908**	**365.746**

Atodiad E – BUDDSODDIAD BAD WOLF STUDIOS (11 Tachwedd 2020)

Buddsoddiad	Gwerth y Buddsoddiad (£)	Wedi'i dynnu i lawr hyd yma (£)	I'w dynnu i lawr mewn blynyddoedd i ddod (£)	Llog wedi cronni ar 7.52% hyd yma (£)	Llog wedi'i dalu ar 7.52% hyd yma (£)	Arian cyfatebol Bad Wolf (£)	Gwariant a ddisgwylir yng Nghymru (£)	Gwariant a gyflanwyd yng Nghymru (£)
Blaendal Ad-daladwy	4,500,000	4,500,000	-	1,063,937	51,481	-	54,000,000	54,000,000
Grant Arall	4,500,000	2,305,183	2,194,817	Amh	Amh.	-	79,000,000	40,396,745
Prynu Adeiladau 1 a 2, Parc Trident	6,000,000	6,000,000	-	Amh	Amh.	-	Amh	Amh.
Ffioedd caffael	30,000	30,000	-	Amh	Amh.	-	Amh	Amh.
Gwaith Gosod Stiwdio	2,650,000	2,650,000	-	Amh	Amh.	2,800,000	Amh	Amh.
Gwaith Gosod Stiwdio Pinewood Cymru	667,588	667,588	-	Amh	Amh.	692,412	Amh	Amh.
SAWS	80,000	40,000	-	Amh	Amh.	-	Amh	Amh.
Blaendal	Amh	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	250,000	Amh	Amh.
Rhwydwaith Drama Ieuenctid	20,000	20,000	-	-	Amh	-	Amh	Amh.
Cyfanswm	**18,447,588**	**16,212,771**	**2,194,817**	**1,063,937**	**51,481**	**3,742,412**	**133,000,000**	**94,396,745**

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Dyddiad: **Dydd Iau 14 Ionawr 2021**
Amser: **10:45-11:45am**
Teitl: **Papur tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 – Cyllidebau ar gyfer y Gymraeg**

Diben

1. Darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynigion y gyllideb ar gyfer y Gymraeg fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Cyfeiriad Strategol

2. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom lansio ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* gyda dau darged cyffredinol:
   - Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
   - Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

3. Mae tair prif thema i'r strategaeth:

   - Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
   - Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
   - Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n ymwneud â gosod cyd-destun a seilwaith briodol i gefnogi themâu 1 a 2.

4. Mae *Cymraeg 2050*: *Rhaglen Waith 2017-21* a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth, yn amlinellu ein cynlluniau i'r Senedd bresennol osod y sylfeini sy'n ofynnol ar gyfer y strategaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y cerrig milltir sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith wedi'i chynnwys ym mharagraffau 37-59 o'r papur hwn.

5. Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein prosiectau ar y Gymraeg, wedi wynebu heriau eleni oherwydd COVID-19. Ond, gyda phob her daw cyfle: cyfle i edrych ar bethau mewn ffordd wahanol. Rwy'n falch iawn o weld yr ystod a'r amrywiaeth o waith a wnaed yn ystod cyfnod COVID-19, nid yn unig yma yn Llywodraeth Cymru, ond hefyd gan ein partneriaid, gan grwpiau a chan unigolion ledled Cymru gyfan.

6. Byddwn yn paratoi ein hail Raglen Waith y flwyddyn nesaf, a bydd angen i hyn adlewyrchu sut mae'r ffordd rydym yn byw wedi newid. Drwy gadw llygad ar bolisïau wrth iddynt newid ac ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau hynny, byddwn yn sicrhau ein bod yn gyson ymwybodol o'n nodau a'n gweledigaeth gyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn gweithio tuag at y nodau hynny.

7. Er bod cyd-destun ein gwaith wedi newid yn sylweddol ers lansio *Cymraeg 2050*, mae ein blaenoriaethau strategol wedi aros yr un fath. Mae'r gwaith caled rydym wedi'i wneud eisoes a'r cyfleoedd newydd yr ydym wedi'u gweld dros y flwyddyn ddiwethaf yn sylfaen gref i'r llywodraeth nesaf barhau â'n gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

8. Mae Prosiect 2050 bellach wedi'i sefydlu i roi ysgogiad ychwanegol i ymdrechion i gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050*. Gorchwyl yr uned cynllunio ieithyddol amlddisgyblaethol newydd hon yw:

    - Cydlynu'r gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr, o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg, i addysg ôl-orfodol i Cymraeg i oedolion.
    - Dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd, a gwerthuso'r mentrau cyfredol.
    - Cefnogi meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith o gynnal ein cymunedau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â *Cymraeg 2050*.

9. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a *Cymraeg 2050* oll yn cefnogi ei gilydd.

Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2021-22

10. Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yw £36.977m, sy'n cynnwys £36.947m ar gyfer adnoddau a £0.030m ar gyfer cyfalaf. Y Gweinidog Addysg sy'n gyfrifol am addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog a chefnogir hyn gyda chyllideb adnodd £12.675m. Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm y cyllidebau ar gyfer y Gymraeg yn ôl portffolio:

TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg

Cam Gweithredu	Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000	Llinell Sylfaen Wedi'i Hailddatgan £'000	Newid £'000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2021-22 £'000
MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg						
Y Gymraeg	Y Gymraeg	20,949	-	20,949	-	20,949
	Comisiynydd y Gymraeg	3,207	-	3,207	116	3,323
Cyfanswm		**24,156**	**-**	**24,156**	**116**	**24,272**
MEG Addysg						
Y Gymraeg mewn Addysg	Y Gymraeg mewn Addysg	12,675	-	12,675	-	12,675
Cyfanswm	**CYFANSWM**	**12,675**	**-**	**12,675**	**-**	**12,675**
Cyfanswm Cyffredinol		**36,831**	**-**	**36,831**	**116**	**36,947**

TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg						
Cam Gweithredu	**Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)**	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000**	**Llinell Sylfaen Wedi'i Hailddatgan £'000**	**Newid £'000**	**Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2021-22 £'000**
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	385	(385)	-	30	30
Cyfanswm		**385**	**(385)**	**-**	**30**	**30**
Cyfanswm Cyffredinol		**385**	**(385)**	**-**	**30**	**30**

11. Rhaid imi nodi hefyd mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd portffolio Llywodraeth Cymru ac mae gwariant ar yr iaith eisoes wedi'i ymgorffori ym mhortffolios llawer o weinidogion eraill.

Effaith y pandemig ar ddyraniadau cyllideb 2021-22

12. O ganlyniad i'r pandemig, yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, a gyhoeddwyd ar 27 Mai, cafodd £1.995m o refeniw ei nodi a'i dychwelyd i'r gronfa ganolog o BEL y Gymraeg er mwyn cefnogi blaenoriaethau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Roedd y cyllidebau a ailgyflwynwyd i gefnogi'r ymdrechion hyn yn ymwneud â thri chategori:

- Y pethau hynny na allent ddigwydd mwyach o ganlyniad i'r pandemig (er enghraifft rhai o weithgareddau'r Urdd a rhywfaint o gyllid mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gymuned);
- Y gweithgareddau hynny y gellid eu gohirio (er enghraifft mewn perthynas â'r prosiect Deall Dwyieithrwydd, y polisi newydd ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd, Adolygiad o Grantiau Hyrwyddo'r Iaith, y contract ar gyfer arbenigwyr allanol i gynghori ar y Prosiect 2050); a
- Y rhai y gellid eu gwneud yn wahanol (roedd y rhain yn arbennig o berthnasol i weithgareddau yn y gymuned, neu'r rhai'n ymwneud â dysgu e.e. cyrsiau sy'n cael eu cynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y gellid eu symud yn llwyddiannus ar-lein).

13. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer ystod o ymyriadau i ymateb i'r argyfwng presennol ac i liniaru ei effaith. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i rai partneriaid, er enghraifft: cyfalaf o £3.1m (MEG Addysg) i'r Urdd i ddarparu cymorth gan nad oedd modd i'r mudiad greu incwm o'i ganolfannau preswyl a £0.5m (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg) i'r Eisteddfod Genedlaethol i ddarparu cymorth gyda'r costau sy'n gysylltiedig â gohirio Eisteddfod Tregaron.

14. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, y llinell sylfaen a ddefnyddir at ddibenion cymharu yw Cyllideb Derfynol 2020-21. O ganlyniad, nid yw'r gostyngiad o £1.995 miliwn i gyllidebau 2020-21 mewn ymateb i COVID-19, ac a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ac fe'i hadferwyd yn llawn ar gyfer 2021-22, gan fod yr ymarfer ail-alinio yn ymarfer ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21yn unig. Mae hyn ac eithrio £0.2 miliwn ar gyfer cyllideb y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle mae'r gostyngiad wedi bod yn bosibl oherwydd arbedion gweithredol a wnaed oherwydd y symud tuag at ddysgu ar-lein. Mae rhagor o fanylion ym mharagraffau 60-65.

15. Byddaf yn parhau i adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu wrth inni symud i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymateb yn y ffordd orau i'r heriau sy'n esblygu yn sgil y pandemig. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn awyddus i gadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl nawr wrth i ni ddod i ddeall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad yr haint. Yn benodol, roedd gofyn i'r cyllid ychwanegol gefnogi'r GIG a llywodraeth leol ar reng flaen ein hymateb i'r pandemig. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i feysydd eraill fel y Gymraeg a chadwaf yr hawl i wneud cais am gyllid o'r gronfa COVID-19 wrth gefn i helpu gyda sefydliadau sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Yr alldroadau terfynol ar gyfer 2019-20 a'r rhagolygon ar gyfer 2020-21

16. Yr alldro olaf ar gyfer 2019-20 ar gyfer y Gymraeg oedd £36.5m a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 yw £35.5m heb unrhyw amrywiant sylweddol i gyllidebau fel y manylir yn **Atodiad A**.

Rhan 1: Sylwadau ar ddyraniadau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)

BEL y Gymraeg (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)

17. Pwrpas BEL y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* mewn perthynas â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir.

18. Mae'r cyllid o fewn BEL y Gymraeg wedi'i gynnal ar £20.949m ar gyfer 2021-22. Mae'r gyllideb yn cefnogi gweithgareddau partneriaeth yn bennaf gan gynnwys:

    - Cymraeg i Blant – i gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, ac i gefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff 41.
    - Cyflwyno hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraffau 60-65.
    - Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg.
    - Cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn cymunedau er enghraifft drwy ddarparu grantiau i'r mentrau iaith, i Ferched y Wawr ac i'r Ffermwyr Ifanc.

- Cyflwyno rhaglen Siarter Iaith.
- Ariannu arbenigedd ychwanegol mewn cynllunio ieithyddol fel rhan o'r Prosiect 2050.
- Ariannu Tribiwnlys y Gymraeg.
- Ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

BEL Comisiynydd y Gymraeg (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)

19. Mae'r gyllideb (£3.207m o refeniw a £0.030m o gyfalaf) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg (mae rhagor o fanylion ym mharagraffau 78-79) sydd â swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:

- Gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Gweithredu system safonau'r Gymraeg.
- Cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd.
- Ymchwilio i ymyrraeth honedig â rhyddid unigolyn i gyfathrebu yn Gymraeg.
- Hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o iaith – yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat.

BEL y Gymraeg mewn Addysg (MEG Addysg)

20. Mae'r gyllideb wedi'i chynnal ar £12.675m ar gyfer 2021-22. Mae'r BEL yn cefnogi camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg o fewn *Cymraeg 2050*, sy'n cynnwys:

- Cyllid i Mudiad Meithrin gynyddu darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cynllunio addysg Gymraeg i gynnwys gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020.
- Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu.
- Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth Gymraeg ôl-16.

Rhan 2: Gwybodaeth arall

Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae cyflawni portffolio yr Iaith Gymraeg a'i ganlyniadau cysylltiedig, a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian

21. O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb. Mae gennyf brosesau sefydledig ar

waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

22. Ar gyfer y weinyddiaeth hon, bydd y cynnydd o ran cyflawni'r targedau tymor byr a amlinellir yn *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2017-21* yn fesur o gynnydd tuag at gyflawni nodau *Cymraeg 2050*. Mae'r cynnydd yn ei gyfanrwydd yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol[1] ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol[2] ar ddiwedd y flwyddyn i adrodd yn ôl ar y camau y manylir arnynt yn y Cynllun Gweithredu. Gwneir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau i sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

23. Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl wrth gynghori ar y cynnydd tuag at darged 2050 ac effeithiolrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae gan Fwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 o fewn Llywodraeth Cymru y gorchwyl o asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru a phrif ffrydio’r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

24. Yn ogystal â hynny, rwyf wedi sefydlu Prosiect 2050 i roi ysgogiad ychwanegol i ymdrechion i gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050* fel y manylir uchod ym mharagraff 8. Mae hyn yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2019 yn dilyn ei ymchwiliad i “Cefnogi a Hybu'r Gymraeg”.

25. O ran gwerthuso, rydym wedi defnyddio canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2017: Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd i lywio ein Polisi cenedlaethol newydd ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd y byddaf yn ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

26. Cyhoeddwyd Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a'i rhaglenni cysylltiedig ym mis Gorffennaf 2020. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r canfyddiadau a'r argymhellion i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r Siarter Iaith yn y dyfodol.

27. Mae dau nod i'r gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg. Y cyntaf yw archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion. Yr ail nod yw asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol at ddarpariaeth datblygiad proffesiynol i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad strategol y Cynllun Sabothol a hyfforddi ymarferwyr yn y dyfodol. Mae adroddiad terfynol y gwerthusiad wedi'i ohirio oherwydd COVID-19 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

---

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-cynllun-gweithredu-202021.pdf

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/Cymraeg%202050%20Miliwn%20o%20siaradwyr%20adroddiad%20blynyddol%202019%20i%202020.pdf

28. Yn ogystal â'r gwerthusiadau hyn, fe wnaethom gyhoeddi astudiaeth ymchwil ar y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi ym mis Chwefror 2020. Mae'r astudiaeth yn darparu asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar y berthynas rhwng iaith a'r economi, a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hyn. O ganlyniad i'r adroddiad, sefydlais is-grŵp economi a'r Gymraeg o fewn Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Bydd yr is-grŵp yn edrych ar y dystiolaeth yn yr adroddiad yn ogystal â ffynonellau eraill. Nod yr is-grŵp yw darparu cyngor ar sut y gellir cryfhau'r berthynas rhwng datblygiad economaidd a'r Gymraeg a pha ymyraethau economaidd y gellid eu gweithredu i gryfhau economi Cymru, a fydd hefyd yn cefnogi'r Gymraeg.

29. O ran gwariant ataliol, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil i ddeall cynulleidfaoedd er mwyn dysgu mwy am ymddygiad ac agweddau'r cyhoedd tuag at yr iaith. Bydd hyn yn llywio ein strategaeth farchnata, y ffordd yr ydym yn targedu ein cynulleidfa, ac yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa gywir gyda'r neges gywir. Bydd hyn hefyd yn golygu y byddwn yn gwario ein cyllideb yn fwy effeithiol, gan arwain at ganlyniadau gwell, ac yn bwydo i strategaethau marchnata partneriaid, gyda'r nod o greu dull 'un llais' i hyrwyddo'r Gymraeg, a thrwy hynny leihau dyblygu gwaith a gwariant ar ddatblygu negeseuon, brandio ac adnoddau. Y nod yw y bydd y gwaith hwn hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer mentrau eraill, gan wneud pobl yn fwy parod i groesawu ymgyrchoedd megis annog rhieni i ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plant a throsglwyddo'r iaith o fewn y teulu.

30. At hynny, mae gan ein targed o gynyddu darpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar drwy 40 o grwpiau meithrin erbyn 2021 y potensial i leihau gwariant ar hybu ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn pan fyddant yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at y gwaith o sefydlu'r amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn braenaru'r tir ar gyfer ymyraethau pellach ar ffurf y Siarter Iaith, er enghraifft (sydd â'r nod o annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant ysgol o oedran ifanc)**.**

31. Mae'r dirwedd ddigidol hefyd yn cyflwyno newid mawr ar gyfer y Gymraeg, a gellid ystyried sawl elfen ohoni'n wariant ataliol. Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn cynnwys sicrhau bod cydrannau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal fel y gall pob sefydliad ac unigolyn eu defnyddio a'u hailddefnyddio'n eang. Mae lledaeniad technoleg Gymraeg hefyd yn hanfodol ar gyfer normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

32. Lansiwyd y Cynllun gennym ar 23 Hydref 2018. Mae'n ymdrin â thri maes allweddol:
    - **Technoleg Lleferydd Cymraeg** – Meddalwedd adnabod lleferydd-i-destun a synthesis testun i leferydd.
    - **Cyfieithu gyda chymorth cyfrifiadur** – rhannu ac ailddefnyddio cyfieithiadau testun Saesneg<>Cymraeg drwy dechnoleg 'cof cyfieithu'.

- **Deallusrwydd Artiffisial Sgwrsiol** – byddai peiriannau yn *deall* y Gymraeg (yn ogystla â'i *hadnabod*).

33. Fe wnaethom ymateb i'r heriau a gododd yn sgil COVID-19 drwy drefnu bod Cysgliad (pecyn o adnoddau Cymraeg, er enghraifft gwirydd sillafu ac offeryn sy'n helpu gyda threigladau, gan Brifysgol Bangor) ar gael yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio gan unigolion, busnesau bach a phob ysgol yng Nghymru. Roeddwn yn credu bod hyn yn bwysig o dan yr amgylchiadau newydd, yn enwedig i ddisgyblion ysgol a'u rhieni. Roeddwn yn ymwybodol y gallai fod yn anodd i nifer o blant ddysgu'n annibynnol gartref gyda chymorth gan eu rhieni a'u gofalwyr pan fyddai ysgolion ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Weithiau, nid oedd oedolyn a oedd yn gallu siarad Cymraeg gartref i'w helpu gyda'u gwaith.

34. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi diwygio'r targedau a osodwyd ar gyfer Prifysgol Bangor o dan ei chytundeb grant er mwyn darparu adnodd sy'n gallu isdeitl fideos Cymraeg yn awtomatig. Mae hyn mewn ymateb i gais gan brifysgolion sy'n dymuno isdeitlo darlithoedd ar fideo, fel eu bod ar gael i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu darlithoedd mwyach oherwydd y pandemig.

35. Mae ein gwasanaeth cyfieithu a chynghori Helo Blod i fusnesau bach a'r trydydd sector hefyd yn defnyddio'r dechnoleg cyfieithu awtomeiddio ddiweddaraf i gynorthwyo cyfieithwyr cymwys i ddarparu cyfieithiadau cyflym a chyson. Mae hyn hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy beidio byth â gorfod talu am yr un cyfieithiadau neu gyfieithiadau tebyg.

36. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nod ein cynlluniau gwariant yw sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau tymor byr a hirdymor.

Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

37. Rwyf wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am sut mae dyraniadau'n cefnogi *Cymraeg 2050* mewn adrannau blaenorol o'r papur hwn. Cyfeiriaf yn benodol yn awr at y cerrig milltir a gynhwysir yn Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-2021.

38. Nid yw pob carreg filltir yn perthyn i’m portffolio i. Fodd bynnag, mewn perthynas â phob un, dyrennir gwariant yn briodol er mwyn ysgogi cynnydd tuag at y cerrig milltir hyn.

39. Nodir gwybodaeth am gerrig milltir unigol isod. Rhestrir gwybodaeth am gerrig milltir sydd o fewn portffolio’r Gweinidog Addysg yn yr adran nesaf ym mharagraffau 51-59.

40. Rwy'n cwrdd â'r Gweinidog Addysg yn rheolaidd i drafod y synergeddau a'r gorgyffwrdd rhwng ein portffolios mewn perthynas â'r Gymraeg.

Carreg filltir: **cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011**

41. I gefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y rhaglen Cymraeg i Blant yn 2021-22 ac mae £0.730 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i hyn. Nod y rhaglen yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a throsglwyddo'r iaith i'w plant, ac i gefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

42. Bydd Cymraeg i Blant yn cefnogi'r polisi cenedlaethol newydd ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (gweler paragraff 25). Mae annog teuluoedd i ddewis y Gymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y gefnogaeth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Carreg filltir: Cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed cychwynnol o gynyddu cyfraddau'r bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 y cant o'r boblogaeth i 11 y cant erbyn 2021

43. Yn y pen draw, nod yr holl ymyriadau yn fy mhortffolio i, ac felly'r holl ddyraniadau cyllideb cyfatebol, yw cynyddu defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro i sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir am BEL y Gymraeg (2021-22: £20.949m) a BEL Comisiynydd y Gymraeg (2021-22: £3.237m, refeniw £3.207m a chyfalaf £0.030m). O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â rheoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i gynyddu defnydd o'r iaith. Mae'r cyllidebau refeniw hyn wedi'u cynnal ar gyfer 2021-22.

44. Ymhlith y prosiectau a'r partneriaid a ariennir o dan BEL y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r iaith mae:

- Y mentrau iaith.
- Yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Yr Urdd.
- Clybiau Ffermwyr Ifanc.
- Prosiectau cymunedol (Cymdeithas Eisteddfodau a Merched y Wawr).
- Y papurau bro.
- Helo Blod.
- Prosiect ARFer Prifysgol Bangor, i gynyddu cyfathrebu rhyngbersonol a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy addunedau ymddygiadol.
- Cronfa i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector ôl-16.
- Cronfa a ddyrannwyd i Gonsortia Addysg Cymru i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (Siarter Iaith).

- Cymraeg i Blant.
- Dydd Miwsig Cymru.

45. Er bod COVID-19 wedi newid ein bywydau, ac wedi bod yn gyfnod gofidus inni i gyd, mae'n galonogol iawn gweld sut mae pobl wedi ymateb i'r her. Mae'r arloesedd, y dyfalbarhad a'r creadigrwydd a ddangoswyd gan ein partneriaid wedi creu argraff fawr arnaf. Roedd Eisteddfod T ac Eisteddfod AmGen yn hynod lwyddiannus, fe wnaeth y Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr waith gwirfoddol rhagorol a chynhaliwyd pob math o ddigwyddiadau diddorol ar-lein gan y mentrau iaith. Rydym wedi gweld mwy o ddysgwyr na'r tair blynedd diwethaf gyda'i gilydd, yn cofrestru ar gyfer cyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Mawrth eleni. Mae hyn i gyd yn dangos y gwaith pwysig y mae ein partneriaid wedi bod yn ei wneud, o ran gyrru polisïau Cymraeg a chyflawni nodau *Cymraeg 2050* yn ystod y cyfnod anodd hwn.

46. Bydd llawer o'r gwaith newydd ac arloesol a wneir yn dod yn rhan o'n ffordd newydd o weithio yn 2021-22 a thu hwnt. Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid wrth inni addasu'n barhaus i'r byd newydd cyfnewidiol hwn.

47. Cynhaliodd un o is-grwpiau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg (yr is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg yn y Gymuned) arolwg ar-lein o grwpiau cymunedol Cymraeg rhwng 14 Medi a 10 Hydref 2020. Y nod oedd asesu effaith y cyfyngiadau a osodwyd gan COVID-19 ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Cawsom 1,092 o ymatebion.

48. Ar 10 Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi *Effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg – canfyddiadau'r arolwg*. Llywiwyd hyn gan is-grŵp penodedig o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg sydd wedi drafftio cyfres o argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad. Byddaf yn ymateb i'r argymhellion hyn cyn bo hir.

49. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth o sut roedd grwpiau cymunedol Cymraeg yn gweithredu cyn i COVID-19 daro ac yna ers y cyfnod clo cyntaf a gyflwynwyd ar lefel y DU gyfan ac mae'n cyflwyno eu barn am eu dyfodol. Bydd gweithredu’r argymhellion yn ein helpu i ddiogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2021-22.

50. Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd yw cynnal arolygon o ddefnydd iaith. Dechreuodd y gwaith ar Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd i fod i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Oherwydd COVID-19, gohiriwyd yr arolwg ganol mis Mawrth 2020. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau a gasglwyd hyd yma erbyn diwedd 2020-21.

Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg i gefnogi Cymraeg 2050 ac yn benodol, dyraniadau sy'n cefnogi ac yn datblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

51. Daw'r dyraniadau ar gyfer y gweithgareddau ym mhortffolio’r Gweinidog Addysg, sy’n cefnogi *Cymraeg 2050*, o fewn BEL y Gymraeg mewn Addysg,

yn y MEG Addysg. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 20, mae'r gyllideb yn £12.675m ar gyfer 2021-22.

52. Ymhlith y gweithgareddau a ariennir o BEL y Gymraeg mewn Addysg mae datblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog y blynyddoedd cynnar, datblygu a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), cefnogaeth i golegau AB a hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog, cefnogi datblygiad darpariaeth AU Cymraeg ac arwain ar ddatblygiad ôl-16. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys datblygu adnoddau dysgu ac addysgu i gefnogi addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

53. *Mae Cymraeg 2050* yn bolisi trawsbynciol ac fe'i cefnogir nid yn unig drwy BEL y Gymraeg a BEL y Gymraeg mewn Addysg. Er enghraifft, cefnogir y Cynllun Sabothol a CYDAG drwy gyllid o £1.65m o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon y MEG Addysg. Mae CYDAG yn cynnal rhaglen o weithgareddau i gefnogi gwaith i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r *Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg*. Mae gan Gynllun Sabothol y Gymraeg rôl ganolog wrth barhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae £1m ychwanegol hefyd wedi'i ddyrannu i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu yn 2021-22 ar gyfer adnoddau dwyieithog i gefnogi’r gwaith o gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru newydd ym mis Medi 2022.

Carreg filltir: Cefnogi’r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021

54. Mae'r £3.031m a ddarparwyd i Mudiad Meithrin wedi ei alluogi i gefnogi'r 450 a mwy o Gylchoedd Meithrin a dros 400 o Gylchoedd Ti a Fi sy'n aelodau ohono er mwyn cryfhau ac ehangu ei wasanaethau. Mae hefyd wedi ei alluogi i barhau â rhaglen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar Cymraeg newydd mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy'r gwaith hwn, mae 21 o Gylchoedd Meithrin newydd a 21 o Gylchoedd Ti a Fi newydd wedi'u sefydlu ers 2018. Mae'r gwaith i ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau hefyd wedi parhau, ac eleni mae wedi cynnwys sesiynau wedi'u teilwra i ymateb i'r heriau y mae'r sector blynyddoedd cynnar wedi'u hwynebu eleni. Bydd y gyllideb hon yn cael ei chynnal yn 2021-22 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i ddatblygu capasti blynyddoedd cynnar er mwyn darparu llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg.

Carreg filltir: Parhau i gynyddu canran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy’n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021.

55. Rydym wedi dyrannu cyllid o £0.1m o BEL y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). O dan y ffrwd waith hon, paratowyd *Rheoliadau Drafft Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* newydd ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar 5

Rhagfyr 2019 yn nodi trefniadau newydd ar gyfer paratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd darpariaethau newydd yn cynnwys cyflwyno Cynlluniau tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â Chynlluniau sy'n cael eu paratoi ar sail targedau clir, uchelgeisiol. Mae'r targedau hyn wedi'u cyfrifo mewn ffordd sy'n dangos y cyfraniad y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud er mwyn cefnogi'r targedau cerrig milltir yn ymwneud ag addysg yn strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

56. At hynny, fe wnaethom gwblhau adolygiad o gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Rhagfyr 2019, yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Cynghori CSCA ym mis Mai 2019. Lansiodd y Gweinidog Addysg ymgynghoriad ar opsiynau lefel uchel i ailddiffinio categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar 14 Rhagfyr. Gallai hyn arwain at adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a chanllawiau newydd o bosibl o amgylch categorïau ysgolion. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y garreg filltir gyffredinol ar gyfer 2021 o 24% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

57. Bydd ein hymdrechion yn 2021-22 yn canolbwyntio ar gefnogi awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Cyngor ac arweiniad ynghylch cyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys pecyn o adnoddau digidol i ALlau eu defnyddio).
    - Caffael ymgynghorwyr iaith ac addysg Gymraeg i gynghori ALlau ar agweddau ar weithredu CSCA, megis symud ymlaen o ysgol gynradd Gymraeg a gwaith ar gategoreiddio ysgolion.

58. **Carreg filltir: cefnogi twf yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:**

    - 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16).
    - 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16).
    - 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

59. Mae *Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu ar gyfer 2017-2021*, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2017, yn pennu ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Gymraeg ac addysg Iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â'r weledigaeth yn *Cymraeg 2050* a *Cenhadaeth ein Cenedl.* Mae'r Gweinidog Addysg yn arwain ar weithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodwyd yn y cynllun gweithredu, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y MEG Addysg yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y gweithgareddau hyn yn 2021-22. Yn ddiweddar, cyhoeddais ffigurau mewn

perthynas â chynnydd yn erbyn y targed hwn yn Adroddiad Blynyddol 2019-20 *Cymraeg 2050*.

Rhan 3: Meysydd penodol

Diweddariadau ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2020-21

Diweddariad ar ddyraniad cyllideb y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn dilyn gostyngiad yn ei chyllideb mewn ymateb i'r pandemig

60. Dyrannwyd cyfanswm o £13.21m o BEL y Gymraeg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2020-21. Rhannwyd y dyraniad hwn fel a ganlyn: £8.810m i ariannu'r 11 darparwr sy'n cyflwyno'r cyrsiau hyfforddi, £2.5m ar gyfer Cymraeg Gwaith ac £1.9m i gynnal costau rhedeg y Ganolfan.

61. Yn ystod y flwyddyn, oherwydd COVID-19, cafodd cyfanswm cyllid y Ganolfan ei ostwng £1.533m: roedd £1.02m o'r gostyngiad hwnnw yn ostyngiad i gyllideb Cymraeg Gwaith, gan ostwng ei chyllideb i £1.48m; tynnwyd £0.337m o'r grant i'r 11 darparwr, gan ostwng eu cyllid i £8.473m; a gostyngwyd grant canolog y Ganolfan £0.176m, gan adael cyllideb o £1.724m. Roedd rhai o'r toriadau hyn yn bosibl am nad oedd y Ganolfan a'i darparwyr yn gallu parhau i gynnig rhai elfennau o'u darpariaeth, megis dysgu wyneb yn wyneb a chyrsiau preswyl.

62. Oherwydd ymateb cyflym a phroffesiynol y Ganolfan i'r pandemig, fe wnaethant ddefnyddio'r cyllid i barhau i gynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu Cymraeg a datblygu eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

    - Cynnig ystod eang o gyfleoedd ar draws pum lefel i ddysgwyr ledled Cymru drwy rwydwaith y Ganolfan o 11 darparwr.
    - Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys S4C, BBC Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, i gryfhau'r cymorth i ddysgwyr.
    - Parhau i ddarparu Cymraeg Gwaith, gan gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i feithrin sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

63. Dyraniad y Ganolfan ar gyfer 2021-22 fydd £13.01m. Felly rydym wedi adfer cyllideb y Ganolfan i'r lefel cyn COVID-19 (cyllideb derfynol 2020-21) ac eithrio £0.2m. Ailgyfeiriwyd y £0.2m hwn i ariannu prosiectau seilwaith ieithyddol Cymraeg a fydd yn cynnwys creu polisi i gydgysylltu’n well adnoddau terminoleg, geiriaduron a chorpws er mwyn cryfhau’r seilwaith sy’n cefnog defnydd or iaith.

64. Cyflawnwyd hyn drwy leihau cyfanswm y grant i'r 11 darparwr o £0.150m i £8.660m a lleihau'r grant a delir i ariannu costau rhedeg y Ganolfan o £0.05m i £1.85m. Bu hyn yn bosibl oherwydd arbedion gweithredol yn sgil y ffaith nad oedd gwersi wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal, ac oherwydd bod y Ganolfan yn datblygu gwahanol ffyrdd o weithio yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ni fydd y gostyngiad hwn mewn cyllid yn effeithio ar lefelau gwasanaeth i ddysgwyr ac ni fydd yn arwain at golli swyddi yn y sector.

65. Mae cyllid Cymraeg Gwaith wedi cael ei adfer yn llawn i £2.5m er mwyn caniatáu i'r fenter bwysig honno ddychwelyd i'w chapasiti llawn ac er mwyn gwella'r cymorth y gall ei roi i sectorau penodol.

Y cynnydd a'r defnydd o'r £30 miliwn sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, ac effaith y pandemig ar yr amserlen ar gyfer prosiectau cymeradwy

66. Er mwyn cefnogi'r garreg filltir o gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflawni prosiectau cyfalaf a ariennir drwy'r Gronfa gyfunol Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a Grant Gofal Plant o £46m a gyhoeddwyd yn ystod 2018-2019 (£32.81m o Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a £13.02m o'r Grant Cyfalaf Blynyddoedd Cynnar). Mae'r chwistrelliad hwn o arian grant yn cefnogi 46 o brosiectau ar draws 20 awdurdod lleol a fydd, pan fydd pob prosiect yn cael ei wireddu, yn arwain at 2,818 o leoedd ysgol a gofal plant ychwanegol i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb hwn mewn cyllid yn mynd gam o'r ffordd tuag at gefnogi'r cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ei hangen i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050*.

67. Bydd y prosiectau hyn yn rhoi hwb i'r Gymraeg yn yr ardaloedd dan sylw. Er enghraifft:

- Trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy.
- Ysgolion cynradd Cymraeg newydd ym Merthyr Tudful a Thorfaen (wedi'u cysylltu ag ysgol uwchradd).
- Ehangu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg bresennol i ymdopi â'r galw, e.e. Wrecsam, Sir y Fflint, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili.
- Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi caffael iaith yn gynnar a denu rhagor o ddysgwyr i'r sector cyfrwng Cymraeg, e.e. Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy.
- Canolfan iaith arloesol yn Sir Ddinbych yn gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a chymorth i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith.
- Cymorth i ganolfannau sy'n gweithio gyda hwyrddyfodiaid yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin.
- Adnewyddu ac ailfodelu pedwar o leoliadau'r Urdd yng Nglan-llyn, Llangrannog a Phentre Ifan.

68. Mae'r pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar gyflawni prosiectau gyda dyddiadau cwblhau rhai prosiectau yn cael eu symud ymlaen i 2022. Fodd bynnag, mae mwyafrif y 46 o brosiectau wedi hen gychwyn, gydag wyth prosiect eisoes wedi'u cwblhau, a hawliwyd dros £16.1m hyd yn hyn.

69. Agorodd y Gweinidog Addysg Neuadd Breswyl Pantycelyn yn swyddogol ar 18 Medi a chroesawu myfyrwyr newydd iddi, ac edrychwn ymlaen at agoriad swyddogol Glan-llyn Isa yn y Flwyddyn Newydd. Mae prosiect Ysgol y Wern yng Nghaerdydd a Chanolfan Iaith Sir Ddinbych yn Ysgol Glan Clwyd hefyd wedi'u cwblhau. Mae darpariaeth feithrin Gymraeg hefyd wedi'i chyflwyno mewn tri

lleoliad yn Rhondda Cynon Taf ac un yn Nhorfaen. Rydym yn disgwyl y bydd mwyafrif y prosiectau wedi'u cwblhau erbyn 2021/22.

Y niferoedd sydd wedi manteisio ar y cymhelliant ariannol *Iaith Athrawon Yfory*, a pha faint sydd wedi'i neilltuo ar gyfer parhad y cymhelliant hwn

70. Rydym yn parhau i ddarparu cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n ymgymryd ag Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ac mae'r Gweinidog Addysg wedi cynnal y taliad cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 i bob myfyriwr sy'n mynd ymlaen i addysgu yn Gymraeg. O roi hyn ochr yn ochr â chymhellion eraill ar gyfer athrawon pynciau sy'n flaenoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae hyn yn golygu y gallai myfyriwr AGA cymwys elwa o gyfanswm o dros £25,000 o gymhelliannau ym mlynyddoedd academaidd 2020/21 a 2021/22.

71. Mae taliad cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory (IAY)[3] o £5,000 wedi'i strwythuro fel a ganlyn; £2,500 sy'n daladwy ar ôl cwblhau Statws Athro Cymwysedig yn llwyddiannus yn nhymor yr haf a £2,500 arall sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus yn addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd (o fewn cyfnod penodol o amser). Dim ond y myfyrwyr hynny sy'n hawlio'r taliad cyntaf o dan y cynllun all hawlio'r ail daliad o dan y cynllun.

72. Pan lansiwyd y cynllun gyntaf yn 2018, fe wnaethom osod targed uchelgeisiol i’n hunain sef 100 o ymgeiswyr gyda dyraniad cyllideb o £0.5m. Mae hyn yn parhau.

    - **Blwyddyn academaidd 2018/19** – Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad cyntaf oedd 31 Awst 2020 gyda chyfanswm o 59 o fyfyrwyr cymwys yn hawlio. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r ail daliad fydd 31 Awst 2023; hyd yma mae 38 o blith y 59 o fyfyrwyr cymwys wedi hawlio.
    - **Blwyddyn academaidd 2019/20** – Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad cyntaf oedd 31 Awst 2021 gyda chyfanswm o 59 o fyfyrwyr cymwys yn hawlio hyd yma. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r ail daliad fydd 31 Awst 2024; oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, nid oes unrhyw hawliadau wedi'u gwneud hyd yma ar gyfer yr ail daliad.
    - **Blwyddyn academaidd 2020/21** – Oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, ni wnaed unrhyw hawliadau na thaliadau eto yn erbyn Cynllun 2020/21.

Manylion unrhyw asesiadau a gynhaliwyd sy'n ymwneud â chyllid gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac yn y brifysgol

73. Ym mis Mai 2019, cytunodd y Gweinidog Addysg i ddyrannu £0.145m o'r BEL Codi Safonau Ysgolion yn 2019-20 a 2020-21 i gefnogi rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg

[3] Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory blwyddyn academaidd 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU

Safon Uwch er mwyn cynyddu'r nifer sy'n parhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol.

74. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, derbyniodd 62 o ysgolion a cholegau grant rhwng £800 a £1,500 i gefnogi gweithgareddau er mwyn gwella profiadau dysgu Cymraeg, ac i gefnogi cost cynnal darpariaeth mewn lleoliadau lle roedd y niferoedd sy'n astudio'r pwnc yn isel. Oherwydd COVID-19, roedd yn rhaid i rai ysgolion addasu eu cynlluniau gwreiddiol. Rydym wrthi'n dyfarnu grantiau tebyg ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

75. Yn ogystal, datblygwyd adnoddau i ysgolion eu defnyddio mewn nosweithiau rhieni er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch, a lansiwyd ymgyrch farchnata ym mis Tachwedd 2020. Roedd hyn i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2020, ond bu’n rhaid ei ohirio oherwydd COVID-19.

76. Drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae dau brosiect wedi'u hariannu a'u cyflawni gan adrannau prifysgolion Cymru:
    - Rhaglen beilot i fentora dysgwyr 14-18 oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i roi cyfle i fyfyrwyr israddedig Cymraeg gefnogi dysgwyr wrth iddynt astudio'r iaith.
    - Modiwl ar-lein ar sut y gall sgiliau Cymraeg fod yn amhrisiadwy yn y gweithle.

77. Fe wnaeth COVID-19 amharu ar y gwaith hwn, felly mae'n rhy gynnar i asesu impact y cyllid. Fodd bynnag, bydd gwerthusiad o'r gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei gomisiynu maes o law i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Comisiynydd y Gymraeg

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â dyraniad y gyllideb ar gyfer Comisiynydd Cymraeg yn 2021-22

78. Dyraniad adnoddau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2021-22 yw £3.323m, gan gynnal y cyllid refeniw ar £3.207m a darparu cyllideb dibrisiant nad yw’n arian parod o £0.116m yn dilyn y buddsoddiad yn y system TG newydd yn 2020-21.

79. Yn 2020-21, gwnaed dyraniad cyfalaf ychwanegol o £0.385m i gefnogi gwaith uwchraddio hanfodol i'r system TG. O ganlyniad i'r buddsoddiad blaenorol hwn, byddwn yn darparu buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £0.030m yn ystod 2021-22. Bwriad y Comisiynydd yw defnyddio'r cyfalaf hwn i uwchraddio'r wefan, gan ei symud i blatfform mwy modern a diweddaru ei delwedd, y strwythur a'r cynnwys.

Atodiad A

MEG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG

REFENIW		2019-20	2020-21						2021-22		
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r BEL**	**Alldro Terfynol**	**Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21**	**Newidiadau**	**Y Gyllideb Atodol 1af**	**Newidiadau**	**Yr 2il Gyllideb Atodol**	**Rhagolwg (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen**	**Newidiadau**	**Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd**
Y Gymraeg	Y Gymraeg	20,992	20,949	-1,595	19,354	0	19,354	19,536	20,949	0	20,949
	Comisiynydd y Gymraeg	3,157	3,207	0	3,207		3,207	3,268	3,207	116	3,323
CYFANSWM Y GYLLIDEB		**24,148**	**24,156**	**-1,595**	**22,561**	**0**	**22,561**	**22,804**	**24,156**	**116**	**24,272**

CYFALAF		2019-20	2020-21						2021-22		
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r BEL**	**Alldro Terfynol**	**Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21**	**Newidiadau**	**Y Gyllideb Atodol 1af**	**Newidiadau**	**Yr 2il Gyllideb Atodol**	**Rhagolwg (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen**	**Newidiadau**	**Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd**
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	0	385	0	385	0	385	385	0	30	30
CYFANSWM Y GYLLIDEB		**0**	**385**	**0**	**385**	**0**	**385**	**385**	**0**	**30**	**30**

CYFANSWM MEG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG		**24,148**	**24,541**	**-1,595**	**22,946**	**0**	**22,946**	**23,189**	**24,156**	**146**	**24,302**

MEG ADDYSG

REFENIW		2019-20	2020-21						2021-22		
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r BEL**	**Alldro Terfynol**	**Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol**	**Newidiadau**	**Y Gyllideb Atodol 1af**	**Newidiadau**	**Yr 2il Gyllideb Atodol**	**Rhagolwg (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen**	**Newidiadau**	**Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd**

			2020-21								
Y Gymraeg mewn Addysg	Y Gymraeg mewn Addysg	12,369	12,675	-350	12,325	0	12,325	12,325	12,675	0	12,675
CYFANSWM Y GYLLIDEB		**12,369**	**12,675**	**-350**	**12,325**	**0**	**12,325**	**12,325**	**12,675**	**0**	**12,675**
Cyfanswm Cyllidebau'r Gymraeg		**36,517**	**37,216**	**-1,945**	**35,271**	**0**	**35,271**	**35,514**	**36,831**	**146**	**36,977**

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Dyddiad: **Dydd Iau 14 Ionawr 2021**
Amser: **13:45 – 15:15**
Teitl: **Papur tystiolaeth: Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch cynigion MEG (Prif Grŵp Gwariant) yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae hefyd yn darparu diweddariad ynghylch meysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Cefndir

2. Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22.

3. Caiff ffigurau'r gyllideb ddrafft eu crynhoi fel a ganlyn:

Tabl 1. Crynodeb o'r newidiadau i Gyllideb Ddrafft MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar gyfer 2021-22

MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig			**£m**
Crynodeb ar gyfer yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	**Ailddatganwyd 2020-21 £m**	**Newidiadau**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**
DEL Adnoddau	475.482	32.077	507.559
DEL Anariannol	21.675	0.000	21.675
DEL Cyfalaf	154.892	35.000	189.892
Cyfanswm DEL	**652.049**	**67.077**	**719.126**
AME Adnoddau	2.400		2.400
Cyfanswm AME	**2.400**		**2.400**

Nodyn: 'Ailddatganwyd 2020-21' yw'r gyllideb Derfynol ar gyfer Cyllid Pontio afreolaidd yr UE

4. Er mwyn gallu dwyn cymhariaeth gyfatebol rhwng cyllidebau drafft 2021-22 â'r cyllidebau terfynol a ailddatganwyd ar gyfer 2020-21, bydd y tabl

atodedig lle dangosir y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn dangos yr holl symudiadau o MEG i MEG ac o fewn MEG.

Cyd-destun Strategol Cyllideb Drafft 2021-22

5. Yng ngoleuni argyfwng y Coronafeirws, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Wariant blwyddyn ym mis Tachwedd yn hytrach na chynnal yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant aml-flwyddyn y bwriadwyd ei gynnal. Dim ond ein setliad ar gyfer 2021-22 a bennwyd yn yr adolygiad hwn o wariant. Roeddem wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i roi sicrwydd ariannol tymor hwy i'n partneriaid, ond yn awr dim ond ar gyfer blwyddyn y gallwn osod cynlluniau refeniw a chyfalaf.

6. Ein dull gweithredu, felly, fu ceisio cynyddu effaith yr adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod y bydd yn rhaid i ni barhau i ddelio ag effaith y pandemig ochr yn ochr ag ysgogi newid tymor hwy. Dengys y dyraniadau sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i **Ddiogelu** iechyd y cyhoedd a swyddi wrth i ni barhau i ymladd yn erbyn y pandemig, **Adeiladu** dyfodol gwyrddach a chyflwyno **Newidiadau** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal. Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'n dull o ddyrannu cyllid a'n cynigion ar gyfer y gyllideb.

7. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cymru wedi wynebu ansicrwydd a heriau, nid yn unig yn sgil y pandemig Covid-19, ond hefyd o ganlyniad i'r cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr. Rydym wedi cael ein siomi gan ddiffyg tryloywder a diffyg ymgysylltu ystyrlon Llywodraeth y DU ynglŷn â materion pontio a chyllid i ddisodli cyllid rhaglenni'r UE, ac rydym wedi ein siomi fwy fyth gan fethiant Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiad i ddisodli cyllid yr UE yn llwyr yn ystod yr Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020.

8. Hyd yn oed pan gawsom gyllid yn yr Adolygiad o Wariant, mae'r cyllid a gafwyd gan Lywodraeth y DU i ddisodli'r cyllid i ffermwyr £137m yn llai na'r hyn y byddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22, a bydd hyn yn cael effaith ar ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig. Bydd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y DU yn werth £220 miliwn yn unig y flwyddyn nesaf, a hynny ar gyfer y DU i gyd – lleihad sylweddol o gymharu â'r swm o £375m y flwyddyn mae Cymru ar ei phen ei hun yn elwa arno ar hyn o bryd trwy gyfrwng Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

9. O ran pysgodfeydd, bydd y cyllid o £2.1m rydym wedi'i gael yn helpu'r sector morol a physgodfeydd i ryw raddau, sef sector sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE. Caiff y cyllid rydym wedi'i gael ar gyfer pysgodfeydd a chymorth i ffermwyr ei adlewyrchu yn nyraniad y MEG ar gyfer portffolio'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

10. O’r cychwyn cyntaf, mae’r Cabinet wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd, yn ogystal â rhoi’r setliad gorau posibl i lywodraeth leol. Mae ein paratoadau wedi cael eu siapio gan ein ffocws ar **ddiogelu** iechyd a swyddi, **adeiladu** dyfodol gwyrddach ac ysgogi **newid** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal.

11. Mae’r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi’r Adolygiad o Wariant blwyddyn ar 25 Tachwedd wedi effeithio ar amseru’r gyllideb eleni. Gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y gyllideb ar gyfer eleni.

12. Mae hyn yn cynnwys mynd ati ar 31 Rhagfyr i gyhoeddi dogfennau’n ymwneud â’r gyllideb, gan gynnwys y cynlluniau gwariant strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, a chynigion yn ymwneud â threthiant a benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwariant manwl ar gyfer y portffolios. Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi’r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 ar 2 Mawrth 2021.

Cyllideb Ddrafft 2021-22 – Refeniw Adnoddau

13. Mae’r llinell sylfaen ar gyfer Refeniw a Ailddatganwyd yn cynnwys addasiadau ar gyfer cyllid pontio’r UE, ad-daliadau buddsoddi i arbed, ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol a’r ychwanegiad at linell sylfaen Cynllun y Taliad Sylfaenol (Cyllid i Ffermwyr) a ariannwyd o’r blaen gan yr UE.

Tabl 2. Cysoni’r Llinell Sylfaen Agoriadol

	Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m
Cyllideb Agoriadol ar gyfer Adnoddau Refeniw	
Cyllideb Derfynol Gyhoeddedig 2020-21	195.095
Ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol 2020-21	48.658
Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi’i ychwanegu at y Llinell Sylfaen	231.145
Addasiad ar gyfer Cyllid Pontio Afreolaidd yr UE	(0.170)
Addasiad ar gyfer Ad-daliadau Buddsoddi i Arbed	0.754
Llinell Sylfaen a Addaswyd yn unol â Phapur y Cabinet 14 Rhagfyr	**475.482**

14. Ar 14 Rhagfyr 2020, cyflwynodd y Cabinet ddyraniadau dangosol ar lefel MEG, ar sail ein ffocws ar **ddiogelu** iechyd a swyddi, **adeiladu** dyfodol gwyrddach ac ysgogi **newid** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal. Dengys y dyraniadau dangosol fod yna gynnydd net o £33m (7%) yng nghyllidebau Adnoddau’r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Mae hyn

yn cynnwys gostyngiadau yn y MEG mewn perthynas â chyllid afreolaidd y flwyddyn flaenorol a throsglwyddiad MEG i MEG o £1.145m i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol yng nghyswllt y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

15. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y flaenoriaeth "Adeiladu Dyfodol Gwyrddach" yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Dyraniadau ychwanegol o £5m i Ynni Glân a Thlodi Tanwydd, £5m i Fioamrywiaeth, £13.2m tuag at Ffermio a Physgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE, a £6.6m ar gyfer yr Economi Gylchol.

Tabl 3. Dyrannu Adnoddau Ychwanegol – Refeniw gan y Cabinet

	Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m	
Llinell Sylfaen Agoriadol a Addaswyd	**475.482**	
Ymrwymiad Blaenorol – Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol	3.363	
Dyraniadau Penodol	16.624	
Ffermydd a Physgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE	13.235	
Cyfanswm y Dyraniadau	**33.222**	
Trosglwyddo Cronfeydd i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol	(1.145)	
Cyllideb Ddrafft 2021-22: Cyllideb Refeniw (Gweler y Tabl BEL)	**507.559**	
	BEL	
Cymhwyso Dyraniadau Ychwanegol (33.222m)		
Ynni –Tlodi Tanwydd	1270	1.058
Ynni – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	2809	2.334
Ynni – Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd	3771	1.608
Llifogydd – Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol	2230	3.363
Bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion	2825	3.550
Bioamrywiaeth – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored	2490	1.450
Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol	2190	6.624
Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE	2830	2.100
Swm atodol (Cynllun y Taliad Sylfaenol) Taliadau Amaethyddiaeth Colofn 1 yr UE	2787	6.855
Y Cynllun Datblygu Gwledig	2949	4.280
Cyfanswm y Dyraniadau i'r BEL		**33.222**

Cyllideb Ddrafft 2021-22 – Cyfalaf

16. Ar gyfer yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gwelir cynnydd net o £35m yn y gyllideb gyfalaf yn ystod 2021/22. O blith yr arian hwn, mae

swm o £15m wedi'i ddyrannu i Ynni Glân a Thlodi Tanwydd a swm o £20m i'r Economi Gylchol.

17. Mae buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith wedi bod yn bwysig wrth gwrdd â'r gostyngiadau carbon a oedd yn angenrheidiol. Bu'r effaith carbon sydd ynghlwm wrth gynigion buddsoddi yn ystyriaeth allweddol wrth ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd, ochr yn ochr â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac rwy'n falch o fod wedi gallu dyrannu buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar draws Ynni Glân a'r Economi Gylchol, sy'n cyfrannu'n helaeth at Ddatgarboneiddio ac effeithiau Newid Hinsawdd.

Tabl 4: Dyrannu Cyfalaf Ychwanegol 2021-22

Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb Gyfalaf	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m**
Cyllideb Gyfalaf Agoriadol 2020-21	**130.992**
Ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol 2020-21	26.400
Addasiad ar gyfer Cyllid Pontio afreolaidd yr UE	(0.500)
Cyllid Trafodiadau Ariannol Afreolaidd	(2.000)
Cyllid Ychwanegol – Tlodi Tanwydd (BEL 1270)	4.000
Cyllid Ychwanegol – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (BEL 2809)	11.000
Cyllid Ychwanegol – Yr Economi Gylchol (BEL 2190)	20.000
Cyllideb Gyfalaf Ddrafft 2021-22	**189.892**

Rhaglen Lywodraethu – Ffyniant i Bawb

18. Rwyf wedi ystyried y paratoadau cyllidebol drwy edrych ar y dystiolaeth o anghenion a'r pwysau ar ein meysydd blaenoriaeth yn ein Strategaeth Genedlaethol – Ffyniant i Bawb, yn cynnwys Datgarboneiddio. Caiff y dull gweithredu hwn ei adlewyrchu yn fy mhenderfyniad i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus a'n rhaglenni ataliol, a'u diogelu, ynghyd â chydbwyso anghenion y tymor byr a'r tymor hir.

19. Rydym yn defnyddio'r gyllideb hon er mwyn annog pob cymuned yng Nghymru i chwarae ei rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a wynebwn. Bydd angen mwy na gwariant y Llywodraeth yn unig i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Felly, nid ein mentrau mwyaf grymus o angenrheidrwydd a gaiff y buddsoddiad ariannol uchaf, ond y rhai sy'n rhoi cyfle i bobl yng Nghymru roi o'u hamser a'u hegni i weithredu'n uniongyrchol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

20. Y perygl mwyaf i'n cymunedau yn sgil newid hinsawdd yw stormydd, llifogydd ac erydu arfordirol cynyddol ddifrifol sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghymru. Yn y gyllideb hon, rydym yn amddiffyn cymunedau Cymru rhag effeithiau mwyaf difrifol ac uniongyrchol newid hinsawdd, fel rhan o fuddsoddiad cyfalaf gwerth £140 miliwn yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Hefyd, rydym yn helpu i godi £150 miliwn yn ychwaneg dros dair blynedd mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol Cymru i amddiffyn 18,000 a mwy o gartrefi fel rhan o'n Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

21. Y perygl mwyaf i gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru yn sgil newid hinsawdd yw'r effaith ar gostau ynni cartref. Yn y gyllideb hon, rydym yn ymrwymo £31 miliwn, gan gynnwys £8 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, i ariannu mesurau arbed ynni ar gyfer 25,000 o aelwydydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf anghenus, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda chyflyrau anadlol a chyflyrau cylchrediad y gwaed.

22. Yn 2021-22 rydym yn dyrannu £15m o gyllid cyfalaf a £5m o gyllid refeniw ychwanegol, ar ben y cyllidebau sydd i'w cael eisoes, er mwyn sicrhau y gallwn gynyddu manteision ein rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad yn y rhaglenni hyn i £40m yn 2021-22.

23. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynyddu ein huchelgais o ran newid hinsawdd yn unol â chyngor Sero Net y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein huchelgais mewn ffordd a fydd yn creu cyfleoedd i economi Cymru ac yn cefnogi ein cymunedau, gan eu gwneud yn iachach ac yn decach.

24. Gall coetiroedd a choed fod yn bwysig o ran cynnal bioamrywiaeth, mewn mannau trefol a gwledig fel ei gilydd. Wrth galon ein dull o ymdrin â'r dirywiad a mynd i'r afael â bioamrywiaeth mae ein rhaglen Coedwig Genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn anelu at wella cyflwr ein coetiroedd hynafol mwyaf gwerthfawr, ynghyd â gwella'r cysylltiad rhyngddynt, ac mae hefyd yn anelu at gyflymu'r gwaith o blannu coed. Nid yn unig rydym wedi llwyddo i gynnal y £4.5m o gyllid cyfalaf a roddasom eleni, rydym hefyd yn buddsoddi £5m yn ychwaneg o gyllid refeniw er mwyn cyflymu'r rhaglen honno.

25. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn creu mwy o goetiroedd cymysg, yn ymestyn coetiroedd presennol, yn rhoi dulliau rheoli gweithredol ar waith yn y coetiroedd er mwyn cynnal iechyd coed a mynd i'r afael â phlâu a chlefydau, ac yn chwilio am gyfleoedd i gysylltu coetiroedd gyda'i gilydd er mwyn gwella cadernid ecolegol.

Datgarboneiddio, Cyllidebau Carbon a tharged statudol uwch ar gyfer lleihau allyriadau

26. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein paratoadau cyllidebol ar ddatgarboneiddio ar draws y Llywodraeth.

27. Mae Cymru Carbon Isel yn nodi 100 o bolisïau a chynigion. Y camau hyn, a bennwyd gennym ar gyfer 2016-2020, a fydd yn cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf a'n targed interim ar gyfer 2020. Mae'r camau hyn, a seilir ar dystiolaeth y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, naill ai'n lleihau allyriadau'n uniongyrchol neu'n cyfrannu at bontio i economi carbon isel mewn modd teg, a dyma'r camau a fydd yn ein galluogi i gwrdd â'n targedau deddfwriaethol a'n rhoi ar y llwybr tuag at leihau allyriadau.

28. Ers i'n Cynllun gael ei gyhoeddi, rydym wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd ac wedi cyflymu ein huchelgais. Y llynedd, derbyniais argymhelliad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i gynyddu targed 2050 Cymru i 95%, a gofynnais am gyngor pellach ynglŷn â sut mae'r targed newydd ar gyfer 2050 yn effeithio ar y targedau interim a'r cyllidebau carbon a bennwyd yn 2018. Erbyn hyn rydym wedi cael cyngor pellach, ac mae cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn glir, ar sail tystiolaeth a dadansoddiad annibynnol, fod yna lwybr fforddiadwy, dichonadwy a chredadwy tuag at sero net i Gymru erbyn 2050.

29. Yn awr, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf, a fydd yn cwmpasu cyfnod yr ail gyllideb garbon. Rydym wedi dechrau llunio'r Cynllun a'r polisïau a'r cynigion i gwrdd â'n hail gyllideb garbon. Gwyddom eisoes y bydd yr uchelgais uwch yn golygu y bydd yn rhaid cynyddu graddfa a chyflymu cyfradd y polisïau y mae eu hangen i gwrdd â'n targed newydd. Bydd yn rhaid i'r camau hyn gael eu hariannu gan y cyllidebau ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod amser hwnnw a byddant yn cael eu pennu gan y camau y dewiswn eu cymryd. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r cyngor a gafwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

30. Mae gennym gyfle pwysig i gydweddu'r paratoadau ar gyfer ein cynllun nesaf i gwrdd â'r ail gyllideb garbon ar gyfer 2021-26 a'r cynllun a fydd yn olynu fersiwn gyfredol y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

31. Rhaid i ni fod yn glir ynglŷn â chysylltiadau rhwng y gyllideb ariannol a'r gyllideb garbon. Y dull gweithredu presennol yw bod y "gyllideb garbon" yn pennu'r trywydd ar gyfer lleihau allyriadau Carbon, ac y bydd y gyllideb ariannol yn tynnu sylw at achosion pan fydd gwariant mewn meysydd polisi yn helpu i gyflawni'r amcan (e.e. mesurau datgarboneiddio).

32. Bydd mwyafrif y penderfyniadau ynglŷn â gwariant yn dylanwadu ar ystod lawn o ganlyniadau, ac ar sail ein profiadau blaenorol fel Llywodraeth wrth geisio cyflawni amryfal fanteision sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw priodoli pob punt a wariwn i un canlyniad yn cynrychioli'r cysylltiad rhwng gwariant a chanlyniadau mewn modd cywir nac ystyrlon. Felly, rydym wedi mynd ati i bennu prosiectau sy'n ategu gostyngiadau mewn allyriadau, yn hytrach na chynrychioli holl wariant Llywodraeth Cymru ar liniaru newid hinsawdd.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'w chyhoeddiad fod yna "argyfwng hinsawdd" a sut mae'r cyhoeddiad hwn wedi dylanwadu ar ddyrannu cyllidebau

33. Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a chyflawni yn erbyn yr ymrwymiad y bydd y sector cyhoeddus yn sero net erbyn 2030, bydd cyllid yr economi gylchol hefyd yn parhau i gefnogi'r arfer o gyflwyno Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ar gyfer casglu gwastraff ac eitemau i'w hailgylchu. Yn ogystal â lleihau allyriadau carbon, bydd hyn yn helpu i wella ansawdd yr aer, yn lleihau sŵn, yn gwella effeithlonrwydd ac yn gostwng costau cynnal a chadw hirdymor, gan helpu hefyd i esgor ar werth ychwanegol yn sgil cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a chefnogi'r twf ehangach mewn swyddi gwyrdd.

34. Trwy hyn, bydd y dyraniad cyllid ychwanegol ar gyfer yr economi gylchol yn helpu cymunedau, canol trefi, ysgolion, prifysgolion, busnesau ac awdurdodau lleol i wneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i barhau â'n gwaith – nid yn unig o ran gwella ailgylchu, ond hefyd o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar dwf cyflym Caffis Atgyweirio er mwyn creu hybiau mewn canol trefi a chymunedau ledled Cymru lle gall pobl fynd â nwyddau i'w hatgyweirio neu gael gafael ar eitemau y gellir eu hailddefnyddio.

35. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adferiad gwyrdd a glas ar ôl Covid-19 ynghyd â chyfoethogi'r fioamrywiaeth sy'n sail i'n hiechyd, ein heconomi a'n llesiant. Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, y Goedwig Genedlaethol ac adfer mawndiroedd a safleoedd Natura 2000 – dyma rai o'r mentrau a roddwn ar waith i gyflawni hyn.

36. Fel Llywodraeth, rydym wedi cydnabod yr argyfwng natur mwyfwy difrifol a'r ffaith ein bod ni, ynghyd â gweddill y DU a'r byd, wedi methu â gwneud cynnydd digonol yn erbyn y targedau byd-eang, a'r canlyniad o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

37. Trwy gyfrwng ein mentrau polisi, rydym wedi cymryd camau i lwyr ymwreiddio ystyriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth, yn unol â'n Polisi Adnoddau Naturiol, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ein dyletswydd adran 6 mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ac, yn fwyaf arbennig, trwy gyfrwng ein proses gyllidebu.

38. Rwyf wedi cydnabod yr argyfwng natur mwyfwy difrifol a'r ffaith ein bod ni, ynghyd â gweddill y DU a'r byd, wedi methu â gwneud cynnydd digonol yn erbyn y targedau byd-eang, a'r canlyniad o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

39. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda fframwaith bioamrywiaeth y DU, rhanbarthau a llywodraethau is-genedlaethol a'r

Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i ddatblygu dangosyddion a thargedau uchelgeisiol ar gyfer y degawd nesaf.

40. Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran yr hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ddibynnol ar y naill a'r llall. Mae chweched gyllideb garbon y DU yn ddibynnol ar y ffaith y bydd Cymru yn chwarae ei rhan, ac ni allwn ni yng Nghymru gwrdd â'n targedau heb i Lywodraeth y DU weithredu. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd buddion a chostau'r broses o bontio i sero net yn cael eu rhannu'n deg gan bob rhan o'r DU.

41. Mae data'n ymwneud ag allyriadau'n awgrymu ein bod ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf a tharged 2020, ond bydd cyllidebau a thargedau'r dyfodol yn gofyn mwy fyth. Rhaid i bob un ohonom ddwysáu ein hymdrechion os ydym am weld Cymru yn cyfrannu mewn modd teg at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Sut mae gosod bioamrywiaeth fel wythfed flaenoriaeth Ffyniant i Bawb wedi dylanwadu ar y broses pennu cyllidebau ar gyfer eleni a'r cyllidebau a fydd yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth

42. Y llynedd, trwy gynnwys bioamrywiaeth fel un o'r wyth blaenoriaeth drawsbynciol am y tro cyntaf, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a chydnabod yr angen brys i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Eleni, wrth ddyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol, gofynnwyd am roi blaenoriaeth i fuddsoddiadau cyfalaf mewn newid hinsawdd a bioamrywiaeth ochr yn ochr â'n buddsoddiadau allweddol mewn tai, canol trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal ag ystyriaeth orfodol trwy asesiadau effaith.

43. Ariannwyd Tasglu Bioamrywiaeth trwy gyfrwng cyllideb 2020-21 er mwyn prif ffrydio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth – mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer 2021-22 i barhau â'r gwaith hwn.

44. Mae'r pecyn cyllid £33m a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth, natur a'r Goedwig Genedlaethol yn ein galluogi i adeiladu ar y prosiectau a'r rhaglenni sydd gennym ar waith i'n helpu i gwrdd â'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ymdrin â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd, gan sicrhau yr un pryd y bydd ein hadferiad ar ôl Covid-19 yn adferiad gwirioneddol wyrdd.

45. Gan weithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd y **Gronfa Adferiad Gwyrdd** yn esgor ar welliannau i natur, sef gwelliannau y bydd modd i gymunedau lleol elwa'n uniongyrchol arnynt gyda gwell mynediad. Mae hyn yn ategu ein **Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** – bydd y rhaglen hon yn cael ei hymestyn, a bydd yn creu 'natur ar garreg eich drws' mewn mwy o gymunedau ledled Cymru.

46. Byddwn yn parhau i gymryd camau i gynorthwyo'r gwaith o adfer safleoedd **Natura 2000** a safleoedd gwarchodedig eraill. Mae'r safleoedd hyn yn cynnig hafan i'n rhywogaethau a'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr a'r rhai sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf. Mae gwella cyflwr y safleoedd hyn yn hollbwysig o ran creu rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled Cymru, gan ddarparu manteision i bobl a busnesau yr un pryd.

47. Bydd parhau i fuddsoddi yn y gwaith o adfer ein **Mawndiroedd** trwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn esgor ar fanteision i fioamrywiaeth, a hefyd bydd yn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd trwy ddal mwy o garbon ac atal llifogydd.

48. Bydd parhau i ddatblygu'r **Goedwig Genedlaethol** yn arwain at gyfleoedd ychwanegol i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy gael coetiroedd â gwell cysylltiad rhyngddynt a rhai a reolir yn well.

Gwariant ataliol

49. Bu'r effaith carbon sydd ynghlwm wrth gynigion buddsoddi yn ystyriaeth allweddol wrth ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd, ochr yn ochr â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith a mesurau ataliol yn hollbwysig o ran cwrdd â'r gostyngiadau carbon sy'n angenrheidiol.

50. Rhaid i ni ddeall effaith ein polisïau er mwyn cyfyngu ar ganlyniadau anfwriadol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ein sylfaen dystiolaeth ehangach, fel offeryn modelu allyriadau. Fe fydd hyn yn caniatáu i ni ddatblygu polisïau a chynigion yn y dyfodol mewn modd a fydd yn gwneud y gorau o'r nodau ac yn cyfyngu ar ganlyniadau anfwriadol.

51. Ymhellach, yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu grŵp cynghori ar gyfiawnder hinsoddol er mwyn sicrhau y bydd ein cyfnod pontio'n osgoi canlyniadau anfwriadol. Yn awr, mae swyddogion yn gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i archwilio'r dystiolaeth y mae ei hangen er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio yn cyfuno datgarboneiddio ag ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol ac economaidd.

52. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn pennu'r amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Dengys gwaith ymchwil diweddar fod buddsoddiad o £100m yn lleihau'r perygl i 7,000 o gartrefi a busnesau, yn diogelu mwy na 14,000 o swyddi ac yn creu mwy na 1,000 o swyddi. Ymhellach, mae gwario arian ar waith cynnal a chadw yn lleihau'r perygl y bydd yr asedau'n methu.

53. Dengys ein buddsoddiad parhaus yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sut mae ein syniadau arloesol yn gwneud i gyllidebau fynd ymhellach ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym yn buddsoddi mewn ffyrdd sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau, ond sydd hefyd yn arwain at arbedion ariannol gan fod cyrff cyhoeddus yn gwario llai ar eu biliau ynni.

Mae'n canolbwyntio ar brosiectau seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau, ac ynni yn sgil prosiectau gwastraff.

54. Trwy fuddsoddi yn y gwaith o ymdrin â thlodi tanwydd, rydym yn cyfrannu at fynd i'r afael ag ystod o effeithiau negyddol, yn cynnwys cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â thywydd oer, marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol plant, ac absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch. Dengys canfyddiadau gwaith ymchwil fod cynllun Nyth Cartrefi Clyd yn cael effaith gadarnhaol bendant ar iechyd y rhai sy'n rhan o'r cynllun, a bod y rhai sy'n elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni trwy gyfrwng y cynllun yn defnyddio llai ar y GIG.

55. Mae ein buddsoddiadau mewn rhaglenni dileu clefydau anifeiliaid yn ataliol eu natur. Er enghraifft, nod y Rhaglen Dileu TB yn y pen draw yw llwyddo i gael gwared â TB gwartheg – rhywbeth a fydd yn arwain at wario llai ar fesurau dileu ac iawndal, yn ogystal â llai o golledion dilynol i'r diwydiant, gan roi hwb felly i economi Cymru.

Llunio Polisïau sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

56. Mae amgylchedd Cymru yn sail i'r sectorau amaethyddiaeth, pysgodfeydd, twristiaeth a choedwigaeth, ac mae'n bwysig hefyd i feysydd polisi eraill, yn cynnwys iechyd a llesiant, ynni a seilwaith. Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n meithrin cadernid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac er mwyn gwerthuso'r modd mae'r rhaglen yn gweithredu, rydym yn buddsoddi'n flynyddol yn y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP).

57. Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn darparu rhaglen monitro a modelu amgylcheddol; mae'n casglu ac yn cymathu data, yn dadansoddi ac yn modelu, ac yn rhoi tystiolaeth benodol i dimau polisi, i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac i randdeiliaid.

58. Er enghraifft, rwy'n bwrw ymlaen ag ymrwymiad y maniffesto i greu Coedwig Genedlaethol, a hynny ar ffurf rhaglen goedwigaeth a fyddai'n esgor ar amrywiaeth o fanteision. Bydd y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn cynorthwyo i sefydlu Coedwig Genedlaethol trwy ddarparu ystod o dystiolaeth dros bedwar cyfnod allweddol. Bydd y pecyn tystiolaeth yn cynorthwyo Polisi Coedwigaeth i ddatblygu elfennau allweddol y Goedwig Genedlaethol ynghyd â chyflwyno tystiolaeth yn eu cylch, a bydd yn gwneud hynny'n benodol trwy gefnogi achos busnes a fydd yn nodi amcanion a chanlyniadau'r Goedwig Genedlaethol.

59. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw gwerthuso'r Rhaglen bresennol er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Cytunwyd yn ffurfiol ar gynllun gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol gyda'r Comisiwn

Ewropeaidd fel rhan o broses gymeradwyo'r Rhaglen. Mae'r cynllun gwerthuso, a chyflawni yn erbyn hyn, yn elfen orfodol o'r Rhaglen.

60. Enghraifft arall yw'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, lle nodir yr amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Ceir lefel dda o dystiolaeth ar sail mapiau perygl llifogydd presennol (ar gyfer perygl llifogydd o du afonydd, yr arfordir a dŵr wyneb), Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, strategaethau lleol, yr Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol a'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl.

61. Ymhellach, byddwn yn gweithio gyda CNC, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i lunio cynigion ar gyfer rhaglen monitro bioamrywiaeth forol integredig y DU, sy'n cynnwys monitro mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar y cyd ag arbenigwyr gwyddoniaeth a pholisi trwy gyfrwng Grŵp Asesu ac Adrodd Morol y DU a'r Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol. Bydd y rhaglen fonitro hon yn cyflwyno'r dystiolaeth y mae ei hangen i asesu ac adrodd yn hyderus ar iechyd a statws ein bioamrywiaeth forol a'n cynnydd tuag at fodloni statws amgylcheddol da, yn unol â'n hymrwymiadau yn Strategaeth Forol y DU.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

62. Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb drafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd y tueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau'r dyfodol a'u heffeithiau posib yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

63. Er enghraifft, mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyfrannu'n helaeth ar draws llawer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru dan ein Strategaeth Genedlaethol "ffyniant i bawb", gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da. Cyflawnir hyn trwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r holl effeithiau negyddol cysylltiedig a gaiff ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

64. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu ein hamgylchedd morol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Un ffordd hollbwysig o gyrraedd yr amcan hwn yw ein rhwydwaith o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cwmpasu 69% o ddyfroedd mewndirol Cymru a 50% o holl ddyfroedd môr mawr Cymru.

65. Bwriad y Cynllun Twf Amgylcheddol yw bod yn naratif cyffredin ar gyfer yr hyn rydym yn ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i greu Cymru wyrddach, gan bennu dull strategol, mwy cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r saith nod llesiant dan yr egwyddor

datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith clir ar gyfer creu'r Cynllun, gyda'r pum ffordd o weithio yn sail i'r ffordd y gweithiwn.

66. Er enghraifft, bydd y Cynllun Twf Amgylcheddol yn gynllun hirdymor ac ataliol a chanddo'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur. Ei nod yw bod yn integredig ac yn gydweithredol ar draws Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, a chynnwys y sector preifat a'r trydydd sector. Y bwriad hefyd yw sicrhau manteision ehangach, megis defnyddio'r amgylchedd naturiol i hybu iechyd a llesiant y meddwl a'r corff a chwalu rhwystrau at iechyd e.e. llygredd aer.

67. Bydd yr ymrwymiad ym maniffesto'r Prif Weinidog ar gyfer coedwig genedlaethol newydd yn helpu i gefnogi nodau Coetiroedd i Gymru, yn ogystal â blaenoriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth, coedwigaeth fasnachol, adeiladu, cydlyniant cymunedol ac adfywio cymunedol, ac iechyd a llesiant.

Effeithiau ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant

68. Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, bu nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effeithiau Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effeithiau integredig wedi'u prif ffrydio'n rhan o'r broses llunio polisïau, yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.

69. Rwy'n falch o ddweud nad ydym wedi cyflwyno unrhyw ostyngiadau cyllidebol yn y gyllideb ddrafft hon, felly cynhaliwyd unrhyw asesiadau effeithiau ar nifer o fentrau polisi a chyllidebol newydd.

70. Dengys canlyniadau'r asesiadau effeithiau nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd o ganlyniad i'r penderfyniadau cyllidebol hyn.

Y Gymraeg

71. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud y tri pheth canlynol:

    1. Ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (rhai cadarnhaol a negyddol)

    2. Ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg

    3. Gofyn am sylwadau ynglŷn â'r effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori, a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith

72. Fel rhan o'r broses Asesu Effeithiau Integredig, rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg ac wedi nodi nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

Hawliau Plant

73. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o'r ychydig wledydd trwy'r byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig trwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

74. Caiff dyletswyddau'r Mesur eu gweithredu mewn dau gam ac maent yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru:

- i roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisïau a deddfwriaethau;
- i roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pan fyddant yn arfer eu holl bwerau neu eu holl ddyletswyddau cyfreithiol.

75. Ar draws fy mhortffolio, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wrth bennu'r gyllideb hon.

Ail-greu ar ôl Covid 19

76. Mae *Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau* gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r economi gylchol wrth galon ein dull o ail-greu, gyda gweithredu ar yr economi gylchol yn rhan allweddol o adferiad gwyrdd. Bydd y cyllid ychwanegol a ddyrennir i economi gylchol yn parhau gyda'r gwaith, ac mae eisoes yn cefnogi gweithredu ledled Cymru trwy gyfrwng Cronfa'r Economi Gylchol. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o wella ailgylchu, ond hefyd byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar dwf cyflym Caffis Atgyweirio er mwyn creu hybiau mewn canol trefi a chymunedau ledled Cymru lle gall pobl fynd â nwyddau i'w hatgyweirio neu gael gafael ar eitemau y gellir eu hailddefnyddio.

77. Ymhellach, byddwn yn parhau gyda'r cymorth a rydd Cronfa'r Economi Gylchol i gyrff a ariennir yn gyhoeddus, er mwyn eu galluogi i weithredu. Eisoes, mae hyn wedi esgor ar 112 o brosiectau ledled Cymru gan ysgolion, prifysgolion, ysbytai, cynghorau cymuned a thref, a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus – yn amrywio o wella ailgylchu yn y gymuned i arloesi blaengar yn ein Prifysgolion.

78. Er enghraifft, y canolfannau rhannu bwyd cymunedol yng Ngwynedd, Sied Rhannu ac Atgyweirio Ffonau Symudol Cyngor Tref Llangollen, darparu peiriannau llaeth a biceri ledled Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r

Ganolfan Ailddylunio, Atgyweirio, Ailweithgynhyrchu ac Ailddefnyddio ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Labordy Ymchwil Dadansoddi Cylch Bywyd yr Economi Gylchol ym Mhrifysgol Abertawe.

79. Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi gwell cadernid economaidd trwy fyrhau cadwyni cyflenwi – er enghraifft, trwy fanteisio ar ein busnesau ailgylchu a'n busnesau cynorthwyol o safon fyd-eang i ddefnyddio'r deunyddiau a ailgylchir. Yn ei dro, bydd hyn yn ysgogi gweithgarwch economaidd a chyfleoedd sgiliau mewn effeithlonrwydd adnoddau, a dengys gwaith ymchwil y gallai symud tuag at economi fwy cylchol greu hyd at 30,000 o swyddi newydd yng Nghymru ac arwain at arbed £2 biliwn mewn costau deunyddiau'n unig.

80. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at wendidau allweddol mewn cadwyni cyflenwi, a gall canolbwyntio ar economi gylchol helpu i fyrhau'r cadwyni cyflenwi hynny, gan wella ein cadernid economaidd ac amgylcheddol. Gan adeiladu ar y camau rydym eisoes wedi'u cymryd i gynorthwyo busnesau a chyrff cyhoeddus i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, rydym yn ymrwymo cyllid refeniw o £6.6m a chyllid cyfalaf o £20m, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn 2021-22 i fwy nag £82m.

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

81. Fel y gwelwyd yn Adolygiad y DU o Wariant, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyflawni ei hymrwymiad i ddisodli cyllid yr UE yn llwyr. Ni chawsom unrhyw gyllid yn y setliad mewn perthynas â disodli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE. Bydd rhaglen beilot ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n werth £220 miliwn yn 2021-22, yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill, gan arwain y ffordd ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyr yn 2022-23.

82. O ran cymorth i ffermwyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai Cymru yn cael £242m o Gyllid i Ffermwyr i ddisodli cyllid y UE – mae'r swm hwn £137m yn llai na'r swm roeddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ofyn a oes modd diwygio lefel y cyllid y cytunwyd arno ar gyfer 2020-21 fel y gellir cynnwys £42m yn ychwaneg mewn perthynas â'r trosglwyddiad Colofn y cytunwyd arno ar ddechrau'r flwyddyn. Byddai hyn yn ein galluogi i ariannu rhyw fath o Gynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y flwyddyn ariannol hon – sef rhywbeth a fyddai'n gwrthbwyso rhywfaint o'r diffyg.

83. Yn ei maniffesto ar gyfer etholiad cyffredinol 2019, ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid i ffermwyr i ddisodli cyllid yr UE ar ôl i ni ymadael â'r UE. Câi Cymru oddeutu £337m y flwyddyn trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

84. Mae'r cyllid mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig yn llai o lawer na'r disgwyl. Nid yw'n darparu cyllid a all ddisodli'n llwyr y cyllid a geid gan yr

UE, a chaiff hyn effaith anghymesur ar Gymru. Mae Llywodraeth y DU wedi honni ei bod wedi ymrwymo i wneud pethau'n fwy cyfartal, ond yn hytrach fe fydd hyn yn arwain at swm sydd £137m yn llai na'r disgwyl ar gyfer ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru.

85. Pleser yw dweud bod fy swyddogion a minnau wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn unol yn ein rhwystredigaeth a'n gwrthwynebiad i'r dull a roddir ar waith gan Lywodraeth y DU.

86. O ran pysgodfeydd, bydd y cyllid o £2.1m rydym wedi'i gael yn helpu'r sector morol a physgodfeydd i ryw raddau, sef sector sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE. Caiff y cyllid rydym wedi'i gael ar gyfer pysgodfeydd a chymorth i ffermwyr ei adlewyrchu yn nyraniadau refeniw'r MEG.

Rhaglen Rheoli Tir Newydd

87. Bydd y Rhaglen Diwygio Rheoli Tir yn darparu system cymorth amaethyddol a gaiff ei theilwra ar gyfer Cymru. Bydd yn cynorthwyo ffermwyr Cymru i ffynnu, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chyfrannu at yr argyfwng hinsawdd. Mae'r *Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth yng Nghymru* (a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr) yn nodi cyfres o gynigion a fydd yn arwain y ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a gyflwynir yn ystod tymor nesaf y Senedd.

88. Bydd y Bil hwn yn strategol ei gwmpas. Bydd yn pennu fframwaith cymorth a all helpu i ddatblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru ar gyfer y pymtheg i'r ugain mlynedd nesaf. Bydd y Bil yn galluogi ffermwyr i gael cymorth ariannol, gan sicrhau y gellir rhoi system reoleiddio gydlynol a theg ar waith o fewn y sector amaethyddol.

89. Cynigiwn gyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol – sef cynllun a fydd yn rhoi gwerth gwirioneddol ar y canlyniadau amgylcheddol a ddarperir gan ffermwyr (priddoedd gwell, aer glân, dŵr glân, gwell bioamrywiaeth, camau i leihau cynhesu byd-eang), ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i greu sector amaethyddol cynaliadwy a chadarn yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

90. Bydd y cynllun arfaethedig (y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol. Lefel y taliad fydd y newid sylfaenol, a bydd yn gysylltiedig â'r camau y bydd y ffermwr yn eu cymryd. Ymhellach, bwriadwn greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth, gan roi'r holl reoliadau amaethyddol mewn un darn o ddeddfwriaeth. I ategu hyn byddwn yn creu cyfundrefn orfodi newydd, gan ddefnyddio ystod o sancsiynau sifil a fydd yn gymesur â phob achos unigol, a chan barhau i ddefnyddio sancsiynau troseddol ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol a throseddau a ailadroddir.

91. Bydd ystod o waith dadansoddi a gwaith ymgysylltu yn cael ei gynnal yn 2021 i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn, fel y gellir sicrhau bod y cynllun ffermio cynaliadwy arfaethedig yn addas i'r diben, ynghyd â deall yr effaith ar y sector amaethyddol.

92. Mae gan y Rhaglen Diwygio Rheoli Tir gyllideb o 400k y flwyddyn i fynd i'r afael â'r gwaith dadansoddi a'r gwaith ymgysylltu.

Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd

93. Ym mis Medi 2020 cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â chanlyniad yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. A ninnau'n gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae llunio Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn yn adeiladu ar y farn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd, a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i ddarparu Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllideb benodol i'w chael ar gyfer datblygu Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd; y gyllideb ar gyfer y Môr a Physgodfeydd a fydd yn talu unrhyw gostau.

94. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Pysgodfeydd y DU ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n bosibl i sefydlu fframwaith clir a chadarn ar lefel y DU ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd, ac mae'n rhoi'r pwerau a'r dulliau rheoli angenrheidiol i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer ein pysgodfeydd penodol yng Nghymru, ar ôl i ni ymadael â'r UE.

Corff Llywodraethu Amgylcheddol Newydd

95. Bwriad y mesurau dros dro yw 'llenwi'r bwlch' rhwng diwedd y cyfnod pontio a'r adeg y cyflwynir mesurau statudol.

96. Mesurau dros dro yn unig yw'r rhain – ffordd o arwain tuag at gorff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Mater i'r Senedd nesaf fydd rhaglen ddeddfwriaethol y dyfodol, ond rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i roi corff parhaol ar waith cyn gynted ag y bo modd.

97. Ein hegwyddor arweiniol ar gyfer y mesurau dros dro yw sicrhau na fydd penderfyniadau a wneir dros dro yn cyfyngu ar ein proses benderfynu ar gyfer y mesurau parhaol.

98. A ninnau â chyfres o egwyddorion amgylcheddol sydd wedi ennill eu plwyf ynghyd â set wahanol o gyrff, mae Cymru eisoes mewn cyd-destun lle mae yna fframwaith deddfwriaethol ar waith y gellir adeiladu arno. Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, rhaid i ni sicrhau ein bod yn ategu ein deddfwriaethau, ein prosesau a'n sefydliadau presennol, a gydnabyddir yn rhyngwladol.

99. Ar 19 Tachwedd, cyhoeddais fy ymateb i adroddiad y grŵp gorchwyl llywodraethu amgylcheddol. Rwyf wedi derbyn argymhelliad y Grŵp

Gorchwyl ynglŷn â chael corff goruchwylio ar gyfer Cymru, ac yn hyn o beth disgwyliaf y byddwn yn cyflawni'n llwyr yn erbyn y swyddogaethau a gâi eu darparu'n flaenorol gan Gomisiwn yr UE.

Deddfwriaeth

100. Mae'r swyddogion wedi edrych yn ofalus ar bob deddfwriaeth Categori 1 ac mae nifer o ymarferion blaenoriaethu wedi'u rhoi ar waith i leihau'r baich deddfwriaethol cyffredinol cyn diwedd y Senedd bresennol.

101. Mae llawer iawn o ddeddfwriaethau hanfodol yr UE yn angenrheidiol ar draws fy mhortffolio i roi gofynion ar waith – er mwyn sicrhau y bydd gennym lyfr statud llwyr weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Os na allwn sicrhau y bydd y deddfwriaethau angenrheidiol mewn lle, ni fydd modd i ni gyflawni swyddogaethau craidd y llywodraeth.

Is-ddeddfwriaethau

102. Ar hyn o bryd, mae yna 24 o is-ddeddfwriaethau'n ymwneud â'r UE y bernir eu bod yn hanfodol erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Fodd bynnag, mae yna elfen o ddynamiaeth yn perthyn i'r niferoedd, oherwydd efallai y bydd niferoedd Offerynnau Statudol Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE yn newid. Byddai methu â gweithredu deddfwriaethau o'r fath yn arwain at rwyg gyfreithiol, h.y. dim trosi, gweithredu na chydymffurfio â chyfraith yr UE a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU fel rheol gyffredinol yn ystod y Cyfnod Gweithredu.

103. Er bod 14 o Offerynnau Statudol eraill wedi'u pennu fel blaenoriaethau uchel ar gyfer gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi cael eu gohirio tan ddechrau 2021. O blith y ffigur hwn, gellir gohirio 10 heb greu problemau cyfreithiol neu broblemau masnach.

104. Mae gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti yn ymrwymiad Gweinidogol allweddol. Mae gan y Rheoliadau hyn gefnogaeth drawsbleidiol, ac rwyf wedi ymrwymo i ddeddfu erbyn Gwanwyn 2021.

105. Rheoliadau Arddangosfeydd Anifeiliaid – Mae'r rhain wedi'u gohirio. Byddant yn cael eu hailasesu yn gynnar yn 2021.

Bil Amaethyddiaeth y DU

106. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 11 Tachwedd 2020.

107. Rydym yn cymryd pwerau am amser cyfyngedig ar gyfer Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth y DU er mwyn ein galluogi i barhau i gynorthwyo ffermwyr gyda chynllun y taliad uniongyrchol a sicrhau bod modd i sectorau amaethyddol ledled y DU allu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE. Daw pwerau Gweinidogion Cymru i ben

ar 31 Rhagfyr 2024 a byddant yn cael eu disodli gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a fydd yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd.

108. Pwerau dros dro fydd y pwerau a gaiff Gweinidogion Cymru, hyd nes y cyflwynir Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i greu system 'Gwnaed yng Nghymru' a fydd yn gweithio er budd amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a'n cymunedau. Caiff darpariaethau'n ymwneud â Chymru eu cynnwys mewn Atodlen ar wahân.

109. Erbyn hyn rwyf wedi cyhoeddi Papur Gwyn sy'n nodi cynlluniau ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd y Papur Gwyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gyflwynir yn nhymor nesaf y Senedd.

110. Cynigiaf y bydd y Bil hwn yn strategol ei gwmpas. Bydd yn pennu fframwaith cymorth a all helpu i ddatblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru ar gyfer y pymtheg i'r ugain mlynedd nesaf. Bydd y Bil yn galluogi ffermwyr i gael cymorth ariannol, gan sicrhau y gellir rhoi system reoleiddio gydlynol a theg ar waith o fewn y sector amaethyddol.

Bil Amgylchedd y DU

111. Gohiriwyd y gwaith o graffu ar Fil Amgylchedd y DU ar 19 Mawrth ac ailddechreuwyd ar y gwaith ar 3 Tachwedd yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Daeth y gwaith ar y Bil i ben yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 26 Tachwedd. Yn awr, rhagwelwn y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2021.

112. Rwyf wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Bydd y drafodaeth ynglŷn â'r Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei chynnal pan fydd y gwaith o graffu ar y Bil yn tynnu tua'r terfyn.

113. Mae Bil Amgylchedd y DU yn cynnwys pwerau allweddol i Gymru ar gyfer cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a rhoi cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith. Mae'r pwerau'n ymwneud â chodi tâl am ddefnyddio eitemau plastig untro, sicrhau bod cynhyrchion yn cwrdd â safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni, a gosod labeli cliriach ar gynhyrchion yn nodi effaith amgylcheddol y cynhyrchion, er budd defnyddwyr yng Nghymru.

Bil Pysgodfeydd y DU

114. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn yn ystod y camau terfynol. Mae'r Bil wedi pasio trwy'r ddau dŷ sy'n rhan o Senedd y DU. Yn awr, bydd y Bil yn mynd yn ôl i Dŷ'r Arglwyddi i'w ystyried am y tro olaf, a disgwylir y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y flwyddyn.

115. Bu'r Senedd yn trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 6 Hydref. Cytunwyd y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Pysgodfeydd, i'r graddau maent yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

116. Mae'r Bil yn rhoi'r pwerau a'r dulliau rheoli angenrheidiol i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru fel y gellir cyflawni er budd ein pysgodfeydd penodol yng Nghymru, ar ôl i ni ymadael â'r UE. Yn hollbwysig, mae'r Bil yn dal gafael ar y ddarpariaeth i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â materion yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, i ranbarth môr mawr Cymru.

117. Bwriad Llywodraeth Cymru o hyd, fel mesur dros dro, yw cymryd pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil Pysgodfeydd y DU, hyd nes y gellir cyflwyno parth Cymru a Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru.

118. Byddwn yn parhau i weithio gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i roi fframwaith ar gyfer y DU ar waith, lle cydnabyddir natur ddatganoledig y gwaith o reoli pysgodfeydd.

<u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u>

Tabl 5. Cymharu cyllidebau CNC

Cyllideb CNC	Cyllideb derfynol 2020-21 £m		Cyllideb ddrafft 2021-22 £m	Newid yn y gyllideb £m
GIA Refeniw*	59.033		59.717	0.684
GIA Cyfalaf	1.216		0.966	(0.250)
Cyfalaf Llifogydd**	12.700		12.700	0.000
Refeniw Llifogydd**	19.750		19.750	0.000
Cyfanswm	**92.699**		**93.133**	**0.434**

* Cymorth Grant (GIA) CNC BEL 2451 (Nid yw'n cynnwys cyllidebau nad ydynt yn arian parod)
** Cyllid llifogydd i'w gytuno ac mae'n rhan o BEL 2230, felly llinell wastad at ddibenion enghreifftiol

119. Mae cyllideb CNC ar gyfer 2021/22 yn cynnwys mân newidiadau o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2020-21. Mae'r cynnydd yn y cyllid refeniw yn deillio o newidiadau yng nghyllid pontio afreolaidd yr UE ac ailddatgan gostyngiadau blaenorol ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed ar ôl ad-daliadau. Mae'r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf yn deillio o gwblhau £0.250m tuag at gostau pontio'r UE ar gyfer 2020-21 yn unig. Ni fu unrhyw newid yn y Cymorth Grant craidd ar gyfer CNC yn 2021-22.

120. Yn y gyllideb hon, rydym yn cynnal cyllid Cymorth Grant Llywodraeth Cymru sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru, sef £60 miliwn (oddeutu £93 miliwn yn cynnwys cyllid rheoli llifogydd a dŵr y disgwylir cadarnhad yn ei gylch). Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i roi hwb i'w ymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'i effaith yng Nghymru. Gwneir hyn trwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ar dir y sector cyhoeddus a rheoli llifogydd yn fwy naturiol.

121. Un o heriau mwyaf Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n hanfodol bod CNC yn parhau i ymateb i'n hargyfwng hinsawdd a'r uchelgais gynyddol o sicrhau o leiaf 95% yn llai o allyriadau. Gyda CNC ar flaen y gad, nod y dasg o weithredu ar draws sawl sector yw ceisio sicrhau y bydd amgylchedd Cymru yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well.

122. Yn ogystal â Chymorth Grant, caiff CNC incwm masnachol. Ymhellach, caiff CNC nifer o grantiau bach gan wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, o un flwyddyn i'r llall, ar gyfer prosiectau sydd y tu hwnt i gwmpas y Cymorth Grant.

123. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a chaiff hyn ei sbarduno i raddau helaeth gan CNC. Bydd yn ofynnol i CNC gyflawni rhaglen waith ar adfer mawndiroedd a rhai o'n safleoedd Natura 2000. Law yn llaw â hyn, bydd CNC yn arwain y gwaith o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn erbyn plâu neu glefydau iechyd planhigion ac achosion o Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS). Ni cheir cadarnhad eto ynglŷn â dyraniadau cyfalaf pendant ar gyfer CNC i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

124. Mae CNC yn parhau i chwarae rhan werthfawr iawn yn y gwaith o reoli ac ehangu Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae CNC wedi cyflwyno cynlluniau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys ehangu'r gorchudd coetir ledled Cymru. Bydd hyn yn arwain at ddal a storio carbon, yn ogystal â newid y mathau o goed rydym yn eu plannu mewn ymateb i fygythiadau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Mae CNC yn parhau i weithio â'm swyddogion i greu'r Goedwig Genedlaethol.

Dull Llywodraeth Cymru o weithredu ei Chynllun Strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru

125. Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn canolbwyntio ar weledigaeth i greu sector bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru a chanddo enw da drwy'r byd am ragoriaeth ac un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf amgylcheddol gyfrifol a chymdeithasol gyfrifol drwy'r Byd. Cyflawnir y weledigaeth hon trwy gyfrwng cenhadaeth â thair rhan yn perthyn iddi. Bydd y genhadaeth hon yn pennu sut byddwn yn gweithio gyda busnesau, sut byddwn yn esgor ar fuddion i drigolion Cymru a sut byddwn yn hyrwyddo bwydydd a diodydd Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

126. Hefyd, rydym wedi trafod sefyllfa Cymru ar ôl ymadael â'r UE o fewn Cynllun Dynodiad Daearyddol newydd ar gyfer y DU. Y bwriad yw y bydd y Cynllun Dynodiad Daearyddol newydd hwn yn parhau i ddiogelu cynhyrchion y DU a gofrestrir gyda'r cynlluniau Dynodiad Daearyddol sydd eisoes yn bodoli gyda'r UE. Yng Nghymru, mae hyn yn bwysig er mwyn parhau â'r dulliau diogelu a'r cysylltiadau gyda'n treftadaeth bwyd, ein cymunedau a'n diwylliant Cymreig.

127. Mae hyn yn gysylltiedig hefyd ag Ymgyrch Gwerthoedd Brand Cynaliadwy ac mae wedi'i wreiddio yn themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r neges gynaliadwy hon yn pennu siwrnai bwyd a diod Cymru, a'r bwriad yw ei lansio yn y DU, yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, Japan a Dubai yn ystod 2021. Ymhellach, bydd y sefyllfa newydd ar ôl ymadael â'r UE yn cael ei hategu gan Atodiad 'World and Food' y National Geographic – y tro cyntaf i hyn ddigwydd yn hanes unrhyw un o wledydd y DU.

128. Eleni, arweiniodd ein His-adran Fwyd y cynllun bocs bwyd hanfodol ar gyfer pobl a oedd yn hunanwarchod yng Nghymru, a hefyd aeth ati i sefydlu tasglu Covid-19 i adrodd i'r Gweinidog. Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi llunio Cynllun Tasglu Adfer ar ôl Covid i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac mae wedi chwarae rhan hollbwysig wrth lunio canllawiau ar weithgynhyrchu trwy'r diwydiant.

129. Oherwydd y pandemig Covid-19, cyhoeddais y byddai'r digwyddiad ar gyfer y diwydiant bwyd a diod (Blas Cymru/Taste Wales) yn cael ei ohirio. Bydd yn cael ei gynnal yn awr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 25 Hydref 2021, a hynny yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru. Gan ddibynnu ar effeithiau Covid-19 a'r sefyllfa iechyd yng Nghymru, y bwriad yw y bydd y digwyddiad hwn yn parhau i gael ei gynnal ar ffurf ffisegol a rhithwir er mwyn cefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru wrth iddo ymdopi â sioc ddeublyg – sef Covid ac ymadael â'r UE. Mae'r rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol wedi mynd ati i gefnogi'r digwyddiad masnach pwysig hwn. Dengys y digwyddiad ein penderfynoldeb clir i barhau i hyrwyddo'r gorau y gall diwydiant bwyd a diod Cymru ei gynnig ar lefel ryngwladol, ynghyd â datblygu mwy ar enw da Cymru drwy'r byd fel Cenedl Fwyd.

Meysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor

Ansawdd aer, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Gronfa Ansawdd Aer a gweithredu'r Cynllun Aer Glân

130. Mae gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, er budd iechyd, yr economi, yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae ein Cynllun Aer Glân yn nodi llwybr 10 mlynedd tuag at sicrhau aer glanach.

131. Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb yn cefnogi rhai ffrydiau gwaith pwysig, yn cynnwys nifer o ymrwymiadau yn y Cynllun Aer Glân: Awyr Iach, Cymru Iach. Mae hyn yn cynnwys gwireddu ein hymrwymiadau dan Ffyniant i Bawb: ein strategaeth genedlaethol. Yn arbennig, 'lleihau allyriadau a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer' er mwyn cefnogi 'cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell'.

132. Rwyf wedi cytuno ar Gronfa Ansawdd Aer i gynorthwyo gyda'r costau llawn o fynd i'r afael â lefelau anghyfreithlon o nitrogen deuocsid yng Nghaerffili a Chaerdydd.

133. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael £6.1m i gynorthwyo gyda gwaith dymchwel tai a thirlunio ar yr A472 yn Hafodyrynys, sef gwaith a fydd yn cynorthwyo i wasgaru allyriadau llygrol o gerbydau. Mae Cyngor Caerdydd wedi cael £19.1m i gyflawni pecyn uchelgeisiol o fesurau, yn cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer tacsis a rhaglen ôl-osod bysiau, a hynny er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol yn ansawdd yr aer yng nghanol y ddinas, yn arbennig Stryd y Castell.

134. Mae ein dull o ymdrin â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, fel Parthau Aer Glân, yn anelu at gyflymu newidiadau mewn dulliau teithio a'r broses o uwchraddio i gerbydau glanach. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yng ngwanwyn 2021. Hefyd, byddwn yn datblygu ein dull o ymdrin â Pharthau Aer Glân er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o'u cyflwyno mewn trefi a dinasoedd lle gallant gynnig ffordd bwysig o leihau allyriadau llygrol.

135. Trwy gyfrwng y Ddeddf Aer Glân i Gymru, byddwn yn cydgrynhoi ac yn gwella deddfwriaethau a fframweithiau rheoleiddio presennol fel y gellir cymryd camau priodol i fynd i'r afael â llygredd aer. Gan ddibynnu ar y llwybr penodol a ddewisir ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau o ostwng allyriadau erbyn 2030 a lleihau cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau o'r fath, amcangyfrifir y bydd cost y camau a gymerir, yn cynnwys camau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon, oddeutu £10m y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y lleihad cysylltiedig o ran cysylltiad y boblogaeth gyffredinol â llygredd aer yn arwain at fanteision iechyd â gwerth ariannol o oddeutu £100m y flwyddyn.

136. Byddwn yn gwella ein galluoedd monitro ac asesu er mwyn cefnogi camau gweithredu penodol yn ymwneud â llygredd aer. Ein bwriad yw rhoi gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer monitro ac asesu llygredd aer ar waith erbyn mis Rhagfyr 2022. Bydd y gwasanaeth yn ategu prosesau adrodd blynyddol yn ymwneud â chyflwr ansawdd aer yng Nghymru.

137. Ym mis Ionawr 2021, byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion i wahardd yr arfer o werthu pren gwlyb a glo pyg/traddodiadol. Ein nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn 2021, gyda'r gwaharddiadau'n dod i rym yn ystod 2023. Ymhellach, bwriadwn fynd ati i reoleiddio er mwyn sicrhau mai'r offer mwyaf effeithlon yn unig y bydd modd eu prynu a'u gosod erbyn 2022. Bydd y gwaith rheoleiddio'n cynnwys yr arfer o osod offer ail law. Ymhellach, rydym eisiau rheoleiddio ynglŷn â'r angen i fynd ati'n flynyddol i gynnal a chadw offer llosgi domestig, yn amodol ar adolygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal erbyn 2023.

Gweithredu strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru

138. Trwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd, byddwn yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at y dasg o ymdrin ag ystod o effeithiau negyddol a aiff y tu hwnt i anghenion iechyd, yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol plant ac absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch, yn ogystal â chwarae rhan allweddol wrth leihau allyriadau carbon.

139. Arweiniodd cynllun Arbed Cartrefi Clyd at gyflwyno gwelliannau mewn 1,945 o gartrefi ar draws 19 o brosiectau ar wahân mewn 10 o Awdurdodau Lleol yn ystod 2019-20. Hefyd, rhoddodd cynllun Nyth Cartrefi Clyd becynnau gwella ynni yn y cartref i 4,544 o aelwydydd, ynghyd ag arbedion wedi'u modelu o £282 y flwyddyn mewn biliau ynni.

140. Ymhellach, mae ein rhaglen ynni adnewyddadwy a'n rhaglen effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus, a gefnogir gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, yn pennu llwybr ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni ar lefel leol er budd lleol. Yn 2019-20, fe wnaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gynorthwyo i gyflawni prosiectau a fydd yn darparu incwm ac arbedion biliau ynni o bron i £57m i'r sector cyhoeddus dros oes y prosiectau, ynghyd ag incwm o bron i £15m i grwpiau ynni cymunedol. Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau'n arbed 146,000 tunnell o CO2 dros eu hoes.

141. Yn 2021-22 rydym yn dyrannu £15m o gyllid cyfalaf a £5m o gyllid refeniw ychwanegol, ar ben y cyllidebau sydd i'w cael eisoes, er mwyn sicrhau y gallwn gynyddu manteision ein rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad yn y rhaglenni hyn i £48m yn 2021-22.

Gweithredu argymhellion yr adroddiad "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell"

142. Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell. Roedd yr adroddiad annibynnol hwn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i raglen 30 mlynedd i leihau allyriadau carbon yng nghartrefi Cymru. Rwy'n parhau i adolygu ein Strategaeth Tlodi Tanwydd yn unol â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

143. Gan dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gweithio ar gynllun datgarboneiddio tai ar sail yr argymhellion hyn.

Rhaglen Dileu TB Gwartheg (gan gynnwys y Cynllun Cyflawni, profion ac iawndal)

144. Rwyf wedi sôn o'r blaen y bydd y system bresennol o dalu iawndal TB yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y ffordd decaf o dalu iawndal yng ngoleuni pwysau parhaus ar y gyllideb a cholli cyllid yr UE. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd cyllid cyfwerth i'w gael ar ôl ymadael â'r UE, er nad oes unrhyw sicrwydd ynglŷn â hyn. Mae'r gofyniad statudol i dalu iawndal TB gwartheg wedi esgor ar bwysau heb ei ariannu ar gyllidebau ers 2015-16.

145. Bydd unrhyw newid i drefniadau iawndal TB yn cael ei gynllunio i annog arferion gorau, datgymell diffyg cydymffurfiaeth a darparu system iawndal deg a chymesur. Cyn i unrhyw newid i'r system iawndal TB gael ei

weithredu, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a bydd yr holl awgrymiadau a'r holl sylwadau'n cael eu hystyried.

146. Mae'r Cynllun Cyflawni, a lansiwyd yn 2017, yn rhan o'r Rhaglen Dileu TB Gwartheg ac mae'n nodi'r gwelliannau manwl y dylid eu cyflwyno yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'r Cynllun Cyflawni yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru fel bo'r angen.

147. Mae canlyniadau'r gwaith o ddatblygu polisïau ystwyth yn amlwg yn yr ystadegau a gyhoeddir ynglŷn â TB. Mae nifer yr anifeiliaid a laddwyd wedi bod ar duedd ar i lawr ers mis Hydref 2018, ac yn y 12 mis hyd at fis Awst 2020 cafodd 10,462 o wartheg eu lladd er mwyn rheoli TB, o gymharu â 12,799 yn y 12 mis blaenorol – sef lleihad o 18%. Felly, y fantais hirdymor yn sgil buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu polisïau yw lleihau'r gwariant ar iawndal.

Gweithredu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru

148. Mae ein strategaeth Coetiroedd i Gymru yn pennu ein nodau i gynyddu'r gorchudd coed yma yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd a gwneud yn fawr o'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sydd ynghlwm wrth ein coetiroedd yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi dechrau ar greu Coedwig Genedlaethol i Gymru, a fydd yn elfen allweddol o gyflawni'r strategaeth.

149. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn cynnwys ardaloedd o goetir ansawdd uchel ledled y wlad, a gaiff eu cysylltu dros amser i greu rhwydwaith trwy Gymru. Cafodd safleoedd cyntaf y Goedwig Genedlaethol eu dynodi ym mis Tachwedd 2020, ac mae prosiectau arddangos wrthi'n cael eu cynnal er mwyn creu ardaloedd newydd o goetir, datblygu coetiroedd cymunedol, meithrin capasiti yn y sector coedwigaeth a phlannu Coedwigoedd Bach cyntaf Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at yr £20m a gafwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, a ddyrannwyd i gyflymu'r gwaith o greu ac adfer coetiroedd.

150. Bydd gwireddu'r uchelgais o gael Coedwig Genedlaethol yn rhaglen hirdymor. Bydd y cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft yn arwain at gynnydd parhaus o ran creu Coedwig Genedlaethol. Bydd yn ariannu prosiectau arddangos newydd ar gyfer plannu ardaloedd newydd o goetir a bydd yn gwella coetiroedd sydd i'w cael eisoes er mwyn iddynt gyrraedd safon Coedwig Genedlaethol. Hefyd, bydd yn cefnogi datblygiad parhaus cynllun cyflawni hirdymor ar gyfer y Goedwig Genedlaethol.

Cynllun Twf Amgylcheddol

151. Mae maniffesto'r Prif Weinidog yn ymrwymo i ddatblygu Cynllun Twf Amgylcheddol i fynegi a chydlynu ein gweledigaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur a thyfu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

152. Bydd y cynllun amgylcheddol yn cael ei weithredu i raddau helaeth trwy ein rhaglen newydd 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur'. Yn 2020-21, mae eisoes wedi cefnogi mwy na 600 o brosiectau ar draws cymunedau yng Nghymru i adfer a chyfoethogi natur. Hefyd, mae'n gwneud cynnydd yn erbyn naw mesur cyffredin y Prif Weinidog a gaiff effaith yn lleol, fel cynyddu'r arfer o dyfu bwyd yn y gymuned, pryfed peillio, a newid arferion yn ymwneud â lladd llystyfiant a phlaladdwyr sy'n niweidiol i natur.

153. Caiff y rhaglen ei thargedu'n benodol at sicrhau y bydd modd i'n holl gymunedau gael mynediad at natur 'ar garreg eu drws', mewn ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi, a hefyd mewn ardaloedd heb fawr ddim mynediad, neu ddim mynediad o gwbl, at natur. Rydym yn adeiladu ar y llwyddiant, a'n bwriad yw ymestyn y rhaglen o £5m yn 2020-2021 i £8m yn 2021-22.

154. Yn 2021-22 bwriadwn roi cyfalaf o £2.6m i'n Rhwydwaith Partneriaethau Natur Lleol. Mae'r partneriaethau hyn wedi bod yn effeithiol iawn eleni, yn enwedig o ran newid arferion lladd er mwyn creu lleoedd i bryfed peillio. Rydym eisiau ymestyn cyrhaeddiad a chyflawniad ein Partneriaethau Natur Lleol, felly bydd 'cronfa her' newydd o £3m i'w chael hefyd yn ystod 2021-22 i gynorthwyo prosiectau mwy.

155. Er mwyn hwyluso prosiectau ac adeiladu ar allu'r sector, rydym wedi rhoi cyllid refeniw o £520k i'r rhwydwaith Partneriaethau Natur Lleol yn ystod 2021-22. Bydd y buddsoddiad hollbwysig hwn yn cryfhau gwaith hanfodol Cydlynwyr Partneriaethau Natur Lleol ledled Cymru. Fe fydd hyn, ynghyd â mesurau eraill yn 2021-22, yn ein galluogi i wella mwy ar allu'r sector a chynorthwyo i gyflawni gwaith yn y dyfodol.

156. Unwaith eto, byddwn yn rhoi £1.8m i Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn iddo allu cyflawni ei fodel 'pecynnau rhagdaledig' arloesol. Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiant ysgubol eleni. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn darparu'r holl adnoddau, ac mae cymunedau'n darparu'r tir a'r gwirfoddolwyr. Mae'r pecynnau rhagdaledig hyn yn galluogi grwpiau cymunedol bach i greu eu lleoedd eu hunain i natur, heb orfod gwneud cais am grantiau.

Rheoli Parthau Perygl Nitradau

157. Cafodd contract ar gyfer darparu cyngor amaethyddol ac amgylcheddol, a chanddo gyllideb flynyddol o £0.25m, ei ddyfarnu am dair blynedd o 1 Hydref 2018. Mae'r contract hwn yn cynnwys darparu llinell gymorth i ffermwyr mewn Parthau Perygl Nitradau presennol fel y gallant gael cyngor ac arweiniad ar y gofynion rheoleiddio. Defnyddir y contract hwn i adolygu ac asesu pa mor effeithiol yw'r mesurau a ddefnyddir i ymdrin â llygredd amaethyddol yn yr ardaloedd hynny. Ymhellach,

defnyddir y contract i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n gysylltiedig â materion ehangach yn ymwneud â llygredd amaethyddol ledled Cymru.

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

158. Hanfod Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yw lleihau'r perygl i fywyd. Mae'n gwneud hyn trwy atal digwyddiadau llifogydd ac erydu a fyddai, fel arall, yn achosi difrod i gartrefi a busnesau. Rydym wedi gwella'r ffordd yr awn ati i flaenoriaethu cynlluniau lliniaru er mwyn helpu i dargedu cyllid tuag at brosiectau a leolir yn yr ardaloedd â'r risg uchaf, lle dangosir y gwariant ataliol mwyaf effeithiol.

159. Nod ein Strategaeth Genedlaethol yw lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o du llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n cyflawni hyn trwy ei hamcanion a thrwy'r rhaglenni llifogydd ac erydu arfordirol sy'n helpu i amddiffyn cartrefi a busnesau ac atal marwolaethau. Rydym yn gweithio law yn llaw gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cymorth ar gyfer cynlluniau cymunedol a fydd yn lleihau'r perygl i 47,000 a mwy o gartrefi a busnesau.

160. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi mwy na £390 miliwn mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd o amgylch Cymru. Yn 2021-22, bydd y buddsoddiad bron yn £67m. Yn ogystal â chynlluniau cyfalaf, trwy gyfrwng ein rhaglen refeniw rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith yn cynnwys rhagweld, mapio, modelu, monitro'r arfordir, a gweithgareddau allgymorth.

161. Mae adroddiadau ac adolygiadau'n ymwneud â digwyddiadau llifogydd diweddar wedi dangos bod buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru mewn rheoli perygl llifogydd, amddiffyn asedau, codi ymwybyddiaeth a systemau rhybuddio wedi cael effaith gadarnhaol, gan leihau effeithiau stormydd a llifogydd ar gymunedau. Amcangyfrifir bod ein rhwydwaith o asedau arfordirol wedi atal mwy na £3 biliwn o ddifrod yn ystod stormydd gaeaf 2014. Fodd bynnag, ni allwn bwyso ar ein rhwyfau, a rhaid i ni dderbyn y bydd stormydd arfordirol tebyg neu waeth yn digwydd eto a bod angen parhau i fuddsoddi.

162. Yn ôl pob tebyg, bydd newid hinsawdd yn cynyddu perygl llifogydd, nid yn unig trwy godi lefel y môr ond hefyd yn sgil stormydd gwaeth ac amlach, fflachlifoedd, ymchwyddiadau storm a chynnydd ym maint y tonnau. Felly, rhaid i ni barhau i ddysgu ac addasu fel y gallwn leihau niwed i'n cymunedau. Bydd ein Strategaeth a'n rhaglen ehangach ar gyfer llifogydd ac arfordiroedd yn helpu i reoli rhai o effeithiau newid hinsawdd trwy gyfrwng gweithgareddau yn yr ardaloedd hynny sy'n dueddol o ddioddef llifogydd neu erydu arfordirol.

163. Yn unol â'n hymrwymiad tymor hwy, rydym yn darparu £3.4m o gyllid refeniw ychwanegol ar ben y swm o £4m sydd wedi'i gynnal ers 2020-21, ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol. Bydd y cyllid hwn yn ariannu

hyd at 16 o gynlluniau amddiffyn yr arfordir ledled Cymru – cynlluniau a allai leihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol, yn awr ac yn y dyfodol, i fwy nag 16,600 o adeiladau pe bai modd bwrw ymlaen â phob un o'r cynlluniau hyn y flwyddyn nesaf. Mae gwaith ar y gweill yn barod ar ddau gynllun trwy gyfrwng y Rhaglen hon – yn Aberafan (Castell-nedd Port Talbot) ac yn Nwyrain y Rhyl (Sir Ddinbych) – a bydd cynllun arall yn cael ei roi ar waith ddechrau 2021. Disgwylir i waith gychwyn ar yr 13 cynllun sy'n weddill yn ystod 2021-22.

Y drefn drwyddedu ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid

164. Daeth **Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020** i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Ni chaniateir i syrcasau teithiol ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru mwyach.

165. Fe wnaeth rhai o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 2019 gyflwyno tystiolaeth sy'n awgrymu y dylai gweithgareddau ychwanegol yn ymwneud ag anifeiliaid gael eu hychwanegu at gwmpas y meini prawf trwyddedu, a'n bwriad oedd cynnal trydydd ymgynghoriad byr ym mis Mawrth eleni. Oherwydd pandemig y Coronafeirws a'r ffaith y gallai'r cyfyngiadau effeithio ar nifer o'n rhanddeiliaid, bu'n rhaid gwneud y penderfyniad anodd i ohirio'r ymgynghoriad.

166. Bydd y mathau o Arddangosfeydd Anifeiliaid a fydd yn berthnasol i'r cynllun trwyddedu yn ddibynnol ar y meini prawf terfynol y cytunir arnynt ar ôl cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac yng ngoleuni tystiolaeth ac unrhyw ystyriaethau cyfreithiol. O gofio natur eang y gweithgareddau y gellir eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, wrth benderfynu a yw Arddangosfa Anifail yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau ai peidio fe fydd hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried pob achos fesul un, ochr yn ochr â'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau.

167. Mae llawer o waith wedi'i wneud ar gyflwyno Rheoliadau newydd ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid. Bydd rhwymedigaeth ariannol gyfyngedig ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun trwyddedu hwn – rhagwelwn y byddwn yn gallu gwneud hyn o fewn ein hadnoddau cyfredol.

Gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti

168. Ynglŷn â'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019, cafodd ymgynghoriad cyhoeddus terfynol ei gynnal rhwng 22 Mehefin – 17 Awst 2020, lle'r ystyriwyd gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti. Rhwng 8 Mehefin – 22 Awst, cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn unswydd i geisio barn plant a phobl ifanc. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ddau ymgynghoriad yn hynod gefnogol i'r cynnig y dylid gwahardd yr arfer.

169. Un o'r camau angenrheidiol yn unig ar gyfer gwella lles cŵn a chathod mewn safleoedd bridio yng Nghymru yw'r cynnig i wahardd trydydd parti rhag eu gwerthu. Yn gynharach eleni, cyflwynodd aelodau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru adroddiad yn dilyn adolygiad o

Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Caiff yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad, ynghyd â gwybodaeth o nifer o ffynonellau eraill, eu defnyddio fel sail i ystyried y cyfeiriad y dylid ei ddilyn a'r camau y dylid eu cymryd yn y dyfodol.

170. Ar 22 Mehefin 2020, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn ategu'r ffaith fod angen gwneud gwaith i ymdrin â'r rhwystrau mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu o ran gorfodi, cyn mynd ati i gynnig newidiadau i'r Rheoliadau Bridio presennol. Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol i'r adolygiad ar 18 Tachwedd.

171. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys Awdurdodau Lleol a Gweinyddiaethau eraill, i sicrhau ein bod yn cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith barhaol ar safonau lles cŵn a chathod a gaiff eu bridio yng Nghymru.

Mentrau i leihau llygredd plastig, yn cynnwys cynllun dychwelyd ernes, a datblygu cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr

172. Mae defnyddio cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr mewn perthynas â phecynnu yn arf pwysig ar gyfer cyflawni'r egwyddor mai'r "llygrwr sy'n talu", ar gyfer cyflawni targedau adfer ac ailgylchu, ac ar gyfer darparu incwm er mwyn helpu i reoli gwastraff.

173. Bydd gwaith yn ymwneud â'r gwaharddiadau arfaethedig ar eitemau plastig untro a deflir i ffwrdd yn parhau trwy ein cyllidebau sylfaenol. Caiff y gwaith ar fwrw ymlaen â'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion yfed, ynghyd â'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu gwastraff, ei wneud ar y cyd. Y DU i gyd ar gyfer y Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, a Chymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes. Rydym yn disgwyl cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r cyllid a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r ddwy raglen hyn.

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

CYLLIDEB ADNODDAU

Cam gweithredu	Rhif BEL	Disgrifiad o'r BEL	Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21 wedi'i hailddatgan Tach 2020	Newidiadau i'r llinell sylfaen	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Trosglwyddo O fewn MEG	Dyraniadau COVID-19	Dyraniadau Eraill o Gronfeydd Wrth Gefn / Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn	Cynlluniau Newydd 2021-22 Cyllideb Ddrafft	SYLWADAU
Datblygu a chyflwyno polisi a rhaglenni trosfwaol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol	2812	Deddfwriaeth yr Amgylchedd a Llywodraethu	181	0	181					181	
	Cyfanswm Datblygu a chyflwyno polisi a rhaglenni trosfwaol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol		**181**	**0**	**181**	**0**	**0**	**0**	**0**	**181**	
Datblygu a gweithredu polisi y newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon a Thwf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd	1270	Rhaglen Tlodi Tanwydd	3,312	0	3,312				1,058	4,370	Rhan o £5m tuag at Ynni Glân a Chartrefi Cynnes
	2809	**Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru**	1,636	0	1,636				2,334	3,970	Rhan o £5m tuag at Ynni Glân a Chartrefi Cynnes
	2816	Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth	2,834	0	2,834					2,834	
	2817	Ymbelydredd ac Atal Llygredd	3,415	0	3,415					3,415	
	3770	**Ynni Glân**	3,835	0	3,835		-378			3,457	Rhan o £5m tuag at Ynni Glân a Chartrefi Cynnes
	3771	**Cam Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd**	0	0	0		378		1,608	1,986	Rhan o £5m tuag at Ynni Glân a Chartrefi Cynnes
	Datblygu a gweithredu polisi y newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon a Thwf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd		**15,032**	**0**	**15,032**	**0**	**0**	**0**	**5,000**	**20,032**	
Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth	2230	Rheoli Perygl Llifogydd a Refeniw Dŵr	27,197	0	27,197	-1,145			3,363	29,415	£1.145m i'r RSG ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordirol Dwyrain y Rhyl CRMP £3,363 Cyllid CRMP
	Cyfanswm Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordirol, dŵr a charthffosiaeth		**27,197**	**0**	**27,197**	**-1,145**	**0**	**0**	**3,363**	**29,415**	
Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r	2191	Ansawdd yr Amgylchedd Lleol	449	0	449					449	
	2192	Ymwneud gan y Gymuned	60	0	60					60	
	2195	Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	1,500	0	1,500					1,500	

amgylchedd lleol	2832	Galluogi Adnoddau Naturiol	4,274	0	4,274					4,274	
	2825	Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion	3,075	0	3,075				3,550	6,625	Cymorth Refeniw Ychwanegol ar gyfer Bioamrywiaeth
	2827	Coedwigaeth	1,304	0	1,304					1,304	
	Cyfanswm Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol		**10,662**	**0**	**10,662**	**0**	**0**	**0**	**3,550**	**14,212**	
Noddi a rheoli cyrff cyflawni	2451	Cyfoeth Naturiol Cymru	69,033	684	69,717					69,717	-70K Pontio anghylchol gan yr UE Ailgyhoeddi cyllideb 1,201K I2S Ad-daliad '-447k I2S
	Cyfanswm Noddi a rheoli cyrff cyflawni		**69,033**	**684**	**69,717**	**0**	**0**	**0**	**0**	**69,717**	
Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i gefnogi gwaith yr Adran	2814	Rheoli'r Amgylchedd (Pwllperian)	38	0	38					38	
	Cyfanswm Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i gefnogi gwaith yr Adran		**38**	**0**	**38**	**0**	**0**	**0**	**0**	**38**	
Datblygu a chyflwyno polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr	2829	Strategaeth Amaethyddiaeth	400	0	400					400	
	2831	Ariannu Fframwaith Awdurdodau Lleol	200	0	200					200	
	2860	Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaethyddiaeth	400	0	400					400	
	2861	Prosiect Daliadau Plwyf Sirol	500	0	500					500	
	2862	EID Cymru	2,641	0	2,641					2,641	
	2863	Adnabod Da Byw	1,647	0	1,647					1,647	
	2864	Gwasanaethau Cyngor Technegol	358	0	358					358	Yn cynnwys £250k ar gyfer PPNau.
	2866	Deddf Tiroedd Comin	433	0	433					433	

	2838	Gweithredu Deddf yr Amgylchedd	731	0	731					731	
Datblygu a chyflwyno polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr			**7,310**	**0**	**7,310**	**0**	**0**	**0**	**0**	**7,310**	
Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru	2787	Amaethyddiaeth - Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 yr UE	0	231,145	231,145				6,855	238,000	BPS Colofn 1 bellach yn y llinell sylfaen, wedi'i haddasu ar gyfer rhagolwg bpS disgwyliedig o £238m, rhan o ddyraniad Cyllid Fferm gwerth £13.325m
	2789	TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin	5,748	0	5,748					5,748	
	2790	Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl	12,048	0	12,048					12,048	
Cyfanswm gweinyddiaeth y PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru			**17,796**	**231,145**	**248,941**	**0**	**0**	**0**	**6,855**	**255,796**	
Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflawni'r rhaglenni o fewn Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	2949	Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	26,502		26,502				4,280	30,782	Balans o £13.325m. Dyma gyllid newydd i adnewyddu rhaglenni, nid 14-20 o gyllid yr UE.
Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflawni'r rhaglenni o fewn Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20			**26,502**	**0**	**26,502**	**0**	**0**	**0**	**4,280**	**30,782**	
Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig	2240	Ymchwil a Gwerthuso	520	0	520					520	
Cyfanswm y datblygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig			**520**	**0**	**520**	**0**	**0**	**0**	**0**	**520**	
Datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru	2830	Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE	565	0	565				2,100	2,665	£2.1m ar gyfer Pysgodfeydd newydd ar ôl yr UE, rhan o £13.325m
	2870	Y Môr a Physgodfeydd	4,935	0	4,935					4,935	
Cyfanswm Datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru			**5,500**	**0**	**5,500**	**0**	**0**	**0**	**2,100**	**7,600**	
Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod o Gymru	2970	Hyrwyddo Datblygu Bwyd a Diwydiant Cymru	5,300	-100	5,200					5,200	-100K Pontio anghylchol yr UE o 2020-21
Cyfanswm Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru			**5,300**	**-100**	**5,200**	**0**	**0**	**0**	**0**	**5,200**	
Cefnogi a Chyflawni'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid	2270	Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid	108	0	108					108	
Cyfanswm Cymorth a Chyflawni'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid			**108**	**0**	**108**	**0**	**0**	**0**	**0**	**108**	
	2269	Incwm TB yr UE	-1,300	0	-1,300		1,300			0	Dim Incwm TB yr UE, Net off from TB Comp Budget

Rheoli a chyflawni Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill	2271	Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	15,281	0	15,281					15,281	
	2272	Costau a Derbyniadau Taliadau Dileu TB	10,110	0	10,110		-1,300			8,810	Dim Incwm TB yr UE, Net off from TB Comp Budget
	2273	Dileu TB	7,500	0	7,500					7,500	
	Rheoli a chyflawni Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill		**31,591**	**0**	**31,591**	**0**	**0**	**0**	**0**	**31,591**	
Cynyddu Effeithlonrwydd a Chymorth Adnoddau Pontio i Economi Gylchol	2190	Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol	38,692	0	38,692				6,624	45,316	£6.624 Arian ychwanegol i RECE
	Cyfanswm Cynyddu Effeithlonrwydd a Chymorth Adnoddau Pontio i Economi Gylchol		**38,692**	**0**	**38,692**	**0**	**0**	**0**	**6,624**	**45,316**	
Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd	2490	Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	9,966	0	9,966				1,450	11,416	Cymorth Refeniw Ychwanegol ar gyfer Bioamrywiaeth (Rhan o £5m)
	Cyfanswm Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd		**9,966**	**0**	**9,966**	**0**	**0**	**0**	**1,450**	**11,416**	
YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU			**265,428**	**231,729**	**497,157**	**-1,145**	**0**	**0**	**33,222**	**529,234**	
		Heb fod yn Arian Parod			475,482					507,559	

CYLLIDEB GYFALAF

Cam gweithredu	Rhif y BEL	Disgrifiad o'r BEL	Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21 wedi'i Hailddatgan Tach 2020	Newidiadau i'r llinell sylfaen	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig	Trosglwyddiadau o MEG i MEG	Drosglwyddo O fewn MEG	Dyraniadau COVID-19	Dyraniadau eraill o Gronfeydd wrth Gefn / Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn	Cynlluniau Newydd 2021-22 Cyllideb Ddrafft	SYLWADAU
Datblygu a gweithredu polisi y newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon a Thwf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd	1270	Rhaglen Tlodi Tanwydd	23,000	0	23,000				4,000	27,000	Rhan o £15m ar gyfer Tlodi Tanwydd ac Ynni Glân
	2808	Seilwaith Gwyrdd	1,402	0	1,402					1,402	
	2809	**Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru**	4,000	-2,000	2,000				11,000	13,000	Rhan o £15m ar gyfer Tlodi Tanwydd ac Ynni Glân
	2816	**Ymadael â'r UE a'r Strategaeth**	0	0	0						
	2817	Ymbelydredd ac Atal Llygredd	17,095	0	17,095					17,095	
	Datblygu a gweithredu polisi y newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon a Thwf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd		**45,497**	**-2,000**	**43,497**	**0**	**0**	**0**	**15,000**	**58,497**	

Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth	2230	Rheoli Perygl Llifogydd a Refeniw Dŵr	37,500	0	37,500					37,500	
	Cyfanswm Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordirol, dŵr a charthffosiaeth		**37,500**	**0**	**37,500**	**0**	**0**	**0**	**0**	**37,500**	
Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol	2832	Galluogi Adnoddau Naturiol	6,573	0	6,573					6,573	
	2825	Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion	25,500	0	25,500		-4,500			21,000	Llai £4.5m tfr i Goedwigaeth
	2827	Coedwigaeth	150	-150	0		4,500			4,500	-150K Pontio'yr UE yn anghylchol. £4.5m tfr o Bio i Goedwigaeth
	Cyfanswm Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol		**32,223**	**-150**	**32,073**	**0**	**0**	**0**	**0**	**32,073**	
Noddi a rheoli cyrff cyflawni	2451	Cyfoeth Naturiol Cymru	1,216	-250	966					966	-250K Pontio'r UE yn anghylchol
	Cyfanswm y Noddwr a rheoli cyrff cyflawni		**1,216**	**-250**	**966**	**0**	**0**	**0**	**0**	**966**	
Datblygu a chyflwyno polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr	2862	EID Cymru	2,100	0	2,100					2,100	
	2866	Deddf Tiroedd Comin	1,200	0	1,200					1,200	
	Datblygu a chyflwyno polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr		**3,300**	**0**	**3,300**	**0**	**0**	**0**	**0**	**3,300**	
Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a LIC	2789	TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin	1,505	0	1,505					1,505	
	Cyfanswm Gweinyddiaeth y PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a LIC		**1,505**	**0**	**1,505**	**0**	**0**	**0**	**0**	**1,505**	
Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflawni'r rhaglenni o fewn Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	2949	Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	9,418	0	9,418					9,418	
	Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflawni'r rhaglenni o fewn Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20		**9,418**	**0**	**9,418**	**0**	**0**	**0**	**0**	**9,418**	
Datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru	2830	Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE	233	0	233					233	
	Cyfanswm Datblygu a rheoli Morol, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru		**233**	**0**	**233**	**0**	**0**	**0**	**0**	**233**	
Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod o Gymru	2970	Hyrwyddo Datblygu Bwyd a Diwydiant Cymru	100	-100	0					0	-100K Pontio'yr UE, anghylchol
	Cyfanswm Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru		**100**	**-100**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	
Cynyddu Effeithlonrwydd a Chymorth Adnoddau Pontio i Economi Gylchol	2190	Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol	17,500	0	17,500				20,000	37,500	Rhan o ddyraniadau Cyfalaf ychwanegol o gronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm Cynyddu Effeithlonrwydd a Chymorth Adnoddau Pontio i Economi Gylchol		17,500	0	17,500	0	0	0	20,000	37,500	
Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd	2490	Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	8,900	0	8,900					8,900	
	Cyfanswm Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd		8,900	0	8,900	0	0	0	0	8,900	
YR AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF			157,392	-2,500	154,892	0	0	0	35,000	189,892	

CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol						
Cam gweithredu	Rhif y BEL	Disgrifiad o'r BEL	Cynlluniau yn unol â 2020-21 Cyllideb Derfynol Hailddatgan Tach 2020	Gwahaniaeth mewn Rhagolygon ers 2020-21 Cyllideb Derfynol	Rhagolygon 2021-22 ym mis Medi 2020	SYLWADAU
Noddi a rheoli cyrff cyflawni	2452	Darpariaeth CNC ar gyfer Pensiynau - AME	2,400	0	2,400	Rhagolwg yn unol â'r cyflwyniad i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 202
	Cyfanswm y Noddwr a rheoli cyrff cyflawni		2,400	0	2,400	
YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM CYLLIDEB AME ADNODDAU			2,400	0	2,400	

Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21 wedi'i hailddatgan Tach 2020	Newidiadau i'r llinell sylfaen	Newidiadau DEL	Newidiadau AME	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2021-22
Adnodd - Refeniw	243,753	231,729	32,077	0	507,559
Adnoddau heb fod yn Arian Parod	21,675	0	0	0	21,675
Cyfalaf	157,392	-2,500	35,000	0	189,892
Cyfanswm yr Adnodd a'r Cyfalaf	422,820	229,229	67,077	0	719,126
Cyfanswm AME	2,400	0	0	0	2,400
YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM Y GYLLIDEB	425,220	229,229	67,077	0	721,526

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Dyddiad: 20 Ionawr 2021
Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd
Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22

1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 18 Tachwedd 2020 yn ei gwahodd i roi tystiolaeth ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ac yn gofyn iddi ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynigion cyllideb y dyfodol ar gyfer 2021-22 yn y meysydd cyllideb sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl a Llesiant ym:

- Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r;
- MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

3. Blaenoriaethu adnoddau

Roedd y gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr yn amlinellu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL).

Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2022-23 ar gael ar hyn o bryd gan mai dim ond blwyddyn y mae'r gyllideb ddrafft yn ei chwmpasu.

Mae'r tablau isod yn dangos symudiadau'r gyllideb o gyllideb Atodol gyntaf 2020-21 i Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Symudwyd cyllidebau Iechyd Meddwl a Llesiant o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg newydd ar ôl yr ail gyllideb atodol ym mis Hydref 2020.

Yn ychwanegol at y cyllidebau sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG wedi'i gynnwys fel dyraniadau wedi'u clustnodi i fyrddau iechyd lleol, wedi'u hariannu o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaed penderfyniadau ar ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau'r GIG ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ym mis Hydref 2020 fe wnaethom ryddhau fersiwn ddiwygiedig o *Gynllun Gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22* a oedd yn cynnwys camau gweithredu trawslywodraethol cryfach i ymateb i effaith y pandemig ar iechyd meddwl. Mae'r cynllun

ar ei newydd wedd yn nodi camau newydd arwyddocaol yn y meysydd hynny sy'n ffactorau amddiffynnol pwysig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae cefnogaeth a gwytnwch yn y meysydd hyn yn rhan hanfodol o ymateb system gyfan i leihau effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar lesiant a lleihau'r angen i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Ymysg pethau eraill, mae hyn yn cynnwys addysg (gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch), cyflogaeth, cynhwysiant ariannol a chymorth ar gyfer digartrefedd a bydd angen i'r buddsoddiad hwn mewn meysydd y tu allan i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau os ydym am atal a diogelu iechyd meddwl y genedl. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 buddsoddwyd cyllid ychwanegol yn y sector gwirfoddol ac mewn partneriaid allweddol eraill i ddarparu cymorth iechyd meddwl Haen 0, lefel isel ar draws y boblogaeth, a bydd angen i hynny barhau hefyd.

Dyraniadau Iechyd Meddwl a Llesiant o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Maes Rhaglenni Gwariant			
CAM GWEITHREDU	**Iechyd Meddwl a Llesiant**		
Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21**	**Newidiadau**	**2021-22**
	£m	**£m**	**£m**
Iechyd Meddwl	26.860	9.40	36.260
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	28.725		28.725
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	3.737	-0.127	3.610
Ymchwil a Datblygu	42.075		42.075
Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach	8.514		8.514
Cyfanswm	**109.911**	**9.273**	**119.184**

Mae'r newidiadau'n ymwneud â:

BEL 0270 - Iechyd Meddwl

- £4m o gymorth ychwanegol i gefnogi'r Dull Systemau Cyfan (Dull Ysgolion Cyfan yn flaenorol) i wella mynediad i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.
- £5.4m ar gyfer CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) - cyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl drwy wasanaethau cleifion mewnol cymunedol neu arbenigol.

BEL 0380 - Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

- Gostyngiad o £0.127m yn y gyllideb yn ymwneud â chyllid unwaith ac am byth ar gyfer Pontio o'r UE ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd a ddaeth i ben yn 2020-21.

Dyraniadau o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n berthnasol i Iechyd Meddwl a Llesiant

- Cynnydd o £33 miliwn ar gyfer iechyd meddwl gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Esboniad o sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles yn cael eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a lle y gellir dod o hyd i'r gwariant a ddyrannwyd/a ragwelir ar gyfer y blaenoriaethau hyn (e.e. dadansoddiad o ddyraniad Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb), gan gynnwys;

- Gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys y Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl)
- Dementia
- Awtistiaeth
- Camddefnyddio Sylweddau (gan gynnwys y Gronfa ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau)
- Iechyd Cyn-filwyr
- Profiad y claf
- Gordewdra/ gweithredu 'Pwysau Iach, Iechyd Cymru'.

Iechyd Meddwl

Byddwn yn sicrhau cynnydd o £42 miliwn yn y cyllid ar gyfer iechyd meddwl yn 2021-22 i gyfanswm o £783 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £33 miliwn yn ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fynd â chyfanswm y cyllid iechyd meddwl o fewn y MEG hwnnw i £746.8 miliwn, a £9.4 miliwn yn ychwanegol o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg gan fynd â chyfanswm y cyllid o fewn y MEG hwn i £36.3 miliwn.

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl craidd y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyhoeddir y cyllid hwn yn flynyddol i fyrddau iechyd lleol fel dyraniad wedi'i glustnodi. Mae'r dyraniad yn cynrychioli'r lefel ofynnol o gyllid y dylai byrddau fod yn ei wario ar ddiwallu anghenion iechyd meddwl eu poblogaeth. Mae'n cynnwys ystod

eang o wariant, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau ysbyty, gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol a gweithgaredd gofal sylfaenol a chyffuriau ar bresgripsiwn. Er bod y cyllid hwn wedi'i neilltuo, mae disgwyl i fyrddau iechyd lleol reoli risgiau a chyfleoedd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â'r cyllid hwn ochr yn ochr â'u dyraniadau yn ôl disgresiwn ar gyfer gwasanaethau eraill y GIG. Am y rheswm hwn, nid yw'n ymarferol dadgyfuno'r cyllid hwn o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG, ac mae'n parhau i fod o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o'r GIG ac rydym wedi cynyddu'r cyllid sy'n cael ei glustnodi i iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £726m yn 2021-22 (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae'r cynnydd yn y cyllid sydd wedi'i glustnodi yn 2021-22 yn cynnwys cyllid ychwanegol o £0.5m ar gyfer anhwylderau bwyta ac £1.277m i gefnogi gwasanaethau iechyd carchardai. Manylir ar y cynnydd yn y dyraniad sydd wedi'i glustnodi yn y tabl isod:

	Newidiadau yn nyraniad y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Iechyd Meddwl y GIG £m
2020-21 Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer BILl	711.9
Cyllid ar gyfer anhwylderau bwyta	0.5
Cyllid ar gyfer gofal iechyd carchardai	1.3
Cymorth gan gymheiriaid mewn gwasanaethau rhywedd	0.1
Cyllid ar gyfer twf mewn costau craidd 2021-22	13.0
Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer BILl 2021-22	**726.8**

Yn ychwanegol at y symiau uchod, mae £20 miliwn arall wedi'i neilltuo o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd elfen y GIG o'r cyllid hwn yn cael ei ychwanegu at ddyraniad a glustnodir y bwrdd iechyd lleol yn ystod 2021-22.

.
Yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mae buddsoddiad ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (£5.4m) a'r Dull Systemau Cyfan (£4m). Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid BEL presennol ar gyfer Iechyd Meddwl o £26.86m wedi'i rannu ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, 'Cymru Iachach' a chyllidebau Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl sydd i gyd yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth.

Llywiodd y meysydd blaenoriaeth hyn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020, ond a ailgyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 i ystyried yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth a'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl. Y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a nodir yn y cynllun cyflawni, yw:

- Cymorth iechyd meddwl a llesiant i adfer o Covid-19 - camau gweithredu sy'n ymateb i effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant ac i gynorthwyo gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl sy'n newid, gan gynnwys ehangu'n sylweddol y cymorth iechyd meddwl lefel isel Haen 0 ar draws y boblogaeth.
- Gwella iechyd meddwl a llesiant a lleihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol, drwy waith wedi'i dargedu ar atal afiechyd a chamau gweithredu traws-Lywodraethol ar benderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant.
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc - gwella mynediad a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau, ynghyd â chefnogi'r cwricwlwm newydd a'r dull ysgol gyfan, gan ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau'r GIG i ysgolion a llenwi bylchau mewn gwasanaethau yn y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd drwy Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth Argyfwng a'r Tu Allan i Oriau ar gyfer plant, oedolion oedran gweithio ac oedolion hŷn - gan symud tuag at gynnig amlasiantaeth cyffredin ledled Cymru
- Gwella mynediad at therapïau seicolegol i blant, oedolion o oedran gweithio ac oedolion hŷn, a gwella eu hansawdd a'u hystod - er mwyn sicrhau gostyngiad sylweddol mewn amseroedd aros erbyn diwedd y Llywodraeth hon, cynyddu'r ystod o therapïau a gynigir a chefnogi'r gweithlu i ddarparu'r ymyriadau hyn er mwyn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau;
- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a’r mynediad atynt - datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ymhellach gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd a llwybrau gofal a darparu darpariaeth cleifion mewnol.
- Gwella ansawdd a thrawsnewid gwasanaethau - gan gynnwys ymateb i adolygiadau thematig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru, gwella cymorth ar gyfer anhwylderau bwyta, ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a datblygu ymyrraeth gynnar ymhellach mewn gwasanaethau seicosis.

Yn sail i'r meysydd blaenoriaeth hyn a'r camau gweithredu cysylltiedig mae nifer o ffrydiau gwaith trosfwaol, a fydd yn parhau y tu hwnt i oes y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo mynediad teg a chefnogi'r Gymraeg;
- cryfhau cydgynhyrchu a chefnogi gofalwyr;
- datblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl;
- defnyddio ymchwil a data yn well wrth ddatblygu polisi iechyd meddwl;
- cefnogi gweithredu bwriadau polisi a chanlyniadau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019. Hefyd, datblygu sefyllfa strategol o ran pa newidiadau sydd eu

hangen i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn gwella canlyniadau.

Mae tystiolaeth gymhellol o'r angen cynyddol am gymorth iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig ac i barhau â'n rhaglen waith i wella iechyd meddwl, fel y nodir yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022, a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Yn ystod 2020-21 fe wnaethom fuddsoddi mewn gwell mynediad at gymorth lefel isel, i ymateb i'r lefelau uwch o bryder yn ein poblogaeth. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, rydym yn rhagweld cynnydd mewn angen ar draws pob lefel o wasanaethau iechyd meddwl, oherwydd effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig.

Rydym felly'n buddsoddi £20m ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer iechyd meddwl gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn ychwanegol at godiad craidd o £13m i ddyraniad iechyd meddwl wedi'i glustnodi i'r GIG. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad o dan y cynllun Cymru Iachach ar gyfer y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac yn dyblu'r cyllid o £7m i £14m a hefyd yn darparu mwy o gymorth i wasanaethau anghlinigol rheng flaen, cymorth mewn argyfwng i bobl o bob oedran a gwasanaethau asesu'r cof.

O ran dementia, amlinellodd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 y camau allweddol yr oedd angen eu cymryd i wireddu gweledigaeth y cynllun a gwella cymorth i'r grŵp hwn. Dyrannwyd £10m o gyllid cylchol y flwyddyn i gefnogi gweithrediad y cynllun, drwy'r gyllideb pobl hŷn ac iechyd meddwl. Dyrennir y rhan fwyaf o'r arian hwn (dros £9m) i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyrennir y cyllid drwy fformiwla gyllido i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022.

O ran gwasanaethau iechyd cyn-filwyr, mae gan gyn-filwyr y lluoedd arfog hawl i gael blaenoriaeth o ran mynediad i driniaeth y GIG ar gyfer cyflyrau iechyd sy'n deillio o'u cyfnod yn gwasanaethu yn y fyddin. Mae hyn yn berthnasol i Filwyr Rheolaidd, Milwyr Wrth Gefn a'r rhai a dreuliodd gyfnod yn gwneud Gwasanaeth Milwrol. Pan fydd y meddyg teulu a'r ymgynghorydd sy'n atgyfeirio claf yn cytuno bod cyflwr y claf yn gysylltiedig â'i wasanaeth yn y fyddin gofynnir iddynt roi blaenoriaeth i gyn-filwyr dros gleifion eraill sydd â'r un anghenion clinigol. Ni fydd cyn-filwyr yn cael blaenoriaeth dros gleifion eraill ag anghenion clinigol mwy dybryd. Bydd y flaenoriaeth hon yn parhau. O ran iechyd meddwl cyn-filwyr mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid rheolaidd o £685,000 i GIG Cymru i Gyn-filwyr, o fewn y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl, sef yr unig wasanaeth cenedlaethol o'i fath i gyn-filwyr yn y DU.

Awtistiaeth

Mae gwella gwasanaethau i bobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn 2021-2022. Byddwn yn parhau i fuddsoddi £3 miliwn yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau asesu a diagnostig i oedolion, cymorth ôl-ddiagnostig i oedolion a chymorth i rieni a gofalwyr. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Gronfa Gofal Integredig ym mhrif Ddyraniad y GIG, yn y MEG

Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, bydd oddeutu £0.6m yn parhau i gael ei fuddsoddi yn ein Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'i raglen waith. Mae'r tîm wedi bod yn allweddol o ran darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn llwyddiannus, darparu cymorth parhaus i rwydwaith awdurdodau lleol o arweinwyr awtistiaeth, a datblygu adnoddau a chymorth sydd ar gael ar ei wefan bwrpasol.

Ein blaenoriaeth ar gyfer eleni fydd cyflwyno'r Cod Ymarfer Statudol terfynol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r canllawiau cysylltiedig. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod drafft i ben ar 14 Rhagfyr 2020, a'n nod yw cyhoeddi adroddiad ymgynghori yn gynnar yn 2021. Bydd yr adroddiad yn llywio'r drafft terfynol o'r Cod a'r canllawiau yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2021.

Byddwn yn parhau â'n bwriad i ddechrau gweithredu'r Cod ym mis Medi 2021 ac i baratoi ar gyfer hyn, bydd cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys camau i godi ymwybyddiaeth o'r Cod ac i gynorthwyo sefydliadau i weithredu'r gofynion newydd. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â phobl awtistig er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth fydd y Cod yn ei olygu iddyn nhw.

Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt, sy'n cynnwys awtistiaeth, er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac i gefnogi datblygu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol a ddechreuodd yn 2020-21. Cyfanswm cost yr adolygiad fydd uchafswm o £0.120m.

Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp cynghori newydd ar awtistiaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor ac adborth ar gyflawni. Bydd y grŵp hwn yn gweithio'n agos â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn eu rôl i gefnogi cyflwyno'r strategaeth awtistiaeth.

Camddefnyddio Sylweddau

Y brif gyllideb refeniw ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn 2021-22 yw £26.325m, wedi'i ategu gan £2.4m arall o Cymru Iachach, gan fynd â'r cyfanswm cyffredinol sydd ar gael i £28.725m.

Dyrennir y mwyafrif o hyn (£25.063m) i Fyrddau Cynllunio Ardal,drwy fformiwla gyllido i sicrhau bod Byrddau Cynllunio Ardal yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. O dan y gyllideb hon, mae £2.75m, £1m a £0.300m o'r cyllid i Fyrddau Cynllunio Ardal wedi'i neilltuo ar gyfer plant a phobl ifanc, Haen 4 (adsefydlu preswyl a dadwenwyno cleifion mewnol) a gwasanaethau cwnsela yn y drefn honno. Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi agenda adfer Llywodraeth Cymru o ran triniaeth i bobl sy'n agored i niwed ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19.

Mae cyllid Byrddau Cynllunio Ardal yn ategu dyraniadau camddefnyddio sylweddau'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi cynyddu £0.960m yn 2021-22 i gyfanswm o £20.774m ac fe'i defnyddir i gomisiynu/prynu ystod o adnoddau addysg, triniaeth atal a mentrau gorfodi.

Mae gweddill yr arian yn y Cam Gweithredu yn cefnogi'r canlynol:

- Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru (£1.98m) - nod y Rhaglen yw gweithredu mewn 100% o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i addysgu plant am gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ar bob cam allweddol o'r cwricwlwm. Mae'r Rhaglen hon yn bwysig o safbwynt addysg a gwaith atal (gan ategu'r broses o Ddiwygio'r Cwricwlwm), ond mae hefyd yn cefnogi anghenion iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc o ganlyniad i effaith COVID-19, yn unol â'r cynllun parhad.
- Mentrau Cyffuriau ac Alcohol (£0.985m) - mae'r gyllideb hon yn cynnwys nifer o feysydd gwaith sy'n gweithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, drwy waith ymchwil, datblygu polisi a monitro gwaith sy'n gysylltiedig ag ymyriadau sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol. Bydd y camau hyn yn allweddol yn yr agenda adferiad er mwyn bwrw ymlaen â Chynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn sgil effeithiau COVID-19. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys gofynion deddfwriaethol yn ymwneud ag isafbris uned am alcohol.
- Cyfraniad o £0.697m ar ffurf arian cyfatebol i'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith - Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ariennir ar y cyd â'r adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y Gyllideb gyfalaf ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yw £5.072m sy'n cefnogi'r gofynion cyfalaf parhaus i ddarparu'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen.

Profiad y Claf

Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn darparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r GIG yng Nghymru, y rhai sy'n ei reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae saith Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru, sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal. Maent yn cyflwyno sylwadau i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd, mae cyrff y GIG yn ymgynghori â nhw mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth ac maent yn darparu cyngor a chymorth i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno am driniaeth y GIG o dan weithdrefn gwyno'r GIG.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn goruchwylio'r saith Cyngor Iechyd Cymuned lleol yng Nghymru. Caiff Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned eu lletya gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae'r gyllideb wedi'i chynnwys fel rhan o brif ddyraniad y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pasiwyd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 gan y Senedd ar 17 Mawrth 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin. Un o nodau'r Ddeddf yw cryfhau llais dinasyddion, drwy ddisodli Cynghorau Iechyd Cymuned â chorff cenedlaethol newydd, sef Corff Llais y Dinesydd.

Bydd y Corff newydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng Nghymru ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n cyd-fynd yn llwyr ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Cymru Iachach ar gyfer integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn agosach.

Mae Bwrdd Gweithredu yn cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith o sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Bydd ganddo amryw ffrydiau gwaith, gan gynnwys y rhai a grewyd i ymdrin â throsglwyddo staff o'r Cynghorau Iechyd Cymuned i'r Corff newydd, caffael system TG a ffrwd waith llywodraethu. Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer sefydlu'r corff yn 2021-22 yw £2.6m a chytunwyd arno yn 2019 o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pwysau Iach: Cymru Iach

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad o £5.5m i gyflawni'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y cynllun cyflawni, a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2020 ac sy'n nodi ymrwymiadau fel rhan o'r strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach Cymru, gan arwain at oedi wrth gwblhau cyflawniadau 2020. Fodd bynnag, y cynigion a nodwyd yn 2020-21 yw ein ffocws o hyd a byddwn yn cyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer eu cyflawni yn 2021-22. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar:

- Gymorth ar gyfer Llwybr Gordewdra Clinigol, a fydd yn datblygu gwasanaethau i blant a theuluoedd ac yn datblygu cymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer rhaglen Rheoli Pwysau yn ystod Beichiogrwydd a fydd yn cyflwyno model cyflawni cenedlaethol ar gyfer arfer gorau, gydag arbenigedd a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol.
- Ymyrraeth ar gyfer Plant a Theuluoedd a fydd yn anelu at gefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, wedi'i thargedu at y gyfran uchaf o blant gordew, yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Plant. Bydd hyn yn cysylltu â seilwaith drwy Dechrau'n Deg a chyda dulliau presgripsiynu cymdeithasol a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad eisteddog ac anghydraddoldebau iechyd er mwyn datblygu cynlluniau peilot i brofi ffyrdd newydd o weithio.
- Gwaith datblygu systemau drwy Fyrddau Iechyd Lleol a phartneriaid, i sicrhau ymgysylltiad pwrpasol â phlant a theuluoedd, er mwyn grymuso prosesau gwneud penderfyniadau a datblygu atebion lleol.
- Datblygu ymchwil a mewnwelediad i ymddygiad a fydd yn arwain at ddatblygu camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth drwy'r cynllun cyflawni.

Canran/cyfran cyllideb Cymru sy'n cael ei dyrannu i iechyd meddwl a lles yn y Gyllideb Ddrafft, a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol. Manylion unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ran meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft o'u

cymharu â’r blynyddoedd blaenorol (e.e. lleihau grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu)

Iechyd Meddwl

Yn y gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22, rydym yn dyrannu £9.4m ychwanegol o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a £33m ar gyfer Iechyd Meddwl yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ochr yn ochr yn y cyllid a glustnodwyd ar gyfer Iechyd Meddwl y GIG ar gyfer cyflogau a chwyddiant (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), bydd hyn gyfystyr â mwy na £42m o fuddsoddiad ychwanegol mewn cefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl yn 2021-22.
Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn Iechyd Meddwl ar draws y Llywodraeth, yn unol â'n dull o atal ac amddiffyn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth gyda thai, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Byddwn yn parhau i ddiogelu gwasanaethau iechyd meddwl ac yn buddsoddi mwy nag mewn unrhyw ran arall o'r GIG. Rydym wedi cynyddu'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £700 miliwn yn 2020-21, gan gynyddu i £726.782m yn 2021-22. Mae'r cynnydd yn yr arian sydd wedi'i glustnodi yn 2021-22 yn cynnwys £1m i gefnogi gwasanaethau iechyd carchardai.

Yn ogystal â'r dyraniadau newydd ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22 bydd y BEL Iechyd Meddwl yn parhau i gyllido'r meysydd canlynol: Cyllid ar gyfer Rhaglen Iechyd Meddwl (£3.029m), 'Cymru Iachach' - Iechyd Meddwl (£7.1m), a'r gyllideb Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl, gan gynnwys cefnogi'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia (£16.731m).
Yn gynwysedig yn y BEL hon mae'r cyllid ar gyfer y Dull Systemau Cyfan, sef £3m (gyda £2m yn dod o'r MEG Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus).

Camddefnyddio Sylweddau

Yn 2019-20 cafwyd cynnydd o £2.4m yn elfen cyllid Camddefnyddio Sylweddol y Byrddau Cynllunio Ardal a oedd yn cynrychioli cynnydd o 10% yn y gyllideb. Cynghorwyd Byrddau Cynllunio Ardal i ddefnyddio'r arian ychwanegol i wella gwasanaethau mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd
- Plant a theuluoedd yn enwedig y rhai ar gyrion gwasanaethau
- Lleihau niwed gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Mae'r gyllideb ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi'i diogelu ar y lefel a ddyrannwyd yn flaenorol yn 2019-20.

Bond Llesiant - Y Gronfa Iach ac Egnïol

Ariennir y Gronfa Iach ac Egnïol, a lansiwyd yn 2018, o gyllidebau canolog Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl a Gwella Iechyd, ynghyd â chyfraniad gan Chwaraeon Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys manteision i iechyd meddwl a chorfforol gyda phrosiectau'n darparu dull newydd, arloesol o gefnogi pobl o bob oed a chefndir. Mae'r prosiectau hyn yn darparu amrywiaeth o gynrychiolaeth ddaearyddol ledled Cymru, gan gynnwys yn ardal Tasglu'r Cymoedd.

Amharwyd ar y Gronfa Iach ac Egnïol gan yr oedi cyn cychwyn y gronfa, llifogydd a Covid-19, ac o'r herwydd mae proffil gweithgaredd y grant wedi symud i'r 3edd flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gynyddu cyllideb y rhaglen i £1.37m yn 2021-22. Mae'r angen i sicrhau dull iechyd ataliol tuag at adferiad ar ôl y pandemig yn fwyfwy amlwg, ac mae cynyddu'r gyllideb yn rhoi'r cyfle i ddatblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o bartneriaethau iechyd a gweithgaredd corfforol, ynghyd â ffocws ar atal afiechyd.

I ba raddau y mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar eich blaenoriaethau/dyraniadau i linellau cyllideb o fewn Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (h.y. i ba raddau y mae'r rhai mwyaf difreintiedig yn cael eu blaenoriaethu gan ddiwallu eu hanghenion drwy'r Gyllideb Ddrafft hon).

Iechyd Meddwl

Rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiad i wella iechyd meddwl drwy ei osod fel un o ddim ond chwe maes blaenoriaeth yn ein Strategaeth Genedlaethol - *Ffyniant i bawb.* Mae hyn yn herio nid yn unig y maes iechyd, ond Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd i ystyried ei heffaith ar iechyd meddwl ym mhopeth a wna. Mae'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ei hun yn strategaeth 10 mlynedd traws-lywodraeth, sy'n cefnogi natur gydweithredol a hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae canlyniadau'r strategaeth yn cyd-fynd yn glir â'r nodau'r Ddeddf.

Mae'r cynllun yn sicrhau ein bod yn symud tuag at well integreiddio, cydgynhyrchu a dull mwy cyfannol gan ein bod hefyd yn defnyddio dull traws-Lywodraethol ac amlasiantaeth o gefnogi iechyd meddwl. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried effaith y pandemig ar iechyd meddwl poblogaeth Cymru. Er mwyn ymateb i'r effaith economaidd-gymdeithasol ehangach hon, mae angen dull traws-Lywodraethol ac amlasiantaeth ac nid yw'n rhywbeth y gall y GIG na hyd yn oed y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ei wneud ar eu pen eu hunain. Felly, nodwyd camau i gefnogi iechyd meddwl y genedl drwy'r cyfnod hwn gan alluogi camau ataliol, amddiffynnol traws-lywodraethol yn ogystal â sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd meddwl priodol ar waith i ddiwallu anghenion pobl.

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2020

Camddefnyddio Sylweddau

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym wedi sicrhau bod y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni o ran camddefnyddio sylweddau yn glir o ran y cyfraniad a wnânt at nodau'r Ddeddf.

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn un o rolau allweddol y Byrddau Cynllunio Ardal sy'n cefnogi hyn ar sail ranbarthol (sy'n cydffinio ag ardaloedd byrddau iechyd) i sicrhau partneriaeth agos rhwng partneriaid allweddol gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector. Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn thema ganolog ac mae'n cefnogi datblygiad cydweithredol gyda'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau neu sydd â phrofiad personol ohonynt.

Profiad y Claf

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn chwarae rhan bwysig o ran cynnwys eu poblogaethau lleol, ceisio eu barn ar wasanaethau iechyd, a chydweithio a gweithio â chyrff y GIG i sicrhau bod barn y cyhoedd yn hysbys mewn perthynas ag, er enghraifft, newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth. Mae adborth o'r fath hefyd yn helpu i wella gwasanaethau ac yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i atal problemau rhag gwaethygu er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Yn ystod y broses o sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cydbwyso anghenion tymor byrrach Cynghorau Iechyd Cymuned â nodau tymor hwy y Corff newydd, a fydd yn eu disodli. Bydd hyn yn caniatáu proses bontio ddidrafferth, a fydd yn sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn cael ei sefydlu i gyflawni ei nodau o gyfleu llais gwirioneddol gynrychioliadol y dinesydd yng Nghymru a defnyddio profiad defnyddwyr gwasanaethau i ysgogi gwelliannau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau'r Ddeddf o atal problemau rhag codi a chefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant, yn enwedig mewn perthynas â hybu iechyd da a darparu gwasanaethau o ansawdd.

Y Gronfa Iach ac Egnïol

Nod y Gronfa Iach ac Egnïol yw ceisio ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r 5 ffordd o weithio yn y ffordd y caiff ei dylunio, ei chyflawni, ei monitro a'i gwerthuso. Nod amcanion y rhaglen yw gwella llesiant drwy ddull sy'n pontio'r cenedlaethau, gan gynnwys cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i fyw bywydau egnïol ac annibynnol yn yr hirdymor.

Sut y bydd dyraniadau cyllid y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflawni diwygiedig Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys manylion y cymorth ariannol i elusennau a'r Trydydd Sector wrth gefnogi'r rhai â phroblemau iechyd meddwl (h.y. gwasanaethau cynghori, llinellau cymorth atal hunanladdiad).

Iechyd Meddwl

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022, sydd bellach wedi'i gryfhau yng nghyd-destun Covid-19 gan y derbynnir yn gyffredinol y bydd y pandemig yn cael, ac wedi cael, effaith sylweddol ar y galw a'r angen am gymorth ar gyfer iechyd meddwl.

Bydd y cynnydd yn ein buddsoddiad mewn iechyd yn ein galluogi i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl drwy leihau'r galw am gymorth mwy arbenigol, drwy warant gwasanaeth gofynnol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl lefel isel a hefyd drwy gryfhau cymorth ar lefel genedlaethol ar gyfer meysydd fel gwasanaethau anghlinigol rheng flaen a chymorth mewn argyfwng i bobl o bob oedran. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd i gefnogi gweithredu ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) (£5.4m) a'r Dull Systemau Cyfan o weithredu ar iechyd meddwl (£4m). Bydd hyn yn helpu'r ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i symud i ddarpariaeth ataliol, integredig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Cynigir cymorth i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl ar lefel gymunedol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ond mewn rhai achosion efallai y bydd angen triniaeth cleifion mewnol ar gyfer yr ymyrraeth CAMHS arbenigol hon ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed, felly o ran CAMHS, bydd y cyllid ychwanegol yn y gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i gryfhau cynlluniau gwasanaethau CAMHS y GIG yn Haen 4 (gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gofal i gleifion mewnol) a Thimau Gofal Dwys Cymunedol. O ran y Dull Systemau Cyfan, byddwn yn ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu'r ddarpariaeth o fewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot.

Mae gan y Trydydd Sector rôl arbennig o bwysig i'w chwarae wrth ddarparu cymorth ataliol, anfeddygol, Haen 0 ac rydym wedi buddsoddi £2.7m ychwanegol yn 2020/21 i ddarparu cymorth ychwanegol. Bydd hyn yn cynyddu yn 21-22 wrth i gynlluniau ar gyfer dyrannu grantiau gael eu cwblhau. Byddwn hefyd yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol i barhau â'u gwaith pwysig ym maes iechyd meddwl gan olynydd y grant iechyd meddwl adran 64 y disgwylir iddo ddod i ben yn 2021.

Mae atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn cymryd nifer o gamau i gefnogi hyn. Yn sail i hyn mae ein Strategaeth Beth am Siarad â Mi 2 ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r gwaith sydd bellach ar y gweill drwy'r Cydlynydd Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed. Mae gwaith atal a'r gallu i ymyrryd yn gynnar yn gwbl allweddol wrth gwrs a byddwn yn parhau i gryfhau ein gwasanaethau cymorth haen 0/1 a'n hymateb i argyfwng, ochr yn ochr ag ystod o ddulliau rhanbarthol er mwyn lleihau hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys cymorth ar ôl profedigaeth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Ochr yn ochr â chyllid iechyd meddwl ehangach, rydym yn parhau i ymrwymo £0.5m ychwanegol y flwyddyn i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad, gyda chefnogaeth tri Chydlynydd Rhanbarthol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen a chydlynu'r asiantaethau niferus sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon.

Yn ogystal, mae'n amlwg bod iechyd meddwl yn ymrwymiad trawsbynciol i Lywodraeth Cymru a gofynnir i bob adran ystyried effaith pob polisi a rhaglen ar lesiant iechyd meddwl. Mae'r angen am y dull traws-Lywodraethol hwn wedi'i amlygu fwyfwy oherwydd effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig. Mae cyllid uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl hefyd yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad traws-lywodraethol ehangach mewn meysydd sy'n diogelu iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth, dyled a thai - ond hefyd mewn meysydd fel y celfyddydau, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd sy'n chwarae rhan bwysig o ran diogelu a gwella llesiant.

Camddefnyddio Sylweddau

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22.

Mae'r niwed sy'n gysylltiedig chamddefnyddio sylweddau yn cael effaith anghymesur ar ein cymunedau tlotaf ac mae'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn effeithio ar ein cymdogaethau tlotaf fel y nodir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau chwe gwaith yn uwch yn y cymunedau tlotaf a hefyd mae'r niwed yn sgil cyffuriau ac alcohol yn sylweddol i'r boblogaeth ddigartref. Yn ystod yr ymateb i COVID 19 mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi gweithio'n agos â gwasanaethau digartrefedd i sicrhau bod cymorth ar gael i gyflawni ein huchelgais o sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar y stryd.

Yn ogystal ag effeithio ar y bobl hynny sy'n camddefnyddio sylweddau ei hunain, mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio ar eu teuluoedd a'u cymunedau hefyd. Dywed rhai awdurdodau lleol fod hyd at 80% o blant sydd mewn perygl o fynd i ofal yn y sefyllfa honno oherwydd bod eu rhieni'n camddefnyddio sylweddau.

Mae gan lawer o bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol broblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau hefyd sydd, i lawer, yn rhwystr i driniaeth os nad eir i'r afael â hwy. Mae Camddefnyddio Sylweddau yn ffactor arwyddocaol mewn marwolaethau cynnar gyda 165 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2019, sef gostyngiad o gymharu â 208 yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2019, yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oedd 43 oed.

Drwy gefnogi gwaith atal a chanolbwyntio ar wella iechyd a llesiant unigolion a theuluoedd, rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant y Llywodraeth yn 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'. Bydd ein dull traws-Lywodraethol hefyd yn cyfrannu at feysydd blaenoriaeth y Llywodraeth, megis y Blynyddoedd Cynnar, Tai a Gwell Iechyd Meddwl gan ein helpu i gyflawni ein huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb.

Rydym wedi gweithio gyda'n llinell gymorth genedlaethol DAN 24/7, i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael mewn perthynas â COVID-19 a chyngor ar ba wasanaethau sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gwybodaeth ar wefan DAN 24/7 sy'n darparu diweddariadau ar COVID -19.

4. Yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddyraniadau

Manylion am sut y mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Gyllideb Ddrafft ers blynyddoedd blaenorol - o ganlyniad i COVID-19. Yn benodol;

- A yw'r cyllid ar gyfer iechyd meddwl a lles, ar draws pob maes o'ch portffolio, wedi'i ddiogelu/cynyddu/lleihau yn ystod y pandemig, a sut mae'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft (h.y. enghreifftiau o'r buddsoddiad ychwanegol o ran capasiti cleifion mewnol iechyd meddwl – cynaliadwyedd hyn yn y tymor byr a'r tymor hwy). Manylion am yr achosion a welwyd o ailddefnyddio cyllid o'r Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r rhaglen Pwysau Iach, Cymru Iach. Sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft.

Iechyd Meddwl

Yn gynnar yn 2020-21, fe wnaethom nodi bod ein gwasanaethau iechyd meddwl yn 'wasanaethau hanfodol' ac i gefnogi hyn, fe wnaethom gyhoeddi £3.5m o gyllid i wella gwasanaethau iechyd meddwl ar unwaith ar gyfer byrddau iechyd lleol i'w galluogi i ymateb yn hyblyg i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ym maes iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth argyfwng / y tu allan i oriau a mwy o fynediad at ymyriadau seicolegol. Mae'r cyllid hwn, a'r £3.5m sy'n weddill o'r cyllid gwella gwasanaethau, y manylir arno isod bellach o fewn prif ddyraniad y GIG ar gyfer 21-22.

Drwy gydol 2020, fe wnaethom gyhoeddi cyllid ychwanegol i'r GIG, y trydydd sector ac Awdurdodau Lleol ar gyfer iechyd meddwl.

- £3.5m sy'n weddill o'r cyllid gwella gwasanaethau i'w fuddsoddi yn unol â blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Mae hyn yn seiliedig ar y swm a glustnodwyd ar gyfer Iechyd Meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG yn 21-22.*
- £5m ar gyfer y dull ysgol / systemau cyfan, a fydd yn parhau yn 2021/22 ac yn cynyddu i gyfanswm o £9m.
- £1.3m i gyflymu darpariaeth haen 0/1 i gefnogi gwasanaethau mynediad agored ac £1.4m o gyllid ychwanegol i ymateb i Covid wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl y Sector Gwirfoddol yn rhanbarthol. Bydd cymorth ychwanegol i wasanaethau mynediad agored/sector gwirfoddol yn parhau i 2021/22 o'r £20m ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer iechyd meddwl.
- £2.2m ar gyfer capasiti ymchwydd mewn perthynas â darpariaeth cleifion mewnol ledled Cymru. Dyraniad unwaith ac am byth yn 20-21.
- £1m i ymestyn y cynllun cymorth iechyd meddwl i feddygon i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gan y rhai ar y rheng flaen fynediad at

gymorth. Bydd y gwasanaeth hwn yn parhau yn 21-22 ac yn cael ei ymestyn i weithwyr gofal.
- £50,000 ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl gofalwyr di-dâl.

* Mae'r £7m llawn ar gyfer cyllid gwella gwasanaethau a fuddsoddwyd yn unol â blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd rhwng 2021-22.

Pwysau Iach: Cymru Iach
Cafodd £2m o'r gyllideb Pwysau Iach: Cymru Iach yn 2020-21 ei ailgyfeirio er mwyn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn bosibl gan nad oedd partneriaid yn gallu cyflawni'r rhaglen, oherwydd y pwysau yn sgil yr ymateb i'r pandemig. Cydnabuwyd pwysigrwydd llesiant a'r angen i ganolbwyntio ar effeithiau'r pandemig ar ordewdra a lefelau gweithgaredd gyda chyllid parhaus o £5.5m ar gyfer 2021-22 i sicrhau y gellir dod â'r strategaeth yn ôl ar y trywydd iawn, wrth ymateb i heriau penodol yn sgil y pandemig o ran ymddygiad a materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd yn y tymor byr a'r tymor canolig i'r tymor hir. Mae'n bwysig cydnabod bod gordewdra a bod dros bwysau yn broblemau iechyd hirdymor nad oes modd eu newid yn gyflym, ac felly bydd angen amser a chydweithrediad er mwyn cyflwyno rhaglen ataliol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn seiliedig ar boblogaeth.

- Pa gyfran o'r cynnydd mewn refeniw o'r cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau o fewn portffolios a/neu addasiadau i gyllideb Cymru sydd wedi/a fydd yn cael ei ddefnyddio at ddiben Llinellau Gwariant yn y Gyllideb wrth ymateb i effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a lles. Sut mae hyn yn cymharu ag iechyd corfforol.

Iechyd Meddwl
Yn ogystal â'r dyraniadau, y manylir arnynt uchod, a wnaed yn ystod y pandemig yn 2020, bydd dros £42m yn cael ei ddyrannu i gefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl rhwng y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg fel rhan o'r gyllideb Ddrafft 21-22. Yn ogystal â hynny, gellir gweld buddsoddiadau eraill mewn Iechyd Meddwl ar draws y Llywodraeth, yn unol â'n dull o atal a diogelu iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Mae'r dyraniadau cyllid hyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl rheolaidd a fydd yn cynyddu'r llinell sylfaen a rhoddir ystyriaeth bellach i fesurau ymateb penodol i Covid wrth inni agosáu at 21-22. Mae'r gyllideb ddrafft hon wedi canolbwyntio ar gadarnhau lefel y buddsoddiad rheolaidd mewn iechyd meddwl a llesiant sydd ei angen er mwyn ymateb i effaith hirdymor y pandemig. Er bod gennym obaith bellach drwy'r brechlynnau, erys llawer o ansicrwydd ynghylch yr union lwybr y bydd y pandemig yn ei ddilyn a'r effeithiau y bydd hyn yn parhau i'w cael ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach yn ystod y flwyddyn nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau gwariant yn ymateb yn y ffordd orau i'r heriau esblygol sy'n codi o'r pandemig, barnwyd ei bod yn ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn y gyllideb Ddrafft ac rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach

yn y Gyllideb derfynol ar gyfer ein hymateb i'r pandemig wrth inni ddod i ddeall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd.

Camddefnyddio Sylweddau

Yn 2020-21, ailddyrannwyd hyd at £3.5m er mwyn darparu triniaeth a brofwyd yn glinigol ar gyfer Therapi Amnewidion Opioid ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sydd 'mewn perygl'. Mae'n bigiad is-groenol sy'n cael ei ryddhau'n araf ac sy'n para 28 diwrnod ac yn disodli'r angen am feddyginiaeth ddyddiol drwy'r geg. Ymhlith y manteision ers ei weithredu ym mis Mawrth 2020 mae'r canlynol:

- Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol o ran canlyniadau'r driniaeth a manteision cymdeithasol i'r unigolion, gan gynnwys llai o droseddu, gyda llawer yn disgrifio eu profiad fel un sydd wedi newid eu bywyd.
- Mae Buvidal wedi arwain at ostyngiad cyflym yn yr angen am gyswllt dyddiol â staff rheng flaen y GIG a fferyllwyr, gan arbed oddeutu 100,000 o ymweliadau â fferyllfeydd cymunedol rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, gan leddfu pwysau ar wasanaethau lleol.
- Y gallu i ryddhau capasiti mewn gwasanaethau arbenigol cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, i gynorthwyo cleifion mwyaf cymhleth, gan gynnwys y sector digartref er mwyn symud pobl sy'n cysgu allan ar y stryd i lety a chymorth
- Mae dros 500 o bobl bellach yn elwa ar y driniaeth newydd hon.

- Sut y mae dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig a/neu lle mae'r pandemig a'r mesurau cloi wedi cael effaith anghymesur ar les rhai grwpiau o bobl (fel oedolion hŷn, cymunedau BAME a'r rheini sydd ar incwm isel neu sydd heb sicrwydd ariannol). Sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu (h.y. mynediad at gymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol, buddsoddi mewn therapïau seicolegol, atal hunanladdiad, mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, mynd i'r afael ag ymddygiadau afiachus fel camddefnyddio sylweddau, gor-fwyta).

Iechyd Meddwl

Ailgyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl ym mis Hydref ac mae wedi'i gryfhau er mwyn ymateb i effaith y pandemig. Mae angen parhau â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun ond - yn bwysicach - mae'n amlinellu'r camau y bu'n rhaid inni eu cyflymu er mwyn ymateb i anghenion uniongyrchol, er enghraifft, ein buddsoddiad mewn cymorth Haen 0/1. Mae'r cynllun hefyd yn nodi camau traws-Lywodraethol newydd i ymateb i effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig. Mae hyn yn cynnwys drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd wedi'u harwain gan iechyd, cymorth pellach i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'n gwaith i integreiddio cymorth iechyd meddwl yn well, er enghraifft i'r rhai sydd mewn dyled neu sydd ag anghenion tai.

Bydd ein buddsoddiadau mewn iechyd meddwl ar gyfer 21-22 yn cwmpasu'r meysydd hyn ac yn cael eu dyrannu i gefnogi'r meysydd / camau blaenoriaeth a nodir yn y cynllun cyflawni.

Amser i Newid Cymru
Ymgyrch sydd â'r nod o ddod â'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl yng Nghymru i ben yw Amser i Newid Cymru. Mae lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn gam gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22.

Bwriedir ymestyn y rhaglen yn 2021-22 i sicrhau parhad i waith gwrth-stigma yng Nghymru, yn enwedig gyda'r risgiau uwch o ran Covid-19 a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar iechyd meddwl pobl. Awgrymir y dylai Amser i Newid Cymru archwilio ffyrdd o gyrraedd cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y cyfnod ymestyn. Bydd y pandemig Covid-19 yn arwain at ganlyniadau economaidd difrifol, gan effeithio'n anghymesur ar y grwpiau mwyaf ymylol mewn cymdeithas gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi ac amddifadedd. Gwelir eisoes bod pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn mwy o berygl o ddal covid-19 ac maent yn fwy tebygol o fod yn profi effeithiau andwyol ychwanegol y coronafeirws (megis problemau gyda thai a chyllid).

Bydd gweithwyr yn y system budd-daliadau a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn cael eu targedu i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn profi llai o stigma oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr o effaith stigma yn sgil ymyrraeth beilot.

Pwysau Iach: Cymru Iach
Mae tystiolaeth bod unigolion sydd dros bwysau neu'n ordew yn fwy tebygol o orfod mynd i'r ysbyty a'u bod yn fwyfwy tebygol o gael eu derbyn i adran gofal dwys a bod angen triniaeth ddwysach oherwydd Covid-19. Byddwn yn buddsoddi £5.5m ychwanegol yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn ein llwybr gordewdra drwy Fyrddau Iechyd Lleol i ddarparu ystod o wasanaethau i oedolion a phlant er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael y lefel gywir o gymorth a chefnogaeth. Gall hyn fod drwy gymorth ar-lein, cymorth i reoli pwysau, cymorth aml-broffesiynol dwysach neu fynediad at lawdriniaeth fariatreg.

Mae risg y bydd y pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol gydag unigolion â phroblemau iechyd presennol yn fwy tebygol o fod yn anweithgar ac wedi wynebu mynediad cyfyngedig at fwyd yn ystod y pandemig. Mae unigolion ar incwm isel mewn mwy o berygl o fod yn ordew cyn y pandemig ac maent yn fwy tebygol o fod wedi dioddef niwed ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Dyna pam y byddwn hefyd yn cyflawni gwaith yn uniongyrchol gyda chymunedau drwy ddulliau'n seiliedig ar systemau a thrwy beilot o Raglen Plant a Theuluoedd. Bydd y cyllid yn manteisio ar gyfleoedd i barhau i gael mewnwelediad ac i wneud ymchwil i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar newid ymddygiad.

Camddefnyddio Sylweddau

Mae cyllid Camddefnyddio Sylweddau yn cefnogi'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Diweddarwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Rhagfyr 2020 i ymgorffori newidiadau mewn blaenoriaethau o ganlyniad i COVID-19, yn benodol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, ac y bydd angen ei wneud yn 2021-22 a thu hwnt, o ganlyniad i'r pandemig.

Gall camddefnyddio sylweddau gael effaith ddinistriol ar unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau. Nod trosfwaol y cynllun yw lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol i'r unigolyn ar chymdeithas ehangach.

Yn hollbwysig, gwnaed gwaith sylweddol i ddiogelu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys Therapi Amnewidion Opioid a chymorth i deuluoedd. Barnwyd bod y gwasanaethau hyn yn hanfodol drwy Fframwaith Gweithredu'r GIG ar ddechrau'r pandemig i sicrhau eu bod ar gael o hyd. Mae'r cymorth hwn wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu ymateb i anghenion nifer sylweddol o bobl sydd angen cymorth a diwallu'r anghenion hynny fel rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael ar y stryd.

Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi addasu'n gyflym i'r amgylchiadau newidiol, gan symud i ddarparu ymgynghoriadau ar-lein (Skype) a gwasanaethau cymorth seicolegol a sicrhau cefnogaeth barhaus. Mae hyn wedi cynnwys - lle bo angen - cyflwyno meddyginiaethau Therapi Amnewidion Opioid i'r rhai sy'n hunanynysu neu'n methu â chael gafael ar eu meddyginiaeth am resymau eraill.

Yn ogystal â hynny, mae'r Cynllun Cyflawni wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu'r gwaith partneriaeth sylweddol sydd wedi'i wneud i gefnogi gwaith i gartrefu pawb sy'n ddigartref a pharatoi ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar.

Meysydd penodol perthnasol yn y Cynllun Cyflawni:

- Mae £2.75m wedi'i neilltuo i gefnogi plant a theuluoedd. Rydym yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau a'r risg y bydd plant yn mynd i ofal ac rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod gan bob teulu fynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gyda'i gilydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Cam gweithredu i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion pobl o bob oed, gan gynnwys oedolion hŷn.
- Cam gweithredu i ymateb yn effeithiol i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd sy'n gyffredin ymysg y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Yn benodol, ymgymryd â darn manwl o waith i ddeall yn well y rhwystrau i gynnydd yn y maes hwn, a'r cyfleoedd i wneud cynnydd.
- Cam gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a all fod yn rhwystr i bobl gael cymorth o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Camau gweithredu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau er mwyn annog pobl i geisio cymorth yn y lle cyntaf, ond hefyd i ailintegreiddio pobl sy'n adfer i'r gymuned ehangach.

Atal Hunanladdiad

Fel yr amlinellir uchod, rydym yn parhau i ymrwymo £500,000 yn ychwanegol y flwyddyn i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad, gyda chefnogaeth tri Chydlynydd Rhanbarthol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen a chydlynu'r asiantaethau niferus sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon.

Mae cyllid iechyd meddwl ehangach yn cefnogi'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019-22. Diweddarwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Hydref 2020 i ymgorffori newidiadau mewn blaenoriaethau o ganlyniad i COVID-19, yn benodol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, ac y bydd angen ei wneud yn 2021-22 a thu hwnt, o ganlyniad i'r pandemig.

Unigrwydd ac Ynysigrwydd
Yn ystod 2021-22 byddwn yn parhau i sicrhau bod £0.750m ar gael i gefnogi'r strategaeth unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, bydd Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol yn cael ei sefydlu yn 21-22 i brofi dulliau arloesol o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a / neu gynyddu dulliau addawol o estyn allan at y rhai sydd eisoes yn unig a / neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol.

- Manylion penodol ar y dyraniadau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr ag esboniad p'un a yw'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniad penodol ar gyfer adnoddau staffio ychwanegol o ran y gweithlu iechyd meddwl, yn enwedig wrth gefnogi'r rheini â dementia ac awtistiaeth.

Yn 2020 darparwyd £1m ychwanegol i ymestyn y cynllun cymorth iechyd meddwl i feddygon i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gan y rhai ar y rheng flaen fynediad at y cymorth y maent yn ei haeddu. Bydd y gwasanaeth cynyddol hwn yn parhau yn 21-22 gyda chynlluniau ar y gweill i'w ymestyn ymhellach i gynnwys staff gofal cymdeithasol.

Yn y Cynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 mae cam gweithredu i ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl. Mae cynllun y gweithlu yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Cynhaliodd AaGIC a GCC ymarfer mapio gyda Byrddau Iechyd drwy gydol mis Tachwedd i nodi staff a swyddi a bydd hyn yn llywio cynllun y Gweithlu ar gyfer Iechyd Meddwl y bwriedir ymgynghori arno ddiwedd 2021. Drwy gydol mis Hydref, arweiniodd AaGIC a GCC gynhadledd rithwir ar y cyd a barhaodd am fis er mwyn ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid i fod yn sail i gynllunio'r gweithlu iechyd meddwl yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn llywio gwariant yn y dyfodol ar weithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc, fodd

bynnag, yn y cyfamser mae elfennau o'r cyllid gwella gwasanaethau yn cael eu dyrannu i gefnogi'r anghenion hyfforddi a datblygu a nodwyd gan fyrddau iechyd.

O ran dementia, sefydlwyd Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia, sy'n atebol i'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG). Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn wedi ailffocysu ei weithgaredd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws. Mae hyn oherwydd bod tystiolaeth i awgrymu bod y pandemig ac effaith y cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar bobl sy'n byw gyda dementia. Mae tystiolaeth gan bobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynychu gweminarau rheolaidd Gweithgor Dementia'r 4 Gwlad yn cefnogi'r awgrym bod llawer yn profi dirywiad gwybyddol a chorfforol ac yn colli hyder. Gellir hefyd ddefnyddio'r dyraniadau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia i gefnogi'r gweithlu gan fod hyn yn flaenoriaeth allweddol yn y cynllun gweithredu.

5. Gwaith trawslywodraethol ac ar draws sectorau

Enghreifftiau o ddyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft sy'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn cymryd dull 'system gyfan', trawslywodraethol, cydgysylltiedig o wella iechyd meddwl a lles pobl - gan gydnabod penderfynyddion ehangach iechyd meddwl a lles (h.y. nad y GIG yn unig sy'n gyfrifol am y maes). Sut i sicrhau na chollir y ffocws ar fesurau atal/ymyrraeth gynnar o ganlyniad i'r pandemig, a sut yr adlewyrchwyd hyn yn nyraniadau'r Gyllideb Ddrafft

Iechyd Meddwl (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)

Cydnabyddir bod iechyd meddwl yn ymrwymiad trawsbynciol i Lywodraeth Cymru a gofynnir i bob adran ystyried effaith pob polisi a rhaglen ar lesiant iechyd meddwl. Mae'r angen am y dull traws-Lywodraethol hwn wedi'i amlygu fwyfwy oherwydd effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig ac mae'r agweddau hyn wedi cael eu cryfhau yng *Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.*

Rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw fuddsoddiad mewn gwasanaeth iechyd meddwl gael ei gefnogi gan fuddsoddiad traws-lywodraethol ehangach mewn meysydd sy'n diogelu iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth, dyled a thai - ond hefyd mewn meysydd fel y celfyddydau, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd sy'n chwarae rhan bwysig o ran diogelu a gwella llesiant. Mae'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl hefyd yn adlewyrchu ehangder y camau gweithredu traws-Lywodraethol sydd eu hangen i wella iechyd meddwl ac i atal salwch meddwl.

Mae enghreifftiau o fuddsoddiad traws-bortffolio yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £4 miliwn arall yn y dull system gyfan o ymdrin â llesiant meddyliol - mae hyn yn cynnwys ymestyn gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu bod y buddsoddiad llawn yn £9m, rhwng y MEG Addysg a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.
- £1m i gefnogi trefniadau cydweithio rhwng y meysydd tai, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth, wedi'u cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer 21-22.

Roedd y dyraniadau yn 2020 yn cynnwys:

- Gwaith gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y £40m ychwanegol a ddarperir i gefnogi ymrwymiad Covid-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddi a sgiliau yn cael ei dargedu'n effeithiol i helpu'r grwpiau hynny y mae Covid-19 yn effeithio fwyaf arnynt, gan gynnwys pobl ifanc 16-24 oed.

- £10m o gyllid i CCAUC i gefnogi partneriaid yn y sector AU i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant a chaledi ariannol.

Camddefnyddio Sylweddau - Gwaith ataliol

Mae Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru yn darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ar bob cam allweddol o'r cwricwlwm, ymhlith ystod o wersi eraill. Fe wnaeth Adolygiad Gweithredol o'r Rhaglen yn 2019 fraenaru'r tir ar gyfer dull system gyfan strategol. Sefydlwyd Bwrdd Strategol gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r Llywodraeth gan gynnwys y meysydd Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl, Is-adran Dysgwyr, Diogelwch Cymunedol, Cwricwlwm, Cymunedau a Dysgu Digidol er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth ar lefel uchel yn yr Heddlu.

Digartrefedd a Thai

Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gweithio'n agos â thimau digartrefedd i sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth cofleidiol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r grŵp hwn o unigolion y mae ganddynt anghenion cymhleth yn aml. Rydym yn darparu £1m o gyllid i gefnogi gwaith ar anghenion cymhleth (wedi'i gefnogi drwy AHW MH) ochr yn ochr â gwasanaethau tai (gan gynnwys Tai yn Gyntaf) a gwasanaethau iechyd meddwl i ddarparu gwasanaethau integredig i ddiwallu'r anghenion cymhleth hyn. Drwy gydol yr ymateb i'r argyfwng mae ein gwasanaethau wedi cydweithio'n agos i sicrhau cymorth cofleidiol i'r rhai sy'n cael eu cartrefu o ganlyniad i'r uchelgais i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar y stryd. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, cynigiodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd llawn i addasu gwasanaethau a diwallu'r galw hwn. Yn ogystal â hynny, cytunodd Llywodraeth Cymru i dalu costau buprenorffin i'w chwistrellu a oedd yn lleihau pwysau ar wasanaethau a fferyllfeydd cymunedol ymhellach gan mai dim ond pigiad misol yr oedd ei angen.

Plant a Theuluoedd

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cryf i gefnogi teuluoedd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac yn benodol yr angen i Fyrddau Cynllunio Ardal weithio gyda phartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd, gan gynnwys y rhai ar gyrion gofal. Gan weithio'n agos ar draws y llywodraeth byddwn yn datblygu Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru a bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni'r rhaglen hon yn llwyddiannus. Gall cydgynhyrchu atebion teuluol er mwyn grymuso teuluoedd ac annog perchnogaeth o ddull 'cydweithio i aros gyda'n gilydd' arwain at fywyd teuluol llwyddiannus. Gall Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd fod yn rhan o ddatrysiad teuluol drwy weithio gydag ystod o weithwyr proffesiynol i gydgynhyrchu cynllun ag iddo ffocws er mwyn adfer bywyd teuluol.

O ystyried ffocws allweddol y Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd ar fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau rydym yn disgwyl gweld Byrddau Cynllunio Ardal yn ymgysylltu'n gryf â hwy i sicrhau bod y gwasanaethau presennol yn cael eu hoptimeiddio a bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael sylw mewn ffordd sy'n integredig â'r gwasanaethau presennol.

Problemau Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl sy'n Cyd-ddigwydd
Mae sicrhau bod ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cydweithio'n agos i ddiwallu anghenion pobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi sefydlu grŵp Craffu Manwl sy'n cynnwys clinigwyr, ymarferwyr ac arbenigwyr yn y meysydd iechyd meddwl, tai a chamddefnyddio sylweddau i ddeall yn well y rhwystrau i gynnydd yn y maes hollbwysig hwn. Mae'r grŵp bellach wedi'i ailsefydlu (ar ôl COVID) a bydd yn parhau i gefnogi atebion i'r mater hwn ac yn defnyddio cyfleoedd yn sgil y gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig i ddod â rhagor o wasanaethau ynghyd.

Y Gronfa Iach ac Egnïol

Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon), Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru yw'r Gronfa Iach ac Egnïol ac mae egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio yn greiddiol i'w dyluniad, ei huniondeb a'r prosesau monitro a gwerthuso.

Nod y Gronfa Iach ac Egnïol yw cynyddu gweithgarwch corfforol y rhai sy'n anweithgar ar hyn o bryd neu sydd â lefelau isel iawn o weithgaredd a gwella lefelau llesiant meddyliol, gyda ffocws penodol ar gryfhau asedau cymunedol. Mae prosiectau sy'n elwa o'r Gronfa £5m yn ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar gyfer un neu fwy o'r grwpiau canlynol: plant a phobl ifanc; pobl ag anabledd neu salwch hirdymor; pobl sy'n anweithgar yn economaidd neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd; a phobl hŷn a'r rhai o oedran ymddeol. Mae'r coronafeirws wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru, ac mae'r grwpiau yr effeithir arnynt yn benodol yn grwpiau sydd â'r un ddemograffeg allweddol â'r rhai a dargedir gan y Gronfa Iach ac Egnïol.

Mae'r prosiectau'n gydweithredol ac yn cael eu darparu gan ystod o bartneriaid. Maent yn darparu amrywiaeth o gynrychiolaeth ddaearyddol ledled Cymru, gan gynnwys yn ardal

Tasglu'r Cymoedd. Nod y prosiectau yw lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a rhwystrau mewn sawl ffordd. Maent yn amrywio o ddulliau garddio sy'n pontio'r cenedlaethau; annog teuluoedd i fod yn egnïol gyda'u babanod newydd-anedig; i gynyddu gweithgareddau corfforol a chymdeithasol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae yna brosiectau eraill sy'n ceisio cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i arwain ffyrdd o fyw egnïol annibynnol a hirdymor, ac un sy'n defnyddio atgofion chwaraeon i helpu pobl â dementia. Dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22 yw £1.37m.

Yn y MEG Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol ar draws sawl amcan llesiant Llywodraeth Cymru o dan ein Strategaeth Genedlaethol "ffyniant i bawb" gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da. Cyflawnir hyn drwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'i ystod o effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cynllun Twf Amgylcheddol yn bwriadu bod yn naratif trosfwaol ar gyfer yr hyn yr ydym yn ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymru wyrddach, gan bennu dull strategol, mwy cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y cynllun yn un hirdymor ac ataliol gan anelu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur. Ei nod yw bod yn integredig ac yn gydweithredol ar draws Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth cyhoeddus ehangach, gan ymgysylltu â'r sectorau preifat a'r trydydd sector. Y bwriad hefyd yw sicrhau manteision ehangach fel defnyddio'r amgylchedd naturiol i hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol a chael gwared ar rwystrau i iechyd e.e. llygredd aer.

Yn y MEG Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Grant Cymorth Tai
Yn 21-22 mae cynnydd o £40m yn y Grant Cymorth Tai i £166.6m. Mae'r grant hwn yn cefnogi gwasanaethau ataliol ac acíwt. Bydd y dyraniad hwn, ynghyd â dyraniad ychwanegol o £4m i'r Grant Atal Digartrefedd o gronfa wrth gefn Covid-19 yn sbarduno trawsnewidiad yn ein cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a mathau eraill o ddigartrefedd, yn llai tebygol o fanteisio ar wasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd hefyd gael effaith negyddol sylweddol ar y plant ar yr aelwydydd hyn gan effeithio ar eu llesiant, eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar helpu'r rhai sydd angen help nawr i gefnogi a chynnal cartref a hefyd datblygu dulliau arloesol o gyflawni wedi'u hanelu at atal pobl rhag dod yn fwy agored i niwed yn y dyfodol. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion tai ac anghenion cymorth cysylltiedig yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy ystod o fecanweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Mae'n cefnogi pobl agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau sydd weithiau'n eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i gael tai cynaliadwy a'u cadw drwy fynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu, helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant a'u helpu i gael swydd neu gyfle hyfforddi, neu i symud gam yn agosach at hynny, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol. Mae'n ceisio lliniaru neu gael gwared ar anfantais i bobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd ag eraill, ac felly gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Tai
Yn dilyn trasiedi Tŵr Grenfell, mae adeiladau preswyl uchel iawn yn parhau i wynebu ystod o wendidau systemig tra hysbys o ran diogelwch adeiladau. Nid problemau tai yn unig a wynebir gan breswylwyr adeiladau uchel iawn. Mae pryderon iechyd meddwl sylweddol ynghylch y rhai sy'n byw yn y mathau hyn o eiddo. Yn 2021-22 rydym wedi dyrannu cyfalaf o £32m drwy gynnig cyfunol o gyllid grant a benthyciad. Bydd y cyllid cyfalaf yn cefnogi adeiladau 18 metr a throsodd (fel yr amlinellir yn y Map) gyda diffygion a nodwyd mewn perthynas â diogelwch adeiladau a bydd yn helpu i gyflymu'r gwaith i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â diogelwch tân a phroblemau strwythurol a nodwyd.

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol
Mae £1.575m ychwanegol o gyllid refeniw a £1.2m o gyllid cyfalaf parhaus wedi'i ddyrannu i gefnogi'r ddarpariaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bydd yn helpu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant drwy ddarparu:

- hyfforddiant ar drawma mechnïol
- cyllid ychwanegol i gynyddu gwasanaethau cwnsela ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan leihau rhestrau aros
- cynyddu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff
- llety ychwanegol y telir amdano i'r rhai sy'n ffoi rhag Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- cynnydd yn narpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar gyfer Trais yn y Cartref a Chynghorydd Annibynnol ar gyfer Trais Rhywiol
- cefnogaeth ariannol i ddarpariaeth rheng flaen Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gallu ateb y galw cynyddol
- mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel y gallant gael cymorth pan fydd ei angen arnynt.

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Cronfa Gynghori Sengl Newydd: Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid grant ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.

- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i gefnogi darparu gwasanaethau cynghori. Mae ein cyllid grant yn sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn cael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatrys problemau gyda'u tai, dyledion, budd-daliadau lles, cyflogaeth neu wahaniaethu. Problemau a all gael effeithiau negyddol ar lesiant meddyliol unigolyn os na chânt eu datrys.

- Bydd y cyllid o £10m i'r Gwasanaethau Cynghori yn 2021/22 yn sicrhau bod darpariaeth gydlynol o wasanaethau cynghori sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd ar gael yn hawdd i'r rhai sydd eu hangen fwyaf yn ein cymunedau, gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

- Drwy'r Gronfa Gynghori Sengl mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i fodel cyflawni cydweithredol arloesol ar gyfer Partneriaid Cyngor a Mynediad. Ystod o sefydliadau trydydd sector yw partneriaid mynediad, gan gynnwys y rhai sydd â chysylltiadau

sefydledig mewn perthynas ag iechyd meddwl, nad ydynt yn darparu cyngor, ond sy'n helpu ac yn cefnogi pobl i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses gynghori. Maent hefyd yn cynnig cymorth cofleidiol i bobl a fydd yn meithrin eu gallu a'u hyder er mwyn atal problemau llesiant cymdeithasol yn y dyfodol.

- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Medi 2020 cafodd dros 82,000 o bobl gymorth drwy wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl, i ddelio â thros 190,000 o broblemau'n ymwneud thai, dyledion, cyflogaeth a budd-daliadau lles. Helpodd y cyngor bobl yng Nghymru i hawlio dros £20 miliwn o incwm budd-dal lles ychwanegol. Mae 83% o'r bobl a gynorthwyir yn bobl yn ein grwpiau blaenoriaeth allweddol, sy'n cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol - Cymuned a'r Trydydd Sector
Mae gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol wedi chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i'r argyfwng hwn, o gefnogi'r rhai sy'n profi iechyd meddwl gwael, unigrwydd neu gamdriniaeth i gasglu presgripsiynau a chadw llygad ar gymdogion. Mae'r pandemig hefyd wedi dangos bod gwirfoddoli anffurfiol ar lawr gwlad yr un mor bwysig â gwirfoddoli ffurfiol.

Bydd y sector gwirfoddol yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol os ydym am weld adferiad teg a chyfiawn o bandemig y coronafeirws a thu hwnt, a dim ond gyda sector gwirfoddol cryf y gellir cyflawni hyn. Ers lansio'r Gronfa Adfer Gwasanaethau Gwirfoddol ym mis Awst 2020, hyd yma mae dros 30 o sefydliadau wedi gwneud cais am arian i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael o ganlyniad i Covid-19.

Bydd y cyllid Refeniw ychwanegol o £3.669m yn sicrhau y gall y Trydydd Sector barhau i ymateb i argyfwng Covid-19; defnyddir y cyllid ychwanegol i:

- Wella'r seilwaith ymhellach, gan sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys elusennau iechyd meddwl, ar lefel leol yn gallu cael gafael ar gyngor ac arweiniad. Galluogi cefnogi gwirfoddoli anffurfiol yn lleol mewn modd effeithlon ac effeithiol (£0.669m).
- Darparu cymorth yn uniongyrchol i sefydliadau'r trydydd sector fel rhan o Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru (£3m).

Gellir gweld manylion mentrau a phecynnau cymorth i blant a phobl ifanc, o'r MEG Addysg, yn y papurau tystiolaeth ar gyfer y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

- Manylion sut rydych chi'n ymgysylltu â Byrddau Iechyd i sicrhau bod y dyraniad yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl yn ddigonol i fodloni'r galw am wasanaethau, gan gynnwys asesiad o ba mor effeithiol y mae'r Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi bod wrth alluogi Byrddau Iechyd i ymateb i anghenion iechyd meddwl y boblogaeth, megis mewn gofal argyfwng ac ymyrraeth seicolegol. A yw swm y gwariant a gynlluniwyd gan Fyrddau Iechyd ar wasanaethau iechyd meddwl o fewn y GIG wedi cynyddu neu ostwng o ganlyniad i'r pandemig.

O fis Mawrth 2020, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrddau iechyd wrth ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol yn sgil y pandemig ym maes iechyd meddwl ac felly rhyddhawyd y chwe mis cyntaf o gyllid (£3.5m) o Gronfa Wella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl (cyfanswm o £7m). Dyrannwyd

hwn i bob bwrdd iechyd i sicrhau'r parhad a'r hyblygrwydd yr oedd eu hangen ar y pryd. Gofynnwyd i fyrddau iechyd ddarparu, yn ôl-weithredol, drosolwg lefel uchel ar sut y defnyddiwyd yr arian i ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ym maes iechyd meddwl yn sgil y pandemig. Cadarnhaodd y wybodaeth a ddaeth i law fod y cyllid hwn wedi'i ddefnyddio mewn sawl ffordd gan gynnwys: darparu staff ychwanegol drwy asiantaethau a thrwy adleoli, cefnogi gofal ychwanegol oherwydd bod gwasanaethau gofal dydd wedi cau, comisiynu capasiti ychwanegol o ran gofal cleifion mewnol ac ad-drefnu modelau gwasanaeth er mwyn eu darparu'n ddigidol.

Dyrannwyd yr ail ddyraniad o £3.5m i nifer o feysydd blaenoriaeth. Roedd elfennau o gynigion wedi'u targedu at bobl ifanc wedi'u cynnwys yn y mwyafrif o gategorïau blaenoriaeth. Manylir ar y rhaniad ar draws y meysydd blaenoriaeth ar gyfer 20/21 yn y tabl isod. Mae pob bwrdd iechyd wedi cael ei ddyraniad llawn yn erbyn y £7m. Ychwanegwyd y cyllid hwn at brif ddyraniad y GIG ar gyfer 21-22.

Maes blaenoriaeth	**Swm a ddyrannwyd 20/21**
CAMHS	£330,495
Anhwylderau Bwyta	£501,385
Amenedigol	£222,488
Therapïau Seicoleg - darpariaeth pob oedran	£446,446
Argyfwng / Allan o Oriau - darpariaeth pob oedran	£991,217
Seicosis Ymyrraeth Gynnar	£92,166
Arall (h.y. fferylliaeth, iechyd carchardai, gwasanaethau adfer)	£300,011
Ymateb i Covid	£367,848
Blaenoriaethau Covid / Cynllun Cyflenwi Amhenodol	£247,944
Cyfanswm	**£3,500,000**

Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â byrddau iechyd mewn perthynas â chyllid iechyd meddwl ac mae'r ymateb i'r gyllideb ddrafft yn seiliedig ar:

- Arolygon o'r boblogaeth ar lefel y DU, lefel Genedlaethol a lefel y GIG sy'n dangos gorbryder cynyddol ymysg ein poblogaeth.
- Gwaith modelu ar y galw a'r capasiti gan fyrddau iechyd sy'n awgrymu cynnydd yn yr anghenion ar draws yr holl wasanaethau iechyd meddwl oherwydd y pandemig.
- Tystiolaeth ehangach o'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ar iechyd meddwl, er enghraifft drwy golli swyddi, dyled a materion yn ymwneud â thai.

6. Asesiad effaith

- Eich barn ar yr effaith y bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn ei chael ar wella iechyd meddwl a lles pobl ar draws pob maes o'ch portffolio, yn enwedig yng nghyd-destun y coronafeirws.

Iechyd Meddwl

Credwn y bydd y gyllideb ddrafft yn cael effaith gadarnhaol gan ei bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Pan gyhoeddwyd hwn ym mis Ionawr 2020 fe wnaethom hefyd gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr ag ef i esbonio'r effeithiau hyn yn llawnach.

Fel y dywedwyd eisoes, rydym wedi ailgyhoeddi'r cynllun hwn i ystyried effaith pandemig y coronafeirws ac o'r herwydd rydym wedi diweddaru'r Asesiad Effaith. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

7. Iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc

Rydym yn deall y byddwch yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gan edrych yn benodol ar y Gyllideb Ddrafft/gwariant ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles (e.e. cyllid i ysgolion wella gwasanaethau cwnsela ac ati).

Er na fyddwn yn dyblygu'r gwaith hwn, byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor hwn weld eich llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn nodi sut rydych chi'n bwriadu blaenoriaethu iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn y Gyllideb Ddrafft.

Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn neilltuo cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Dull Systemau Cyfan o weithredu ar iechyd meddwl i barhau i ymateb i'r galw cynyddol am y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i symud i ddarpariaeth ataliol, integredig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

Cynigir cymorth i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl ar lefel gymunedol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, ond mewn rhai achosion, efallai y bydd angen triniaeth cleifion mewnol er mwyn darparu ymyrraeth CAMHS arbenigol i'r plant sydd fwyaf agored i niwed. Bydd y cyllid ychwanegol (£5.4m) yn cael ei gyfeirio tuag at welliannau i wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc gyda phwyslais ar gefnogi'r rhai sydd mewn argyfwng ac sydd angen cymorth fel cleifion mewnol.

O ran y Dull Systemau Cyfan, byddwn yn ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu'r ddarpariaeth o fewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot (cynnydd o £4m). Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gweithredu ein fframwaith dull systemau cyfan, drwy gyllido arweinwyr gweithredu i weithio'n lleol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu dulliau system gyfan lleol o ymdrin â llesiant dysgwyr; ac adeiladu ar weithgaredd cynharach drwy ddatblygu rhagor o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu; cyfleoedd dysgu proffesiynol; a chefnogi llesiant staff mewn ysgolion.

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwario ar gyfer chwaraeon yn fy mhortffolio. Mae'r cynlluniau'n cael eu gosod yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae'r sector wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig eleni, ond yn wyneb adfyd, mae wedi cydweithio ac wedi gweithio'n gydlynus i helpu pobl i gynnal eu lefelau llesiant pan roedd yr amgylchiadau'n caniatáu hynny. Dros y deng mis diwethaf, rydym wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i lesiant meddyliol a chorfforol pobl a'r angen i gadw pobl yn ddiogel a diogelu'r GIG. Rydym hefyd wedi canolbwyntio llawer o'n sylw a'n buddsoddiad ar ddiogelu'r sector, a'i helpu i baratoi ar gyfer dychwelyd at chwaraeon ac ymarfer corff wrth i'r rheolau cenedlaethol gael eu llacio. I lawer o bobl ledled Cymru, mae chwaraeon ac ymarfer corff wedi bod yn ddihangfa o heriau eu bywyd bob dydd yn ystod y pandemig. I lawer o bobl eraill, nid ydynt wedi gallu dod o hyd i'r amser na'r cyfle i fod yn gorfforol egnïol, ac wrth inni ddod dros yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi'r sector i gefnogi pobl i gynnal neu i wella eu llesiant corfforol a meddyliol.

Er bod camau'n cael eu cymryd gyda brechlynnau a'n bod yn mentro gobeithio y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd i'r sector ymhen amser, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd a bydd angen i'n cynlluniau fod yn hyblyg a gallu esblygu mewn amgylchiadau sy'n datblygu'n gyflym. Er bod yr adferiad yn allweddol, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru fel newid hinsawdd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, gwella sgiliau a chreu swyddi.

Mae chwaraeon yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae'n dod â'n cymunedau at ei gilydd ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i bobl wella eu dysgu a dod o hyd i swydd neu yrfa. Drwy'r miloedd o weithgareddau ledled Cymru, mae chwaraeon hefyd yn cefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd fel iaith fyw a modern.

Rhaid i'r sector chwaraeon oroesi'r argyfwng hwn a rhaid inni gynllunio er mwyn i'n cymunedau, ein clybiau a'n cyfleusterau allu dychwelyd yn gadarnhaol ac edrych tua'r dyfodol gyda gobaith. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau ein bod yn gallu diogelu'r sector a'i baratoi ar gyfer unrhyw oblygiadau heriol a ddaw drwy ymadael â'r UE ond gan ei gefnogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r heriau cadarnhaol ar yr un pryd. Mae'n bwysig nad yw'r sector yn agored i niwed a'i fod wedi'i arfogi i symud ymlaen ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Rwyf yn hyderus y gall chwaraeon gefnogi'r genedl i gael ei chefn ati'n gadarnhaol ar ôl y cyfnod heriol rydym wedi bod drwyddo. Mae'n hanfodol i wella ein synnwyr o hunaniaeth, eu llesiant corfforol a meddyliol, ac i sicrhau adferiad economaidd sector sy'n ychwanegu gwerth at ein hiechyd a'n hapusrwydd ac sy'n rhoi ystyr i'n bywydau i gyd.

Bydd y cynlluniau gwario ar gyfer chwaraeon yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i fuddsoddi, drwy ei phartner cyflenwi, Chwaraeon Cymru, yn y bobl ac yn y lleoedd i ddarparu cyfleoedd cynhwysol a chyfartal i bobl arwain bywydau iach ac egnïol, ac i wireddu eu potensial mewn chwaraeon.

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, gan weithio gyda Chwaraeon Cymru, yn parhau i gefnogi ac i hyrwyddo'r cyfraniad pwysig mae chwaraeon a hamdden yn ei wneud i Gymru. Bydd ein camau gweithredu a'n buddsoddiadau'n meithrin diwylliant ac amgylchedd lle mae chwaraeon yn cyfrannu'n helaeth at greu poblogaeth iach ac egnïol ac yn un sy'n canfod ac yn meithrin doniau chwaraeon, lle bynnag y bônt yng Nghymru, i'w potensial llawn.

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach, y cydweithrediad sy'n arwain y gwaith o gyflenwi'r Gronfa Iach ac Egnïol, a Chynllun Nofio am Ddim y Lluoedd Arfog ledled Cymru.

2.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chyfalaf. Nid yw cyllidebau'r dyfodol wedi'u cadarnhau eto felly ni ellir darparu dyraniadau dangosol ar gyfer 2022-23. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol yn cael ei hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

2.1 Adnoddau

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb adnoddau rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 1** fel a ganlyn:

TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau					
Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 £'000**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Newid £'000**	**2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000**
Chwaraeon Cymru	22,567	35,067	22,567	(150)	22,417
Cymorth i Chwaraeon	0	0	157	(157)	0
CYFANSWM YR ADNODDAU	**22,567**	**35,067**	**22,724**	**(307)**	**22,417**
AME Darpariaeth Pensiwn Chwaraeon Cymru	0	0	0	2,000	2,000
CYFANSWM AME	**0**	**0**	**0**	**2,000**	**2,000**

Yn 2021-22, mae cymorth grant Chwaraeon Cymru wedi cael ei gynnal ac mae'n adlewyrchu'r ad-daliad o £150k ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed. Yn 2019-20, darparwyd £450k ar gyfer y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd i'w ad-dalu dros dair blynedd gan ddechrau yn 2020-21. Nodir y bydd yr ad-daliad cyntaf yn cael ei ddangos yn y Drydedd Gyllideb Atodol. Mae'r dyraniad hefyd yn cynnwys darpariaeth heb fod yn arian o £779k ar gyfer dibrisiant.

Yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, cafodd y gyllideb Cymorth i Chwaraeon sef £157k ei chyfuno yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol i gysoni'r cyllidebau sy'n cyflawni ar draws y portffolio, gan gynnal BELs ar wahân ar gyfer y cyrff a noddir a sefydliadau partner. Yn 2020-21, mae'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol yn £2.817m ac mae ar gael i ymateb i'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer y sector. Mae cynllun 2021-22 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau presennol fel Cynllun Nofio am Ddim y Lluoedd Arfog, sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, a'r Gemau Trefol, a oedd i fod i gael eu cynnal yn 2020 gan yr Urdd ond bu'n rhaid eu gohirio oherwydd Covid-19.

Yn Ail Gyllideb Atodol 2020-21 mae dyraniad ar gyfer https://llyw.cymru/pecyn-cyllid-gwerth-14-miliwn-ar-gyfer-sector-chwaraeon-a-hamdden-cymru i gefnogi'r sector gyda heriau parhaus pandemig y coronafeirws ac i helpu i ddarparu cynaliadwyedd tymor hirach. O'r swm hwn, dyrannwyd £12.5m yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru a chafodd ei gynnwys yn y £35m i ddarparu cyllid hanfodol i glybiau ac i sefydliadau chwaraeon. Mae'r £1.5m sy'n weddill yn cael ei reoli yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon. Mae'r cyllid hwn yn ategu'r Gronfa Cymorth Brys a'r Gronfa Cymru Egnïol. Mae'r sector hefyd wedi cael ei gefnogi drwy gronfeydd brys Llywodraeth Cymru ar gyfer ardrethi busnes a Chronfa Galedi Awdurdodau Lleol, a oedd yn darparu cyllid i wneud iawn am golli incwm mewn cyfleusterau hamdden.

Nid yw lefelau incwm masnachol y canolfannau chwaraeon cenedlaethol yn debygol o godi i'r lefelau cyn y pandemig. Yn y Gyllideb ddrafft, mae rhai buddsoddiadau portffolio wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Bydd penderfyniadau ariannol pellach ar gyfer y sector chwaraeon yn cael eu hasesu wrth inni ddeall rhagor am effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn 2020-21, mae darpariaeth ychwanegol ar gyfer Chwaraeon Cymru i leddfu effeithiau Covid.

Yn 2021-22 bydd Chwaraeon Cymru, fel corff a noddir, yn cael ei alinio'n llawn â chyfrifon Llywodraeth Cymru ar sail adnoddau. Bydd y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol sef £2m yn darparu ar gyfer unrhyw amrywiadau yn y ddarpariaeth pensiwn.

2.2 Cyfalaf

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb cyfalaf rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 2** fel a ganlyn:

TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Cyfalaf					
Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 £'000**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Newid £'000**	**2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000**
Chwaraeon Cymru	3,345	3,345	3,345	3,284	6,629
Ad-dalu Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon	(254)	(254)	(227)	-	(227)
CYFANSWM	**3,091**	**3,091**	**3,118**	**3,284**	**6,402**

Mae cyllideb cyfalaf 2021-22 Chwaraeon Cymru, sef £6.629m, yn cynnwys £5m ar gyfer y Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol, lle bydd dyraniad ychwanegol o

£2m yn galluogi rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Mae hyn hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol a helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, gan ddarparu cyfle unigryw i hyrwyddo brand Cymru ar lwyfan rhyngwladol yn y dyfodol.

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati'n frwd i weithredu polisïau a chynlluniau i leihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae £1.3m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2021-22 yn darparu buddsoddiad i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol i'r busnes, yn enwedig y system wresogi ac offer y pwll yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru ym Mhlas Menai. Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon, bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ynni hirdymor ac yn lleihau'r ôl troed carbon yn sylweddol. Mae'r ganolfan yn darparu gweithgareddau awyr agored preswyl i ysgolion yng ngogledd Cymru a thros y ffin yn Lloegr, ac mae'n cyfrannu'n economaidd at yr ardal leol drwy ddarparu swyddi amser llawn a swyddi tymhorol.

Mae'r newid yn y gyllideb o £3.284m yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o £3.3m sydd wedi'u gwrthbwyso gan ad-daliad o £0.016m ar gyfer y cwch hwylio ym Mhlas Menai, a brynwyd gyda chymorth cyllid Buddsoddi i Arbed.

Mae cyllideb 2021-22 hefyd yn gyfrifol am ostyngiad o £27k yn y flwyddyn ar gyfer ad-dalu'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon. Mae'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon yn cael ei gyllido gyda chyfalaf trafodion ariannol sy'n ad-daladwy i'r Trysorlys. Mae cyfanswm y benthyciadau sef £1,828,362 mewn perthynas â thri benthyciad a wnaed i awdurdodau lleol o dan y cynllun i'w ad-dalu'n llawn dros gyfnod o saith mlynedd (roedd yr ad-daliadau wedi dechrau yn 2018-19). Mae £910,236 yn dal heb ei dalu.

3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

Pa effaith mae Covid-19 wedi'i chael ar ddarparu a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r blaenoriaethau a'r dyraniadau i fynd i'r afael ag unrhyw effaith.

Roedd anghydraddoldebau o ran gweithgarwch chwaraeon yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol wedi cael eu dangos yn glir gan astudiaeth ComRes a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ym mis Mai. Yn ystod y cyfyngiadau symud caeth, roedd pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llawer mwy tebygol o fod wedi dweud bod eu lefelau gweithgarwch corfforol wedi disgyn. Yn fwyaf pryderus, roedd y bobl a ddywedodd nad oedd eu plant yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol nac ymarfer corff ar ddiwrnod arferol yn 9% ond roedd hyn yn codi i 14% ar gyfer plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Felly, mae hi'n bwysicach nag erioed sicrhau bod plant yn derbyn lefel uchel o chwaraeon a

gweithgareddau o ansawdd uchel, yn enwedig mewn ysgolion, gan fod achosion yn y dyfodol yn llai tebygol o effeithio ar boblogaeth iachach sy'n egnïol.

Mae cyfle i ddychmygu o'r newydd yr hyn a allai fod yn genedl chwaraeon yn y dyfodol. Mae natur rymus chwaraeon, a Chwaraeon Cymru fel prif sefydliad, mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r dull newydd hwn o weithredu. Gyda'r gallu i ymgysylltu â phob cymuned yng Nghymru, ar draws pob portffolio, gall chwaraeon ddod i'r amlwg fel sbardun ar gyfer gwlad sy'n fwy cadarn, iach a ffyniannus. Yn fwy na hynny, gall chwaraeon wneud hyn ar yr un pryd â chanolbwyntio'n ddi-baid ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau fel arf polisi sy'n hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Bydd buddsoddi mewn chwaraeon heddiw yn gyfrwng i fynd i'r afael â'r misoedd coll hyn, ond bydd hefyd yn adeiladu Cymru sy'n fwy cryf a chadarn yn y dyfodol.

Y cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru, a'r cynnydd a wnaed o ran monitro pa mor effeithiol mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio cyllid.

Mae cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru yn 2021-22 yn cael ei ddangos yn Nhablau 1 a 2 uchod.
Rydym yn darparu £22.417m o gyllid refeniw ar gyfer chwaraeon, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a phwysigrwydd atal afiechyd. Mae chwaraeon ac ymarfer corff yn rhan o'r ateb wrth ymateb i fygythiadau uniongyrchol a thymor hirach Covid i'n cymunedau.

Rydym hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i helpu i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon mewn cymunedau ledled Cymru yn fodern ac yn hygyrch drwy ddarparu £6.629m o gyllideb cyfalaf i Chwaraeon Cymru. Mae'r gyllideb cyfalaf yn cynnwys £1.645m ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn nwy ganolfan genedlaethol Chwaraeon Cymru ac i gefnogi ei ymgyrch i wella ei effeithlonrwydd ynni a lleihau ei ôl troed carbon. Mae'r gronfa 'Lle i Chwaraeon' yn helpu clybiau a mudiadau chwaraeon yng Nghymru i wella ac i uwchraddio eu cyfleusterau. Mae'r £5m sydd ar gael yn 2021-22 yn ategu'r £8m rydym eisoes wedi'i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb ac mae effaith lleihau allyriadau carbon ac effeithlonrwydd ynni yn ystyriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi.

Bydd y gwaith i fonitro pa mor effeithiol mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio ei gyllid yn cael ei wneud ar amrywiaeth o lefelau. Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Chwaraeon Cymru ynghylch y blaenoriaethau strategol a nodir yn ei gynllun busnes ac yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol i drafod y cynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau y cytunwyd arnynt. Maen nhw hefyd yn bresennol

yng nghyfarfodydd Bwrdd Chwaraeon Cymru. Rwyf yn cwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau polisi a chynnydd o ran cyflawni'r llythyr cylch gwaith a'r cynllun busnes.

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros y tair blynedd nesaf, a dyraniadau/gwariant wedi'i ragamcanu ar gyfer cyflawni'r rhain.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu cyflwyno yn llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru ac yn cael eu cyfleu ar ffurf camau gweithredu a chanlyniadau yng nghynllun busnes Chwaraeon Cymru. Ar gyfer 2021-22, byddant yn parhau i arwain y sector a chydweithio ag eraill i annog ac i hwyluso rhagor o'r boblogaeth i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac i fuddsoddi ymdrech ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf, lle mae amrywiadau sylweddol mewn cyfranogiad a lle mae diffyg cyfle neu ddyhead i fod yn egnïol. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i gefnogi datblygiad chwaraeon cymunedol ledled Cymru ac yn helpu chwaraeon i feithrin, i ddatblygu ac i gefnogi doniau chwaraeon i sicrhau llwyddiant sy'n ysbrydoli pobl ac yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl chwaraeon. Mae'n debygol y bydd Chwaraeon yn parhau i amsugno effaith y coronafeirws yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Bydd rhoi sefydlogrwydd, sicrwydd a hyder i'r sector yn flaenoriaeth allweddol i Chwaraeon Cymru a thrwy ei strategaeth a'i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n buddsoddi oddeutu £16m y flwyddyn mewn chwaraeon cymunedol; drwy bartneriaid, cynlluniau grant a mentrau i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn egnïol drwy chwaraeon. Bydd y buddsoddiad refeniw yn 2021-22 yn cael ei ategu gan £5m o fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau a fydd yn ysbrydoli ac yn galluogi hynny i ddigwydd.

Pa dystiolaeth sydd wedi llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae'r dystiolaeth wedi dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion, a'r ymchwil roedd Chwaraeon Cymru wedi'i gomisiynu gan Savanta Com Res ynghylch effaith y coronafeirws ar lefelau gweithgarwch corfforol. Mae'r blaenoriaethau a'r gyllideb arfaethedig hefyd yn seiliedig ar werthusiadau o gynlluniau sydd eisoes ar waith, fel Nofio am Ddim a'r ymrwymiadau yn strategaeth Llywodraeth Cymru i atal ac i leihau cyfraddau gordewdra ar draws Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach.

Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. O Arolwg Cenedlaethol Cymru, rydym yn gwybod yn 2019-20, yn union cyn y Coronafeirws, bod 32% o oedolion (16 oed a hŷn) wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy

(808,000 o bobl). Roedd 7% yn cymryd rhan tua dwywaith yr wythnos (186,000 o bobl), roedd 11% yn cymryd rhan tua unwaith yr wythnos (268,000 o bobl) ac roedd 50% yn cymryd rhan lai nag unwaith yr wythnos (1,245,000 o bobl). Ar ben hynny, nid oedd 41% o oedolion wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch chwaraeon (1,040,000 o bobl) yn ystod y 4 wythnos flaenorol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dweud y byddai 49% o'r holl oedolion yn hoffi gwneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol (1,236,000 o bobl). Y mesur cyfatebol oedd 50% yn 2018-19, 55% yn 2017-18, a 58% yn 2016-17. Mae hyn yn dangos y bu gostyngiad tymor byr yn y galw i wneud mwy o chwaraeon.

Mae Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018 o yn dweud wrthym fod 48% o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers 2015. Mae canrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgwricwlaidd neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos – 47% o ddisgyblion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11. Mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau o hyd o ran lefelau cyfranogiad, gyda 50% o fechgyn a 46% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgwricwlaidd neu gymunedol o leiaf dair gwaith yr wythnos. Mae lefelau cyfranogiad hefyd yn amrywio yn ôl oedran, ethnigrwydd, anabledd a lefel amddifadedd cymharol y disgyblion.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ar effaith y coronafeirws ar gyfranogiad mewn chwaraeon wedi dangos, yn gyffredinol, ei bod yn ymddangos bod lefelau gweithgarwch corfforol oedolion yn debyg i'r rheini cyn i'r cyfyngiadau COVID-19 cyntaf gael eu cyflwyno ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau o ran cyfranogiad ar draws rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, salwch neu gyflwr hirsefydlog, ac oedran. Er bod tystiolaeth i awgrymu y bu pegynu o ran gweithgarwch yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol (gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n gwneud 'dim gweithgarwch corfforol' a'r rheini sy'n gwneud gweithgarwch corfforol 'bob dydd'), mae'r arolwg presennol yn awgrymu bod y duedd hon yn cael ei gwrthdroi gyda rhagor o oedolion yn gwneud 'rhywfaint' o weithgarwch erbyn hyn. Mae'r adborth yn awgrymu bod plant yng Nghymru bellach yn gwneud mwy o chwaraeon/gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol na chyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Yr eithriad i hyn yw oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn/plant bellach yn gwneud llai o weithgarwch ar ddiwrnod arferol yn ystod y penwythnos.

Mae ymchwil ComRes hefyd yn adrodd bod dwy ran o dair o oedolion Cymru yn cytuno ei bod yn bwysig ymarfer corff yn rheolaidd. Bu cynnydd bach yng nghyfran yr oedolion sy'n ymarfer corff i helpu i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol dros y pum mis diwethaf, ond mae llai o bobl yn dweud eu bod wedi gweld colli'r mathau o weithgarwch roeddent yn gallu eu gwneud cyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu

cyflwyno am y tro cyntaf (o 56% yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol i 49% ar hyn o bryd).

Tystiolaeth o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae ein gwaith ni a gwaith Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant ond yn bennaf y rheini sy'n ymwneud â chreu Cymru Iachach, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae manteision ffyrdd iach ac egnïol o fyw i'n hiechyd meddyliol a chorfforol yn amlwg. Drwy gynyddu ein lefelau gweithgarwch a mabwysiadu arferion da eraill, gallwn i gyd leihau ein risg o ganser a chlefyd cardiofasgwlaidd yn ogystal â gwella ein llesiant meddyliol a lleihau'r risg o ddatblygu dementia. Profwyd bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn helpu i atal ac i drin clefydau anhrosglwyddadwy megis clefyd y galon, strôc, diabetes a chanser y fron a chanser y colon. Mae hefyd yn helpu i atal pwysedd gwaed uchel, gorbwysau a gordewdra a gall wella iechyd meddwl, ansawdd bywyd a llesiant.

Gellir a dylid integreiddio gweithgarwch corfforol i'r lleoliadau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae. Mae chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn gallu helpu i hyrwyddo gweithgarwch corfforol i bobl o bob oed a gallu. Mae chwarae a hamdden actif yn bwysig yn gynnar mewn plentyndod yn ogystal ag ar gyfer twf a datblygiad iach plant a phobl ifanc. Mae addysg gorfforol o safon ac amgylcheddau cefnogol mewn ysgolion yn gallu darparu llythrennedd corfforol ac iechyd ar gyfer ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Mae hi hefyd yn bwysig bod oedolion yn gallu bod yn gorfforol egnïol ac yn llai eisteddog yn y gwaith. Boed nhw'n gweithio ai peidio, mae oedolion hŷn yn gallu elwa o weithgarwch corfforol rheolaidd i gynnal iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol a galluogi heneiddio'n iach.

Mae hi'n anodd mabwysiadu a chynnal ymddygiad iach ac mae ein hamgylchedd, ein rhwydweithiau cymdeithasol, arferion cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau masnachol ehangach yn dylanwadu'n gryf ar hyn. Fwyfwy, rydym yn cydnabod gwerth galluogi cymunedau i adeiladu'n gadarnhaol ar asedau presennol i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau yn hytrach na rhagnodi camau gweithredu o'r tu allan. Mae creu cysylltiadau mewn a rhwng cymunedau i arwain at newid yn aml yn gallu cael ei hwyluso gyda lefelau cymharol isel o gyllid, arbenigedd neu'r parodrwydd i rannu asedau ac adnoddau ffisegol a dynol. Ar draws pob lleoliad, mae cyfleoedd i arloesi digidol hyrwyddo a chefnogi pobl o bob oed i fod yn fwy egnïol a defnyddio data i helpu i hyrwyddo, i gefnogi ac i fonitro gweithgarwch corfforol.

Rhaid inni barhau i ganfod ffyrdd o greu'r amodau sy'n cefnogi cymunedau ac unigolion i newid eu ffordd o fyw a chynnal y gwelliannau hynny. Mae chwaraeon yn gallu chwarae rhan bwysig yn y gwaith o greu Cymru iachach, a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, drwy ei rwydwaith o bartneriaid a rhanddeiliaid, ei glybiau chwaraeon cymunedol a'i wirfoddolwyr, gan gynnwys y Llysgenhadon Ifanc sy'n

cynrychioli buddiannau a dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc nawr ac yn y dyfodol. Bydd cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei fuddsoddi yn ein cymunedau, drwy gydweithio â sectorau eraill, ac integreiddio amcanion a chyllidebau, a fydd yn sicrhau enillion cymdeithasol ac economaidd a fydd yn helpu i greu diwylliant a chyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach ac egnïol o fyw a llwyfan cadarnhaol i bobl ifanc fod yn gadarnhaol ac yn hyderus am y dyfodol.

Bydd y buddsoddiad cyfalaf yn y Canolfannau Cenedlaethol a'r Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol yn datblygu cyfleusterau chwaraeon ymhellach ledled Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r weledigaeth o genedl egnïol ac yn cefnogi anghenion ein cymunedau lleol, gan greu sector chwaraeon sy'n fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canlyniadau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei strategaeth a'i gynllun busnes.
Wrth ddatblygu'r strategaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, bu Chwaraeon Cymru'n ymwneud ag ystod eang o randdeiliaid traddodiadol a heb fod yn draddodiadol ac yn cydweithio â nhw. Mae Chwaraeon Cymru yn dal i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru a thrwy'r Gronfa Iach ac Egnïol. Mae cydweithio ar draws cymunedau'n cael ei hybu a'i gefnogi i sicrhau manteision cynaliadwy hirdymor. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio. Roedd y gwerthusiad annibynnol o'r broses ac adroddiad gan Archwilio Cymru wedi darparu tystiolaeth o hyn.

Tystiolaeth o sut mae blaenoriaethau a dyraniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cyfrannu at amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad.

Mae strategaeth Chwaraeon Cymru yn canolbwyntio ar yr unigolyn o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r dull cyllido wedi cael ei ailwampio'n llwyr er mwyn mynd ati'n benodol i sbarduno camau gweithredu yn y sector er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagweithiol. Mae gwrando ar brofiadau byw lleiafrifoedd sy'n cael eu tangynrychioli yn nodwedd allweddol o waith Chwaraeon Cymru yn y dyfodol. Cafodd Chwaraeon Cymru dros 1200 o geisiadau gan glybiau am gyllid yn ystod y pandemig ac roedd 70% ohonynt wedi datgan sut bydd eu cais yn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r ganran honno'n codi i 79% yn y ceisiadau a gafwyd ar gyfer ffrwd 'Cynnydd' y Gronfa Cymru Actif.

Un o'r prif newidiadau mae Chwaraeon Cymru wedi'i roi ar waith yn ddiweddar yw strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig, sydd nawr yn canolbwyntio ar dri maes allweddol - buddsoddi ar sail gallu, atebolrwydd a data. Mae'r dull hwn wedi newid y ffordd

mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi arian cyhoeddus ac arian loteri yn ei rwydwaith partneriaid, ar gyfer cyrff llywodraethu cenedlaethol campau a phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol eraill. Mae'r dull diwygiedig o fuddsoddi ar sail meini prawf yn mynd ati'n benodol i dargedu cyrhaeddiad ac effaith partneriaid ar amcanion cydraddoldeb gwahanol. Er y caiff pob camp ei chyllido ar sail y cyfraddau cyfranogiad a'r galw am y gamp, bydd cydnabyddiaeth benodol o allu partner i ddylanwadu ar ddemograffeg wahanol. Bydd campau sy'n gallu dangos cyrhaeddiad ac effaith ar draws y rhywiau, hil ac anabledd yn derbyn mwy o fuddsoddiad fel ffordd o sbarduno camau i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae amddifadedd hefyd yn faen prawf allweddol ar gyfer sut caiff cyllid ei ddyrannu ar draws partneriaid daearyddol, er mwyn darparu arian mewn ffordd gymesur i'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.

Drwy gydol y pandemig, mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyfeirio at brosiectau sy'n ceisio sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn egnïol drwy chwaraeon. Drwy gynlluniau'r Gronfa Cymru Egnïol a'r Gronfa Cadernid Chwaraeon a Hamdden, mae Chwaraeon Cymru wedi blaenoriaethu ceisiadau am fuddsoddiad i sicrhau bod chwaraeon ar gael i bawb.

Sut bydd y gyllideb yn cefnogi:

- **cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru;**
- **yr agenda ataliol ehangach; a**
- **chydweithio rhwng chwaraeon, iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill.**

Mae ailgyfeirio cyllid yn 2020-21 wedi helpu'r sector chwaraeon i oroesi drwy'r pandemig a'i baratoi i hwyluso cyfleoedd chwaraeon ac effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol y genedl. Bydd blaenoriaethu pobl ifanc yn sicrhau'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad ac mae'r cydweithio â'r sector addysg yn hanfodol a bydd y lefel uchaf o gyllid gan fuddsoddiad Chwaraeon Cymru mewn partneriaid cenedlaethol yn cael ei neilltuo ar gyfer chwaraeon sy'n gallu dangos yr effaith fwyaf ar lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â'r newid hwn mewn buddsoddiad partneriaid, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn buddsoddi mewn nifer o sefydliadau sy'n cefnogi cyfranogiad pobl ifanc yn unig mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda'r Urdd, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru a GemauStryd, y mae eu rhwydweithiau'n cefnogi dulliau gwahanol a phwrpasol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector addysg i ddwyn effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar lesiant corfforol a meddyliol pobl ifanc. Bydd rhaglen Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru, a gyflwynir mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Chwaraeon yr Ifanc, yn dal yn ganolbwynt i fuddsoddiad y sefydliad

mewn arweinyddiaeth chwaraeon yn amgylchedd yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae bron i 6,000 o Lysgenhadon Ifanc mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru ac mae 19,000 o Lysgenhadon Ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen dros gyfnod o 10 mlynedd. Mewn arolwg o Lysgenhadon Ifanc Cymru, dywedodd 96% ohonynt fod y rhaglen wedi rhoi mwy o hyder iddynt, ac roedd 98% yn teimlo ei bod wedi gwella eu sgiliau arwain.

Bydd Chwaraeon Cymru yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Llysgenhadon Ifanc i greu gweithlu ar gyfer y dyfodol drwy ymgysylltu cymdeithasol a gwirfoddoli. Mae'r rhaglen yn cefnogi'r sector ac yn gwella profiad pobl ifanc o addysg ac mae'n effeithio'n gadarnhaol ar eu cyflogadwyedd. Mae data diweddar yn dangos y bydd 30% o oedolion a 44% o bobl ifanc 16-34 oed yn ceisio gwirfoddoli mewn chwaraeon yn ystod y 12 mis nesaf, mae hwn yn weithlu sy'n barod am dwf.

Bydd buddsoddiad yn y dyfodol hefyd yn parhau i gefnogi adnoddau llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion a chymunedau. Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu adnoddau i gefnogi athrawon a staff ysgolion yn y cyfnod cynradd ac ar gyfer chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion cynradd. Bydd buddsoddiad yn 2020-21 yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gasglu data am gyfranogiad mewn chwaraeon drwy'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Mae'r data'n allweddol i ddeall profiad plant o addysg gorfforol a chwaraeon ac yn helpu i siapio'r cynnig sydd ar gael iddynt yn yr ysgol ac yn y gymuned leol.

Mae'n bosibl i chwaraeon fod yn un o'r arfau ataliol gorau yng nghyswllt iechyd yn y wlad, ond mae angen mwy o flaenoriaethu ar draws sectorau i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a Chynllun Cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft lwyddiannus yn y maes hwn.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau i gyflawni cynllun cyflenwi *'Pwysau Iach: Cymru Iach'*. Mae nifer o feysydd ffocws yn y gwaith hwn, gan gynnwys parhau i fuddsoddi i gefnogi'r fenter Nofio am Ddim a chynllun Hamdden Egnïol dros 60 oed newydd a fydd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2021.

Yn 2020-21, bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn parhau i gefnogi a buddsoddi yn y Gronfa Iach ac Egnïol. Bydd y gronfa ar ei thrydedd flwyddyn yn 2021-22 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo ac yn galluogi gweithgarwch iach i grwpiau o boblogaeth sydd â lefelau isel o weithgarwch corfforol yn eu bywydau os o gwbl. Yn yr un modd â nifer o raglenni a phrosiectau tebyg eraill, mae effaith y coronafeirws wedi golygu y bu'n rhaid i'r prosiectau atal neu gwtogi eu gweithgareddau yn 2020-21. Gobeithio byddant yn ailgydio'n llawn ynddynt pan fydd y coronafeirws yn llacio ei afael a bydd y rheolau cenedlaethol yn cael eu llacio.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio ar draws sectorau gwahanol i ehangu effaith chwaraeon ar iechyd, ar gymdeithas ac ar yr economi ond mae effaith y

coronafeirws wedi amharu ar y momentwm a fu dros y blynyddoedd diwethaf. Y darn mwyaf arwyddocaol o waith fu'r berthynas sy'n datblygu rhwng Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru. Bydd y bartneriaeth yn cael ei hadfywio yn 2021-22 i barhau â'i gwaith cydweithredol ar raglenni, mentrau, ymchwil ac asesiadau effaith i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ategu gan Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS), consortiwm o wyth prifysgol yng Nghymru a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru i ddarparu adnodd ymchwil cydweithredol newydd i gefnogi ymyriadau gweithgarwch corfforol a gwerthusiadau cynnydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn 2020-21, bydd buddsoddiad strategol mwyaf Chwaraeon Cymru yn y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol, a fydd yn trawsnewid y ffordd caiff cyfleoedd chwaraeon a hamdden lleol eu rheoli a'u darparu. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn sefydlu pum partneriaeth chwaraeon ranbarthol ledled Cymru erbyn 2022-23 a fydd yn cynrychioli buddiannau ystod eang o sefydliadau fel:

- Awdurdodau Lleol
- Prifysgolion a/neu Sefydliadau Addysg Bellach
- Byrddau Iechyd
- Cymdeithasau Tai
- Gweithredwyr Cyfleuster Hamdden
- Clybiau chwaraeon a sefydliadau chwaraeon eraill
- Partneriaid trydydd sector
- Cymdeithasau Cymunedol

Bydd y buddsoddiad yn y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn sbarduno cydweithrediad ar draws ardaloedd daearyddol er mwyn darparu adnoddau a newid ar raddfa fawr. Chwaraeon Gogledd Cymru fydd y bartneriaeth gyntaf i ddechrau arni yn 2020-21, wedi'i dilyn gan y pedair arall cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn datganoli'r cyfrifoldeb dros fuddsoddiad mewn chwaraeon ar sail amgylchiadau lleol ac anghenion cymunedau.

Cyllideb Ddrafft 2020-21 - Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o gyfraddau cyfranogiad yn y fenter nofio am ddim ddiwygiedig cyn pen 12 mis ar ôl ei chyflwyno.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o'r canlynol:

- **pa weithgareddau ychwanegol sydd wedi cael eu darparu gyda'r £1.5 miliwn a ddyrannwyd yn flaenorol i'r fenter nofio am ddim;**
- **beth oedd y cyfraddau cyfranogiad. Dylid gwneud hyn cyn pen 12 mis.**

Mae hi'n bwysig atgoffa'r Pwyllgor bod y newid yn yr agwedd o ran y fenter Nofio am Ddim wedi cael ei ddylunio i beidio â chynyddu cyfranogiad ar draws y grwpiau oed a oedd wedi'u targedu ond cyflawni effaith gymdeithasol sef cefnogi pobl ifanc ac yn enwedig y rheini sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Yn yr un modd â nifer o fentrau tebyg, mae'r fenter Nofio am Ddim wedi cael ei herio gan y coronafeirws a'r cyfyngiadau angenrheidiol. Mae canolfannau hamdden a phyllau nofio wedi bod ar gau am ran fawr o 2020 neu roedd yn rhaid iddynt weithredu gyda llai o gapasiti er mwyn dilyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol/corfforol. O ganlyniad, nid yw awdurdodau lleol wedi gallu cyflwyno'r fenter yn unol â'r bwriad.

O ganlyniad i effaith y pandemig ar y fenter, mae'r teclyn casglu data am gyfranogiad wedi cael ei ailwerthuso a bydd yn cael ei roi i'r holl bartneriaid awdurdodau lleol erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Byddant yn defnyddio'r teclyn i gasglu data meintiol ac astudiaethau achos wedi'u hôl-ddyddio i fis Hydref 2019. Bydd y data a'r gwerthusiad annibynnol o'r dull gweithredu newydd yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2021 pan fydd effaith lawn a gwirioneddol y cynllun diwygiedig yn hysbys.

Y bwriad oedd buddsoddi'r cyllid a ryddhawyd gan y newidiadau i'r fenter Nofio am Ddim i gefnogi'r camau gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Gronfa Iach ac Egnïol gwerth £5.4m. Fodd bynnag, cafodd holl gyllideb Chwaraeon Cymru ar gyfer 2020-21 ei hailgyfeirio i helpu'r sector i oroesi effaith y coronafeirws. Bydd yr arian hwnnw a'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14m a gyhoeddais ym mis Medi yn sicrhau ein bod yn diogelu'r cyrff a'r sefydliadau sy'n darparu mentrau fel Nofio am Ddim a llawer o gynlluniau a gweithgareddau eraill.

Memorandwm ar yr Economi a Thrafnidiaeth

Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 20 Ionawr 2021

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cynigion yng nghyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

2.0 Cyd-destun Strategol / Effeithiau COVID-19

Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sy'n cyd-fynd â Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yw'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategaeth ar gyfer holl weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae cynllun 2021-22 yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud wrth weithredu a gwreiddio elfennau allweddol o'r cynllun, gan gynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig y gymuned fusnes a phartneriaid cymdeithasol.

Mae'r llwybr tuag at adferiad economaidd Cymru yn sgil pandemig COVID-19 yn adeiladu ar Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Llywiodd raglen datblygu economaidd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau, gan hyrwyddo ffyniant a lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Mae'r genhadaeth yn adeiladu ar y cynnydd cynnar rydym wedi'i wneud yn codi proffil a heriau'r Economi Sylfaenol, gan gydnabod bod mwy i'w wneud i ehangu a phwysoli'r dull gweithredu.

Mae mentrau allweddol eraill, gan gynnwys Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, Cymraeg 2050, y Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd a'n hagenda Gwaith Teg, yn rhedeg drwy'r holl ymyriadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fframwaith ehangach yn parhau i gynnig ffordd Gymreig unigryw o fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein pobl a'n planed. Mae wedi llywio ein dull ailadeiladu, gan sicrhau adferiad seiliedig ar werthoedd. Mae cysylltiad agos rhwng ein cenhadaeth a'n Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol, gan ddysgu gwersi dros 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE a nodi llwybrau i wneud y defnydd gorau o gyllid amnewidiol oddi wrth Lywodraeth y DU yn rhanbarthol.

Ein bwriad yw creu Cymru sy'n gosod gwella llesiant a lles fel ei phrif ddiben, a sicrhau adferiad economaidd ffyniannus, gwyrdd a chyfartal sy'n cydnabod pa mor bwysig ydyw i fuddsoddi mewn pobl a lle.

Mae Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori fis diwethaf, yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy. Ynddi mae pedair uchelgais 20 mlynedd drawsbynciol lefel uchel a all sicrhau buddiannau ehangach i bobl a chymunedau, yr amgylchedd, yr economi a lleoedd, a diwylliant ac iaith. Cyflawnir yr uchelgeisiau hyn drwy set o flaenoriaethau pum mlynedd, lle targedir ffyrdd o leihau'r angen i deithio ac annog newid dulliau teithio.

Mae'n newid ein dull o wneud penderfyniadau a buddsoddi. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i ateb y galw i deithio drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat. Mae'r hierarchaeth fuddsoddi yn canolbwyntio ar fesurau i reoli'r galw, gwneud gwell defnydd o seilwaith presennol (gan gynnwys uno'r gwaith o gynllunio trafnidiaeth a defnydd tir), ac ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy.

Caiff y dull newydd hwn ei gefnogi hefyd gan adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru sy'n argymell rhwydwaith o ddewisiadau amgen i annog pobl i deithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy.

Bydd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn diffinio prif feysydd gwariant trafnidiaeth yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yn adeiladu ar Gynlluniau Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol blaenorol, ond caiff ei lywio gan Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Caiff y ddogfen ei pharatoi gan Trafnidiaeth Cymru.

Yn ogystal â chyllid ychwanegol, rydym hefyd wedi ailwampio'r ffordd y caiff gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eu darparu er mwyn adlewyrchu'r realiti masnachol newydd a sicrhau'r buddiannau a'r canlyniadau gorau posibl yn gyfnewid am y lefel uwch o gyllid a ddarparwyd gennym. Bydd y cytundeb sy'n sail i gyllid drwy'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn sicrhau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus, gan gynnig mwy o reolaeth yn gyfnewid am ein cyllid fel bod modd ailwampio rhwydwaith bysiau Cymru, cefnogi'r gwaith o reoli dulliau teithio a'r rhyngweithio rhyngddynt, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, rhwydwaith cyfeirio sy'n cyflawni amcanion ehangach, ac amserlennu cydgysylltiedig rhwng dulliau teithio.

Gwelwyd effaith ddifrifol ar nifer y bobl sy'n teithio ar drenau ac, ym mis Hydref, cyhoeddwyd y byddai Masnachfraint rheilffyrdd bresennol Rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn pontio drwy gytundeb wedi'i reoli i reolaeth gyhoeddus. O fis Chwefror 2021, is-gwmni newydd o Trafnidiaeth Cymru sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus fydd yn gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd beunyddiol, gan alluogi'r llywodraeth i chwarae rhan hyd yn oed yn fwy yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau.

Mae cysylltedd wedi bod yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i weithio gartref, aros mewn cysylltiad a theimlo'n llai ynysig. Lliniarwyd effaith COVID-19 am fod Llywodraeth y DU wedi dynodi telathrebu yn 'wasanaeth hanfodol', a wnaeth alluogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni band eang i barhau. Ni fu fawr ddim effaith ar gyflawni prosiectau sydd hefyd yn golygu mai effaith fach a welir ar gyllidebau, yn y byrdymor a'r hirdymor. Efallai y bydd oedi cyn dechrau'r Gronfa Band Eang Leol, sy'n dibynnu ar geisiadau llywodraeth leol a chymunedol, yn effeithio ar ofynion cyllido prosiectau yn yr hirdymor.

Ar gyfer yr adferiad, mae rôl Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o safleoedd sy'n barod am fuddsoddiad ac eiddo i gefnogi busnesau sy'n tyfu yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r heriau o ran eiddo sy'n atal cyflawni polisïau'r llywodraeth o dan Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi, a Chymru fwy ffyniannus a thecach. Ar y cyfan, mae'r rhesymeg ganolog dros ymyrryd yn y farchnad yn gryf o hyd, ac mae'n debygol o gael ei hatgyfnerthu gan yr argyfwng presennol, yn enwedig lle y bo ansicrwydd eang. Fodd bynnag, wrth i'r economi ddechrau adfer,

bydd angen i'r sector cyhoeddus chwarae rôl amlycach na'r un a allai fod wedi ei rhagweld. Bydd darparu eiddo masnachol priodol yn rhan bwysig o'r arlwy. Yn y tymor hwy, gallai dod â gwaith gweithgynhyrchu yn ôl i Gymru gael effaith gadarnhaol ar alw. Gallai hyn gynnwys dymuniad ymhlith gweithgynhyrchwyr i sicrhau cadernid y gadwyn gyflenwi, a hynny drwy sicrhau bod capasiti cynhyrchiol yn cael ei ddosbarthu'n ehangach, a allai fod o fudd i Gymru o ystyried ei chryfderau gweithgynhyrchu presennol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar amserlenni cyflenwi a phroffiliau cost cynlluniau trafnidiaeth lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, oherwydd y cyfyngiadau symud cychwynnol a'r newidiadau gofynnol i arferion gwaith. Gwnaeth dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau i'w gwneud hi'n ddiogel i gerdded a beicio mewn ymateb i'r pandemig ddargyfeirio peth capasiti o reidrwydd, gan arwain at ailflaenoriaethu a gohirio cynlluniau a oedd i'w rhoi ar waith yn wreiddiol yn 2020-21, gan arwain at weld mwy o brosiectau yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22.

3.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer adnoddau a chyfalaf. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i wariant adnoddau a chyfalaf arfaethedig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer gweithgareddau Economi a Thrafnidiaeth. Cymherir y gyllideb â chyllidebau 2021-21 yn ôl y gofyn. Dylid nodi bod y llinell sylfaen gyfalaf yn adlewyrchu gofynion y portffolio ar gyfer rhaglenni a phrosiectau sydd ar waith, gyda pheth addasu. Bu angen gwneud yr addasiadau hyn er mwyn adlewyrchu natur untro peth cyllid a ddyrannwyd rhwng nifer o bortffolios er mwyn mynd i'r afael ag effaith pandemig COVID-19.

Darperir y newidiadau ar gyfer 2021-21 gan fod cyllidebau atodol 2021-21 yn amlinellu ymatebion brys i COVID-19. Canolbwyntiodd y Gyllideb Atodol Gyntaf ar ailbennu cyllidebau a fodolai eisoes er mwyn ymateb i'r pandemig yn syth. Cyfrannwyd £50m o'r portffolio ar gyfer rhaglenni amrywiol. Yn yr Ail Gyllideb Atodol cyflwynwyd mesurau pellach ac roedd y dyraniadau yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a busnesau yn bennaf, gan gynnwys £113m ar gyfer bysiau a £95m ar gyfer trenau.

Cyfanswm y gyllideb adnoddau ar gyfer 2021-22 yw £580.468m (ac eithrio Gwariant Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)). Mae'r gyllideb adnoddau gyllidol wedi cynyddu £35.971m o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi cynyddu £36.007m, gan gynnwys £0.036m ychwanegol ar gyfer y gyllideb anghyllidol o £192.436m. Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £97.990m i £127.515m, gan ddarparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo, cyd-fentrau, y rhwydwaith ffyrdd a mathau eraill o seilwaith. Rhoddir trosolwg yn nhabl 1 fel a ganlyn:

TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau				
	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000**	**Newid £'000**	**Newid %**
Adnoddau Cyllidol				
Yr Economi	43,120	56,091	12,971	30%
Trafnidiaeth	327,836	346,436	18,600	6%
Sgiliau	173,541	177,941	4,400	3%
Is-gyfanswm	**544,497**	**580,468**	**35,971**	**7%**
Adnoddau Anghyllidol				
Yr Economi	2,309	2,309	0	0%
Trafnidiaeth	188,691	188,691	0	0%
Sgiliau	1,400	1,436	36	3%
Is-gyfanswm	**192,400**	**192,436**	**36**	**0%**
CYFANSWM	**736,897**	**772,904**	**36,007**	**5%**
AME				
CYFANSWM AME	**29,525**	**127,515**	**97,990**	**332%**

Yn y Gyllideb ddrafft roedd rhai buddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus a chynllun cymunedau am waith. Bydd penderfyniadau ariannol pellach ar gyfer busnesau, neu gymorth sgiliau a thrafnidiaeth, yn cael eu hasesu wrth inni feithrin gwell dealltwriaeth o effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd.

Ar gyfer 2021-22 cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £790.929m, fel y'i crynhoir yn Nhabl 2 isod:

BEL	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000**	**Newid £'000**	**Llinell Sylfaen Newid %**
Cyfalaf Traddodiadol					
Yr Economi	107,514	86,336	95,336	9,000	10%
Trafnidiaeth	597,952	397,650	681,827	284,177	71%
Is-gyfanswm	**705,466**	**483,986**	**777,163**	**293,177**	**61%**
Trafodiadau Ariannol					
Yr Economi	72,960	0	612	612	100%

Trafnidiaeth	12,300	0	13,154	13,154	100%
Is-gyfanswm	**85,260**	**0**	**13,766**	**13,766**	**100%**
Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol a Thrafodiadau Ariannol					
Yr Economi	180,474	86,336	95,948	9,612	11%
Trafnidiaeth	610,252	397,650	694,981	297,331	75%
CYFANSWM	**790,726**	**483,986**	**790,929**	**306,943**	**63%**

3.1 Adnodd

Amlinellir y cynnydd yn y gyllideb adnoddau o £36.007m, gan gynnwys £0.036m ar gyfer adnodd anghyllidol, yn Nhabl 3 isod:

TABL 3: Symudiadau yn y Gyllideb Adnoddau				
Prosiect	**Economi £'000**	**Trafnidiaeth £'000**	**Sgiliau £'000**	**Cyfanswm £'000**
Dyraniadau Ychwanegol				
Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi	3,000			**3,000**
Cynllun Allforio	1,600			**1,600**
Economi Sylfaenol	3,000			**3,000**
Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus	2,796			**2,796**
Cymorth Bysiau		18,600		**18,600**
Cymunedau am Waith a Mwy			6,000	**6,000**
Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol	4,900			**4,900**
Cyfanswm	**15,296**	**18,600**	**6,000**	**39,896**
Symudiadau Eraill				
Cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE	(2,325)		(1,600)	**(3,925)**
Cyfanswm	**(2,325)**	**0**	**(1,600)**	**(3,925)**
Cyfanswm yr Adnoddau Cyllidol	**12,971**	**18,600**	**4,400**	**35,971**
Adnoddau Anghyllidol				
Dibrisiant Cymunedau am Waith			36	**36**
Cyfanswm	**0**	**0**	**36**	**36**
Cyfanswm yr Adnoddau	**12,971**	**18,600**	**4,436**	**36,007**

3.2 Cyfalaf

Y gyllideb gyfalaf yw blwyddyn olaf setliad cyfalaf blaenorol Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at ailddatgan gwariant cyfalaf rheolaidd yn y Prif Grŵp Gwariant a dyraniadau penodol newydd am flwyddyn yn unig. Amlinellir y cynnydd net bach mewn cyllidebau cyfalaf o £0.203m yn Nhabl 4 fel a ganlyn:

TABL 4: CYLLIDEBAU CYFALAF			
Prosiect	**Economi £'000**	**Trafnidiaeth £'000**	**Cyfanswm £'000**
Cyfalaf Traddodiadol			
Rheilffyrdd a Metro		249,680	**249,680**
Cronfa Teithio Llesol		20,000	**20,000**
Ôl-groniad Rhwydwaith Ffyrdd Strategol		15,000	**15,000**
Tasglu'r Cymoedd	9,000		**9,000**
Ad-daliad I2S Goleuadau LED Cefnffyrdd		(503)	**(503)**
Is-gyfanswm	**9,000**	**284,177**	**293,177**
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Gyllidebol	(21,178)	(200,302)	**(221,480)**
Symudiadau Net Cyfalaf Traddodiadol	**(12,178)**	**83,875**	**71,697**
Cyfalaf Trafodiadau Ariannol			
Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig		3,154	**3,154**
Cronfa Ad-daladwy BBaChau	5,000		**5,000**
Trawsnewid Cerbydau Trydan		10,000	**10,000**
Ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	(4,388)		**(4,388)**
Is-gyfanswm	**612**	**13,154**	**13,766**
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Gyllidebol	(72,960)	(12,300)	**(85,260)**
Symudiadau Net Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	**(72,348)**	**854**	**(71,494)**
Symudiadau Net Cyfanswm Cyfalaf	**(84,526)**	**84,729**	**203**

Mae'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) sy'n darparu dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf y portffolio wedi'u rhestru fesul Cam Gweithredu yn adrannau 5, 7 a 9.

4.0 Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg ac Ystyriaethau Demograffig

Wrth lunio ein cynlluniau, mae'r tueddiadau demograffig allweddol canlynol o'r adroddiad mwyaf diweddar, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), ar ragamcanion poblogaeth cenedlaethol (2018) wedi eu hystyried, sy'n awgrymu'r canlynol:

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.7% o 2018 i 3.22 miliwn erbyn 2028, a 3.7% i 3.26 miliwn erbyn 2043. Rhagwelir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn gostwng 4.7% i 536,300 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn cynyddu 0.2% i 1,927,700 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 16.3% i 758,600 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu 29.3% i 378,100 rhwng 2018 a 2028.

Yn ôl yr ystadegau Tlodi Incwm Cymharol diweddaraf ar gyfer y cyfnod 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2019.

- Roedd 23% o'r holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn gymharol sefydlog (rhwng 22 a 24%) dros yr 16 o gyfnodau amser blaenorol. Mae'r ffigur, sef 23%, ychydig yn is na'r llynedd.
- Plant oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19 (28%), ac mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser. Hwn yw'r pedwerydd gwaith yn unig i'r ffigur hwn fod islaw 30% ers y cyfnod hyd at 2005-06.
- Roedd 22% o oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Mae hyn yn is na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 23%. Mae'r ffigur wedi aros rhwng 21 a 23% yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnodau amser ers diwedd y 1990au.
- Roedd 19% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Yn 19%, mae'r ffigur yr un peth â'r hyn a gofnodwyd y llynedd ac mae'n dal yn is na'r ffigurau o ganol y 1990au i ddiwedd y 1990au.
- Roedd byw mewn aelwyd lle nad oedd neb yn gweithio yn cynyddu'r siawns o fyw mewn tlodi incwm cymharol i oedolion o oedran gweithio a phlant.
- Roedd plant a oedd yn byw mewn teuluoedd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rheini a oedd yn byw mewn aelwydydd â chwpl.
- Roedd pobl a oedd yn byw mewn cartrefi lle’r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â’r rheini lle’r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig gwyn.
- Roedd byw mewn aelwyd gyda pherson ag anabledd yn cynyddu'r tebygolrwydd o fyw mewn tlodi incwm cymharol i blant ac oedolion o oedran gweithio, ond nid i bensiynwyr.

Mae asesiadau effaith integredig bellach yn sail i'r holl benderfyniadau buddsoddi a wneir gan y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Economaidd. Mae Asesiadau Effaith y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015 yn dal wrth wraidd penderfyniadau trafnidiaeth. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu diweddaru bellach drwy'r canlynol sydd ar ffurf ddrafft:

- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Asesiad Effaith Integredig

- Asesiad Effaith Integredig Diwygio Bysiau
- Asesiad Effaith Integredig Diwygio Trenau
- Hedfanaeth – Asesiad Effaith Integredig Strategol

Mae'r gyllideb yn parhau i roi cefnogaeth gref i'r cyfle i swyddi, gwasanaethau iechyd, addysg a hamdden drwy ddulliau o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar y rhai nad oes ganddynt gar preifat, fel arfer gan adlewyrchu'r rhai o rannau tlotach o Gymru a/neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Yn arbennig mae'r gyllideb hon yn parhau i alluogi pobl sydd dros 60 oed neu bobl anabl i deithio ar fws am ddim, ac mae hefyd yn hyrwyddo byw'n iach drwy deithio llesol lle y bo'n briodol.

Hefyd, mae asesiadau effaith mewn meysydd seilwaith economaidd eraill, gan gynnwys

- Seilwaith Digidol – Asesiad Effaith Integredig Strategol (drafft)
- Drwy ymestyn Contract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a'r gyllideb bu modd gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys y systemau a ddefnyddir gan weithwyr iechyd i gofnodi gwybodaeth am gleifion yn y cartref, sydd wedyn ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynorthwyo pobl fregus a phobl hŷn na allant adael eu cartrefi.
- Seilwaith Eiddo
- Rheoli Eiddo – Asesiad Effaith Integredig (drafft)
- Cynllun Cyflenwi Eiddo – Asesiad Effaith Integredig Strategol (drafft)

Cyflenwir eiddo a safleoedd newydd yn unol â Pholisi Adeiladau cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac egwyddorion arferion gorau datblygu cynaliadwy, fel yr amlinellir yn Creating Sustainable Places Together. Paratoir Asesiadau Effaith ar gyfer swyddogaethau cyflenwi a rheoli eiddo, a byddant yn llywio penderfyniadau. Mae'r Cynllun Cyflenwi Eiddo yn gosod targedau cyflenwi rhanbarthol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael ledled Cymru.

Paratowyd ein cynlluniau gan ddefnyddio dull integredig o wneud penderfyniadau yn unol â Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, ystyriwyd ein penderfyniadau allweddol ynghylch y gyllideb er mwyn deall yn well yr effaith gyffredinol ar wahanol grwpiau o bobl. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau.

Mae ein cyllidebau'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n amlinellu newidiadau o ran polisïau, dulliau cyflawni ac ymddygiad i gefnogi ac adlewyrchu ein hamcanion Llesiant. Nod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw cefnogi lefelau gwell o gyfoeth a llesiant, gan leihau anghydraddoldebau a brofir gan unigolion a chymunedau ledled Cymru. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, yn seiliedig ar sylfeini cadarn, diwydiannau cryf iawn yn y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn hyrwyddo'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae ein dull o Ailadeiladu'r Economi yn adeiladu ar sylfeini ac egwyddorion cryf y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a'r weledigaeth yw creu Cymru sydd â gwella llesiant yn brif ddiben iddi.

5.0 YR ECONOMI – CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

O gymharu â chyllideb derfynol 2021-22, cynyddir y dyraniad adnoddau £12.971m i £58.1m. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf ar gyfer 2021-22 yw £95.948m, sy'n ostyngiad o £84.526m o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21.

Yr Economi	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Refeniw	43,120	56,091	12,971	30%
Heb Fod yn Arian Parod	2,309	2,309	0	0
Cyfanswm yr Adnoddau	**45,429**	**58,400**	**12,971**	29%

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol	107,514	86,336	95,336	9,000	10%
Cyllid Trafodiadau Ariannol	72,960	0	612	612	100%
CYFANSWM	**180,474**	**86,336**	**95,948**	**9,612**	**11%**

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

5.1 Cam Gweithredu Twf Cynhwysol a Diogelu Economi Cymru at y Dyfodol

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	6,798	6,648	(150)	(2%)
Entrepreneuriaeth	5,639	5,639	0	0%
Mentrau Cymdeithasol a'r Economi	730	730	0	0%
Busnes Cymru	5,577	10,747	5,170	93%
Cymoedd Technoleg	2,250	2,250	0	0%
Tasglu'r Cymoedd	100	100	0	0%
Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol	0	4,900	4,900	100%
Allforio, Masnachu a Mewnfuddsoddi	4,437	4,692	255	6%
Cyfanswm Refeniw	**25,531**	**35,706**	**10,175**	**40%**

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol					
Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	41,678	40,000	40,000	0	0%
Cymoedd Technoleg	7,750	7,750	7,750	0	0%
Tasglu'r Cymoedd	19,500	0	9,000	9,000	100%
Is-gyfanswm	**68,928**	**47,750**	**56,750**	**9,000**	**19%**
Trafodiadau Ariannol					
Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	2,560	0	612	612	100%
Is-gyfanswm	**2,560**	**0**	**612**	**612**	100%
CYFANSWM	**71,488**	**47,750**	**57,362**	**9,612**	**20%**

Yn gyffredinol mae'r newid o £10.175m yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol ar gyfer y cynllun allforio newydd £1.6m, y ganolfan ddigidol £4.9m a mentrau sylfaenol / canol tref £6m a wrthbwysir gan gyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE ar gyfer Cronfa Cydnerthedd Brexit o £2.325m.

Mae'r cyllid refeniw Datblygu Busnes a Datblygu Rhanbarthol o £6.648m yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i gyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r newid yn y gyllideb o £0.150m ar gyfer cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE. Yn 2021-22 bydd Cronfa Dyfodol yr Economi o £40.612m ar gael i gefnogi busnesau. Mae hyn yn cynnwys dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £5m ar gyfer Cronfa Ad-daladwy BBaChau wedi'i wrthbwyso gan ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol o £4.388m (net £0.612m).

Mae cyllidebau Entrepreneuriaeth, Busnes Cymru a Mentrau Cymdeithasol gwerth £17.116m yn cefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, BBaChau, eiriolwyr pobl anabl, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau yn cefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cudd a pharheir i gynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl fel entrepreneuriaid sy'n fenywod ac yn bobl ifanc, a grwpiau BAME.

Yn 2021-22 blaenoriaethwyd cyllid ychwanegol o £3m i adfer yr economi sylfaenol gan arwain at greu swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol mewn sectorau fel iechyd a gofal; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthu. Bydd £3m arall yn targedu mentrau canol tref sy'n gydnaws â chyfeiriad polisi Trawsnewid Trefi i greu cyfleoedd cyflogaeth a diogelu swyddi mewn trefi strategol ledled Cymru. Gwrthbwysir y dyraniad ychwanegol o £6m ar gyfer Busnes Cymru gan £0.830m afreolaidd o Gronfa Cydnerthedd Brexit yr UE. Rhoddir rhagor o fanylion yn adrannau 6.4 a 6.5.

Mae'r gyllideb allforio, masnachu a buddsoddi o £4.692m yn galluogi'r *Blaenoriaethau Ail-greu* i ddiogelu a chynyddu cadernid economi Cymru yn wyneb COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio o'r UE. Gwrthbwysir y cyllid ychwanegol o £1.6m

i gyflawni'r Cynllun Allforio newydd gan £1.345m afreolaidd o Gronfa Cydnerthedd Brexit (net £0.255).

Ymrwymiad o £100m dros gyfnod o 10 mlynedd yw Cymoedd Technoleg i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog busnesau i fabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch-dechnolegau gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Mae cyllid refeniw'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol o £2.250m yn darparu rhaglen refeniw Cymoedd Technoleg. Ceir rhagor o wybodaeth yn 6.12. Mae'r gyllideb gyfalaf ar gael i gefnogi gwaith datblygu seilwaith megis Parc Cyflogaeth Lime Avenue

Cafodd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ei gefnogi â £32m o gyllid cyfalaf ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21, gan gynnwys £7m ar gyfer Parciau Rhanbarthol y Cymoedd. Caiff y fenter hon ei hymestyn i 2021-22 gyda dyraniad o £9m o ganlyniad i'r ffaith bod COVID-19 wedi effeithio ar weithgareddau yn 2020-21. Bydd ailddyrannu gwariant a ohiriwyd yn 2021-22 yn helpu i gwblhau'r rhaglen. Ceir rhagor o wybodaeth yn 6.13.

Bydd y dyraniad ychwanegol o £4.9m ar gyfer Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru yn galluogi pobl i weithio neu astudio gartref, gan sicrhau mwy o chwarae teg i bob cyflogai. Mae'r Ganolfan yn allweddol i gyflawni Strategaeth Ddigidol Cymru er mwyn diwallu anghenion hyfforddi, rhannu arferion da a help arbenigol i drawsnewid gwasanaethau.

5.2 Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Trafodiadau Ariannol					
Cronfeydd Cyllid Busnes	47,000	0	0	0	0%
CYFANSWM	**47,000**	**0**	**0**	**0**	**0%**

Mae Banc Datblygu Cymru yn gwella gallu BBaChau i gael mynediad at gyllid ac yn helpu i greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial economi Cymru drwy sicrhau bod mwy o gyllid effeithiol a chynaliadwy yn y farchnad. Gwneir gwaith cynllunio hirdymor at y dyfodol ar gyfer cyllido Banc Datblygu Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys ei rôl allweddol yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pandemig presennol. Nid yw cyllid cronfeydd dynodedig yn 2020-21 yn rheolaidd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Banc Datblygu yn adran 6.6.

5.3 Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Refeniw				
Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus	8,704	11,500	2,796	0%
Datblygu Seilwaith Strategol	990	990	0	0%
Gweithrediadau Seilwaith TGCh	1,527	1,527	0	0%
Seilwaith Eiddo	4,026	4,026	0	0%
Is-gyfanswm	**15,247**	**18,043**	**2,796**	**0%**
Heb Fod yn Arian Parod				
Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n Arian Parod	2,309	2,309	0	0%
Is-gyfanswm	**2,309**	**2,309**	**0**	**0%**
Cyfanswm Refeniw	**17,556**	**20,352**	**2,796**	**0%**

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol					
Gweithrediadau Seilwaith TGCh	26,000	26,000	26,000	0	0%
Datblygu Seilwaith Strategol	4,200	4,200	4,200	0	0%
Seilwaith Eiddo	8,386	8,386	8,386	0	0%
Is-gyfanswm	**38,586**	**38,586**	**38,586**	**0**	**0%**
Trafodiadau Ariannol					
Seilwaith Eiddo	23,400	0	0	0	0%
Is-gyfanswm	**23,400**	**0**	**0**	**0**	**0%**
CYFANSWM	**61,986**	**38,586**	**38,586**	**0**	**0%**

Mae'r gyllideb seilwaith TGCh yn cefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar gyfer seilwaith modern a chysylltiedig drwy ddarparu cyllid i wella mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy ar gyfer eiddo yng Nghymru lle nad oes mynediad ar hyn o bryd. Y prif feysydd cyllid sy'n cefnogi hyn yw:

- **Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Cymru** – prosiect i gysylltu 39,000 o eiddo er mwyn cael mynediad at ffeibr sy'n addas i'r dyfodol gan alluogi cyflymderau band eang gigabit

- **Cronfa Band Eang Leol** – cynllun grant i awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol er mwyn helpu cymunedau lleol i gael mynediad at fand eang cyflym.
- **Allwedd Band Eang Cymru** – cynllun grant 'pan fetho popeth arall' sy'n helpu eiddo technegol agnostig i gysylltu
- **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol ar Gefnffyrdd** – cynllun uwchraddio ac ymestyn ar gyfer rhwydwaith asgwrn cefn cyfathrebu ffeibr optig cefnffyrdd yn y de.

Mae cyllideb Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus o £11.5m yn darparu cyllid ar gyfer rhwydwaith cyflenwi llwyfan digidol gwasanaethau a rennir sy'n darparu cysylltedd a gwasanaethau digidol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith yn gwasanaethu dros 120 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus â thua 5,000 o gysylltiadau. Mae'r dyraniad ychwanegol o £2.796m yn cefnogi'r cydweithio hwn.

Mae'r cyllid seilwaith datblygu strategol o £0.990m yn galluogi dulliau arloesol â phwyslais masnachol sy'n hwyluso mynediad at gyllid o'r sector preifat a phartneriaid eraill i ddarparu buddsoddiadau â blaenoriaeth o fewn y portffolio seilwaith trafnidiaeth ac economaidd cyfan. Ymhlith y prosiectau mae hyrwyddo Hyb Teithio Integredig yng Nghaerdydd, uwchraddio Gorsaf Gyffredinol Wrecsam, a dyfodol gwasanaethau bysiau yn Rhanbarth Dinas Caerdydd.

Mae cyllideb net Seilwaith Eiddo o £4.026m yn cefnogi portffolio cytbwys o safleoedd ac adeiladau modern sy'n bodloni gofynion cynaliadwyedd ar gyfer ein cenedlaethau i ddod, ac a all fodloni amserlenni cwmnïau o ran eu meddiannu. Mae'r Cynllun yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod digon o eiddo a safleoedd cyflogaeth ar gael i gynnig mantais gystadleuol wrth ddenu busnesau i Gymru. Nod y Cynllun yw cyflenwi 900,000 o droedfeddi sgwâr o eiddo busnes modern dros raglen dreigl tair blynedd, gan adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol Cymru gyfan. Yn 2020-21 roedd dyraniad afreolaidd o £23.4m ar gyfer y portffolio eiddo o £5m a Tirion Homes o £18.4m er mwyn cyflawni tri chynllun preswyl ym Melin Trelái, Caerdydd; Whiteheads yng Nghasnewydd, a Pharc Eirin yn Nhonyrefail.

5.4 Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid	Newid %
Datblygu Polisïau Strategol	450	450	0	0%
Cymru Iach ar Waith	831	831	0	0%
Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol	861	861	0	0%
Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu	200	200	0	0%
Cyfanswm Refeniw	**2,342**	**2,342**	**0**	**0%**

Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith o £0.831m yn cynnal mentrau yn y gweithle i gefnogi'r uchelgeisiau iach ac egnïol a nodir yn *Ffyniant i Bawb*. Mae'r cyllid yn cynnwys £0.052m ar gyfer llinyn cyflogwyr Cam 3 o raglen Amser i Newid Cymru

Mind Cymru, sy’n herio agweddau ac ymddygiadau negyddol yn y gweithle tuag at broblemau iechyd meddwl.

Mae gweddill y gyllideb refeniw yn cefnogi dadansoddiadau economaidd, adolygiadau a gwaith ymgysylltu strategol.

6.0 YR ECONOMI – POLISÏAU ALLWEDDOL

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r meysydd penodol a amlygwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

6.1 Cynllun Gweithredu ar yr Economi (yn cynnwys ystyried Brexit a'r Pandemig)

Mae COVID-19 wedi effeithio ar yr economi a'r farchnad lafur mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen, gan greu gryn gythrwfl, ac arwain at leihad sylweddol yn nifer y bobl gyflogedig, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Ar ben hyn, daw'r cyfnod pontio o'r UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021, bydd y DU wedi gadael Marchnad Sengl yr UE ac ni fydd modd manteisio mwyach ar y fasnach ddi-dor mewn nwyddau a gwasanaethau ag aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r effeithiau yn fawr iawn i fusnesau a gweithwyr yn y sector gweithgynhyrchu, sy'n cynrychioli cyfran fwy o faint o economi Cymru na rhannau eraill o'r DU. Bydd archwiliadau ar y ffin a gofynion gweinyddol newydd – yn ogystal â phatrymau mewnfudo gwahanol a newidiadau i ddulliau cyllido dros amser sydd wedi bod o fudd i fusnesau a'r economi ehangach.

Mae COVID-19 ac Ymadael â'r UE yn bygwth gwrthdroi'r cynnydd a wnaed gennym i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf, gyda'r effaith fwyaf ar yr unigolion hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, megis pobl anabl.

Caiff cyfran fawr o’n cymorth i fusnesau ei ddarparu gan ddefnyddio cyllid yr UE ac nid yw gwarant Llywodraeth y DU ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE (os bydd Brexit heb gytundeb yn digwydd) ond yn cwmpasu cyllid dros oes prosiect os caiff cais llwyddiannus ei wneud cyn diwedd 2020. Mae popeth yn ansicr ar ôl hynny ac rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gadarnhau cyllid olynol i gymryd lle ein Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar farchnad fewnol y DU ar ôl Brexit a chytundebau masnach yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y negodiadau hyn sy’n seiliedig ar dystiolaeth economaidd a blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.

Mae'r llwybr tuag at adferiad economaidd Cymru yn adeiladu ar y Cynllun. Llywiodd raglen datblygu economaidd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau, ac yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Rydym wedi gwneud cynnydd cynnar yn codi proffil a heriau'r Economi Sylfaenol, gan flaenoriaethu cyllid o £3m, ond cydnabyddwn fod mwy i'w wneud i ehangu a phwysoli'r dull gweithredu. Mae mentrau allweddol eraill yn hanfodol i gefnogi'r agenda ar gyfer yr economi, gan gynnwys *Cymru Carbon Isel*, *Cymraeg 2050*, y Cynllun Cyflogadwyedd a'n hagenda Gwaith Teg, sy'n rhedeg drwy'r holl ymyriadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fframwaith ehangach yn parhau i gynnig ffordd Gymreig unigryw o fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein pobl a'n planed. Mae'n llywio ein dull ailadeiladu, gan sicrhau adferiad seiliedig ar

werthoedd. Mae'r *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*, sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd dros 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE, yn nodi llwybrau i wneud y defnydd gorau o gyllid amnewidiol oddi wrth Lywodraeth y DU yn rhanbarthol.

Ein bwriad yw creu Cymru sy'n gosod llesiant a lles fel ei phrif ddiben, a sicrhau adferiad economaidd ffyniannus, gwyrdd a chyfartal sy'n cydnabod pa mor bwysig yw hi i fuddsoddi mewn pobl a lleoedd.

Mae'r nod o sicrhau llesiant pawb yng Nghymru wedi bod yn sail i'n hymateb i'r pandemig, a dyma fydd egwyddor sylfaenol ein hadferiad economaidd a'r ymdrech i ailadeiladu. Mae'r cymorth penodol a roddwyd i helpu busnesau drwy'r pandemig, a'u helpu i adfer wedyn, wedi cynnwys:

- Ein Cronfa Cadernid Economaidd i Gymru yn unig sy'n werth miliynau o bunnoedd ac sydd bob amser wedi ceisio nodi bylchau cynlluniau Llywodraeth y DU ac yna geisio eu llenwi yma yng Nghymru.

- Gan ddilyn egwyddorion darparu gwell cymorth, cyhoeddwyd £140m ychwanegol o gymorth i fusnesau i'w helpu i ateb heriau economaidd COVID-19 ac ymadael â'r UE. Darparwyd mwy o gymorth wedyn i helpu busnesau drwy'r cyfnod atal byr diweddar a'r cyfyngiadau cyn y Nadolig.

- Mae egwyddorion y Contract Economaidd wrth wraidd ein Cronfa Cadernid Economaidd, ac mae ein hymrwymiad pendant i sicrhau buddsoddiadau â diben cymdeithasol wedi arwain at weld mwy o ymrwymiad gan fusnesau i egwyddorion y Contract – gyda mwy na 4,000 bellach wedi ymrwymo i'r egwyddorion, o gymharu â 385 cyn COVID-19.

- Yn arbennig, rydym yn awyddus i ganolbwyntio ar helpu busnesau, yn enwedig y rhai yn yr economi carbon isel, i ddiogelu a chreu swyddi da, mewn cymunedau lleol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ein contract economaidd – dull 'rhywbeth am rywbeth' sydd â chyfiawnder cymdeithasol wrth ei wraidd.

- Cydnabyddir bod hwn yn gyfnod anodd i fusnesau ac mae'r galw mawr am y Grantiau Datblygu Busnes, gwerth cyfanswm o £100m, a ddarparwyd fel rhan o drydydd cam ein Cronfa Cadernid Economaidd yn tanlinellu hyn. Er y bu angen cau'r broses gwneud cais ar gyfer y grantiau hyn oherwydd yr holl geisiadau a gafwyd, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi neilltuo cyllid ar gyfer pedwerydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd i gefnogi busnesau a chyflogeion. Rydym wrthi'n datblygu dull i fusnesau fynegi diddordeb yn y gronfa honno yn yr wythnosau nesaf a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb drwy wefan Busnes Cymru.

6.2 Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Cafodd tri thîm rhanbarthol eu creu yn 2019 ac, ar y cyd â rhanddeiliaid rhanbarthol, maent yn datblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol er mwyn helpu i hwyluso gwaith ar y cyd a nodi cyfres o flaenoriaethau economaidd cyffredin ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector. Y bwriad yw y bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol cael eu cynllunio a’u gweithredu ar y cyd

â’r partneriaid rhanbarthol ac a fydd yn gallu llywio datblygiad a gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin

Mae partneriaethau cryf ag awdurdodau lleol, arweinwyr busnes, y trydydd sector, y byd academaidd a chyrff cyhoeddus eraill wedi hwyluso cyd-gynllunio a llunio fframweithiau economaidd rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a Dinas Ranbarth Bae Abertawe.

Mae timau busnes wedi cael eu had-drefnu ar sail olion troed rhanbarthol er mwyn sicrhau mwy o gydweithio a chysoni gweithgarwch at ddiben twf economaidd er mwyn creu cymunedau busnes cadarn. Wrth i’r cydweithio ar y fframweithiau rhanbarthol ddatblygu, byddwn yn manteisio’n llawn ar y cyfle i gysoni gweithgarwch, adnoddau a, lle y bo’n bosibl, waith ar y cyd fel rydym yn ei wneud gyda Chyngor Sir Powys i gydleoli adnoddau. Mae datblygu bargeinion dinesig a thwf yn greiddiol i’r cydweithio hwn.

Rhanbarth y De-ddwyrain

Mae'r tîm rhanbarthol wrthi'n llunio dogfen fframwaith gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan ystyried goblygiadau Cydbwyllgorau Corfforaethol ar gyflawni economaidd ar yr un pryd a'r diffyg eglurder ynghylch cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu ein dull o gyflawni uchelgeisiau a rennir ar gyfer y de-ddwyrain. Hefyd, cafwyd cytundeb â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaid rhanbarthol i gydgynllunio a chyd-ddatblygu cynllun adfer economaidd rhanbarthol ar y cyd, sy'n seiliedig ar le, ynghyd â fframwaith economaidd rhanbarthol dilynol.

Gogledd Cymru

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r gwaith o gydgynllunio Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn canolbwyntio ar bedwar pecyn ysgogi sy'n rhychwantu'r byrdymor a'r hirdymor:

- **Ymateb Cyflym** - cydweithio rhwng ALlau a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys gwneud hynny drwy dasglu) i sicrhau y cynigir cymorth priodol ac unedig i fusnesau, gan gynnwys sgiliau a chyflogaeth.
- **Bargen Twf y Gogledd** - fe'i harweinir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n brydlon, gan ddisgwyl cael cytundeb bargen llawn erbyn diwedd 2020.
- **Gwaith Cynllunio Adfer Rhanbarthol** - ffocws y grŵp gwaith adfer economaidd rhanbarthol
  yw diffinio, yn seiliedig ar dystiolaeth leol a rhanbarthol o effeithiau COVID-19, flaenoriaethau i lywio pecynnau cymorth cenedlaethol ar y cyd ag anghenion rhanbarthol penodol.
- **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol** - ar y cyd, mireinio Gweledigaeth Twf bresennol y gogledd, a chydgynllunio a chyd-ddatblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

6.3 Cronfa Dyfodol yr Economi a Chymorth Busnes Arall

Gwnaeth Cronfa Dyfodol yr Economi gydgrynhoi'r cronfeydd canlynol:

- Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth i Greu Swyddi
- Cyllid Cynhyrchu Creadigol
- SMART Cymru
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth
- Cynllun Amddiffyn yr Amgylchedd
- Cronfa Ad-daladwy i BBaChau

Dylid nodi bod y cyllid ar gyfer cynhyrchu creadigol a’r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth wedi’i gynnwys yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Ystyrir cyllid megis Grantiau Datblygu Eiddo i'w gydgrynhoi yn y dyfodol.

Ers ei lansio yn 2018 a hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2020, mae 326 o gynigion gwerth cyfanswm o £76.7m wedi cael eu derbyn o dan Gronfa Dyfodol yr Economi.

Yn y portffolio ceir rhaglenni ategol megis y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, sydd wedi'i theilwra i gefnogi busnesau ledled Cymru ac sydd wedi'i chynllunio i ategu gwaith datblygu busnes a datblygu economaidd. Mae'n cefnogi prosiectau datblygu busnes a phrosiectau mewnfuddsoddi ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth lefel uchel a llwybrau gyrfa datblygiadol ar gyfer cyflogeion mewn meysydd fel Peirianneg Uwch a Sgiliau Gweithgynhyrchu a'r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

6.4 Cynlluniau Economi Sylfaenol

Yn ystod y pandemig, dangosodd yr Economi Sylfaenol y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae wrth gefnogi cadernid lleol yn wyneb effeithiau allanol. Fel blaenoriaeth ar y cam adfer, mae'n darparu'r swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol ymhob sector megis gwasanaethau gofal ac iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthwyr ar y stryd fawr gan gyfrif am bedair o bob deg swydd, a £1 am bob £3 a gaiff ei gwario.

Yn 2021-22 defnyddir cyllid ychwanegol o £3m i ariannu prosiectau a fydd yn cynnig canlyniadau cyflym ar draws ein blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Sylfaenol, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, adeiladu a chaffael. Er enghraifft, mesur prosiectau a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw o fewn gofal cymdeithasol, gan alluogi'r gweithlu hwnnw i fwynhau gwell amodau cyflogaeth a gwell cyflogau; datblygu model rheoli gwasanaethau meddygon teulu cydweithredol gofal cymunedol, sydd wedi arwain at welliannau clir i brofiad a llesiant cleifion, ac sydd wedi lleihau atgyfeiriadau brys yn sylweddol; prosiectau hybiau cymunedol er mwyn helpu i adfywio'r stryd fawr a phrosiectau sydd wedi helpu i gynyddu gwerth cymdeithasol caffael i'r eithaf, gyda'r nod o gynyddu nifer y cwmnïau sydd â'u gwreiddiau mewn cymunedau lleol.

Bydd y cyllid hwn yn ategu £3m arall i adfywio canol trefi er mwyn creu a diogelu swyddi. Bydd datblygiadau digidol, pecynnau cymorth ac asesiadau o ganol trefi yn hanfodol i waith datblygu polisi.

6.5 Cronfa Her yr Economi Sylfaenol

Y 52 o brosiectau o fewn y Gronfa Her a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, gyda digwyddiad lansio y mis canlynol i ddwyn yr holl brosiectau ynghyd, cyn cychwyn eu cynlluniau cyflawni.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar nifer mawr o brosiectau, ac mae llawer wedi gorfod addasu i weithredu'n ddigidol. Cafodd y Gymuned Ymarfer ei gohirio hefyd, ac fe'i sefydlwyd ym mis Gorffennaf. Cyn hyn, cefnogodd swyddogion fesurau cydweithio a rhannu profiad drwy ddwyn prosiectau tebyg ynghyd mewn meysydd fel caffael, gofal cymdeithasol, manwerthu a datblygu sgiliau.

Er gwaethaf effaith andwyol COVID-19, mae canlyniadau cadarnhaol bellach yn cael eu gweld, gan gynnwys er enghraifft:

- Menter gymdeithasol wedi'i sefydlu yn Rhondda Cynon Taf i gynnig y gallu i dendro i fusnesau micro a bach sydd am dendro am waith gofal cymdeithasol – mae 60 o fusnesau lleol yn cael budd o'r gwasanaeth hwn;

- Mae llwyfan digidol, agored wedi cynnwys 1,600 o BBaChau, gan arwain at bron 1,800 o syniadau i ateb heriau'r Economi Sylfaenol i BBaChau. Hefyd, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cadarnhau bod dros £6.5m o gynhyrchion wedi cael eu caffael gan y GIG oddi wrth gyflenwyr sy'n defnyddio'r llwyfan hwn. Mae hyn yn cynhyrchu tua £34m o werth ychwanegol gros i Gymru;

- Mae menter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau sganio dogfennau wedi ennill nifer o gontractau cyhoeddus newydd. O'r herwydd, mae ei throsiant uwchlaw'r lefel a welwyd yr amser hwn y llynedd;

- Mae 75 o bobl ifanc wedi cael cymorth i gael profiad gwaith fel rhan o raglen prentisiaethau adeiladu a rennir, ac mae cwmpas y gwaith hwn wedi'i ymestyn fel y bydd mwy na 120 o bobl ifanc wedi cael budd o'r prosiect pan ddaw i ben.

Am weddill 2020-21, byddwn yn canolbwyntio ar rannu arferion da o'r prosiectau fel bod modd eu hail-greu ledled Cymru.

6.6 Banc Datblygu Cymru

Mae Banc Datblygu Cymru yn sefydliad conglfaen ar gyfer buddsoddiadau a chymorth busnes. O ystyried ei faint a'i arbenigedd, gyda mwy na £500 miliwn i gefnogi busnesau yng Nghymru, mae mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau ac achub ar y cyfleoedd y mae'r economi yn eu hwynebu, a gwneud Cymru yn fwy ffyniannus a diogel. Yn ystod 2020-21, mae'r Banc wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymateb i argyfwng COVID-19, gan weithredu Cynllun Benthyciadau Busnes Cymru COVID-19, sydd wedi helpu dros 1,300 o fusnesau yng Nghymru, gan rannu £92 miliwn. Bydd hyn yn parhau fel rhan o Gynllun Ail-greu ac Adfer COVID-19 2021-22. Mae'n adolygu amodau'r farchnad yn barhaus a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag ef i archwilio cynhyrchion a chymorth, a fydd yn cynnig y budd mwyaf posibl i fusnesau yng Nghymru yng nghyd-destun cymorth ehangach COVID-19 gan Lywodraeth y DU.

Yn 2019-20, cyflawnodd Banc Datblygu Cymru y canlynol:

- gwneud 457 o fuddsoddiadau, y nifer mwyaf erioed, a oedd yn gyfanswm o £103.3 miliwn

- sicrhau £76m o fuddsoddiad ychwanegol gan fanciau a chyllidwyr eraill yn y sector preifat
- cyfalaf twf o £179m yn economi Cymru
- creu neu ddiogelu 3,964 o swyddi yng Nghymru
- rhannu buddsoddiad yn gytbwys ledled Cymru, gyda £38.7m wedi'i fuddsoddi yn y de, £34.3m yn y canolbarth a'r gorllewin, a £30.4m yn y gogledd.

Ers ei sefydlu yn 2001 hyd at ddiwedd 2019-20 (ffigurau 31 Mawrth 2020), mae Cyllid Cymru / Banc Datblygu Cymru wedi cyflawni:

- £0.7bn o fuddsoddiad uniongyrchol mewn busnesau yng Nghymru
- £0.9bn o drosoledd yn y sector preifat
- £1.6bn o fuddsoddiad yn economi Cymru
- 56,629 o swyddi wedi'u diogelu neu eu creu

Hefyd yn 2020-21, mae Gweinidogion Cymru wedi gwella Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru i helpu busnesau i oresgyn unrhyw anawsterau hylifedd yn deillio o ddiwedd y Cyfnod Pontio o'r UE o 1 Ionawr 2021, drwy gytuno i:

- Gynyddu maint y Gronfa i £167m.
- Cynnig hyblygrwydd newydd i fusnesau, gan gynnwys cynyddu'r uchafswm benthyciad o £5 miliwn i £10 miliwn; ac ymestyn cyfnodau benthyciadau o 10 i 15 mlynedd.
- Bydd y cyfalaf mwy amyneddgar hwn yn helpu llif arian parod rhai busnesau sydd angen ailstrwythuro eu dyledion a lleihau costau gwasanaethu dyledion parhaus.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Banc Datblygu Cymru.

6.7 Y Banc Cymunedol/cefnogi Banc Cambria

Mae polisi'r Banc Cymunedol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yr amcanion polisi yw:

- sefydlu Banc Cymunedol Cymru gyda'i aelodau yn berchen arno, ar sail un aelod un bleidlais.
- cynnig cyfrifon cyfredol i drigolion lleol, ni waeth beth fo'u hincwm na'u cyfoeth, gan fynd i'r afael â'r premiwm tlodi.
- lleoli pencadlys y Banc, a'i ganghennau, yng Nghymru. Daw'n brif sefydliad yng Nghymru, sydd yma heddiw ac yn y dyfodol.
- cynnig gwasanaeth bancio wyneb yn wyneb i gwsmeriaid lleol a busnesau bach. Gwneir penderfyniadau am fenthyciadau gan staff medrus a phrofiadol, nid ffurflen gyfrifiadurol
- bod yn gyflogwr cyflog byw, gydag uchafswm cymhareb sefydlog rhwng y gweithwyr ar y cyflog mwyaf a lleiaf.
- gweithredu cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, gan gwmpasu Cymru gyfan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad.

Ers 2019-20, mae Cambria Cydfuddiannol Limited (CCL) wedi cael dau grant sbardun gwerth cyfanswm o £0.165m. Disgwylir y cynnig diweddaraf yn fuan.

6.8 Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes

Mae'r wyth Ardal Fenter a leolir ledled Cymru yn sbarduno datblygu rhanbarthol ac yn gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol. Mae pob ardal yn ymatebol i economïau lleol ac yn canolbwyntio ar gyfleoedd tymor hwy sy'n gysylltiedig â chreu cyfleoedd gwaith cynaliadwy.

Mae cyllid refeniw o £0.77m yn cael ei ddarparu yn 2021-22 ar gyfer y rhaglen Ardaloedd Menter. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi'r gweithgareddau a amlinellir yn y cynlluniau strategol a gynhyrchir ar gyfer pob Ardal Fenter, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb a datblygu achosion busnes, yn ogystal â chyllido prosiectau refeniw bach i gyflawni amrywiaeth o brosiectau sy'n gysylltiedig â phob Ardal. Nid oes dyraniad cyfalaf dynodedig i'r rhaglen ei hun, gan fod unrhyw fentrau wedi'u hymgorffori yn y broses gyflawni gan ddefnyddio cyllidebau Datblygu Busnes a Datblygu Seilwaith Strategol.

Caiff diweddariad ar gynnydd prosiectau allweddol yn yr Ardaloedd Menter ei gyhoeddi ac mae adroddiad arall wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd.

6.9 Cymorth Allforio a Mewnfuddsoddi

Mae'r *Strategaeth Ryngwladol* a'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn atgyfnerthu'r ymrwymiadau i dyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddi. Mewn blynyddoedd diweddar, mae perfformiad allforio cadarnhaol wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi, gydag allforion nwyddau Cymreig yn werth £17.8bn yn 2019; yn 2018, roedd allforion nwyddau yn cyfateb i 23% o gynnyrch domestig gros Cymru. Yn yr un modd, arweiniodd y gallu i ddenu buddsoddiad uniongyrchol o dramor dros y pum mlynedd diwethaf at 352 o brosiectau, gan greu a diogelu dros 30,000 o swyddi o ganlyniad i fuddsoddi o dramor yng Nghymru.Yn ystod y cyfnod hwn, mae o leiaf £3.7bn wedi'i fuddsoddi yng Nghymru gan gwmnïau o dramor, gyda tua 1,345 o gwmnïau o dramor yng Nghymru bellach, sy'n cyflogi mwy na 169,000 o bobl. Er hyn, mae effaith COVID-19 ar yr economi fyd-eang, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cydberthnasau masnachu â'r UE yn y dyfodol wedi cael effaith sylweddol ar allforion a mewnfuddsoddi.

Mae ffigurau dros dro diweddaraf Cyllid a Thollau EM ar gyfer y flwyddyn hyd at C3, 2020 yn dangos bod gwerth allforion nwyddau Cymreig wedi lleihau 19.7%, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er i holl wledydd y DU weld y fasnach mewn nwyddau yn crebachu, allforion o Gymru a welodd y lleihad mwyaf o blith unrhyw ran o'r DU. Mae'r argyfwng hwn, ynghyd â'r gwaith parhaus o baratoi busnesau i fasnachu â'r Undeb Ewropeaidd (ein marchnad allforio fwyaf) yn dilyn y cyfnod pontio, yn creu 'storm berffaith' i allforwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae allforion yn allweddol i dwf ac adferiad economaidd, o ystyried ein bod yn gwybod eu bod yn rhoi hwb i dwf economaidd drwy gyfrannu'n uniongyrchol ar gynnyrch domestig gros; mae busnesau sy'n allforio nwyddau tua 20% yn fwy cynhyrchiol na busnesau nad ydynt yn masnachu'n rhyngwladol; ac mae gwella cynhyrchiant yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy o fewn busnesau a'r economi ehangach. Mae allforion hefyd yn hanfodol i economi gadarn, gan helpu i wrthbwyso dirywiad yn y farchnad ddomestig. Dyrannwyd £1.6m ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Allforio newydd, a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr (yn: Cynllun Allforio) .

O ran mewnfuddsoddi, mae sefydliadau byd-eang (gan gynnwys UNCTAD ac OECD) yn rhagweld effaith sylweddol iawn ar lifau buddsoddi byd-eang, gan leihau rhwng 40% a 50% yn ystod y flwyddyn, gydag effaith debygol ar flynyddoedd dilynol hefyd. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo mewnfuddsoddi i'r DU eisoes wedi

lleihau ers y penderfyniad i ymadael â'r UE yn 2016. Bydd parhau i ddenu buddsoddiadau yn cyfrannu'n sylweddol ar yr economi o ystyried y bydd buddiannau trosglwyddo gwybodaeth, arwain arloesedd, datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn arwain at fwy o gadernid wrth inni ymadfer. Mae ein dull o hyrwyddo Cymru o ran mewnfuddsoddi wedi ailganolbwyntio ar fuddsoddi a arweinir gan gyfleoedd, a'r rhannau hynny o'r economi lle y gall Cymru ddangos ei bod o'r radd flaenaf, gan gynnwys o ran lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch, ynni morol, ac agweddau penodol ar wyddor bywyd megis meddygaeth aildyfu, niwrowyddoniaeth a thechnoleg feddygol. Fel rhan o hyn, cyflawnir rhaglen ymgysylltu helaeth â'n swyddfa dramor, rhwydweithiau ehangach (yn cynnwys yr Adran Masnach Ryngwladol), clystyrau diwydiant hanfodol a rhanddeiliaid er mwyn addysgu a chodi proffil cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

6.10 Cefnogi clystyrau diwydiant hanfodol megis awyrofod, modurol, dur a thechnolegau datblygol

Ystyrir ceisiadau o dan delerau ac amodau Cronfa Dyfodol yr Economi ac fe'u gwerthusir ar sail gwerth am arian. Nid oes cyllid ar gyfer diwydiannau penodol. Rhoddir diweddariad yn y cyd-destun a'r cyfraniad at y pandemig.

Awyrofod

Yn sgil COVID-19, bu 66% yn llai o Gilometrau Teithwyr Refeniw oherwydd pryderon iechyd a chyfyngiadau'r llywodraeth. Mae'r sgil-effaith wedi achosi cryn amharu drwy'r gadwyn gwerth, gan effeithio ar gwmnïau awyrennau, gweithgynhyrchwyr a'u cadwyni cyflenwi, a'r ôl-farchnad. Mae hefyd wedi cael effaith ddifrifol ar y diwydiant twristiaeth. Yn ôl y rhagolygon, ni welir lefelau cynhyrchu cyn COVID-19 yn dychwelyd cyn 2025.

Modurol

Yn Ch3 2020, lleihaodd cynhyrchiant ceir yn y DU -35.9% y tu ôl i lefelau 2019, gyda 632,834 o gerbydau yn cael eu hadeiladu. Mae'r rhagolwg annibynnol diweddaraf yn disgwyl i'r DU gynhyrchu llai na 885,000 o geir eleni – y tro cyntaf i'r niferoedd fod o dan filiwn ers 2009.

Yn anffodus, mae'r heriau y mae'r sector wedi'u hwynebu ers 2018 wedi cael effaith anghymesur ar Gymru (o gymharu â rhannau eraill o'r DU) – llai o alw byd-eang, effaith Brexit, y sgandal diesel, hyder defnyddwyr ynghylch newid o ffynonellau confensiynol i allyriadau carbon is, a COVID-19. Mae Fforwm Modurol Cymru yn amcangyfrif bod neu y bydd o leiaf 4,110 o swyddi crefftus, sy'n talu'n dda, wedi'u colli o'r is-sector gweithgynhyrchu strategol bwysig hwn. Mae'n bartner allweddol sy'n gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff cynrychioliadol diwydiant y DU i gefnogi'r sector, yn enwedig achub ar gyfleoedd trydaneiddio.

Dur

Mae'r sector dur yn dal i brofi llai o weithgarwch yn sgil y pandemig, o ganlyniad i'r dirywiad modurol. Mae'r diwydiant adeiladu wedi parhau i fod yn gymharol gryf er gwaethaf y lleihad ledled Ewrop. Rydym yn ymgorffori Siarter Dur y DU i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl. Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf i lofnodi Siarter Dur y DU, sy'n ategu ein Nodyn Cyngor cynharach ar Gaffael drwy annog prosiectau yng Nghymru i ddefnyddio dur o Brydain o'r ansawdd uchaf, a mwynhau buddiannau

gwneud hynny, lle bynnag y bo modd. Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, rydym wedi cynnwys amod cyfreithiol gorfodol ychwanegol yn ein holiadur cyn cymhwyso ar gyfer tendrau na ddylid defnyddio unrhyw ddur wedi'i ddympio mewn unrhyw gontract a roddir gan gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae datgarboneiddio yn her allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, clwstwr Diwydiannol De Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried dulliau datgarboneiddio diwydiannol rhanbarthol.

Adeiladu

Yn 2018, roedd y sector adeiladu yng Nghymru yn cyfrif am 7% o'r gweithlu yng Nghymru, ac roedd yn gyfrifol am 6% o werth ychwanegol gros. Mae'n cyflogi dros 100,000 o bobl ledled Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn BBaChau neu'n ficrofusnesau. Mae hefyd yn brif ddarparwr prentisiaethau.
Yn ystod gwanwyn 2020, cafodd Fforwm Adeiladu Gweinidogol parhaus ei sefydlu ac mae wedi darparu llwyfan i randdeiliaid o'r diwydiant a Llywodraeth Cymru ymdrin â Chynllun Adfer ar gyfer y sector yn dilyn COVID-19, ei gefnogi a'i gyflawni. Bydd y Fforwm yn dwyn y ddau sector ynghyd i wella perfformiad o dan arweinyddiaeth un o Weinidogion Cymru. Nid yw'r Fforwm yn disodli nac yn ail-greu gwaith unrhyw grŵp, rhaglen na chyfarfod Gweinidogol sy'n bodoli eisoes.

Lleoli Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) (Cadernid y Gadwyn Gyflenwi)

Yn sgil COVID-19, a'r gefnogaeth gadarnhaol a gynigiwyd gan ddiwydiant, cydnabyddir bod y gadwyn gyflenwi, yn enwedig yn y GIG, yn fregus. Mae'r grŵp Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol, wedi'i arwain gan Diwydiant Cymru, wedi bod yn hanfodol wrth gydgysylltu gweithgarwch i gael gafael ar nifer o eitemau PPE hanfodol yn lleol.

Technolegau Datblygol

Ym maes technoleg, mae angen i Gymru gadw i fyny â datblygiadau ledled y DU ac Ewrop. Mae sawl enghraifft o brosiectau yn cael eu datblygu i gefnogi hyn, megis Seiberddiogelwch Prifysgol Caerdydd sy'n arwain consortiwm i ddatblygu Hwb Seiberarloesedd. Bellach, caiff cynigion prosiect sy'n perthyn i feysydd 'digidol' a 'thechnoleg ddatblygol' eu cynnig i'w hardystio a'u cefnogi i'r Bwrdd Economi Ddigidol a ffurfiwyd yn ddiweddar.

Diwydiant Cymru

Bu Diwydiant Cymru (DC) yn bartner allweddol yn ystod y pandemig, drwy nodi ffynonellau lleol amgen ar gyfer eitemau roedd eu hangen ar y GIG a oedd yn brin, megis PPE, peiriannau anadlu ac ocsifesuryddion. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r byrddau iechyd, diwydiant, academia, timau meddygol, yr hwb gwyddorau bywyd, cyflenwyr a chyrff rheoleiddio iechyd i ddatblygu opsiynau amgen ar gyfer dod â'r gwaith o weithgynhyrchu PPE a datblygu unedau anadlu pwysedd positif

parhaus yn y llwybr anadlu yn ôl i Gymru. Ar y cyd â hyn, gweithiodd y fforymau'n agos gyda'u priod ddiwydiannau i ddeall effaith y pandemig ar eu sector, diwallu eu hanghenion, a rhoi gwybodaeth amserol am y farchnad a datblygiad y Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu i Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr Athro Keith Ridgway ei benodi'n Gadeirydd interim Diwydiant Cymru ym mis Medi 2020.

6.11 Croeso i Gymru – Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025

Nod y strategaeth yw 'tyfu twristiaeth er budd Cymru' drwy uchelgais i gyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd. Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn allweddol i'r economi sylfaenol, gan gynrychioli 6% o werth ychwanegol gros: mae hyn wedi tyfu'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r sector yn cyflogi mwy na 130,000 o bobl, gan gyfrannu at 10% neu fwy o swyddi mewn sawl ardal awdurdod lleol. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar y sector, ond mae ganddo'r potensial i ymadfer mewn ffyrdd newydd a mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Mater i’r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw penderfyniadau cyllidebol ym maes twristiaeth.

6.12 Bargeinion Dinesig a Thwf

Caiff cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer pob Bargen ei reoli o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gyfrifol amdano.

Bargeinion Twf ar y Cam Datblygu

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae cyllid Bargen Ddinesig Caerdydd yn £1.2bn dros 20 mlynedd. O hyn, neilltuir cyllid i gyfrannu at gyflawni prosiect Metro De-ddwyrain Cymru gwerth £734m, a chaiff ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru (£500m), Llywodraeth y DU (£100m) ac Ewropeaidd (£134m), sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio Llinellau'r Cymoedd a chyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni Cam 2 y Metro yn ehangach.

Mae cyllid Prifddinas Ranbarth Caerdydd o £495m yn cynnwys £375m o gyllid y Trysorlys a £120m o gyfraniadau awdurdodau lleol. Rhydd hyn gyllid Cronfa Fuddsoddi o dan reolaeth y rhanbarth i gefnogi ymyriadau mewn pum maes (seilwaith trafnidiaeth, arloesedd a seilwaith digidol, sgiliau, cymorth busnes, a thai ac adfywio).

Mae'r cyllid o £375m a ddarperir gan Drysorlys EM dros 20 mlynedd wedi'i broffilio;

- 2016-17 i 2020-21 cyllid refeniw o £10m y flwyddyn
- 2021-22 i 2030-31 cyllid refeniw o £22m y flwyddyn
- 2031-32 i 2035-36 cyllid refeniw o £21m y flwyddyn

Yn ddiweddar mae Bargen Ddinesig Caerdydd wedi cofnodi bod £144m o fuddsoddiad wedi'i addo hyd yn hyn, gyda buddsoddiad pellach o £144m ar gam datblygedig o'r broses arfarnu. Ar hyn o bryd, mae'r Fargen yn destun adolygiad cyntaf y porth pum mlynedd, ac mae'n bwynt lle gallai cyllid y Llywodraeth gael ei dynnu'n ôl. Bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys erbyn mis Mawrth

Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe

Dros y 15 mlynedd nesaf, mae Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe, sy'n werth £1.2bn, yn anelu at roi hwb o £1.8bn i'r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd. Caiff y Fargen ei hategu gan £125.4m o gyllid gan Lywodraeth Cymru, £115.6m o gyllid gan Lywodraeth y DU, a swm amcangyfrifedig o £591.79m o arian arall y sector cyhoeddus a £330.2m gan y sector preifat. Hyd yn hyn, mae Gweinidogion wedi rhyddhau £18m o gyllid rhaglen y Fargen Ddinesig, gyda £18 miliwn arall ar gael i brosiectau eraill o fewn y Fargen, ar yr amod bod y rhanbarth yn bodloni telerau ac amodau'r cam cyntaf.

Mae tri phrosiect wedi cael eu cymeradwyo, sef Yr Egin, yr Ardal Ddigidol ac Ardal Forol Doc Penfro, ac mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gyda 6 phrosiect arall yn cael eu datblygu, ac achosion busnes ar gamau amrywiol o aeddfedrwydd.Mae argymhellion Adolygiad Annibynnol Actica, a thelerau ac amodau'r cam cyntaf, wrthi'n cael eu paratoi gan Weinidogion. Hefyd, cwblhaodd y rhanbarth ddadansoddiad o effaith COVID-19 ar Raglen y Fargen Ddinesig.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni Bargen Ddinesig lwyddiannus ar gyfer Bae Abertawe, ac i weithio'n agos ac yn adeiladol â Llywodraeth y DU a'r rhanbarth yn hyn o beth.

Bargen Twf y Gogledd

Mae Bargen Twf y Gogledd yn elfen bwysig o adferiad y rhanbarth yn y dyfodol, er mwyn inni allu gweld llif buddsoddi yn dechrau yn y rhanbarth yn 2021. Mae'n cynnig y cyfle i fuddsoddi £1bn, gan gynnwys y £120m a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Gwneir cynnydd da mewn perthynas â chytundeb y Fargen Derfynol, a disgwylir cymeradwyaeth derfynol ar y cyd â Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr eleni.

Mae'r economi wedi newid yn sgil COVID-19. Er bod prif gryfderau'r rhanbarth mewn meysydd fel carbon isel, uwch weithgynhyrchu a thwristiaeth yn parhau, efallai y bydd angen i'r gwaith o gyflwyno prosiectau a rhaglenni bargen newid.

Yr her yw manteisio i'r eithaf ar yr hyn sy'n debyg rhwng y rhaglenni fel bod modd sicrhau'r elw mwyaf am bob punt a fuddsoddir.

Bargen Twf y Canolbarth

Yn yr haf, ymatebodd Gweinidogion y Llywodraeth yn ffurfiol i'r Cynllun Economaidd Strategol a'r Map Bargen Twf, gan ailategu eu hymrwymiad i'r Fargen yn y canolbarth. Mae'n gosod y Fargen Twf yng nghyd-destun strategaeth economaidd ranbarthol ehangach ar gyfer y canolbarth, gan gydnabod bod y Fargen Twf yn

sbardun twf. Mae'n debygol y cytunir ar Brif Delerau yn fuan, gan amlinellu ymrwymiad y ddwy Lywodraeth i gydweithio â'r partneriaid rhanbarthol i sicrhau cynnydd y Fargen Twf ar gyfer y canolbarth. Mae'n debygol y daw'r Cytundeb Bargen Terfynol i ben yn 2021. Bydd angen rhoi sicrwydd i lywodraethau mewn tair ffordd, sef bod systemau llywodraethu a sicrwydd priodol ar waith, bod achos busnes portffolio yn cael ei ddatblygu sy'n amlinellu'r hyn y mae'r rhanbarth yn bwriadu ei gyflawni a'r canlyniadau i'w cyflawni yn sgil camau ymyrryd, yn ogystal â chynllun ymgysylltu a chyfathrebu cynhwysfawr.

6.13 Mentrau Tasglu'r Cymoedd a Chymoedd Technoleg

Mae Ein Cymoedd Ein Dyfodol yn ymrwymiad maniffesto sy'n helpu cymunedau Cymoedd De Cymru i ddod yn fwy ffyniannus a chadarn drwy fentrau gwahanol, yn cwmpasu tai, addysg, iechyd a llesiant, treftadaeth, yr economi sylfaenol ac entrepreneuriaeth. Gwyddom fod cryn dipyn o amddifadedd a thlodi yn yr ardaloedd hyn, ac nid yw'r pandemig wedi helpu yn hynny o beth.

Disgwylir i Raglen Tasglu'r Cymoedd ddod i ben ym mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, oherwydd effeithiau COVID-19 ar rai o'r prif gynlluniau cyfalaf, ni chyflawnir gwariant i roi'r Cynllun Grant Tai Gwag ar waith yn ei holl ffyrdd cymeradwy. Mae'r dyraniad o £9m yn 2021-22 yn sicrhau bod cannoedd o gartrefi yn cael eu hailddefnyddio ledled Cymoedd De Cymru. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd i unigolion a theuluoedd ailwampio eu cartrefi eu hunain, eu gwneud yn fwy ynni effeithlon a thrwy hynny gyfrannu at y targedau carbon cyffredinol, a hefyd am ein bod yn annog defnyddio cwmnïau bach lleol i wneud y gwaith adfer, mae hefyd yn helpu'r economi sylfaenol leol.

Mae'r Rhaglen Mynediad wedi bod yn cynorthwyo unigolion yn Ardal Tasglu'r Cymoedd ers 3 blynedd ar ffurf beilot. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn unol â ffocws newydd Tasglu'r Cymoedd, a gall nawr ehangu'r arlwy o dan frand hirsefydledig ReAct a'i gynnig ledled Cymru ar adeg mor dyngedfennol i'r economi. Ni fydd y newid yn rhoi neb dan anfantais, yn wir mae'n gwella rôl ReAct fel Rhaglen Cyflogadwyedd allweddol.

Ar hyn o bryd, o fewn menter Cymoedd Technoleg, mae nifer bach o brosiectau seilwaith o bwys ar gamau datblygu amrywiol, gan gynnwys prosiectau ym mharc Cyflogaeth Lime Avenue ac ar Ystad Ddiwydiannol Rassau.

6.14 Cymorth ar gyfer Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial

Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cydnabod bod mwy o fusnesau a chyrff gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud defnydd cynyddol o dechnolegau digidol wrth ddarparu eu gwasanaethau ond bod angen i’r newid hwnnw ddigwydd yn gyflymach. Mae awtomeiddio a digidoleiddio ymhlith y ffactorau allweddol sy’n ysgogi cystadleurwydd a chynhyrchiant ac rydym yn gweithio gyda busnesau i gynyddu a chefnogi eu buddsoddiad mewn gweithgarwch o’r fath drwy’r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Ers ei lansio ym mis Mai 2018, drwy Gronfa Dyfodol yr Economi, rydym wedi cefnogi 159 o brosiectau gwerth dros £18.3m drwy’r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Bydd trawsnewid digidol yn chwarae rhan hollbwysig yn y ffordd y mae Cymru yn adfer ei hun ac yn ail-greu ei heconomi. Felly, rydym yn awyddus i gynnwys

digideiddio ym mhob rhaglen a maes cyflawni. O safbwynt dysgu seiliedig ar waith, rydym yn parhau i ehangu ein harlwy er mwyn cynnwys rolau digidol newydd, ac mae Prentisiaethau Gradd bellach i'w gweld mewn nifer o feysydd digidol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu llwybrau pellach ac i gynnig cyfleoedd newydd i recriwtio drwy'r llwybr Prentisiaethau. Mae ein Cyfrifon Dysgu Personol (CDP) hefyd yn darparu llwybr i unigolion ddysgu sgiliau newydd mewn meysydd newydd; gan gynnig y dull hyblyg wedi'i deilwra a ragwelwyd gan adroddiad yr Athro Phil Brown Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith. Caiff CDPau eu cefnogi gan y gwasanaethau gyrfaoedd a chyngor a ddarperir drwy Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru.

Er mwyn ategu hyn, rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o raglenni cymorth sgiliau i ddiwallu anghenion uniongyrchol cyflogwyr, fel Rhaglen Sgiliau Hyblyg Cymru. Lle roeddem o'r farn bod angen ymateb annibynnol, cyflwynwyd ein prosiect cymorth Sgiliau Digidol Uwch ynghyd â'r rhaglen DigiTALent a lansiwyd yn ddiweddar, er mwyn rhoi cymorth i fusnesau sy'n awyddus i ddatblygu eu gallu a'u hadnoddau ym mhob maes o'r sbectrwm digidol. Mae rhaglen DigiTALent yn cynnig elfen newydd i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg wedi'i hanelu at annog cyflogwyr i recriwtio unigolyn â gradd TG/Cyfrifiadureg/Digidol.

Yn ogystal â'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu o fewn ei chyllidebau, rydym yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith ar lefel y DU drwy sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol ym maes ymchwil ac arloesedd yn ategu cryfderau academia a chymunedau busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth sydd ei hangen gan gyllidwyr yn y DU ar gyfer y Cyflymydd Cenedl Ddata (DNA) arfaethedig; sef cynnig ar y cyd o dan arweiniad Prifysgolion Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor i gynyddu gallu Cymru i ymateb i heriau Deallusrwydd Artiffisial a Gwyddor Data yn y dyfodol i'r eithaf.

6.15 Gwariant Ataliol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae ein hymyriadau ar draws y portffolio Economi a Thrafnidiaeth yn defnyddio ymyrraeth sylfaenol, gan adeiladu cydnerthedd a chreu’r amodau i atal problemau yn y dyfodol. Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a’r Cynllun Cyflogadwyedd yn seiliedig ar dystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw’r llwybr gorau allan o dlodi a’r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi i’r rhai sy’n wynebu risg. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o’r heriau sy’n wynebu pobl wrth iddynt geisio cael swyddi, rydym yn ceisio lleihau’r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn profi tlodi ac osgoi costau hirdymor tlodi i’r gymdeithas. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy fentrau a buddsoddiad wedi’i dargedu ledled Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac arbenigwyr amrywiol i asesu'r ffordd rydym yn mynd i’r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn drawsgydweithredol ac wedi’i strwythuro ar sail saith o’r deuddeg amcan llesiant:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg;
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd;
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes;
- Grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid;
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig;

- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae hefyd yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio. Mae'r meysydd gweithredu a'r contract economaidd yn herio'r Llywodraeth a busnesau i edrych ar fuddsoddiadau yn y dyfodol yn nhermau'r cyfraniad y byddant yn ei wneud i arloesedd ac entrepreneuriaeth, ymchwil a datblygu ac awtomeiddio, allforion a masnach, cyflogaeth a sgiliau o ansawdd uchel, a datgarboneiddio. Dyma rai o'r heriau strategol allweddol y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau twf heddiw, yn ogystal â diogelu'r twf hwnnw yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau yn yr hirdymor.

7.0 TRAFNIDIAETH - CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

Er mwyn cefnogi'r uchelgais o seilwaith modern a chysylltiedig, ceir cyfanswm cyllid trafnidiaeth o £1.23bn yn 2021-22. Mae'r cyllid adnoddau, sef £535.127m, yn cynnwys cynnydd o £18.6m. Mae hyn yn cynrychioli cyllid COVID-19 penodol mewn perthynas â chymorth bysiau ar gyfer chwarter cyntaf 2021-22 er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r sector yn ystod y cyfnod lle mae cyfyngiadau yn debygol o barhau ac er mwyn rhoi hyder i'r sector.

Mae'r dyraniad cyfalaf o £694.981m yn cefnogi trefniadau i barhau â'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol presennol yn ogystal â gosod y sylfeini ar gyfer y ddogfen gyflenwi a fydd yn dilyn y cynllun hwnnw a gaiff ei llunio yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Fodd bynnag, mae angen blaenoriaethu gweithgarwch a rheoli cyllidebau o hyd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau sy'n rhan o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy.

Ceir crynodeb o'r gyllideb trafnidiaeth yn y tabl isod:

Trafnidiaeth	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22**	**Newid £'000**	**Newid %**
Refeniw	327,836	346,436	18,600	6%
Heb Fod yn Arian Parod	188,691	188,691	0	0%
Cyfanswm yr Adnoddau	**516,527**	**535,127**	**18,600**	**3%**

Trafnidiaeth	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000**	**Newid £'000**	**Llinell Sylfaen Newid %**
Cyfalaf Traddodiadol	597,952	397,650	681,827	284,177	71%
Cyllid Trafodiadau Ariannol	12,300	0	13,154	13,154	0%
CYFANSWM	**610,252**	**397,650**	**694,981**	**297,331**	**75%**

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

7.1 Camau Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd a Ffyrdd Domestig

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22	Newid £'000	Newid %
Rheoli Asedau'r Rhwydwaith	5,686	5,686	0	0%
Gweithrediadau'r Rhwydwaith	65,298	65,298	0	0%
Is-gyfanswm	**70,984**	**70,984**	**0**	**0%**
Heb Fod yn Arian Parod				
Gweithrediadau'r Rhwydwaith	188,691	188,691	0	0%
Cyfanswm Refeniw	**259,675**	**259,675**	**0**	**0%**

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol					
Gweithrediadau'r Rhwydwaith	81,579	82,000	96,497	14,918	18%
CYFANSWM	**81,579**	**82,000**	**96,497**	**14,918**	**18%**

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd diogel a dibynadwy yn erbyn ased gwerth £17 biliwn. Gan gydnabod pwysigrwydd gwaith rheoli, cynnal a chadw a gwella parhaus, ceir dyraniad cyfalaf ychwanegol o £14.918m. Caiff cyllidebau cynnal a chadw eu monitro'n gyson i sicrhau ein bod yn ymateb i waith adweithiol ac yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf lle mae eu hangen fwyaf. Ceir rhagor o fanylion yn adran 8.7.

Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf a ddarperir o dan y cam gweithredu hwn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau mawr i'r rhwydwaith presennol a chynlluniau ffyrdd mawr, sy'n ychwanegu at y rhwydwaith, ei ddarparu fel rhan o'r cyllid cyfalaf o dan y Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr, sy'n ymwneud â datblygu a darparu seilwaith ffyrdd.

7.2 Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22	Newid £'000	Newid %

Hedfanaeth	5,605	5,605	0	0%
Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol	650	650	0	0%
Gwasanaethau Rheilffyrdd Ategol	850	850	0	0%
Trafnidiaeth Cymru	185,400	185,400	0	0%
Cyfanswm Refeniw	**192,505**	**192,505**	**0**	**0%**

BEL	**Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000**	**Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000**	**Newid £'000**	**Llinell Sylfaen Newid %**
Cyfalaf Traddodiadol					
Hedfanaeth	2,000	2,000	2,000	0	0%
Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol	149,223	128,100	128,100	0	0%
Trafnidiaeth Cymru	206,299	25,000	274,680	249,680	999%
Is-gyfanswm	**357,522**	**155,100**	**404,780**	**249,680**	**19%**
Trafodiadau Ariannol					
Hedfanaeth	4,800	0	3,154	3,154	100%
Is-gyfanswm	**4,800**	**0**	**3,154**	**3,154**	**100%**
CYFANSWM	**362,322**	**155,100**	**407,934**	**252,834**	**163%**

Mae'r gyllideb refeniw Hedfanaeth o £5.605m yn cynnwys gweithgareddau dros dro fel y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru, ystyried llwybrau Rhwymedigaethau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSO) eraill posibl a rheoli a chynnal a chadw Sain Tathan a'i faes awyr. Mae £2m o gyfalaf cyffredinol ar gael ar gyfer gwaith seilwaith ym Mro Tathan. Caiff proffil y gallu i dynnu arian ar gyfer y cyfleuster benthyciadau o ran buddsoddiadau parhaus ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ei adlewyrchu yn y gyllideb – cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £3.154m (2020-21 £4.8m).

Caiff cyfanswm cyllideb Trafnidiaeth Cymru, sef £460.080m, ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer prosiect y Metro a phrosiectau rheilffordd. Ceir gwybodaeth fanylach am y Fasnachfraint Rheilffyrdd, Rhaglen Trawsnewid Metro De Cymru a phrosiectau rheilffordd eraill yn adran 8.3 ac 8.4.

Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol, sef £0.650m, yn cefnogi gwaith cynllunio a gweithgareddau dichonoldeb ar gyfer prosiectau a ddaw'n brosiectau cyfalaf, ac mae £121.8m ar gael yn 2021-22. Ceir rhagor o fanylion ar gynlluniau cyfalaf sy'n bodoli eisoes yn adran 8.7.

7.3 Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Cymorth Bysiau	32,005	50,605	18,600	58%
Cardiau Clyfar	1,466	1,466	0	0%
Tocynnau Teithio Rhatach	23,482	23,482	0	0%
Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc	2,000	2,000	0	0%
Teithio Cynaliadwy a Llesol	630	630	0	0%
Cyfanswm Refeniw	**59,583**	**78,183**	**18,600**	**31%**

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol					
Cardiau Clyfar	1,000	1,000	1,000	0	0%
Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol	31,150	51,000	51,000	0	0%
Tocynnau Teithio Rhatach	36,651	37,000	37,000	0	0%
Teithio Cynaliadwy a Llesol	83,150	64,650	84,650	20,000	31%
Is-gyfanswm	**151,951**	**153,650**	**173,650**	**20,000**	**13%**
Trafodiadau Ariannol					
Teithio Cynaliadwy a Llesol	7,500	0	10,000	10,000	100%
Is-gyfanswm	**7,500**	**0**	**10,000**	**10,000**	**100%**
CYFANSWM	**159,451**	**153,650**	**183,650**	**30,000**	**20%**

Mae bysiau yn chwarae rhan ganolog wrth gysylltu pobl a chymunedau ledled Cymru a darparu mynediad i wasanaethau allweddol. Yn 2020-21, gwnaethom ddyrannu hyd at £140m gan gydnabod effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r gostyngiad amlwg yn nifer y bobl a oedd yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn y diwydiant bysiau. Yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd parhaus, bydd £18.6m ychwanegol yn rhoi sefydlogrwydd i weithredwyr bysiau barhau i weithredu gwasanaethau effeithlon yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn ariannu adolygiad i'r ffordd y mae gwasanaethau bysiau yn cael eu gweithredu er mwyn i ni allu diogelu ac yna ddiwygio'r diwydiant er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru ac ymateb i'r heriau parhaus yn deillio o COVID-19.

Darparwyd £62m i ddiogelu cyllidebau'r cynlluniau tocynnau teithio rhatach a thocynnau teithio rhatach i bobl ifanc, gan gydnabod y rhan bwysig sydd gan drafnidiaeth gyhoeddus i'w chwarae. Ynghyd â chyfraniadau'r Awdurdodau Lleol eu hunain at y cynllun tocynnau teithio rhatach, ystyrir bod yr amlen gyllido gyffredinol (refeniw a chyfalaf) yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdodau Lleol ar sail yr egwyddor 'dim gwell, dim gwaeth' a'r galw a ragwelir.

Mae'r dyraniad ar gyfer Teithio Llesol wedi cynyddu o £30m i £50m. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 8.8 isod.

Er mwyn adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed i ddatgarboneiddio ein fflyd trafnidiaeth gyhoeddus a gwella ein seilwaith gwefru, bydd dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £10m yn arwain at gyfanswm buddsoddiad o £38m yn 2021-22. Dylid nodi mai £29m a ddyrannwyd yn 2020-21 – cyfalaf trafodiadau ariannol o £7.5m a chyfalaf craidd o £21.5m.

7.4 Cam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

BEL	Cyllideb 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Diogelwch ar y Ffyrdd	4,764	4,764	0	0%
Cyfanswm Refeniw	**4,764**	**4,764**	**0**	**0%**

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Llinell Sylfaen 2021-22 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Llinell Sylfaen Newid %
Cyfalaf Traddodiadol					
Diogelwch ar y Ffyrdd	6,900	6,900	6,900	0	0%
CYFANSWM	**6,900**	**6,900**	**6,900**	**0**	**0%**

Mae'r cyllidebau diogelwch ar y ffyrdd wedi cael eu cadw ar y lefelau arfaethedig. Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi ein targedau diogelwch.

Mae cyllid refeniw yn ein helpu i gyllido partneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac ymgysylltu â nhw er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd, gan ddefnyddio'r strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r gyllideb gyfalaf yn cefnogi gwelliannau peirianneg i'r rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.

8.0 TRAFNIDIAETH - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

8.1 Ymateb i Bandemig y Coronafeirws

O ganlyniad i COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol, gwelwyd gostyngiad sydyn a difrifol digynsail yn nifer y bobl a oedd yn teithio ar fysiau gan ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ei dro, arweiniodd y gostyngiad hwn at golledion a oedd yn cyfateb, fwy neu lai, i'r holl refeniw tocynnau. Drwy'r flwyddyn gyfredol, bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu hyd at ryw £200m o gyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus (rheilffyrdd a bysiau),

yn gyntaf drwy gynnal rhwydwaith sgerbwd i gefnogi teithiau hanfodol yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf ac wedyn i gynyddu gwasanaethau er mwyn cefnogi'r trefniadau ar gyfer ailagor ysgolion a'r economi ehangach. Roedd angen rheoli'r holl drefniadau hyn gan fodloni gofynion caeth ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a oedd yn cyfyngu ar gapasiti cerbydau o ran nifer y teithwyr. . Diwygiwyd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn adlewyrchu'r realiti masnachol newydd ac er mwyn sicrhau'r buddiannau a'r canlyniadau gorau posibl yn gyfnewid am y lefel uwch o gyllid a ddarparwyd gennym.

Yn ogystal â diwallu anghenion byrdymor brys, mae'r cytundeb sy'n sail i'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau (BES) yn cynnig cyfle i ddechrau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus er mwyn gallu ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru, gan gefnogi'r broses reoli a rhyngweithio ar draws mathau o drafnidiaeth, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, rhwydwaith cyfeirio sy'n cyflawni amcanion ehangach, a threfniadau amserlennu cydgysylltiedig ar draws mathau o drafnidiaeth.

Yn y Gyllideb Ddrafft, caiff £18.6m ei ddyrannu i roi cymorth ychwanegol i'r diwydiant bysiau gan roi rhywfaint o sicrwydd ariannol yn ystod chwarter cyntaf 2021-22. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol, mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn digolledu colledion refeniw wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol barhau, ond caiff y sefyllfa hon ei monitro wrth i 2021-22 fynd rhagddi. Mae rhagweld y gofyniad cyllido hwn yn heriol o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfyngiadau yn y dyfodol, gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac awydd y cyhoedd i ddychwelyd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

8.2 Dyraniadau Brexit

Daw'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r UE o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, gan ddibynnu a geir cytundeb masnach ai peidio, a faint o darfu a geir mewn porthladdoedd a chyfnod y tarfu hwn, mae'n bosibl y bydd costau pellach wrth symud i mewn i flwyddyn ariannol 2021-22. Rydym wrthi'n ystyried y costau hyn ar hyn o bryd a, lle y bo'n briodol, byddant yn rhan o drafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ac yn rhan o ddyraniadau cyllidebol yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i roi mesurau priodol ar waith i baratoi ar gyfer canlyniadau diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys cynllunio ar gyfer yr effeithiau posibl y gallai gwiriadau tollau ym mhorthladdoedd Iweddon eu cael ar y rhwydwaith trafnidiaeth.

Rydym yn trafod â Llywodraeth y DU a fydd cyllid ychwanegol ar gael i gydnabod yr effeithiau anghymesur y mae Cymru yn eu hwynebu yn ein porthladdoedd ar ddiwedd y cyfnod pontio. Rydym eisoes wedi cyhoeddi bod amgylchiadau wedi ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu gwrthlif ar yr A55 o 1 Ionawr. Er y byddwn yn adolygu'r ymyriad hwnnw yn barhaus ac yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl gan gadw costau mor isel â phosibl drwy gael gwared ar y system pan na fydd ei hangen mwyach, mae'n rhaid i ni baratoi ar gyfer y rhagdybiaethau achos gwaethaf rhesymol sydd gennym. Fodd bynnag, mae'n amhosibl asesu hyd a lled y tarfu y bydd diwedd y cyfnod pontio yn ei achosi, a bydd angen i ni reoli unrhyw effeithiau parhaus drwy gydol 2021 wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Rydym bob amser wedi nodi'n glir y bydd ein gallu i ddarparu'r un lefelau o fuddsoddiad seilwaith a welwyd yng Nghymru fel rhan o'r UE yn dibynnu ar gael cadarnhad y bydd Llywodraeth y DU yn cadw ei hymrwymiad i beidio â newid ei safbwynt ar ddatganoli ac na fydd Cymru geiniog yn dlotach ar ôl gadael yr UE. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r diffyg sicrwydd parhaus ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn peri pryder mawr o hyd, ac yn fygythiad sylweddol i Gymru.

8.3 Masnachfraint Rheilffyrdd a Gweithredu'r Metros

Yn gyffredinol, ceir buddsoddiad sylweddol mewn rheilffyrdd a darparwyd £250m ychwanegol uwchben y llinell sylfaen yn 2020-21.

Masnachfraint Rheilffyrdd

Yng nghyhoeddiad mis Hydref, oherwydd effeithiau COVID-19, ac er mwyn diogelu gwasanaethau a swyddi a gweithredu'r Metro, nodwyd y byddai Masnachfraint rheilffyrdd bresennol Rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn pontio drwy gytundeb wedi'i reoli i reolaeth gyhoeddus.
Nid yw'r gyllideb derfynol ar gyfer costau gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd (o ystyried effaith barhaus COVID-19 ar refeniw teithwyr) wedi'i phennu eto. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd galw ychwanegol sylweddol ar gyllid refeniw, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Yn 2020-21, o dan y Cytundeb Rheoli Brys, rhyddhawyd £153m o gyllid refeniw ychwanegol yn ogystal â'r cymhorthdal llinell sylfaen o £167m.

O fis Chwefror 2021, is-gwmni newydd o Trafnidiaeth Cymru sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus fydd yn gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd beunyddiol, gan alluogi'r llywodraeth i chwarae rhan hyd yn oed yn fwy yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau.

Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnal cymorth refeniw ar gyfer gweithredu gweithrediadau rheilffordd a threfniadau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rheoli'r gweithrediadau hynny ar lefel o £185.4m, sef y lefel cyn y pandemig. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod effaith ddifrifol ar allu i weithredu gwasanaethau a/neu lefel y cymhorthdal sydd ei hangen, gan ddibynnu i ba raddau y bydd niferoedd teithwyr yn cynyddu yn ystod y misoedd nesaf.

Mae Trafnidiaeth Cymru a swyddogion yn ymgymryd ag ymarfer i ddatblygu opsiynau i sicrhau mesurau arbedion costau er mwyn ceisio lleihau'r gost weithredu llinell sylfaen os daw'r pwysau refeniw hwn i'r amlwg. Bydd yr ymarfer hwn yn destun adolygiad annibynnol a bydd canlyniad y gwaith hwnnw ar gael y gwanwyn nesaf er mwyn llywio penderfyniadau ar y gyllideb ar gyfer y dyfodol.

Bydd cynnal gwasanaethau rheilffyrdd o fudd i'r rheini sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn parhau i gynnig mynediad at swyddi, gwasanaethau iechyd, addysg a hamdden. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn hanfodol i lawer o weithwyr allweddol sydd wedi'u cyflogi yn y sectorau hyn.

Metro Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i roi'r weledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru ar waith. Mae'r gyllideb o £25m wedi'i chynnwys yn y llinell sylfaen fel y gellir parhau i fuddsoddi ym mhob math o drafnidiaeth i ddarparu'r system drafnidiaeth integredig, fodern o ansawdd uchel sydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion o ran cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd a sicrhau twf economaidd ledled y rhanbarth, gan gysylltu pobl â swyddi a gwasanaethau a chysylltu busnesau â marchnadoedd. Atodir dolen i'r datganiad diweddaraf ar Fetro Gogledd Cymru: https://llyw.cymru/cynlluniau-metror-gogledd-yn-elwa-ar-ragor-na-11-miliwn

Metro De-orllewin Cymru

O ran y rhaglen rheilffyrdd, mae'r ymyriadau canlynol yn mynd rhagddynt:

- **Gwelliannau i Brif Linell Reilffordd y De** – Yn gryno, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar wella amlder ar y llinell hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau rhwng Caerdydd, Abertawe a Chaerfyrddin. Rydym hefyd yn ystyried gwelliannau i'r gwasanaeth i Aberdaugleddau.

- **Gwasanaethau a Gwelliannau Lleol** – Gwella gorsafoedd; cynigion ar gyfer Parcffordd a gwelliannau tactegol i Brif Linell Reilffordd y De er mwyn hwyluso gwasanaethau rheilffordd lleol.

- **Metro Ardal Bae Abertawe –** Yn ei hanfod, mae'r gwaith hwn yn cynnwys dau faes ar hyn o bryd, ond mae mwy o flaenoriaethau yr ystyrir eu bod yn flaenoriaethau is i'w profi yn ystod y blynyddoedd nesaf:
    - Llinell Dosbarth Abertawe – cyfres o orsafoedd newydd i'w sefydlu ar Linell Dosbarth Abertawe rhwng Pontarddulais, Castell-nedd a Stryd Fawr Abertawe er mwyn darparu gwasanaeth cymudo lleol ar gyfer gogledd Abertawe; gan gynnwys ystyried ailagor gorsaf Glandŵr. Tybir y bydd tri thrên yr awr.
    - Porth Tywyn i Abertawe – Tybir y bydd tri thrên yr awr rhwng Porth Tywyn a phob gorsaf i Orsaf Stryd Fawr Abertawe (gan gynnwys ystyried ailagor gorsaf Cocyd).

Mae bysiau hefyd yn rhan annatod o'r ateb. Mae cynllun Ailddylunio'r Rhwydwaith Bysiau yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol i ddechrau, ond gan ehangu i'r Gweithredwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yr ymarfer hwn yn defnyddio dull egwyddorion cyntaf wrth gynllunio'r rhwydwaith ar gyfer bysiau sy'n cynnig trafnidiaeth gyhoeddus. Y nod yn y pen draw fydd cyflawni gwell effeithlonrwydd, amseroedd teithio cyflymach ac amlderau uchel. Mae Treial Bysiau Fflecsi Sir Benfro yn gweithredu ar hyn o bryd yng Ngogledd Sir Benfro fel treial gwasanaeth Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw.

Metro De-ddwyrain Cymru

Mae rhaglen Trawsnewid Metro Llinell Graidd Cymoedd De-ddwyrain Cymru yn mynd rhagddi ar ôl trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru yn llwyddiannus ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Dechreuodd y gwaith cyfalaf cyntaf ym mis Awst 2020 gan ganolbwyntio ar glirio llystyfiant a chwblhawyd y cam cyntaf o waith ailalinio'r cledrau yn llwyddiannus ym mis Tachwedd i ymgymryd â gwaith clirio er mwyn gosod cyfarpar trydaneiddio.

Yn 2021-22, bydd y rhaglen yn cyflymu a chynhelir gwaith cyfalaf sylweddol ar Linellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr yn benodol. Bydd angen trefniadau rheoledig ar gyfer atal rhannau o'r llinell er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn.

8.4 Blaenoriaethau ar gyfer y Seilwaith Rheilffyrdd

Ar gyfer 2021-22, bydd y prif ffocws ar weithredu a pharhau i ddatblygu amrywiol gynlluniau'r Metro. Yn ogystal â'r ffocws hwn, byddwn hefyd yn anelu at weithio gyda Llywodraeth y DU ac at ddylanwadu arni i fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd ehangach drwy Network Rail. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo gwelliannau i orsafoedd ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau, gorsafoedd newydd a gwelliannau seilwaith eraill er mwyn helpu i redeg gwasanaethau mewn ffordd ddidrafferth a dibynadwy.

8.5 Trafnidiaeth Cymru

Mae cyllidebau corfforaethol Trafnidiaeth Cymru yn gymhleth oherwydd natur ddatblygiadol ei rôl gan gynnwys y cynigion diweddar ar sut y caiff gwasanaethau rheilffyrdd eu darparu yng Nghymru yn y dyfodol. Ni chytunwyd ar gylch gwaith a chyllideb lawn Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 2021-22 eto, ond unwaith y ceir cytundeb yn hynny o beth, dyna fydd sail ei Gynllun Busnes Terfynol ar gyfer 2021-22.

Mae'r gyllideb ddrafft hon yn dangos dyraniadau penodol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru o ran refeniw a chyfalaf. Mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu ei gyllid 'craidd' ar gyfer cyflawni ei brif swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiectau seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys y taliadau 'pasio drwodd' y mae'n eu gwneud ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y costau corfforaethol hynny na all eu dyrannu allan yn rhesymol yn erbyn gweithgarwch prosiectau/rhaglenni penodol. Caiff y mwyafrif o'r costau hyn eu dyrannu allan gan Trafnidiaeth Cymru yn erbyn llinellau cyllideb/prosiect penodol ar sail costio gorbenion/amsugno.

Yn ogystal â'r cyllid 'craidd' hwn, bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn derbyn dyraniadau o linellau eraill yn y gyllideb gan ddibynnu ar yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y pen draw yn ei gylch gwaith a'r cyllid a fydd ar gael i gyflawni'r gweithgareddau hynny. Er enghraifft, mae Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rhan sylweddol ar hyn o bryd yn y rhaglen diwygio bysiau a'r bwriad yw y bydd yn gyfrifol am reoli cyllid grant teithio llesol i drydydd partïon. Bydd angen adlewyrchu pob un ohonynt yn y llythyr cylch gwaith terfynol a'r dyraniad cyllid.

Yn 2020-21, rhagwelir y bydd costau corfforaethol amcangyfrifedig Trafnidiaeth Cymru oddeutu £16m.

Gellir gweld rhagor o fanylion am Trafnidiaeth Cymru ar ei wefan yn https://trc.cymru/.

8.6 Comisiwn Trafnidiaeth De Cymru

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Arglwydd Burns ar 26 Tachwedd, gan nodi cyfres uchelgeisiol o gynigion ar gyfer rhwydwaith o fesurau Trafnidiaeth Gyhoeddus a Theithio Llesol ar gyfer y rhanbarth. Ymatebodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i Adroddiad y Comisiwn.

Mae cynigion y Comisiwn yn gydnaws â'r drafft o Llwybr Newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, a gallent greu dewisiadau amgen cystadleuol i geir preifat, yn enwedig i gymudwyr, a chael effaith sylweddol ar dagfeydd ar draffyrdd.

Mae rhai o'r cynigion hyn o fewn ein cymhwysedd datganoledig, ond nid yw eraill. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i drafod y ffordd orau o weithredu'r argymhellion ar gyfer gwella Prif Linell De Cymru ac agor gorsafoedd newydd arni. Yn lleol, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol lle mae argymhellion y Comisiwn yn gofyn am drefniadau cydweithio er mwyn rhoi newidiadau ar waith mewn trefi a dinasoedd a fydd o fudd i breswylwyr lleol a defnyddwyr y rhwydwaith ffyrdd strategol.

Lle bo angen cyllid gan Lywodraeth Cymru, bydd angen dyraniadau cyllidebol ychwanegol, a bydd yn rhaid i'r argymhellion wrth gwrs fodloni'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a dangos gwerth am arian cyn y gwneir penderfyniadau buddsoddi. Mae swyddogion bellach wrthi'n ystyried yr argymhellion er mwyn llywio'r camau nesaf.

8.7 Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

Rheoli'r Rhwydwaith

Mae gan asedau cefnffyrdd, priffyrdd a thraffyrdd gost adnewyddu dibrisiedig o ryw £17 biliwn, sef yr ased unigol mwyaf ar fantolen Llywodraeth Cymru, a chânt eu harolygu, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n barhaus. Cafodd £161.795m ei ddyrannu at y diben hwn yn 2021-22. Mae'r gyllideb refeniw yn ariannu rhaglen o waith cynnal a chadw ac arolygu cyffredin flynyddol sy'n sicrhau diogelwch y rhwydwaith o ddydd i ddydd, ac mae cyllideb gyfalaf yn ariannu rhaglenni cynnal a chadw mawr blynyddol i ddiogelu i uniondeb hirdymor a gwelliannau bach a chanolig eu maint. Mae cynaliadwyedd yn egwyddor allweddol.

Mae'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â gweithredu, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cefnogi tua 800 o gyflogeion yn y sector adeiladu. Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff rhaglenni cynnal a chadw eu datblygu yn unol â'r egwyddor o ddewis yr "ymyriad cywir ar yr adeg gywir" er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar oes gwasanaeth asedau a lleihau amlder a maint gweithrediadau cynnal a chadw. Mae hyn yn lleihau ôl troed carbon y rhwydwaith ac achosion o darfu ar brofiad defnyddwyr ffyrdd ac yn darparu'r gwerth gorau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r ffocws ar ehangu gwasanaetholdeb deunydd gosod wyneb presennol gan ddefnyddio triniaethau wyneb arloesol a'u hadnewyddu lle y bo angen gan ddefnyddio deunyddiau newydd ag oes gwasanaeth hwy, o ffynonellau lleol er mwyn lleihau eu heffaith garbon yn sylweddol.

Caiff deunyddiau gosod wyneb tawelach, ynghyd â rhwystrau sy'n ystyriol o'r amgylchedd, hefyd eu defnyddio er mwyn lleihau sŵn i bobl sy'n byw yn agos at y rhwydwaith. Nododd Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd Cymru 2018-23 200 o Ddarpar Ardaloedd â Blaenoriaeth â lefelau sŵn dros 73db lle roedd angen camau lliniaru sŵn o'r fath. Rydym yn llwyddo i gydymffurfio â lefelau terfyn yr UE ar gyfer NO_2 ar safleoedd ledled y rhwydwaith lle ceir gormodiant drwy gyflwyno

terfynau cyflymder o 50mya wedi'u hategu gan seilwaith gorfodi cyflymder cyfartalog.

Mae'r ymylon a'r ardaloedd wedi'u plannu gerllaw'r rhwydwaith yn darparu cynefinoedd gwerthfawr i blanhigion a bywyd gwyllt a chânt eu rheoli mewn ffordd sensitif sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae "Coridorau Gwyrdd" wedi'u hanelu at wella gwaith plannu ar hyd llwybrau sy'n gweithredu fel pyrth i mewn i Gymru. Ceir coed ynn brodorol ar hyd y rhwydwaith a bydd ymdrin â chlefyd (Chalara) coed ynn, gan blannu rhywogaethau amgen iach yn eu lle, yn her sylweddol dros y cyfnod o 5 i 10 mlynedd nesaf a bydd yn costio £50m.

Mae astudiaethau Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ar goridorau pwysig ar draws y rhwydwaith wedi nodi piblinell o ymyriadau penodol hynod o gosteffeithiol i fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir problemau tagfeydd yn y Gogledd a'r De a chyfleoedd goddiweddyd diogel er mwyn gwella cysylltedd a chefnogi datblygiad economaidd yn y Canolbarth.

Dechreuodd y gwaith i adeiladu'r cynllun mannau cul cyntaf, ar gyffordd yr A470 â'r A55 yng Nglan Conwy yn ystod yr haf a bydd gwelliannau i gyffordd 48 Hendy yr M4 yn dechrau y mis Ionawr hwn. Bydd gwaith adeiladu ar y cynlluniau cyfleoedd goddiweddyd cyntaf yn dechrau yn 2021-22 ar hyd coridorau'r A470 a'r A487. Mae prosiect cydnerthedd yr A55 eisoes wedi sicrhau manteision cyflym a mesurau byrdymor sydd eu mawr angen, yn enwedig ym maes diogelwch, gan gynnwys camerâu cyflymder cyfartalog ar Allt Rhuallt. Mae mwy o fesurau tymor canolig a hirdymor yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a chânt eu rhoi ar waith o ddiwedd 2020-21 ymlaen.

Cwblhawyd yr adolygiad diweddaraf o Derfynau Cyflymder a diogelwch y rhwydwaith ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Yn seiliedig ar y canlyniadau, caiff rhaglen o welliannau wedi'u blaenoriaethu ei rhoi ar waith yn ystod 2020-21 gyda'r nod o wella diogelwch yn ogystal â lleihau achosion lle y caiff cymunedau eu hollti a hyrwyddo teithio llesol.

Gwaith Seilwaith

Mae gwaith yn parhau ar nifer o gynlluniau eraill o bwysigrwydd strategol, gan gynnwys:

- Ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern a Brynmawr
- Disgwylir i'r gwaith adeiladu ar Adran 2 gael ei gwblhau yn ystod 2021-22.

- Adran 5 a 6 – Dyfarnwyd y contract ym mis Hydref 2020 ac mae'r arolygon ecolegol cyn-dechrau yn mynd rhagddynt.

- A487 Caernarfon Bontnewydd – Disgwylir i'r gwaith ar y ffordd osgoi newydd gael ei gwblhau yn ystod hydref 2021.

- Cyffordd 15 ac 16 yr A55 – bydd gosod trefniadau newydd yn lle'r cylchfannau ar y cyffyrdd yn hwyluso llif traffig ar yr A55 ac yn gwella cydnerthedd y llwybr strategol allweddol hwn. Disgwylir i'r Gorchmynion Drafft gael eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2020.

- A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion – mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau a bydd yn parhau drwy gydol 2021-22.

- A55/A494 Gwella Coridor Sir y Fflint – Y bwriad yw penodi ymgynghorwyr yn ystod gwanwyn 2021. Wedyn, bydd y prosiect yn symud i'r cam datblygu dyluniad drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a chynhelir amrywiaeth o arolygon amgylcheddol ac ymchwiliadau tir. .

- A40 Gorllewin Cymru – daeth ymchwiliadau cyhoeddus ar gyfer gwella'r ddau gynllun i ben yn 2020-21. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod 2021-22.

- Pont Dyfi – Gall y gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith pan gaiff y contract ei ddyfarnu. Disgwylir i hynny ddigwydd yn fuan.

Mae'r holl weithgareddau hyn wedi'u rhaglennu a chânt eu rheoli o fewn y cyllidebau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'r holl wariant yn destun pwysau a risgiau chwyddiant a reolir gennym drwy gynnwys tuedd risg ac optimistiaeth a rhagdybiaethau/adolygiadau rhagamcanu clir fel rhan o bob prosiect. Yn achos prosiectau adeiladu, gwneir hyn yn aml yn ystod y camau datblygu a chyflawni allweddol. Mae'r contractau hefyd yn cynnwys mynegeion chwyddiant adeiladu (sy'n cynnwys cost deunyddiau a llafur).

8.8 Cyflawni'r Polisi Teithio Llesol

Mae parhau â'r Gronfa Teithio Llesol y tu hwnt i'w chyfnod cychwynnol o dair blynedd yn rhoi blaenoriaeth i drefniadau i alluogi teithiau cerdded a beicio byr fel mathau o deithio â buddiannau iechyd sylweddol nad ydynt yn creu unrhyw allyriadau carbon. Mae hyn yn cydnabod bod cynyddu teithio llesol yn rhan bwysig o'n hymdrechion i symud o ddefnyddio ceir preifat fel yr unig fodd ar gyfer teithiau byrrach a chanolig ac ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach. .

Bydd awdurdodau lleol yn diweddaru ac yn diwygio eu mapiau o'r rhwydwaith teithio llesol yn 2021-22, gyda rhestrau o gynlluniau â blaenoriaeth. Y mapiau newydd fydd y mapiau cyntaf ers cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru 10 a Strategaeth Drafnidiaeth newydd ddrafft Cymru y mae'r ddau yn cynnwys yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel rhan greiddiol, gyda cherdded a beicio ar frig yr hierarchaeth honno. Bydd y cynlluniau newydd yn cyd-fynd yn agos â gwaith cynllunio defnydd tir a gyda'i gilydd, byddant yn anelu at greu cyfleoedd i leihau'r angen i deithio, pellterau teithio ac amodau da ar gyfer cerdded a beicio.

Ers cyflwyno'r Gronfa Teithio Llesol, rhyddhawyd cyfran sylweddol o'r cyllid (£9m allan o £30m yn ystod y flwyddyn ariannol hon) i bob awdurdod lleol fel dyraniad craidd i ymgymryd â gwelliannau bach ar eu rhwydweithiau heb fod angen cystadlu am gyllid a chynnal cam cyn-gwaith ar gynlluniau mwy cymhleth. Yn ystod y ddwy flynedd ers cyflwyno'r gronfa, cafwyd piblinell cynyddol o gynlluniau uchelgeisiol sydd bellach naill ai'n barod i'w hadeiladu neu'n agos ati. Bydd llawer ohonynt yn gallu trawsnewid dewisiadau teithio llawer o bobl a'u galluogi i gerdded a beicio'n ddiogel lle na fu'n bosibl gwneud hynny o'r blaen.

Nodir y cyllid teithio llesol ar gyfer grantiau trafnidiaeth leol yn y tabl canlynol. Dylid nodi nad yw'r cyllid hwn yn cynnwys gwariant ar gyfer cynlluniau teithio llesol ar gefnffyrdd, na chyllid refeniw:

TABL 5 – Dyraniadau Teithio Llesol – Pob grant cyfalaf ALl 2016-17 i 2020-21					
	2016-17	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**	**2020-21**
Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn Cymru	3,113,150	3,125,165	3,138,631	3,152,879	3,164,215
Y Gronfa Teithio Llesol	0	0	£9,031,092	£31,850,943	£28,999,750
Y Gronfa Trafnidiaeth Leol	£3,985,303	£13,006,475	£11,267,202	£7,303,259	Dd/G
Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau	£4,871,388	£6,535,478	£5,048,314	£5,362,121	£4,141,501
Mesurau Trafnidiaeth Cynaliadwy Lleol (i.r.t.Covid)					£16,205,917
Cyfanswm	**£8,856,691**	**£19,541,953**	**£25,346,608**	**£44,516,323**	**£49,347,168**
Cyfanswm y pen	**£2.84**	**£6.25**	**£8.08**	**£14.12**	**£15.60**

8.9 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Trafnidiaeth Cymunedol a Bysiau, Tocynnau Teithio Rhatach a'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

Cymorth i wasanaethau trafnidiaeth cymunedol a bysiau

Mae gwasanaethau bysiau lleol yn chwarae rhan hollbwysig wrth alluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau allweddol ledled Cymru, ac mae ein dyraniadau drwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn ffynhonnell ategol werthfawr o gyllid sy'n ychwanegol at y cyllid a ddyfernir i awdurdodau lleol drwy setliad blynyddol y Grant Cynnal Refeniw. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadarnhau'r dyraniadau y maent wedi'u gwneud gan ddefnyddio dyfarniadau'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi'r rhwydwaith bysiau er mwyn helpu i lywio fy mhenderfyniadau yn y dyfodol o ran cymorth ar gyfer bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.Gwneir cyhoeddiad maes o law.

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys swm amodol o £25m ar ffurf ein cynllun Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla y cytunwyd arni â'r Gymdeithas Swyddogion Cydlynu Trafnidiaeth (awdurdodau lleol) er mwyn eu helpu i gefnogi'r rhwydweithiau bysiau craidd, strategol yn eu hardaloedd. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi gallu cynnal swm y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau; er gwaethaf rhaglen cyni Llywodraeth y DU ac effaith ein hymateb i COVID-19 ar gyllidebau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r penderfyniadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol o ganlyniad i raglen cyni Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym yn annog awdurdodau lleol i amddiffyn y dyfarniadau dangosol a gânt drwy'r Grant Cynnal

Refeniw er mwyn cefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn eu hardaloedd.

Teithiau bws am ddim

Mae ein cynllun teithiau bws am ddim i bobl hŷn a phobl anabl yn sicrhau bod deiliaid cardiau yn gallu teithio i weithio, gweld ffrindiau a pherthnasau, mynd i'r siop, mynd i apwyntiadau meddygol neu fynd am ddiwrnod allan heb boeni am y gost.

Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol i ad-dalu gweithredwyr bysiau am y teithiau hynny er mwyn sicrhau nad yw'r gweithredwyr hynny ar eu colled nac ar eu hennill. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i'w helpu i gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

Ers i ni gyflwyno'r fenter allweddol hon yn 2002, mae wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae tua 610,000 o gardiau byw heddiw, 120,000 yn llai na 2019-20 yn dilyn ymarfer adnewyddu cynhwysfawr.

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys swm amodol o £60m er mwyn helpu awdurdodau lleol i ad-dalu gweithredwyr bysiau am gludo deiliaid cardiau teithio hŷn neu anabl am ddim, gan gynnwys cost weinyddu, yn seiliedig ar deithiau hanesyddol. Gyda llai o deithiau eleni, dargyfeiriwyd elfen o'r gyllideb tuag at y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau. Mae hyn yn debygol o fod yn wir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond mae'n anodd rhagamcanu'r newid hwn. Caiff y gyllideb amodol ar gyfer 2021-22 ei dyrannu i awdurdodau lleol mewn ymateb i ddata a gesglir sy'n dangos nifer y teithiau am ddim a gaiff eu cwblhau mewn gwirionedd a'r costau gweinyddol cysylltiedig. Dylid nodi y dyrannwyd £18.6m ychwanegol i'r diwydiant ar gyfer 2021-22 er mwyn ystyried effaith COVID-19.

FyNgherdynTeithio

Mae cyllideb ddrafft 2021-22 ar gyfer FyNgherdynTeithio (MTP) yn cynnwys swm amodol o £2m i ddigolledu gweithedwyr bysiau am gludo pobl ifanc 16 i 21 oed am ddisgownt o draean a'r costau gweinyddol cysylltiedig ar gyfer gweithredu'r cynllun. Roedd tua 32,000 o gardiau MTP gweithredol mewn cylchrediad ar ddiwedd mis Hydref 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cynllun MTP gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i deithio ar fysiau am bris rhatach, yn ogystal ag annog pobl ifanc i roi cynnig ar ddefnyddio'r bws ar gyfer mwy o'u teithiau. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu y byddant yn parhau i ddefnyddio bysiau ar gyfer mwy o'u teithiau yn y dyfodol.

Rydym yn adolygu'r potensial i ymestyn cynllun MTP i grwpiau eraill ond mae'n rhaid cofio mai cynllun gwirfoddol yw hwn o hyd gan nad oes deddfwriaeth yn bodoli a fyddai'n ein galluogi i orfodi cwmnïau bysiau i gymryd rhan. Mae'n wir hefyd fod gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cyllid cyhoeddus ychwanegol yn heriol o hyd oherwydd costau cynyddol mewn meysydd eraill wrth ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

8.10 Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol

O dan y llinell yn y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol, mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi'r economi, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn galluogi ac yn gwella dulliau teithio cynaliadwy a llesol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill i sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni a nodi ffynonellau addas eraill o gyllid a fydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys £51m ar gyfer Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol (gan gynnwys y Gronfa Trafnidiaeth Leol). Bydd y cyllid hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol i wneud cais am gyllid ar gyfer cynlluniau sy'n annog dulliau teithio cynaliadwy ac yn lleihau tagfeydd, yn enwedig ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.

8.11 Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth ddiwethaf Cymru (Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl 2008) yn 2008 ac mae llawer wedi newid dros y degawd diwethaf, gan gynnwys datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol; cyhoeddi deddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd tra bod disgwyl y bydd mwy o newidiadau'n digwydd o ganlyniad i Ffyniant i Bawb a diwygiadau i Lywodraeth Leol; cyllid a chydberthnasau ar ôl Brexit; masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau; a datganoli mwy o gyfrifoldebau'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth newydd ddrafft Cymru er mwyn ymgynghori arni, sy'n cydnabod y newidiadau diweddar hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau'r dyfodol. Mae'r Strategaeth yn ymdrin â dwy her allweddol, sef ymateb i'r argyfwng o ran newid yn yr hinsawdd a sut gall y system drafnidiaeth wella yn sgil effaith COVID-19.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn cynnwys Trafnidiaeth Gynaliadwy ac yn cydnabod bod gan Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir prinder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy gyfrwng Cynllun Cyflawni Cenedlaethol pum mlynedd newydd ar gyfer Trafnidiaeth a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol/Rhanbarthol.

Byddwn yn blaenoriaethu cyllid i gefnogi'r fframwaith polisi yn y strategaeth a byddwn yn datblygu targedau modd er mwyn lleihau ein hôl troed carbon. Bydd angen cyllid ychwanegol sylweddol i wneud hynny, yn ychwanegol at y lefelau presennol. Er mwyn cyflawni newid modd uchelgeisiol o 5% o ddefnyddio ceir preifat i ddefnyddio mathau eraill o drafnidiaeth, bydd angen buddsoddiad ychwanegol o £1.8bn ac roedd hynny cyn effaith argyfwng COVID-19.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn derbyn lefel uchel iawn o gymorthdaliadau ar hyn o bryd ac mae lefel y cymorthdaliadau – yn gyfunol ac yn arbennig fesul taith gan deithwyr – wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i COVID-19. Er enghraifft, o ran gwasanaethau rheilffyrdd, dyrannwyd £168m ychwanegol yn 2020-21 er mwyn helpu gwasanaethau rheilffyrdd o ystyried y gostyngiad yn y refeniw sy'n gysylltiedig â'r tocynnau a werthir. Felly bydd cyfanswm y buddsoddiad refeniw mewn rheilffyrdd yn 2020-21 oddeutu £335m. Yn seiliedig ar ragamcan 'isel' parhaus o ran nifer y teithwyr, gallai costau gwasanaethau rheilffyrdd yn unig y

flwyddyn nesaf gyrraedd oddeutu £330-340m eto. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cydnabod y bydd rhywfaint o bwysau gwario ar bortffolios penodol a byddwn yn parhau i fonitro effaith y pandemig ar wasanaethau rheilffyrdd.

Yn ogystal â chynnydd o ran costau cymorthdaliadau, bydd angen buddsoddiad sylweddol hefyd mewn cyfalaf fel datblygu seilwaith mwy diogel ar gyfer y mathau dewisol o drafnidiaeth a gwella trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau bod ganddi'r gallu a'r adnoddau priodol a'i bod yn ddeniadol i'r rheini y byddai'n well ganddynt deithio yn y car ar hyn o bryd.

8.12 Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

Cafodd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n amlinellu'r buddsoddiad sylweddol y mae angen ei wneud i gyrraedd y targedau uchelgeisiol: y fasnachfraint rheilffyrdd gan gynnwys buddsoddiad gwerth bron £5bn dros y 15 mlynedd nesaf i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru, diwygiadau deddfwriaethol mawr i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a datblygu system drafnidiaeth aml-ddull, integredig ledled Cymru. Mae'n nodi'n fanylach sut rydym yn cynnig cyflawni'r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o 2015 ymlaen.

Mae'r Cynllun yn cynnwys pob ymyriad trafnidiaeth a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun ei ddiweddaru yn 2017 ac yn 2018.

Nid dogfen bolisi yw'r Cynllun hwn ac nid yw'n blaenoriaethu'r cynlluniau i'w cyflawni chwaith. Mae rhai o'n prosiectau yn cael eu cyflawni, mae rhai ar y cam adeiladu ac mae eraill yn cael eu datblygu. Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill yn y Cynllun, wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a fydd yn nodi ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o fis Ebrill 2022.

8.13 Datgarboneiddio

Nodir ein dull ar gyfer dileu allyriadau carbon o'r sector trafnidiaeth yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019.

Mae'r camau gweithredu allweddol ar lefel Cymru yn cynnwys annog newid i ddefnyddio mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth fel teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac annog newid yn y galw i deithio drwy alluogi trefniadau gweithio gartref a chynllunio defnydd tir yn well. Mae'r cyllid ar gyfer y polisïau hyn wedi'i gynnwys o dan y dyraniadau sectoraidd uchod.

Cam gweithredu allweddol arall yw cyflymu'r defnydd o gerbydau allyriadau sero yng Nghymru drwy ddarparu cyllid ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a chefnogi ymdrechion i sicrhau bod bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat yn gerbydau allyriadau sero erbyn 2028 yn unol â'r uchelgais polisi a ddatganwyd gennym. Yn 2021-22, ceir dyraniad o £38m (gan gynnwys £10m o gyfalaf trafodiadau ariannol) ar gyfer y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a fydd yn cefnogi'r gwaith hwn. Mae'r buddsoddiad hwn yn adeiladu ar y cyllid cyfalaf ychwanegol o £29m (£21.5m craidd a £7.5m trafodiadau ariannol) yn 2020-21.

Bydd cyllid hefyd yn helpu i ddatblygu'r bennod ar y sector trafnidiaeth yn yr ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel sy'n ymdrin â chyfnod 2021-2025 y gyllideb carbon ac yn hanfodol, i asesu'r arbedion carbon posibl o fuddsoddiadau trafnidiaeth yn y dyfodol.

8.14 Gwariant Ataliol

Yn ogystal ag ystyried anghenion trafnidiaeth yr oes sydd ohoni, mae ein strategaeth yn ystyried anghenion hirdymor cymdeithas a chenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n bodoli eisoes gyda'r nod y gall ddarparu sylfaen gref ar gyfer yr anghenion tymor hwy hynny. Yn arbennig, rydym yn gobeithio hyrwyddo a chynnig cyfleoedd teithio iachach i deithwyr drwy deithio llesol, hyrwyddo newid o ran mathau o drafnidiaeth yn arbennig (er enghraifft, drwy barhau i ddarparu cymorthdaliadau ar gyfer tocynnau teithio i ieuenctid/pobl ifanc) ac rydym yn anelu at ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol drwy ddatgarboneiddio'r fflyd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y dyraniadau cyllid yn adlewyrchu ein blaenoriaethau fel y'u nodwyd yn y strategaeth ddrafft ac yn ysgogi newidiadau sy'n rhoi mwy o bwyslais ar fathau cynaliadwy o drafnidiaeth ac sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir.

Mae elfen sylweddol o'r gwariant naill ai'n ymwneud â rhwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau cytundebol sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae pob ymyriad arfaethedig newydd yn ddarostyngedig i astudiaethau WelTAG sy'n sicrhau mai'r ymyriad mwyaf priodol a ddewisir a, lle y bo'n briodol, y caiff achosion busnes neu gyfiawnhad busnes eu llunio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda Trafnidiaeth Cymru i lunio cyfres o fetrigau allweddol er mwyn dangos effeithiolrwydd ein hymyriadau ac effeithiolrwydd Trafnidiaeth Cymru o ran eu rhoi ar waith.

9.0 CYLLIDO SGILIAU AR GYFER Y CAMAU GWEITHREDU

Sgiliau	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Refeniw	173,541	177,941	4,400	3%
Heb Fod yn Arian Parod	1,400	1,436	36	3%
Cyfanswm yr Adnoddau	**174,941**	**179,377**	**4,436**	**3%**

9.1 Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Dysgu Seiliedig ar Waith	97,033	97,033	0	0%
Cyfanswm yr Adnoddau	**97,033**	**97,033**	**0**	**0%**

Mae'r gyllideb net hon yn helpu i gyflwyno'r rhaglen prentisiaethau i gyflogwyr a'u cyflogeion, gan roi blaenoriaeth benodol i recriwtiaid newydd, ledled Cymru. Cyrhaeddwyd y targed o 100,000 o brentisiaethau gan greu cyfleoedd o ansawdd uchel i bawb. Caiff dangosfyrddau a gwybodaeth eu cyhoeddi gan Ystadegau Cymru.

9.2 Cymorth Cyflawni – Cam Gweithredu Sgiliau

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Sgiliau Marchnata	648	648	0	0%
Cyfanswm yr Adnoddau	**648**	**648**	**0**	**0%**

Mae Is-adran Marchnata a Chyfathrebu SHELL yn datblygu negeseuon allweddol a deunydd cyfathrebu diddorol a gyflwynir drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau proffil uchel, cyhoeddusrwydd i gerrig milltir pwysig ar y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol, ymgyrchoedd penodol proffil uchel a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

9.3 Cam Gweithredu Polisïau Sgiliau

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Ymgysylltu Polisïau Sgiliau	1,556	1,556	0	0%
Cyfanswm yr Adnoddau	**1,556**	**1,556**	**0**	**0%**

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cyflawni rhaglenni Ymgysylltu â Chyflogwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Gweithredu Sgiliau.

9.4 Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd	Newid £'000	Newid %

		2021-22 £'000		
Cyflogadwyedd a Sgiliau	51,322	49,722	(1,600)	(3%)
Cymunedau am Waith	3,972	9,972	6,000	151%
Is-gyfanswm	**55,294**	**59,694**	**4,400**	**148%**
Adnoddau Anghyllidol				
Cymunedau am Waith – Heb fod yn arian parod	0	36	36	100%
Cyfanswm yr Adnoddau	**55,294**	**59,730**	**4,436**	**7%**

Mae'r gyllideb Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cyllido'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith, dychwelyd i waith, parhau mewn gwaith a datblygu mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae hefyd yn hwyluso ymateb uniongyrchol er mwyn helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu datrysiadau ehangach a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n seiliedig ar sectorau er mwyn ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n bwysig i economi Cymru. Mae'r newid yn y gyllideb yn adlewyrchu'r cyllid afreolaidd mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r UE ar gyfer gweithgynhyrchwyr.

Mae cyllideb y Rhaglen Cymunedau am Waith, sy'n £9.972m, yn darparu cymorth cynghori arbenigol ym maes cyflogaeth a gwasanaeth mentora dwys i bobl sydd naill ai mewn tlodi neu'n wynebu risg o dlodi ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Drwy helpu pobl ddi-waith i gael profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd neu gael cyngor arbenigol ar gyflogaeth, mae'r dyraniad ychwanegol o £6m ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy yn galluogi pobl i feithrin hyder a datgloi eu potensial. Rhyddhawyd y cyllid hwn er mwyn lliniaru effaith y pandemig.

9.5 Cam Gweithredu Dewisiadau Addysg a Gyrfa

BEL	Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000	Newid £'000	Newid %
Refeniw				
Gyrfa Cymru	19,010	19,010	0	0%
Is-gyfanswm	**19,010**	**19,010**	**0**	**0%**
Heb Fod yn Arian Parod				
Gyrfa Cymru - Heb fod yn arian parod	1,400	1,400	0	0%
Is-gyfanswm	**1,400**	**1,400**	**0**	**0%**
Cyfanswm yr Adnoddau	**20,410**	**20,410**	**0**	**0%**

Cynhelir y gyllideb ar gyfer Gyrfa Cymru (is-gwmni y mae Llywodraeth Cymru yn berchen yn llwyr arno). Mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

ar yrfaoedd cenedlaethol sydd ar gael i bob oedran, sy'n ddiduedd ac sydd ar gael yn ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth heb fod yn arian parod o £1.4m yn ystyried dibrisiant.

10.0 SGILIAU - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

Trosolwg cyffredinol o'r cymorth parhaus ar gyfer y sector sgiliau drwy gydol y pandemig ac unrhyw gymorth a roddir iddo er mwyn adfer.

- Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru £40m i gefnogi Ymrwymiad COVID-19 Llywodraeth Cymru yn 2020-21.

- Ymrwymiad COVID-19 ar gyfer sgiliau a swyddi: rydym wedi ymrwymo i gynnig cyngor a chymorth er mwyn i bobl 16 oed a throsodd ddod o hyd i waith, dod yn hunangyflogedig neu ddod o hyd i le yn y sector addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio'r unigolion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, pobl anabl, BAME, menywod ac eraill yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig COVID-19.

- Ymrwymiad COVID-19 ar gyfer sgiliau a swyddi: rydym wedi ymrwymo i gynnig cyngor a chymorth er mwyn i bobl 16 oed a throsodd ddod o hyd i waith, dod yn hunangyflogedig neu ddod o hyd i le yn y sector addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio'r unigolion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, pobl anabl, BAME, menywod a'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig COVID-19.

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau yn 2021-22, gan barhau i gynnig cymorth i unigolion a busnesau. Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i helpu pobl i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig, gan sicrhau parhad a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur drwy gydol y pandemig hwn.

- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw helpu i sefydlogi Cymru wrth i ni barhau i fyw gyda'r coronafeirws, atal difrod tymor hwy a chynllunio ar gyfer adeiladu dyfodol newydd.

- Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau diweithdra a rhoi'r cyfleoedd gorau i bawb ddod o hyd i waith boddhaol â rhagolygon hirdymor a chadw'r gwaith hwnnw, gan ychwanegu gwerth at raglen Kickstart Llywodraeth y DU. Byddwn yn gweithio gydag undebau llafur, cyflogwyr, ysgolion a cholegau i gynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau a meithrin sgiliau newydd.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr na fydd ein pobl ifanc ar eu colled yn addysgol nac yn economaidd o ganlyniad i effeithiau'r coronafeirws nac o ganlyniad i unrhyw ddirwasgiad economaidd nad oeddent yn gyfrifol amdano. Byddwn yn helpu pob un o'n pobl ifanc i aros mewn addysg ac i ddal i fyny yn yr ysgol ac

mewn colegau. Yn ogystal, byddwn yn gwneud yn siŵr bod grwpiau sy'n wynebu anfantais benodol, gan gynnwys aelodau o gymunedau BAME, yn cael yr help ychwanegol sydd ei angen arnynt.

- Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi cynlluniau Adfer ar Sail Gwerthoedd, adfywio pobl a lleoedd ledled Cymru, ac yn anelu at adfer mewn ffordd gyfiawn yn seiliedig ar degwch a chynwysoldeb, sy'n anelu at helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng er mwyn osgoi anghydraddoldeb economaidd cynyddol.

- Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynnal dull polisi tair gwlad mewn perthynas â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU er mwyn ategu Cymwysterau Galwedigaethol i Oedolion a fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi symudedd cymdeithasol ac yn caniatáu i sgiliau gael eu trosglwyddo a'u symud ar draws cwmnïau, sectorau a ffiniau. Mae'r gallu i drosglwyddo sgiliau yn hanfodol i'r economi yn ystod argyfwng; bydd angen ymyriadau hyfforddiant newydd. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r gallu i drosglwyddo a gynigir ganddynt yn hanfodol i'r rhaglenni hyn (e.e. cymwyseddau y gellir eu trosglwyddo o sector lletygarwch sy'n wynebu anawsterau i sector manwerthu llewyrchus).

10.1 Dysgu Seiliedig ar Waith

Cyflwyno Prentisiaethau – Caffael

Lansiwyd y tendr ar gyfer prentisiaethau ar 17 Awst 2020 a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 12 Hydref 2020. Fel yr amlinellwyd yn y Gwahoddiad i Dendro, rydym yn bwriadu hysbysu'r ymgeiswyr am ganlyniadau'r tendr ym mis Mawrth 2021. Rydym wedi cael gwybod na allwn ddarparu ymatebion i gwestiynau sy'n ymwneud â chaffael tra bod y broses yn mynd rhagddi o hyd. Ond gweler isod.

Rydym yn caffael darpariaeth prentisiaethau i'w cynnig o 1 Awst 2021 ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd prisiau uned diwygiedig sy'n dangos cynnydd cyfartalog o 12.3% mewn gwerth. Rydym wrthi'n ystyried o hyd pa gyllid y bydd ei angen er mwyn darparu lefel y ddarpariaeth rydym am ei gweld, yn enwedig yn sgil y pandemig. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth i'r broses gaffael fynd rhagddi.

Darperir y dogfennau caffael ar gyfer caffael rhaglen Prentisiaethau 2021 isod:

Manyleb y Rhaglen:

ACP - Progra

Gwahoddiad i Dendro:

ACP - Invitati

Cefnogi Swyddi Cymru – Y Gwersi Caffael a Ddysgwyd

Mae'r broses gaffael ar gyfer y ddarpariaeth prentisiaethau o 1 Awst 2021 yn broses fyw y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod mis Mawrth 2021. Gall Gwasanaeth Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru gadarnhau bod canlyniadau perthnasol y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhoi ar waith a'u gweithredu ar gyfer pob caffaeliad cymwys. Tra bydd y broses hon yn mynd rhagddi o hyd, ni allwn ddarparu ymatebion pellach i gwestiynau sy'n ymwneud â chaffael. Fodd bynnag, byddwn yn fwy na pharod i rannu gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd unwaith y daw'r broses gaffael i ben.

Prentisiaethau Gradd

Nid yw'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys £5m i'w drosglwyddo i CCAUC er mwyn cefnogi Prentisiaethau Gradd. Rhagwelir y caiff cyllid pellach ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r gyllideb atodol er mwyn cefnogi cost Prentisiaethau Gradd newydd a pharhaus yn 2021-22. Nid yw'r gost wedi'i chadarnhau ar hyn o bryd.

Alldro gwirioneddol 2019-20 ar gyfer y rhaglen Hyfforddeiaethau yw £29.6m. Yr alldro disgwyliedig ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2020-21 yw £30.5m.
Alldro gwirioneddol 2019-20 ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau yw £113.6m (sy'n cynnwys incwm ESF). Yr alldro disgwyliedig ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2020-21 (gan gynnwys incwm ESF) yw £137m.

Strwythur Rhaglenni Prentisiaethau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu fframweithiau prentisiaethau newydd a diwygiedig drwy drefniadau contractio â Skills Development Scotland (SDS). SDS sy'n rheoli'r broses tendro a rheoli contractau ar ran y gwledydd datganoledig.

Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £140,000 i ddatblygu fframweithiau prentisiaethau ar gyfer 2020-21. Mae'r swm hwn yn seiliedig ar wariant yn ystod blynyddoedd blaenorol ac mae'n cynnwys y canlynol:

- £125,000 i'w ryddhau i ddatblygwyr fframweithiau prentisiaeth drwy broses gomisiynu SDS er mwyn datblygu fframweithiau prentisiaethau newydd a diwygio fframweithiau prentisiaethau sy'n bodoli eisoes; sy'n cynnwys comisiynu adolygiadau o'r fframweithiau Bwyd a Diod, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol, Deintyddol, Lletygarwch ac Arlwyo, Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd, Creadigol a Dylunio, y Cyfryngau a Thrafnidiaeth a Logisteg (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am y llwybrau a gaiff eu hadolygu o fewn y fframweithiau hyn)

- £15,000 ar gyfer adolygu'r Fframweithiau Prentisiaethau Gradd Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Digidol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau gradd ychwanegol ar gyfer y fframweithiau hyn;

Yn ogystal, gall Partneriaid Datblygu cydnabyddedig hefyd ddatblygu ac adolygu fframweithiau. Adolygiadau nas comisiynwyd yw'r adolygiadau hyn ond rhaid i

Lywodraeth Cymru gytuno arnynt cyn y gellir dechrau arnynt. Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i drefniadau nas comisiynwyd ar gyfer datblygu ac adolygu ffrramweithiau yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Gofal Iechyd ac Adeiladu.

Ein bwriad yw parhau i ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau hyn yn 2021-22 ac i gomisiynu trefniadau ar gyfer datblygu ac adolygu fframweithiau yn y sectorau canlynol: Digidol, Busnes a Rheoli, Adeiladu a Gwasanaethau Eiddo a Gwasanaethau Cyhoeddus. Disgwylir y caiff £140,000 ei ymrwymo at y diben hwn yn 2021-22.

Prentisiaethau Rheoli Galw

Roedd ein Cynllun Gweithredu Prentisiaethau (2017) yn arwydd o'n bwriad i symud y rhaglen Prentisiaethau tuag at gefnogi newydd-ddyfodiaid a chyflogeion sy'n gymharol newydd yn eu swyddi. Nododd hefyd yr angen i symud oddi wrth brentisiaethau cyffredinol tuag at brentisiaethau ar gyfer sectorau penodol. Adlewyrchwyd y newid cyfeiriad hwn yn y newidiadau a wnaed i'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol ar gyfer 2020-21. Rydym yn adolygu effaith COVID-19 ar y galw yn y dyfodol.

Er ein bod yn parhau o'r farn bod angen symud y rhaglen prentisiaethau yn agosach at nodau'r Cynllun Gweithredu, rydym yn cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yn ystod y cyfnod anodd hwn. Felly, rydym wedi llacio rhai o'r meini prawf cymhwysedd.

- Yn gyntaf, er mwyn cydnabod bod y dirwasgiad economaidd yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, nid ystyrir bod cyflogeion rhwng 16 a 24 oed yn anghymwys i ymgymryd â phrentisiaeth ar sail hyd eu cyflogaeth yn eu swydd bresennol. Yr unig eithriad i hyn fydd y prentisiaethau Lefel 2/3 hynny a nodwyd fel rhai cyffredinol (e.e. Gweinyddu Busnes, Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Arwain Timau a Defnyddwyr TG) gan mai dim ond i recriwtiaid newydd y caiff y prentisiaethau hyn eu cynnig. Bydd y newidiadau llacio hyn yn destun adolygiadau pellach ond byddant yn gymwys tan o leiaf fis Chwefror 2021.

- Yn ail, er mwyn cydnabod y ffaith y bydd rhai cyflogwyr wedi oedi eu penderfyniadau recriwtio o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, gwnaethom ohirio'r gofynion cymhwysedd newydd i bob cyflogwr a oedd wedi bwriadu recriwtio prentisiaid pan oedd y rheolau cymhwysedd blaenorol mewn grym. Roedd y gohiriad hwn yn weithredol tan 31 Hydref 2020.

- Yn ogystal, ar gyfer y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi uno'r holl gyllid prentisiaethau er mwyn sicrhau bod darparwyr mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r galw gan gyflogwyr. Mae hyn yn wahanol i'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol lle y dyfarnwyd gwerthoedd contract ar wahân i gefnogi sectorau galwedigaethol penodol.

Lansiwyd y Cynllun Cymell i Gyflogwyr yn ddiweddar er mwyn annog cyflogwyr i recriwtio prentisiaid newydd. Llwyddwyd i sicrhau cyllid i gefnogi'r cymhelliant hwn tan fis Chwefror 2021. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i allu nodi effeithiolrwydd y cymhelliant hwn o ran cynyddu nifer yr unigolion a gaiff eu recriwtio i ymgymryd â Phrentisiaethau.

10.2 Cymorth Cyflogadwyedd

Rhaglenni Cyflogadwyedd

Mae rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau ac y trefnir contractau ar eu cyfer drwy ymarferion tendro yn cynnwys Hyfforddeiaethau, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd a Twf Swyddi Cymru.

- **Hyfforddeiaethau –** yn targedu'r (grŵp NEET) ac yn cynnig amrywiaeth o sgiliau bywyd, cymorth cyflogadwyedd a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn canolfannau neu drwy leoedd profiad gwaith. Fe'u hariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad yn ystod 2020-21 a'r gyllideb sydd ar gael.

- **Y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd** – yn cefnogi oedolion sy'n ddi-waith i ddod o hyd i swydd ac i barhau mewn swydd drwy wella eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r Rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith o ansawdd uchel neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogwr penodol. Caiff hyn ei gyfuno â hyfforddiant paratoi at waith a darpariaeth sgiliau hanfodol. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad yn ystod 2020-21 a'r gyllideb sydd ar gael.

- **Twf Swyddi Cymru** – wedi'i anelu at bobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed, gan roi profiad gwaith gwerthfawr o 25-40 awr yr wythnos iddynt am gyfnod o 6 mis, gyda thâl sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n uwch**.** Mae'r Llywodraeth yn darparu cymhorthdal cyflog o 50%. Caiff gwerthoedd contract ar gyfer 2021-22 eu pennu gan ddibynnu ar berfformiad a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae nifer o'n rhaglenni cyflogadwyedd eraill, fel ReAct, yn seiliedig ar alw ac mae'r darparwyr yn amrywio gan ddibynnu ar anghenion y dinesydd.

Cyllid Ewropeaidd

Fel rhan o'r Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau, rydym yn gweithredu tri phrosiect ESF o dan raglenni Ewropeaidd 2014-2020, gan gynnwys ReAct, a Hyfforddeiaethau. Mae'r gweithrediadau hyn yn sail i nifer o ymrwymiadau Ffyniant i Bawb, gan gynnwys yr ymrwymiad i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd. Ar hyn o bryd, cymeradwywyd £109m o gyllid ESF hyd at fis Rhagfyr 2023 o dan y gweithrediadau hyn.

10.3 Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr

Cyllid Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Rydym yn bwriadu rhoi grant o £165k yr un i'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol drwy CLlLC ar gyfer 2021-22, gan gadw'r cyllid ar yr un lefel â 2020-21.

Os na fydd unrhyw gynnydd yn llinell y gyllideb ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, bydd hyn yn golygu na ellir gwneud y canlynol:

- Cyflwyno 4ydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i Ganolbarth Cymru,

- Ehangu cylch gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor EIS ym mis Hydref 2019,

- Cynyddu gweithgarwch LMI (caffael Pecynnau Cymorth LMI 2021-22 neu Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2021 a fydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 i Gymru).

Cyllid arall y bwriedir iddo helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu, ond na chaiff ei ddyrannu'n uniongyrchol iddynt

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu.

- Bwriedir cynnal gwerthusiad o broses y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2021.

10.4 Brexit

Mae'r effaith ar y farchnad lafur yn ddigynsail a chafwyd cryn darfu arni. Mae hynny wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yn nifer y bobl gyflogedig, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Mae effaith y pandemig yn bygwth gwyrdroi'r cynnydd a wnaed wrth leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i symud ymlaen gan ganolbwyntio o'r newydd ar ein nodau er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra (ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau), ymdrin â'r gyfradd pobl ifanc nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET), gwella lefelau cymwysterau yng Nghymru ac ail-lunio sgiliau'r gweithlu presennol a hyrwyddo cyfleoedd gwaith teg yng Nghymru.

Er mwyn i'r economi adfer yn gryfach ac yn fwy cynhyrchiol nag o'r blaen, bydd angen cymorth ar unigolion a busnesau i ymdopi â'r argyfwng. Bydd cynnig cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn greiddiol i'n hadferiad economaidd a'n huchelgeisiau i Ailgodi'n Gryfach, ac yn hanfodol er mwyn cefnogi'r rheini y mae'r argyfwng fwyaf tebygol o fod wedi effeithio'n andwyol arnynt yn y farchnad lafur yng Nghymru.

Rydym yn ehangu gwasanaethau rheng flaen drwy Ganolfannau Cyflogaeth (Addysg Bellach), Cymru'n Gweithio a seilwaith cynghorwyr a mentoriaid Cymunedau am Waith a Mwy. Er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i weithio, rydym yn cyfeirio pobl at Cymru'n Gweithio fel y porth tuag at ein harlwy cyflogadwyedd ehangach.

Ein nod yw helpu'r gweithlu presennol i 'Ailgydio' ac i'w 'Cadw', 'Ailddechrau' taith gyflogaeth unigolion yn dilyn cyfnod o ddiweithdra neu gyfnod ar ffyrlo, a pharatoi ac 'Ailsgilio' pobl ledled Cymru ar gyfer byd gwaith y dyfodol.

Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i helpu pobl i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig, gan sicrhau parhad a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur drwy gydol y pandemig hwn.

Bu Llywodraeth Cymru yn glir ac yn gyson yn ei blaenoriaeth i sicrhau na wnaiff Cymru golli ceiniog o gyllid oherwydd Brexit; fel yr addawyd yn ystod y refferendwm.

Rydym wedi cael sicrwydd y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a ariannwyd drwy Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-20 o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, sy'n golygu y byddwn yn gallu parhau i weithredu ein rhaglenni hyd at fis Rhagfyr 2023.

Ers y Refferendwm yn 2016, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar bolisi buddsoddi newydd sy'n ein rhoi mewn sefyllfa gref i fwrw ati'n syth pan fydd cyllid Strwythurol a chyllid Buddsoddi'r UE yn dechrau lleihau tua diwedd y flwyddyn.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2020, yn nodi ein strategaeth lefel uchel ar gyfer sicrhau ffyniant ac economi gynhwysol y bydd ymyriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (h.y. ledled Cymru gyfan) yn cyfrannu atynt.

11.0 SAIL DYSTIOLAETH / GWERTHUSIADAU AC ADOLYGIADAU

Mae ein penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau megis gwaith ymchwil cyhoeddedig, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi blaenorol ac ystadegau. Mae hyn yn rhan o'r penderfyniadau a wneir fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod.

Fel Llywodraeth, rydym wedi helpu i sefydlu sefydliadau er mwyn helpu i ddatblygu'r dystiolaeth rydym yn ei defnyddio i lywio ein gweithgareddau. Er enghraifft, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru ac sy'n aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU. Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i roi tystiolaeth o ansawdd a chyngor annibynnol i Weinidogion Cymru a swyddogion, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisïau. Mae'r Ganolfan a'i rhagflaenydd, y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, wedi cyhoeddi sawl adroddiad sy'n gysylltiedig â'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth.

Mae Dirnad Economi Cymru, sef cydweithrediad rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn rhoi sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi, gan alluogi Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru i herio ac addasu'r cymorth a gynigir i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru adroddiad yn ddiweddar: Ymyriadau ariannol Llywodraeth Cymru COVID-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru, Rhagfyr 2020. Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd ar y cyd gan Dirnad Economi Cymru, Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru, yn dadansoddi buddiolwyr Cymru ac yn ffurfio cam cyntaf rhaglen ymchwil barhaus. Yn ogystal, mae Dirnad Economi Cymru yn cyhoeddi adroddiadau chwarterol ac adroddiadau pwrpasol ar economi Cymru a chyllido cwmnïau.

Darparodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol gyngor annibynnol ar ddatblygiadau seilwaith digidol gan gynnig hyfforddiant, rhannu arferion da a help arbenigol o ran trawsnewid gwasanaethau.

Caiff y dystiolaeth a hyd a lled y gwaith arfarnu a wneir wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni eu hasesu ar sail risg, maint a graddfa, y sail dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn dechrau prosiectau allweddol er mwyn asesu pa mor addas ydynt i gyflawni ein nodau, a chaiff adolygiadau 'Gateway' eu cwblhau ar gyfer prosiectau mawr er mwyn herio pob agwedd ar achos busnes, gan gynnwys yr asesiad sylfaenol o werth am arian. Er bod yr adolygiadau yn ymwneud â phrosiectau penodol, maent yn helpu i greu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i'w defnyddio wrth ystyried prosiectau eraill. Yn yr un modd, gall adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fod yn ddefnyddiol hefyd.

Mae Cymru'n Gweithio yn chwarae rhan hanfodol wrth werthuso a deall anghenion unigolyn a'r rhwystrau cymhleth sy'n gysylltiedig â nhw. Wrth wneud hynny, gall benderfynu pa ddarpariaeth fyddai fwyaf priodol o ran diwallu anghenion yr unigolyn hwnnw. Mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad cenedlaethol i gymorth cyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu sianelau sy'n bodoli eisoes; a thrwy hynny osgoi achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau gwerth am arian.

Rydym yn datblygu rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion, y dechreuir ei rhoi ar waith ddiwedd 2021-2022. Bydd y Rhaglen Cyflogadwyedd newydd i Oedolion yn seiliedig ar y llwyddiannau amlwg, y cysyniad a'r brand er mwyn cyfuno ReAct (gweithwyr sydd wedi'u diswyddo ledled Cymru gyfan) a Mynediad (pobl ddi-waith) a darparu'r arlwy cyflogadwyedd lawn hon i oedolion di-waith yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn darparu cymorth unigoledig i'r rheini sy'n awyddus i ymuno â'r farchnad lafur drwy ddileu rhwystrau a chynnig cymorth grant fel hyfforddiant galwedigaethol, gofal plant, costau teithio a chymorthdaliadau cyflog. Prif nod y rhaglen yw galluogi cynnydd i mewn i swydd barhaus.

Bydd y rhaglen newydd yn defnyddio fformat profedig a bydd yn cynnig rhaglen o gymorth er mwyn cyflawni nodau Symud Cymru Ymlaen a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae trefniadau datblygu, gwerthuso ac archwilio ReAct yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf wedi helpu'r rhaglen i ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth helpu pobl i ddod o hyd i swyddi.

Mae adolygiad o'r Cynllun Grant ABC yn y sector TGCh yn cael ei gynnal gan gynghorwyr allanol ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn canfod gwerth am arian y grant ac yn nodi datrysiadau technegol posibl.

Rydym wedi cyllido Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, drwy broses dendro gystadleuol, i ddarparu gwasanaethau ymgysylltu rhwng Partneriaid Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Gwnaeth hyn helpu i sicrhau y caiff safbwyntiau rhai o'n rhanddeiliaid allweddol eu hymgorffori wrth ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol ar y maes gwariant hwn. Mae adnoddau'r sefydliad bellach wedi'u lleoli o fewn cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Cynghori Gweinidogol yr Economi a Thrafnidiaeth yn rhoi cyngor rheolaidd, creadigol o ansawdd uchel i mi er mwyn helpu i wella datblygiad economaidd yng Nghymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

O safbwynt trafnidiaeth, rydym yn cyllido Bus Users Cymru i gynrychioli buddiannau teithwyr a chyfrannu at waith datblygu polisïau. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ymgyngoriadau ar bolisïau, monitro gwasanaethau bysiau, ymdrin â chwynion a chynnal cymhorthfeydd bysiau ledled Cymru.

Cynhaliwyd adolygiad o PBSA yn 2019 gan gynghorwyr allanol er mwyn cadarnhau a ddylid trefnu estyniad i'r contract. Daeth y cynghorwyr i'r casgliad pe byddai'r contract yn dirwyn i ben yn 2021, fod y costau ar gyfer caffael staff a chreu rhwydweithiau sector cyhoeddus unigol yn debygol o fod o leiaf 48% yn uwch na chostau parhau â'r contract.

Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil: "Eiddo Masnachol: Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl" er mwyn gwerthuso'r cyflenwad o safleoedd ac eiddo modern yng Nghymru a'r galw amdanynt. Defnyddiwyd adroddiad SQW i gefnogi'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi: Cynllun Cyflawni Eiddo Llywodraeth Cymru ar waith. Lluniwyd nodyn ychwanegol ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol er mwyn ystyried goblygiadau posibl pandemig COVID-19, o gofio mai ar ddechrau'r argyfwng y cyhoeddwyd yr adroddiad. Caiff y maes hwn ei adolygu er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn adlewyrchu'r amgylchiadau sydd ohonynt ac amgylchiadau'r dyfodol.

Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o wahanol feysydd o fewn Llywodraeth Cymru, bu dadansoddwyr o wahanol broffesiynau yn cydweithio er mwyn gwella'r sail dystiolaeth ac asesu effeithiau er mwyn llywio polisïau, trefniadau cyflwyno a phenderfyniadau cyllido mewn perthynas â phandemig COVID-19.

12.0 MONITRO CYLLIDEBAU

Mae prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y cyllidebau y pleidleiswyd arnynt yn ystod y flwyddyn i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn cael eu rheoli mewn ffordd fanwl ac effeithiol. Mae elfen bwysig o'r gweithgarwch arfaethedig yn y MEG yn seiliedig ar alw, megis Cronfa Dyfodol yr Economi ac, fel arfer, yn brosiectau seilwaith mawr a gaiff eu cyflawni gan gontractwyr trydydd parti. O ganlyniad, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, fel tywydd garw, effeithio ar wariant. Caiff cynlluniau eu monitro'n agos gan y tîm uwch-reolwyr er mwyn cytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau gweithredu cywirol er mwyn rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

Cynhelir adolygiadau her cadarn yng nghanol y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw broblemau sylweddol a llywio opsiynau i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a chaiff yr adnoddau sydd ar gael eu hailflaenoriaethu er mwyn gallu ymateb o hyd i ddatblygiadau economaidd.

13.0 DEDDFWRIAETH

Tynnodd y Prif Weinidog y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl o'r rhaglen ddeddfwriaethol ar 15 Gorffennaf 2020. Gwnaed hyn er mwyn gallu rhoi blaenoriaeth i'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer ymdrin â phandemig COVID-19 a pharatoadau Brexit.

Mae tîm y rhaglen Diwygio Bysiau yn parhau i gydweithio â'r sector er mwyn penderfynu ar y dull gweithredu gorau ar gyfer y dyfodol ac er mwyn helpu'r sector i adfer.

14.0 LLEIHAU EFFAITH AMDDIFADEDD A THLODI

Ein hamcanion allweddol yw trechu effaith y Coronafeirws a cheisio atal a lliniaru unrhyw ddifrod pellach yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddau yn bygwth gwyrdroi'r cynnydd a wnaed gennym wrth leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Ond, caiff hyd yn oed y llwyddiant hwn ei lesteirio gan y cynnydd o ran tlodi mewn gwaith yn ystod yr un cyfnod.

Bellach ceir cyfle digyffelyb i feddwl am yr hirdymor ac i edrych i'r dyfodol – er mwyn mynd i'r afael o'r newydd â llawer o'r heriau dwfn y mae Cymru yn eu hwynebu a helpu ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau i adfer ac i ffynnu. Nid dim ond achub y cynnydd a wnaed gennym o ran diweithdra ac anweithgarwch economaidd y byddwn yn anelu at ei wneud. Rydym yn benderfynol o ystyried yr economi mewn ffordd wahanol, er mwyn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiadau yn talu ar eu canfed i weithwyr ac yn ein symud o sefyllfa o lefelau cyflogaeth a thlodi mewn gwaith ansefydlog. Rhaid i'r dull gweithredu hefyd ystyried yr heriau sylfaenol rydym yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. Nid yw mesur cyfoeth cyffredinol gwlad gan ddiystyru anghydraddoldeb neu ddiraddiant amgylcheddol canlyniadol yn ddigon.
Caiff ein dull o ystyried yr economi ei dywys gan y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein gweledigaeth yn anelu at **economi llesiant** sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial Caiff y broses o gyflawni'r weledigaeth hon ei hategu gan **dri chanlyniad**:

- **Economi fwy ffyniannus** sy'n gofyn am ffocws cyson ar gydnerthedd, a'r gallu i drawsnewid. Byddwn yn cymryd camau i gefnogi'r Economi Sylfaenol a sail economaidd amrywiol a rhyng-gysylltiedig o gwmnïau sy'n edrych tuag allan â pherfformiad arloesedd cadarnhaol, lefelau cynhyrchiant da a gweithlu ymroddedig wedi'i rymuso sy'n meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer byd cyfnewidiol.
- **Economi wyrddach** sy'n gofyn am lefelau cylchogrwydd uchel, lle y caiff adnoddau eu defnyddio'n gyson gan ychwanegu gwerth economaidd a lle y caiff gwastraff ei osgoi. Gall hyn greu swyddi a chyfleoedd swyddi mewn diwydiannau newydd o ynni adnewyddadwy i atgyweirio. Mae'r economi hon yn rhan annatod o gymdeithas carbon isel, felly byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith carbon isel a all ddygymod â'r newid yn yr hinsawdd, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, prosiectau ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.

- **Economi fwy cyfartal** sy'n *golygu* buddsoddi ym mhotensial cynhyrchiol pawb o fewn cymunedau gan sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl. Byddwn yn creu uchelgais, yn annog dysgu am oes ac yn helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial lle bydd gwaith yn cael ei wobrwyo ac yn rhoi boddhad. Bydd ein dull rhanbarthol yn sicrhau y caiff cyfleoedd eu dosbarthu'n deg er mwyn cyflawni canlyniadau tecach a byddwn yn parhau i fynnu a hyrwyddo cyfleoedd gwaith teg.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad:21 Ionawr 2021

Amser: 9:15-10:30am

Teitl:Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y cynigion ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2021-22[1], a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae Cyllideb ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer refeniw a buddsoddiad cyfalaf a baratowyd yn dilyn Adolygiad blwyddyn o Wariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2020. Dyma'r Gyllideb derfynol a gyhoeddwyd yn ystod tymor y Senedd bresennol ac mae'r dyraniadau yn dangos sut, yn y frwydr yn erbyn y pandemig, rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i *Ddiogelu* iechyd y cyhoedd a swyddi, *Adeiladu* dyfodol gwyrddach a *Newid* i Gymru sy'n fwy cyfartal.

1. Meysydd Trawsbynciol

1.1 Tryloywder wrth gyflwyno'r gyllideb

1.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer MEG Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2021-22:

MEG Addysg – Crynodeb	£000oedd			
	Cyllideb Derfynol 2020-21	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21	Newidiadau 2021-22	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd
Adnodd	1,567,175	1,564,326	60,196	1,624,522
Cyfalaf	217,516	209,491	41,968	251,459
Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf	**1,784,691**	**1,773,817**	**102,164**	**1,875,981**
AME Adnoddau[2]	-123,801	-123,801	-24,585	-148,386
AME Cyfalaf	863,631	863,631	105,330	968,961
Cyfanswm AME	**739,830**	**739,830**	**80,745**	**820,575**
Cyfanswm – MEG Addysg[3]	**2,524,521**	**2,513,647**	**182,909**	**2,696,556**

Adnodd

[1] Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd sy'n rhychwantu'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n rhychwantu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.
[2] Gwariant a Reolir yn Flynyddol
[3] Prif Grŵp Gwariant

1.1.2 O ran Adnodd, mae Cyllideb Derfynol 2020-21 yn cynrychioli'r ffigur llinell sylfaen ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22, yn amodol ar fân addasiadau, fel y crynhoir isod:

	£000
Cyllideb Adnodd MEG Addysg – Cyllideb Derfynol 2020-21	**1,567,175**
Addasiadau llinell sylfaen:	
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd – Buddsoddi i Arbed – asesiadau personol ar-lein	(2,100)
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr / CThEM – Rhaglen Trawsnewid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr	620
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer gwariant Rhaglenni CCAUC – Cyllid Pontio'r UE – Cymru Fyd-eang	(1,369)
Llinell sylfaen Adnodd MEG Addysg 2020-21 – Cyllideb Ddrafft 2021-22	**1,564,326**

1.1.3 Mae cyllideb Adnodd MEG Addysg wedi cynyddu o £60.2m (3.9%) o gymharu â llinell sylfaen 2020-21. Crynhoir y newidiadau, a ddadansoddwyd yn ôl refeniw (cyllidol) ac anariannol (anghyllidol), isod:

Addysg: Cyllideb adnodd	**£000oedd**				
	Cyllideb Derfynol 2020-21	**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21**	**Newidiadau 2021-22**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd**	**% y newid Llinell Sylfaen 2020-21**
Refeniw (Cyllidol)	1,460,021	1,457,172	56,298	1,513,470	3.9%
Anariannol (Anghyllidol)	107,154	107,154	3,898	111,052	3.6%
Cyfanswm yr Adnodd	**1,567,175**	**1,564,326**	**60,196**	**1,624,522**	**3.9%**

1.1.4 Crynhoir y cynnydd o £60.2m yn y tabl isod, sy'n cynnwys nifer o ddyraniadau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd cyffredinol yn y cyllid i'r MEG o Gronfeydd Wrth Gefn Cymru sy'n gwneud cyfanswm o £57.6m, wedi'u gwrthbwyso gan drosglwyddiadau net o £2.6m i mewn i'r MEG:

Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnodd	**Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**2021-22 £000**
Diwygio'r Cwricwlwm – Costau Uniongyrchol Ysgolion, adnoddau a chyfathrebu a gwerthuso	Adolygiad o'r Cwricwlwm	7,900
Diwygio'r Cwricwlwm – Cymwysterau Cymru	Cymwysterau Cymru	369
Cymwysterau Cymru Ychwanegol – dibrisiant (anariannol)	Cymwysterau Cymru	35
Cyllid ar gyfer COVID-19 – cyllid Ailadeiladu Addysg Bellach	Darpariaeth Addysg Bellach	5,000
Cynnydd o ran Demograffeg Darpariaeth Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach	Darpariaeth Addysg Bellach	21,745
Cyfrif Dysgu Proffesiynol	Darpariaeth Addysg Bellach	5,390
Cyllid ar gyfer COVID-19 – Recriwtio, Adfer, Gwella Safonau – cyllid dal i fyny i ysgolion (y flwyddyn academaidd 2020/21)	Grant Gwella Ysgolion	12,029
Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr	Grant Gwella Ysgolion	1,000
Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad	Grant Datblygu Disgyblion	2,000
Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	2,150

Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnodd	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2021-22 £000
Cyfanswm y trosglwyddiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn		**57,618**
Trosglwyddiad i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – ad-daliad Buddsoddi i Arbed – asesiadau personol	Llythrennedd a Rhifedd	(285)
Trosglwyddiad i MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – llwgu yn ystod y gwyliau	Bwyd a Maeth mewn ysgolion	(1,000)
Trosglwyddiad i mewn o MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol (anariannol)	Darpariaeth Cyllideb Adnodd Benthyciadau i Fyfyrwyr	3,863
Cyfanswm y trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant		**2,578**
DEL Adnodd – cynnydd net		**60,196**

Cyfalaf

1.1.5 O ran cyfalaf, mae llinell sylfaen 2020-21 yn adlewyrchu'r gyllideb a gyflwynwyd yng Nghyllideb Derfynol 2020-21 wedi'i haddasu i ddileu £8.220m o gyllid a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf ar gyfer Tŷ Carbon Niwtral Coleg y Cymoedd.

1.1.6 Ceir cyllideb gyfalaf Addysg o £251.5m ar gyfer 2021-22, sef cynnydd o £42m o gymharu â llinell sylfaen 2020-21. Crynhoir y newidiadau, sy'n ymwneud â dyraniadau i Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ac ohonynt, yn y tablau isod:

Addysg: Cyllideb Cyfalaf	£000				
	2020-21 Cyllideb Derfynol	2020-21 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig	Newidiadau 2021-22	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd	% y newid Llinell Sylfaen 2020-21
Cyfalaf traddodiadol	217,711	209,491	40,000	249,491	19.1%
Cyfalaf Trafodion Ariannol [4]	(195)	-	1,968	1,968	-
Cyfanswm y Cyfalaf	**217,516**	**209,491**	**41,968**	**251,459**	**20%**

Addysg: cyllideb gyfalaf Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2021-22 £000
Rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif ac Addysg – Codiad cyfalaf cyffredinol	Seilwaith Addysg	35,000
Prosiect Peilot Ysgolion Carbon Sero-Net	Seilwaith Addysg	5,000
Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol – Model Buddsoddi	Seilwaith Addysg	710

[4] Mae cyfalaf trafodion ariannol yn rhan o setliad DEL cyfalaf na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon. Ar y cyfan, mae'n rhaid i'r cyllid gael ei ad-dalu i Drysorlys EM. Ar gyfer MEG Addysg, mae ad-daliadau yn ymwneud â £4.5m o gyllid a ddyrannwyd i Goleg y Cymoedd yn 2016-17 ar gyfer campws Aberdâr a £10.6m i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019-20 ar gyfer Academi STEAM.

Cydfuddiannol Banc Datblygu Cymru		
Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol – Dyled Israddedig	Seilwaith Addysg	1,900
Ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg y Cymoedd	Seilwaith Addysg	(200)
Ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	Seilwaith Addysg	(442)
DEL Cyfalaf – cynnydd net		**41,968**

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

1.1.7 Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar alw ac yn sensitif i'r gyfradd llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac sydd felly'n anodd i'w rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac mae wedi'i hariannu'n llawn. Mae'r gyllideb wedi cynyddu £80.7m yn 2021-22.

1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

1.2.1 Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir sylwadau sy'n esbonio'r newidiadau i bob Cam Gweithredu o fewn y MEG yn **Atodiad A**. Rhoddwyd esboniad naratif tryloyw i esbonio cynnydd a gostyngiadau, lle na chânt eu cwmpasu yn y papur tystiolaeth, a chadarnhad ynghylch o/i ble y dyrannwyd y trosglwyddiadau.

1.2.2 Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i MEG Addysg yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2021-22 yn **Atodiad B**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am ddyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf ac Ail Gyllideb Atodol 2020-21, yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 a'r alldroeon terfynol ar gyfer 2019-20 yn unol â chais y Pwyllgor.

1.2.3 Rhoddir esboniad o'r rhesymau dros ailgyfrifo'r llinell sylfaen o dan baragraff 1.1.2 ar gyfer refeniw ac 1.1.5 ar gyfer cyfalaf. Ni ddefnyddiwyd Ail Gyllideb Atodol 2020-21 fel cyllideb llinell sylfaen at ddibenion cymharu. Roedd y Gyllideb hon yn cynnwys nifer o ddyraniadau a oedd yn ymwneud â COVID-19 a gostyngiad o £47m i Gronfa Wrth Gefn yr ymateb i COVID-19 a weithredwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, y mae'r naill a'r llall yn anghylchol.

1.3 Blaenoriaethau Addysg a Blaenoriaethau Strategol Eraill

1.3.1 Drwy ein cyllideb addysg gwerth £1.9bn, rydym yn cyflawni *Cenhadaeth ein Cenedl*, sy'n nodi'n glir ein hymrwymiad i wella safonau i bawb, darparu system addysg deg a chynhwysol, a fydd yn destun balchder i bawb. Mae'r diweddariad i gynllun gweithredu *Cenhadaeth ein Cenedl*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn nodi sut y byddwn yn parhau i symud ymlaen tuag at weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022 yn effeithiol.

1.3.2 Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fuddsoddi i gefnogi'r broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau mewn gwirionedd. Fel y'i hamlinellir ym mharagraff 1.5.1, rydym yn buddsoddi £8.3m yn ychwanegol i gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm ym mhob

ysgol yn 2021-22. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallwn lwyr gefnogi ysgolion wrth iddynt bontio i ddiwygio'r cwricwlwm mewn ffordd gadarn a chydgysylltiedig drwy ddarpariaeth Dysgu Proffesiynol.

1.3.3 Bydd ein Dull Cenedlaethol o ymdrin â Dysgu Proffesiynol yn helpu i wireddu'r cwricwlwm newydd drwy baratoi ein holl ymarferwyr ar gyfer y newid sylfaenol mewn ymarfer sydd ei angen. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein proffesiwn addysgu gyda'r lefel uchaf erioed o fuddsoddiad, sef £31m, yng nghyllidebau ysgolion rhwng 2018-19 a 2020-21 er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol, ac adeiladu ar sylfeini cadarn ar gyfer y cam nesaf yn ein taith. Ar gyfer 2021-22, rydym yn darparu £15m yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod ein proffesiwn addysgu yn cael y cymorth sydd ei angen arno i wireddu ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

1.3.4 Rydym yn buddsoddi dros £900m y flwyddyn yn y system cymorth i fyfyrwyr fwyaf blaengar a theg yn y DU ac er mwyn sicrhau bod setliad cyllido cynaliadwy ar gyfer addysg uwch. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnig cymorth gyda chostau byw i fyfyrwyr sy'n hafal i'r cyflog byw cenedlaethol a'r unig wlad yn Ewrop i gynnig yr un cymorth i fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig.

1.3.5 Rydym yn gweithredu ar argymhellion cam olaf Adolygiad Diamond, ac yn buddsoddi £25m yn ychwanegol yn ein prifysgolion, drwy CCAUC. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid craidd CCAUC er mwyn cydnabod effaith y pandemig ar y sector addysg uwch a'i rôl yn tyfu'r economi yn y dyfodol, drwy gynyddu lefelau sgiliau uchel, ymchwil ac arloesedd a chenhadaeth ddinesig.

1.3.6 Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft, rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynglŷn â'r lefel o adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol ac effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwariant. Bydd y trafodaethau hynny yn parhau wrth inni symud tuag at Gyllideb derfynol a dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, yn enwedig wrth inni adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau a ariennir gennym.

1.3.7 Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig wrth inni symud tuag at adfer ac ailadeiladu yn 2021-22. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae prosesau hen sefydledig ar waith i sicrhau y caiff yr adnoddau eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad o hyd i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol hyd y gellir.

1.4 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Asesiadau Effaith

1.4.1 Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi cynnal asesiadau effaith mewn ffordd integredig, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant, gan adlewyrchu eu nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y'u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â chynaliadwyedd a'r Gymraeg. Mae dull gweithredu integredig yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc yn well.

1.4.2 O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys a sylw dyledus i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cyllideb ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau ar wariant fel rhan o'r prif naratifau ym mhennod pedwar a phennod chwech, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau ar wariant sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau ar wariant, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach ynglŷn ag effeithiau penderfyniadau penodol ar wariant, gan gynnwys un ar ein cymorth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

1.4.3 Ni chynhaliwyd Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Addysg fel rhan o'r broses o baratoi cyllideb ddrafft. Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n proses barhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r asesiadau hyn i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r asesiad o effaith ehangach y gyllideb. Drwy hyn, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, sicrheir bod tystiolaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol ein proses o baratoi'r gyllideb.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.4.4 Yn y cyd-destun hwn, na welwyd ei debyg o'r blaen, rydym yn parhau i gael ein llywio gan y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio â'n partneriaid a defnyddio ein hadnoddau cyfun yn effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd o'n blaenau.

1.4.5 Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac amrywiaeth o arbenigwyr i asesu sut rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth wraidd *Cenhadaeth ein Cenedl* mae llesiant cenedlaethau'r dyfodol; ac fel rhan o'r genhadaeth honno, caiff cwricwlwm newydd eang, cytbwys, cynhwysol a heriol ei roi ar waith. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ar ei ben ei hun yn cynnig newid cynaliadwy. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei

ddylunio i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i bob un o'r nodau llesiant.

Yr effaith ar ddyraniadau o fewn MEG Addysg

1.4.6 Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym wedi gwneud nifer o ddyraniadau ar ôl ystyried asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, cydraddoldebau, y Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn cynnwys:

- £2.2m yn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol sy'n bron â dyblu ein buddsoddiad i £4.9m yn 2021-22, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol;
- cynyddu cyllid ar gyfer ein Grant Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr o £1m, gan adlewyrchu'r angen cynyddol am gymorth i ddysgwyr a'r galw am y gwasanaethau hyn, gan ddarparu cyfanswm o £11m o gyllid y flwyddyn nesaf;
- £5m o gyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn cyflwyno Prosiect Peilot Carbon Sero i ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd y cyllid yn helpu partneriaid cyflawni i drawsnewid y seilwaith addysg yng Nghymru wrth inni barhau i bontio tuag at ystadau ysgolion ac addysg bellach cynaliadwy.

1.4.7 Er nas dyrennir i MEG Addysg, rydym hefyd yn dyrannu £23.3m yn ychwanegol i ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2021-22 er mwyn parhau i roi cymorth i deuluoedd sy'n wynebu anawsterau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

1.5 Costau Deddfwriaeth

Diwygio'r cwricwlwm a'r Bil Cwricwlwm ac Asesu

1.5.1 Yn ogystal â pharhau i ddarparu ein cyllidebau presennol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn 2021-22, rydym yn buddsoddi £8.3m yn ychwanegol (£7.9m i Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm a £0.4m (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru)) yn 2021-22 er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith yn effeithiol. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i gyflawni amcan cyffredinol *Cenhadaeth ein Cenedl*; rhoi cwricwlwm gweddnewidiol ar waith o 2022 ac ar gyfer y costau a nodir yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Mae hyn yn cynnwys:

- £1m i gefnogi'r gwaith sylweddol o gomisiynu adnoddau addysg dwyieithog i ysgolion a ddisgwylir i gefnogi'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ac sy'n ychwanegol at y gyllideb bresennol o £3.1m ar gyfer adnoddau Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg).
- Darperir £6.4m i gefnogi ysgolion yn uniongyrchol wrth iddynt roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Bydd y cyllid yn galluogi pob ysgol i benodi o leiaf un ymarferydd o leiaf unwaith yn y Rhwydwaith Cenedlaethol. Mae hyn yn ategu'r buddsoddiad sylweddol ym maes dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol, gyda £15m arall i'w ddyrannu yn 2021-22 o'r Llinell Wariant yn

y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i barhau i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- £0.5m i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gwerthuso ar raddfa ehangach. Mae gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu sylweddol â rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yr hyn sy'n newid a'r hyn y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn ei olygu iddynt.
- £0.4m o gyllid ychwanegol er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i gyfrannu at y rhaglen ddiwygio ochr yn ochr â'i flaenoriaethau presennol.

1.5.2 Byddwn yn parhau i ddarparu ein cyllidebau presennol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm sy'n werth £4m i gyd (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm) er mwyn parhau i roi cymorth i ddatblygu canllawiau statudol ar y cwricwlwm a deunyddiau; gwaith ymchwil a gwerthuso i lywio'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith a monitro cynnydd; a pharhau i gynnal trafodaethau rhwng cyrff cenedlaethol a rhanbarthol ac ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith. Bydd hefyd yn parhau i roi cymorth i gonsortia addysgu rhanbarthol er mwyn helpu pob ysgol gyda'r broses o ddylunio eu cwricwlwm a pharatoi i'w roi ar waith o 2022 ymlaen; ariannu ymarferwyr i weithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru i lunio canllawiau ychwanegol ar y cyd, gan gynnwys cwricwlwm a threfniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir; ariannu rhwydwaith o ysgolion arloesi i roi adborth ar y broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith; a helpu ysgolion i ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cenedlaethol wrth inni symud i'r cam o roi'r cwricwlwm ar waith.

Diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil

1.5.3 Caiff cyllid i gefnogi'r gwaith o roi diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ar waith ei ystyried yn ystod 2021-22.

Deddfwriaeth a basiwyd yn y pedwerydd Cynulliad a'r bumed Senedd

1.5.4 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â deddfwriaeth a basiwyd yn y pedwerydd Cynulliad ar gyfer MEG Addysg. Mae hyn yn cynnwys: Deddf Cymwysterau Cymru 2015; Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015; Deddf Addysg (Cymru) 2014; a Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, gan fod holl ddarpariaethau'r Deddfau wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn.

1.5.5 Ymdrinnir â'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn ystod y Pumed Cynulliad ar wahân isod.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Rhaglen ehangach Trawsnewid ADY

1.5.6 Bydd costau o £6.9m yn gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn 2021-22, a ddaw o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£2.5m) a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion (£4.4m). Bydd y gyllideb yn cyllido cymorth i weithredu/pontio; datblygu'r gweithlu; codi ymwybyddiaeth; a chefnogi polisi.

Deddfwriaeth Senedd y DU

1.5.7 Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU sy'n effeithio ar MEG Addysg ar gyfer 2021-22.

Is-ddeddfwriaeth

1.5.8 Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2021-22. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rhai y mae a wnelo â nhw yn rhan hanfodol o sicrhau y caiff egwyddorion "Cyfraith Dda" eu dilyn. Dyma pam mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a manteision, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn sicrhau y caiff ein penderfyniadau eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

1.6 Effaith COVID-19

Effaith COVID-19 ar MEG Addysg yn 2020-21 a 2021-22, gan gynnwys symudiadau i mewn i linellau'r gyllideb ac allan ohonynt, y cyfraniad gros i ymateb cyllidebol Llywodraeth Cymru i COVID-19, a'r swm a dderbyniwyd oddi wrtho, yn ogystal ag effaith net hyn.

1.6.1 Mae **Atodiad C** yn rhoi crynodeb o effaith net COVID-19 ar MEG Addysg yn 2020-21 a 2021-22, o ganlyniad i gyfraniadau i'r Gronfa Ganolog a chyfraniadau ohoni y cytunwyd arnynt hyd yma. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith i £46.552m o refeniw gael ei ddychwelyd o MEG Addysg i'w ryddhau i Gronfa Wrth Gefn COVID-19 a ddaliwyd yn ganolog yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020. Mae hefyd yn cadarnhau'r dyraniadau ychwanegol (£71.4m) ar gyfer COVID-19 a chyfalaf a ddychwelwyd (£1.5m), a gyhoeddwyd yn Ail Gyllideb Atodol 2020-21. Yn olaf, mae'n cadarnhau'r dyraniadau pellach y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cynllun ail-greu ar ôl COVID-19 a gyhoeddwyd ym mis Hydref, a gaiff ei ffurfioli fel rhan o'r Drydedd Gyllideb Atodol. Mae hyn yn cadarnhau mai'r effaith net ar MEG Addysg yn 2020-21 yw cynnydd o £100m (£59m o adnodd a £41m o gyfalaf) o Gronfa Wrth Gefn COVID-19. Dyrannwyd cyfanswm o £17m mewn perthynas â COVID-19 ar gyfer MEG Addysg yn 2021-22.

1.6.2 Lle rydym wedi gwneud arbedion mewn cyllidebau presennol, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny lle roedd gweithgareddau'n annhebygol o gael eu cynnal yn ôl y bwriad o ganlyniad i'r pandemig; lle y gellir eu cynnal yn wahanol am gost is; neu lle y gellir eu gohirio. Lle y bo modd, rydym wedi ceisio diogelu arian buddsoddi i alluogi a chefnogi gweithgareddau diwygio hyd nes y bydd yn fwy priodol.

1.6.3 Derbyniwyd cyllid anuniongyrchol o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 drwy Gronfa Cadernid Economaidd yr Economi a Thrafnidiaeth, a wnaeth y trosglwyddiadau canlynol i mewn i mewn i MEG Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC):

- £3m i barhau i gyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru;
- £1.5m i ddatblygu cynllun cymorth sy'n cyd-redeg â rhaglen Go Wales a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac sy'n rhannu ei huchelgeisiau, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd wedi graddio yn ystod y pandemig.

1.6.4 Rydym hefyd wedi ceisio ailbwrpasu cyllid yn y MEG i ymateb i bandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu a rhaglen Technoleg Addysg Hwb (gweler paragraff 1.6.17 a 1.6.18). Byddwn yn parhau i fonitro goblygiadau ariannol y pandemig ac yn ailflaenoriaethu eto yn ôl yr angen.

Manylion am y dyraniadau i raglen 'dal i fyny' COVID-19 yn 2020-21 a 2021-22 a'r defnydd a wneir o'r cyllid hwn.

1.6.5 Cydnabu Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi wynebu cryn darfu ar eu haddysg yn y flwyddyn academaidd 2019/20, a bydd llawer yn wynebu bylchau yn eu haddysg y bydd angen eu llenwi yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol.

1.6.6 Dyrannwyd cyfanswm o £15.4m ar gyfer cyllid dal i fyny ôl-16 yn 2020-21, a dyrannwyd £11.3m i golegau Addysg Bellach a £4.1m ar gyfer addysg chweched dosbarth Awdurdodau Lleol. Darparwyd y cyllid hwn er mwyn cydnabod costau ychwanegol y cymorth addysgu cynyddol yr oedd ei angen ar y myfyrwyr hynny a gollodd addysg wyneb yn wyneb yn 2019/20, ynghyd â chost ychwanegol cefnogi'r broses o bontio i addysg ôl-16. Caiff y cyllid ei ddarparu ar gyfer pob dysgwr amser llawn rhwng 16 a 19 oed, sy'n golygu cynnydd o 5 y cant yn y cyllid fesul myfyriwr. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu nifer yr oriau a ariannwn o 650 awr fesul rhaglen fel arfer i 682 awr fesul rhaglen. Bydd y canllawiau archwilio yn 2020/21 yn adlewyrchu hyn.

1.6.7 Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd £29m o gyllid ychwanegol i recriwtio, adfer a gwella safonau mewn ysgolion yng Nghymru mewn ymateb i'r effaith a grëwyd gan bandemig COVID-19. O'r buddsoddiad hwn, darparwyd £16.8m yn 2020-21 ac rydym yn dyrannu £12m arall yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fu sicrhau bod y rhai â'r angen mwyaf yn gallu cael gafael ar gymorth. Caiff y cyllid ychwanegol ei dargedu at flynyddoedd 7, 11, 12 a 13 a hefyd at ddysgwyr o bob oedan sydd o dan anfantais ac yn agored i niwed. Er mwyn cefnogi'r rhaglen hon ymhellach, dyrannwyd cyllid hefyd i'r consortia rhanbarthol (£0.233m y consortiwm) er mwyn cefnogi anghenion cydgysylltu a Dysgu Proffesiynol sy'n codi.

1.6.8 Rydym hefyd yn neilltuo £7m yn ychwanegol yn 2020-21 i ddarparu rhagor o adnoddau i awdurdodau lleol i'w galluogi i ganolbwyntio ar y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf, yn enwedig ym mlynyddoedd 'arholiadau' 11, 12 a 13. Rydym hefyd yn gweithio gyda CBAC, rhanbarthau ac ysgolion i sicrhau

bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar adnoddau e-ddysgu o ansawdd uwch i'w helpu i baratoi ar gyfer asesiad.

Manylion am y dyraniadau yn 2020-21 a 2021-22 i sefydliadau addysg bellach er mwyn cefnogi darpariaeth i ddysgwyr y gohiriwyd cwblhau eu cwrs, a nifer y dysgwyr unigryw yr effeithiwyd arnynt.

1.6.9 Yn sgil gwybodaeth gan Cymwysterau Cymru ac Ofqual ar 23 Mai yn nodi pa gymwysterau galwedigaethol na ellid eu cyfrifo/amcangyfrif yn yr un ffordd â chymwysterau TGAU a Safon Uwch, penderfynwyd, yn achos rhai cymwysterau, mai'r unig opsiwn oedd gohirio'r asesiad. Er enghraifft, lle nad oes modd cyfrifo canlyniad yn ddilys, nac addasu'r asesiad mewn ffordd nad yw'n tanseilio hyder yn y cymwysterau.

1.6.10 Darperir hyd at £5m yn 2020-21 i gefnogi'r dysgwyr galwedigaethol hyn nad oeddent yn gallu cael canlyniad wedi'i gyfrifo ac yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r coleg i ennill eu cymwysterau sy'n rhoi trwydded i ymarfer.

1.6.11 Mae colegau wedi rhoi data am y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt, sydd wrthi'n cael eu dilysu yn erbyn data archwiliedig Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a ddelir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o wneud taliadau i golegau ym mis Ionawr 2021. Tra bod y data hyn yn parhau i gael eu dilysu, yn y ffurflen gychwynnol a ddychwelwyd gan golegau nodwyd 6,917 o ddysgwyr yr effeithiwyd arnynt.

Gweithgarwch addysgol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 y tu allan i MEG Addysg

1.6.12 Rydym yn darparu adnoddau sylweddol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen ar eu cymunedau lleol. Darperir dros £0.5bn drwy'r Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol i dalu'r costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar gyfer pob maes gwasanaeth a hefyd i roi cymorth yn sgil colli incwm. Mae'r swm hwn wedi darparu dros £16.6m ar gyfer costau ychwanegol a £22.3m ar gyfer incwm a gollwyd gan wasanaethau Addysg.

1.6.13 Hyd at ddiwedd mis Hydref 2020, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi hawlio £30m yn 2020-21 i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol ac i ddisgyblion cymwys na fu modd iddynt fynychu'r ysgol drwy gydol y pandemig.

1.6.14 Mae sicrhau parhad prydau ysgol am ddim wedi bod yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran sicrhau, yn ystod y cyfnod hwn o gryn ansicrwydd, fod y rhai sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim wedi gallu parhau i'w derbyn yn ystod gwyliau'r ysgol. Gan adeiladu ar y cyllid a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddwn yn darparu £23.3m yn ychwanegol i ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol drwy gydol 2021-22. Bydd y buddsoddiad hwn nid yn unig yn helpu i leihau tlodi ac

anghydraddoldebau iechyd yn ein cymdeithas, ond bydd hefyd yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Manylion unrhyw gyllid ychwanegol, neu ailgyfeirio adnoddau, ar gyfer dysgu ac addysgu o bell i ddisgyblion ysgol.

1.6.15 Cyhoeddwyd y rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu ar 20 Ebrill 2020, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a'n holl bartneriaid ym mhob rhan o'r system addysg, yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn cefnogi:

- diogelwch ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- iechyd a lles corfforol a meddyliol ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- gallu ein holl ddysgwyr i barhau i ddysgu;
- y broses o ddychwelyd i'r ysgol ac ymlaen i gam nesaf addysg dysgwyr.

1.6.16 Fel rhan o'r rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu, cafodd £2m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon ei ailbwrpasu yn 2020-21 er mwyn cefnogi amrywiol elfennau o waith, gan gynnwys:

- £0.435m i ariannu ymchwil i ddeall goblygiadau pandemig COVID-19 ar feysydd penodol o system addysg Cymru, gan gynnwys darparu addysg gychwynnol i athrawon;
- £0.148m i gefnogi athrawon newydd gymhwyso wrth iddynt bontio i gyfnod ymsefydlu statudol yr amherir arno;
- £0.025m i dalu costau unrhyw hawlfraint neu drwydded sy'n codi o ganlyniad i ddarparu adnoddau ar Hwb;
- £0.1m i gyflwyno cwrs dysgu o bell ar-lein ar lunio, creu a chyflwyno adnoddau dysgu o bell anghydamseredig o ansawdd da (ar ffurf e-ddysgu digidol a phapur);
- £0.315m i ariannu gwaith Cyngor Llyfrau Cymru i gyfuno agendâu llythrennedd ac iechyd a lles er mwyn cynnig detholiad o lyfrau darllen i ysgolion ar thema iechyd a lles;
- £0.5m i gonsortia rhanbarthol gyflwyno dysgu proffesiynol;
- £0.526m i gydweithio â CBAC i ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu i gefnogi dysgwyr Safon Uwch.

1.6.17 Fel rhan o'r rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu, dyrannwyd hyd at £3m yn 2020-21 ar gyfer dysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Cafodd y cyllid ei ailbwrpasu o'r £30m o gyllid Cyfalaf Technoleg Addysg Hwb gan helpu awdurdodau lleol i dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r holl drwyddedau, caledwedd a chysylltedd hyd at 31 Mawrth 2021.

1.6.18 Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i'r pandemig drwy sicrhau cytundeb cysylltedd cenedlaethol â gweithredwyr symudol mawr ar gyfer dyfeisiau MiFi, a chyflwynodd ateb technegol a oedd yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ailbwrpasu dyfeisiau a oedd ganddynt eisoes at ddefnydd dysgwyr yn y cartref.Roedd modd prynu dyfeisiau newydd hefyd o dan raglen seilwaith ehangach Technoleg Addysg Hwb. Drwy'r cyllid hwn, cafodd awdurdodau lleol eu helpu i sicrhau na fyddai diffyg mynediad at liniadur na chysylltedd yn rhwystr i ddysgu o bell ac fe'i gwnaed yn bosibl i ddysgwyr

barhau ar eu taith addysgol pan oedd ysgolion ar gau neu pan oedd angen i ddysgwyr hunanynysu.

1.7 Effaith Brexit

Y goblygiadau i MEG Addysg yn sgil diwedd cyfnod pontio'r UE ar 31 Rhagfyr 2020

1.7.1 Caiff yr holl weithrediadau ymchwil, datblygu ac arloesi presennol eu hariannu drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERF) ac fel y cyfryw maent yn gweithredu o dan reolau'r UE. Nid yw'n amlwg eto, o ran y broses na faint o gyllid a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru, sut y bydd Llywodraeth y DU yn disodli dyraniadau ERDF blaenorol. At hynny, yn niffyg cyllid gan yr UE, bydd angen darparu cyllid craidd oni fydd cyllid amgen ar lefel y DU ar gael.

Cyllid yr UE a hawliwyd gan MEG Addysg 2020-21 a rhagolwg ar gyfer 2021-22

1.7.2 Rydym wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflawni ymrwymiadau ei maniffesto a'r addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm yr UE na fyddai Cymru yn colli ceiniog o ganlyniad i adael yr UE.

1.7.3 Bydd unrhyw beth sy'n brin o'r swm llawn yn seiliedig ar lefelau cyllido presennol yr UE yn arwain at darfu ar ddiwedd y cyfnod pontio a goblygiadau i adferiad yr economi ar ôl COVID-19, ac yn peryglu'r gallu i gefnogi dysgwyr ledled Cymru.

1.7.4 Roedd y sector addysg a darparwyr sgiliau yng Nghymru, sy'n cael cyllid yn uniongyrchol gan yr UE drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni cystadleuol, gan gynnwys rhaglen ymchwil Horizon 2020 a rhaglen symudedd Erasmus+, yn disgwyl i Lywodraeth y DU weithredu'n unol â'i haddewidion, ac, fel y gellir deall, byddant yn siomedig bod yr addewidion hyn wedi cael eu torri.

1.7.5 Byddwn yn parhau i gefnogi'r trydydd sector, a gweithio mewn partneriaeth ag ef, drwy Weithgor Brexit Addysg Bellach ac Uwch a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid unigol yn rheolaidd er mwyn ystyried effeithiau posibl y berthynas â'r UE ar ôl pontio, a cheisio mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys nodi strategaethau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i Gymru a'u rhoi ar waith wrth inni feithrin cydberthnasau newydd â'r UE a phartneriaid rhyngwladol eraill.

1.7.6 Mae'r ansicrwydd o hyd ynghylch a fydd modd cymryd rhan yn Erasmus+ neu gynllun amgen domestig i'r DU gyfan yn y dyfodol yn anfoddhaol. Os na chaiff ein gallu i gymryd rhan yn Erasmus+ ei sicrhau, dyrannodd Adolygiad o Wariant 2020 Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer cynllun amgen domestig i'r DU gyfan, ond nid yw lefel na chwmpas y cyllid amgen yn hysbys eto. Hyd nes bod y sefyllfa yn glir, ni allwn gadarnhau beth fyddai'r gofyniad am gyfraniad i gostau rhedeg trefniadau gweinyddu Erasmus+ na chynllun

amgen (£200k ar hyn o bryd ar gyfer cyfran Cymru o ffi reoli'r Asiantaeth Genedlaethol sy'n gweithredu cynllun Erasmus+ yng Nghymru).

1.7.7 Nod y Gronfa Bontio Ewropeaidd gwerth £50m oedd helpu busnesau, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Ar gyfer 2020-21, neilltuwyd £1.369m o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd ar gyfer Cymru Fyd-eang II (o fewn Cam Gweithredu Addysg Uwch), ar ôl dyraniad o £1.382m o'r Gronfa yn 2019-20 (a £800,000 yn 2018-19). Mae Cymru Fyd-eang II yn fenter bwysig o ran ein hymdrechion i liniaru effeithiau Brexit, nid yn unig mewn perthynas â'r sector addysg uwch, ond hefyd ei effeithiau ehangach ar economi a chymdeithas Cymru.

1.8 Monitro cyllidebau

1.8.1 Yn ystod 2020-21, byddwn yn parhau i fonitro a herio pob cyllideb bob mis, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau rhwng cyllidebau yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys monitro cyllid ychwanegol a ddyrannwyd o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rwy'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar ragolygon y MEG er mwyn sicrhau bod y cyllidebau yn dal i fod ar y trywydd cywir i fodloni fy mlaenoriaethau. Rydym yn ymgymryd â gwaith monitro manwl iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen fwyaf a'i fod hefyd yn cefnogi ein blaenoriaethau – yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

1.8.2 Mae trefniadau a strwythurau llywodraethu ar waith o ran COVID-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ystyried materion cyllid sy'n ymwneud â COVID-19 yn rheolaidd, ac rwyf finnau a Gweinidogion perthnasol eraill yn cymryd rhan yn ôl y gofyn. Drwy'r cyfarfodydd hynny, gall y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gael cyngor a safbwyntiau amrywiol ar y materion hyn cyn gwneud penderfyniadau neu roi cyngor i'r Cabinet.

1.8.3 Bwriedir gwneud nifer o drosglwyddiadau arfaethedig ar gyfer Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21 a fydd yn effeithio ar MEG Addysg a chrynhoir y rhain yn y tabl isod:

Disgrifiad	**Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**£000**
Refeniw		
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn COVID-19 (gweler Atodiad C)	Amrywiol	37,612
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog – Cyflogau Athrawon (cyn 16)	Datblygu a Chefnogi Athrawon	3,981
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog – Cyflogau Athrawon (Chweched Dosbarth)	Darpariaeth Addysg Bellach	232
Trosglwyddiad o Lywodraeth y DU – Dysgu ar gyfer Troseddwyr	Dysgu ar gyfer Troseddwyr	3,300
Trosglwyddiad i MEG Tai a Llywodraeth Leol	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	(1,000)
Trosglwyddiad i MEG Tai a Llywodraeth Leol	Grŵp Agored i Niwed	(600)
Trosglwyddiad o MEG Tai a Llywodraeth Leol – Digartrefedd Ieuenctid	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	3,700
Trosglwyddiad o MEG Tai a Llywodraeth Leol – Prydau	Darpariaeth Addysg	479

Ysgol am Ddim mewn Addysg Bellach	Bellach	
Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant	Darpariaeth Addysg Bellach	1,750
Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant – Prentisiaethau Lefel Gradd	Gwariant Rhaglenni CCAUC	4,000
Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant – Trawsnewid Digidol	Trawsnewid Digidol	516
Trosglwydiad o MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – bwrsari GIG Cymru	Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr	2,800
Trosglwyddiad i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – addasiad Buddsoddi i Arbed – cyllid i fyfyrwyr	Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/CThEM	74
Trosglwyddiad o MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – addasiad Buddsoddi i Arbed – Profion Llythrennedd a Rhifedd	Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd	(2,100)
Cyfanswm y Refeniw		**54,744**
Cyfalaf		
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn COVID-19 (gweler Atodiad C)	Amrywiol	39,360
Trosglwyddiad i'r Gronfa Ganolog Wrth Gefn – enillion ar gyfer Cyfalaf Trafodion Ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol	Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg	(383)
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog Wrth Gefn – cyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol – arian benthyca Banc Datblygu Cymru (Cyfalaf Trafodion Ariannol)	Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg	783
Cyfanswm y Cyfalaf		**39,760**

2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar y meysydd penodol yn unol â chais y Pwyllgor.

2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion, a ddaeth i'r casgliad: "Erbyn hyn mae sylfaen dystiolaeth gref sy'n dangos manteision sylweddol yn sgil gwario mwy ar ysgolion. Ar draws ystod o gyd-destunau a gwledydd, gwelwyd bod cynnydd o 10% mewn gwariant yn gwella enillion addysgol ac enillion yn ddiweddarach mewn bywyd tua 7-10%."

2.1.1 Pan gomisiynwyd yr adolygiad o wariant ysgolion y llynedd, ni allai neb fod wedi rhagweld pwysau digynsail pandemig y coronafeirws ar gyllidebau'r sector cyhoeddus. Rwy'n hollol ymwybodol o'r pwysau gwirioneddol y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael yr holl adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymateb i effaith yr argyfwng a'i liniaru.Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen inni ddeall y penderfyniadau ar gyllid a wneir ledled Cymru er mwyn sicrhau tegwch a rhagoriaeth i'n dysgwyr.

2.1.2 Y brif ffynhonnell o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r cyllid i awdurdodau lleol drwy Grant Cynnal Refeniw Setliad Llywodraeth Leol o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae sicrhau bod llywodraeth leol yn cael y setliad gorau posibl weedi bod yn ganolog i'n gwaith paratoi ar y gyllideb unwaith eto y flwyddyn hon. Rydym yn rhoi codiad o £176m i lywodraeth leol yn 2021-22 er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn adeiladu ar setliad gwell o lawer yn y flwyddyn gyfredol er mwyn galluogi llywodraeth leol i gefnogi a darparu gwasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar ysgolion a gofal cymdeithasol.

2.1.3 Er bod oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn o ganlyniad i COVID-19 ac felly nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft hon, bydd bellach yn rhoi tystiolaeth i alluogi'r rhai sy'n llunio polisïau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ystyried cyllid ysgolion ledled Cymru yn y dyfodol, gan barhau â'n nod cyffredinol o wella safonau ysgolion a lleihau anghydraddoldebau. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n llunio polisïau i benderfynu a oes gan ysgolion mewn amgylchiadau gwahanol ddigon o gyllid i dargedu unrhyw gynnydd mewn gwariant yn y ffordd orau, yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn cefnogi ein diwygiadau addysg.

Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dau o argymhellion eraill Luke Sibieta yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22:

- ***Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgolion mwyaf difreintiedig.***
- ***Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth.***

2.1.4 Mae'n annerbyniol bod amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd yn effeithio ar lwyddiant addysgol plentyn. Mae gwrthsefyll effeithiau anfantais ac amddifadedd ar blant a phobl ifanc yn ganolog i'n grant blaenllaw yn y maes hwn, sef y Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion, y blynyddoedd cynnar a lleoliadau eraill er mwyn galluogi dysgwyr o dan anfantais i sicrhau eu canlyniadau addysgol gorau. Rhoddir y rhan fwyaf o'r grant yn uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau, ac eithrio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a reolir yn rhanbarthol gan y consortia.

2.1.5 Rydym yn parhau i gynyddu ein buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion o flwyddyn i flwyddyn. Ers ei gyflwyno yn 2012, rydym wedi darparu mwy na £585 miliwn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, sydd wedi helpu'r hyn sy'n cyfateb i fwy na 530,000 o blant a phobl ifanc i sicrhau eu canlyniadau addysgol gorau. Rydym yn cydnabod bod pandemig COVID-19 yn cael effaith enfawr ar deuluoedd difreintiedig ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion difreintiedig. Drwy gynyddu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion bydd modd rhoi mwy o gymorth i'r ysgolion hyn lle ceir disgyblion sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr y mae eu teuluoedd mewn tlodi o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn parhau i wneud y buddsoddiad uchaf erioed yn y Grant Datblygu Disgyblion, sef dros

£100m yn 2021-22. Ar ben hyn, rydym yn dyrannu £2m yn ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, sy'n golygu y bydd cyfanswm o fwy na £10m o gyllid y flwyddyn nesaf.

2.1.6 O ran yr adolygiad o gyllid ysgolion, mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn rhoi pwys cenedlaethol ar wella ysgolion ym mhob rhan o'r system. Rydym wedi cydnabod yr adroddiad ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ystyried sut y bydd y canfyddiadau yn dylanwadu ar y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2021-22. Mae dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n brocsi dros amddifadedd. Caiff y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod ei dargedu at ysgolion sy'n bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys y rhai sydd â lefelau uchel o amddifadedd.

2.1.7 Noder y dylai unrhyw flaenoriaeth a roddir i gyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth hefyd gael ei hystyried gyda'r un flaenoriaeth i ddarpariaeth 16-19 mewn colegau Addysg Bellach. Mae hyn yn adlewyrchu datganiadau Llywodraeth Cymru am gydraddoldeb rhwng darpariaeth ôl-16 debyg mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach, ond hefyd gydraddoldeb rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol.

2.1.8 Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cydnabod y flaenoriaeth ar gyfer darpariaeth 16-19 mewn ysgolion â chweched dosbarth a cholegau, gan nodi bod demograffeg y garfan oedran hon yn cynyddu ac y dylai cyllid gynyddu yn unol â hynny. Ar gyfer 2021-22, rydym yn darparu tua £21.7m i gydnabod demograffeg gynyddol dysgwyr 16-19 oed mewn darpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach, ynghyd â £7m a ddyrannwyd yn y MEG i roi rhagor o gymorth ar gyfer ymrwymiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach.

2.1.9 Bu'n bwysig, nid yn unig cydnabod y cynnydd mewn demograffeg ar yr oedran hwn, ond hefyd effeithiau tebygol COVID-19 a phenderfyniadau sy'n ymwneud â COVID-19 ar nifer y bobl ifanc sy'n dewis aros mewn addysg. Hynny yw, mae canlyniadau TGAU cynyddol a phrinder cyfleoedd swyddi yn arwydd y bydd canran y garfan hon sy'n dewis aros mewn addysg yn cynyddu.

Asesiad wedi'i ddiweddaru gan y Gweinidog o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2021-22, o ystyried y tarfu o ganlyniad i COVID-19 a'r diwygiadau sylweddol i'r cwricwlwm ac ADY y bydd yn ofynnol i ysgolion baratoi ar eu cyfer a'u rhoi ar waith.

2.1.10 O ystyried y cefndir heriol mae'r Gyllideb hon yn cael ei chyflwyno yn ei erbyn, mae ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2021-22 yn adeiladu ar y setliad gwell o lawer yn y flwyddyn gyfredol i'n galluogi i roi cymorth ar gyfer cyllidebau ysgolion a darparu ein gwasanaethau rheng flaen i ysgolion. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, mae'n golygu cydnabod yr holl grantiau penodol sy'n cefnogi ysgolion hefyd. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn grantiau penodol i awdurdodau lleol o fewn MEG Addysg sy'n cefnogi cyllidebau ysgolion, gan

gynyddu'r Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad.

2.1.11 Fel y nodir yn 1.5.1., rydym yn cynyddu cyllid yn 2021-22 er mwyn helpu i wireddu ein huchelgeisiau i ddiwygio'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu'r swm o £8m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf i roi cymorth parhaus i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach (cyfeirier at adran 2.8).

2.1.12 Byddaf yn parhau i adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau a ariannwn wrth inni symud i'r flwyddyn ariannol nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ateb yr heriau sy'n datblygu o ganlyniad i'r pandemig yn y ffordd orau bosibl, mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn awr a dyrannu cyllid yn ôl yr angen.

2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

Dadansoddiad manwl o'r ffordd y caiff yr elfen flynyddol o ymrwymiad y bumed Senedd i roi buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn i wella safonau mewn ysgolion ei dyrannu yn 2021-22.

2.2.1 Rydym wedi darparu £100m yn ystod y tymor Senedd hwn er mwyn gwella safonau mewn ysgolion. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu £25.5m arall o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion er mwyn parhau â'r ymrwymiad hwn i wella safonau mewn ysgolion. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y dyraniadau dangosol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion ar gyfer 2021-22 unwaith y byddant wedi'u pennu'n derfynol.

Dadansoddiad o'r ffordd y cafodd cyllid o dan ymrwymiad y Bumed Senedd i roi £100 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol i wella safonau mewn ysgolion ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn ystod y Senedd hon.

2.2.2 Mae'r dadansoddiad yn **Atodiad D** yn rhoi diweddariad ar y ffordd y dyrannwyd y £100m yn ystod y tymor Senedd hwn. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer addysg a'r meysydd lefel uchel ar gyfer buddsoddi'r £100m wedi'u pennu i gyd-fynd â'n cefnogaeth i gyflawni *Cenhadaeth ein Cenedl* yn llwyddiannus.

Diweddariad i Dabl D a gyhoeddwyd yn yr atodiad i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, sy'n rhestru dyraniadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n cefnogi'r gwaith o wella safonau mewn ysgolion o fewn MEG Addysg yn ystod y Senedd hon.

2.2.3 Ceir dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o'r holl Linellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn MEG Addysg sy'n cyfrannu at wella safonau mewn ysgolion ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2021-22 yn **Atodiad E**.

Manylion am ddyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn 2020-21 ac mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal ag unrhyw ddyraniadau dangosol sydd ar gael ar gyfer 2021-22, yn ôl consortiwm ac 'amcan' (neu bennawd arall, p'un bynnag sy'n gymwys).

2.2.4 Mae'r tabl yn **Atodiad F** yn rhoi dadansoddiad o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2020-21 ac mewn blynyddoedd blaenorol. Nid oes dadansoddiad dangosol ar gyfer 2021-22 ar gael ar hyn o bryd. Yn 2020-21, gofynnwyd i bartneriaid cyflawni nodi meysydd lle y gall arbedion godi yng ngoleuni COVID-19 a chafodd £4.2m ei nodi a'i ddychwelyd i Gronfa Wrth Gefn COVID-19 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cyflawni yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau y caiff y grantiau a'r gwaith o gyflawni prosiectau eu monitro'n effeithiol.

2.2.5 Ar ôl i gyngor Castell-nedd Port Talbot dynnu'n ôl o gonsortiwm rhanbarthol ERW ym mis Ebrill 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant ar wahân i gyngor Castell-nedd Port Talbot yn 2020-21 er mwyn iddo roi cymorth a darparu gwasanaethau i'w ysgolion a fyddai wedi dod o ERW yn flaenorol. Cytunodd ERW a chyngor Castell-nedd Port Talbot ar nifer o feysydd cyflawni (a oedd yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol) y byddai ERW yn parhau i'w darparu i ysgolion Castell-nedd Port Talbot; yn yr achosion hyn, cadwyd y cyllid perthnasol gan ERW.

Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol sy'n ymwneud â'r Grant Gwella Addysg a diweddariad ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff hwn ei ddefnyddio'n strategol ac y caiff ei effaith ei gwerthuso.

2.2.6 Erys y Grant Gwella Addysg yn rhan o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, a ddefnyddir i helpu'r consortia rhanbarthol i gyflawni ein blaenoriaethau i ysgolion ac addysg a amlinellwyd yn *Cenhadaeth ein Cenedl* a'i ddiweddariad ym mis Hydref 2020. Yng nghanol hyn y mae cwricwlwm gweddnewidiol, a ategir gan bedwar amcan galluogi, y mae'n rhaid i waith y consortia eu cefnogi.

2.2.7 Er bod lle i'r consortia rhanbarthol ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg yn hyblyg er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, mae'n dal i ganolbwyntio'n bennaf ar y Cyfnod Sylfaen, cymorth i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gwella dysgu ac addysgu. Mae'n rhaid cadw at gyfradd ddirprwyo o 80% o leiaf i ysgolion ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd o ran hyn.

2.2.8 Drwy delerau ac amodau'r grant sicrheir bod ysgolion yn cydymffurffio â'r cymarebau rhwng staff a disgyblion. Mae'n ofynnol i'r consortia bennu eu fformiwla ddyrannu i ysgolion er mwyn eu helpu i sicrhau'r cymarebau a argymhellir i gyflwyno Cyfnod Sylfaen o safon uchel. Mae'n rhaid i'r cyllid hefyd gael ei ddefnyddio i helpu ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i ddarparu addysg o safon uchel.

2.2.9 Disgwylir i'r consortia rhanbarthol roi tystiolaeth o ychwanegedd y cyllid a'i effaith. Caiff y broses o ddarparu'r cyllid ei monitro drwy gerrig milltir a dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yng nghynlluniau busnes y consortia.

2.3 Lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol

Gwybodaeth am y ffordd y defnyddir adnoddau o fewn MEG Addysg i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.

2.3.1 Mae'n rhaid i bob dysgwr, ble bynnag mae'n byw, gael cyfle i gyrraedd ei botensial. Mae mynd i'r afael â thlodi yn un o flaenoriaethau allweddol y llywodraeth hon ac mae cau'r bwlch mewn cyflawniad rhwng ein disgyblion sydd o dan yr anfantais fwyaf a'u cyfoedion yn hanfodol i Genhadaeth ein Cenedl.

2.3.2 Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu cyllid i liniaru effeithiau amddifadedd ar addysg drwy ddarparu £1,150 fesul dysgwr i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Hefyd, mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn rhoi cymorth uniongyrchol i deuluoedd i'w helpu i brynu gwisg ysgol, gwisg chwaraeon ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol eraill ar adegau allweddol yn ystod addysg dysgwr, gan gynnwys pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

2.3.3 Dyrannwyd £9.4m ychwanegol ar gyfer 2020-21, sy'n golygu bod y Grant Datblygu Disgyblion yn werth dros £100m, a bydd y cyllid hwnnw yn parhau ar gyfer 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £6.6 miliwn i'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar. Bu ymyrryd yn gynnar yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor amddifadedd ar addysg. Felly, mae'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ar yr un gyfradd â chyllid y Grant Datblygu Disgyblion mewn ysgolion. Drwy ymyrryd yn gynnar, mae'n llai tebygol y bydd angen ymyriadau costus ar berson ifanc yn ddiweddarach yn ystod ei daith addysg ac y bydd yn gadael addysg uwchradd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

2.3.4 At hynny, mae gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal ac sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol, yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Rydym wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg drwy roi tua £5 miliwn y flwyddyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal. Y Consortia Addysg Rhanbarthol sy'n gweinyddu'r grant hwn, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar £1,150 fesul plentyn sy'n derbyn gofal; fodd bynnag, nid yw'r cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer pob plentyn. Drwy'r dull gweithredu hwn, gall y consortia, gan weithio gyda phartneriaid, benderfynu ar yr ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael

profiad o fod mewn gofal, er gwaethaf newidiadau o ran gofal neu leoliad ysgol.

2.3.5 Yn 2020, gwnaethom gyflwyno cyllid a arweinir gan y consortia i gefnogi ysgolion. Gall y cyllid hwn gefnogi ysgolion unigol neu ariannu gweithgarwch ar lefel ranbarthol neu leol, ac rydym wedi gwneud y cyllid hwn yn hyblyg yn fwriadol er mwyn ymateb i amgylchiadau lleol yn wyneb pandemig COVID-19.

Manylion am y gyllideb a ddarperir ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ac asesiad wedi'i ddiweddaru o'i fforddiadwyedd a'i werth am arian.

2.3.6 Yn 2020-21, dirprwywyd dros £92m o'r Grant Datblygu Disgyblion yn uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau addysg, a rheolwyd y gweddill gan y consortia ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal, neu awdurdodau lleol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Dyfernir y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn seiliedig ar alw, ac mae arwydd cynnar o ddata CYBLD yn awgrymu cynnydd yn y galw a adlewyrchwyd mewn cynnydd yn llinell sylfaen y Grant Datblygu Disgyblion.

2.3.7 Dyfernir cyllid gweddilliol ar gyfer gweithgareddau meithrin gallu yn ystod y flwyddyn i gefnogi dysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys Cynghorwyr Strategol y consortia rhanbarthol; cadw gwasanaeth yr Eiriolwr dros Wella Cyrhaeddiad (Syr Alasdair MacDonald); a gwaith sy'n mynd rhagddo ar ganllawiau ar gost y diwrnod ysgol. Oherwydd COVID-19, mae nifer y dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol a heb y cynnydd i gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, byddai'n rhaid inni ystyried lleihau'r taliad fesul dysgwr.

2.3.8 Mae cyllideb y Grant Datblygu Disgyblion hefyd yn darparu £0.250m i gefnogi plant milwyr yng Nghymru er mwyn cydnabod y ffaith y gall plant aelodau o'n Lluoedd Arfog wynebu heriau ychwanegol oherwydd ffordd o fyw eu teulu, sef symud ysgol yn aml a/neu riant yn absennol am gyfnod i ffwrdd ar ddyletswydd. Yn 2020-21, mae'r cyllid yn cefnogi plant milwyr yng Nghymru drwy becyn o gymorth cyffredinol a ddarperir gan SSCE Cymru i bob ysgol yng Nghymru a chymorth wedi'i dargedu â mwy o ffocws lle mae'r angen mwyaf. Mae cyllid yn dibynnu ar gyflwyno cynllun cymorth, cyfarfodydd diweddaru rheolaidd a chyflwyno canlyniadau a sicrheir. Y bwriad yw y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2021-22.

2.3.9 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd arferion gorau wrth ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion. O dan delerau ac amodau'r grant, mae'n ofynnol i gonsortia lunio cynllun cymorth sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio'r grant ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, gan gynnwys sut y byddant yn sicrhau bod lleoliadau yn defnyddio ymchwil a thystiolaeth i wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o'r grant. Yn 2021, byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd ar y Grant Datblygu Disgyblion ac yn sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael i ysgolion drwy lanlwytho astudiaethau achos ar Hwb. O dan delerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion, rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i

dystiolaeth gan elusennau ymchwil addysgol megis y Gronfa Waddol Addysg gael ei defnyddio, sy'n golygu y gall lleoliadau addysgol wario'r Grant Datblygu Disgyblion ar ymyriadau a fydd yn gwella cyrhaeddiad dysgwyr sydd o dan anfantais. At hynny, drwy gynnal sgyrsiau rheolaidd â Chynghorwyr y Grant Datblygu Disgyblion mewn consortia, rydym yn sicrhau y caiff cyllid ei addasu yn ôl anghenion lleol a'i ddefnyddio'n effeithiol ar lawr gwlad.

2.3.10 Mae gan y mwyafrif o ysgolion systemau olrhain ar waith bellach ac mae gennym ragor o setiau data hefyd sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd a fydd yn cynnig mwy o fanwl gywirdeb, a bydd hyn oll yn fodd i wneud dadansoddiad mwy cadarn yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut y gallwn weithio gydag ysgolion i ddefnyddio'r data sy'n cael eu coladu'n llawn a chryfhau trefniadau monitro ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu ein canllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion ymhellach yn ystyried beth yn rhagor y gellir ei wneud yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith monitro a gwerthuso lleol hwn. Byddwn hefyd yn parhau â'r deialog ag arbenigwyr yn y maes er mwyn cadarnhau dichonoldeb asesu gwerth am arian yn y cyd-destun hwn.

2.3.11 Rydym eisoes yn annog ysgolion i fabwysiadu dulliau ysgol gyfan, a all fod yn fuddiol i bob dysgwr ond sy'n sicrhau bod anghenion dysgwyr o dan anfantais yn cael eu cefnogi. Rydym hefyd wedi cyflwyno dull gweithredu mewn clwstwr ar gyfer cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n golygu y gellir gwneud arbedion maint ond sydd hefyd yn sicrhau bod pob ysgol wedi cael hyfforddiant os bydd plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn ymuno â'i hi. Mae hon yn ffordd effeithiol o wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig a thrwy hynny gall ysgolion, rhieni a gofalwyr gefnogi plant unigol yn well, a chyfrannu at eu haddysg yn yr ysgol ac yn y cartref.

Gwybodaeth am gronfa'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad a faint o deuluoedd dysgwyr sydd wedi cael budd ers iddo gael ei gyflwyno yn lle'r Grant Gwisg Ysgol.

2.3.12 Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn 2018/19 i gynnig cymorth i deuluoedd tuag at brynu gwisg ysgol a chyfarpar ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol. Er bod y grant ar gael i blant sy'n derbyn gofal am bob blwyddyn y maent yn yr ysgol, gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ei hawlio ar adegau pontio allweddol yn eu haddysg (dechrau yn y dosbarth derbyn, Blwyddyn 3, 7 a 10). Telir y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad drwy awdurdodau lleol ar gyfradd o £200 i ddysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd, neu £125 ar gyfer pob blwyddyn arall.

2.3.13 Ers i gronfa'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ar gyfer y flwyddyn hon gael ei chyflwyno, mae dros 23,000 o ddysgwyr wedi cael budd a bydd rhagor o hawliadau gan awdurdodau lleol ar ddechrau 2021. Mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â diffygion materol tlodi, megis anallu i fforddio gwisg ysgol ddigonol, ond mae hefyd yn cefnogi dyheadau gwell, cyfoethogi diwylliannol, gwydnwch a

llesiant ymhlith dysgwyr o dan anfantais drwy eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill.

Unrhyw gyllid arall o fewn MEG Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r gydberthynas rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad negyddol, er enghraifft llwgu yn ystod y gwyliau a phrosiectau cyfoethogi gwyliau ysgol.

2.3.14 Ar gyfer 2021-22, byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol £2.15m, ar ôl buddsoddi £1.8m o gyllid ychwanegol yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i blant 7-11 oed fod yn fwy egnïol, bwyta'n iach a meithrin cyfeillgarwch a hefyd fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau'r ysgol leol mewn ardaloedd o dan anfantais yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol a thlodi bwyd yn ystod gwyliau'r haf. Drwy'r cyllid ychwanegol, sy'n gwneud cyfanswm buddsoddiad o £4.85m yn 2021-22, bydd modd ehangu'r rhaglen i 14,000 o blant o bosibl.

2.3.15 Yn 2019, cynhaliwyd cynllun peilot o'r defnydd o leoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, ac arweiniodd llwyddiant y cynlluniau hyn at ddyrannu £1m i gefnogi'r dull gweithredu hwn yn 2020-21. Y bwriad o'r dechrau oedd y dylid darparu'r cyllid hwn ochr yn ochr â'r hyn a ddyrannwyd drwy'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Rydym wedi cadw'r dyraniad o £1m ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau yn y gyllideb ar gyfer 2021-22, ond trosglwyddir y cyllid o MEG Addysg i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gyllideb ddrafft hon. Rydym yn ystyried y ffordd orau o dargedu'r cyllid hwnnw ar gyfer 2021-22.

2.3.16 Ar gyfer 2021-22, byddwn hefyd yn cadw'r cyllid i gefnogi meysydd penodol o amddifadedd:

- £0.845m i hyrwyddo urddas mislif yn y sector Addysg Bellach a pharhau i ddarparu'r cyllid ar gyfer 2021-22 er mwyn cefnogi menywod a merched mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau;

- cyllideb ar gyfer Cronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr cymwys drwy roi cyllid ychwanegol ar gyfer trafnidiaeth, yr hyn sy'n cyfateb i ddarpariaeth prydau ysgol am ddim a chostau gofal plant.

2.4 Gweithlu addysg

Manylion am ddyraniadau'r gyllideb i ariannu:

- ***diwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg Gychwynnol i Athrawon;***
- ***datblygu arlwy dysgu proffesiynol cenedlaethol i'r gweithlu addysg.***

2.4.1 Mae cyllid yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi diwygiadau i AGA:

- £1.969m i gyflwyno'r llwybrau AGA ‘amgen’ newydd (TAR rhan-amser a TAR â chyflog) i fod yn rhan o gyfres gydlynol o lwybrau o ansawdd uchel i mewn i addysgu o dan ein diwygiadau i AGA. Mae TAR rhan-amser a TAR â chyflog ar gael o flwyddyn academaidd 2020/21 ymlaen. Mae'r gyllideb yn darparu grant hyfforddiant a grant cyfraniad at gyflog ar gyfer myfyrwyr AGA ar y cynllun seiliedig ar gyflogaeth, TAR â chyflog, sy'n darparu athrawon pynciau Uwchradd â blaenoriaeth (Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chymraeg) ar gyfer y gweithlu yn ogystal â gwneud y gweithlu'n fwy amrywiol ar y cyfan i'r rhai lle nad yw rhaglen AGA amser llawn yn addas. Hefyd, mae'r gyllideb wedi darparu ar gyfer datblygu'r llwybrau newydd a'u rhoi ar waith i ddechrau drwy ein contract â'r Brifysgol Agored a ddaw i ben ym mis Chwefror 2021 yn ôl y disgwyl.

- £3.14m i barhau i ddarparu'r cynllun cymhelliant ar gyfer pynciau â blaenoriaeth er mwyn helpu i recriwtio athrawon i'r proffesiwn.

- Darparwyd £0.160m yn 2020-21 i gefnogi costau sy'n ymwneud â datblygu polisi a lywir gan dystiolaeth i barhau i gefnogi diwygiadau Llywodraeth Cymru i AGA. Cynigir y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2021-22, gyda £0.160m yn ychwanegol i gefnogi'r ymchwil sy'n mynd rhagddi i ystyried y ffordd orau o helpu i recriwtio pobl BAME i'r proffesiwn, gan gynnig llwybrau i Athrawon Cymwysedig addysg bellach ennill SAC yn ogystal â chefnogi digwyddiadau i aeddfedu a chefnogi ein hegin-bartneriaethau AGA.

- £0.5m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory a ddechreuodd ym mis Medi 2018, sydd wedi'i dargedu at athrawon dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg i'w hannog i ddilyn rhaglen AGA uwchradd i ôl-raddedigion cymwys a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Dyrannwyd hyd at £0.2m yn 2020-21 ar gyfer ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu yng Nghymru.

2.4.2 Mae'n hanfodol cynnig dysgu proffesiynol o ansawdd uchel er mwyn cyflawni amcan cyffredinol *Cenhadaeth ein Cenedl* a rhoi cwricwlwm gweddnewidiol ar waith o 2022. Yn 2021-22, byddwn yn dyrannu bron £37m o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a Gwella Safonau mewn Ysgolion er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol yn unol â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Caiff cyllid ei ddyrannu drwy amrywiol lwybrau, gan gynnwys rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion, y consortia rhanbarthol a phrifysgolion, er mwyn cefnogi nifer o flaenoriaethau. Mae elfennau allweddol y cyllid hwn fel a ganlyn:

- £15m i'w ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion i'w galluogi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad o £31 miliwn mewn dysgu proffesiynol, sydd wedi cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i ysgolion ers 2018 (£9m yn 2018-19, £15m yn 2019-20 a £7m yn 2020-

21). Mae'r cyllid hwn yn gyson â'r costau a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

- Tua £5.5m i'w ddyrannu i ranbarthau a rhanddeiliaid eraill er mwyn parhau â'r Rhaglen Datblygu Cwricwlwm i Gymru i baratoi pob ysgol i wireddu'r cwricwlwm newydd.
- Tua £1.3m i barhau â'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol i ariannu prifysgolion a rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion ymholi arweiniol er mwyn cefnogi datblygiad system ehangach.
- £1m i barhau i ychwanegu amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd uchel at wefan y Daith Dysgu Proffesiynol a lunnir mewn partneriaeth â rhanbarthau ac ysgolion er mwyn cefnogi diwrnodau HMS dysgu proffesiynol ychwanegol.
- £2.4m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu elfennau Pecyn Cymorth yn ystod Cam Cynnar Gyrfa, sy'n cynnwys datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora benodol genedlaethol a rhaglen Gradd Meistr newydd.
- £6.4m i gefnogi dysgu proffesiynol iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.
- £1m i barhau i gynnig dysgu proffesiynol i'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu.
- £0.5m i alluogi ein rhwydwaith addysgeg ac ymarfer cenedlaethol i barhau i hwyluso'r broses o gydgynhyrchu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu a fydd yn ofynnol o dan y diwygiadau i'r cwricwlwm.
- £0.25m i barhau â'n hymrwymiad i ddatblygu pob ysgol fel sefydliad sy'n dysgu, i'w galluogi i nodi ei chryfderau a'i blaenoriaethau ei hun ar gyfer gwella, gan gynnwys dysgu proffesiynol.
- Tua £0.8m i ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol a'i rhoi ar waith er mwyn cefnogi polisi a lywir gan dystiolaeth, datblygu proffesiwn sy'n hyddysg mewn dulliau ymchwil, a meithrin gallu ymchwil ym maes addysg uwch yng Nghymru.
- Tua £2.7m i ariannu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a'r rhaglenni arweinyddiaeth sydd wedi cael eu hachredu.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.

2.4.3 Dyfarnwyd cyllid grant o £6.294m i Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2020-21 er mwyn cefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu a hysbysu am Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- Apeliadau ac ardystio cyfnodau ymsefydlu;
- Gweinyddu'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru;
- Cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestredig;
- Prosiect recriwtio a chadw athrawon BAME;
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau ac Amodau Cymru;
- Darparu data a dadansoddi;
- Cyfraniad at gofrestru;
- Mentrau / digwyddiadau i hyrwydo'r broses o ymgorffori rhaglenni a'r diwylliant AGA newydd yng Nghymru;
- Astudiaeth mapio Addysg Bellach a SAC;

- Prosiect safonau proffesiynol Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith;
- Prosiect safonau proffesiynol athrawon a staff cymorth ysgolion

2.4.4 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Chyngor y Gweithlu Addysg ar ddechrau 2021 i drafod y grant i'w ddyfarnu iddo ar gyfer 2021-22. Rydym yn disgwyl i'r grant a ddyfernir fod yn debyg i'r cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2020-21 ond bydd yn dibynnu ar brosiectau yn y dyfodol yng ngoleuni COVID-19.

Manylion am gyllid i awdurdodau lleol tuag at dalu costau dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y flwyddyn ariannol 2020-21 a'r flwyddyn ariannol 2021-22 a'r priod ddulliau a ddefnyddiwyd (grant uniongyrchol neu ran o setliad llywodraeth leol).

Cadarnhad o ba gyfran o gostau dyfarniad cyflog athrawon 2020/21 y mae Llywodraeth Cymru yn ei hariannu'n uniongyrchol. (Cyfeiriodd datganiad y Gweinidog ar 14 Hydref 2020 at £5.5 miliwn ar gyfer elfen blwyddyn ariannol 2020-21, a nododd Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 gost flynyddol o £41 miliwn.)

2.4.5 Amcanestynnodd Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 y byddai'r ystod o godiadau i raddfeydd cyflog a lwfansau athrawon, a oedd yn gwneud cyfanswm o gynnydd o 3.1% o'r bil cyflog cyffredinol yn costio £41m y flwyddyn (o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2020/21). Y swm cyfatebol ar gyfer y cyfnod o saith mis rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021 yw £23.9m, sydd yn y flwyddyn ariannol 2020-21.

2.4.6 Er nad yw'r cyllid a ddarperir drwy'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i glustnodi ac y gall pob awdurdod lleol benderfynu ar ei flaenoriaethau, un ffactor pwysig o ran penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2020-21 oedd ei bod yn cydnabod effaith cyflog athrawon. Felly, rhagwelwyd y byddai costau dyfarniad cyflog 2020/21 yn cael eu talu drwy gyllid cynyddol i'w ddyrannu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'u gallu i godi cyllid drwy'r dreth gyngor, ond daethom yn ymwybodol o'r pwysau eithriadol eraill ar gyllidebau awdurdodau lleol o ganlyniad i COVID-19.

2.4.7 Yn seiliedig ar ragolygon o chwyddiant o 2.6% gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, dosbarthwyd £18.4m ychwanegol drwy faes gwariant gwasanaethau ysgolion drwy'r Grant Cynnal Refeniw, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd y codiadau yng nghyflog athrawon yn 2020/21, ochr yn ochr â dyfarniad cyflog 2019/20 yn codi yn y flwyddyn ariannol 2020-21. Ar 14 Hydref, cyhoeddais £5.5m o gyllid ychwanegol i helpu i dalu am gost dyfarniad cyflog 2020/21 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (7 mis). Roedd y swm hwn yn cynnwys £3.981m i gydnabod y gwahaniaeth rhwng rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r 3.1% y cytunwyd arno ar gyfer y blynyddoedd meithrin i flwyddyn 11, a £1.556m arall i gydnabod y cynnydd llawn o 3.1% yn y dyraniad ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ôl-16.

Mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu drwy grant uniongyrchol o MEG Addysg yn 2020-21.

2.4.8 Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd rydym wedi'i wynebu wrth bennu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r ffordd rydym yn ymdrin â chyflog y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau cyflog i'r sector cyhoeddus cyfan o ystyried penderfyniad Llywodraeth y DU i ohirio codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus, ac eithrio i'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Felly, bydd angen darparu ar gyfer goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021-22 o fewn gwaith cynllunio cyllidebol awdurdodau lleol yng ngoleuni'r setliad cyffredinol.

2.4.9 Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar y ffordd y câi cyllid ei ddosbarthu rhwng awdurdodau ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb cyflog athrawon 2020/21, a'r ymrwymiad gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn, drwy gyfeirio'r cyllid angenrheidiol i mewn i'r rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

2.5 Diwygio'r Cwricwlwm

Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'i roi ar waith – p'un a yw hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu neu weithgarwch ehangach.

2.5.1 Manylwyd ar y cyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'i roi ar waith o dan adran 1.5.1 i 1.5.2.

Os nas cynhwysir yn yr uchod, manylion am ddysgu proffesiynol i'r gweithlu addysg er mwyn iddo baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

2.5.2 Amlinellwyd y manylion am ddysgu proffesiynol i helpu i baratoi ymarferwyr ar gyfer y cwricwlwm newydd o dan adran 2.4.2.

2.6 Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Gwybodaeth am oblygiadau ariannol y gwaith ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl i MEG Addysg yn 2020-21, gan gynnwys unrhyw gyllid i gefnogi'r canllawiau statudol.

Manylion am y ffordd y defnyddir unrhyw gyllid o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion ar y maes hwn.

2.6.1 Yn 2020-21, buddsoddwyd £5m i gefnogi llesiant dysgwyr fel rhan o'n dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Darparwyd cyllid ar y cyd o gyllideb MEG Addysg (£2m) a chyllideb MEG Iechyd

Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (£3m) er mwyn cydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i hyrwyddo'r agenda hon.

2.6.2 Dechreuwyd ar nifer o ffrydiau gwaith cydgysylltiedig, gan gynnwys:

- Cyllid i wella ac ehangu'r gwasanaeth cwnsela i ysgolion. Mae'r gwasanaeth yn gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn ac, yn ystod y flwyddyn gyfredol, rydym wedi buddsoddi £1.252m yn ychwanegol yn y gwasanaeth er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a helpu'r gwasanaeth i gyflwyno sesiynau cwnsela ar-lein o ganlyniad i COVID-19. Mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl i gynnal 14,500 o sesiynau cwnsela eraill yn ystod y flwyddyn gyfredol, gan gefnogi 3,100 o blant a phobl ifanc ychwanegol. Rydym hefyd wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth presennol a'r angen i estyn y cymorth addas i'r oedran islaw'r trothwy presennol, sef Blwyddyn 6. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno ei adroddiad yn ddiweddarach yn 2021. Mae cwnsela mewn ysgolion hefyd yn elfen annatod o'r continwwm o gymorth sydd ar gael i ddysgwyr o dan ein dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.
- £0.6m i wneud ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu mewn ysgolion a £0.450m arall i gefnogi hyfforddiant athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol ar lesiant.
- £0.050m yn ystod y flwyddyn gyfredol i helpu sefydliadau addysg uwch i ddatblygu modiwlau dysgu proffesiynol wedi'u targedu'n benodol at gefnogi'r ymateb i COVID-19, dysgu cyfunol a dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref.

Manylion am gyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol neu fentrau wedi'u teilwra i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19.

2.6.3 Yn anochel, mae'r pandemig yn achosi mwy o bryder i bobl o bob oedran, yn bennaf plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod bod goblygiadau COVID-19 o ran iechyd emosiynol a llesiant yn debygol o barhau ar ôl i effaith gorfforol y pandemig ddod i ben, gyda phlant a phobl ifanc yn wynebu profedigaeth, yr effaith economaidd ar eu teuluoedd, pryderon ynglŷn â'r effaith ar eu haddysg a phryderon ynglŷn â'u hiechyd ac iechyd eu teulu a'u ffrindiau. Fel y cyfryw, rydym yn ystyried bod ein dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn rhan annatod o'r broses o fynd i'r afael ag effaith COVID-19 yn ei chyfanrwydd.

2.6.4 Ar gyfer 2021-22, dyrennir £4m yn ychwanegol ar gyfer y dull ysgol gyfan o fewn MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar y £5m a ddarparwyd yn 2020-21 ac yn sicrhau y gallwn gefnogi pob angen o ran llesiant, o feithrin gwydnwch i ymyriadau wedi'u targedu'n well i ddysgwyr er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion y tu allan i wasanaethau arbenigol. Mae hyn yn rhoi cyllideb gyffredinol o £9m ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn 2021-22.

2.6.5 Yn 2020-21, rydym wedi dyrannu £2m i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y sector addysg bellach. Wrth ddatblygu'r model cyllido a chanllawiau, mae swyddogion wedi gweithio gyda chydweithwyr yn CCAUC i ddysgu o'u profiad o gyflwyno mentrau tebyg, ac i rannu gwybodaeth fanwl am brosiectau a gaiff ei cyllio.

2.6.6 Mae rhan o'r cyllid a ddyrannwyd i'r sector addysg bellach wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau cydweithredol ac rydym wedi annog cydweithio rhwng sectorau addysgol. Mae un bartneriaeth yn gweithio gyda phrifysgol i werthuso effaith ei mentrau iechyd meddwl a llesiant; mae cyfle i ehangu cydweithio traws-sector yn y dyfodol.

2.6.7 Bu'n rhaid gohirio prosiect arfaethedig ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC, er mwyn gwerthuso cymorth ar gyfer iechyd meddwl dysgwyr wrth bontio o addysg bellach i addysg uwch oherwydd effaith COVID-19 a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â sicrhau y gellid ymgysylltu â staff yn y sector y flwyddyn hon. Bydd cyllid iechyd meddwl ar gael yn 2021-22 a chaiff y prosiect hwn ei adfer.

2.6.8 Mae colegau wedi cyflwyno adroddiadau monitro ar eu prosiectau iechyd meddwl ym mis Rhagfyr 2020, a byddant yn cyflwyno adroddiadau pellach ym mis Mawrth 2021. Rydym yn cynnal arolwg o ddysgwyr sy'n cynnwys gwybodaeth am iechyd meddwl a phryder. Hefyd, mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig o iechyd meddwl a llesiant dysgwyr ôl-16 yn ystod y pandemig, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Bydd yr argymhellion yn llywio gwaith ar lesiant yn y sector addysg bellach yn y dyfodol ac yn helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth o ran “yr hyn sy'n gweithio”.

2.7 Cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Manylion am gyllid i gefnogi addysg dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2021-22 a'r ffordd y caiff hwn ei ddosbarthu.

2.7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyrraedd safonau uchaf addysg ac i ffynnu. Rydym yn ymwybodol o'r rhwystrau iaith a diwylliannol penodol y mae plant o leiafrifoedd ethnig a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu, a dyna pam mae'n hollbwysig eu bod yn cael cymorth i gyrraedd eu potensial llawn. Caiff cyfanswm o £11m ei ddarparu i awdurdodau lleol yn 2021-22 drwy'r Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn parhau i gefnogi plant o leiafrifoedd ethnig a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae hyn yn gynnydd o £1m er mwyn cydnabod y cynnydd yn nifer y dysgwyr o leiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

2.7.2 Rydym wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol ag awdurdodau lleol a thrwy weithgor rydym wedi cyd-lunio fformiwla gyllido ddiwygiedig a set o egwyddorion ar gyfer y Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a

Theithwyr o 2021-22 ymlaen. Mae'r fformiwla ddiwygiedig a'r egwyddorion yn adlewyrchu diben y grant yn fwy cywir ac yn cynnig dosbarthiad tecach o'r cyllid. O 2021-22, bydd egwyddorion y grant y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- cynhwysiant – yn yr ysgol a'r gymuned ehangach;
- tegwch – dileu rhwystrau a gwella cyfleoedd mewn bywyd;
- dileu rhwystrau i ddilyn y cwricwlwm, gan gynnwys ffocws ar gaffael iaith;
- gwella presenoldeb;
- ymgysylltu â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau;
- hyfforddiant a meithrin gallu yn y gweithlu ysgolion;
- integreiddio ag addysg, gan gynnwys ffocws ar bontio i'r ysgol a rhwng cyfnodau;
- cefnogi'r broses bontio ôl-16 i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

2.7.3 Mae'r egwyddorion hyn oll yn seiliedig ar y ddealltwriaeth y dylai fod hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynllunio a darparu cymorth ar sail asesiad o anghenion lleol. Caiff y cyllid, a fydd yn weithredol o 2021-22, ei ddosbarthu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar nifer y plant sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (heb gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr), ynghyd â niferoedd plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Roedd y penderfyniad i fabwysiadu Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn sail i'r fformiwla wedi'i seilio ar ymchwil bod caffael iaith yn un o'r ffactorau allweddol yng ngallu plentyn i gael addysg ac o ran ei gyrhaeddiad.

Cadarnhad ynghylch a fydd cyllid wedi'i glustnodi yn parhau ar gyfer y ddarpariaeth hon neu a fydd Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei chynnig blaenorol i brif ffrydio hyn yng ngweithgareddau craidd awdurdodau lleol.

2.7.4 Gallaf gadarnhau y byddwn yn parhau i ddarparu cyllid grant ar sail cyllid wedi'i glustnodi o fewn MEG Addysg.

2.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau y mae awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau yn eu hwynebu i gyflwyno'r ddarpariaeth AAA/ADY bresennol, effaith y swm ychwanegol o £9.4 miliwn yn 2020-21 ac a gaiff cyllid ychwanegol pellach ei ddarparu yn 2021-22.

2.8.1 Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, daparwyd £8m yn ychwanegol i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad terfynol ar ddiwedd 2020-21 yn manylu sut y cafodd y cyllid ei ddefnyddio. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu'r cyllid hwn er mwyn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â helpu dysgwyr ag anghenion cymhleth ac anableddau i lwyddo. Mae'r gyllideb ddrafft yn

cynnwys trosglwyddiad o £0.845m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach, sy'n cyfateb i'r gyfran o'r £8m i sefydliadau addysg bellach.

2.8.2 Mae darpariaeth addysg bellach arbenigol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc hynny sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau na ellir diwallu eu hanghenion yn eu coleg lleol yn gallu dilyn cyrsiau addysg bellach a chael hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Y flwyddyn diwethaf, gwnaethom fuddsoddi £1.4m yn ychwanegol i gefnogi myfyrwyr ag anawsterau dysgu, gan wneud cyfanswm o £13.9m o gyllid y flwyddyn. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i wneud y buddsoddiad hwnnw er mwyn sicrhau y gallwn ateb y galw presennol ymhlith y dysgwyr hynny hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth addysg bellach arbenigol arnynt i ddilyn cyrsiau addysg bellach.

Gwybodaeth am ddarparu cyllid ar gyfer Rhaglen Trawsnewid ADY a rhoi Deddf 2018 ar waith.

2.8.3 Dyrannwyd pecyn o gyllid gwerth £20m gan Lywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn helpu i baratoi ar gyfer rhoi'r system ADY newydd ar waith yn ystod y tymor Cynulliad presennol. Fel yr amlinellir yn 1.5.6., nodir £6.9m o gostau yn gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach yn 2021-22 (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion).

2.8.4 Bydd y system ADY newydd yn cael ei rhoi ar waith yn raddol o fis Medi 2021, a bydd y rolau statudol a grëwyd o dan y Ddeddf yn cychwyn ym mis Ionawr 2021. Disgwylir y bydd modd cwblhau'r brif raglen i'w rhoi ar waith drwy ailbroffilio gweddill y £20m er mwyn adlewyrchu'r terfyn amser newydd.

Cadarnhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn dal i gredu y bydd rhoi'r system ADY newydd ar waith yn gost niwtral, yn seiliedig ar ddisgwyliad y bydd arbedion o ganlyniad i lai o anghydfodau a gwrthdaro yn gwrthbwyso costau'r ddarpariaeth ychwanegol.

2.8.5 Mae'r rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â'r systemau presennol yn ymwneud â'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion. Nid yw'r Ddeddf ADY na'r Cod ADY yn cynyddu'r angen, ac nid ydynt ychwaith yn gofyn am fwy o ddarpariaeth. Bwriedir i'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â phontio o'r systemau presennol i'r system newydd fod yn rhan o'r £20m rydym yn ei fuddsoddi i hwyluso ein rhaglen trawsnewid ADY.

Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant â Phrifysgol Caerdydd.

2.8.6 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i Brifysgol Caerdydd sy'n talu ffioedd a bwrsarïau 10 o fyfyrwyr y flwyddyn ar eu rhaglen hyfforddiant

proffesiynol tair blynedd ar gyfer Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol. Atgyfnerthwyd y trefniant hwn o 2019-20 drwy gysylltu isafswm o fwrsarïau â myfyrwyr a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg eisoes neu sydd â'r potensial i wneud hynny, a thrwy annog myfyrwyr i aros a gweithio yng Nghymru yn union ar ôl graddio. Mae'r trefniant cyllid grant presennol ar waith am dair blwyddyn academaidd, tan fis Awst 2022, a dyrennir £0.8m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY yn 2021-22 er mwyn parhau â'r ymrwymiad hwn.

2.9 Maint dosbarthiadau babanod

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol dros dymor y Senedd hon.

2.9.1 Darparwyd £36m (£16m refeniw ac £20m cyfalaf) dros dymor y Senedd bresennol er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babannod. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol yn **Atodiad G**. Dosbarthwyd yr elfen refeniw ar sail fformiwla a oedd yn ystyried cyfuniad o'r elfen o'r Asesiad Gwario Safonol sy'n ymwneud â'r Asesiad o Addysgu Ysgolion Meithrin a Chynradd a Gwasanaethau Eraill yn seiliedig ar Ddangosyddion, a nifer y dosbarthiadau o 29 a mwy ym mhob awdurdod lleol (gan ddefnyddio cyfartaledd dros 4 blynedd o ddata CYBLD rhwng 2013 a 2016). Mae'r grant wedi'i bwysoli 60% ar gyfer yr elfen sy'n ymwneud â'r Asesiad Gwario Safonol a 40% ar gyfer yr elfen sy'n ymwneud â maint dosbarthiadau.

2.9.2 Roedd yr elfen cyfalaf yn destun proses ymgeisio, lle mae lleihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni meini prawf targed yn dibynnu ar sicrhau mwy o le mewn ystafelloedd dosbarth. Bu 17 o awdurdodau lleol yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am yr elfen cyfalaf o'r grant.

2.9.3 Ar gyfer 2021-22, rydym wedi dyrannu £6m o refeniw i barhau i roi cymorth o ran maint dosbarthiadau.

Diweddariad ar nifer yr ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion sydd wedi cael budd hyd yma.

2.9.4 Mae'r elfen refeniw o'r grant yn ariannu 116 o athrawon ychwanegol a 45 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol, sy'n sicrhau budd i 11,000 o ddisgyblion mewn 461 o ddosbarthiadau babanod mewn 123 o ysgolion. Mae'r elfen cyfalaf gwerth £20m yn ariannu 59 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol ynghyd â gwell cyfleusterau mewn 33 o ysgolion ledled Cymru. Er bod nifer o brosiectau cyfalaf wedi'u cwblhau, mae rhai wedi cael eu gohirio o ganlyniad i effaith COVID-19. Gall gwaith adeiladu barhau i gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a chaiff ei reoli fel rhan o gyllideb Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.

2.9.5 Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod 2017-2019 gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 ac mae'n

rhoi diweddariad ar y cynnydd rydym yn ei wneud i leihau maint dosbarthiadau babanod ers i'r grant gael ei lansio ym mis Ebrill 2017.

2.10 Y Grant Ysgolion Bach a Gwledig

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol dros dymor y Senedd hon.

2.10.1 Darparwyd £10m (£2.5m y flwyddyn) dros dymor y Senedd hon i gefnogi ysgolion bach a gwledig. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol yn **Atodiad H**. Ar gyfer 2021-22, rydym wedi neilltuo £2.5m er mwyn parhau i roi cymorth ar gyfer y flaenoriaeth hon.

2.10.2 Caiff y grant ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla. Dyrennir 70% drwy gyfeirio at deneurwydd poblogaeth a 30% drwy gyfeirio at nifer yr ysgolion (cynradd) a gynhelir gan yr awdurdod lleol sydd â llai na 90 o ddisgyblion.

Diweddariad ar nifer yr ysgolion sydd wedi cael budd hyd yma a disgrifiad byr o'r prif ddefnyddiau o'r grant.

2.10.3 Nod y grant yw helpu i ymateb i'r heriau penodol a wynebir gan ysgolion bach a gwledig. Felly, prif ddibenion y grant yw:

- Annog arloesedd, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg ddigidol newydd i wrthsefyll problem ynysu proffesiynol drwy harneisio grym TG, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth rhithwir.
- Cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion.
- Rhoi cymorth gweinyddol ychwanegol mewn ysgolion lle mae gan y pennaeth ymrwymiad i addysgu o leiaf 10% o'r amserlen.
- Cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol, boed hynny at ddibenion addysgol neu anaddysgol.

2.10.4 Mae tua 450 o ysgolion wedi elwa dros bedair blynedd y grant Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion. Y defnydd mwyaf cyffredin yw cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Mae ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd ar faterion cyd-fuddiant, gan gynnwys y strategaeth cynhwysiant digidol. Mae'r cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu gweithdrefnau a pholisïau ar y cyd rhwng nifer o ysgolion. Mae eraill wedi mynd â chydweithio rhwng ysgolion gam ymhellach drwy ffederaleiddio o dan un corff llywodraethu.

2.10.5 Mae'r cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i benodi swyddi ar y cyd, er enghraifft mae Conwy wedi defnyddio ei ddyraniad i benodi tri Swyddog Cymorth Busnes Lefel Uwch ar gyfer 21 o'i ysgolion cynradd mewn tri chlwstwr sy'n canolbwyntio ar swyddogaethau gweinyddol lefel uwch. Defnyddiodd un awdurdod lleol ei gyllid i gyflogi gweithiwr cyswllt â'r gymuned un diwrnod yr wythnos er mwyn cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu dosbarthiadau Cymraeg

cymunedol, rhedeg llyfrgell gymunedol sydd ar agor i'r cyhoedd a grŵp chwarae cymunedol. Mae ysgolion wedi defnyddio'r cyllid i wella technoleg at ddefnydd disgyblion a'r gymuned ehangach.

2.11 Estyn

Manylion am ddyraniad cyllidebol Estyn ar gyfer 2021-22 o MEG Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys y trafodaethau diweddar â'r arolygiaeth ar y lefelau o gyllid sydd eu hangen arni a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.11.1 Mae cyfanswm dyraniad cyllidebol Estyn yn parhau ar yr un lefel yn 2021-22, sef £11.504m, sy'n cynnwys adnoddau cyllidol (£11.023m), adnoddau anghyllidol (£0.2m) a chyfalaf (£0.281m) o fewn y Gwariant Llinell yn y Gyllideb ar gyfer Estyn o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol.

2.11.2 Mae swyddogion wedi bod mewn trafodaethau ag Estyn ynglŷn â'r goblygiadau i'r arolygiaeth o ran adnoddau, gan weithredu ar yr argymhellion yn 'Arolygiaeth Dysgu'. Bydd angen ystyried unrhyw gostau ychwanegol i gefnogi Estyn yn ystod 2021-22.

2.12 Cymwysterau

Manylion am ddyraniad cyllidebol Cymwysterau Cymru yn 2021-22, gan gynnwys y trafodaethau diweddar â'r rheoleiddiwr ar y lefelau o gyllid sydd eu hangen arno a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.12.1 Yn 2020-21, gwnaethom fuddsoddi £0.981m yn ychwanegol o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru er mwyn iddo ddechrau ar ei raglen waith hirdymor i gwmpasu a datblygu cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn 2021-22, rydym yn dyrannu £0.369m yn ychwanegol, gan roi cyfanswm o £1.35m i Cymwysterau Cymru i gefnogi gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm yn 2021-22. Drwy'r cyllid hwn, ynghyd â chyllid dibrisiant anariannol ychwanegol o £0.035m (cyfanswm cyllideb anariannol o £0.250m), bydd cyfanswm cyllideb adnoddau Cymwysterau Cymru yn cynyddu i £9.867m ar gyfer 2021-22.

Diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymwysterau Cymru yn ei gael i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm Newydd i Gymru a'i raglen o adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol.

2.12.2 Fel yr amlinellir uchod, dyrannwyd £0.369m yn ychwanegol i Cymwysterau Cymru i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau, gan gynyddu cyfanswm ei gyllid i £1.35m ar gyfer 2021-22. Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol

ar gyfer gwaith adolygu sectorau a fydd yn cyd-fynd yn agosach â'r gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm bellach. Bydd y cyllid yn cefnogi:

- cyflogi staff arbenigol i fwrw ymlaen â gwaith dylunio ac asesu penodol manwl ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- ymgynghori ymhellach ar gamau nesaf y gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm (bydd gwaith ar Ddiwygio'r Cwricwlwm yn parhau tan 2027-28);
- dadansoddi ymgyngoriadau;
- gwaith arolygu ac ymchwil;
- gwaith ar nodi costau posibl o ganlyniad i newid mewn cymwysterau i gyrff dyfarnu a'r ffordd y gall y rhain effeithio ar ganolfannau arholi;
- dysgu proffesiynol a hyfforddiant athrawon a swyddogion arholiadau ar yr ystod newydd o gymwysterau.

2.12.3 Bydd ymgynghoriad ar y fersiwn ddiweddaraf o ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol Cymwysterau Cymru ar yr ystod o gymwysterau i ddysgwyr 16 oed yn y dyfodol yn y Flwyddyn Newydd.Dyma ail gam yr ymgynghoriad ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd ond mae camau pellach yn yr arfaeth.

2.12.4 Mae'r sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig yn golygu bod yr ymarfer i ddiwygio'r cwricwlwm yn parhau i fod un heriol iawn. Wrth i waith Cymwysterau Cymru ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd fynd rhagddo, bydd y cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a chaiff unrhyw gostau i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd, eu hystyried yn fanwl.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i Cymwysterau Cymru, neu i gyllidebau Llywodraeth Cymru, yn sgil tarfu COVID-19 a'r trefniadau eithriadol ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2020 ac yn 2021 o bosibl.

2.12.5 Mae Cymwysterau Cymru wedi nodi llithriant ar gyfer 2020-21 oherwydd gwariant is ar deithio a chynhaliaeth; cynadleddau a digwyddiadau allanol o ganlyniad i COVID-19. Bu hefyd ychydig o oedi cyn penodi staff i weithio ar ddiwygio'r cwricwlwm. Hyd yma, nodwyd £0.6m fel tanwariant yn erbyn cyllideb 2020-21 sy'n cael ei hadolygu'n barhaus. Mae'n amlwg bod COVID-19 wedi tarfu ar ddysgu, asesiadau ac arholiadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni fel arsyllwyr â CBAC, er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd mor gadarn â phosibl o dan yr amgylchiadau.

2.13 Addysg cyfrwng Cymraeg

Manylion am ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

2.13.1 Mae *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng

Cymraeg a Chymraeg dros gyfnod o bedair blynedd, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050* a *Cenhadaeth ein Cenedl*. Y Gyfarwyddiaeth Addysg sy'n arwain y gwaith o roi gweithgareddau a chamau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodwyd yn y cynllun gweithredu, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd MEG Addysg yn parhau i roi cymorth ar gyfer y gweithgareddau hyn o'r Llinellau Gwariant presennol yn y Gyllideb (Datblygu a Chefnogi Athrawon, Diwygio'r Cwricwlwm, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwella Safonau mewn Ysgolion) yn 2021-22.

2.13.2 Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o nifer o ffynonellau i roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi a'u darparu drwy'r Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Wrth gyflwyno eu Grant Gwella Ysgolion gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

2.13.3 Daeth rheoliadau newydd ynglŷn â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i rym ym mis Ionawr 2020 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio dros y tymor hwy (10 mlynedd) a nodi targed mwy uchelgeisiol iddynt hwy eu hunain i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn unol â cherrig milltir *Cymraeg 2050*. Dyrennir cyllideb o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd.

2.13.4 Er mwyn cefnogi'r garreg filltir o gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflawni prosiectau cyfalaf a ariennir drwy gyfuniad o Gronfa Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a'r Cynnig Gofal Plant gwerth £46m a gyhoeddwyd yn ystod 2018-2019 (£32.81m o'r Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a £13.02m o Grant Cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar).Mae'r cyllid grant ychwanegol hwn yn cefnogi 46 o brosiectau mewn 20 o awdurdodau lleol a fydd yn arwain at 2,818 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg pan fydd pob prosiect wedi'i wireddu. Bydd yr hwb ariannol hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd i gefnogi'r cynnydd mewn darpariaeth sydd ei angen i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050*.

2.13.5 Mae'r rhan fwyaf o'r 46 o brosiectau yn mynd rhagddynt yn dda, ac mae wyth prosiect eisoes wedi'u cwblhau, ac mae dros £16.1m wedi'i hawlio hyd yma. Agorais Neuadd Breswyl Pantycelyn ar 18 Medi, gan groesawu'r myfyrwyr newydd, ac edrychaf ymlaen at agor Glan-llyn Isa yn swyddogol yn y Flwyddyn Newydd. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r prosiectau gael eu cwblhau erbyn 2021/22.

Amlinelliad o'r ffordd y mae Camau Gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o

sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Crynodeb o'r ffordd y mae gweithgarwch a ariennir o dan y Cam Gweithredu hwn yn ymwneud â gweithgarwch a ariennir o dan MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg (teitl cywir y MEG ar adeg ysgrifennu)

2.13.6 Rhoddir Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, ar waith mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol. Mae cyllideb Cymraeg mewn Addysg, sy'n parhau ar lefel o £12.675m ar gyfer 2021-22, yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cefnogi'r gwaith a wneir mewn perthynas â Thema 1 o'r strategaeth (Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg).

2.13.7 Mae'r gweithgareddau a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys: datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth i ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith; cymorth i golegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant roi hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog; a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac arwain y gwaith datblygu ôl-16. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys: datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi gweithgarwch addysgu Cymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

2.13.8 Mae gweithgarwch o fewn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith a wneir drwy'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg o fewn MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg gynt). Mae cyllid o fewn y MEG hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Thema 2 (Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg) a 3 (Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun) *Cymraeg 2050*. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg, rydym yn cymryd camau o dan bob un o'r tair thema ac yn cydnabod y rhyngddibyniaethau rhyngddynt. Mae gwaith a wneir o dan Thema 1 yn creu siaradwyr newydd ac mae gwaith o dan Thema 2 a 3 yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Er enghraifft, mae MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn ariannu *Cymraeg i Blant* sydd â'r nod o helpu i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu. Mae hefyd yn ariannu *Siarter Iaith* sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol gynradd ac Ysgol Gymraeg Llundain sy'n galluogi'r rhai sydd wedi gadael Cymru i barhau i gyfrannu at ein cymuned a'n cymdeithas ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg neu helpu disgyblion sy'n cael eu haddysg gynradd yn Llundain i ymuno ag addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg pan fydd teuluoedd yn symud yn ôl i Gymru yn ddiweddarach.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyrennir i gefnogi'r gwaith o wireddu un continwwm ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg, er enghraifft cynyddu niferoedd yn y gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg.

2.13.9 Cefnogir cyllid ar gyfer cynyddu niferoedd yn y gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg drwy gyllid yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion.

2.13.10 Rydym yn parhau i roi cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru i ddilyn Addysg Gychwynnol i Athrawon ac rwyf wedyn parhau â chymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n mynd yn ei flaen i addysgu yn Gymraeg. O'i ystyried ochr yn ochr â chymhellion eraill i athrawon cyfrwng Cymraeg ar gyfer pynciau â blaenoriaeth, mae hyn yn golygu y gallai myfyriwr AGA cymwys gael cymhelliant o fwy na £25,000 i gyd yn y flwyddyn academaidd 2020/21 a 2021/22.

2.13.11 Comisiynwyd TAR rhan-amser a Chynllun AGA sy'n seiliedig ar Gyflogaeth, sef TAR â Chyflog, i wneud y gweithlu addysgu yn fwy amrywiol a chefnogi gyrfaoedd yn y proffesiwn, gan gynnwys y sector cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhain yn weithredol bellach. Mae ein pecyn cyllid hael i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr rhan-amser a gall myfyrwyr TAR â Chyflog gael grant hyfforddiant a gall eu hysgolion hefyd gael grant cyfraniad cyflog.

2.13.12 Dechreuodd y rhaglen pontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg i roi cymorth i athrawon drosglwyddo o addysgu yn y sector cynradd i addysgu yn y sector uwchradd ym mis Medi 2020, gyda 10 athro yn cymryd rhan mewn pum ysgol. Rydym wrthi'n adolygu'r rhaglen er mwyn datblygu cynigion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22.

2.13.13 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol o'r ffordd rydym yn atgyfnerthu'r niferoedd addysgu cyfrwng Cymraeg ac yn gwella sgiliau athrawon i addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn datblygu cynigion newydd ar gyfer ein rhaglenni ymsefydlu ynghyd â rhaglenni dysgu proffesiynol i athrawon yn ystod blynyddoedd cynnar eu gyrfa, ac rydym yn awyddus i adeiladu ar ddatblygiad y Gymraeg, a'r arbenigedd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gyflwynir yn AGA fel rhan o'r rhaglenni hyn.

2.13.14 Rydym hefyd yn parhau i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth drwy'r cynllun sabothol a chymorth a ddarperir gan y consortia rhanbarthol ac ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. Rydym yn gobeithio parhau i ddarparu'r un lefel o gyllid yn 2021-22 er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol i athrawon y Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, sy'n gwneud cyfanswm o £6.4m.

2.13.15 Yn y diweddariad i *Cenhadaeth ein Cenedl* (mis Hydref 2020), nodais gyfres o gamau pellach y byddwn yn eu cymryd ar y cyd â phartneriaid i barhau i gefnogi ysgolion ar y llwybr i ddiwygio. Un ymrwymiad o'r fath yw sefydlu Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer rhoi'r diwygiadau ar waith, sy'n cynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid, er mwyn rhannu dealltwriaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn, casglu gwybodaeth a chyd-lunio atebion i rwystrau rhag gwneud hynny. Dyrannwyd £0.025m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr, cyfathrebu a

deunyddiau ategol ar gyfer y Rhwydwaith Cenedlaethol, ynghyd â £0.096m i gynnwys ymarferwyr yn y Rhwydwaith Cenedlaethol.

2.13.16 Bydd y Cydweithdy yn hollbwysig o ran gweithredu ar argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac amcanion *Cenhadaeth ein Cenedl* drwy oruchwylio a hyrwyddo'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith yn genedlaethol. Bydd yn grymuso ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth a rennir, a mynd i'r afael â rhwystrau cenedlaethol, cyffredin i roi'r cwricwlwm ar waith yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Drwy'r dulliau hyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i helpu ysgolion i ddatblygu cwricwla sy'n cefnogi cynnydd yn Gymraeg, gan gynnwys sut y gellir cyflawni continwwm Cymraeg.

2.14 Y Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen

Diweddariad ar y gwaith a wneir i adolygu'r berthynas rhwng cyfraddau cyllido gofal plant ar gyfer plant tair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed.

2.14.1 Mae sicrhau bod darpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gyson â Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn hollbwysig o hyd i lwyddiant parhaus Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (y Cynnig). Rydym wedi cydnabod bod y cam cynnar o roi'r Cynnig ar waith wedi amlygu anghysondebau rhwng y gyfradd gyllido a delir gan awdurdodau lleol ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r elfen o'r Cynnig sy'n ymwneud â gofal plant.

2.14.2 Profwyd effaith cyflwyno cyfradd gyllido gyson ar gyfer yr elfennau o'r Cynnig sy'n ymwneud ag addysg a gofal rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2019 mewn prosiect peilot a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint. Comisiynwyd Arad Research i gynnal gwerthusiad o'r prosiect peilot er mwyn asesu effaith cyfradd gyllido gyson, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Gohiriwyd y gwaith hwn oherwydd effaith y pandemig ac yna'i effaith ar y sector addysg a'r sector nas cynhelir.

2.14.3 Gan gael ein harwain gan yr argymhellion, rydym wedi gweithio gyda'r sector a llywodraeth leol i ddatblygu gwaith modelu ariannol manwl ar y costau ychwanegol posibl ac wedi ystyried y ffordd orau o sicrhau y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael yr effaith a ddymunir. Ar gyfer 2021-22, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi nodi cyllid gwerth £3.8m i gyd (£1.9m yr un o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG Addysg) er mwyn cysoni cyfraddau cyllido yn y sector nas cynhelir. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y cynnig gofal plant a gwireddu ein gweledigaeth hirdymor o gyflwyno addysg plentyndod cynnar a system gofal plant integredig.

Asesiad wedi'i ddiweddaru o sefyllfa ariannol y sector meithrin nas cynhelir a ariennir fel y mae'n ymwneud â MEG Addysg a phortffolio'r Gweinidog Addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

2.14.4 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y dylai'r nifer mawr o blant ifanc sy'n cael eu profiad cyntaf o addysg mewn lleoliad gofal plant barhau i gael yr un ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel a bod y ddarpariaeth yn parhau i gael ei chryfhau. Byddwn yn datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir gan ddilyn safonau uchel cyd-lunio a fu'n allweddol i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

2.14.5 Mae'r gwaith datblygu hwn bellach wedi dechrau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector nas cynhelir wrth ddatblygu'r gwaith hwn, gan gynnwys ymarferwyr gofal plant, athrawon cynghori ar y blynyddoedd cynnar a'r sefydliadau mantell cenedlaethol. Rydym wedi rhoi cyllid i'r sefydliadau mantell – £0.060m yn 2019-20 er mwyn cryfhau eu cyfraniad at y gwaith datblygu hwn.

2.14.6 Rydym yn bwriadu defnyddio tymor yr haf 2021 i dreialu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu drafft, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau ein bod wedi ymgysylltu'n effeithiol â'r sector ac eraill cyn cyhoeddi'r dogfennau canllaw terfynol yn ystod tymor yr hydref. Rydym wrthi'n datblygu ein cynlluniau ar gyfer yr ymarfer peilot ac yn disgwyl y bydd yn costio tua £0.2m.

2.14.7 Er y bydd strwythur a therminoleg y trefniadau newydd ar gyfer lleoliadau meithrin yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau continwwm dysgu, bydd egwyddorion addysgeg allweddol y Cyfnod Sylfaen yn aros yr un fath. Felly, ni ddisgwyliwn y bydd effaith sylweddol ar y sector nas cynhelir o ran rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith debygol yn glir a sicrhau y gellir rhoi cymorth priodol ar waith i'r sector.

2.14.8 Rydym yn cydnabod y bydd dysgu proffesiynol yn hanfodol i gefnogi'r sector cyn i'r cwricwlwm ddod yn ofynnol yn hydref 2022. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu pecyn dysgu proffesiynol priodol.

2.15 Gwaith ieuenctid

Manylion am y ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau ieuenctid, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i adlewyrchu gwaith ac argymhellion Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Llywodraeth Cymru.

2.15.1 Bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn parhau ar yr un lefel ar gyfer 2021-22, sef £7.326m. Mae'r gyllideb hon yn ariannu nifer o grantiau cymorth ieuenctid er mwyn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, y sector gwirfoddol drwy'r

Grant i Gyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, sef corff mantell sy'n cefnogi sefydliadau yn y sector gwirfoddol ac ETS Cymru sy'n cefnogi addysg a chymwysterau'r sector. Mae'r cyllid yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn cael ei rhoi ar waith. Mae'r gwasanaethau ataliol hollbwysig, a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn dibynnu'n gynyddol ar ddatblygu dulliau partneriaeth arloesol.

2.15.2 Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu'n fawr tuag at gefnogi rhai o'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau emosiynol, iechyd meddwl neu lesiant sy'n datblygu, a phobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae'r gwaith hwn sydd wedi'i dargedu yn adeiladu ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid llwyddiannus, gan wella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a threfnu ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf ar y cyfle cyntaf oll. Bwriedir i'n buddsoddiad annog mwy o gydweithio a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r gyllideb hon yn parhau i ddarparu cyllid o £2.5m wedi'i dargedu i gefnogi pobl ifanc ag anghenion llesiant emosiynol ac iechyd meddwl drwy ddulliau anghlinigol a gwaith ieuenctid yn y gymuned.

2.15.3 Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, drwy bwyllgor pobl ifanc newydd ei sefydlu a'r sector gwaith ieuenctid drwy ei Grwpiau Cyfranogi Strategol, sydd wedi datblygu cynlluniau gwaith i gyflawni nodau Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019). Bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn cyhoeddi ei addroddiad interim 'Time to Deliver for Young People in Wales' ym mis Ionawr 2021.

2.16 Dysgu ar gyfer Troseddwyr

Manylion am ddarpariaeth yn 2021-22 a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.16.1 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido (o gyllid a ddarperir i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hwn gan Lywodraeth y DU) darpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

2.16.2 Yn 2021-22, caiff cyllideb o £3.328m ei dyrannu i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi darpariaeth dysgu a sgiliau i garcharorion mewn carchardai sector cyhoeddus yn y de. Mae'r gyllideb hon wedi bod yn ddigyfnewid ers 2020-21.

2.16.3 Darperir gwasanaethau addysg a dysgu yng Ngharchar EM Berwyn gan Novus Cambria ac mae ganddo drefniadau cyllido ar waith sy'n wahanol i garchardai eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cytunir ar gostau'r contract bob blwyddyn ac mae'r arian a drosglwyddir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Lywodraeth Cymru yn rhan o gostau'r contract. Cyfrifoldeb

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yw ariannu unrhyw gostau sy'n weddill. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am reoli'r gwasanaethau dysgu a sgiliau a ddarperir yng Ngharchar EM Berwyn o dan y contract. Ar gyfer 2020-21, trosglwyddwyd £3.3 miliwn yn ystod y flwyddyn o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i Lywodraeth Cymru i dalu Novus Cambria am ddarparu gwasanaethau addysg a dysgu. Disgwylir lefel debyg yn 2021-22 ond ni chytunwyd ar hyn eto.

2.16.4 Mae'r trefniant presennol yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ansawdd a pherthnasedd dysgu i droseddwyr ymhellach yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi nifer o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gyda phrif ffocws ar roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gael swyddi ac mae'n gweithredu ar nifer o argymhellion yn Adolygiad Hanson o Addysg mewn Carchardai. Drwy well addysg a dysgu sgiliau bywyd, bydd hyn yn fodd i dorri cylch anfantais ac anghydraddoldeb y mae llawer yn ei brofi yn y cohort hwn dros y tymor hwy.

2.16.5 Gwyddom fod rhoi mynediad at addysg o ansawdd da, sgiliau a chyflogaeth yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at ostwng cyfraddau aildroseddu ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu rhaglen addysg a chyflogaeth i droseddwyr sy'n cefnogi llwybr effeithiol tuag at gefnu ar droseddu. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisi dysgu i droseddwyr, a chydnabu Fframwaith Credydau a Chymwysterau achrededig i Gymru lwybr i droseddwyr sy'n fenywod, a ddatblygwyd gyda chyfraniadau troseddwyr a chyn-droseddwyr.

2.16.6 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gweithredu'n wahanol er mwyn cynorthwyo troseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n wynebu risg o ddod yn rhan ohoni. Mae ein glasbrintiau yn uchelgeisiol, a byddant yn cymryd amser i'w cyflwyno. Wedi dweud hynny, mae cynnydd eisoes yn cael ei wneud i'w gwneud yn bosibl i'r nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor yn y glasbrintiau gael eu cyflawni.

2.16.7 Ein huchelgais yw datblygu system cyfiawnder ieuenctid a system cyfiawnder i fenywod sy'n trin pawb gyda thegwch a pharch ond sydd hefyd yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal.

2.16.8 Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn y carchar yn parhau i gael mynediad at ddeunyddiau addysg a sgiliau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

2.16.9 Rydym hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar ei gynigion ar gyfer darparu gwasanaethau addysg a sgiliau yng Ngharchar EM y Parc yn y dyfodol fel rhan o Brosiect Dirwyn i Ben a Phontio

Carchar EM/STI y Parc[5], gan fod y contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022. Rydym am sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei datblygu yn unol â chymwyseddau datganoledig Llywodraeth Cymru ym meysydd addysg a sgiliau.

2.17 Addysg bellach, darpariaeth chweched dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Manylion am ddyraniadau cyflawn 2020/21 i golegau addysg bellach, gan gynnwys symiau pob elfen o'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliaeth ac addasiad Addysg Oedolion Cymru).

2.17.1 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad I**.

Manylion am newidiadau i fodel cyllido addysg bellach (os o gwbl) o'r model a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn eich papur dyddiedig 8 Ionawr 2020 a'r rheswm dros unrhyw newidiadau.

2.17.2 Wrth gyfrifo cyllid addysg bellach, caiff yr un model â'r hyn a gyflwynwyd yn y papur dyddiedig 8 Ionawr 2020 ei ddefnyddio.

2.17.3 Bydd un newid bach, wedi'i gynllunio, i'r dull o ddeillio dysgwyr a ragwelir drwy gynnwys cyfartaledd dros dair blynedd (y flwyddyn diwethaf, defnyddiwyd cyfartaledd dros ddwy flynedd), a hynny am fod Llywodraeth Cymru yn dal y data perthnasol ar gyfer y tair blynedd diwethaf a bod y newid yn sicrhau bod methodoleg cyllido addysg bellach yn hollol unol â methodoleg cyllido darpariaeth chweched dosbarth, sydd wedi defnyddio cyfartaledd dros dair blynedd ers sawl blwyddyn bellach.

Manylion unrhyw gyllid a glustnodwyd ar gyfer sefydliadau addysg bellach neu ddarpariaeth chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.

2.17.4 O ran cyllideb 2021-22, ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar ddyraniadau ôl-16 eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu dilysu. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar grantiau eraill sydd wedi'u clustnodi unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2021-22 i sicrhau cyflog cyfwerth a/neu dalu am unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i dalu'n llawn am unrhyw ddyfarniad cyflog / cyflogau cyfwerth dros gyfnod y gyllideb hon.

[5] Sefydliad Troseddwyr Ifanc

2.17.5 Ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar y dyraniadau ôl-16 eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

Manylion am ddyraniad cyflawn 2021-22 ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth, yn ôl pob awdurdod lleol, a rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2020-21 a 2021-22 a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo dyraniadau grant ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth.

2.17.6 Ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar y dyraniadau ôl-16 i'r sector addysg bellach eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

2.17.7 Yn yr un modd, nid ydym wedi cytuno eto ar werthoedd rhaglenni 2021-22, sy'n rhan graidd o'r dyraniadau. Atodir rhestr lawn o werthoedd rhaglenni 2020-21 yn **Atodiad I**.

Copi o'r canllawiau diweddaraf ar Dybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach a roddwyd i sefydliadau addysg bellach.

2.17.8 O ganlyniad i effaith COVID-19, cytunwyd â'r sector na fyddai ymarfer Rhagolygon ariannol addysg bellach 2020 yn cael ei gomisiynu oherwydd y nifer mawr o achosion o ansicrwydd a oedd yn bodoli yn ystod camau cynnar y cyfyngiadau symud yn ogystal â'r gofynion o ran adnoddau a fyddai'n cael eu gosod ar staff cyllid addysg bellach yn ystod yr ymarfer, a allai fod wedi cael eu defnyddio'n well ar weithgareddau eraill. Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae staff Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Addysg Bellach i sicrhau iechyd ariannol y sector.

2.17.9 Unwaith y bydd y rhagolwg economaidd wedi sefydlogi ac y bydd achosion o gryn ansicrwydd wedi diflannu, byddwn yn ceisio cynnal yr ymarfer a byddwn yn rhoi tybiaethau cynllunio addas i'r sefydliadau addysg bellach er mwyn iddynt allu paratoi eu rhagolygon.

Esboniad cam wrth gam o'r model cyllido ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, a dyraniad Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn ôl y cyrff perthnasol sy'n cael y cyllid yn uniongyrchol.

2.17.10 At ddibenion dyraniad 2020-21, cafodd pob awdurdod lleol 5/12 o'i ddyraniad yn seiliedig ar y fethodoleg gyfredol ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Awst 2020, gyda'r 7/12 o'r dyraniad a oedd yn weddill yn seiliedig ar y fethodoleg newydd rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021 o'r flwyddyn academaidd 2020/21.

2.17.11 Mae'r fethodoleg newydd yn rhoi'r dyraniad cyffredinol i bob awdurdod lleol ar sail pro rata, yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr ym mhob ardal sy'n dal cymhwyster lefel 1 neu is fel eu cymhwyster uchaf. Er y cydnabyddir bod y fethodoleg newydd hon yn arwain at rai newidiadau mawr mewn cyllid rhwng

awdurdodau lleol, mae'n sicrhau dull cyllido tecach, yn unol ag argymhellion yr ymgynghoriad ar Ddysgu Oedolion, drwy sicrhau bod pobl Cymru (sy'n dal cymhwyster lefel 1 neu is fel eu cymhwyster uchaf) yn cael yr un cyfle, ni waeth ym mha awdurdod lleol y maent yn byw.

2.17.12 Rydym yn sylweddoli bod angen i'r broses o symud i'r dyraniadau cyllid newydd gael ei chynllunio'n ofalus. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys elfennau pontio er mwyn sicrhau na fydd dyraniad unrhyw awdurdod lleol yn gostwng mwy na 5% o gymharu â 2019-20; ac rydym wedi gosod terfyn er mwyn sicrhau na fydd dyraniad unrhyw awdurdod lleol yn cynyddu mwy na 50% (neu £50,000 ar y mwyaf).

2.17.13 Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r sector dysgu oedolion er mwyn trafod trefniadau pontio wedi'u teilwra i sicrhau'r lefelau newydd o gyllid.

2.17.14 Ceir dyraniadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer 2020-21 yn **Atodiad I**.

2.18 Addysg uwch a chymorth i ddysgwyr ôl-16, gan gynnwys adnoddau ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr

Manylion am ddyraniad CCAUC, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid a glustnodwyd, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.

2.18.1 Nodir cyfanswm cyllideb ddiwygiedig CCAUC, yn unol ag Ail Gyllideb Atodol 2020-21 yn y tabl isod:

Enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	**2020-21 £000**
Gwariant Refeniw CCAUC	193,357
Dibrisiant CCAUC	90
Seilwaith Addysg (gwariant cyfalaf drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg)	10,000
Cyfanswm	**203,447**

2.18.2 Anfonwyd llythyr cyllido interim i CCAUC ym mis Ebrill 2020 yn ei hysbysu am ddyraniad cymorth grant dangosol o £172m ar gyfer 2020-21 i gefnogi addysg uwch yng Nghymru. O ran y blaenoriaethau, hysbyswyd y Cyngor y bydd y blaenoriaethau rydym wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf – sef cydweithredu AB-AU; cydweithredu rhwng y sector a busnes a diwydiant; ac adeiladu sector sydd â chyfrifoldeb sifig wrth ei wraidd – yn hanfodol i gefnogi'r ymdrech genedlaethol i ddelio â'r pandemig ac y byddwn yn disgwyl i’r Cyngor barhau i flaenoriaethu'r meysydd gweithgarwch hyn.

2.18.3 Anfonwyd cylch gwaith CCAUC ym mis Awst a oedd yn dyrannu £31.5m arall er mwyn sefydlu Cronfa Buddsoddi ac Adfer (£27m), rhoi cymorth ar gyfer

rhaglen Go Wales wedi'i hehangu (£1.5m) a chyllid ar gyfer cyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru (£3m).

2.18.4 Roedd blaenoriaethau'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer fel a ganlyn:

- Cynnal darpariaeth ym mhob rhan o'r system yng Nghymru mewn meysydd addysgu ac ymchwil â blaenoriaeth y mae angen eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd 2020/21 lle mae CCAUC wedi nodi bod darpariaeth o'r fath mewn perygl oherwydd methiant i recriwtio digon o fyfyrwyr domestig a rhyngwladol. Hoffwn pe bai CCAUC yn sicrhau ei fod wedi asesu sut y gall darpariaeth o'r fath barhau i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.
- Prosiectau adfer a buddsoddi â blaenoriaeth ym maes addysgu ac ymchwil, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer, sefydlogi ac ailadeiladu'r economi, gan gynnwys ymchwil i ddeallusrwydd artiffisial, datblygu technolegau digidol a thechnolegau gwyrdd.
- Buddsoddi mewn technolegau dysgu a chyfleusterau dysgu cyfunol, gan gynnwys ehangu darpariaeth ar-lein a datblygiadau cyfochrog ym maes cynhwysiant a chyrhaeddiad digidol, er mwyn sicrhau parhad ansawdd profiad myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, gyda'r nod o gynnal perfformiad traddodiadol gryf prifysgolion yng Nghymru o ran arolygon o brofiad myfyrwyr.
- Cefnogi'r penderfyniad i estyn contractau sgiliau ac ymchwil sydd mewn perygl rhwng prifysgolion a busnesau er mwyn cefnogi swyddi a chyfnewid gwybodaeth.
- Cronfeydd caledi myfyrwyr i'w dyrannu i sefydliadau gan CCAUC a sefydliadau i ddyrannu arian i fyfyrwyr, ar sail angen ariannol dybryd.
- Helpu sefydliadau i adolygu eu harlwy a chynghori eu llywodraethwyr ar ei ddatblygiad yn y dyfodol.

2.18.5 Yn 2021-22, gan adlewyrchu effaith barhaus COVID-19 ac yn unol â diwygiadau Diamond, bydd CCAUC yn cael dyraniad dangosol o £201m. Mae hwn yn cynnwys cyllideb wastad, heb gynnwys dyraniadau o gronfa wrth gefn COVID-19, gyda buddsoddiad ychwanegol o arbedion cymorth i fyfyrwyr.

O ran diwygiadau Diamond: nodi'r lefel ddisgwyliedig o arbedion cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer 2021-22 o gymharu â 2020-21 a chyfran y swm hwn a gaiff ei hailfuddsoddi yn y sector addysg uwch fel rhan o "Difidend Diamond".

2.18.6 Nodwyd £25m yn 2021-22 a chaiff y swm hwn ei ailfuddsoddi'n gyfan gwbl yn y sector addysg uwch, er mwyn gweithredu ar argymhellion cam terfynol adolygiad Diamond fel y cytunwyd gan y Cabinet. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer pynciau costus (rhan-amser ac amser llawn), ehangu a chynnal darpariaeth ran-amser, cynyddu QR a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth (rhan annatod o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Reid) a mwy o gydweithio rhwng addysg uwch, addysg bellach ac ysgolion.

2.18.7 Yn 2020-21, y bwriad oedd dyrannu £35m o gyllid ychwanegol i CCAUC fel dyraniad cylchol, gan roi'r cyllid iddo pan oedd ei angen i weithredu ar gam nesaf diwygiadau Diamond. Fodd bynnag, yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb, cafwyd gostyngiad o £16.3m yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC, a oedd yn golygu bod yn rhaid i CCAUC addasu ei fuddsoddiadau arfaethedig mewn rhai o'r gweithgareddau hynny yn 2020-21. Fodd bynnag, ers hynny dyrannwyd £41.5m o gyllid ychwanegol i CCAUC er mwyn helpu'r sector i liniaru effeithiau'r pandemig, helpu'r adferiad economaidd ehangach a rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer iechyd a llesiant myfyrwyr a chronfeydd caledi.

Manylion unrhyw ddyraniad yn 2021-22 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno gradd-brentisiaethau ac y bwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu addysgu'r prentisiaid presennol yn unig.

2.18.8 Cynhwysir £5m yn llinell sylfaen CCAUC i gefnogi Gradd-brentisiaethau. Disgwylir y bydd rhagor o gyllid yn cael ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn o MEG yr Economi a Thrafnidiaeth (fel rhan o broses y gyllideb atodol) er mwyn cefnogi cost Gradd-brentisiaethau newydd a pharhaus yn 2021-22. Nid yw'r gost wedi'i chadarnhau ar hyn o bryd.

Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i'w ddarparu i CCAUC, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arno.

2.18.9 Mae'r ymrwymiad i gyllid cyfalaf dros dair blynedd (£10m y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21) i ddarparu cyllid i helpu sefydliadau i leihau eu risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag ystadau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth reoli eu hystadau a'u gweithrediadau, wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall. Dyrannwyd £10m arall o gyllid cyfalaf ar gyfer 2021-22.

Grantiau: Tabl yn dangos alldro 2019-20, a gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

- ***Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion amser llawn;***
- ***Grant Cynhaliaeth ar gyfer israddedigion amser llawn;***
- ***Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion rhan-amser;***
- ***Grant Cynhaliaeth ar gyfer israddedgion rhan-amser;***
- ***Yr elfen sy'n ymwneud â Grant Cyllid Gradd Meistr;***
- ***Lwfans Cynhaliaeth Addysg;***
- ***Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach);***
- ***Grantiau a lwfansau wedi'u targedu***

2.18.10 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad J**.

Darparu benthyciadau: Tabl yn dangos alldro 2019-20, a chost benthyciadau a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

- ***Cost Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion amser llawn a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;***

- ***Cost Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion rhan-amser a chost benthyciadau cynhaliaeth a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;***
- ***Yr elfen sy'n ymwneud â chost benthyciadau Cyllid Gradd Meistr a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;***
- ***Cost benthyciadau doethurol a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau.***

2.18.11 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad J**.

2.19 Darpariaeth addysg ôl-16 arall

Manylion am gyllid Cyfrifon Dysgu Personol

2.19.1 Mae'r Cyfrifon Dysgu Personol, sef rhaglen gwerth £17.4m ar gyfer 2021-22, yn rhoi cymorth i bobl gyflogedig, gweithwyr ar ffyrlo neu unigolion y mae COVID-19 wedi cael effaith negyddol arnynt ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth, gan rymuso unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Drwy hyn, cynigir cyfleoedd i bobl newid gyrfa neu uwchsgilio yn eu dewis alwedigaeth.

2.19.2 Caiff y cyrsiau a'r cymwysterau eu cyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru; cânt eu darparu gan golegau a rhoddir cynllun ymarferol i bob unigolyn y gall ymgymryd ag ef fel rhan o'i ymrwymiadau presennol er mwyn ei helpu i gyflawni ei nodau gyrfa yn y dyfodol. Bydd y rhaglen yn helpu cyflogwyr i ailadeiladu eu busnesau drwy sgiliau a hyfforddiant mewn meysydd megis digidol, marchnata, cynhyrchu a rheoli.

2.19.3 Mae'r dull dysgu hyblyg hwn yn galluogi colegau i fynd ati mewn ffordd wahanol i gynnig cyrsiau a chymwysterau er mwyn bodloni gofynion pobl gyflogedig am sgiliau economaidd, ni waeth beth fo lefel flaenorol eu cymwysterau.

2.19.4 Wrth gyflwyno'r Cyfrifon Dysgu Personol hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu ffordd o weithredu sy'n canolbwyntio ar rywedd. Bwriad hyn yw helpu i nodi a deall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ymgymryd â gwaith i ddeall ac ystyried pwy sy'n derbyn y cynnig, a nodi unrhyw rwystrau anfwriadol i grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn ar gael ar ddechrau 2021.

Mae'n rhaid bod unigolion:

- Yn byw yng Nghymru
- Am ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau â blaenoriaeth
- yn 19 oed neu'n hŷn

2.19.5 Hefyd, mae'n rhaid i unigolion fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Pobl gyflogedig (gan gynnwys pobl hunangyflogedig) sy'n ennill o dan yr incwm canolrifol (£26,000),
- Gweithwyr ar ffyrlo,
- Gweithwyr â chontractau dim oriau,
- Staff asiantaeth,
- Yn wynebu risg o gael eu diswyddo,
- Mae COVID-19 wedi cael effaith negyddol arnynt

Manylion am gyllideb Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.19.6 Cyllid cyffredinol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw £6.243m. Mae hyn yn cynnwys £5.4m ar gyfer y Coleg a £0.330m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Ar gyfer addysg ôl-16, dyrennir cyfanswm o £0.513m i gefnogi Cynllun Gweithredu cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

2.20 Ymchwil ac arloesi, a gwyddoniaeth

Manylion am y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor yn ystod y broses o graffu ar gyllideb 2020-21 nad yw'n hollol glir ar hyn o bryd faint o arian y Llywodraeth sy'n cael ei ddyrannu i feysydd ymchwil ac arloesi, ac y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Pwyllgor unwaith y byddai'n hysbys.

2.20.1 Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailflaenoriaethu ei hymdrechion er mwyn ymdrin â'r pandemig heriol tu hwnt hwn a'r effeithiau ar ein cymdeithas a'n heconomi ar bob lefel, gyda goblygiadau mawr i gyfrifoldebau perthnasol pob Gweinidog. Felly, ni allaf ond sôn am y sefyllfa fel y bo'n gymwys i gyfrifoldebau fy mhortffolio fy hun. Y cyllid gros ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn fy mhortffolio ar gyfer 2021-22 yw £22.6m.

Manylion y cymorth ar gyfer y canlynol:

- ***y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa;***
- ***gweithgarwch ymchwil ac arloesedd ar gyfer busnesau a diwydiant;***
- ***y Gwyddorau bywyd.***

Y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa:

2.20.2 Mae cyfanswm y cyllid a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'r Swyddfa Gwyddoniaeth yn 2021-22 wedi'i rannu fel a ganlyn:

Cyllideb y Swyddfa Gwyddoniaeth	**2021-22**
Cyfalaf	£000
Sêr Cymru II+	439
Sêr Cymru III	5,236

Cyfanswm	**5,675**
Refeniw	
Cymorth ar gyfer prosiectau a hwyluso prosiectau	520
Trio Sci Cymru	330
Llesiant a Marchnata, gan gynnwys cymorth ar gyfer Brexit a chyllid paratoi	500
Cyfanswm	**1,350**

2.20.3 Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r staff yn ei dîm wedi gwneud pob ymdrech ers mis Mawrth i roi cymorth i'w cydweithwyr ym maes iechyd.

2.20.4 Hefyd, cyhoeddodd Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru gais ymchwil, drwy Raglen Sêr Cymru, am geisiadau gan Brifysgolion yng Nghymru ar gyfer cynigion ymchwil gwreiddiol a allai gyfrannu at hyrwyddo neu ddatblygu ymchwil sy'n effeithio ar COVID-19. Yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â materion â blaenoriaeth o ran COVID-19, roedd y gweithgaredd hwn hefyd yn anelu at gefnogi a defnyddio'r arbenigedd a'r dalent yn ein sector prifysgolion. Drwy'r fenter hon, bu modd cefnogi 39 o brosiectau i gyd, gan ddyrannu cyfanswm o £2.9m.

2.20.5 Mae prifysgolion wedi ymateb yn dda i gais ymchwil Sêr Cymru 'Mynd i'r afael â COVID-19' ac wedi blaenoriaethu adnoddau i helpu gyda phandemig COVID-19 a'i effeithiau ond maent hefyd wedi wynebu achosion o oedi o ran eu hymchwil gyffredinol pan na fu modd i academyddion gael mynediad i labordai yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud.

2.20.6 Gyda'i gilydd, bydd y gwahanol amgylchiadau hyn yn golygu, yn anochel, y bydd rhai o ymrwymiadau Prifysgolion i brosiectau ehangach, megis y rhai a gefnogir gan Sêr Cymru yn fwy cyffredinol, yn arafu. Yn gynyddol, bydd hyn yn golygu y caiff ymrwymiadau eu cyflawni yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen gyfredol. Teimlir y bydd hyn yn gwella dros amser cyhyd ag y gallwn barhau i ddarparu digon o gyllid ac adnoddau i barhau i reoli a chefnogi rhaglen Sêr Cymru a'i buddiolwyr yn ystod cyfnod economaidd heriol tu hwnt. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae rhaglen Sêr Cymru wedi cefnogi: tri rhwydwaith ymchwil, 12 o Gadeiryddion Ymchwil, 11 o 'Sêr Disglair', dros 115 o Gymrodyr Ymchwil a thua 340 o fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol yng Nghymru, o 29 o wledydd, gyda chyfanswm buddsoddiad o £100m.

2.20.7 Mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar gam Sêr Cymru yn y dyfodol a'i ddatblygu i'w ystyried. Bydd y cam hwn yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd, gan gynnwys yr ymateb i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, efallai y bydd y cynigion yn wynebu cyfyngiadau ariannol, o ystyried y diffyg eglurder o hyd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r ffaith bod ymchwil ac arloesi wedi dibynnu'n hanesyddol ar fynediad Cymru at gronfeydd strwythurol yr UE.

Gweithgarwch ymchwil ac arloesedd ar gyfer busnesau a diwydiant

2.20.8 Cyfanswm Cyllid SMART ar gyfer Gweithgarwch Arloesi Busnes 2014-2020 (ond gall prosiectau unigol redeg tan 2023):

Cyflawniadau Perfformiad SMART hyd yma	Unedau
Busnesau sy'n Derbyn Cymorth Anariannol	463
Cyngor Arbenigol sy'n Dechrau Cynnyrch neu Broses Newydd	299
Patentau a Gofrestrwyd	39
Nifer y busnesau/partneriaid sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gefnogir.	108
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau a gefnogir.	351
Cynhyrchion newydd i'r farchnad	122
Cynhyrchion newydd i'r cwmni	423
Buddsoddiad yn y sector preifat (£m)	**£55.7m**

2.20.9 Cyfanswm Cyllid SMART ar gyfer Gweithgarwch Arloesi Busnes 2014-2020 (ond bydd prosiectau unigol yn rhedeg tan 2023, ond o fewn llinellau'r gyllideb bresennol).

	Llywodraeth Cymru	ERDF	Sector Preifat	Cyfanswm
Arloesedd SMART	£7.5m	£11.0m	-	£18.5m
SMART Cymru	-	£27.3m	£36.1m	£63.4m
Arbenigedd SMART	£1.3m	£30.3m	£19.7m	£51.3m
Cyfanswm	**£8.8m**	**£68.6m**	**£55.7m**	**£133.1m**
Cyfanswm y Flwyddyn	**£1.2m**	**£9.8m**	**£8.0m**	**£19.0m**

2.20.10 Mae rhaglenni SMART yn cefnogi busnesau yng Nghymru drwy'r canlynol:

- ***goresgyn*** rhwystrau i arloesi ac ymchwil a datblygu *Arloesedd SMART* – llu maes o arbenigwyr diwydiant sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ymchwil a datblygu, ymgynghoriaeth dechnegol, gweithgynhyrchu uwch, dylunio arloesol, arloesedd agored ac eiddo deallusol.

- ***rhannu'r*** risg sy'n gysylltiedig â'u harloesedd a'u hymchwil a datblygu. *SMART Cymru* – cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith ac ymgymryd ag ymchwil a datblygu, gan gynnwys dichonoldeb technegol, ymchwil ddiwydiannol a datblygu arbrofol.

- ***cefnogi*** gweithgarwch ymchwil a datblygu cydweithredol i fasnacheiddio gwybodaeth academaidd. *Arbenigedd SMART* – sy'n cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol a arweinir gan ddiwydiant rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil, gan droi ymchwil yn atebion masnachol.

2.20.11 Mae rhaglenni SMART yn cefnogi busnesau yng Nghymru drwy'r canlynol:

- ***goresgyn*** rhwystrau i arloesi ac ymchwil a datblygu *Arloesedd SMART* – llu maes o arbenigwyr diwydiant sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ymchwil a datblygu, ymgynghoriaeth dechnegol, gweithgynhyrchu uwch, dylunio arloesol, arloesedd agored ac eiddo deallusol.

- ***rhannu'r*** risg sy'n gysylltiedig â'u harloesedd a'u hymchwil a datblygu. *SMART Cymru* – cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith ac ymgymryd ag ymchwil a datblygu, gan gynnwys dichonoldeb technegol, ymchwil ddiwydiannol a datblygu arbrofol.

- ***cefnogi*** gweithgarwch ymchwil a datblygu cydweithredol i fasnacheiddio gwybodaeth academaidd. *Arbenigedd SMART* – sy'n cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol a arweinir gan ddiwydiant rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil, gan droi ymchwil yn atebion masnachol.

Gwyddorau Bywyd

2.20.12 Mae cyfanswm y cyllid a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn 2021-22 wedi'i rannu'n gyfartal rhwng Addysg ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.20.13 Mae'r Hwb yn gangen gyflawni bwysig i hyrwyddo blaenoriaethau pwysig eraill a rennir. Mae'n un o'r prif ddulliau o sicrhau egwyddorion gweithio ar y cyd rhwng rhanddeiliaid ac integreiddio portffolios fel yr amlinellwyd yn Ffyniant i Bawb a Cymru Iachach, sef strategaethau cenedlaethol allweddol.

2.20.14 Ar ddechrau'r cyfnod cyllido presennol, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau gynllun busnes yr Hwb ar gyfer 2020/21 gyda ffocws ar bum maes effaith allweddol:-

- Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapiwtig Datblygedig
- Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg
- Heneiddio'n Iach
- Academïau Dysgu Dwys/Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth
- Meddygaeth Fanwl

2.20.15 Yn y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill a mis Medi, mae gweithgarwch yr Hwb wedi arwain at gyfres o ganlyniadau cadarnhaol sydd wedi helpu i sicrhau 417 o swyddi a chontractau newydd gwerth £4.65m ar gyfer busnesau gwyddorau bywyd yng Nghymru.

2.20.16 Yn sgil pandemig COVID-19, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymgymryd â rôl allweddol o ran sut mae diwydiant yn ymgysylltu â'r GIG yng Nghymru. Daeth y sefydliad yn brif bwynt mynediad i fusnesau a oedd am gynnig atebion posibl i ateb y galw am gynhyrchion a gwasanaethau a grëwyd gan y pandemig. Mae wedi gwneud hyn drwy gynnig proses frysbennu effeithiol i ddilysu darpar gyflenwyr i'w hatgyfeirio ymlaen at Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Diwydiant Cymru, Llywodraeth

Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gweithgarwch hwn yn mynd rhagddo o hyd a bydd yn parhau yn 2021/22 ochr yn ochr â'i feysydd effaith allweddol.

2.20.17 Erbyn mis Awst 2020, cafwyd 2,220 o ymholiadau gan fusnesau o ganlyniad i gais Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddiwydiant ynglŷn â COVID-19 a'i ddigwyddiadau. Llwyddodd dros 550 o fusnesau yn y prawf diwydrwydd dyladwy cychwynnol gan Dîm yr Hwb cyn cael eu hatgyfeirio fel cyfleoedd i gyflenwi cynhyrchion. Er enghraifft, drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes yr economi yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, mae'r Hwb wedi llwyddo i gefnogi cwmnïau megis BCB International, sef cwmni sydd wedi bod yn gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu ar gyfer marchnadoedd amddiffyn, morol ac antur yng Nghymru ers 160 o flynyddoedd. Newidiodd y cwmni ei weithgarwch cynhyrchu ar ei safle yn Llanelli i gynhyrchu hylif diheintio dwylo cryf iawn a chyfarpar diogelu personol, gan dderbyn archebion gwerth dros £2.2m. Mae wedi cyflenwi pedwar cynnyrch newydd i'r sector meddygol ac iechyd yng Nghymru ac wedi helpu i sicrhau 100 o swyddi o ganlyniad i hynny.

2.20.18 Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw'r partner arweiniol hefyd mewn menter gydweithredol gwerth £24 miliwn â sector addysg uwch Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a WEFO. Mae'r bartneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnig y cyfle i fanteisio ar arbenigedd academaidd, drwy ddealltwriaeth o ecosystem y gwyddorau bywyd, a'r cyfleusterau diweddaraf sydd eu hangen ar arloeswyr ac entrepreneuriaid er mwyn gwireddu eu syniadau.

2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a hynt y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yma, yn ôl:

- ***crynodeb o wariant a nifer y prosiectau yr ymgymerwyd â nhw / a gwblhawyd ym Mand A;***
- ***y sefyllfa ddiweddaraf o ran Band B y rhaglen.***

2.21.1 Mae Band A yn tynnu at ei derfyn ar ôl buddsoddi £1.61bn yn seilwaith ysgolion a cholegau yng Nghymru, gyda buddsoddiad o £801m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyflawni 170 o brosiectau yn erbyn targed o 150. O'r prosiectau hyn, mae 163 wedi'u cwblhau, ac mae'r gweddill yn cael eu hadeiladu.

2.21.2 Mae Band B wedi cyflawni eithaf tipyn, ar ôl dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill 2019. Hyd yma, mae buddsoddiad gwerth £448m wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer 43 o brosiectau, gyda chyfraniad o £295m gan Lywodraeth Cymru. O'r 43 o brosiectau a gymeradwywyd, mae 27 o brosiectau yn cael eu hadeiladu ac mae 12 ar y cam cyn adeiladu. Mae'n dda gennyf nodi bod pedwar prosiect wedi cael eu cwblhau hefyd.

Unrhyw oblygiadau i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys unrhyw effaith ar hynt prosiectau.

2.21.3 Mae'r pandemig, yn anochel, wedi effeithio ar y rhaglen, gyda'r gwaith adeiladu yn arafu a hyd yn oed yn cael ei atal dros dro ar rai prosiectau yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Ar ôl siarad â phartneriaid cyflawni, rydym wedi llwyddo i gael y diweddaraf ar y sefyllfa hon ac ar ddechrau'r flwyddyn cytunwyd y dylid talu prosiectau, yn fisol, yn ôl proffil i ysgogi'r sector adeiladu yn ystod y cyfnod anodd.

2.21.4 Yn ystod ein trafodaethau â'r partneriaid cyflawni, daeth yn amlwg bod costau yn cynyddu ar brosiectau, nid dim ond ar hyn o bryd ond hefyd yn y dyfodol, o ganlyniad i COVID-19. Mae angen i gontractwyr wella mesurau diogelwch ar safleoedd er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu cynnydd hefyd yng nghostau cadwyni cyflenwi. Er nad yw union ffigurau'r cynnydd yn hysbys yng Nghymru ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd costau'r sector adeiladu yn chwyddo 15% o ganlyniad i hyn.

2.21.5 Er mwyn cefnogi'r costau ychwanegol hyn, sicrhawyd £30m yn ychwanegol ar gyfer y rhaglen o gronfa cadernid COVID-19. Bwriedir i'r cyllid hwn helpu i dalu costau yr aed iddynt o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd i ddechrau ariannu costau carbon sero-net. Rydym wrthi'n asesu ceisiadau partneriaid cyflawni am y cyllid hwn. Darparwyd £40m arall ar gyfer y rhaglen yn 2021-22, y bwriedir i £5m ohono gefnogi'r cynllun peilot carbon sero-net.

2.22 Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

Diweddariad ar gyllid cyfalaf o MEG Addysg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut yr effeithiwyd / yr effeithir ar hyn o ganlyniad i'r adolygiad o'r hawl i gael y cynnig, fel y'i cyhoeddwyd ym mharagraff 368 o Gofnod y Trafodion ar 24 Medi 2019.

2.22.1 Yn 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £10m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf i gefnogi cyllid cyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, er mwyn gwella ansawdd lleoliadau gofal plant ymhellach ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys £5m ar gyfer y Cynnig Gofal Plant sy'n gwneud cyfanswm o £45m o gyllid cyfalaf yn 2021-22, ac yn gwneud cyfanswm o £75m dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2018-19 a 2021-22.

2.22.2 Nid yw'r adolygiad o'r hawl i gael y Cynnig Gofal Plant i Rieni mewn Hyfforddiant ac Addysg wedi'i gwblhau'n derfynol eto ac, ynghyd â'r ffaith bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar alw, mae'n rhy gynnar i ragweld yr effaith ar gyllid cyfalaf. Mae'r buddsoddiad o £75m hyd yma eisoes wedi'i neilltuo'n llawn ond gan fod £5m o hyd yn y llinell sylfaen, bydd y cyllid hwn yn cyfrannu tuag at unrhyw blant ychwanegol sy'n dod yn gymwys Ar hyn o bryd, rydym wedi dyrannu £6m yn fwy na'n cyllideb gyfalaf. Mae hwn yn swm darbodus am ei fod yn rhychwantu nifer o flynyddoedd, yn caniatáu ar gyfer twf yn y gyllideb dros y cyfnod hwnnw ac yn derbyn y gall

prosiectau cyfalaf newid o ran maint a chwmpas, ac efallai na fydd rhai yn mynd rhagddynt.

2.22.3 Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer 2021-22 yn ein helpu i barhau i gydleoli darpariaeth addysg gynnar bresennol â darpariaeth y cynnig gofal plant newydd ar un safle, lle bynnag y bo modd, gan gefnogi dull cydgysylltiedig o weithio gyda phlant a'u teuluoedd. Bydd yn sicrhau bod digon o ofal plant yn y mannau cywir, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle mae prinder gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o dan anfantais.

2.22.4 Mae ein buddsoddiad cyfalaf yn cynnwys dyraniad o £8.4m i awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer grantiau bach. Drwy hyn, gall darparwyr gofal plant wneud cais i'w hawdurdod lleol yn uniongyrchol am hyd at £10,000 ar gyfer prosiectau bach, megis gwaith adnewyddu, prynu eitemau newydd yn lle rhai wedi treulio a gwella'r cyfleusterau presennol. Darparwyd hefyd £2m yn ychwanegol yn ystod 2020-21 er mwyn helpu lleoliadau gofal plant yn benodol gydag addasiadau i ymdopi â'r gofynion o ganlyniad i'r pandemig.

2.22.5 Caiff grantiau cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg eu darparu mewn ffordd gydweithredol er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o reoli ein rhaglenni cyfalaf. Mae ein rhaglen gyfalaf yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gyda 49% o gyllid cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn cael ei fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bron 6% mewn darpariaeth gofal plant ddwyieithog.

2.22.6 Ochr yn ochr â hyn, rydym yn buddsoddi £5.5m o gyllid cyfalaf yn 2021-22 yn Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod ystad bresennol Dechrau'n Deg yn cael ei chynnal a'i chadw ac y gall barhau i roi gofal o'r safon uchaf. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i Dechrau'n Deg gyfrannu at ddatblygu cyfleusterau'r Blynyddoedd Cynnar integredig, wedi'u cydleoli fel rhan o Raglen Trawsnewid ehangach y Blynyddoedd Cynnar.

2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer menter Ysgolion Bro

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer grant Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar hynt y gwaith o gynyddu ffocws cymunedol ystadau addysg.

2.23.1 Mae'r rhaglen Hybiau Cymunedol yn gwneud cynnydd da. Mae pedwar o'r 21 o brosiectau a gymeradwywyd wedi cael eu cwblhau, mae 10 wrthi'n cael eu hadeiladu ac mae saith ar y cam cyn adeiladu. Mae pob prosiect ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau yn ystod 2021-22 ac mae cyllideb o £12.5m wedi cael ei dyrannu i helpu i'w cyflawni. Mae partneriaid cyflawni eisoes yn cynnwys agweddau cymunedol ar eu prosiectau Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif a ddylai gynyddu'r ddarpariaeth.

Crynodeb
Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG Addysg ar gyfer 2021-22 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

ATODIAD A – Sylwadau ar lefel camau gweithredu o fewn y MEG

Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir sylwadau ar newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl Cam Gweithredu o fewn MEG Addysg isod. Maent yn adlewyrchu cyllidebau a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 a newidiadau ar gyfer 2021-22 o gymharu â llinell sylfaen 2020-21 (yn seiliedig ar Gyllideb Derfynol 2020-21 yn amodol ar newidiadau a amlinellir ym mharagraffau 1.1.2 a 1.1.5 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
6,356	6,356	4,456	(285)	4,171

- Mae'r cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r broses o gymryd y camau gweithredol a nodwyd yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu a chynnal y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a chyflwyno asesiadau ymaddasol ar-lein fesul cam.

- Er mwyn hwyluso'r broses o bontio o brofion ar bapur i asesiadau ymaddasol ar-lein, derbyniwyd cyllid Buddsoddi i Arbed gwerth £5m i gyd rhwng 2016-17 a 2019-20. Caiff hwn ei ad-dalu o 2021-22 tan 2024-25 yn seiliedig ar yr amserlen ad-dalu bresennol. Mae'r llinell sylfaen ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu'r penderfyniad i dynnu £2.1m o gyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2019-20 nad addaswyd ar ei gyfer yng Nghyllideb Derfynol 2020-21. Mae'r gostyngiad o £0.285m yn adlewyrchu ad-daliad y flwyddyn gyntaf o'r cyllid Buddsoddi i Arbed.

Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
10,053	10,053	13,080	8,900	21,980

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, mae'r cyllid cyflawni bellach wedi'i gynnwys yn y Grant Gwella Addysg o fewn Cam Gweithredu Safonau Addysg), y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a Threfniadau Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm. Mae'r gyllideb yn cynyddu £8.9m o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Mae'r cynnydd o £7.9m yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu'r Cwricwlwm yn 2021-22 yn rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn 2021-22 (ceir rhagor o fanylion yn 1.5.1.-1.5.2 o'r papur tystiolaeth).

- Bu cynnydd o £1m hefyd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu fel cyfraniad at y costau sy'n gysylltiedig â chysoni'r cyfraddau cyllido ar gyfer addysg yn y Cyfnod Sylfaen a gofal plant drwy'r Cynnig Gofal Plant. Nodwyd cyfanswm cyllid o £3.8m (wedi'i rannu'n gyfartal rhwng MEG Addysg a MEG Gwasanaethau Cymdeithasol) yn 2021-22. Amlinellir rhagor o fanylion yn adran 2.14 o'r papur tystiolaeth. Nodwyd y £0.9m sy'n weddill drwy'r ddarpariaeth bresennol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu.

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
31,895	31,895	38,914	-	38,914

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), gan gynnwys y llwybrau AGA ‘amgen’, TAR rhan-amser a TAR â Chyflog sydd ar gael o'r flwyddyn academaidd 2020/21, pan fydd grant hyfforddiant a grant cyfraniad cyflog yn cael eu darparu ar gyfer myfyrwyr AGA. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cymhellion Hyfforddi Athrawon (TAR addysg uwch ac addysg bellach) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysgu, gan gynnwys dysgu proffesiynol i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn ariannu Cyngor y Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r Rhaglen Ymsefydlu mewn ysgolion, gan gynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi mentora a chymorth i ANGau.

- Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon ar gyfer 2021-22 (amlinellir rhagor o fanylion yn adran 2.4 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Cymwysterau

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
9,463	9,463	9,463	404	9,867

- Mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer Cymwysterau Cymru wedi cynyddu £0.404m yn 2021-22; £0.369m i gyfrannu at y rhaglen o ddiwygio ochr yn ochr â'r blaenoriaethau sydd ganddo eisoes; a swm anariannol ychwanegol o £0.035m ar gyfer dibrisiant (ceir rhagor o fanylion yn adran 2.12 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Addysg ôl-16

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau

£000	£000			Newydd £000
459,377	487,711	460,326	39,980	500,306

- Mae'r Cam Gweithredu hwn (y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach) yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth UA, Safon Uwch ac amrywiaeth eang o raglenni galwedigaethol i ddysgwyr 16-19 oed yn narpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol ac mewn colegau addysg bellach. Mae hefyd yn darparu darpariaeth ran-amser i oedolion (darpariaeth Sgiliau Sylfaenol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn bennaf), mewn colegau addysg bellach a lleoliadau Dysgu Cymunedol awdurdodau lleol. Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd â'r nod o wella'r ffordd y darperir dysgu ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil i'r sector dysgu a sgiliau, cyllid grant y Sefydliad Dysgu a Gwaith (gan gynnwys Wythnos Addysg Oedolion), datblygu polisïau ym maes Gyrfaoedd, cyllid i helpu i gyflwyno rhwydwaith Seren, gan helpu'r dysgwyr mwyaf disglair i fynd i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton; a gweithgareddau Erasmus i gefnogi symudedd rhyngwladol i staff a myfyrwyr.

- Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg ôl-16 wedi cynyddu £39.98m ar gyfer 2021-22 o ganlyniad i'r dyraniadau canlynol:
  - £5m ar gyfer cyllid ailadeiladu addysg bellach;
  - £21.745m i adlewyrchu'r cynnydd yn nemograffeg addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth;
  - £5.39m i ariannu Cyfrifon Dysgu Personol;
  - trosglwyddiad o £7.0m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr;
  - trosglwyddiad o £0.845m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef y gyfran o'r £8m o gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol i sefydliadau addysg bellach.

Cam Gweithredu Addysg Uwch

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
161,947	193,477	176,878	25,025	201,903

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer gwariant rhaglenni CCAUC** – Mae'r gyllideb hon yn cynnwys Cymorth Grant er mwyn i CCAUC gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol. Mae'r blaenoriaethau presennol yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol: ehangu mynediad; ehangu a gwella darpariaeth ran-amser ac ymchwil i ansawdd; hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng addysg uwch ac addysg bellach ac ymrwymiad i gynllunio darpariaeth addysg uwch ar sail ranbarthol; cyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru; cyfrannu at addysg a datblygiad proffesiynol athrawon drwy ymgysylltu agos rhwng prifysgolion ac

ysgolion; tyfu cenhadaeth ddinesig addysg uwch yng Nghymru; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog a helpu i gyflwyno arferion gwaith teg ehangach Llywodraeth Cymru; rheoleiddio addysgu uwch, gan wella profiad myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr; llesiant, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid ar fynd i'r afael â ffactorau sy'n amharu ar iechyd meddwl; a chyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dadgarboneiddio ein heconomi. Bydd CCAUC hefyd yn ymgymryd â gwaith i helpu i roi ail gam Diamond ar waith a helpu i fwrw ymlaen â'n cynigion i sefydlu Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, er enghraifft, drwy ddatblygu cysylltiadau cryfach â'r sector AHO ehangach.

- Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi cynyddu £25.025m yn 2021-22 o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Ceir cynnydd o £25m o ganlyniad i drosglwyddo cyllidebau o fewn y MEG o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, er mwyn parhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau ynglŷn â chymorth i fyfyrwyr yn derfynol bellach ac mae'r cam gweithredu olaf yn parhau drwy drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflwyno'r elfennau olaf o'r ymateb wrth iddynt gael eu rhoi ar waith yn raddol dros gyfnod o dair blynedd. Trosglwyddwyd swm ychwanegol o £0.025m i mewn o'r llinell wariant ar gyfer y Grant Cymorth i Fyfyrwyr ar gyfer Blaenoriaeth Ôl-raddedig a'r Bwrsari i Bobl dros 60 oed.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer cyfalaf CCAUC (Dibrisiant)** – mae'r gyllideb o £0.090m wedi parhau ar lefelau 2020-21.

Cam Gweithredu Safonau Addysg

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
153,285	170,125	160,853	12,339	173,192

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar y Grant Gwella Ysgolion** – Mae'r llinell wariant hon yn cynnwys maint dosbarthiadau babanod, y Grant Gwella Addysg a chyllid grant ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r llinell wariant hon wedi cynyddu £12.029m yn 2021-22 o ganlyniad i'r canlynol:
    - Dyraniad COVID-19 o £12.029m o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid dal i fyny i ysgolion ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd 2020/21 (gweler paragraff 1.6.16 o'r papur tystiolaeth);
    - £1m o'r Cronfeydd Wrth Gefn i roi cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr (gweler adran 2.7 o'r papur tystiolaeth);
    - Trosglwyddiad o £1m o fewn y MEG i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu er mwyn helpu i gysoni cyfraddau cyllido ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant (gweler 2.14 o'r papur tystiolaeth). Nid yw'r trosglwyddiad yn golygu toriad mewn cyllid ar

gyfer y llinell wariant hon, ac mae'n adlewyrchu'r cyllid a neilltuwyd i barhau â'r grant ar gyfer maint dosbarthiadau babanod yn 2021-22.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion** – Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r swm ychwanegol o £100m a neilltuwyd dros dymor y Senedd hon i wella safonau mewn ysgolion. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon a dyrennir £25.5m yn 2021-22 i barhau â'n hymrwymiad i wella safonau a lleihau anghydraddoldebau mewn addysg.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cefnogi Safonau Ysgolion** – Mae'r gyllideb hon yn ariannu systemau a phrosesau casglu data sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer gweithgarwch llunio polisïau ac sy'n weladwy ac yn broffil uchel. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cyllid a rhoi tystiolaeth o welliannau mewn safonau a'u dangos a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r cynnydd o £0.31m o ganlyniad i drosglwyddo cyllidebau o fewn MEG i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am PISA.

Cam Gweithredu'r Grant Datblygu Disgyblion

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
108,500	108,500	111,500	2,000	113,500

- Bu cynnydd cyffredinol o £2m o ganlyniad i drosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, a fydd yn cynyddu'r cyllid i fwy na £10m yn 2021-22 (gweler adran 2.3 o'r papur tystiolaeth

Cam Gweithredu TGCh Systemau Rheoli Gwybodaeth

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
4,279	4,279	4,429	-	4,429

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm drwy roi mynediad at amrywiaeth o adnoddau addysgu digidol o ansawdd uchel, gan gynnwys: Hwb; cymorth i wneud ceisiadau i AGC; a systemau rheoli data mewnol. Bydd y gyllideb hon yn parhau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau

£000	£000			Newydd £000
34,332	34,332	35,332	305	35,637

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol** – Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith. Ceir cyllideb o £9.691m ar gyfer 2021-22, sy'n cynnwys y swm o £8m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, wedi'i wrthbwyso gan drosglwyddiad o £0.845m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach, sef y ganran o'r £8m o gyllid ADY i sefydliadau addysg bellach.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer bwyd a maeth mewn ysgolion** – Rydym wedi parhau i ddiogelu cyllid o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion ar gyfer y Cynllun Llaeth mewn Ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfradd gymorthdaledig. Bu dau drosglwyddiad sy'n netio i £1.150m, sef:
    - £2.150m i ehangu'r rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol;
    - trosglwyddiad o £1m rhwng Prif Grwpiau Gwariant i gyllidebau gofal plant o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer llwgu yn ystod y gwyliau, er mwyn cywiro'r trosglwyddiad yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer lleoliadau arbenigol ôl-16** – Mae'r gyllideb yn rhoi cyllid ar gyfer lleoliadau coleg arbenigol i ddysgwyr hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt i ddilyn cyrsiau addysg bellach sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cyllid yn statudol ac yn seiliedig ar alw. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £13.881m ar gyfer 2021-22 ar ôl cynnydd o £1.4m y flwyddyn diwethaf.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant** – Mae'r llinell wariant hon yn darparu cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a bydd yn parhau ar lefel o £2m ar gyfer 2021-22. Dyrennir swm ychwanegol o £4m i gefnogi'r dull ysgol gyfan o MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn 2021-22 (ceir rhagor o fanylion yn adran 2.6 o'r papur tystiolaeth).

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed** – Mae'r llinell wariant hon yn cynnwys swm ychwanegol o £0.9m i ymgymryd â gwaith archwiliol ar ddull integredig o gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Fel rhan o'r gwaith hwn, cawsom adroddiad ar ymarfer cwmpasu i archwilio modelau integredig, Ysgolion Rhithwir, a dulliau system gyfan ymhellach, fel sail i ddull gweithredu i Gymru.O ganlyniad i'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil bellach gyda'r nod o gyflwyno dull gweithredu i Gymru yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £1.150m ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16

Cyllideb Atodol	Ail Gyllideb	Llinell Sylfaen	Newidiadau	Cyllideb Ddrafft

Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	2020-21 £000	2021-22 £000	2021-22 Cynlluniau Newydd £000
512,611	512,611	518,231	(28,162)	490,069

- Bu gostyngiad o £28.162m yn y Cam Gweithredu ar ôl trosglwyddo cyllidebau o fewn y MEG o'r llinell wariant ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr i'r llinell wariant ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC a'r llinell wariant ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach. Mae'r trosglwyddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o barhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau ynglŷn â chymorth i fyfyrwyr yn derfynol bellach ac mae'r cam gweithredu olaf yn parhau drwy drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflwyno'r elfennau olaf o'r ymateb wrth iddynt gael eu rhoi ar waith yn raddol dros gyfnod o dair blynedd.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr** – Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol sy'n seiliedig ar alw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, y Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Bydd y llinell wariant yn gostwng o £32.025m:

    - trosglwyddiad o £25m i'r llinell wariant ar gyfer Rhaglenni CCAUC er mwyn parhau â'n buddsoddiad mewn addysg uwch a swm arall o £0.025m i'r llinell wariant hon ar gyfer Blaenoriaeth Ôl-raddedig a'r Bwrsari i Bobl dros 60 oed.

    - trosglwyddiad o £7m i'r llinell wariant ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach wedi'i ddyrannu ar gyfer ein hymrwymiadau i ddysgu gydol oes.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer costau gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/CThEM** – Mae'r gyllideb hon yn darparu'r ffi weinyddu a delir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yn ogystal â busnes arferol a chostau prosiectau sy'n mynd rhagddynt, caiff y gyllideb hon ei defnyddio i ariannu'r gwaith o roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamod ar waith. Mae'r llinell wariant hefyd yn ariannu: ffi weinyddu CThEM, gweinyddiaeth y cymorth statudol i fyfyrwyr ar gyfer carfanau hanesyddol o fyfyrwyr a pholisïau a gweithredu gan Y Brifysgol Agored. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £14.343m ar gyfer 2021-22.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer darpariaethau cyllideb adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr** – Mae'n cynnwys darpariaeth anariannol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Mae cynnydd o £3.863m yn ymwneud â throsglwydiad o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Cynllun Hyfforddi'r Gweithlu AaGIC.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer dyfarniadau cymorth i fyfyrwyr wedi'u targedu** – Mae cyllideb y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn rhoi cymorth ariannol yn ôl disgresiwn i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Brifysgol Agored, sy'n wynebu

caledi ariannol, er mwyn eu helpu i gael mynediad at gyrsiau ac aros mewn addysg. Mae'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) yn rhoi cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny a allai gael eu hatal rhag dilyn cyrsiau addysg bellach oherwydd ystyriaeth ariannol, neu sy'n wynebu caledi ariannol, am ba reswm bynnag, gan gynnwys rheswm corfforol neu anabledd arall. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £6.297m ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
784	784	2,015	-	2,015

- Mae'r Cam Gweithredu hwn (y llinell wariant ar gyfer Trechu Dadrithiad) yn cefnogi gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau dysgwyr sy'n agored i niwed/o dan anfantais drwy'r canlynol: Gwella mesurau gwrthfwlio a phresenoldeb yn yr ysgol; Gŵyl y Gelli (rhaglenni i ysgolion a dysgwyr); Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Cwnsela; Addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrthfwlio. Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, cynyddwyd y cyllid i £1.5m er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg yn y cartref a bodloni disgwyliadau newydd. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
10,654	10,654	10,654	-	10,654

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu nifer o grantiau cymorth i ieuenctid er mwyn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru ac ymgymryd â gweithgarwch i gefnogi'r gwaith o barhau i roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid). At hynny, mae'r Cam Gweithredu hefyd yn rhoi cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi darpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda Dysgu ar gyfer Troseddwyr, a chefnogi'r gwaith o ddysgu sgiliau hanfodol i'r rhai sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned. Mae rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru. Bydd y cyllid yn parhau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

Cyllideb Atodol	Ail Gyllideb	Llinell Sylfaen	Newidiadau	Cyllideb Ddrafft

Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	2020-21 £000	2021-22 £000	2021-22 Cynlluniau Newydd £000
1,062	1,062	1,366	(310)	1,056

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer marchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Trosglwyddwyd £0.31m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth Safonau Ysgolion mewn perthynas â PISA.

Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
12,325	12,325	12,675	-	12,675

- Bydd y Cam Gweithredu hwn (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg) yn parhau yn 2021-22 ac mae'n cefnogi'r gwaith o roi *Cymraeg 2050* ar waith, sy'n cynnwys:
  - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
  - comisiynu adnoddau dysgu ac addysgu;
  - ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth;
  - cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cam Gweithredu Arloesedd

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
500	500	604	-	604

- Mae'r llinell wariant hon ar gyfer Arloesi Busnes yn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod arloesi yn gallu cael yr effaith fesuradwy fwyaf bosibl ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academaidd a mentrau cydweithredol. Ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Gwyddoniaeth

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
3,200	3,200	3,550	-	3,550

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwyddoniaeth** – Diben y llinell wariant hon yw darparu cyllid ar gyfer hyrwyddo, cyflawni a chynghori i gefnogi gallu ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd i fasnacheiddio gweithgarwch ymchwil ar raddfa fawr; gwella lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu ym maes STEM.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd** – Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesi yn y Gwyddorau Bywyd a thwf busnesau. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar fwy o gyflogaeth yn y sector ac olrhain y buddiannau iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

Cam Gweithredu Cyfalaf - Ystadau a Darpariaeth TG

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	2021-22 Newidiadau £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
207,775	207,775	199,750	41,968	241,718

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n fuddsoddiad strategol yn ein seilwaith addysg yng Nghymru. Caiff y gyllideb ei defnyddio hefyd i gefnogi unrhyw ofynion ar gyfer cyllid cyfalaf i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, ac mae hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.

- Dyrannwyd swm ychwanegol o £41.968m (net) o'r Cronfeydd Wrth Gefn:
  - £35m ar gyfer dyraniad cyfalaf cyffredinol ar gyfer Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif;
  - dyraniad o £5m ar gyfer cynllun peilot Ysgolion Carbon Sero Net;
  - Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol o £0.71m ar gyfer ail ran y cyfleuster cyfalaf gweithio y mae'n ofynnol gan WEPCo iddo gael ei ddyrannu i DBW Investment MIMs Limited, mewn perthynas â chyflawni Model Buddsoddi Cydfuddiannol;
  - Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol o £1.9m y disgwylir iddo gael ei fuddsoddi gan DBW Investment MIMs Limited fel dyled israddedig yn y prosiect cyntaf o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol;
  - Gostyngiad o £0.2m ar gyfer ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg y Cymoedd;
  - Gostyngiad o £0.442m ar gyfer ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg Pen-y-bont ar Ogwr.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Arloesi

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000

4,066	3,456	4,066	-	4,066

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod arloesi yn gallu cael yr effaith fesuradwy fwyaf bosibl ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academaidd a mentrau cydweithredol. Ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Gwyddoniaeth

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
5,675	4,824	5,675	-	5,675

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwyddoniaeth** – Mae'r llinell wariant hon yn darparu cyllid ar gyfer hyrwyddo, cyflawni a chynghori i gefnogi gallu ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd i fasnacheiddio gweithgarwch ymchwil ar raddfa fwy; gwella lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu ym maes STEM.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd** – Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesi yn y Gwyddorau Bywyd a thwf busnesau. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar fwy o gyflogaeth yn y sector ac olrhain y buddiannau iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Addysg ôl-16

Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000	Llinell Sylfaen 2020-21 £000	Newidiadau 2021-22 £000	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000
-	3,200	-	-	-

- Bu dyraniad COVID-19 o £3.2m o'r Cronfeydd Wrth Gefn yn 2020-21 i estyn y cynnig digidol sydd eisoes ar gael i ddysgwyr ysgol, i ddysgwyr sy'n cael eu haddysg mewn lleoliadau addysgol eraill, gan gynnwys colegau addysg bellach a dysgu oedolion. Mae dysgwyr wedi cael cynnig cymorth gyda chyfarpar digidol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar yr arlwy ar-lein sydd bellach ar gael yn eang yn y sector addysg. Nid oes unrhyw ddyraniadau ar hyn o bryd ar gyfer 2021-22.

ATODIAD B – MEG Addysg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant ar gyfer 2021-22, yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 a'r alldroeon terfynol ar gyfer 2019-20

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)	Llinell Sylfaen 2020-21	Newid	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd
Llythrennedd a Rhifedd	Llythrennedd a Rhifedd	6,356	6,356	4,094	4,456	-285	4,171
Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd		**6,356**	**6,356**	**4,094**	**4,456**	**-285**	**4,171**
Cwricwlwm	Cwricwlwm ac Asesu	3,955	3,955	4,961	6,782	1,000	7,782
	Adolygiad o'r Cwricwlwm	5,950	5,950	5,551	6,150	7,900	14,050
	Y Cyfnod Sylfaen	148	148	158	148	0	148
Cyfanswm ar gyfer y Cwricwlwm		**10,053**	**10,053**	**10,670**	**13,080**	**8,900**	**21,980**
Addysgu ac Arweinyddiaeth	Datblygu a Chefnogi Athrawon	31,895	31,895	41,216	38,914	0	38,914
Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth		**31,895**	**31,895**	**41,216**	**38,914**	**0**	**38,914**
Cymwysterau	Cymwysterau Cymru	9,463	9,463	8,846	9,463	404	9,867
Cyfanswm Cymwysterau		**9,463**	**9,463**	**8,846**	**9,463**	**404**	**9,867**
Addysg ôl-16	Darpariaeth Addysg Bellach	459,377	487,711	510,259	460,326	39,980	500,306
Cyfanswm Addysg ôl-16		**459,377**	**487,711**	**510,259**	**460,326**	**39,980**	**500,306**
Addysg Uwch	Gwariant Rhaglenni CCAUC	161,857	193,357	207,458	176,788	25,025	201,813
	Cyfalaf CCAUC	90	90	90	90	0	90
Cyfanswm Addysg Uwch		**161,947**	**193,447**	**207,548**	**176,878**	**25,025**	**201,903**
Safonau Addysg	Grant Gwella Ysgolion	129,959	146,799	148,657	134,159	12,029	146,188
	Gwella Safonau mewn Ysgolion	22,332	22,332	22,934	25,500	0	25,500
	Cymorth Safonau Ysgolion	994	994	916	1,194	310	1,504
Cyfanswm ar gyfer Safonau Addysg		**153,285**	**170,125**	**172,507**	**160,853**	**12,339**	**173,192**
Grant Datblygu Disgyblion	Grant Datblygu Disgyblion	108,500	108,500	113,397	111,500	2,000	113,500
Cyfanswm y Grant Datblygu Disgyblion		**108,500**	**108,500**	**113,397**	**111,500**	**2,000**	**113,500**
TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth	Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	4,279	4,279	4,389	4,429	0	4,429
Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth		**4,279**	**4,279**	**4,389**	**4,429**	**0**	**4,429**
Llesiant plant a phobl ifanc	Anghenion Dysgu Ychwanegol	10,536	10,536	9,691	10,536	-845	9,691

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)	Llinell Sylfaen 2020-21	Newid	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd
	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	6,765	6,765	4,990	7,765	1,150	8,915
	Lleoliadau Arbenigol ôl-16	13,881	13,881	14,198	13,881	0	13,881
	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	2,000	2,000	2,000	2,000	0	2,000
	Grwpiau sy'n agored i niwed	1,150	1,150	546	1,150	0	1,150
Cyfanswm Llesiant Plant a Phobl Ifanc		**34,332**	**34,332**	**31,425**	**35,332**	**305**	**35,637**
Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr	390,742	390,742	383,428	390,742	-32,025	358,717
	Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/CThEM	8,723	8,723	20,124	14,343	0	14,343
	Darpariaeth Cyllideb Adnodd Benthyciadau i Fyfyrwyr	106,849	106,849	360,640	106,849	3,863	110,712
	Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr Wedi'u Targedu	6,297	6,297	6,699	6,297	0	6,297
	Rhaglen Trawsnewid Digidol	0	0	1,110	0	0	0
Cyfanswm y Cymorth i Ddysgwyr ôl-16		**512,611**	**512,611**	**772,001**	**518,231**	**-28,162**	**490,069**
Ennyn Diddordeb Disgyblion	Trechu Dadrithiad	784	784	779	2,015	0	2,015
Cyfanswm ar gyfer Ennyn Diddordeb Disgyblion		**784**	**784**	**779**	**2,015**	**0**	**2,015**
Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	Dysgu ar gyfer Troseddwyr	3,328	3,328	6,628	3,328	0	3,328
	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	7,326	7,326	11,443	7,326	0	7,326
Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid		**10,654**	**10,654**	**18,071**	**10,654**	**0**	**10,654**
Cymorth Cyflawni	Cyfathrebu ym maes Addysg	294	294	594	482	0	482
	Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol	768	768	768	884	-310	574
Cyfanswm Cymorth Cyflawni		**1,062**	**1,062**	**1,362**	**1,366**	**-310**	**1,056**
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	12,325	12,325	12,325	12,675	0	12,675
Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg		**12,325**	**12,325**	**12,325**	**12,675**	**0**	**12,675**
Arloesi	Arloesi Busnes	500	500	500	604	0	604
Cyfanswm Arloesi		**500**	**500**	**500**	**604**	**0**	**604**
Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	1,000	1,000	999	1,350	0	1,350
	Gwyddorau Bywyd	2,200	2,200	1,600	2,200	0	2,200
Cyfanswm Gwyddoniaeth		**3,200**	**3,200**	**2,599**	**3,550**	**0**	**3,550**

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020	Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020	Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)	Llinell Sylfaen 2020-21	Newid	Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd
ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU		**1,520,623**	**1,597,297**	**1,911,988**	**1,564,326**	**60,196**	**1,624,522**

CYLLIDEB GYFALAF							
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020**	**Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen 2020-21**	**Newid**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd**
Ystad a Darpariaeth TG	Seilwaith Addysg	207,775	207,775	241,363	199,750	41,968	241,718
Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG		**207,775**	**207,775**	**241,363**	**199,750**	**41,968**	**241,718**
Arloesi	Arloesi Busnes	4,066	3,456	3,456	4,066	0	4,066
Arloesi		**4,066**	**3,456**	**3,456**	**4,066**	**0**	**4,066**
Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	4,874	4,143	5,743	4,874	0	4,874
	Gwyddorau Bywyd	801	681	274	801	0	801
Cyfanswm Gwyddoniaeth		**5,675**	**4,824**	**6,017**	**5,675**	**0**	**5,675**
Addysg ôl-16	Darpariaeth Addysg Bellach	0	3,200	8,100	0	0	0
Cyfanswm Addysg ôl-16		**0**	**3,200**	**8,100**	**0**	**0**	**0**
Cymwysterau	Cymwysterau Cymru	0	0	80	0	0	0
Cyfanswm Cymwysterau		**0**	**0**	**80**	**0**	**0**	**0**
ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF		**217,516**	**219,255**	**259,016**	**209,491**	**41,968**	**251,459**

CYLLIDEB ADNODDAU – Gwariant a Reolir yn Flynyddol							
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020**	**Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen 2020-21**	**Newid**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd**
Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME	-123,801	-123,801	-61,192	-123,801	-24,585	-148,386
Cyfanswm y Cymorth i Ddysgwyr ôl-16		**-123,801**	**-123,801**	**-61,192**	**-123,801**	**-24,585**	**-148,386**
ADDYSG – CYFANSWM CYLLIDEB AME ADNODDAU		**-123,801**	**-123,801**	**-61,192**	**-123,801**	**-24,585**	**-148,386**

CYLLIDEB GYFALAF – Gwariant a Reolir yn Flynyddol							
Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020**	**Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen 2020-21**	**Newid**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd**
Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME	863,631	863,631	883,432	863,631	105,330	968,961
Cyfanswm y Cymorth i Ddysgwyr ôl-16		**863,631**	**863,631**	**883,432**	**863,631**	**105,330**	**968,961**
ADDYSG – CYFANSWM CYLLIDEB AME CYFALAF		**863,631**	**863,631**	**883,432**	**863,631**	**105,330**	**968,961**

ADDYSG – CRYNODEB	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020**	**Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020**	**Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8)**	**Llinell Sylfaen 2020-21**	**Newid**	**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd**
Adnoddau	1,520,623	1,597,297	1,911,988	1,564,326	60,196	1,624,522
Cyfalaf	217,516	219,255	259,016	209,491	41,968	251,459
Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf	**1,738,139**	**1,816,552**	**2,171,004**	**1,773,817**	**102,164**	**1,875,981**
AME Adnoddau	-123,801	-123,801	-61,192	-123,801	-24,585	-148,386
AME Cyfalaf	863,631	863,631	883,432	863,631	105,330	968,961
Cyfanswm AME	**739,830**	**739,830**	**822,240**	**739,830**	**80,745**	**820,575**
ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB	**2,477,969**	**2,556,382**	**2,993,244**	**2,513,647**	**182,909**	**2,696,556**

ATODIAD C – Dyraniadau COVID-19 i'r/o'r Cronfeydd Wrth Gefn – MEG Addysg 2020-21 a 2021-22

	2020-21		
Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	**REFENIW COVID-19 Trosglwyddiad i'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFALAF COVID-19 Trosglwyddiad i'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFANSWM COVID-19 Trosglwyddiad i'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**
Llythrennedd a Rhifedd – cynllun marcio â chymorth o ganlyniad i ganslo profion	(200)		(200)
Cwricwlwm ac asesu – Adolygiad o'r Celfyddydau, Cymorth ar gyfer Pynciau Craidd, Gwasanaethau Cerddoriaeth, cymorth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a'r rhaglen Ieithoedd Tramor Modern	(2,827)		(2,827)
Adolygu'r cwricwlwm – cyflawni Addysg yng Nghymru	(200)		(200)
Datblygu a Chefnogi Athrawon – Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a Dysgu Proffesiynol	(7,019)		(7,019)
Grant Gwella Ysgolion – consortia rhanbarthol	(4,200)		(4,200)
Gwella Safonau mewn Ysgolion – Ymchwilio a Gwerthuso – prosiect amlgarfan, Arweinyddiaeth - MIT, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, Estyn, Addysgeg.	(3,168)		(3,168)
Cymorth Safonau Ysgolion – lleihad mewn gweithgarwch	(200)		(200)
Y Grant Datblygu Disgyblion – y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad	(3,000)		(3,000)
Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg – Hwb	(150)		(150)
Bwyd a Maeth mewn ysgolion – llaeth ysgol	(1,000)		(1,000)
Trechu Dadrithiad – Addysg yn y Cartref	(1,231)		(1,231)
Cyfathrebu ym maes Addysg – lleihad mewn gweithgarwch	(188)		(188)
Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol – British Council	(116)		(116)
Cymraeg mewn Addysg – adnoddau dwyieithog a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg	(350)		(350)
Darpariaeth Addysg Bellach – Seren, Gwella Ansawdd, grant urddas mislif.	(949)		(949)
Gwariant Rhaglenni CCAUC – Cymorth Grant i CCAUC	(16,300)		(16,300)
Costau gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/CThEM – rhyddhau refeniw o ganlyniad i ofyniad cyfalaf	(5,000)		(5,000)
Arloesi Busnes – marchnata a chyfathrebu	(104)		(104)
Gwyddoniaeth – marchnata a chyfathrebu	(350)		(350)
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 i'r Cronfeydd Wrth Gefn (y Gyllideb Atodol Gyntaf)	**(46,552)**	**0**	**(46,552)**
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Arloesi – Gweithrediadau SMART		(610)	(610)
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd – Grantiau cyfalaf		(120)	(120)
Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwyddoniaeth – Sêr Cymru		(731)	(731)
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 i'r Cronfeydd Wrth Gefn (yr Ail Gyllideb Atodol)	**0**	**(1,461)**	**(1,461)**
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 i'r Cronfeydd	**(46,552)**	**(1,461)**	**(48,013)**

Wrth Gefn			

	2020-21		
Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	**REFENIW COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFALAF COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFANSWM COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**
Grant Gwella Ysgolion – y Cynllun Dysgu Carlam - dal i fyny	16,840		16,840
Darpariaeth Addysg Bellach – cymorth dal i fyny ar gyfer dysgwyr 16-19 oed amser llawn yn y chweched dosbarth neu mewn coleg Addysg Bellach.	20,754		20,754
Darpariaeth Addysg Bellach – Cymorth i golegau Addysg Bellach ar gyfer costau glanhau	3,600		3,600
Darpariaeth Addysg Bellach – cyfarpar digidol ar gyfer dysgwyr o dan anfantais		3,200	3,200
Gwariant Rhaglenni CCAUC – Cronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch ar gyfer Cymru, (y flwyddyn academaidd 2020/21)	27,000		27,000
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 i'r Cronfeydd Wrth Gefn (yr Ail Gyllideb Atodol)	**68,194**	**3,200**	**71,394**
Grant Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Grant Datblygu Disgyblion y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad	5,000		5,000
Y Cwricwlwm ac Asesu – Helpu dysgwyr i ennill cymwysterau	650		650
Datblygu a Chefnogi Athrawon – Helpu dysgwyr i ennill cymwysterau	6,027		6,027
Darpariaeth Addysg Bellach – Helpu dysgwyr i ennill cymwysterau	2,823		2,823
Grant Gwella Ysgolion – Gorchuddion wyneb mewn ysgolion	1,885		1,885
Darpariaeth Addysg Bellach – Gorchuddion wyneb mewn colegau	469		469
Darpariaeth Addysg Bellach – Prydau Ysgol am Ddim (£10.930m ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau yn 2020-21 a £23.3m yn 2021-22 – y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol)	758		758
Darpariaeth Addysg Bellach – Dysgu ychwanegol mewn sefydliadau addysg bellach	10,000		10,000
Darpariaeth Addysg Bellach – Allgáu Digidol		4,900	4,900
Gwariant Rhaglenni CCAUC – Cymorth i Addysg Uwch	10,000		10,000
Seilwaith Addysg – Cyflawni Ystad Addysgol		30,000	30,000
Seilwaith Addysg – Cyfalaf Dechrau'n Deg		860	860

Seilwaith Addysg – Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant		2,000	2,000
Gwyddoniaeth – Sêr Cymru 2		1,600	1,600
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 o'r Cronfeydd Wrth Gefn (i'w dyrannu yn y Drydedd Gyllideb Atodol)	**37,612**	**39,360**	**76,972**
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 o Gronfeydd Wrth Gefn 2020-21	**105,806**	**42,560**	**148,366**

Effaith net – MEG Addysg Trosglwyddiadau COVID-19 i/o Gronfeydd Wrth Gefn 2020-21	**59,254**	**41,099**	**100,353**

	2021-22		
Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	**REFENIW COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFALAF COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**	**CYFANSWM COVID-19 Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn £000**
Grant Gwella Ysgolion – y Cynllun Dysgu Carlam - dal i fyny	12,029		12,029
Darpariaeth Addysg Bellach – Dysgu ychwanegol mewn sefydliadau addysg bellach	5,000		5,000
Cyfanswm y Trosglwyddiadau COVID-19 o Gronfeydd Wrth Gefn 2021-22	**17,029**	**0**	**17,029**

ATODIAD D – Buddsoddiad o £100 miliwn i wella safonau mewn ysgolion dros dymor y Senedd

Gwella Safonau mewn Ysgolion – Gweithgarwch	**2016-17** **£000**	**2017-18** **£000**	**2018-19** **£000**	**2019-20** **£000**	**2020-21** **£000**
Cymorth ar gyfer cwricwlwm gweddnewidiol • Cynllun Llafaredd FfLlRh Cynradd • Ymgysylltu rhwng ysgolion a chyflogwyr • Sgiliau Codio a Digidol • Booktrust • Ymgysylltu rhwng ysgolion a chyflogwyr	410	1,500	1,423	900	800
Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd da • Cyflenwi athrawon/y gweithlu • Cyfrwng Cymraeg a'r Rhaglen Hyfforddiant i Raddedigion • Profi dulliau cyflenwi amgen ar gyfer athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar (daeth i ben yn 19-20) • Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch • Rhwydweithiau Cenedlaethol o Ragoriaeth ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg • Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen • Datblygiad Proffesiynol Cymru • Recriwtio i ddenu mwy o athrawon i'r sector Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc • Anghenion Dysgu Ychwanegol • Cymhwysedd Digidol • Maint dosbarthiadau babanod • Cynllun Sabothol Cymru • Cymraeg mewn Addysg – Cyfathrebu ac Arweinyddiaeth • Gwella Safon Uwch • Cynllun Safon Uwch Cymru	830	10,815	15,045	14,425	15,495
Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau • Sefydlu'r Academi Arweinyddiaeth • Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth • Rhaglen Cymdeithion yr Academi • Arweinwyr y Dyfodol • Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT)	841	3,200	2,900	2,970	1,670
Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a llesiant • Rhaglenni llesiant Addysg ac Iechyd ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn cynlluniau peilot mewn ysgolion a hyrwyddo dull	-	631	190	280	302

ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant. • Grant rhanbarthol (dysgwyr 17-18 oed yn unig) ar gyfer llesiant					
Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn yn cefnogi system hunanwella • Cefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y rhanbarthau • Ymchwil i fframweithiau'r Gymraeg • Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu • Cefnogi cydweithio a helpu i ddatblygu gallu rhanbarthol • Ymestyn effaith a dyfnder Ffederasiynau • Cynllun y Grant Ysgolion Bach a Gwledig • Ehangu'r defnydd o reolwyr busnes (2017-2020 yn unig) • Grant Estyn • Meithrin Gallu (2017-20 yn unig) • Pisa	400	3,653	5,430	6,410	5,200
Ymchwil a Gwerthuso • Gwerthuso'r cynllun sabothol • Labordy data WISERD • Grant Ymchwil a Gwerthuso • Ymchwil i lesiant (Prifysgol Abertawe) • Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil (Prifysgol Caerdydd)	1,166	430	240	545	145
CYFANSWM	**3,647**	**20,229**	**25,228**	**25,530**	**23,612**

ATODIAD E – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer gwella safonau mewn ysgolion o fewn MEG Addysg dros dymor y Senedd

£'000oedd

Llinell Wariant yn y Gyllideb	2015-16 Ail Gyllideb Atodol	2016-17 Ail Gyllideb Atodol	2017-18 Ail Gyllideb Atodol	2018-19 Ail Gyllideb Atodol	2019-20 Ail Gyllideb Atodol	2020-21 Ail Gyllideb Atodol	2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd
Llythrennedd a Rhifedd	4,512	4,946	6,956	6,331	5,476	6,356	4,171
Cwricwlwm ac Asesu	23,255	10,021	6,434	7,066	6,782	3,955	7,782
Adolygiad o'r Cwricwlwm	0	20,400	7,100	5,400	5,400	5,950	14,050
Y Cyfnod Sylfaen	1,851	1,851	1,511	1,551	148	148	148
Datblygu a Chefnogi Athrawon	16,856	21,192	20,731	43,373	54,932	31,895	38,914
Cymwysterau Cymru	8,147	8,404	8,142	8,257	8,482	9,463	9,867
Llywodraethu Ysgolion	1,565	1,353	1,124	36	0	0	0
Grant Gwella Ysgolion	142,594	134,711	136,282	130,359	130,359	146,799	146,188
Gwella Safonau mewn Ysgolion	0	4,470	20,000	25,000	25,500	22,332	25,500
Cymorth Safonau Ysgolion	1,364	1,249	1,394	1,194	1,194	994	1,504
Grant Datblygu Disgyblion	82,046	89,246	93,746	95,523	98,900	108,500	113,500
Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	6,935	6,935	6,659	4,470	4,429	4,279	4,429
Cymraeg mewn Addysg	18,733	18,267	27,247	29,050	12,675	12,325	12,675
Cyfanswm	**307,858**	**323,045**	**337,326**	**357,610**	**354,277**	**352,996**	**378,728**
Cynnydd ers 2015-16		**15,187**	**29,468**	**49,752**	**46,419**	**45,138**	**70,870**
Newid dros 5 mlynedd							**256,834**

ATODIAD F – Dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol

Amcan	Disgrifiad o'r Cyllid	2019/20	2020/21
Y Cwricwlwm ac Asesu – Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd â thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr	Ysgolion Digidol ac Ysgolion Arloesi ar gyfer y Cwricwlwm	3,150,000	3,000,000
	Cymorth Craidd gan y Consortia ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm newydd	2,225,000	1,771,000
	Asesu ar gyfer Dysgu	400,000	400,000
	Fframwaith Defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys Siarter Iaith (ysgolion cyfrwng Cymraeg)	500,000	496,000
Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel – gwella dysgu ac addysgu yn ein hysgolion	Grant Gwella Addysg i Ysgolion	118,137,000	120,637,000
	Cymorth rhanbarthol ar gyfer Ieithoedd Modern	432,000	432,000
	Cymorth gyda'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol	20,000	20,000
	Grant Llythrennedd a Rhifedd	500,000	500,000
	Dysgu Proffesiynol – Ysgolion Arloesi	1,860,000	2,040,000
	Dysgu yn y Gymru Ddigidol – Cam II DPP	500,000	500,000
	Sgiliau Codio a Digidol	300,000	300,000
	Cynllun Llafaredd FfLlRh Cynradd i Gymru	400,000	400,000
	Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch	990,000	800,000
	Safonau Addysgu Proffesiynol	100,000	80,000
	Y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg	900,000	900,000
	Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen	200,000	200,000
	Cymraeg – Datblygiad Proffesiynol – Cyllid gan y Consortia (rhai llinellau wedi'u cyfuno)	2,700,000	2,700,000
	Cymhwysedd Digidol – Cynnig Dysgu Proffesiynol	300,000	300,000
	Gwella Safon Uwch	280,000	520,000
	Cyflenwi Gweithlu Addysgu (Addysg Gychwynnol i Athrawon)	312,103	300,000
	AGA ran-amser a seiliedig ar waith	200,000	200,000
	Ieithoedd Tramor Modern – meithrin gallu ar gyfer ITM yn y sector cynradd	214,000	214,000
	Fframwaith Cymhwysedd Digidol	100,000	100,000
	Ysgolion Pob Oedran – Cymorth i Brosiectau Ymchwil a Chydweithredol	100,000	
	Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru	20,000	20,000
	Cyllid ar gyfer Clystyrau Arloesi Dysgu Proffesiynol – Y rhai nad ydynt yn arloeswyr	595,200	198,400
	Cyllid ar gyfer Clystyrau Arloesi Dysgu Proffesiynol	126,000	42,000
	Prosiect Cydweithredol Dysgu Arweiniol	249,360	247,080
	Hwyluso'r Gwaith o Werthuso Safonau Proffesiynol		20,000
	Prosiect E-Ddysgu	523,067	

Amcan	Disgrifiad o'r Cyllid	2019/20	2020/21
	Rhaglen Cymorth yn ystod Cam Cynnar Gyrfa		150,000
	Cyngor/cymorth polisi allanol ar gyfer y tîm Polisi AHO 16-19	58,000	24,000
	Rheolwr Achredu SAUau	100,000	400,000
	Dysgu Proffesiynol		7,000,000
	Cefnogi Cydweithio a Helpu i Ddatblygu Gallu yn y Consortia	560,000	70,000
Arweinyddiaeth – cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i wella safonau. Mae'n cynnwys rhwydweithiau arweinwyr y dyfodol a phroffesiynol	Arweinwyr y Dyfodol (Darpar arweinwyr canol, gan gynnwys cymorth Hyfforddi a Mentora)	1,000,000	1,000,000
	Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro (Cyn MNSH)	150,000	150,000
	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth[1]	720,000	720,000
	Arbenigedd mewn Meithrin Gallu	161,690	60,000
Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a llesiant	Grant Datblygu Disgyblion, heb gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad	93,685,579	103,200,000
Cefnogi system hunanwella – cefnogi system lle mae'r proffesiwn addysg yn meddu ar y sgiliau, y galluedd a'r gallu i weithredu er mwyn dysgu a gwella eu hymarfer yn barhaus	Ymestyn effaith a dyfnder cydweithio, gan gynnwys drwy ffedereiddio	1,040,000	800,000
	Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu – Cyllid Meini Prawf 3	500,000	500,000
	Cyfanswm gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion	**234,308,999**	**251,411,480**
	Cyfanswm heb gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion	**140,623,420**	**148,211,480**
	Llai: Arbedion COVID-19		**(4,203,088)**
	Dyraniad diwygiedig		**144,008,392**
	Llai: CPCP		**(720,000)**
	Dyraniad diwygiedig i'r consortia		**143,288,392**

Consortiwm	2017-18 £000	2018-19 £000	2019-20 £000	2020-21 £000
Torfaen (EAS)	26,298	27,726	27,032	27,682
Rhondda Cynon Taf (CSC)	42,616	42,193	41,700	42,632
Sir Benfro (ERW)	39,093	40,971	39,862	34,234
Gwynedd (GWE)	30,561	32,620	32,029	32,616

[1] Mae'r dyraniad ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yn seiliedig ar alw ac felly nid yw wedi'i ddyrannu eto i'r consortia rhanbarthol ar gyfer 2020-21

Castell-nedd Port Talbot (NPT)				6,125
Cyfanswm	**138,568**	**143,511**	**140,623**	**143,288**

ATODIAD G – Dyraniadau'r Grant Maint Dosbarthiadau dros dymor y Senedd

Awdurdod Lleol	**Refeniw** **£**	**Cyfalaf** **£**
Ynys Môn	306,504	0
Blaenau Gwent	338,108	199,600
Pen-y-bont ar Ogwr	747,436	750,000
Caerffili	961,983	0
Caerdydd	2,095,766	3,317,000
Sir Gaerfyrddin	870,490	2,000,000
Ceredigion	584,125	1,600,000
Conwy	512,256	300,000
Sir Ddinbych	486,569	0
Sir y Fflint	796,576	1,320,000
Gwynedd	530,722	600,000
Merthyr Tudful	303,532	931,000
Sir Fynwy	426,384	0
Castell-nedd Port Talbot	686,951	1,890,000
Casnewydd	908,923	1,100,661
Sir Benfro	569,373	370,165
Powys	540,652	665,000
Rhondda Cynon Taf	1,384,904	1,600,000
Abertawe	1,202,923	1,918,750
Torfaen	566,002	0
Bro Morgannwg	722,417	0
Wrecsam	757,404	1,000,000
CYFANSWM	**16,000,000**	**19,562,176**

ATODIAD H – Dyraniadau'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig dros dymor y Senedd

Awdurdod Lleol	**2017-18** **£**	**2018-19** **£**	**2019-20** **£**	**2020-21** **£**
Ynys Môn	138,157	140,312	140,353	138,189
Blaenau Gwent	35,948	35,915	35,873	35,904
Pen-y-bont ar Ogwr	61,088	61.184	61,177	61,381
Caerffili	103,580	103,618	103,539	106,947
Caerdydd	33,967	31,217	31,217	28,264
Sir Gaerfyrddin	265,956	263,560	263,655	276,240
Ceredigion	159,997	154,124	154,193	153,001
Conwy	139,973	141,955	141,905	145,911
Sir Ddinbych	108,500	116,034	116,049	113,309
Sir y Fflint	144,599	137,247	137,235	139,625
Gwynedd	279,580	279,094	279,174	273,482
Merthyr Tudful	22,573	22,555	22,532	22,549
Sir Fynwy	72,984	73,212	73,244	73,618
Castell-nedd Port Talbot	84,259	90,356	90,342	91,146
Casnewydd	35,917	35,895	35,868	35,888
Sir Benfro	157,896	159,536	159,566	146,964
Powys	251,816	246,847	246,910	244,358
Rhondda Cynon Taf	133,841	134,083	134,006	128,356
Abertawe	90,991	91,161	91,121	91,547
Torfaen	27,777	27,787	27,800	27,790
Bro Morgannwg	56,276	56,278	56,281	59,430
Wrecsam	94,325	98,030	97,960	106,101
Cyfanswm	**2,500,000**	**2,500,000**	**2,500,000**	**2,500,000**

ATODIAD I – Manylion am ddyraniadau 2020/21 i golegau addysg bellach

Addysg Bellach

Chweched Dosbarth Awdurdod Lleol	Dyraniad 2019-2020 £	Dyraniad 2020-2021 £	Amrywiant £	Amrywiant %
Cyngor Sir Ynys Môn	2,319,560	2,529,828	210,269	9.07%
Cyngor Gwynedd	3,284,887	3,414,889	130,002	3.96%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	4,454,483	4,742,173	287,690	6.46%
Cyngor Sir Ddinbych	3,225,501	3,357,240	131,739	4.08%
Cyngor Sir y Fflint	4,418,347	4,439,673	21,326	0.48%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1,049,400	1,046,752	-2,649	-0.25%
Cyngor Sir Powys	4,440,636	4,732,301	291,665	6.57%
Cyngor Sir Ceredigion	3,567,851	3,884,737	316,885	8.88%
Cyngor Sir Penfro	2,727,235	2,935,601	208,366	7.64%
Cyngor Sir Caerfyrddin	6,028,967	6,637,156	608,189	10.09%
Dinas a Sir Abertawe	5,149,124	5,354,484	205,360	3.99%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	1,452,836	1,796,668	343,831	23.67%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	5,750,256	6,306,739	556,483	9.68%
Cyngor Sir Bro Morgannwg	5,663,603	6,268,240	604,637	10.68%
Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	9,336,642	9,804,613	467,971	5.01%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	3,792,288	3,756,978	-35,311	-0.93%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	3,049,026	1,681,322	-1,367,704	-44.86%
Cyngor Sir Fynwy	3,152,606	3,388,867	236,261	7.49%
Cyngor Dinas Casnewydd	5,998,206	6,481,311	483,105	8.05%
Cyngor Sir Caerdydd	11,866,770	13,162,430	1,295,661	10.92%
Cyfanswm	**90,728,225**	**95,722,001**	**4,993,776**	**5.50%**

Chweched Dosbarth

	Dyraniad Amser Llawn 2020/21 (gan gynnwys cynnydd yn y gyfradd fesul uned)	Dyraniad Rhan-amser 2020/21 (gan gynnwys cynnydd yn y gyfradd fesul uned)	Lwfans Rhan-amser	Codiad oherwydd Amddifadedd	Codiad oherwydd Teneurwydd Poblogaeth (fel yn 2019/20)	Lwfans Cyfrwng Cymraeg (fel yn 2019/20)	3% o'r Lwfans a Gedwir yn Ganolog	2% o'r Lwfans Cynhaliaeth	Cyllid pontio y cytunwyd arno yn 2019/20	**Dyraniad 2020-21**	Cyllid Ychwanegol	**Cyfanswm Dyraniad 2020/21**
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	**£**	£	**£**
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	12,287,612	2,310,693	462,139	717,294		30,000	437,949	291,966		**16,537,652**		**16,537,652**
Coleg Caerdydd a'r Fro	24,430,334	6,582,649	1,316,530	2,278,173		30,000	930,389	620,260		**36,188,334**		**36,188,334**
Coleg Cambria	28,524,798	5,433,943	1,086,789	1,363,161	733,136	115,000	1,018,762	679,175		**38,954,765**		**38,954,765**
Coleg Gwent	32,600,041	5,838,883	1,167,777	2,320,479		230,000	1,153,168	768,778		**44,079,125**	**2,396,355**	**46,475,480**
Coleg Sir Gâr	15,418,222	2,443,226	488,645	482,356	575,850	1,061,250	535,843	357,229		**21,362,622**		**21,362,622**
Coleg y Cymoedd	23,234,916	3,822,509	764,502	2,379,851		29,756	811,723	541,148		**31,584,405**		**31,584,405**
Coleg Gŵyr Abertawe	18,700,377	2,840,977	568,195	1,402,654		115,000	646,241	430,827		**24,704,271**		**24,704,271**
Grŵp Llandrillo Menai	29,277,699	4,720,757	944,151	1,458,394	2,441,719	2,156,250	1,019,954	679,969		**42,698,893**		**42,698,893**
Grŵp NPTC	17,136,899	3,764,121	752,824	997,871	2,456,260	30,000	627,031	418,020		**26,183,025**		**26,183,025**
Coleg Merthyr Tudful	8,499,186	680,779	136,156	742,338		30,000	275,399	183,599		**10,547,457**		**10,547,457**
Coleg Sir Benfro	8,869,788	1,388,188	277,638	222,146	356,812	30,000	307,739	205,160		**11,657,470**		**11,657,470**
Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant	5,368,256	169,019	33,804	442,058		15,000	166,118	110,746		**6,305,001**		**6,305,001**
Addysg Oedolion Cymru	0	3,965,377	793,075	235,529	184,699	30,243	118,961	79,308	453,960	**5,861,153**		**5,861,153**
	224,348,127	**43,961,120**	**8,792,224**	**15,042,305**	**6,748,476**	**3,902,499**	**8,049,277**	**5,366,185**	**453,960**	**316,664,174**		**319,060,528**

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Awdurdod Lleol	Dyraniad 2019-2020	Poblogaeth Cymru 19 oed a hŷn gyda Lefel 1 fel y cymhwyster uchaf	canran poblogaeth Cymru 19 oed a hŷn gyda Lefel 1 fel y cymhwyster uchaf	5/12 o'r dyraniad cyfredol	Methodoleg newydd ar gyfer Medi - Mawrth	Cyfanswm Dyraniad 2020/21
Cyngor Sir Ynys Môn	**£12,028**	19,748	2.2%	£5,011	£56,081	£61,093
Cyngor Gwynedd	**£7,216**	32,690	3.6%	£3,007	£92,834	£95,841
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	**£7,216**	34,538	3.8%	£3,007	£98,082	£101,089
Cyngor Sir Ddinbych	**£103,435**	27,882	3.1%	£43,098	£79,180	£122,278
Cyngor Sir y Fflint	**£2,405**	44,400	4.9%	£1,002	£126,089	£127,091
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	**£96,219**	40,919	4.5%	£40,091	£116,203	£156,294
Cyngor Sir Powys	**£131,498**	38,314	4.2%	£54,791	£108,806	£163,597
Cyngor Sir Ceredigion	**£73,199**	18,324	2.0%	£30,500	£52,037	£82,537
Cyngor Sir Penfro	**£462,438**	35,407	3.9%	£192,683	£100,550	£293,233
Cyngor Sir Caerfyrddin	**£184,905**	55,712	6.1%	£77,044	£158,213	£235,257
Dinas a Sir Abertawe	**£177,655**	66,369	7.3%	£74,023	£188,477	£262,500
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	**£261,394**	48,338	5.3%	£108,914	£137,272	£246,186
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**£155,553**	44,488	4.9%	£64,814	£126,339	£191,153
Cyngor Sir Bro Morgannwg	**£274,844**	31,236	3.4%	£114,518	£88,705	£203,224
Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	**£206,068**	80,404	8.9%	£85,862	£228,334	£314,196
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	**£46,506**	21,424	2.4%	£19,377	£60,841	£80,218
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	**£312,710**	61,334	6.8%	£130,296	£174,179	£304,474
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	**£335,962**	28,211	3.1%	£139,984	£80,115	£220,099
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**£91,408**	29,639	3.3%	£38,086	£84,170	£122,256
Cyngor Sir Fynwy	**£2,405**	22,999	2.5%	£1,002	£65,313	£66,316
Cyngor Dinas Casnewydd	**£381,667**	43,735	4.8%	£159,028	£124,200	£283,228
Cyngor Sir Caerdydd	**£1,092,079**	81,560	9.0%	£455,033	£231,617	£686,650
CYFANSYMIAU	**£4,418,810**	**907,671**	100%	**£1,841,171**	**£2,577,639**	**£4,418,810**

ATODIAD I –

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
0	Addysg Gyffredinol	4 TGAU	Lefel 1/2	2,824
0	Addysg Gyffredinol	5 TGAU neu fwy	Lefel 1/2	3,413
0	Addysg Gyffredinol	5 cymhwyster sy'n cyfateb i TGAU	Lefel 2	3,413
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster UA	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster sy'n cyfateb i UA	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	2 gymhwyster UA a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	2 gymhwyster sy'n cyfateb i UA a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster UA neu fwy	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster sy'n cyfateb i UA	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster UA a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster sy'n cyfateb i UA a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster UA a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	4,707
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster sy'n cyfateb i UA neu fwy a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	4,707
0	Addysg Gyffredinol	2 U2	Lefel 3	2,165
0	Addysg Gyffredinol	2 gymhwyster sy'n cyfateb i U2	Lefel 3	2,165
0	Addysg Gyffredinol	3 U2	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster sy'n cyfateb i U2	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	2 gymhwyster U2 a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	2 gymhwyster sy'n cyfateb i U2 a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,012
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster U4 neu fwy	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster sy'n cyfateb i U2 neu fwy	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster U2 a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	3 chymhwyster sy'n cyfateb i U2 a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	3,860
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster U2 a Bagloriaeth Cymru neu fwy	Lefel 3	4,707
0	Addysg Gyffredinol	4 cymhwyster sy'n cyfateb i U2 a Bagloriaeth Cymru	Lefel 3	4,707
0	Addysg Gyffredinol	Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (Blwyddyn 1 neu 2)	Lefel 3	4,707
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 1	Lefel 1	4,044
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2	Lefel 2	3,647
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle Lefel 2	Lefel 2	3,837
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	4,397

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3	Lefel 3	3,647
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Mynediad at Addysg Uwch Gofal Iechyd	Lefel AA	2,901
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel Mynediad	Lefel E0	4,044
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Therapïau Cydategol level 2	Lefel 2	3,647
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Therapïau Cydategol level 3	Lefel 3	3,647
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Mynediad at Addysg Uwch Gofal Cymdeithasol	Lefel AA	2,901
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Mynediad at Addysg Uwch Gwyddor Gymdeithasol	Lefel AA	2,910
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 1	Lefel 1	4,378
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Gwasanaethau Cyhoeddus Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,149
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2	Lefel 2	4,043
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 3	Lefel 3	4,043
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Datblygu Gofal Plant Lefel 1	Lefel 1	3,954
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Datblygu Gofal Plant Lefel 2	Lefel 2	4,508
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Datblygu Gofal Plant Lefel 2 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 2	3,963
1	Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	Datblygu Gofal Plant Lefel 3	Lefel 3	3,540
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Mynediad at Addysg Uwch Gwyddoniaeth	Lefel AA	3,212
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Mynediad at Addysg Uwch Gwyddor yr Amgylchedd	Lefel AA	3,212
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Mynediad at Addysg Uwch Biowyddorau	Lefel AA	3,212
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 2	Lefel 2	4,049
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3	Lefel 3	4,049
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Gwyddoniaeth Gymhwysol lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 3	4,141
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Mynediad at Addysg Uwch Gwyddor Fforensig	Lefel AA	3,212
2	Gwyddoniaeth a mathemateg	Mynediad at Addysg Uwch Gwyddor Iechyd	Lefel AA	3,212

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Tir Lefel 1	Lefel 1	6,408
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Tir Lefel 2	Lefel 2	6,408
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Tir Lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 3	8,605
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Tir Lefel 3	Lefel 3	6,408
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Tir Lefel E	Lefel E0	6,408
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Garddwriaeth a Choedwigaeth 1	Lefel 1	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Garddwriaeth a Choedwigaeth Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	7,178
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Garddwriaeth a Choedwigaeth 2	Lefel 2	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Garddwriaeth a Choedwigaeth 3	Lefel 3	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Blodeuwriaeth Lefel 1	Lefel 1	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Blodeuwriaeth Lefel 2	Lefel 2	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Blodeuwriaeth Lefel 3	Lefel 3	6,274
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Ceffylau Lefel 1	Lefel 1	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Ceffylau Lefel 2	Lefel 2	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Astudiaethau Ceffylau Lefel 3	Lefel 3	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Gofal Ceffylau Lefel Mynediad	Lefel E0	6,256

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Gofal Anifeiliaid Lefel 1	Lefel 1	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Gofal Anifeiliaid Lefel 2	Lefel 2	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Gofal Anifeiliaid Lefel 3	Lefel 3	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Nyrsio Milfeddygol Lefel 2	Lefel 2	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Nyrsio Milfeddygol Lefel 3	Lefel 3	6,256
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 1	Lefel 1	6,294
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 2	Lefel 2	6,294
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3	Lefel 3	6,294
3	Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 3	7,040
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 1	Lefel 1	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	7,196
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Mynediad at Addysg Uwch Peirianneg	Lefel AA	4,954
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Astudiaethau Peirianegol Lefel E	Lefel E0	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Drydanol/Electronig Dysgu Carlam L#	Lefel 1-2	8,816

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Saernïo a Weldio Lefel 1	Lefel 1	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Saernïo a Weldio Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Saernïo a Weldio Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Awyrofod Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Awyrofod Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Drydanol Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Drydanol Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg yn Seiliedig ar y Tir Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg yn Seiliedig ar y Tir Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg yn Seiliedig ar y Tir Lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 3	7,073
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Forol Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Forol Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Fodurol Lefel 1	Lefel 1	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Fodurol Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	6,982

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Fodurol Lefel 2	Lefel 2	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Fodurol Lefel 3	Lefel 3	6,330
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Uwch Lefel 2	Lefel 2	10,997
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peirianneg Uwch Lefel 3	Lefel 3	10,997
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Peiriannu Pren Lefel 2	Lefel 2	4,988
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Dodrefn Lefel 1	Lefel 1	5,170
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Dodrefn Lefel 2	Lefel 2	4,988
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Dodrefn Lefel 3	Lefel 3	4,988
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Lefel 2	Lefel 2	6,331
4	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Lefel 3	Lefel 3	6,331
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Adeiladu Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Adeiladu Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Adeiladu Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel E	Lefel E0	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Brics Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Brics Lefel 1 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 1	7,435

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Brics Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Brics Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 1 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 1	7,435
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Coed a Saernïaeth Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	8,245
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Paentio ac Addurno Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Paentio ac Addurno Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	8,191
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Paentio ac Addurno Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Paentio ac Addurno Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Crefftau Trywel Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Crefftau Trywel Lefel 1 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 1	7,435
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Crefftau Trywel Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	8,191
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Crefftau Trywel Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Crefftau Trywel Lefel 3	Lefel 3	6,314

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Plymio Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Plymio Lefel 1 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 1	7,435
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Plymio Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	7,889
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Plymio Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Plymio Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod a Chynnal a Chadw Cyfarpar Nwy Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod a Chynnal a Chadw Cyfarpar Nwy Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Teilsio Waliau a Lloriau Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Teilsio Waliau a Lloriau Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	8,191
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Teilsio Waliau a Lloriau Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Teilsio Waliau a Lloriau Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Cynnal a Chadw Offer Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Cynnal a Chadw Offer Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Cynnal a Chadw Offer Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod Trydanol Lefel 1	Lefel 1	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod Trydanol Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	7,889

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod Trydanol Lefel 2	Lefel 2	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Gosod Trydanol Lefel 3	Lefel 3	6,314
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Rhaglen Adeiladu Uwch Lefel 2	Lefel 2	10,933
5	Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Rhaglen Adeiladu Uwch Lefel 3	Lefel 3	10,933
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Ymarferwyr TG Lefel 1	Lefel 1	4,520
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Ymarferwyr TG Lefel 2	Lefel 2	4,211
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Ymarferwyr TG Lefel 3	Lefel 3	4,211
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Mynediad at Addysg Uwch Cyfrifiadureg Gymhwysol	Lefel AA	3,324
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Rhaglen TG Uwch Lefel 2	Lefel 2	8,199
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Rhaglen TG Uwch Lefel 3	Lefel 3	8,199
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Defnyddwyr TG Lefel 1	Lefel 1	4,535
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Defnyddwyr TG Lefel 2	Lefel 2	4,229
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Defnyddwyr TG Lefel 3	Lefel 3	4,229
6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Technoleg Gwybodaeth Lefel E	Lefel E0	4,535
7	Manwerthu a busnes masnachol	Manwerthu Lefel 1	Lefel 1	4,409
7	Manwerthu a busnes masnachol	Manwerthu Lefel 2	Lefel 2	4,079
7	Manwerthu a busnes masnachol	Manwerthu Lefel 3	Lefel 3	4,079

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
7	Manwerthu a busnes masnachol	Manwerthu Lefel E	Lefel E0	4,409
7	Manwerthu a busnes masnachol	Gwallt a Harddwch Lefel 1	Lefel 1	4,528
7	Manwerthu a busnes masnachol	Gwallt a Harddwch Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,680
7	Manwerthu a busnes masnachol	Gwallt a Harddwch Lefel 2	Lefel 2	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Gwallt a Harddwch Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Gwallt a Harddwch Lefel E	Lefel E0	4,528
7	Manwerthu a busnes masnachol	Trin Gwallt Lefel 1	Lefel 1	4,528
7	Manwerthu a busnes masnachol	Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,491
7	Manwerthu a busnes masnachol	Trin Gwallt Lefel 2	Lefel 2	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	5,099
7	Manwerthu a busnes masnachol	Trin Gwallt Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Therapi Harddwch Lefel 1	Lefel 1	4,528
7	Manwerthu a busnes masnachol	Therapi Harddwch Lefel 2	Lefel 2	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Therapi Harddwch Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Therapi Harddwch Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,680
7	Manwerthu a busnes masnachol	Technoleg Ewinedd Lefel 2	Lefel 2	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Technoleg Ewinedd Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Effeithiau Arbennig Theatraidd Lefel 2	Lefel 2	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Effeithau Arbennig Theatraidd Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Therapi Sba Lefel 3	Lefel 3	4,220
7	Manwerthu a busnes masnachol	Coginio Proffesiynol Lefel 1	Lefel 1	4,868
7	Manwerthu a busnes masnachol	Coginio Proffesiynol Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,551
7	Manwerthu a busnes masnachol	Coginio Proffesiynol Lefel 2	Lefel 2	4,623

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
7	Manwerthu a busnes masnachol	Coginio Proffesiynol Lefel 3	Lefel 3	4,623
7	Manwerthu a busnes masnachol	Coginio Proffesiynol Lefel 4	Lefel 4	3,651
7	Manwerthu a busnes masnachol	Arlwyo Lefel Mynediad	Lefel E0	4,868
7	Manwerthu a busnes masnachol	Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 1	Lefel 1	4,868
7	Manwerthu a busnes masnachol	Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 2	Lefel 2	4,623
7	Manwerthu a busnes masnachol	Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 3	Lefel 3	4,623
7	Manwerthu a busnes masnachol	Lletygarwch ac Arlwyo Lefel E	Lefel E0	4,868
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Chwaraeon a Hamdden Lefel 1	Lefel 1	4,355
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Chwaraeon a Hamdden Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,025
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Chwaraeon a Hamdden Lefel 2	Lefel 2	4,015
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Chwaraeon a Hamdden Lefel 3	Lefel 3	4,015
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Chwaraeon a Hamdden Lefel E	Lefel E0	4,355
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Teithio a Thwristiaeth Lefel 1	Lefel 1	4,409
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Teithio a Thwristiaeth Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	4,338
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Teithio a Thwristiaeth Lefel 2	Lefel 2	4,079
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Teithio a Thwristiaeth Lefel 3	Lefel 3	4,079
8	Hamdden, teithio a thwristiaeth	Mynediad at Addysg Uwch Twristiaeth a Lletygarwch	Lefel AA	3,232
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Perfformio Lefel 1	Lefel 1	5,060
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Perfformio Lefel 2	Lefel 2	4,851
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Perfformio Lefel 3	Lefel 3	4,851
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Perfformio Lefel 4	Lefel 4	5,041
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Perfformio Lefel E	Lefel E0	5,060
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 2	Lefel 2	4,851

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	6,031
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 3	Lefel 3	4,851
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Celf a Dylunio Lefel 1	Lefel 1	5,152
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Celf a Dylunio Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	6,005
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Celf a Dylunio Lefel 2	Lefel 2	4,960
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Celf a Dylunio Lefel 3	Lefel 3	4,960
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Celf a Dylunio Lefel E	Lefel E0	5,152
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Astudiaethau Sylfaen mewn Celf Lefel 3	Lefel 3	4,960
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Cyfryngau Lefel 1	Lefel 1	4,950
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Cyfryngau Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,400
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Cyfryngau Lefel 2	Lefel 2	4,721
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Cyfryngau Lefel 3	Lefel 3	4,721
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Cyfryngau Lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel 3	5,357
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 2	Lefel 2	4,711
9	Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	Y Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 3	Lefel 3	4,721
11	Gwyddorau Cymdeithasol	Mynediad at Addysg Uwch y Dyniaethau	Lefel AA	2,772
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Astudiaethau Sylfaen Lefel 1	Lefel 1	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Astudiaethau Sylfaen Lefel 2	Lefel 2	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Dysgu Sylfaen Lefel E1	Lefel E1	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Dysgu Sylfaen Lefel E2	Lefel E2	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Dysgu Sylfaen Lefel E3	Lefel E3	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E1	Lefel E1	10,277
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E2	Lefel E2	10,277

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E3	Lefel E3	10,277
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Cyn Mynediad	Lefel Cyn Mynediad	10,277
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 1	Lefel 1	5,170
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 2	Lefel 2	4,982
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E1	Lefel E1	5,170
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E2	Lefel E2	5,170
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E3	Lefel E3	5,170
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Cyn Mynediad	Lefel Cyn Mynediad	5,170
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E1	Lefel E1	6,538
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E2	Lefel E2	6,538
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E3	Lefel E3	6,538
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel E3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle	Lefel E3	8,724
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E3 gydag interniaeth â chymorth	Lefel E3	6,599
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Cyn Mynediad	Lefel Cyn Mynediad	6,538
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 1	Lefel 1	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 2	Lefel 2	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E1	Lefel E1	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E2	Lefel E2	6,184
14	Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith	Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E3	Lefel E3	6,184
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Cyfrifeg Lefel 2	Lefel 2	4,070
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Cyfrifeg Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	5,259
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Cyfrifeg Lefel 3	Lefel 3	4,070
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Cyfrifeg Lefel 4	Lefel 4	3,225
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Mynediad at Addysg Uwch Gwasanaethau Ariannol	Lefel AA	2,981

Maes Sector Pwnc	Teitl Maes Sector Pwnc	Teit y Rhaglen	Lefel	Gwerth y rhaglen 2020/21
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Lefel 1	Lefel 1	4,405
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	5,510
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Lefel 2	Lefel 2	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	6,031
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Lefel 3	Lefel 3	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Lefel E	Lefel E0	4,405
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Ysgrifenyddion Cyfreithiol Lefel 2	Lefel 2	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Ysgrifenyddion Cyfreithiol Lefel 3	Lefel 3	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Meddygol Lefel 2	Lefel 2	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Meddygol Lefel 3	Lefel 3	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 1-2	Lefel 1-2	4,978
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Astudiaethau Busnes Lefel 2	Lefel 2	4,075
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 2-3	Lefel 2-3	5,016
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Astudiaethau Busnes Lefel 3	Lefel 3	4,070
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Mynediad at Addysg Uwch Astudiaethau Busnes	Lefel AA	3,225
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Y Gyfraith Lefel 3	Lefel 3	3,478
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Ymarfer Cyfreithiol Lefel 2	Lefel 2	3,478
15	Busnes, gweinyddu a'r gyfraith	Ymarfer Cyfreithiol Lefel 3	Lefel 3	3,478
98	Anhysbys	Mynediad at Addysg Bellach Lefel 1	Lefel 1	2,254
98	Anhysbys	Mynediad at Addysg Bellach Lefel 2	Lefel 2	2,254

ATODIAD J – Grantiau Addysg Uwch

Tabl 1a: Gwariant Gwirioneddol ar grantiau i fyfyrwyr, 2019-20

	2019-20
Israddedigion Amser Llawn	
Grant Cynhaliaeth	£196,743,274.47
Grant Ffïoedd Dysgu	£127,882,244.65
Lwfansau	£20,295,192.76
Bron yn arian parod	**£344,920,711.88**
Israddedigion rhan amser [1]	
Grant Cynhaliaeth (Cyn 2018)	£3,830,960.22
Grant Cynhaliaeth (Ar ôl 2018)	£16,688,579.38
Bron yn arian parod	**£20,519,539.60**
ôlraddedigion	
Grant Cyfrannu	£12,309,116.54
Cyfanswm	**£12,309,116.54**
Addysg Bellach	
LCA	£17,149,980.00
Grant Dysgu LlC AB	£4,995,915.00
Cyfanswm	**£22,145,895.00**

1 Mae'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nau gyfanswm y grantiau cynhaliaeth rhan-amser gan nad oes modd eu gwahanu.

Tabl 1b: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-25

	Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol				
Cyffredinol	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**
Israddedigion amser llawn					
Grant Cynhaliaeth	£222.3m	£239.8m	£251.5m	£262.4m	£275.9m
Grant Ffioedd Dysgu	£56.8m	£13.4m	£2.0m	£0.0m	£0.0m
Lwfansau (Amser llawn)	£21.3m	£22.3m	£23.2m	£24.3m	£25.5m
Bron yn arian parod	*£300.4m*	*£275.5m*	*£276.8m*	*£286.7m*	*£301.3m*
Israddedigion rhan-amser					
Grant Cynhaliaeth	£23.0m	£26.1m	£29.4m	£32.4m	£34.8m
Grant Ffioedd Dysgu	£0.1m	£0.1m	£0.0m	£0.0m	£0.0m
Lwfansau (rhan-amser)	£1.8m	£1.8m	£1.9m	£1.9m	£1.9m
Bron yn arian parod	*£25.0m*	*£28.0m*	*£31.3m*	*£34.3m*	*£36.8m*
Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir					
Grant Cyfrannu	£21.2m	£24.1m	£26.1m	£28.0m	£30.1m
Bron yn arian parod	*£21.2m*	*£24.1m*	*£26.1m*	*£28.0m*	*£30.1m*
Addysg Bellach					
LCA	£17.1m	£17.1m	£17.2m	£17.2m	£17.2m
Grant Dysgu LIC AB	£4.6m	£4.5m	£4.5m	£4.5m	£4.5m
Bron yn arian parod	*£21.7m*	*£21.6m*	*£21.6m*	*£21.6m*	*£21.6m*
Cyfanswm					
Bron yn arian parod	**£368.4m**	**£349.1m**	**£355.8m**	**£370.7m**	**£389.8m**

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch
(modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Tabl 2: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-5, ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru.

	Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol				
Myfyrwyr yng Nghymru	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**
Israddedigion amser llawn [1]					
Grant Cynhaliaeth	£154.0m	£166.5m	£174.9m	£182.5m	£192.0m
Grant Ffioedd Dysgu	£35.8m	£8.4m	£1.3m	£0.0m	£0.0m
Lwfansau (Amser llawn)	£14.7m	£15.5m	£16.2m	£16.9m	£17.7m
Bron yn arian parod	*£204.5m*	*£190.4m*	*£192.3m*	*£199.5m*	*£209.8m*
Israddedigion rhan-amser [2]					
Bron yn arian parod	*£23.5m*	*£26.2m*	*£29.3m*	*£32.2m*	*£34.5m*
Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir [3]					
Bron yn arian parod	*£13m*	*£14m*	*£15m*	*£17m*	*£18m*
Addysg Bellach (rhagdybir Cymru gyfan)					
Bron yn arian parod	*£22m*	*£22m*	*£22m*	*£22m*	*£22m*
Cyfanswm Myfyrwyr yng Nghymru					
Bron yn arian parod	**£262m**	**£252m**	**£259m**	**£270m**	**£284m**

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch
(modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Nodiadau

[1]Cyfrifwyd y cyfran trwy rannu'r cyfanswm yn ôl nifer y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r nifer sy'n astudio mannau eraill. Mae'r dull hwn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i'r cyfartaleddau is ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gartref a'r cyfartaleddau uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref yn Llundain. Mae'r dull hwn yn lleihau cymhlethdod ac yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

[2]Mae gan y prif fodel rhan-amser ffigur ar gyfer grant cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn mannau eraill a ffigur ar gyfer cyfanswm y grant cynhaliaeth. Defnyddir y gymhareb i rannu rhan-amser.
Yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser, ac o ganlyniad, mae'r ffigur ond ychydig is na Thabl 1.

[3]Cyfrifwyd rhaniad yr ôlraddedigion gan ddefnyddio data SLC a godwyd o'u porthol Mlicrostrategaeth. Mae'r data yn cyfrif nifer y cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn cwrs o fath ôlraddedig a hefyd yn ôl rhanbarth llywodraeth y sefydliad addysgol. Defnyddir cymhareb y cwsmeriaid sydd â'u sefydliad yn rhanbarth Cymru *versus yr* holl gwsmeriaid i rannu ôlraddedigion.

Tabl 3: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-5, ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn rhywle arall.

	Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol				
Myfyrwyr mannau eraill	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**
Israddedigion amser llawn [1]					
Grant Cynhaliaeth	£68m	£73m	£77m	£80m	£84m
Grant Ffioedd Dysgu	£21m	£5m	£1m	£0m	£0m
Lwfansau (Amser llawn)	£7m	£7m	£7m	£7m	£8m
Bron yn arian parod	*£96m*	*£85m*	*£84m*	*£87m*	*£92m*
Israddedigion rhan-amser [2]					
Bron yn arian parod	*£1.5m*	*£1.8m*	*£2.0m*	*£2.1m*	*£2.2m*
Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir [3]					
Bron yn arian parod	*£8.6m*	*£9.8m*	*£10.6m*	*£11.4m*	*£12.2m*
(Addysg Bellach - rhagdybir nad oes mewn mannau eraill)					
Cyfanswm myfyrwyr mannau eraill					
Bron yn arian parod	**£106.0m**	**£96.6m**	**£97.1m**	**£100.8m**	**£106.0m**

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch
(modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Nodiadau

[1]Cyfrifwyd y cyfran trwy rannu'r cyfanswm yn ôl nifer y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r nifer sy'n astudio mannau eraill. Mae'r dull hwn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i'r cyfartaleddau is ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gartref a'r cyfartaleddau uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref yn Llundain. Mae'r dull hwn yn lleihau cymhlethdod ac yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

[2]Mae gan y prif fodel rhan-amser ffigur ar gyfer grant cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn mannau eraill a ffigur ar gyfer cyfanswm y grant cynhaliaeth. Defnyddir y gymhareb i rannu rhan-amser.
Yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser, ac o ganlyniad, mae'r ffigur ond ychydig is na Thabl 1.

[3]Cyfrifwyd rhaniad yr ôlraddedigion gan ddefnyddio data SLC a godwyd o'u porthol Miicrostrategaeth. Mae'r data yn cyfrif nifer y cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn cwrs o fath ôlraddedig a hefyd yn ôl rhanbarth llywodraeth y sefydliad addysgol. Defnyddir cymhareb y cwsmeriaid sydd â'u sefydliad yn rhanbarth Cymru versus yr holl gwsmeriaid i rannu ôlraddedigion.

ATODIAD J – Darparu Benthyciadau

Tabl 4a: Darparu Benthyciadau i Fyfyrwyr

Taliadau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau: canrannau a gymhwyswyd o fodel y Llwybr Enillion Stocastig

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Gwariant ar Fenthyciadau					
Israddedigion amser llawn, Cynllun 1[(a)]	£12,150				
Israddedigion amser llawn, Cynllun 2[(b)]	£667,931,634	£685,713,291	£699,118,278	£727,880,813	£765,394,891
Israddedigion rhan-amser	£18,934,145	£22,565,442	£24,460,711	£25,744,050	£26,622,611
Graddau Meistr	£77,199,549	£86,591,338	£94,370,308	£101,462,603	£109,864,016
Graddau Doethur	£7,379,143	£12,042,055	£16,535,530	£20,321,485	£22,814,553
Tâl RAB - y ganran a gymhwysir					
Israddedigion amser llawn, Cynllun 1[(a)]	31.8%				
Israddedigion amser llawn, Cynllun 2[(b)]	45.7%	45.5%	45.2%	45.1%	44.6%
Israddedigion rhan-amser	40.2%	39.1%	38.5%	38.4%	38.2%
Graddau Meistr	16.0%	14.0%	13.4%	13.4%	12.6%
Graddau Doethur	43.2%	43.5%	43.3%	42.7%	42.0%

Ffynhonnell: Rhagolygon ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yr Is-adran Addysg Uwch (StEP 3.17, July 2020 central coronavirus scenario OBR data, 2019 borrower data)

(a) Cynllun 1: Y drefn benthyciadau myfyrwyr cyn 2012

(b) Plan 2: Y drefn benthyciadau myfyrwyr ar ôl 2012

Tabl 4b: Darparu Benthyciadau i Fyfyrwyr

Taliadau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau: Symiau a gyfrifwyd, gan gynnwys y tâl cyffredin a godir a'r tâl canslo rhannol a godir

	Gwirioneddol	**Rhagolygon**				
	2019-20	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**
Tâl RAB	(264,499.30)	(349,761.02)	(368,482.03)	(388,643.93)	(413,739.69)	(435,040.99)
Tâl Stoc	14,733.02	(109,769.77)				
Tâl Canslo Rhannol	(27,679.69)	(35,697.33)	(37,836.50)	(40,248.59)	(42,989.10)	(45,786.71)
Cyfanswm Tâl RAB	**(277,445.97)**	**(495,228.12)**	**(406,318.53)**	**(428,892.52)**	**(456,728.79)**	**(480,827.70)**

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad: 21 Ionawr 2021
Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd
Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer 2021-22

1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 18 Tachwedd 2020, yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar y cynigion sydd ganddynt yn y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt gyflwyno papur ar y Gyllideb Ddrafft.

2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynigion cyllideb plant a phobl ifanc y dyfodol ar gyfer 2021-22 ac mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

Roedd y gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr yn nodi ein cynlluniau gwario ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl y Llinell Wariant yn y Gyllideb.

Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer 2022-23 ar hyn o bryd am fod y gyllideb ddrafft ond yn cwmpasu un flwyddyn yn unig.

Dengys y tablau isod symudiadau'r gyllideb o gyllideb Atodol gyntaf 2020-21 i Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Dyraniadau o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

AGA			
CAM GWEITHREDU	**Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu**		
LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21**	**Newid**	**2021-22**
	£m	£m	£m
Cymru Iachach – Y Blynyddoedd Cynnar	6.3	0.7	7.0

AGA	Cefnogi Plant		
CAM GWEITHREDU	**Cefnogi Plant**		
LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21**	**Newid**	**2021-22**
	£m	£m	£m
Cymorth i Ofal Plant a Chwarae	63.351	17.900	81.251
Cefnogi Hawliau Plant	0.991	0	0.991
Cefnogi Plant	3.289	0.576	3.865
Y Comisiynydd Plant	1.580	0	1.580
Cymorth i Deuluoedd a Phlant	3.604	2.400	6.004
Cyfanswm Cefnogi Plant	**72.815**	**20.876**	**93.691**

Mae newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â'r canlynol:

Cam Gweithredu – Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu – Cymru Iachach

- Cynnydd o £0.7m yn y cymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Bydd hyn yn rhoi'r cynllun 'Siarad gyda fi' ar waith ac yn darparu cyllid i gefnogi'r cynlluniau braenaru newydd drwy drawsnewid systemau.

Cam Gweithredu – Cefnogi Plant (gwahanol Linellau Gwariant yn y Gyllideb)

- Cynnydd o £17.9m yn y Cymorth ar gyfer Plant a Chwarae mewn perthynas â chynnydd o £15m yn y Cynnig Gofal Plant, cynnydd o £1.9m yn y gyfradd gysoni â'r cyfnod sylfaen a throsglwyddo cyllideb o £1m ar gyfer Llwgu yn ystod y Gwyliau o'r MEG Addysg.
- Cynnydd o £0.576m ar gyfer Cefnogi Plant mewn perthynas â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Cynnydd o £2.4m yn y Cymorth i Deuluoedd a Phlant gan gynnwys cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

AGA	CAFCASS		
CAM GWEITHREDU	CAFCASS		
LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB	Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21	Newid	2021-22 Cyllideb Ddrafft
	£m	£m	£m
CAFCASS Cymru	12.152	1.470	13.622

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu CAFCASS** yn adlewyrchu'r cynnydd arfaethedig y cytunwyd arno yn 2020 oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r cynnydd yn cynrychioli cyllid ar gyfer costau staff disgwyliedig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys yn 2021-22.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 0030 – Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG

- £17m sydd wedi'i gynnwys yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gweithgareddau rhaglenni ar gyfer 'Plant ar Ffiniau Gofal' (£15m) a dyraniad newydd ar gyfer llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol pen uchaf, cymhleth (£2m).

Dyraniadau newydd yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Llinell Wariant yn y Gyllideb 0270 – Iechyd Meddwl

- £4m o gymorth ychwanegol ar gyfer y Dull System Gyfan (y Dull Ysgol Gyfan gynt) i wella mynediad er mwyn cefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £5.4m o gyllid ycwhanegol i gefnogi pobl ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio drwy wasanaethau cymunedol neu wasanaethau arbenigol i gleifion mewnol.

3. Effaith gwariant ar ddatblygu hawliau plant o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yn y CCUHP. Mae Cyllideb ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratifau ym mhenodau pedwar a chwech, gan dynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C, sy'n nodi'r dystiolaeth gyd-destunol a fu'n sail i'n penderfyniadau gwario, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach o effeithiau penderfyniadau gwario penodol, gan gynnwys un astudiaeth o'n cymorth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae'r dystiolaeth a geir yn y papur hwn hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Hawliau Plant wedi llywio blaenoriaethau cyllidebol yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

Yn unol â thystiolaeth rydym wedi'i darparu wrth graffu ar gyllidebau blaenorol, mae dull gweithredu integredig yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc yn gliriach. Mae'n rhaid cynnal asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r asesiad effaith ehangach o'r gyllideb.

Mae'r dull hwn o weithredu, yng nghyd-destun y dyraniadau cyllidebol, yn sicrhau bod tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau yn cael eu hystyried o'r cychwyn a thrwy gydol ein paratoadau ar gyfer y gyllideb.

Mae ein hadnodd asesu effaith integredig yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i hawliau plant gael eu hystyried, a lle y bo angen, i asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant gael ei gwblhau. Mae proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhoi lle canolog i hawliau plant pan fyddwn yn datblygu deddfwriaeth, polisïau newydd a rhaglenni.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi ein huchelgeisiau i wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gwneir hyn drwy gyflawni'r tri amcan a nodir yn Ffyniant i Bawb, sef: darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy’n addas i’r dyfodol, hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb a chreu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2021-22, gan roi pwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y dyfodol fel y'i nodir yn y ddogfen Cymru Iachach, ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi gweithgareddau wedi'u rhaglennu a reolir yn ganolog mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

Mae Cymru Iachach yn cyflawni ein hymrwymiad yn ‘Ffyniant i Bawb’ i gyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus i effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol oes. Rhoddir pwyslais ar fesurau atal er mwyn helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol tuag at newid ein meddylfryd o driniaeth i atal. Y weledigaeth rydym wedi'i nodi yn Cymru Iachach yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn fuan, yr ydym yn parhau i'w cefnogi drwy gymorth cyffredinol yn ogystal chymorth mwy penodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni

drwy ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo; cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu; a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn ogystal â buddsoddi'n sylweddol yn y GIG yn 2021-22, rydym yn dyrannu swm ychwanegol o £20m ar gyfer cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd swm ychwanegol o £16.9m yn y Cynnig Gofal Plant a swm pellach o £3.1m er mwyn ehangu rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar gan adeiladu ar yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio o raglen Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae ein cymorth i ddarpariaeth gofal plant a chwarae yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant ac, yn benodol, at y rhai sy'n ymwneud â Chymru ffyniannus ac iachach. Gall buddsoddi mewn darpariaeth gofal plant a chwarae o safon helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol a chymdeithasol ac emosiynol ac yn lliniaru effeithiau andwyol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant hefyd alluogi rhieni i weithio a hyfforddi a chodi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi'n benodol amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes

Byddwn yn parhau i lunio ein dyraniadau cyllidebol yn unol â gweithgareddau ataliol, gan gyflawni ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu'r sylfeini sydd eisoes wedi'u gosod, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant, ac yn adeiladu arnynt.

Dull Ataliol

Dull System Gyfan

- Caiff swm ychwanegol o £4m ei ddyrannu er mwyn ehangu'r gwaith o gyflwyno'r dull system gyfan o'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynyddu'r dyraniad yn 2021-22 i £7m o'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd y buddsoddiadau yn helpu i gynyddu darpariaeth gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn ymestyn y cynlluniau mewngymorth presennol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ymhellach i 2021-22. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i atal problemau iechyd meddwl a llesiant mwy difrifol ymhlith plant o oedran ysgol rhag gwaethygu ac yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau. Hefyd, mae £2m yn y MEG Addysg sy'n cefnogi'r rhaglen hon, sy'n golygu bod cyfanswm o £9m wedi'i neilltuo ar ei chyfer.

Maethu Cenedlaethol

- £0.6m ychwanegol i gefnogi rhaglen waith bresennol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a datblygu Maethu Cymru. Mae'r rhaglen waith yn canolbwyntio ar ailgydbwyso darpariaeth gwasanaethau, gan ateb y galw am wasanaethau a gwella ansawdd lleoliadau. Mae cymorth hefyd yn ymestyn i feysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â gofal preswyl, gan gynnwys darparu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth ac ystyried ffyrdd o ddefnyddio trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Cymorth cynnar

- £3.1m ychwanegol, sydd hefyd yn cynnwys £0.7m o gyllid Atal yn Fuan cynllun Cymru Iachach o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn darparu amrywiaeth o ymyriadau mewn amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi plant a theuluoedd, gan gynnwys Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu er mwyn helpu i roi'r cynllun cyflawni ar waith; cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

Y Cynnig Gofal Plant

- £16.9m ychwanegol, gyda chynnydd o £15m yn y gyllideb llinell sylfaen graidd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac £1.6m i gysoni'r gyfradd ar gyfer elfen addysg gynnar y Cynnig â'r elfen gofal plant.

Y Gronfa Gofal Integredig

- Cynnal cyfanswm y buddsoddiad yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer Plant sydd ar Ffiniau Gofal (£15m) a blaenoriaethu dyraniad newydd o £2m i gefnogi plant ag anghenion sylweddol sy'n derbyn gofal sy'n cael eu hanfon allan o Gymru ar hyn o bryd.

CAFCASS Cymru

- Cynnydd arfaethedig o £1.470m, y cytunwyd arno yn 2020-21, oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r cynnydd yn cynrychioli costau staff disgwyliedig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG ar gyfer Haen 4 a Thimau Dwys Cymunedol

- Buddsoddiad ychwanegol o £5.4m ar gyfer y plant a'r bobl ifanc agored i niwed hynny y mae angen cymorth mwy sylweddol arnynt. Cynigir cymorth o'r fath ar lefel gymunedol lle y bo'n bosibl ond, mewn rhai achosion, mae'n gofyn am ymyrraeth arbenigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a all arwain at driniaeth fel cleifion mewnol.

4. Dyraniadau o ran polisi a deddfwriaeth

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariad ar ddyraniadau o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor:

Costau deddfwriaeth: *Gwariant wedi'i gynllunio ar weithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn y cyfnod cyn iddi ddod i rym.*

Cyhoeddwyd asesiad effaith rheoleiddiol ochr yn ochr â'r Bil pan gafodd ei gyflwyno ym mis Mawrth 2019, a oedd yn nodi costau a buddiannau amcangyfrifedig y ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid yw rhai costau i sefydliadau yn hysbys, am na chaiff data perthnasol eu casglu gan y sefydliadau hynny i ddarparu llinell sylfaen, ac nid oes unrhyw ddata cymaradwy i ddarparu sail ar gyfer amcangyfrif y cynnydd posibl mewn llwyth gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio drwy grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data i gytuno â'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ar drefniadau ar gyfer casglu a monitro data a fydd yn ein galluogi i gasglu a monitro data cyn ac ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn, er mwyn helpu i asesu effaith y ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill megis Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gasglu data ychwanegol ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn.

Rydym wedi dyfarnu contract i gefnogi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer y Ddeddf a'n hymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo.* Yn 2021-22, rydym wedi dyrannu hyd at £0.800m yn benodol i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth. Mae hon yn ymgyrch ymgysylltu a chyfathrebu gynhwysfawr, sy'n cynnwys y canlynol: gwaith wedi'i dargedu gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol; ymgysylltu â phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chynulleidfaoedd wedi'u targedu; strategaeth ar gyfer plant a phobl Ifanc; ymgyrch aml-gyfrwng i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd gan gynnwys hysbysebion awyr agored a hysbysebion ar y teledu a'r radio ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Dyrannwyd £0.2m i'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo*, sy'n cefnogi ein polisi o annog dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi'n gorfforol ac yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar dechnegau rhianta cadarnhaol. Byddwn hefyd yn dyrannu hyd at £0.030m ar gyfer ymchwil gymdeithasol i fonitro barn ar y ddeddfwriaeth a lefelau ymwybyddiaeth ohoni, a hyd at £0.043m i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â phobl ifanc drwy Plant yng Nghymru.

Tlodi Plant

Dyrannwyd £23.27m i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol drwy Gronfa Galedi Llywodraeth Leol ar gyfer darpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2021-22.

Dyrannwyd £15m i'r Cynnig Gofal Plant sy'n helpu rhieni plant 3-4 oed sy'n gymwys ac sy'n gweithio i dalu eu costau gofal plant. Mae rhiant nodweddiadol y mae ei blentyn yn cael 20 awr o ofal plant yr wythnos yn cael yr hyn sy'n cyfateb i £90 ychwanegol yr wythnos yn ei boced – sef arian na fyddai wedi'i gael fel arall.

Mae'r Cynnig wedi'i werthuso'n annibynnol ers y flwyddyn weithredu gyntaf. Mae canlyniadau'r gwerthusiad diweddaraf yn seiliedig ar flwyddyn 2 y Cynnig ac yn dangos y canlynol:

- Nododd 84% **o rieni** fod ganddynt fwy o incwm gwario
- Roedd 57% **o rieni** o'r farn bod penderfyniadau cysylltiedig â gwaith yn fwy hyblyg
- Roedd gan 56% **o rieni** fwy o gyfle i gynyddu eu henillion
- Nododd 45% **o rieni** fod ganddynt fwy o gyfleoedd i hyfforddi, dysgu a datblygu

Mae cyflog canolrifol rhieni a gefnogir gan y Cynnig tua £21,000 y flwyddyn, sy'n is na'r cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol, sef £25,896 y flwyddyn (fel y'i cofnodir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion).

Mae'r gwerthusiad diweddaraf o flwyddyn 3 y Cynnig wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a disgwylir y canlyniadau ar ddechrau 2021. Yn ystod 2021-22, byddwn hefyd yn adolygu cyfradd y cynnig ac yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno'r Cynnig i rieni plant mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r ddwy raglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn rhaglenni ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r rhain yn cynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cefnogi teuluoedd mewn tlodi. Nid oes unrhyw ddyraniadau newydd wedi'u gwneud i'r Grant Plant a Chymunedau yn y Gyllideb Ddrafft, ond mae cyllidebau wedi'u cynnal ar lefelau 2020-21.

Dechrau'n Deg

Mae grant refeniw Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn cynnwys 7 rhaglen (Gofal Plant a Chwarae, Cymunedau am Waith a Mwy, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi). Mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglenni trechu tlodi, sy'n galluogi Awdurdodau Lleol (ALlau) i fod yn fwy hyblyg o ran eu dull gweithredu er mwyn gwella ac integreiddio prosesau darparu gwasanaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar. Mae gan ALlau hyblygrwydd llwyr i gyfeirio eu cyllid o'r Grant Plant a Chymunedau ar draws y 7 rhaglen hyn, gan eu galluogi i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Er mwyn cydnabod yr hyblygrwydd newydd mewn cyllidebau y darperir ar ei gyfer gan y Grant Plant a Chymunedau, mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd bellach i ddyrannu unrhyw ran o gyllideb gyffredinol eu Grant Plant a Chymunedau ar gyfer gwaith allgymorth h.y. bwriedir iddo hwyluso penderfyniadau lleol ynghylch anghenion ac, yn unol â chais ein rhanddeiliaid, rydym wedi dileu'r rhwystrau i hyn.

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cwmpasu gwariant ataliol sylfaenol ac eilaidd ac mae'n rhaglen trechu tlodi ac ymyrraeth gynnar.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar gyflawniadau sylweddol rhaglen Dechrau'n Deg a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn enwedig sut y gallwn ddyfnhau trefniadau

partneriaeth, cydweithio a gwaith amlasiantaethol rhwng sectorau er mwyn cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym am ddatblygu gwaith Cynlluniau Braenaru'r naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Trawsnewid yn Ystod y Blynyddoedd Cynnar, sy'n ystyried pa gamau y byddai angen eu cymryd i greu system blynyddoedd cynnar fwy integredig ac ymatebol, yn lleol ac yn genedlaethol, drwy gynyddu nifer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y rhaglen er mwyn profi elfennau craidd gwasanaeth blynyddoedd cynnar integredig.

Byddwn yn **darparu £3.1m ychwanegol** ar gyfer amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi Plant a Theuluoedd gan gynnwys Lleferydd, Iaith a Chyfatherbu er mwyn helpu i roi'r cynllun cyflawni ar waith; cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

Ers ei sefydlu, mae Dechrau'n Deg wedi buddsoddi mwy na £68m o gyfalaf i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen ledled Cymru i gyflwyno'r rhaglen trechu tlodi hon. Mae hyn yn cynnwys creu lleoliadau gofal plant newydd er mwyn darparu lleoedd rhan amser o ansawdd uchel sydd eu hangen ar gyfer plant bach 2-3 oed a buddsoddiad sylweddol i ddatblygu llety i'r timau amlasiantaethol sy'n cyflwyno'r rhaglen. Y **gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021-22 yw £5.529m** a bydd awdurdodau lleol yn parhau i gael eu hannog i fabwysiadu dull strategol o gynllunio rhaglenni cyfalaf gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Gymraeg a'r Cynnig Gofal Plant er mwyn i flaenoriaethau allweddol allu cael eu cyflawni mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Mae grant refeniw Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Gall awdurdodau lleol fod yn hyblyg o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r cyllid hwn o fewn amodau'r grant er mwyn rhoi cymorth cynnar i blant a theuluoedd sydd ei angen. Mae'r buddsoddiad parhaus hwn yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i helpu plant i gyflawni eu potensial a lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n effeithio ar ganlyniadau tymor hwy.

Gofal plant

Yn 2020-21, gwnaethom ddatblygu Cynllun Cymorth Gofal Plant ar gyfer Argyfwng y Coronafeirws er mwyn cefnogi rhieni yn ystod y pandemig. Dyrannwyd £20m o gronfeydd wrth gefn hefyd er mwyn talu costau cynyddol y Cynnig Gofal Plant ac ateb y galw.

Dyrannwyd **£16.9m ychwanegol** i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gofal Plant yn 2021-22, sydd wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r Cynnig yn 2021-22 i **£76.9m**. Oherwydd natur y Cynnig sy'n seiliedig ar alw, ni allwn ddiystyru'n posibilrwydd y bydd costau yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Os bydd hyn yn digwydd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, caiff hyn ei reoli fel pwysau yn ystod y flwyddyn gyda chymorth cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chynnydd o £15m i adlewyrchu'r galw tebygol am y Cynnig, rydym yn dyrannu £1.9m tuag at gostau cysoni'r cyfraddau ar gyfer addysg gynnar a gofal

plant o fewn y Cynnig. Mae hyn yn dilyn cynllun peilot i dreialu un gyfradd ar gyfer dwy elfen y Cynnig yn 2019. Mae nifer o leoliadau yn pryderu ynghylch y gwahaniaeth yn y gyfradd rhwng elfennau addysg a gofal plant y Cynnig.

Disgwylir i'r gwaith o gysoni'r cyfraddau gostio tua £3.8m, gydag £1.9m yn dod o'r gyllideb Iechyd a Gofal Cymdeithasol a £1.9m ychwanegol o'r gyllideb Addysg.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r gyfradd a delir ar gyfer y Cynnig. Rydym yn ymwybodol o bryderon yn y sector nad yw'r gyfradd bresennol yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad, gan gynnwys newidiadau diweddar i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol er enghraifft. Cysoni'r cyfraddau yw'r cam cyntaf yn y broses o fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ystyried goblygiadau ymestyn y Cynnig i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant a rhieni sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith.

Rydym yn gwneud cynnydd da yn y ddau faes hyn ac yn disgwyl i'r adolygiadau gael eu cwblhau ym mis Chwefror 2021.

Mae'r gwaith o ddatblygu un system ddigidol i Gymru gyfan ar gyfer gweinyddu'r Cynnig wedi dechrau, gyda chyllideb gyfalaf o £4.5m ar gyfer 2020-21 a swm rhagolygol o £4m ar gyfer 2021-22.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r un lefel o gymorth i CWLWM (Gofal Plant Cymru’n Dysgu a Gweithio ar y Cyd), sef £1.4m. Hwn yw'r consortiwm ambarél sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant yng Nghymru. Mae CWLWM yn chwarae rôl allweddol drwy gynnal cyswllt rhwng y Llywodraeth a darparwyr ar lawr gwlad ac mae'n gweithredu fel seinfwrdd gwerthfawr wrth inni ddatblygu ein polisïau a'u rhoi ar waith.

Bu'r gydberthynas hon yn amhrisiadwy yn ystod 2020 ac, er mwyn ein helpu i oroesi argyfwng Covid-19, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.800 yn ystod y flwyddyn i hybu gweithgarwch yn ymwneud â chanllawiau Covid-19 a chymorth i ddarparwyr drwy bartneriaid CWLWM.

Yn 2020-21, rydym wedi parhau i ariannu awdurdodau lleol drwy elfen Gofal Plant a Chwarae'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn i awdurdodau lleol allu helpu i sicrhau cynaliadwyedd darparwyr gofal plant a chwarae yn eu hardaloedd a llenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth yn eu hardaloedd lleol.

Yn 2020-21, bu'n bosibl inni ddyrannu £2.3m ychwanegol i awdurdodau lleol fel rhan o becyn ail-greu Llywodraeth Cymru, ar ben eu dyraniad blynyddol arferol, sef £2.3m. Roedd yr arian ychwanegol hwn yn ddyraniad untro i gefnogi lleoliadau y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt a cheisio sicrhau ein bod yn gallu cynnal sector gofal plant cryf a hyfyw yn y dyfodol.

Yn 2021-22, byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u gwaith o sicrhau digonolrwydd gofal plant. Mae'r cyllid hwn yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol.

Bu gostyngiad yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae o fewn Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd i'w briodoli i'r ffaith bod gwasanaethau gofal plant wedi cau oherwydd Covid-19 ac effaith hynny ar weithgarwch arolygu. Rydym yn disgwyl i'r cyllid ar gyfer AGC ddychwelyd i lefelau nodweddiadol yn 2021-22, a fydd tua £0.4m. Bydd hyn yn ariannu gweithgarwch arolygu ar y cyd ag Estyn ar gyfer lleoliadau lle y darperir gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar ac yn helpu i dalu costau TGCh a chostau gweinyddu'r cynllun nanis.

Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) mewn perthynas â'r gwaith y mae'n ei wneud ar gyfer y gweithlu gofal plant. Mae gofal plant yn rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach ac mae GCC yn helpu i roi'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar, a gyhoeddwyd gennym yn 2017, ar waith.

Yn 2020-21, dyrannwyd £0.315m i GCC, er bod newidiadau i'w gynllun gwaith, yn sgil pandemig Covid-19, wedi golygu mai dim ond £0.3m roedd ei angen arno. Rydym yn disgwyl i'r cyllid ddychwelyd i o leiaf £0.315m yn 2021-22 ac rydym yn gweithio gyda GCC i benderfynu ar y ffordd orau o ailbroffilio ac ailddechrau amrywiaeth o weithgarwch arfaethedig i gefnogi'r gweithlu gofal plant ehangach, gan gynnwys gwaith ar gymwysterau a chofrestru.

Rydym yn cefnogi amrywiaeth o raglenni i wella sgiliau'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae drwy raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariennir o Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop. Yn 2020-21, rydym yn disgwyl gwario £0.715m mewn arian cyfatebol er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau o ran y rhaglen. Mae'n debygol y bydd ein hymrwymiadau ychydig yn llai yn 2021-22, er bod trafodaethau ynghylch faint o arian Ewropeaidd a gaiff ei hawlio yn mynd rhagddo.

Rydym wedi parhau i gefnogi rhaglenni eraill sydd â'r nod o gefnogi'r gweithlu gofal plant. Mae hyn yn cynnwys 'Childcare Works', a weinyddir gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, gwaith penodol ar brentisiaethau sy'n cael ei ddatblygu gan Mudiad Meithrin, a grantiau cymorth i fusnesau a weinyddir gan Busnes Cymru. Er na fydd pob un o'r rhaglenni hyn yn parhau, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni cymorth ar gyfer y gweithlu yn ystod 2021-22.

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn rhaglen gwerth £21.5m a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen wedi'i hariannu hyd at fis Mawrth 2023.

Mae PaCE yn targedu rhieni sy'n economaidd anweithgar 25 oed a throsodd, a rhieni rhwng 16 a 24 oed Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). Gofal plant yw'r prif ffactor sy'n atal pob rhiant sy'n cofrestru ar PaCE rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae PaCE yn adeiladu ar wasanaethau a gynigir drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac yn

gweithredu y tu allan i hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn ategu prosiectau eraill megis Cymunedau am Waith.

Nod PaCE yw gweithio gyda 9,000 o rieni yn ystod oes y prosiect a helpu o leiaf 1,800 o'r rhieni hynny i gael gwaith. Hyd at fis Hydref 2020, mae PaCE wedi cefnogi 5605 o bobl. Mae'r rhaglen wedi cyflawni'n gysgon a disgwylir iddi barhau i wneud hynny er gwaethaf effaith cyfyngiadau Covid-19.

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

Darperir cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drwy Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol.

Cymorth rhianta

Yn 2021-22, dyrannwyd hyd at £0.2m i gefnogi ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein polisi o annog dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi'n gorfforol yn ogystal â rhoi gwybodaeth a chyngor i rieni a theuluoedd ar dechnegau rhianta cadarnhaol ehangach. Rydym yn bwriadu ymestyn ystod oedran yr ymgyrch yn ystod 2020-21 o 0-7 i rieni plant 0-18 oed.

Cwblhawyd ymarfer mapio er mwyn asesu lefel y cymorth rhianta sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru ac, yn sgil y pandemig, buom yn gweithio gydag ymarferwyr rhianta hefyd i goladu a rhannu eu gwaith arloesol i ddarparu cymorth rhianta yn rhithwir. Gyda'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta rydym yn ystyried i ba raddau y gallai fod angen darparu cymorth ac adnoddau rhianta ychwanegol.

Diogelu ac Eiriolaeth £2.365m, yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 0460

Gwasanaethau diogelu
Mae cyllid ar gyfer Diogelu yn cefnogi'r gwaith o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ar waith yn bennaf ac yn hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae blaenoriaethau diogelu wedi'u hamlinellu yn *Symud Cymru Ymlaen* sy'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r plant a’r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru ac yn eu cefnogi. Mae *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys gofal cymdeithasol fel un o'r pum prif flaenoriaeth ac yn cydnabod bod angen mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar gydweithredu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu helpu i aros gyda'u teuluoedd os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny a diogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn, mae cyllid yn cefnogi'r gwaith o Ddatblygu a Gweithredu Polisi Diogelu. Mae'r nodau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio i helpu i roi canllawiau statudol arfaethedig ar amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol, sydd ar fin cael eu cyhoeddi, ar waith.
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol a rhoi camau gweithredu o'r cynllun hwnnw, sy'n dod o fewn y cyfnod ariannol, ar waith.
- Cyhoeddi Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol ar gyfer lleoliadau gofal plant, gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd a gweithio i helpu i'w roi ar waith.
- Gweithio i ddatblygu cyngor ar ddiogelu plant yn ystod y blynyddoedd cynnar.
- Gweithio i hyrwyddo pecyn hyfforddiant amlasiantaethol ar ddiogelu yn ystod blaenlencyndod, a gomisiynwyd i'w ddatblygu yn y flwyddyn ariannol hon.
- Parhau i weithio i gefnogi adfer ar ôl pandemig Covid-19 drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd.

Bydd £103,000 o gyllid yn helpu i ddatblygu polisi i ddiogelu plant a'i roi ar waith, fel y nodwyd uchod. Bwriedir i £53,000 o'r dyraniad hwn gael ei ddefnyddio i roi camau gweithredu o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol, ar waith.

Mae cyllid diogelu yn cefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu rhanbarthol er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi arferion cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu plant mewn asiantaethau a ledled Cymru. Rhoddir £180,000 i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Cyhoeddwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chanllawiau arferion cysylltiedig ym mis Tachwedd 2019 ar lwyfan digidol ac mae'n hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymhellach mewn asiantaethau a ledled Cymru. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo o dan arweiniad Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn sicrhau y caiff y gweithdrefnau a'r canllawiau eu hadolygu a'u diwygio wrth i dystiolaeth newydd o arferion effeithiol gael ei nodi ac er mwyn cynnal y cynnig digidol. Bydd hyn yn gofyn am ddyrannu cyllid gwerth £25,000.

Bydd Cyllid ar gyfer gweithgarwch Diogelu yn parhau ar lefelau 2020-21 a bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys parhau i gefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau arferion cysylltiedig eu mabwysiadu'n gadarn mewn arferion bob dydd yn ogystal â chyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sy'n cefnogi byrddau rhanbarthol ac yn rhoi cyngor i Weinidogion ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru. Bydd cyllid ar gyfer Wythnos Ddiogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth a bydd hyn yn cyfrannu at atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a diogelu plant sy'n wynebu risg.

Bydd cyllid ar gael er mwyn helpu i roi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol, sydd wedi'i nodi ar gyfer y cyfnod ariannol yn y cynllun; datblygu a darparu hyfforddiant er mwyn helpu i roi canllawiau statudol newydd ar amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol a Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol newydd ar waith. Bydd gweithgarwch datblygu polisi yn cynnwys Cod Ymarfer Gwirfoddol i gyrff nad ydynt yn bartneriaid diogelu perthnasol ar hyn o bryd, canllawiau ar faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer

plant a chyngor ar arferion ar gyfer diogelu plant yn y blynyddoedd cynnar ac i gefnogi polisïau ac arferion diogelu corfforaethol cryfach ledled Cymru.

Gwasanaethau eiriolaeth
Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn ddull safonedig ar gyfer gwasanaethau eirioli statudol sy'n cael eu darparu gan y chwe Chydweithredfa Gwasanaethau Cymdeithasol Ranbarthol. Bu ar waith ers mis Mehefin 2017, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi hyd at £550k y flwyddyn er mwyn helpu i roi'r dull hwn ar waith. Mae'r gwaith o roi NASA ar waith yn cael ei fonitro gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd o dan Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Daethpwyd â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ben ym mis Tachwedd 2020 gyda dull gweithredu newydd yn cael ei fabwysiadu gan Fforymau Rhanbarthol sy'n dilyn ôl troed y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Caiff y dull hwn o weithredu ei oruchwylio gan Fforwm Cenedlaethol a gadeirir gan Lywodraeth Cymru a Phennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol. Bydd NASA yn parhau i gael ei reoli a'i fonitro drwy'r Fforymau Rhanbarthol a Chenedlaethol. Bydd yr elfen cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau (hyd at £550k y flwyddyn).

Mae NASA yn nodi disgwyliadau cenedlaethol a rennir o ran mynediad i wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ac argaeledd gwasanaethau o'r fath. Wedi'u seilio ar y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol, elfennau cyffredin manyleb gwasanaeth a thempled adrodd, mae NASA yn atgyfnerthu ac yn sicrhau cynnig a phrofiad cyson i blant ac ymarferwyr. Mae NASA yn dangos tystiolaeth bellach ac yn llywio dulliau cyflawni a gwella'r dyfodol trwy waith adrodd ansoddol a meintiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae cynnig gweithredol o eiriolaeth yn rhan o NASA ac fe'i darperir o dan yr amgylchiadau canlynol: 'Mae plant a phobl ifanc yn gymwys i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.'

Meic yw'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth sy'n darparu un man cyswllt i blant a phobl ifanc drwy wasanaeth rhadffôn, negeseua gwib a thestun.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y gweithgaredd hwn yn uniongyrchol, ond mae'n cynnal cyfarfodydd monitro'r contract yn rheolaidd â Pro-Mo Cymru y dyfarnwyd contract dwy flynedd (ynghyd â'r opsiwn ar gyfer 2 flynedd ychwanegol) iddo ym mis Ebrill 2016 yn dilyn ymarfer tendro cyhoeddus yn 2015.

Yn unol â thelerau'r contract ac ar sail awdurdod y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar yr opsiwn i ymestyn y contract am 2 flynedd arall, ar sylfaen adnewyddu blynyddol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid gwerth £535,980 y flwyddyn i MEIC hyd at fis Mawrth 2021. O ganlyniad i'r pandemig, rhoddwyd cyllid ychwanegol gwerth £33,000 i Pro-Mo Cymru er mwyn helpu i dalu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen (staff a deunyddiau) er mwyn i wasanaeth MEIC allu ymateb yn briodol i'r cynnydd yn nifer y galwadau i'r llinell gymorth a llunio adnoddau

sy'n benodol i Covid-19 yn ystod cyfnod o newid ac ansicrwydd mawr i bobl ifanc yng Nghymru (e.e. ymateb i alwadau sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch addysg ac, yn benodol, ynghylch canlyniadau arholiadau a pharatoi ar gyfer y brifysgol yn ystod y pandemig).

Mae'r pandemig wedi cyflwyno heriau o ran yr ymarfer caffael i gynnal gwasanaeth MEIC y tu hwnt i fis Mawrth 2021. Mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwneud yn bosibl i'r gwasanaeth barhau am flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, bwriedir parhau i ystyried y posibilrwydd o ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Bobl Ifanc Cymru (Cymru Ifanc) a'r bwriad yw y byddai MEIC yn un elfen o'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r estyniad hwn yn golygu na therfir ar y gwasanaeth tra bydd y gwasanaeth arfaethedig mwy o faint yn cael ei ddatblygu. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn hyblyg er mwyn iddo allu cael ei gysoni â blaenoriaethau'r Gweinidog nawr ac yn y dyfodol a sicrhau bod hynny'n digwydd.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn 2021-22, cyllideb y rhaglen ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (LACTG) fydd £0.660m a'r gyllideb ar gyfer Plant sy'n Agored i Niwed fydd £3.156m.

Bydd cyllideb LACTG yn ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen waith helaeth, fel y'i nodir yn y rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant, barhau a datblygu. Prif nodweddion y rhaglen yw:

Lleihau nifer y plant y mae angen gofal arnynt mewn ffordd ddiogel

Gweithio gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill i barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis dulliau o wneud penderfyniadau fel grŵp teuluol er mwyn lleddfu argyfyngau teuluol a chefnogi ailuno, gan ddarparu dysgu rhwng cymheiriaid ar draws sectorau. Mae hefyd yn cynnwys gwaith i helpu i ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol er mwyn sicrhau bod mesurau ataliol yn elfen allweddol ohoni er mwyn osgoi'r angen i deuluoedd ddod yn rhan o achosion gofal.

Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o safon uchel

Bwrw ymlaen â gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a datblygu'r ymgyrch farchnata. Mae recriwtio gofalwyr maeth yn allweddol i sicrhau llwyddiant gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a'u datblygu. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nodwyd y byddai angen datblygu “brand Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol”, sef brand cenedlaethol cyson ar gyfer gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol sy'n adlewyrchu cryfderau a phersonoliaethau'r 22 o Awdurdodau Lleol - ‘Maethu Cymru’ yw'r brand hwn. Mae Maethu Cymru yn cynnig cyfle i ailgydbwyso darpariaeth gwasanaethau, ateb y galw a chynnig dewis gwell o leoliadau i blant.

Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi meysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â gofal preswyl, gan gynnwys darparu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth ac ystyried ffyrdd o gynyddu'r defnydd o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Cefnogi Plant sy'n derbyn gofal i gael y Daith Orau Bosibl trwy Ofal ac i Fywyd fel Oedolion

Parhau i roi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal i'w helpu i bontio'n llwyddiannus i fywyd fel oedolion. Ceir hefyd amrywiaeth o waith trawslywodraethol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, datblygu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llety sy'n rhoi profiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n gadael gofal a rhaglen waith sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol.

Plant sy'n Agored i Niwed (£3.156m) – Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

Mecanwaith Adolygu Annibynnol

Mae'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn rheoli'r broses a ddefnyddir gan ddarpar fabwysiadwyr neu fabwysiadwyr a gymeradwywyd, a darpar rieni maeth neu rieni maeth a gymeradwywyd, i wneud cais am adolygiad o 'ddyfarniad o gymhwyster' a wneir gan ddarparwr mabwysiadu neu faethu. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol

Gwasanaethau Mabwysiadu gan gynnwys cymorth ôl-Fabwysiadu

Mae plant a fabwysiedir ymysg y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru; plant y mae dewisiadau eraill wedi'u dihysbyddu ar eu cyfer ac a fyddai'n fwy tebygol o aros 'yn derbyn gofal' am eu plentyndod pe na baent yn cael eu mabwysiadu. Bydd gwella cymorth yn sicrhau bod y buddsoddiad sydd eisoes wedi'i wneud o ran diogelu'r plant hyn yn arwain at y canlyniadau gorau ac yn annog mwy o deuluoedd i ystyried mabwysiadu.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn sicrhau y parheir i ddarparu Cofrestr Fabwysiadu Cymru. Mae'r Gofrestr yn darparu cronfa ddata bwrpasol i asiantaethau mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol) yng Nghymru. Mae'n darparu data i roi gwell tystiolaeth o weithgarwch mabwysiadu ledled Cymru a gwella prosesau mabwysiadu, yn enwedig o ran y plant hynny sy'n fwy anodd i'w lleoli gyda darpar rieni. Yn ystod 2021-22 bydd Cofrestr Fabwysiadu newydd Cymru yn parhau i gael ei hymgorffori er mwyn cyflymu'r broses o baru plant drwy hysbysu plant a mabwysiadwyr yn gyflymach yn unol â chanllawiau diwygiedig.

Cymorth Mabwysiadu

Fframwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

Byddwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn helpu i roi Fframwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Mabwysiadu, sy'n darparu'r strategaeth ar gyfer gwella cymorth mabwysiadu ledled Cymru, ar waith.

Gwaith Taith Bywyd

Bwriedir i Gwaith Taith Bywyd helpu plentyn i wneud synnwyr o'i orffennol a deall ei sefyllfa bresennol er mwyn ei helpu i symud ymlaen i'r dyfodol. Bydd y cyllid a ddarperir yn golygu bod modd parhau i wella'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn sydd wedi'i fabwysiadu yn gallu manteisio ar ei waith taith bywyd. Caiff cyllid ei anelu at ariannu swyddi cydgysylltwyr hyrwyddwyr ym mhob un o ranbarthau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ynghyd â swyddi cefnogol er mwyn helpu i ddatblygu'r maes gwaith hwn ymhellach.

TESSA
Buddsoddi i gyllido'r Gwasanaeth Cymorth Addysg Therapiwtig ar gyfer Teuluoedd sy'n Mabwysiadu (TESSA), a sefydlwyd yn ddiweddar.
Dulliau Arferion Gorau
Rhoi'r canllawiau arferion gorau a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar waith.

Adoption UK Cymru
Yn ystod 2021-22, caiff cyllid ei gyfeirio at Adoption UK Cymru er mwyn iddo allu parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cynnwys cadw gwirfoddolwyr a chynyddu nifer y gwirfoddolwyr, darparu hyfforddiant ôl-gymeradwyo, darparu Llinell Gymorth ar gyfer Mabwysiadu yng Nghymru, darparu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer plant 7-10 oed, pobl ifanc 11-25 oed a grŵp o bobl 18-25 oed sydd wedi'u mabwysiadu.

Mabwysiadu Gyda'n Gilydd
Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn rhaglen bwrpasol sy'n dod o hyd i deuluoedd i fabwysiadu'r plant mwyaf agored i niwed sydd wedi bod yn aros am yr amser hiraf yng Nghymru. Mae anghenion teuluoedd Mabwysiadu Gyda'n Gilydd ar lefel uwch ac mae angen cymorth seicolegol a therapiwtig uniongyrchol arnynt sy'n benodol yn hytrach na chyffredinol, er mwyn sicrhau lleoliadau sefydlog.

Astudiaeth Carfan – Prifysgol Caerdydd
Hyd yma, mae'r astudiaeth wedi darparu gwybodaeth amhrisiadwy a gafwyd yn uniongyrchol gan deuluoedd a phlant sydd, o safbwynt ymarferol, wedi'n galluogi i ddatblygu ymatebion a fydd yn helpu i gynnal lleoliadau mabwysiadu yn fwy effeithiol byth; a recriwtio mwy o fabwysiadwyr addas am ein bod yn gallu deall yn well y pwysau sydd ar deuluoedd sy'n mabwysiadu a'u llwyddiannau a'r ffyrdd gorau o'u helpu i gyflawni eu rôl. Yn 2021-22, bydd y cyllid yn adeiladu ar feysydd ymchwil newydd, yn seiliedig ar yr argymhellion sy'n deillio o ddata'r 5ed don.

Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru (AFA Cymru)
Mae Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru yn rhan o Gymdeithas Plant Dewi Sant, sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o waith hyfforddi ar gyfer asiantaethau maethu a mabwysiadu yn ogystal â gweithgareddau cyfreithiol/ymgynghori. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi AFA Cymru i ddarparu ei gwasanaethau craidd er mwyn iddi allu parhau i atgyfnerthu trefniadau yn y sector maethu a mabwysiadu a hyrwyddo arferion da a chymorth mewn perthynas â pharhad a lleoliadau sefydlog i blant sy'n derbyn gofal.

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cafcass Cymru
Cytunwyd ar gynnydd rheolaidd arfaethedig o £1.470m yn 2021, oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau. Mae'r cynnydd hwn yn cynrychioli costau staff disgwyliedig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys.

Mae'r gyllideb bresennol yn cwmpasu costau staffio a chostau rhedeg y sefydliad yn ogystal â chyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gadw mewn

cysylltiad â'u plant, pan fydd y Llys Teulu yn eu cyfarwyddo i wneud hynny. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o gyflwyno Rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd er Lles Plant, a orchmynnir gan y llys, sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sy'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn hollbwysig.

Hawliau plant a phobl ifanc
Bydd cyllid gwerth hyd at £0.991m yn 2021-22 yn helpu i roi Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar waith. Mae rhan o'r cyllid hwn yn helpu Plant yng Nghymru i gyflawni ei gynllun cytûn drwy gefnogi agenda hawliau plant yng Nghymru.

Mae hefyd yn cynnwys datblygu:

- a gweithredu strategaeth gyfranogi er mwyn galluogi Plant a Phobl Ifanc i ddylanwadu ar bolisi (erthygl 12 o CCUHP).
- a gweithredu strategaeth codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol (erthygl 42 o CCUHP)
- hyfforddiant cynhwysfawr a gynigir i Weinidogion, Swyddogion, Dirprwy Gyfarwyddwyr a rhanddeiliaid allanol
- strategaeth ymchwil sy'n canolbwyntio ar Hawliau Plant

Bydd y cyllid hwn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru roi argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â Hawliau Plant yng Nghymru a Chynllun Hawliau Plant diwygiedig ar waith.

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Prif nod y Comisiynydd, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yw diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiynydd Plant a'i swyddfa. Mae'r dyraniad cyllidebol o £1.580m yn cwmpasu costau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer 2021-22 a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Polisi a gwasanaethau chwarae
Yn 2019, gwnaethom dreialu'r defnydd o leoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau ac arweiniodd llwyddiant y cynlluniau hyn at ddyrannu £1m i gefnogi'r dull hwn o weithredu yn 2021-22, sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb Addysg. O'r cychwyn cyntaf, bwriadwyd i'r cyllid hwn gael ei ddarparu ochr yn ochr â'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu drwy Raglen Gwella Gwyliau'r Haf.

Yn ein barn ni, ni ddylai unrhyw blentyn fod yn llwgu yn ystod y gwyliau. Gwnaethom ariannu darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r Pasg, gwyliau hanner tymor y gwanwyn a gwyliau'r haf yn 2020 fel rhan o'n ymateb i bandemig Covid-19. Yn ogystal â hynny, dyrannwyd £11m ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim o hanner tymor mis Hydref hyd at wyliau Pasg yr ysgol yn 2021 ac yn cynnwys y cyfnod hwnnw. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ariannu'r ddarpariaeth hon, gan roi

mwy o gyfleoedd i blant chwarae a mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â llwgu.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth honno, ailgyfeiriwyd y swm o £1m a ddyrannwyd yn wreiddiol er mwyn helpu lleoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau i'r £1.6m a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth chwarae a gofal plant i blant o oedran ysgol sy'n agored i niwed yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Roedd y cyllid hwn yn ategu'r cymorth a oedd ar gael i blant cyn oed ysgol drwy'r Cynllun Cymorth Gofal Plant ar gyfer Argyfwng y Coronafeirws, y cyllid a ddarparwyd yn lle Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol a pharhad prydau ysgol am ddim.

Rydym wedi cadw'r £1m a ddyrannwyd i leoliadau gwaith chwarae fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau yn y gyllideb ar gyfer 2021-22. Bydd yn symud o'r gyllideb Addysg i'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn ystyried y ffordd orau o dargedu'r cyllid hwnnw gan fod £23.27m bellach wedi'i ddyrannu i barhau i ddaparu prydau ysgol am ddim i bob dysgwr cymwys yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Bydd byrbrydau a diodydd iach yn dal i fod ar gael o fewn darpariaeth gwaith chwarae.

Y flwyddyn nesaf, fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i gefnogi Chwarae Cymru, sef yr elusen sy'n cefnogi chwarae plant. Bu Chwarae Cymru yn Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella eu hymateb i'r Ddyletswydd i Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae yn eu hardaloedd a rhoi cyngor a chanllawiau arbenigol i'r sector gwaith chwarae. Mae gan Chwarae Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran cynnal cyswllt rhwng y Llywodraeth â'r sector gwaith chwarae. Mae'n gweithredu fel seinfwrdd gwerthfawr wrth inni ddatblygu ein polisïau a'u rhoi ar waith.

Bu'r gydberthynas hon yn amhrisiadwy yn ystod 2020. O'r gronfa ail-greu ar ôl Covid-19, bu'n bosibl inni ddyrannu cyllid ychwanegol gwerth £0.200m yn ystod y flwyddyn er mwyn i gyllid Chwarae Cymru allu helpu awdurdodau lleol i fanteisio ar ddarpariaeth gwaith chwarae.

Caiff y grant blynyddol i Chwarae Cymru ei gynnal ar y lefel y bu arni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef £0.360m, er mwyn inni allu parhau i fanteisio ar y bartneriaeth allweddol hon. Mae Chwarae Cymru hefyd yn cefnogi Adolygiad y Gweinidog o Chwarae a fydd yn cyflwyno ei adroddiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bydd hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol drwy gefnogi'r rhwydwaith gwaith chwarae a'r trydydd sector er mwyn sicrhau eu bod yn deall y canllawiau ar fesurau rhagweithiol Gwaith Chwarae Mynediad Agored ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd Chwarae Cymru yn defnyddio ei arbenigedd ym maes asesiadau risg yn y gweithle ac o ran sut i amrywio cyfleoedd chwarae er mwyn sicrhau y caiff plant a phobl ifanc y budd gorau.

Yn y flwyddyn ariannol hon, gwnaed dyraniad untro o £0.500m o refeniw a £3m o gyllid cyfalaf o'r gronfa ail-greu ar ôl Covid-19 drwy grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd. Bydd y £0.500m o gyllid refeniw yn helpu awdurdodau lleol i wella cyfleoedd chwarae, megis cynlluniau chwarae a gweithgareddau gwaith chwarae eraill, i blant a phobl ifanc yn ystod y gwyliau a hyd

at ac yn cynnwys Pasg 2021. Bydd hyn yn helpu cymunedau sy'n agored i niwed ac yn cefnogi rhieni drwy eu galluogi i weithio.

Bydd y £3m o gyllid cyfalaf yn galluogi awdurdodau lleol i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant ymhellach am y byddant yn gallu agor ardaloedd chwarae sydd wedi aros ar gau am fod angen adnewyddu neu atgyweirio cyfarpar. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio hefyd i wella profiadau chwarae plant yn yr awyr agored drwy ddileu rhai o'r rhwystrau i gael mynediad i fannau chwarae a wynebir gan blant anabl a'u teuluoedd. Caiff byrbrydau a diodydd iach eu darparu o fewn darpariaeth gwaith chwarae.

Gwasanaethau i blant anabl
Darperir cyllid craidd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau i blant anabl drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Mae'r cyllid wedi'i gynnal fel rhan o gyllid Cymru Iachach ar gyfer y llwybr clinigol ar gyfer cyfarpar cyfathrebu amgen a chynyddol. Dyrannwyd £0.6m i ariannu therpyddion llefeydd ac iaith a gweithwyr cymorth ychwanegol mewn byrddau iechyd (a Felindre) a chyllideb ar gyfer cyfarpar bach, er mwyn darparu gwasanaethau technoleg isel yn nes at gartref oedolion a phlant y mae angen asesiad lleferydd ac iaith, triniaeth a chyfarpar cyfathrebu amgen a chynyddol arnynt.

At hynny, dyrannwyd cyllid gwerth £0.572m o'r gyllideb ar gyfer Cymru Iachach, yn rhannol i ddarparu prostheses gweithgarwch i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed (er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'n hoedrannau polisi ar gyfer cefnogi pobl ifanc mewn addysg o dan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Ymadawyr Gofal). Mae dyraniad hefyd wedi'i gynnwys er mwyn helpu i ehangu'r Bartneriaeth Chwaraeon Anabledd Iechyd. Mae hwn yn gynllun peilot llwyddiannus sy'n cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc (ac oedolion) mewn chwaraeon anabledd. Fe'i cynhelir mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru.

Drwy'r Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, yn 2021-22, rhoddir £9.8m i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Cymru Iachach. Bydd tua 30% o'r grant hwn yn cefnogi cynlluniau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae cymorth penodol i blant anabl yn cael ei ddarparu drwy gymorth grant i nifer o sefydliadau yn y trydydd sector, gan gynnwys Cymdeithasau Syndrom Down; Anabledd Dysgu Cymru a Whizz Kidz.

Gordewdra ymhlith plant
Buddsoddir £5.5m er mwyn cyflawni strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn 2021-22. Mae'r cynllun cyflawni, a gyhoeddwyd ar ddechrau 2020, yn nodi ymrwymiadau fel rhan o strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach Cymru Iach ond mae Covid-19 wedi cael cryn effaith arno sydd wedi arwain at oedi o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer 2020. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y cynigion a nodwyd ar gyfer 2020-21 a byddwn yn cyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni yn 2021-22. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi Llwybr Gordewdra Clinigol, a fydd yn datblygu gwasanaethau plant a theuluoedd a chymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i raglen Rheoli Pwysau yn ystod Beichiogrwydd a fydd yn datblygu model cyflawni cenedlaethol i gyflwyno arferion gorau, gydag arbenigedd a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol.
- Cynllun Ymyrryd i Blant a Theuluoedd a fydd yn ceisio cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, wedi'i dargedu at y gyfran fwyaf o blant sy'n ordew, yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Plant. Bydd y cynllun yn cysylltu â seilwaith drwy Dechrau'n Deg a dulliau presgripsiynu cymdeithasol a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad llonydd ac anghydraddoldebau iechyd er mwyn datblygu cynlluniau peilot i brofi ffyrdd newydd o weithio.
- Datblygu systemau gwaith drwy Fyrddau Iechyd Lleol a phartneriaid, er mwyn cynnal gweithgareddau ymgysylltu pwrpasol â phlant a theuluoedd, er mwyn eu grymuso i wneud penderfyniadau a datblygu atebion lleol.
- Datblygu ymchwil a dealltwriaeth o ymddygiad a fydd yn datblygu camau gweithredu wedi'u llywio gan dystiolaeth drwy'r cynllun cyflawni.

Gwasanaethau Newyddenedigol

Dyraniadau i Gyflwyno Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan

Mae Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan, a ffurfiwyd yn 2019 drwy gyfuno dau rwydwaith blaenorol, yn rhoi cyngor amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Fyrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Roedd yr uno hwn wedi cynnig cyfleoedd i feithrin cysylltiadau agosach ar bob cam o'r llwybr clinigol i famau a babanod a darparu meysydd newydd ar gyfer cydweithio.

Mae'r Rhwydwaith yn defnyddio dangosfwrdd Newyddenedigol i Gymru gyfan sy'n goruchwylio gweithgarwch a pherfformiad; yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru; yn darparu llwyfan ar gyfer monitro mesurau'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP) ar sail Cymru gyfan; ac yn cefnogi ceisiadau busnes Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Llywodraeth Cymru am wybodaeth am y ffordd y darperir gwasanaethau newyddenedigol.

Mae'r Rhwydwaith yn sicrhau y caiff cynnydd tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Safonau, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Grŵp Llywio'r Rhwydwaith Newyddenedigol ym mis Medi 2017, ei fonitro'n rheolaidd. Roedd y safonau yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r canllawiau arferion gorau diweddaraf a oedd ar gael ar yr adeg honno er mwyn sicrhau eu bod yn glinigol ac yn weithredol berthnasol. Dylanwadwyd arnynt gan ddatblygiadau newyddenedigol ledled y Deyrnas Unedig a gwnaethant ystyried argymhellion gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), y Rhaglan Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP), Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Bliss a safonau eraill a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban.

Nod safonau'r 3ydd Argraffiad oedd parhau i adeiladu ar safonau blaenorol er mwyn gwella gwasanaethau i fabanod a'u teuluoedd ledled Cymru, gan ymgorffori rôl gynyddol bwysig y Rhwydwaith Newyddenedigol ac Unedau Newyddenedigol yng Nghymru sy'n cydweithio er mwyn rhannu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hwyluso gwella gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol wedi datblygu set o ddangosyddion ansawdd ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid, ond bydd angen eu diweddaru o hyd yn dilyn y cylch presennol o adolygiadau (y disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2021). Oherwydd y broses adolygu gan gymheiriaid a oedd yn dal i fynd rhagddi ac effeithiau pandemig Covid-19, ni ofynnodd y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol i Fyrddau Iechyd gwblhau hunanaseisd yn erbyn y safonau yn 2020. Mae'r hunanasesiadau hyn hefyd yn darparu amcangyfrif o'r goblygiad o ran cost i gyrraedd safonau. Mae'r asesiad sylfaenol hwn yn nodi unrhyw fylchau o ran y gwasanaethau a ddarperir mewn unedau yn ogystal â meysydd lle na chydymffurfir â'r safonau ar lefel uned.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol dros y 12 mis nesaf yn cynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflwyno gwasanaeth cludiant newyddenedigol 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ledled De Cymru, a sicrhau bod yr adnoddau gofal critigol cywir gyda'r gweithlu priodol ar gael ledled De Cymru. Cytunwyd ar fodel cludiant newyddenedigol 24 awr dros dro a chaiff ei roi ar waith o fis Ionawr 2021 ymlaen, tra'n aros i fodel parhaol gael ei ddarparu yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn disgwyl i fyrddau iechyd barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol er mwyn sicrhau bod cynlluniau eu gwasanaethau newyddenedigol yn ddigon cadarn i gyrraedd Safonau Newyddenedigol Cymru gyfan a sicrhau gwelliannau ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Yn y dyfodol, bydd y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau Newyddenedigol gan Gymheiriaid, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019, yn parhau i adolygu cydymffurfiaeth â'r Safonau yn ogystal â mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt, canllawiau clinigol a pholisïau sy'n berthnasol ar adeg cynnal yr adolygiad.

Lansiwyd Adolygiad Trawsnewidiol GIG Lloegr eleni ac mae'r Rhwydwaith wedi cytuno i feincnodi'r gwasanaeth yng Nghymru yn erbyn y rhaglen hon a gwneud cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth. Bydd hyn yn cynnwys data o Gymru, themâu adolygiadau gan gymheiriaid, y gweithlu meddygol a nyrsio, cymorth therapi ac argaeledd gofal sy'n pontio.

Mae gwaith ar y galw am wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ac adnoddau'r gwasanaethau hynny yn rhan o raglen y Rhwydwaith a'r rhaglen waith Gydweithredol. Ni chytunwyd ar amserlen ar gyfer y gwaith hwn eto. Fodd bynnag, bydd yn gofyn am gydweithrediad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Uned Gyflawni.

<u>Sut y bydd y dyraniad cyllidebol ar gyfer 2020-21 yn helpu i ysgogi newid / gwella perfformiad</u>

Caiff gwasanaethau newyddenedigol byrddau iechyd eu cyllido drwy’r dyraniad refeniw dewisol blynyddol a bydd byrddau iechyd yn gosod eu blaenoriaethau lleol mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol yn eu Cynlluniau Tymor Canol Integredig. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn rheoli’r mwyafrif o gyllideb y byrddau iechyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau Gofal Dwys Newyddenedigol (Lefel 4) a Dibyniaeth Uchel Newyddenedigol (Lefel 3). Caiff y

gyllideb ar gyfer yr Uned Gofal Arbennig Babanod ei rheoli gan fyrddau iechyd unigol.

Ystyrir bod gwasanaethau newyddenedigol yn Wasanaethau Hanfodol y mae angen eu cynnal yn ystod pandemig COVID-19. Hysbyswyd byrddau iechyd bod angen iddynt adlewyrchu cynlluniau i gynnal gwasanaethau o'r fath fel rhan o'u gwaith cynllunio parhaus ac maent yn adrodd ar hyn i'r Rhwydwaith a Llywodraeth Cymru.

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £116m mewn datblygiadau newyddenedigol ledled Cymru. Gwnaed y buddsoddiad hwn mewn nifer o safleoedd acíwt allweddol yng Nghymru gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o drosglwyddo mamau a babanod drwy ddarparu amgylchedd arbenigol, gyda'r gofod angenrheidiol, i sicrhau bod y gofal a roddir i fabanod yn ddiogel ac effeithiol. Mae'r cyllid a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:

- buddsoddwyd £19m yn y Ganolfan Gofal Dwys Newyddenedigol Isranbarthol (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd, a agorwyd gan Brif Weinidog Cymru ym Medi 2018;
- dyrannwyd £44.5m ar gyfer y datblygiadau Cam II yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, a gwblhawyd yn 2019;
- dyrannwyd £25m ar gyfer Cam II y cynllun Menywod a Phlant yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2021;
- dyrannwyd £10m ar gyfer Capasiti Newyddenedigol ac Ôl-enedigol ar safle Ysbyty Singleton, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020;
- dyrannwyd £6 miliwn ar gyfer gwaith ar yr uned newyddenedigol yn Ysbyty Tywysog Charles, Merthyr Tudful, a gwblhawyd yn 2018;
- buddsoddwyd £2m mewn gwaith ar uned newyddenedigol safle Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, a agorwyd yn ystod gwanwyn 2017;
- buddsoddwyd £10m yng ngham 1 gwaith newyddenedigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Glangwili er mwyn galluogi buddsoddiad pellach.

Iechyd Meddwl Amenedigol

Yn ystod pandemig Covid-19, rydym wedi sicrhau bod gwasanathau amenedigol ymhlith y gwasanaethau iechyd meddwl 'hanfodol' hynny rydym wedi nodi'n glir bod angen eu cynnal. Drwy'r system rydym wedi'i rhoi ar waith gydag arweinwyr byrddau iechyd ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd, rydym yn cael sicrwydd bod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn weithredol ac ar gael o hyd.

Gwnaed y buddsoddiad gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol i fyrddau iechyd yn 2015-16 ac roedd yn cyfateb i £1.435m. Nododd cylchoedd dilynol o gyllid trawsnewid iechyd meddwl (a ddechreuodd yn 2018/19) a chyllid gwella gwasanaethau (yn 2019-20 a 2020-21) nifer o feysydd â blaenoriaeth lle roedd gan fyrddau iechyd hyblygrwydd i benderfynu i ble y byddai eu cyllid yn cael ei ddyrannu. Mewn rhai byrddau iechyd, ond nid pob un, arweiniodd hyn at ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol.

Dengys y tabl canlynol y dyraniadau cyllid cronnol a fydd yn rhan o'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrif Ddyraniad y Byrddau Iechyd ar gyfer 2021-22.

	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd	**£m**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	807,426
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	223,309
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	327,109
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	361,213
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	301,149
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	336,030
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	472,237
	2,828,473

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i wella gwasanaethau, gyda gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn parhau'n faes â blaenoriaeth yn 2021-22.

Datblygwyd cynigion gan fyrddau iechyd yn seiliedig ar anghenion eu hardal ac ar y ddealltwriaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i bob bwrdd iechyd bod disgwyl iddo gyrraedd Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae gan yr Arweinydd Clinigol Amenedigol rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu byrddau iechyd i weithio tuag at y safonau hyn. Caiff effaith y cyllid gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer gwelliannau amenedigol ei monitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar gynlluniau gwaith ar gyfer iechyd meddwl amenedigol, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu darpariaeth i gleifion mewnol ar safle Tonna sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith adeiladu hwn a disgwylir i'r uned agor ym mis Ebrill 2021. Cost y gwaith adeiladu hwn yw £1.6m, ar hyn o bryd.

Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc
Fel ffocws allweddol i waith craffu'r Pwyllgor yn ystod y 5ed Senedd hon, byddem yn croesawu'r canlynol:

▪ ***Sylwadau manwl mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc***

Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn neilltuo cyllid ychwanegol i gefnogi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Dull System Gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Mae hyn yn ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i newid i ddarpariaeth ataliol integredig er mwyn cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

Cynigir cymorth i blant ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio ar lefel gymunedol lle y bo'n bosibl ond, mewn rhai achosion, efallai y bydd yr ymyrraeth arbenigol hon gan CAMHS ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed yn golygu bod

angen iddynt gael eu trin fel cleifion mewnol. Caiff y cyllid ychwanegol (£5.4m) ei gyfeirio tuag at hybu cynlluniau gwasanaethau CAMHS y GIG yn erbyn Haen 4 (gofal arbenigol, gan gynnwys gofal fel cleifion mewnol) yn ogystal â Thimau Dwys Cymunedol.

Fel rhan o'n Dull System Gyfan, bydd yn ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu darpariaeth mewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot ar sail Cymru gyfan, gan ddarparu £4m o gyllid ychwanegol yn y gyllideb hon, hyd at gyfanswm o £9m. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o roi ein fframwaith dull system gyfan ar waith, drwy gyllido arweinwyr cyflawni i weithio'n lleol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu dulliau system gyfan o ymdrin â llesiant dysgwyr; ac adeiladu ar weithgarwch cynharach drwy ddatblygu ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu ymhellach; cyfleoedd dysgu proffesiynol; a chefnogi llesiant staff ysgol.

▪ ***Gwybodaeth am ddyraniadau o ran iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn 2021-22 a lle y gellir eu canfod yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.***

Mae cyllidebau iechyd meddwl a ddelir yn ganolog wedi'u trosglwyddo i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Mae cyllid a ddyrennir i'r GIG ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dal i fod yn rhan o brif ddyraniad y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyllid sydd wedi'i neilltuo i'r GIG, ar gyfer yr holl wasanaethau iechyd meddwl, wedi cynyddu i £726m ar gyfer 2021-22.

Yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Llinell Wariant yn y Gyllideb 0270 – Iechyd Meddwl

- £7.1m, a gyhoeddwyd yn 2019-20, mewn perthynas â Cadernid Meddwl.
- Cymorth ychwanegol gwerth £7m ar gyfer y Dull System Gyfan er mwyn gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £5.4m o gyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio drwy wasanaethau cymunedol neu wasanaethau arbenigol i gleifion mewnol.

*Buddsoddiad parhaus gwerth £2m yn y dull system gyfan o'r MEG Addysg yn 2021-22. Felly, mae cyfanswm y cyllid yn cyfateb i £9m.

Caiff y cyllid gwerth £7m ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl, a gyhoeddwyd yn 2020-21, ei ddyrannu i fyrddau iechyd fel rhan o'u prif ddyraniad. Bydd cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwella gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer 2021-22, fel rhan o'r £20m ychwanegol a gyhoeddwyd i gefnogi iechyd meddwl.

Byddem hefyd yn croesawu cael rhagor o fanylion am y canlynol:

▪ *Cyllid ar gyfer cyflawni blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc fel y'u nodir yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.*

Mae nifer o'r camau gweithredu yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a chânt eu cyflawni drwy ddefnyddio'r cyllid a nodwyd uchod.

▪ *Manylion y cyllid i liniaru effeithiau Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys sut y bydd hwn yn mynd i'r afael â'r effaith anghymesur ar rai grwpiau (gan gynnwys, er enghraifft, y rhai ag afiechyd meddwl eisoes, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n agored i niwed, a grwpiau incwm isel).*

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, rydym wedi diwygio ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 er mwyn diwallu anghenion iechyd meddwl sy'n newid. Mae'r cynllun diwygiedig yn ailddatgan ein hymrwymiad i flaenoriaethu iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc ac rydym wedi cyflymu'r broses o gyflawni sawl cam gweithredu, gan gynnwys ehangu haen 0 a darpariaeth cwnsela mewn ysgolion er mwyn helpu i wneud hyn.

At hynny, yn ystod 2020, rydym wedi rhoi £9.9m o gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl i'r GIG, y trydydd sector ac Awdurdodau Lleol.

- £5m ar gyfer y dull system gyfan o ymdrin â lles meddyliol – mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.
- £2.7m i gefnogi haen 0 er mwyn helpu i leihau'r galw am wasanaethau iechyd meddwl y GIF yn y sector gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc – er enghraifft, drwy Becyn Cymorth Iechyd Meddwl Ieuenctid a llinell gymorth CALL.
- £2.2m i greu capasiti i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y cleifion mewnol ledled Cymru.

Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad ychwanegol arfaethedig o £7m mewn gwasanaethau iechyd meddwl drwy'r gronfa gwella gwasanaethau (a nodir isod).

Mae cyllideb ar y cyd y MEG Addysg a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, a oedd yn cyfateb i £5m yn y flwyddyn flaenorol a £9.4m yn 2021-22, yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19. Mae hyn yn cydnabod y bydd effeithiau'r pandemig ar iechyd emosiynol a llesiant plant a phobl ifanc yn parhau ar ôl yr effaith gorfforol. Yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi targedu cyllid yn benodol i gefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19, megis helpu darparwyr gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i symud darpariaeth ar-lein a datblygu modiwlau dysgu proffesiynol penodol sy'n ymwneud â Covid-19.

▪ *Sut y bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn cefnogi dull 'system gyfan', drawslywodraethol a thraws-sector o ran iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar atal / ymyrraeth gynnar a meithrin gwytnwch.*

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno i adolygu aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant a fydd yn dod yn Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar gyfer Gweithredu ar sail System Gyfan i ysgogi cynnydd am weddill tymor y Senedd hon.

Er y parheir i ganolbwyntio ar blant o oedran ysgol, bydd y dull system gyfan yn adlewyrchu gwaith presennol y grŵp yn well a'i alluogi i roi arweiniad ac ehangu ar draws meysydd perthnasol ychwanegol.

Yn benodol, bydd yn sicrhau bod camau gweithredu a arweinir gan y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio â'r cymorth strwythuredig ar gyfer gweithgarwch gweinyddol a rhaglenni sydd wedi canolbwyntio ar y Dull System Gyfan hyd yma ac yn cael budd o'r cymorth hwnnw.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp y pennwyd ffocws newydd iddo ar 14 Rhagfyr a bydd y grŵp yn cyfarfod yn amlach yn y Flwyddyn Newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y momentwm o ran cyflymder y broses gyflawni.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol fframwaith y Dull System Gyfan ar ddechrau 2021 ac rydym hefyd yn ystyried pa waith a chymorth pellach sydd ei angen er mwyn helpu ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i roi'r fframwaith ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd orau o sicrhau y caiff ein gwaith ei fonitro a'i werthuso'n lleol gan ysgolion.

▪ *Cyllid i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd y gweithlu gofal iechyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y gweithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc.*

Yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 mae cam gweithredu â blaenoriaeth i ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl. Mae'r cynllun ar gyfer y gweithlu yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Cynhaliodd AaGIC a GCC ymarfer mapio gyda Byrddau Iechyd yn ystod mis Tachwedd er mwyn nodi staff a swyddi a bydd yr ymarfer hwn yn llywio'r Cynllun ar gyfer y Gweithlu Iechyd Meddwl y bwriedir ymgynghori arno ar ddiwedd 2021. Yn ystod mis Hydref, arweinodd AaGIC a GCC gynhadledd rithwir ar y cyd, a barodd fis, er mwyn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i lywio'r gweithlu iechyd meddwl yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn llywio gwariant ar y gweithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae elfennau o'r cyllid gwella gwasanaethau wedi'u dyrannu i ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu a nodwyd gan fyrddau iechyd.

▪ *Gwybodaeth am y gronfa gwella gwasanaethau iechyd meddwl, gwerth £7m, gan gynnwys (mewn perthynas â phlant a phobl ifanc) manylion am sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd yn 2020-21, a'r amcanion/blaenoriaethau o ran y cyllid hwn ar gyfer 2021- 22.*

Ar gam cynnar, cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrddau iechyd ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r pandemig presennol ym maes iechyd meddwl ac, felly, rhyddhaodd y chwe mis cyntaf o gyllid (£3.5m) a ddyrannwyd i bob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau'r parhad a'r hyblrwydd roedd eu hangen ar yr adeg hon. Gofynnwyd i fyrddau iechyd, yn ôl-weithredol, roi trosolwg lefel uchel ynglŷn â'r ffordd roedd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ymateb i'r pwysau sy'n

gysylltiedig â'r pandemig presennol ym maes iechyd meddwl. Cadarnhaodd y ffurflenni a ddychwelwyd fod y cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd, gan gynnwys: talu am staff ychwanegol o asiantaethau a staff wedi'u hadleoli o adrannau eraill, talu am ofal ychwanegol am fod gwasanaethau gofal dydd wedi cau, comisiynu capasiti gofal ychwanegol ar gyfer cleifion mewnol ac ailgyflunio modelau gwasanaeth er mwyn eu darparu'n ddigidol.

Dyrannwyd yr ail ddyraniad o £3.5m i nifer o feysydd â blaenoriaeth. Bydd elfennau o gynigion wedi'u targedu at bobl ifanc wedi'u cynnwys yn y rhan fwyaf o gategorïau â blaenoriaeth. Nodir y rhaniad rhwng y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2020-21 yn y tabl isod.

Maes Blaenoriaeth	**Y swm y gofynnwyd amdano 2020/21**
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	£330,495
Anhwylderau bwyta	£501,385
Amenedigol	£222,488
Therapïau Seicolegol – darpariaeth ar gyfer pob oedran (gyda £51,000 wedi'i anelu'n benodol at Blant a Phobl Ifanc)	£446,446
Argyfwng / Y Tu Allan i Oriau – darpariaeth ar gyfer pob oedran (gyda £253,000 wedi'i anelu'n benodol at Blant a Phobl Ifanc)	£991,217
Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis	£92,166
Arall (h.y. fferylliaeth, iechyd mewn carchardai, gwasanaethau adfer)	£300,011
Ymateb i bandemig Covid-19	£367,848
Blaenoriaethau Covid/Cynllun Cyflawni Amhenodol	£247,944
Cyfanswm	£3,500,000

Caiff effaith y cyllid hwn ei fonitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Dyddiad: 21 Ionawr 2021

Amser: 13.30 – 15.30 Y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

15.45 – 16.30 Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22

Cyflwyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwario ar gyfer 2021-22. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni yn y dyfodol mewn cysylltiad â Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai ac Adfywio, fel yr amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 21 Rhagfyr 2020.

Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai a Llywodraeth Leol, a darnau o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn cysylltiad â phortffolio'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae'r ffigurau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y tabl isod.

Tablau Ariannol

Yr elfennau penodol ar gyfer y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yw Llywodraeth Leol, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol. Mae cyllidebau'r elfennau hynny wedi'u crynhoi yn y tablau isod.

	2020-21 Cyllideb Derfynol £'000	**2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000**	**Newid £'000**	**% Newid**
Refeniw	3,937,550	4,211,257	273,707	6.9%
Nad yw'n arian parod	240	381	141	58.7%
Cyfanswm yr Adnoddau	**3,937,790**	**4,211,638**	**273,848**	6.9%
Cyfalaf	570,411	625,691	55,280	9.6%
Trafodiadau Ariannol	151,505	91,786	-59,719	-39.4%
Cyfanswm Cyfalaf	**721,916**	**717,477**	**-4,439**	**-0.6%**

Trosolwg o’r Gyllideb

Dyma gyllideb derfynol y Pumed Cynulliad. Paratowyd y gyllideb yn dilyn Adolygiad o Wariant blwyddyn Llywodraeth y DU ar 25 Tachwedd 2020.

Er mai dim ond am flwyddyn yn unig y gellir pennu cynlluniau refeniw a chyfalaf, mae’r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon i warchod gwasanaethau cyhoeddus a swyddi; darparu’r sefydlogrwydd ariannol sydd ei hangen i fuddsoddi yng Nghymru i feithrin twf economaidd ac i gefnogi ein blaenoriaethau. Mae’r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus ac, yn fwy penodol, ar lefel y cyllid sydd ar gael yn golygu y byddwn ni a’n partneriaid yn wynebu heriau, ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd.

Mae’r broses o bennu’r gyllideb ar gyfer 2021-22 wedi canolbwyntio ar y themâu diogelu, adeiladu, a newid. Wrth ddyrannu refeniw rydym wedi canolbwyntio ar fesurau i fynd i’r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae’r buddsoddiadau cyfalaf wedi canolbwyntio ar fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd, cefnogi bioamrywiaeth, tai, a chanol trefi. Roedd proses y gyllideb yn gyfle i fwrw ymlaen ag ymdrechion cyfunol y Cabinet i wneud y defnydd gorau posibl o’n hadnoddau er mwyn gwella canlyniadau yn y meysydd hyn, ac mae’r dystiolaeth ar flaenoriaethau yn y meysydd hyn wedi dylanwadu ar y gwariant ar lywodraeth leol, tai a chydraddoldeb.

Mae’r cynigion hyn yn y gyllideb hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy’n cefnogi mesurau ataliol i’r graddau mwyaf posibl. Wrth wneud penderfyniadau ar wariant rydym nid yn unig wedi ystyried sut mae ateb y galw presennol am wasanaethau, ond hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau sy’n gallu atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae’r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o’n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Llywodraeth Leol

Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau refeniw yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21. Cafodd rhai addasiadau eu gwneud i’n sefyllfa refeniw o ran Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf (gostyngiad o £10m) a Chyfathrebiadau Gwasanaethau Tân (£2.010m). Roedd y symiau hyn yn ostyngiadau disgwyliedig yn unol â chwblhad y ffrydiau cyllido hyn.

Cafodd y MEG Tai a Llywodraeth Leol ddyraniadau penodol i ddarparu gwell setliad i lywodraeth leol, yn ogystal â dyraniad o £23.27m i Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i barhau â’r ddarpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim i bob dysgwr cymwys yn ystod gwyliau’r ysgol yn ystod 2021-22. Hefyd cafodd y MEG gynnydd o £40m i’r Grant Cymorth Tai a dyraniad o £4m o gronfa wrth gefn Covid-19 i’r Grant Atal Digartrefedd i barhau â’r cynnydd yn y maes hwn hyd yma.

Yn yr Adolygiad o Wariant, cafodd Llywodraeth Cymru symiau canlyniadol gwerth £766m yn 2021-22 o ganlyniad i gyhoeddiadau gwariant mewn cysylltiad â Covid-19 yn Lloegr mewn meysydd datganoledig. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio fel rhan o’n hymdrechion parhaus i ymateb i’r pandemig ac i liniaru ei effaith. O ganlyniad i’r ansicrwydd yn y maes hwn ac i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ar ddyrannu’r cyllid hwn yn ateb heriau esblygol y pandemig, dim ond nifer fach o ddyraniadau sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer y cyllid hwn, a hynny i wasanaethau penodol sy’n

ymateb i effeithiau'r pandemig. Wrth inni gael gwell dealltwriaeth o effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd, byddwn yn gwneud rhagor o ddyraniadau yn ôl yr angen.

Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau cyfalaf cyffredinol yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21 hefyd ac ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i'r llinell sylfaen hon yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Gwnaed dyraniadau cyfalaf penodol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cynhwysiant Ariannol ac i'r portffolio Tai ac Adfywio.

Setliad Llywodraeth Leol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae staff awdurdodau lleol wedi gweithio'n hynod o galed i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig, gan weithio'n hyblyg i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol dros y naw mis diwethaf i fynd i'r afael â'r costau ychwanegol a'r incwm sydd wedi'i golli o ganlyniad i'r ymateb i Covid-19. Roedd dros £500m ar gael drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol. Roeddem wedi cefnogi awdurdodau gyda'u llif arian parod ym mis Ebrill hefyd, drwy ailbroffilio'r setliad i roi taliad cynnar gwerth £526m iddynt. Rydym yn rhag-weld y bydd angen parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol tebygol a'r incwm maent yn debygol o'i golli yn 2021-22 wrth ymateb i'r pandemig. Mae **dyraniad o £23.3m** wedi cael ei wneud i'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol yn 2021-22 i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl nawr ac rydym yn bwriadu dyrannu'r cyllid hwn ymhellach yn y Gyllideb Derfynol, ar ôl inni gael gwell dealltwriaeth o fisoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i'r pandemig.

Roeddem yn gallu cyllidebu setliad da i Lywodraeth Leol yn 2020-21 – cafodd pob awdurdod cynnydd o 3% o leiaf. Yn y gyllideb hon, ein blaenoriaethau unwaith eto oedd diogelu gwasanaethau lleol ac iechyd. Wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb yn ei chyfanrwydd, rydym wedi gallu sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael setliad da arall yn gyffredinol, er gwaethaf yr effaith negyddol ar y gronfa ardrethi annomestig a chyfraddau casglu is yn ystod y pandemig. Rydym wedi rhoi **cynnydd cyffredinol o 3.8%** i awdurdodau lleol ar sail tebyg am debyg. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r cyllid craidd maent yn ei gael drwy'r setliad, fel y maent yn ei wneud bob blwyddyn, i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, boed hynny drwy ddarparu gofal cymdeithasol, cymorth digartrefedd neu brydau ysgol am ddim, i enwi dim ond rhai meysydd. Wrth gwrs byddem yn hoffi rhoi ffigurau cynllunio tymor hwy i awdurdodau er mwyn iddynt allu seilio eu cynlluniau ariannol arnynt, ond ni allwn wneud hyn heb adolygiad cynhwysfawr o wariant tymor hwy gan Lywodraeth y DU.

Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a chyllid gan ardrethi annomestig. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol wedi cynyddu £210.4m o ganlyniad i gyllid cynyddol o £211m, trosglwyddiad i mewn o £1.1m a throsglwyddiad allan i setliad yr heddlu o £1.7m. Mae'r gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer ardrethi annomestig wedi gostwng £35m. Effaith gyffredinol hyn yw darparu cynnydd arian parod o £176m i'r setliad. Gan ystyried y £4m a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer cyflog athrawon, o gymharu ar sail tebyg am debyg mae hyn yn gynnydd i'r setliad o £172m.

Nid yw'r cyllid hwn i Lywodraeth Leol wedi'i neilltuo ond rydym yn rhag-weld mai defnydd pennaf y cyllid ychwanegol hwn fydd cefnogi ysgolion a gofal cymdeithasol – dau faes craidd. Bydd awdurdodau'n gallu parhau i ganolbwyntio, a hynny i raddau mwy, ar gyflenwi pobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial ac ar helpu pobl i fyw'n annibynnol neu i fodloni eu hanghenion gofal mewn lleoliad preswyl, ac atal yr angen am driniaeth yn yr ysbyty. Yn gyffredinol, mae hyn yn creu effaith gadarnhaol ar blant hyd 16 oed drwy ddarparu addysg. Mae buddsoddi mewn gofal cymdeithasol yn elwa amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd – namau corfforol a meddyliol – ac oedran, gan fod y gyfran uchaf o bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol dros 65 oed.

Mae'r setliad yn darparu'r cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau ac yn gosod terfynau ar hyd y continwwm ataliol i ymatebol yn destun anodd ac mae wedi bod erioed. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal eu hasesiad eu hunain o effaith penderfyniadau fel rhan o'u gwaith penderfynu ar gyllidebau lleol. Mae meysydd allweddol gwasanaethau llywodraeth leol fel rhaglenni i deuluoedd, addysg, a helpu pobl i fyw'n annibynnol, yn anelu at atal anawsterau a phroblemau rhag codi ym mywyd pobl yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio dulliau cyfunol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, gan ddefnyddio ymyriadau digidol a rhai wyneb yn wyneb, gan eu galluogi i barhau i gyflenwi gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn, ac i ddefnyddio amser staff a thrigolion yn fwy effeithlon.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol osod a chyhoeddi amcanion llesiant i ddangos sut byddant yn gweithio i gyflawni pob un o saith nod llesiant Cymru. Mae'r gwasanaethau hanfodol a gyflenwir drwy gymorth llywodraeth leol yn cefnogi iechyd a llesiant ehangach pobl Cymru, yn enwedig nawr fod y pandemig yn cael effaith eang ar fywyd cynifer o bobl. Nodwyd y blaenoriaethau o ran iechyd a llywodraeth leol yn y gyllideb ddrafft ac mae darparu cynnydd tebyg am debyg o 3.8% yn y setliad yn adlewyrchu hyn. Gwyddwn fod gan awdurdodau lleol y wybodaeth leol i gyflenwi'r rhan fwyaf o wasanaethau yn y ffordd orau yn eu hardal leol drwy gyllid heb ei neilltuo. Mae'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn hanfodol wrth ymateb i'r pandemig.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen i gymunedau ddod ynghyd a chynnwys amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Mae wedi sbarduno ffyrdd gwahanol o weithio ac achosi i wasanaethau gael eu cyflenwi i fodloni anghenion defnyddwyr. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu a'i addasu yn ôl yr angen wrth inni symud drwy'r flwyddyn ariannol nesaf ac i gynlluniau tymor hwy. Efallai mai bach yw rhai o'r newidiadau hyn ond maent yn dangos beth sy'n bosibl a gan fod technolegau digidol yn datblygu'n barhaus, maent yn fan cychwyn ar gyfer arloesi yn y dyfodol. Dyma rai o'r meysydd allweddol lle mae newidiadau wedi cael eu gwneud ar draws awdurdodau:

- Mae cynghorau wedi manteisio ar y cyfle i weithio gydag unigolion digartref ar achosion sylfaenol eu sefyllfa, yn benodol darparu cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Ym maes gofal cymdeithasol, mae technoleg rithiol wedi cynyddu mynediad nifer o drigolion at weithwyr cymdeithasol a ffrindiau y tu allan i'w rhwydwaith uniongyrchol. Mae llawer mwy o weithio mewn partneriaeth wedi bod yn digwydd ac mae technoleg ddigidol yn golygu bod ymatebion yn gyflymach o lawer.
- Yn ddigidol, mae paneli dysgwyr agored i niwed wedi cael eu sefydlu, gan weithio ar draws timau anableddau dysgu, pyrth teuluoedd, partneriaid yn y trydydd sector ac iechyd i drafod pryderon difrifol ynglŷn â diogelwch a lles.

- Mae newidiadau i ganol dinasoedd a threfi er mwyn hwyluso cadw pellter cymdeithasol wedi bod o fudd i ansawdd aer a'r amgylchedd hefyd.
- Mae systemau archebu ar-lein ar gyfer ailgylchu wedi lleihau ciwiau ac wedi gwella'r cyfathrebu â defnyddwyr. Roedd un cyngor wedi adrodd bod ei ganolfannau ailgylchu yn rhedeg ar gyfradd ailgylchu o 90%, i fyny o gyfartaledd o 75%.
- Gwasanaethau llyfrgell ar-lein, a darpariaeth clicio a chasglu

Roedd gan nifer o awdurdodau lleol gynlluniau trawsnewid ar waith yn barod; rhai wedi'u datblygu mwy nag eraill. Mae awdurdodau wedi adrodd bod nifer o agweddau ar gynlluniau trawsnewid, yn enwedig mewn cysylltiad â thrawsnewid digidol, wedi cael eu cyflymu o ganlyniad i'r pandemig a'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Cyllid y tu allan i'r setliad

Ochr yn ochr â'r setliad, mae elfennau o gyllid penodol i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant torfol eu hardaloedd. Mae Darpariaeth ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth yn cefnogi ein gwaith i gryfhau llywodraeth leol yn wyneb heriau ariannol parhaus a'u galluogi i ddarparu gwasanaethau hanfodol, sy'n cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd pawb. Rydym yn darparu cyllid ar gyfer rhaglen wella a arweinir gan y sector ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi dull mwy rhagweithiol o gydlynu a chefnogi gwelliant parhaus ar draws pob awdurdod lleol – y bwriad yw mynd i'r afael â phroblemau mewn cynghorau yn gynnar ac atal problemau rhag dwysáu neu gyrraedd pwynt lle mae angen ymyriad arnynt. Rydym hefyd yn darparu cymorth ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig, a fydd yn galluogi dull cyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Bydd y pwyllgorau hyn yn helpu i gysoni'r penderfyniadau strategol allweddol sy'n sail i ddatblygiad cynaliadwy a thrawsnewid rhanbarthau yn eu cyfanrwydd.

Hefyd, darperir cymorth i gefnogi'r amrywiaeth o ddiwygiadau i lywodraeth leol a gyflwynir drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Un o themâu craidd y Bil yw hyrwyddo amrywiaeth a democratiaeth leol, gan gynnwys rhoi'r bleidlais i unigolion 16-17 oed ac i ddinasyddion o dramor sy'n byw yng Nghymru'n gyfreithlon, gan ganiatáu i grwpiau ychwanegol o gymdeithas ddylanwadu ar benderfyniadau.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cymorth statudol a, lle bo angen, ymyriadau pan fo awdurdodau lleol yn wynebu heriau sylweddol a bod angen cymorth arnynt i wella perfformiad gwasanaethau a/neu gapasiti corfforaethol; mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth sydd ar waith ym Merthyr ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn darparu cyllid i gefnogi trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid i Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol ddatblygu a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol, a gwaith trawsnewid.

Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

Cafodd cyllid ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei ddarparu fel refeniw am bum mlynedd gyntaf y fargen 20 mlynedd (o 2016-17 i 2020-21). Bydd gweddill y cymorth cyllid uniongyrchol gan y llywodraeth ar gyfer y fargen yn cael ei ddarparu fel cyfalaf yn unol â'r cytundeb rhwng y rhanbarth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn amodol ar y rhanbarth yn cwblhau'r Adolygiadau Gateway gofynnol yn llwyddiannus. Bydd cyllid ar gyfer Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe a Bargen Twf y Gogledd yn cael ei ddarparu fel cyfalaf hefyd. Bydd y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y bargeinion y cytunwyd arnynt yn cael ei sicrhau drwy

gyllidebau atodol pan fydd trefniadau ariannol y bargeinion yn cael eu cwblhau'n derfynol.

Y Cyfnod Pontio o'r UE

Roedd datganiad y Gweinidog Cyllid ar gyllideb Cymru yn nodi'r risgiau a'r materion ariannol ynghylch y cyfnod pontio o'r UE, gan gynnwys ein disgwyliad na ddylai Cymru fod ar ei cholled yn ariannol. Yn 2018, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer rhaglenni cymorth a strwythurau cryf a chadarnhaol i helpu Awdurdodau Lleol yng Nghymru gydweithio i baratoi; ac i roi sicrwydd ynghylch galluogrwydd, cydnerthedd a pharodrwydd llywodraeth leol.

Un o'r prif agweddau ar y strwythur hwn oedd sefydlu Panel Cynghori Paratoadau'r UE ar gyfer Llywodraeth Leol – grŵp strategol yn cynnwys Prif Weithredwyr cynrychioladol o awdurdodau lleol rhanbarthol, arweinwyr gwasanaethau, CLILC a Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn goruchwylio Rhaglen Pontio o'r UE CLILC https://www.wlga.cymru/brexit-transition-support-programme-for-welsh-local-authorities a 'Cydlynwyr Brexit' ar lefel Llywodraeth Leol – dwy raglen sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn, gan gydweithio ag awdurdodau lleol ac integreiddio'r ymateb rhwng meysydd gwasanaeth, wedi ei gwneud hi'n bosibl llunio cynlluniau a chynnal asesiadau risg mwy cadarn.

Mae'r cymorth hwn wedi helpu Awdurdodau Lleol i fod mor barod â phosibl (ac ystyried yr ansicrwydd) ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi lefelau a chysondeb uwch o ran parodrwydd Awdurdodau Lleol ledled Cymru ers mis Ionawr 2019, ac wedi tynnu sylw at fuddion a llwyddiant y model cydweithio hwn.

Mae'r dulliau gweithredu hyn wedi parhau gydol 2020 i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ac er bu rhaid ailgyfeirio adnoddau sylweddol at yr ymateb i Covid-19 a'r gwaith adfer, mae'r ffocws ar bontio o'r UE wedi parhau.

Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol

Yn ogystal â grantiau penodol ar gyfer buddsoddiad sy'n cefnogi adferiad yr economi leol, mae'r Gronfa Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol yn ffynhonnell cyllid allweddol i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi yn yr amgylchedd lleol a gwasanaethau lleol. Roedd cyllideb derfynol 2020-21 yn cynnwys blwyddyn olaf nifer o ddyraniadau cyfnod penodol a oedd yn dod i ben yn 2021. Wrth osod ein cyllideb cyfalaf ar gyfer 2021-22, rydym wedi penderfynu parhau â'r cyllid hwn, gwerth £55m, yn 2021-22. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o **£197.8m** o gyllid cyfalaf ar gael i awdurdodau lleol yn 2021-22. Bwriedir bod **£35m** o hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau i helpu Llywodraeth Leol i gyflawni ein blaenoriaethau ar y cyd, gan gynnwys datgarboneiddio ac adferiad economaidd sy'n seiliedig ar werthoedd ar ôl Covid-19.

Mae Llywodraeth Leol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith datgarboneiddio – nid yn unig wrth gyflenwi gwasanaethau ac ystadau Cynghorau yn uniongyrchol, ond hefyd drwy ddarparu arweinyddiaeth leol ledled Cymru a hyrwyddo atebion cynaliadwy uchelgeisiol, a newidiadau mewn ymddygiad. Bydd cydweithio i rannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion yn helpu i sicrhau buddsoddiadau, strategaethau a pholisïau mor effeithiol â phosibl ac yn helpu i ddatblygu'r 'map llwybr' cyflymaf a mwyaf cynaliadwy tuag at gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, a'n huchelgais o ran sero net erbyn 2030.

Yn ystod yr haf hwn, cytunodd Gweinidogion ac Arweinwyr Llywodraeth Leol ar Banel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol, a fyddai'n cynnwys prif weithredwyr awdurdodau lleol, CLILC, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ac ymgynghorwyr perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr ar ddatgarboneiddio a newid ymddygiad. Bydd yn sbarduno cyfraniad llywodraeth leol i'r dull 'Tîm Cymru' o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf i Gymru, a'i chyfraniad i COP26 fis Tachwedd.

Ardrethi Annomestig

Mae trethiant lleol yn rhan hollbwysig o'r system ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru. Y refeniw gros sy'n daladwy gan ardrethi annomestig yw dros £1.3bn. Ar ôl cymhwyso rhyddhad, mae ardrethi annomestig yn cyfrannu dros £1bn at gyllid blynyddol gwasanaethau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £230m y flwyddyn o ryddhad statudol. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn darparu dros £125m o ryddhad eleni. Nid yw dros hanner y busnesau yn talu unrhyw ardrethi o gwbl. Mae ein cynllun rhyddhad elusennol yn darparu budd-dal o dros £65m, sy'n golygu bod elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn cael rhwng 80% a 100% oddi ar eu biliau ardrethi. Mae Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn darparu cyfnod eithrio cychwynnol rhag ardrethi pan fydd eiddo'n dod yn wag, gyda chyfanswm y rhyddhad yn bron i £30m. Mae effaith y coronafeirws ar lefelau eiddo gwag a'r sylfaen drethu yn dal i gael ei hasesu. Mae'r cynlluniau hyn oll yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2020-21, fel rhan o'n mesurau ar gyfer argyfwng Covid-19, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, gan roi rhyddhad o 100% i dalwyr ardrethi sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £500,000. Rydym hefyd wedi cynnig dros £875m o gymorth grant i dalwyr ardrethi annomestig. Mae'r rhai â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 wedi cael grant o £10,000 ac mae'r rhai sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 wedi cael grant o £25,000.

Drwy gydol 2021-22, bydd gwaith helaeth yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer ailbrisiad nesaf ardrethi annomestig, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar osod ardrethi datgyfalafu i eiddo heb werth rhentu ar y farchnad. Mae hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y gwanwyn. Tua diwedd y flwyddyn, bydd gwaith paratoi pellach yn cael ei wneud i archwilio effaith bosibl yr ailbrisiad ar y sylfaen drethu. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fonitro effaith Covid-19 ar sylfaen drethu eiddo annomestig. Byddwn hefyd yn ystyried y polisi tymor hwy ar y cyfnod rhwng pob ailbrisiad a'r dewisiadau ar gyfer diwygio apeliadau mewn cysylltiad ag ardrethi annomestig.

Ar 15 Rhagfyr, cyhoeddom y byddai'r lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei rewi ar gyfer 2021-22. Mae'r lluosydd yn rhan hollbwysig o bennu biliau talwyr ardrethi. Bydd y penderfyniad hwn yn sicrhau, cyn gweithredu unrhyw ryddhad, na fydd cynnydd yn swm yr ardrethi mae busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn eu talu

flwyddyn nesaf. Bydd capio cynnydd y lluosydd ardrethi annomestig i CPI, yn hytrach nag RPI, rhwng 2018-19 a 2020-21, ynghyd â rhewi'r lluosydd yn 2021-22, yn golygu y bydd talwyr ardrethi yng Nghymru wedi arbed dros £90 miliwn ar eu biliau ardrethi ers 2018-19.

Mae Llywodraeth Cymru yn asesu'r adnoddau sydd ar gael cyn gwneud penderfyniad ynghylch sut i ddarparu cymorth yn y dyfodol drwy ryddhad ardrethi annomestig yn 2021-22. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch cymorth ardrethi annomestig yn y flwyddyn newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o dargedu unrhyw gyllid canlyniadol ychwanegol a ddyrennir i Gymru er mwyn cefnogi ein cymunedau a'n busnesau yng Nghymru fel rhan o'n cyllideb a'n blaenoriaethau gwario.

Y Dreth Gyngor

Mae'r hyblygrwydd i osod eu cyllidebau a'u lefelau treth gyngor eu hunain yn adnodd allweddol o ran helpu awdurdodau lleol i ddelio â'r heriau sy'n codi yn sgil blynyddoedd o gyni a orfodwyd gan Lywodraeth y DU. Mae gosod cyllidebau a threth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau'n cynnal refferenda lleol costus i osod eu lefel treth uwchben terfyn penodol. Mae pob awdurdod yn atebol i'w etholwyr am y penderfyniadau mae'n eu gwneud, gan gynnwys ei gyfradd treth gyngor. Mae angen i awdurdodau ystyried yr holl ffynonellau incwm sydd ar gael iddynt wrth bennu eu cyllidebau. Mae angen iddynt daro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau lleol a chydnabod y baich ariannol ar aelwydydd.

Mae awdurdodau lleol wedi adrodd bod y pandemig wedi effeithio ar gyfraddau casglu treth gyngor eleni. Rydym wedi cytuno i fonitro'r sefyllfa, yn enwedig gan fod nifer o awdurdodau wedi defnyddio gwahanol gyfnodau talu a gwyliau talu ar ddechrau'r pandemig, mewn ymdrech i leddfu'r pwysau ar drethdalwyr lleol. Dylai'r sefyllfa fod yn gliriach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac rydym wedi cytuno i ystyried dewisiadau ar gyfer darparu cyllid ychwanegol os bydd angen, i liniaru diffyg bryd hynny.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn targedu cymorth tuag at yr aelwydydd sydd ei angen fwyaf. Mae tua 280,000 o aelwydydd agored i niwed ac incwm isel yn cael cymorth i dalu eu biliau treth gyngor drwy'r cynllun. O'u plith, nid yw tua 220,000 yn talu unrhyw beth o gwbl. Rydym wedi cynnal hawliau llawn i gymorth ers i fudd-dal y dreth gyngor ddod i ben yn 2013. Rydym yn bwriadu cynnal hawliau eto yn 2021-22 a byddwn yn parhau i ddarparu £244m drwy'r setliad blynyddol i ariannu'r cynllun.

Mewn ymateb i nifer cynyddol y ceisiadau i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y mae awdurdodau wedi'u cael o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £5.45m o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol o Gronfa Galedi Covid-19. Mae swyddogion yn gweithio gyda CLILC ac awdurdodau

lleol i barhau i fonitro'r effaith yng ngweddill y flwyddyn ac wedi cytuno i ystyried y sefyllfa pan fydd ffurflenni Chwarter 3 wedi dod i law.

Tai ac Adfywio

Mae tai yn faes blaenoriaeth allweddol yn *Ffyniant i Bawb*, sy'n nodi ein gweledigaeth y dylai pawb *fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus.* Dros dymor y Senedd hon byddwn wedi buddsoddi £2bn i gydnabod pwysigrwydd tai da o ansawdd i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu. Mae pandemig Covid-19 wedi dangos beth gellir ei gyflawni drwy wneud ymdrech system gyfan ar y cyd, wedi'i chefnogi gan fuddsoddi sylweddol. Mae wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cartref a chymuned, ac wedi gwneud i bobl ganolbwyntio ar ddyfodol ein trefi.

Fel rhan o'n hymdrech adfer yn 2020-21, roeddem wedi darparu buddsoddiadau ychwanegol mewn tai cymdeithasol, canol trefi, a chyllid i ddatgloi safleoedd segur er mwyn cefnogi adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn darparu cymorth ariannol parhaus yn y meysydd hyn.

Bydd **£170m** yn cael ei fuddsoddi mewn tai cymdeithasol yn 2021-22 (**£14.8m** yn ychwanegol at y llinell sylfaen bresennol) i sicrhau ein bod yn parhau â'r lefel uchel o ddarpariaeth tai cymdeithasol yr ydym wedi dechrau ei chyflawni yn ystod y tymor llywodraethu presennol, a pharhau i symud i ddull atal ac ailgartrefu cyflym i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn unol ag argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Bydd dyraniadau o **£40m** a **£4m** i'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn sbarduno trawsnewid yn ein cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd.

Yn ogystal â hyn, mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am gartrefi diogel sy'n addas i anghenion tenantiaid a'u gofynion o ran gwaith. Bydd ein buddsoddiad mewn tai fforddiadwy yn sbarduno safonau uwch o ran gofod, parodrwydd band eang a mynediad at ofod awyr agored o ansawdd uchel. Rydym yn cadw ein cyllideb Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Gwaddoli ar **£108m** i sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chynnal ac y rhagorir arni, a bydd buddsoddiad o **£74m** yn nhrydydd cam Cymorth i Brynu – Cymru yn gosod safonau uwch, gan gynnwys ar gyfer gofod a chysylltedd band eang.

Mae gwella cartrefi ac amgylcheddau lleol yn effeithio ar nifer o agweddau ar fywyd, iechyd a llesiant pobl. Dyna pam mae creu lleoedd yn rhan enfawr o'n dull Trawsnewid Trefi. Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'n strydoedd mawr ac i ganol trefi a dinasoedd, gan amlygu'r angen i ailfeddwl am sut rydym yn defnyddio trefi a dinasoedd i hyrwyddo byw, dysgu, hamdden, mannau gwyrdd a thwf economaidd sy'n ymgorffori amrywiaeth. Yn 2021-22 byddwn yn buddsoddi **£46.8m** i wireddu'r weledigaeth hon, sy'n cynnwys **£5m yn ychwanegol** o gyfalaf trafodiadau ariannol i ddarparu Benthyciadau Canol Trefi.

Cymorth Tai a Digartrefedd

Rydym yn credu'n gryf y dylai pawb yng Nghymru gael lle teilwng i'w alw'n gartref ac rydym wedi ymrwymo i'n **nod o roi diwedd ar ddigartrefedd**. Mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da, cymorth tai ac atal digartrefedd yn feysydd buddsoddi hollbwysig i helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae cartrefi o ansawdd da yn

sylfaen i gymunedau da ac yn sail i unigolion ac i deuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd.

Mae buddsoddi mewn tai yn cyflawni amcan polisi allweddol ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill, ac yn bwysicach byth, mae'n gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf 4,000 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r pandemig. Mae tystiolaeth gan Crisis UK yn dangos bod pobl sy'n ddigartref am dri mis neu fwy yn costio £18,388 ar gyfartaledd i wasanaethau cyhoeddus (iechyd a chyfiawnder troseddol), sy'n cyfateb i dros £73m o gostau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (dros £25.5m mewn gwasanaethau iechyd yn unig) i'r bobl hynny sydd mewn llety brys ar hyn o bryd os na chaiff eu digartrefedd ei ddatrys.

Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a mathau eraill o ddigartrefedd yn llai tebygol o gael gafael ar wasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd gael effaith negyddol sylweddol ar blant yr aelwydydd hyn hefyd, a hynny ar eu llesiant, eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Ar ben hynny, mae cael cartref sefydlog a diogel yn bwysig i rieni. Hebddo, maent yn llai tebygol o gael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth tymor hir, sydd yn ei dro'n effeithio ar eu hincwm. Maent felly yn wynebu risg uwch o fyw mewn tlodi. Bydd buddsoddi mewn tai a gwasanaethau cymorth tai yn helpu i sicrhau bod plant digartref yn cael cymorth i symud i gartrefi tymor hir. Bydd trawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru yn canolbwyntio ar atal hefyd, gan anelu at leihau'r risg o ddigartrefedd i blant.

Yn ystod 2020-21, ar ddechrau ein hymateb i'r pandemig, gwnaethom ymdrechu i sicrhau bod pob unigolyn yn cael amgylchedd diogel lle roedd ei iechyd, ac iechyd pobl eraill, wedi'i ddiogelu. Gwnaethom ddarparu cyllid drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i sicrhau y gallai awdurdodau lleol ddarparu llety dros dro brys a chymorth i'r rhai sy'n cysgu allan, neu yn byw mewn llety dros dro anaddas yng Nghymru. Gan adeiladu ar yr ymateb cychwynnol hwn, gwnaethom fuddsoddi rhagor o gyllid i Gam 2 ein Cynllun Digartrefedd i sicrhau y gellid helpu pobl i symud i gartref parhaol a pheidio â gorfod dychwelyd i'r stryd. Er gwaethaf y pwysau ar ein hadnoddau, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau atal hefyd.

Rydym yn cydnabod na fydd buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladu tai newydd ar ei ben ei hun yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd oni bai ein bod hefyd yn buddsoddi yn y gwasanaeth cymorth sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl ffynnu yn y cartrefi hyn. I adeiladu ar y camau sylweddol rydym wedi'u cymryd tuag at ein nod tymor hir o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, mae angen buddsoddiad ar y cyd mewn adeiladu a gwasanaethau cymorth. Felly, rydym wedi dyrannu **refeniw ychwanegol o £40m** i wella'r gwasanaethau cymorth hyn yn 2021-22 ac i ateb y galw – bydd cyfanswm o **£166.8m** yn cael ei fuddsoddi drwy'r Grant Cymorth Tai yn 2021-22 i gefnogi'r gwaith o sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni ein nod tymor hir o roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae diwygio'r system dai yn gyfle i gyfrannu'n sylweddol at Gymru decach sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar helpu'r rhai y mae angen cymorth arnynt nawr i gefnogi a chynnal cartref, ac ar ddatblygu dulliau cyflawni arloesol sydd wedi'u dylunio i atal pobl rhag bod yn fwy agored i niwed yn y dyfodol. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth tai yr unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Mae'n helpu pobl agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau lu sydd ganddynt weithiau, fel dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i anelu at helpu pobl i sicrhau a chadw cartref cynaliadwy drwy roi sylw i'r problemau sydd ganddynt, helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant, a'u helpu i gael swydd neu gyfle hyfforddi, neu i symud yn nes at hynny, ar sail eu hamgylchiadau penodol. Mae'n mynd ati i leihau neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac felly i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r nod o gydweithio i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. I wneud hyn mae angen inni fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd digartrefedd a gweithio i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am hirach. Drwy'r grant hwn rydym yn ceisio sicrhau *Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo, a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol*.

Yn ogystal â'r dyraniad £40m i'r Grant Cymorth Tai, rydym hefyd wedi dyrannu **£4m** o refeniw o gronfa Covid-19 i'r **Grant Atal Digartrefedd**, gan gynyddu'r grant hwn i **£21.9m** yn 2021-22. Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth o weithgareddau atal a lleddfu digartrefedd, ac yn cryfhau gweithrediad deddfwriaeth digartrefedd. Mae hyn, yn ei dro, yn mynd i'r afael â nifer o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol Cymru Iachach ond hefyd Cymru sy'n Fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus. Bydd y cyllid **ychwanegol o £40m** i'r Grant Cymorth Tai yn ogystal â'r **£4m ychwanegol** i'r Grant Atal Digartrefedd yn helpu i sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni nod tymor hir Llywodraeth Cymru o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu'r lefel uchel o anghenion cymorth nad oedd wedi'u bodloni o'r blaen ac er bod y cyllid ychwanegol brys wedi helpu i'w bodloni yn y tymor byr i ddiogelu pobl yn ystod y pandemig, mae angen y buddsoddiad tymor hwy hwn mewn cymorth tai i'n galluogi i adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud a pheidio â chymryd cam yn ôl. Bydd y **£4m o gyllid ychwanegol** i'r Grant Atal Digartrefedd yn ein galluogi i gynnal y ddarpariaeth frys o lety a chymorth yn y rhannau cynnar o'r flwyddyn ariannol nesaf yn ôl yr angen, a sicrhau bod parhad y ddarpariaeth. Bydd y dyraniad hwn yn ddigonol i ateb y galw disgwyliedig am gyfnod byr yn unig yn ystod 2021-22. Bydd dyraniadau pellach o gronfa wrth gefn Covid-19 yn cael eu hystyried yn y Gyllideb Derfynol ar ôl i'r Cabinet ystyried yr angen ar draws Llywodraeth Cymru.

Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y dull 'pawb mewn', ac yn helpu i symud i ddull ailgartrefu cyflym trawsnewidiol fel y nodir yn argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, ac sydd ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Tai Cymdeithasol

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn ymrwymiad allweddol ac yn elfen ganolog o'r adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai, ac mae ganddo'r potensial i sicrhau enillion sylweddol ar y buddsoddiad mewn termau economaidd a budd sylweddol mewn termau cymdeithasol. Mae cyflenwi pobl â chartref diogel, cynnes a sicr yn dal yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae tai cymdeithasol yn dal yn un o'n prif flaenoriaethau. Gall ddarparu cartrefi o ansawdd uchel a'r cymorth sydd ei angen i sicrhau bod pobl yn gallu cadw eu tenantiaeth a ffynnu. Gall gael effaith

gadarnhaol ar iechyd, iechyd meddwl ac addysg, a dyna pam ein bod wedi cefnogi tai cymdeithasol ers dyfodiad y Senedd.

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru a'i gryfhau. Felly, fel rhan o'r gyllideb hon, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi **£170m** yn y maes hwn yn 2021-22. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau â'r lefel uchel o ddarpariaeth tai cymdeithasol yr ydym wedi dechrau ei chyflawni yn ystod y tymor llywodraethu hwn.

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol o ansawdd da nid yn unig yn diogelu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ond hefyd yn helpu i gefnogi economi Cymru, gan greu a diogelu cyfleoedd hyfforddi, swyddi a chadwyni cyflenwi drwy ddull gweithredu 'buddion cymunedol'. Mae buddion cymunedol a chaffael contractau yn galluogi buddion ein buddsoddiad i aros yng Nghymru er mwyn i gymunedau lleol fanteisio i'r eithaf arnynt. Yn 2021-22 rydym yn **dyrannu £36.8m yn ychwanegol** i dai cymdeithasol. O'r swm hwn, bydd £20m yn cefnogi'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, bydd £2m yn cael ei gyfeirio at y Grant Addasiadau Ffisegol, a bydd y balans yn ategu Grantiau Tai Cymdeithasol.

Mae Cyfrifon Cynhwysfawr 2019 yn dangos bod cymdeithasau tai yng Nghymru wedi gwario dros £1.3 biliwn yn 2019 (gan gynnwys gwariant gweithredol, costau staff, gwariant adeiladu a gwaith cynnal a chadw/mawr). Roedd 85% o'r swm hwn yn wariant a gadwyd yng Nghymru. Mae ein buddsoddiad mewn tai yn galluogi'r sector cymdeithasau tai i ddenu cyllid o'r sector preifat. Mae'r sector wedi benthyg dros £3bn i adeiladu cartrefi newydd a gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes. Rhagwelir y bydd hyn yn codi £0.2bn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cefnogi tua 25,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Mae ein buddsoddiad cyfalaf mewn datblygu tai cymdeithasol newydd yn **ataliol** ei natur; mae pob £1.20 sy'n cael ei wario ar gartrefi teilwng yn arbed £1.80 i'r trethdalwr ar gost pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl creu cyfleoedd arwyddocaol o ran swyddi a hyfforddiant drwy ddull buddion cymunedol

Mae'r swyddi sy'n cael eu creu drwy ddatblygu tai yn galluogi llawer o'r gweithlu adeiladu di-waith i adael y rhestr diweithdra, gan leihau'r gwariant ar fudd-daliadau a hybu cyfleoedd prentisiaethau a hyfforddiant. Amcangyfrifir y bydd yr arbedion lles blynyddol yn cynyddu i £1.1 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd tymor Llywodraeth y DU. Hefyd mae landlordiaid cymdeithasol wedi gwario £200 miliwn dros y pum mlynedd ddiwethaf ar brosiectau i helpu preswylwyr di-waith ac ar fentrau i fynd i'r afael â diweithdra. Mae ffigurau Trysorlys ei Mawrhydi yn dangos bod gwario £1 miliwn yn gwella tai sy'n bodoli eisoes yn cefnogi dros 32 swydd yn y diwydiant adeiladu.

Cymorth i Brynu

Dyraniad adfer allweddol arall yw ein buddsoddiad o **£74m** yng Ngham 3 Cymorth i Brynu – Cymru. (Mae ad-daliadau o £1.7m mewn perthynas â Chamau 1 a 2 wedi cael eu debydu oddi ar y dyraniad hwn). Yn ogystal â helpu darpar berchnogion tai y mae angen cymorth ariannol arnynt i brynu tŷ, bydd hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu tai, cadwyni cyflenwi, yr economi a swyddi.

Mae'r cynllun yn cefnogi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i brynu tŷ ac mae gwneud hynny'n lleddfu'r pwysau ar restrau aros tai rhentu cymdeithasol a thai yn y sector rhentu preifat. Mae gan Cymorth i Brynu – Cymru archwiliadau fforddiadwyedd ar gyfer cwsmeriaid, sy'n ychwanegol at archwiliadau benthycwyr morgeisi arwystl cyntaf, gan sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau ariannol ac atal problemau o ran caledi ariannol i gwsmeriaid. Mae datblygu tai fforddiadwy i'w gwerthu yn rhoi cyfle i bobl fyw mewn cartrefi o ansawdd uchel a mwynhau'r buddion o ran iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â chartrefi da, gan atal problemau iechyd a chymdeithasol rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r buddsoddiad yn Cymorth i Brynu – Cymru yn cefnogi, yn cynnal ac yn datblygu'r diwydiant adeiladu, a bydd yn parhau i wneud hynny. Bydd Cam 3 yn ddull cefnogi allweddol ar gyfer y diwydiant adeiladu tai ac yn yr hinsawdd sydd ohoni mae'n bwysig iawn o ran ei helpu i adfer o effaith Covid-19. Mae'r cyfyngiadau symud a'r arferion gweithio'n ddiogel newydd wedi effeithio ar y diwydiant adeiladu tai, ac mae pryder ynglŷn â dyfodol datblygwyr llai sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae 134 o fusnesau bach a chanolig wedi cofrestru â'r cynllun. Mae Cymorth i Brynu – Cymru yn ffynhonnell incwm ddibynadwy a phwysig i'r busnesau hyn. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi pawb sy'n rhan o'r broses o brynu a gwerthu tai. (Mae 10,985 o dai wedi cael eu cyflawni ers dechrau'r cynllun, a 7,903 ers dechrau'r tymor llywodraethu hwn – yn gywir ar 30 Medi 2020).

Yn ei dro, drwy sbarduno'r diwydiant adeiladu tai, mae'r cynllun yn cefnogi'r gwaith o ddechrau a chyflawni tai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (yn 2018-19 – y flwyddyn ddiweddaraf lle mae data blwyddyn gyfan ar gael – roedd y sector preifat yn gyfrifol am 78% o'r holl dai a gyflawnwyd), ac yn sicrhau buddion cymunedol. Er enghraifft bydd datblygu 263 o dai yn Radur, Caerdydd yn sicrhau bod 30% o dai fforddiadwy ar y safle ac yn darparu £1.6m i ysgolion lleol, £750,000 i wasanaethau bws a £260,000 i ganolfannau cymunedol lleol, yn ogystal â buddion ychwanegol.

Mae'r cynllun yn gweithio tuag at y saith nod a phum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy gyfrannu at Gymru iachach sy'n fwy cyfartal. Dengys hyn drwy'r buddion iechyd clir o gael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy ac wedi'i leoli mewn amgylchedd diogel. Mae buddsoddi mewn adeiladu tai yn cyfrannu at economïau lleol, yn creu ac yn cefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, ac yn gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pobl.

Mae'r cynllun yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan fanteisio ar y cryfderau a'r asedau gall pobl a lleoedd eu cyfrannu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â datblygwyr, cyrff cynrychioladol, UK Finance a Help to Buy (Wales) Ltd/Banc Datblygu Cymru i gyd-gynhyrchu Cam 3. Bydd nifer o newidiadau yn cael eu cyflwyno yng Ngham 3 i fynd i'r afael â beirniadaeth o'r cynllun, i sicrhau bod y cymorth yn cael ei dargedu at y rhai sydd ei angen fwyaf, ac i barhau i gefnogi'r diwydiant adeiladu tai a darpar gwsmeriaid. Cytunwyd ar fanylion y cynllun drwy is-grŵp o'r Rhaglen Ymgysylltu Adeiladwyr Tai, lle trafodwyd a chytunwyd ar bob agwedd ar y Cam 3 newydd.

Datgarboneiddio a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Er bod cefnogi adferiad yr economi wedi bod yn ystyriaeth allweddol yng nghyllideb y flwyddyn hon, mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wedi bod yn flaenllaw yn ein penderfyniadau hefyd.

Drwy **fuddsoddi £20m o gyfalaf** yn 2021-22 rydym wedi ymrwymo i ymestyn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cartrefi a chreu nifer o fuddion eraill ar yr un pryd drwy ddatblygu sgiliau newydd, adnoddau asesu, cadwyni cyflenwi a fframweithiau caffael sy'n hybu datblygiad busnesau bach a chanolig ac yn creu swyddi. Bydd y rhaglen yn darparu pecyn ysgogi ar gyfer hybu twf economaidd. Wrth gwrs un o'i fuddion allweddol eraill yw ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bydd y buddsoddiad hwn yn caniatáu i ni brofi'r dull mewn llawer mwy o gartrefi. Mae'n hawdd ei ehangu, mae'n gynaliadwy, a gall gynyddu gwybodaeth yn ddigonol a meithrin arbenigedd yng Nghymru er mwyn cefnogi cyflwyno ar raddfa fwy, a helpu i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio erbyn 2050. Pan fydd ar waith, bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hefyd yn cefnogi'r her tymor hwy o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn ogystal â hyn, nawr bod ein Rhaglen Tai Arloesol lwyddiannus yn ariannu'r gwaith o adeiladu tai fforddiadwy yn gyflym ac ar raddfa fawr, bydd yn cael ei phrif ffrydio i'n rhaglen fuddsoddi graidd mewn tai cymdeithasol, gan geisio adeiladu tai cymdeithasol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd bron yn ddi-garbon. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dulliau modiwlar a dulliau modern eraill o adeiladu tai yn gallu cyflawni tai sydd bron yn ddi-garbon yn llwyddiannus, ac felly ystyrir bod y buddsoddiad hwn yn hollbwysig o ran yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Bydd gwneud y tai hyn yn rhai gwyrdd a chynaliadwy yn lleihau tlodi tanwydd, yn gwella llesiant preswylwyr, ac yn cyfrannu at y gwaith o leihau ein hôl troed carbon.

Tai ac Iechyd

Byddwn yn parhau i fuddsoddi ac yn cynyddu ein buddsoddiad yn y Gronfa Gofal Integredig gyda chyllideb o fwy na **£130m** (£89m o refeniw a £40m o gyfalaf yn 2021-22). Bydd rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn parhau i ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn llety i alluogi pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth, a phobl ag anableddau dysgu, i barhau i fyw'n annibynnol, gan leihau'r baich ar ysbytai a gwasanaethau gofal preswyl. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn llety i blant ag anghenion cymhleth i sicrhau eu bod yn gallu byw'n agos i adref ac osgoi lleoliadau y tu allan i'r sir, sy'n gostus ac yn achosi trallod.

Byddwn yn cefnogi'r buddsoddiad cyfalaf hwn â modelau gwasanaeth ataliol ac integredig, gan gynnwys i blant mewn gofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal a gofalwyr. Mae cyfres o wasanaethau wedi cael eu datblygu ar draws y continwwm atal, yn amrywio o gysylltwyr cymunedol i wasanaethau, i helpu pobl i aros yn iach gartref ac atal derbyniadau i'r ysbyty. Rheolir y Gronfa drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ynghyd i gyflenwi gwasanaethau ar sail anghenion dinasyddion.

Mae parhau i fuddsoddi yn rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn cynnig dewisiadau i adeiladu ar y rhaglen bresennol, gan fuddsoddi mewn asedau i gryfhau'r seilwaith tai a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi Cymru Iachach. Gan ei bod yn rhaglen ataliol, mae'n anelu at leihau'r galw am ofal preswyl tymor hir a'r costau sy'n gysylltiedig â derbyniadau i'r ysbyty a lleoliadau drud. Mae'n cynnig buddion hirdymor cronnol: cyfleoedd o ran swyddi a chadwyni cyflenwi yn ystod y gwaith adeiladu; caffael asedau cymdeithasol newydd; llety sy'n sicrhau arbedion dros oes y buddsoddiad; a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan ategu'r modelau gofal a nodir yn Cymru Iachach.

Mae ein rhaglenni addasu refeniw a chyfalaf Byw'n Annibynnol yn enghreifftiau pellach o wariant ataliol. Maent yn cael effaith arwyddocaol iawn drwy alluogi pobl anabl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am ble maent yn dymuno byw, gan hybu annibyniaeth ac urddas yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae rhaglenni addasu yn canolbwyntio ar wneud addasiadau a gwelliannau i eiddo sy'n bodoli eisoes er mwyn galluogi pobl anabl, pobl hŷn bregus, a theuluoedd â phlant ag anghenion cymhleth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent hefyd yn darparu addasiadau cyflym i hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai yn brydlon ac i atal oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r rhaglenni'n lleddfu'r pwysau ar y GIG, yn enwedig drwy leihau nifer yr achosion o gwympo sy'n gysylltiedig ag aros yn yr ysbyty am gyfnod hir a chanlyniadau hirdymor gwael, ac yn lleddfu'r pwysau ar ofal cymdeithasol drwy leihau'r galw am ofal preswyl.

Dyna pam ein bod yn cynnal ein cymorth refeniw a chyfalaf Gofal a Thrwsio ar **£4.3m** ac **£1.6m** yn y drefn honno, a'n cyllideb cyfalaf HWYLUSO ar **£4m**. Rydym hefyd wedi cynyddu cyllideb cyfalaf y Grant Addasiadau Ffisegol gyda **dyraniad o £2m** i gyllideb gyffredinol o **£10m**, sy'n adlewyrchu'r galw cynyddol am y grant hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i greu cartrefi diogel, cynnes a hygyrch, gan helpu pobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hefyd yn cefnogi'r GIG drwy hwyluso rhyddhau cleifion yn brydlon ac atal derbyniadau diangen, ac yn lleihau'r costau ar ofal cymdeithasol drwy leddfu'r pwysau ar ofal cartref a phreswyl.

Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a'r rhaglenni addasu Byw'n Annibynnol yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gymru Iachach drwy gynyddu'r cyfraniad mae tai a thai wedi'u haddasu yn gallu ei wneud i helpu rhai o'r grwpiau mwyaf agored (pobl hŷn gan gynnwys y rhai â dementia, oedolion ag anableddau corfforol a dysgu, a theuluoedd â phlant ag anghenion cymhleth) i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Maent yn fuddsoddiadau ataliol sy'n creu buddion cronnol i unigolion dros amser ac sy'n atal problemau rhag dwysáu. Dim ond drwy'r pum ffordd o weithio y gellir rhoi'r rhaglenni ar waith, gyda ffocws penodol ar gydweithio ac integreiddio rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a gweithredu atebion.

Safon Ansawdd Tai Cymru

Rydym hefyd yn cynnal ein cefnogaeth ar gyfer landlordiaid cymdeithasol gyda **£108m y flwyddyn** er mwyn sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chyrraedd a'i chadw. Mae angen i'n 225,000 o dai cymdeithasol presennol fod o safon uchel, gan gydnabod bod tai o ansawdd yn cael effaith amlwg ar iechyd a llesiant, ac ar lesiant meddyliol yn benodol.

Bydd y safonau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wneud ein tai cymdeithasol yn fwy effeithlon, ar wella effeithlonrwydd tanwydd, ac ar **leihau carbon** i sicrhau ei bod yn hawdd ac yn rhad cadw ein tai cymdeithasol yn gynnes, gan leihau ein hôl troed carbon ar yr un pryd.

Diogelwch Adeiladau

Yn dilyn trasiedi Tŵr Grenfell, mae cryn dystiolaeth fod amrywiaeth o wendidau diogelwch adeiladau systemig yn dal yn gysylltiedig ag adeiladau preswyl uchel iawn.

O dan gontractau lesddaliad presennol, mae'n debygol mai ar y lesddeiliad y mae'r cyfrifoldeb i ariannu gwaith atgyweirio yng ngolwg y gyfraith. Ond heb gymorth ariannol, mae gwaith atgyweirio'n annhebygol o ddigwydd yn gyflym oherwydd byddai baich ariannol sylweddol ar lesddeiliaid, a allai arwain at fethdaliad neu galedi ariannol sylweddol i lawer. Yn ôl yr amcangyfrifon, byddai'r gost i lesddeiliaid rhwng £12k a £79k yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffygion. Mae'r broblem wedi'i dwysáu gan faterion cysylltiedig o ran morgeisi ac yswiriant sy'n atal benthyciadau yn erbyn eiddo â phroblemau cladin wedi'u nodi, sy'n gwneud i bobl deimlo'n gaeth yn eu cartref eu hunain.

Nid dim ond problemau tai y mae preswylwyr adeiladau uchel iawn yn eu hwynebu. Mae pryderon sylweddol ynglŷn ag iechyd meddwl y rhai sy'n byw yn yr adeiladau hyn. Mae risg wirioneddol y gallant ddatgan eu bod yn ddigartref neu y bydd angen cymorth ariannol ychwanegol a mynediad hirdymor at wasanaethau cymorth arnynt. Bydd y diwygiadau i ddiogelwch adeiladau yn y dyfodol sy'n cael eu datblygu yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'u hatal rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen diogelwch adeiladau yn cael ei datblygu ar sail drawslywodraethol. Mae effeithiau uniongyrchol ar swyddogaethau Cynllunio, Rheoli Adeiladu, Tai a Diogelu'r Cyhoedd mewn awdurdodau lleol, ac effeithiau ar Wasanaethau Tân ac Achub. Mae'r gwaith yn plethu â nifer o feysydd deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, a bydd angen deddfwriaeth newydd ar y diwygiadau yn y dyfodol hefyd. Mae swyddogion yn dal i ddatblygu'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau. Caiff hwn ei gyhoeddi fis Ionawr 2021. Nid yw effeithiau'r Papur Gwyn wedi'u cyfyngu i grwpiau gwarchodedig.

Er ein bod yn gwybod bod 148 o adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru (38 o rai cymdeithasol/110 o rai preifat), nid yw demograffeg y rhai sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn yn glir. Fodd bynnag, gall rhent a phrisiau eiddo fod yn is yn yr adeiladau hyn, gan ddenu'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is o bosibl. Mae adeiladau uchel iawn yn denu pobl iau a hŷn yn aml, sy'n cael eu denu at y syniad o'u heiddo eu hunain ond gyda lefelau is o 'ymdrech' uniongyrchol iddynt – hy dim gerddi, rheolwr adeilad yn gwneud gwaith cynnal a chadw, ac ati, ac felly gall y grwpiau hyn fod ar incymau is neu fwy sefydlog ac felly'n llai tebygol o allu ateb galw uchel am gyfraniadau ariannol i waith atgyweirio.

Yn 2021-22 rydym wedi **dyrannu £32m** o gyfalaf mewn amrywiaeth o adeiladau drwy gynnig cyfunol o gyllid grant a benthyciadau. Bydd y gronfa refeniw gwerth **£545k** a gynhaliwyd ers y llynedd yn helpu i ddatblygu polisïau ac arbenigedd mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Parhad. Bydd y cyllid cyfalaf yn cefnogi adeiladau 18 metr ac uwch (fel yr amlinellir yn y Map Ffyrdd) sydd â diffygion adeiladu wedi'u nodi mewn perthynas â diogelwch adeiladu, ac yn helpu i gyflymu'r gwaith o fynd i'r afael â phroblemau o ran tân a strwythur a nodir. Bydd hefyd yn helpu i gynnal ansawdd stoc tai Cymru ac yn caniatáu i breswylwyr, lesddeiliaid a thenantiaid deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi. Bydd y buddsoddiad yn llifo drwy'r fasnach adeiladu, sy'n un o gonglfeini'r adferiad economaidd.

Bydd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel egwyddorion arweiniol allweddol. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio fel sail datblygiad polisi a chamau gweithredu dilynol. Yn ymarferol, ein nod yw gwneud cartrefi'n fwy diogel (o ran yr adeiladau o fewn y cwmpas). Mae'r adeiladau hyn yn asedau aml-genhedlaeth ac felly mae'n bwysig cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y cartrefi hyn yn dal yn ddiogel i bobl fyw ynddynt nawr ac yn y dyfodol. Bydd peidio â gwneud hynny yn tanseilio

cyfanrwydd yr adeiladau ac yn effeithio ar y preswylwyr sy'n byw ynddynt. Gallai hefyd gael effaith negyddol ar faint o dai sydd ar gael dros y tymor hwy.

Benthyciadau Canol Trefi

Fel rhan o'n hymdrech adfer yn 2020-21, roeddem wedi darparu buddsoddiadau ychwanegol mewn canol trefi a chyllid i ddatgloi safleoedd segur, er mwyn cefnogi adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai. Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'n strydoedd mawr ac i ganol trefi a dinasoedd, gan amlygu'r angen i ailfeddwl am sut rydym yn defnyddio canol trefi a dinasoedd ar gyfer hamdden, dysgu a byw, ac ailbwysleisio'r angen am wasanaethau hygyrch lleol.

Yn 2021-22 byddwn yn buddsoddi cyfanswm o **£46.8m** yn ein dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf, gan gynnwys **£5m** o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi. Bwriad y dull hwn yw hyrwyddo nifer o resymau dros ymweld â chanol trefi, nid yn unig siopa ond hamdden, gwasanaethau, byw, gweithio a phrofiad, ac i annog ein partneriaid i leoli gwasanaethau yng nghanol trefi. Cymunedau sydd wrth galon y weledigaeth hon i greu amgylcheddau o ansawdd uchel yng nghanol trefi; amgylcheddau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant pobl ac yn hybu twf economaidd ar yr un pryd.

Benthyciadau Canol Trefi yw'r catalydd i ddefnyddio adeiladau gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yng nghanol trefi. Maent yn rhan o'r agenda rheoli eiddo gwag ehangach, gan ddarparu dull o ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio mewn negodiadau ar eiddo gwag parhaol yng nghanol trefi. Mae gennym tua 25,000 o eiddo gwag yng Nghymru ac os gallwn ddefnyddio'r adeiladau hyn unwaith eto, bydd yn lleddfu'r pwysau ar adeiladwyr tai ac yn rhyddhau tir ar gyfer defnyddiau eraill neu i beidio â chael ei ddefnyddio o gwbl, gan hybu mannau gwyrdd a bioamrywiaeth.

Bydd yr adeiladau hyn yn cael eu hailddatblygu fel siopau, cartrefi a chyfleusterau hamdden. Mae'r benthyciadau wedi'u hanelu at gefnogi gweithgareddau sy'n denu ymwelwyr, yn mynd i'r afael â safleoedd ac adeiladau gwag, ac yn helpu busnesau i dyfu ac i ffynnu nawr ac yn y dyfodol. Maent yn fath o gynnyrch ad-daladwy y gellir eu defnyddio ar gyfer pob math o waith ailwampio tir ac adeiladau gwag yng nghanol trefi. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i gartrefi sy'n gysylltiedig â mesurau effeithlonrwydd ynni. Bydd y benthyciadau'n hollbwysig o ran rhoi cynllun cymhelliant i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni newidiadau i ganol eu trefi yn dilyn cyfyngiadau symud Covid-19. Gall y gronfa benthyciadau fod ar gael i berchnogion sy'n dymuno newid eu heiddo i gyd-fynd â mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mae'r cyllid hwn yn ategu'r 'Economi Gylchol', lle rydym yn defnyddio hen adeiladau segur unwaith eto cyn iddynt ddirywio y tu hwnt i unrhyw waith trwsio rhesymol, a gellir ei ddefnyddio i greu cartrefi ac eiddo i deuluoedd a busnesau yn hytrach na gorfod defnyddio adnoddau i adeiladau rhai newydd. Bydd amrywiaeth o gyfleoedd i fusnesau llai, lleol gymryd rhan yn y gwaith o drwsio'r adeiladau. Byddwn yn annog awdurdodau lleol i fynd ar drywydd prosiectau cydweithredol sy'n darparu cyfleoedd enghreifftiol yn yr adeiladau gwag hyn ar gyfer buddion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i gymunedau ar hyd a lled Cymru.

Bioamrywiaeth a'r Gronfa Seilwaith Gwyrdd

Mae effeithlonrwydd ynni yn ystyriaeth allweddol i unrhyw brosiectau gwella ac adnewyddu adeiladau a ariennir drwy'r rhaglen Adfywio. Bydd cyllid sy'n ei gwneud hi'n bosibl defnyddio adeiladau gwag unwaith eto yn golygu bod modd defnyddio dull cyfunol, sy'n cynnwys elfen o fenthyciad i'w gwneud hi'n bosibl ôl-osod rhai atebion carbon isel ar gyfer perchnogion adeiladau.

Bydd y buddsoddiad o **£5m** a wnaethom y llynedd i sefydlu seilwaith gwyrdd a hyrwyddo bioamrywiaeth yn ein trefi a'n dinasoedd yn parhau yn 2021-22. Bydd hyn o fudd i fioamrywiaeth ac yn ysgogi rhywfaint o fuddsoddiad mawr ei angen yng nghanol trefi, gan wella eu hapêl fel lleoedd i ymweld â nhw.

Bydd yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith hwn yn helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ganol ein trefi a'n dinasoedd. Profwyd bod seilwaith gwyrdd yn helpu i oeri canol trefi a dinasoedd, gan gyfrannu'n sylweddol at lesiant preswylwyr ac ymwelwyr, a helpu i feithrin naws am le. Bydd gosod Systemau Draenio Cynaliadwy yn helpu i liniaru effeithiau llifogydd dŵr wyneb.

Cydraddoldeb

Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at anghydraddoldeb ledled Cymru ac wedi'i ddwysáu. Un o brif nodau'r gyllideb hon yw mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau refeniw ar draws y portffolio Cydraddoldeb yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21. Hefyd mae dyraniadau penodol wedi'u gwneud i adeiladu ar y llinellau sylfaen hyn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Rydym am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru i sicrhau gwlad a chymdeithas ffyniannus, gydnerth, gydlynus, iachach sy'n fwy cyfartal. Ni fydd hyn yn bosibl oni bai fod unigolion a grwpiau yn ein cymunedau yn gallu byw'n rhydd rhag ofn o drais a chamdriniaeth.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a'u plant ac mae pandemig Covid-19 wedi dwysáu a gwaethygu'r effaith hon. Mae'r tebygolrwydd o ddioddef trais a chamdriniaeth hefyd yn cynyddu po fwyaf o ffactorau agored i niwed sydd gan unigolyn. Mae menywod BME yn fwy tebygol, a hynny'n anghymesur, o ddioddef VAWDASV na merched gwyn. Mae pobl hŷn, pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn mwy o berygl hefyd.

Mae nifer yr achosion o VAWDASV yn uchel iawn. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yr ONS (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019) yn dangos bod 28% o fenywod ac 14% o ddynion rhwng 16 a 74 oed wedi dioddef cam-drin domestig, a bod 14% o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Roedd bron i 3% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 59 oed wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2019-20 roedd 45,242 o droseddau cam-drin domestig a cham-drin rhywiol wedi cael eu hadrodd i'r heddlu yng Nghymru.

Mae tystiolaeth o'r llinell gymorth Byw Heb Ofn, llinellau cymorth eraill ar draws y DU, yr Heddlu, ac elusennau plant wedi nodi cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig

sy'n cael eu hadrodd yn ystod y pandemig. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau i droseddwyr wedi gweld cynnydd yn nifer y galwadau gan unigolion sy'n ofni bod eu hymddygiad wedi croesi'r ffin i gamdriniaeth. Mae'n hollbwysig bod y galwyr hyn yn cael cymorth i atal eu hymddygiad rhag gwaethygu neu ddatblygu i gylch cam-drin.

Yn dilyn tystiolaeth fod VAWDASV wedi cynyddu traean o leiaf wrth i'r pandemig ledaenu dros y byd, dyrannwyd £1.575m i atgyfnerthu gwasanaethau yn ystod 2020-21. Mae cyfyngiadau symud lleol a 'chyfnodau atal byr' cenedlaethol yn cynyddu'r pwysau ar ddioddefwyr. Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd y galw ar wasanaethau'n parhau i dyfu ac yn mynd yn fwy cymhleth am gryn amser, ac o ganlyniad mae **£1.575m arall wedi cael ei ddyrannu yn 2021-22** hefyd i barhau i gefnogi'r gwasanaethau hollbwysig hyn. Bydd y cyllid hwn yn galluogi gwasanaethau VAWDASV arbenigol i ddarparu ymyriadau ataliol fel addysg, hyfforddiant a rhaglenni codi ymwybyddiaeth i newid agweddau, yn ogystal ag ymyriadau ymatebol fel cymorth, cyngor, arweiniad a chwnsela i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, a rhaglenni i droseddwyr. Bydd y buddsoddiad uwch hwn yn cael effaith eang; gan ddarparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr a throseddwyr a fydd yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau iechyd a chyfiawnder troseddol.

Mae gweithio gyda throseddwyr a throseddwyr posibl i newid eu hymddygiad yn lleihau'r perygl o erledigaeth bellach. Bydd codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn gwella cydnerthedd, ac yn lleihau'r effeithiau negyddol ar gyfleoedd plant mewn bywyd yn y dyfodol; ac mae helpu teuluoedd i gael llety ag adnoddau priodol yn atal digartrefedd.

Mae cyllid refeniw VAWDASV yn cyflawni nifer o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n cefnogi "Cymru gydnerth" drwy helpu dioddefwyr trais a chamdriniaeth i gael cymorth priodol; mae eu cydnerthedd yn cael ei wella ac mae eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael ei ddiogelu. Mae hefyd yn cefnogi "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus" drwy helpu dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd i chwarae rhan lawn yn eu cymunedau, ac i gael a chadw swyddi a thai.

Mae **£1.2m o gyfalaf** wedi cael ei ychwanegu at linell sylfaen cyfalaf VAWDASV yn 2021-22 (mae hyn yn parhau â'r dyraniad a wnaed yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21). Bydd y cyllid hwn yn cael ei gyfeirio i helpu darparwyr yn y trydydd sector i brynu llety cymunedol ar wasgar sydd â'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd nad oes modd eu diwallu drwy lochesau, neu i alluogi teuluoedd i symud o lochesau. Rhoddir blaenoriaeth i gynigion sy'n cefnogi ac yn darparu buddion i deuluoedd â bechgyn yn eu harddegau; teuluoedd â chyfrifoldebau gofal ar gyfer dibynyddion hŷn neu rai ag anghenion ychwanegol; dioddefwyr sy'n ddynion; dioddefwyr ag anifeiliaid anwes; dioddefwyr ag anghenion symudedd a/neu anabledd; a goroeswyr sy'n barod i symud o lochesau ond nad ydynt yn barod i symud i lety cwbl annibynnol a pharhaol eto. Roedd y gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 ond o ganlyniad i'r pandemig, cafodd y cyllid ei ail-flaenoriaethu i ddarparu ar gyfer unigolion yr oedd Covid-19 wedi effeithio arnynt.

Cydraddoldeb

Mae Covid-19 wedi dwysáu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd ac wedi cael effaith negyddol ar bobl anabl a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn benodol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, gwnaethom ddarparu cymorth ychwanegol i sefydliadau a oedd yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb i

Covid-19 a'r adferiad ohono, ac sydd wedi bod yn gyswllt hollbwysig rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn disgwyl i effeithiau Covid-19 barhau yn 2021-22, a pharhau i gael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn drwy **ddyraniad o £1.1m** a fydd yn gyfle i roi cymorth pellach i'r cymunedau hynny ledled Cymru y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt fwyaf yn ystod y cyfnod adfer, yn benodol cymunedau anabl a BAME. Bydd y dyraniad ychwanegol o £1.1m i'r gyllideb yn helpu i ddatblygu'r agenda cydraddoldeb hiliol drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bydd y cynllun hwn yn rhoi camau ar waith a fydd yn cefnogi cymunedau BAME yng Nghymru ac yn gweithio tuag at gefnogi'r rhai sy'n cael eu tangynrychioli a/neu sy'n cael eu gwthio i'r cyrion a'u hallgáu, ac yn mynd i'r afael â phroblemau rhyngblethol. Bydd hefyd yn caniatáu i ni ddechrau rhoi sylw i rai argymhellion gan y Grŵp Cynghori BAME. Yn yr un modd, mae adroddiad ar yr effaith ar bobl anabl ar y gweill a bydd y camau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn yr un mor bwysig yn ystod yr adferiad, a gellir dechrau rhoi sylw iddynt drwy weithgareddau a gefnogir gan y dyraniad ychwanegol o £1.1m i'r gyllideb.

Nawr bod y rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant nesaf wrthi'n cael ei datblygu, i ddechrau fis Hydref 2021, byddwn yn sicrhau ein bod yn llunio rhaglen olynol a fydd yn helpu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb a oedd wedi'u gosod a'u cyhoeddi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn cysoni cyllid â'r camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol; y Cynllun Gweithredu ar Anabledd; Cenedl Noddfa; y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol; a Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Drwy ariannu sefydliadau sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, rydym yn helpu i sicrhau mynediad tecach at wasanaethau a chyfleoedd yng Nghymru. Drwy gefnogi anghenion hirdymor pobl â nodweddion gwarchodedig, byddwn yn helpu i atal problemau tymor hwy drwy nodi'r materion sy'n effeithio ar bobl yn y cymunedau hyn yng nghamau cynnar y broses o lunio polisïau. Mae darpariaeth a chamau gweithredu'r rhaglenni a gefnogir gan y gyllideb Cydraddoldeb yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant, a fydd yn cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru o gyfrannu i'r graddau mwyaf posibl at y Nodau Llesiant, yn benodol y nod 'Cymru sy'n fwy cyfartal' sy'n cynnwys cyfeiriad at anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, a'r nod 'Cymru o gymunedau cydlynus'.

Yn 2021-22 rydym wedi uno'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb a Ffyniant a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydlyniant Cymunedol yn Llinell Wariant newydd – Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb a Chydlyniant – a fydd yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i gefnogi cymunedau ar hyd a lled Cymru. Yn 2021-22 mae'r prosiectau a ariennir o Gronfa Bontio'r UE (Cryfhau Cydlyniant Cymunedol £0.76m, Hawliau Dinasyddion yr UE £0.5m, a Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol £0.6m) wedi cael eu tynnu o'n llinellau sylfaen, sy'n golygu bod y gyllideb wedi gostwng. Roedd cyfnod penodol i gyllid y prosiectau hyn drwy Gronfa Bontio'r UE ac mae hyn yn cynrychioli diwedd cyfnod cyllido'r prosiectau hyn.

Y Trydydd Sector

Mae gan y **trydydd sector** rôl sylweddol i'w chwarae os ydym am gyflawni ein nodau o adferiad teg, cyfiawn a gwyrdd. Mae mentrau cymdeithasol yn gallu galluogi twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Gellir sicrhau hyn drwy helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael swyddi, ac i greu swyddi yn eu rhinwedd eu hunain. Mae

gweithio gyda'r sector yn arwain at fuddion pellgyrhaeddol oherwydd mae hefyd yn galluogi lleisiau yn y gymuned i ddweud eu dweud, yn helpu i dargedu'r rhai sydd wedi'u difreinio, ac yn hybu gwell cydraddoldeb. Gellir mesur buddion hyn nid yn unig mewn termau economaidd ond mewn termau cymdeithasol hefyd, o ganlyniad i'r baich is ar wasanaethau statudol.

Mae'r trydydd sector a'r gwirfoddolwyr mae'n eu cefnogi wedi chwarae rôl hollbwysig yn ein hymateb i bandemig Covid-19, a bydd ganddynt rôl debyg i'w chwarae yn cefnogi unigolion a chymunedau yn ystod yr adferiad. Mae hyn wedi dangos pa mor bwysig yw'r sector i iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae argyfwng Covid-19 a'r llifogydd yn 2020 wedi dangos pa mor bwysig yw cael trydydd sector cryf sy'n ffynnu. Bydd y trydydd sector yn hanfodol o ran ein galluogi i sicrhau nad yw'r anghydraddoldeb y mae'r pandemig wedi'u sbarduno yn gwreiddio.

O ganlyniad i'r amrywiaeth enfawr o wasanaethau statudol ac anstatudol a ddarperir i'n cymunedau gan y 30,000 o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, mae'n cyfrannu at y gwaith atal ym mhob categori. Mae seilwaith y trydydd sector (a ddarperir drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru) yn darparu cymorth sy'n galluogi sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu amrywiaeth o ymyriadau cynnar fel presgripsiynu cymdeithasol a chymorth blynyddoedd cynnar. Mae'r seilwaith yn caniatáu i'r sefydliadau hyn weithredu drwy wella'r mynediad at hyfforddiant a'r arferion gorau o ran llywodraethu da. Yn aml, gall sefydliadau'r trydydd sector nodi anghenion cymorth y gymuned yn y dyfodol cyn bod y sector statudol yn ymwybodol o'r problemau, gan eu bod yn gweithio ar lawr gwlad. Mae'r seilwaith yn darparu'r mecanwaith drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ganiatáu i'r sector ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn ystod 2020-21 rydym wedi darparu dros £24m o gymorth i'r sector. Mae hyn wedi galluogi'r canlynol:

- Mae Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol wedi darparu bron i £7 miliwn, gan alluogi 156 o sefydliadau i gefnogi 6,262 o wirfoddolwyr a helpu 764,073 o fuddiolwyr. Daeth y gronfa i ben ym mis Awst a daeth Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol yn ei lle.
- Hyd yma (10 Rhagfyr) mae Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol wedi darparu grantiau gwerth £3.77m i 102 o sefydliadau. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi 2,413 o wirfoddolwyr a'u nod yw helpu 198,704 o fuddiolwyr.
- Hyd yma (10 Rhagfyr) mae Cronfa Cydnerthedd y Trydydd Sector wedi darparu gwerth £5.4 miliwn o gymorth i 122 o elusennau a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru.

Yn 2021-22 byddwn yn darparu £4.915m o gyllid craidd i gefnogi seilwaith y trydydd sector, sy'n cynrychioli **cynnydd o £0.669m**. Byddwn hefyd yn darparu **£3m yn ychwanegol** o gyllid yn 2021-22 i alluogi'r sector i barhau i gefnogi'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'r saith nod llesiant. Mae'n cadw'r ddarpariaeth leol a gyflawnir gan sefydliadau bach, a datblygu sgiliau lleol o ran rheolaeth a thwf sefydliadau bach y trydydd sector (Cymru lewyrchus); mae'n annog cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd drwy gynnig gwasanaeth sy'n cefnogi datblygiad sefydliadau lleol (Cymru gydnerth); mae'n cyfrannu at amgylchedd lle mae gan bobl y cyfle i wireddu eu potensial drwy gyfrannu at gymdeithas sifil leol (Cymru sy'n fwy cyfartal); ac mae ganddo'r gallu i gyfrannu at sefydliadau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o gymunedau deniadol a diogel (Cymru o gymunedau cydlynus).

Bydd penderfyniadau ynghylch cefnogi gwirfoddoli yn cael eu gwneud gan ystyried yr anghenion 'tymor hir'. Gallai cefnogi datblygiad sefydliadau'r trydydd sector 'atal' neu

leddfu'r pwysau ar gyrff cyhoeddus, gan fod y sefydliadau hyn yn ymateb i anghenion y gymuned ac yn eu bodloni. Yn aml mae'r sefydliadau llai hyn wedi cael eu sefydlu gan y cymunedau maent yn eu gwasanaethau, neu drwy 'gydweithrediad' â'r cymunedau hynny.

Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol

Mae dyraniad o **£1m o gyfalaf trafodiadau ariannol** wedi cael ei wneud yn 2021-22 i Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod y gronfa yw rhoi benthyciadau o hyd at £500k i grwpiau cymunedol sy'n meddiannu asedau cymunedol er mwyn iddynt brynu a/neu wella'r asedau hyn er budd y gymuned leol.

Bydd y Gronfa Benthyciadau yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i helpu cymunedau lleol i gymryd perchnogaeth o asedau cymunedol a fydd yn dod â phobl at ei gilydd. Bydd y gronfa'n ddewis arall i gymunedau lle mae risg o golli asedau gwerthfawr. Bydd hyn yn gwneud hyn drwy gynnig benthyciad i'r grwpiau cymunedol hynny sy'n ddigon aeddfed i symud i ffwrdd o gyllid grant, ond nad ydynt mewn sefyllfa i fenthyg gan fenthycwyr masnachol eto.

Bydd y gronfa'n cyfrannu at rym, cydnerthedd, llesiant a chydlyniant cymunedau. Bydd yn helpu i atal gwasanaethau rhag cael eu colli lle bo grwpiau cymunedol yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros redeg adeiladau cymunedol pwysig gyda chymorth y gronfa.

Mae'r trydydd sector wedi hen arfer gweithio mewn ffordd gydweithredol ac integredig. Bydd yn rhaid i grwpiau cymunedol sydd yn rhedeg adeiladau cymunedol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion cynaliadwy ar gyfer gweithrediad yr adeilad. Gall hyn gynnwys grwpiau cymunedol eraill a allai rannu, rhentu neu ddefnyddio'r lleoliad, ac awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a allai ddarparu gwasanaethau yn y lleoliad. Mae'r dull gweithredu hwn yn diogelu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr dros y tymor hwy, gan ddefnyddio model cyflawni amgen sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol arbed arian ac i'r gymuned ddiogelu a datblygu ased pwysig a gwasanaeth hanfodol.

Mae trosglwyddo asedau i'r gymuned yn grymuso'r gymuned honno wrth iddynt gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau lleol, a cheisio eu barn ar ddatblygiad yr ased. Gall perchnogaeth gymunedol o adeiladau gwerthfawr â defnydd helaeth arnynt fod yn ffocws ar gyfer cydlyniant, a meithrin cydnerthedd cymunedol. Bydd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn darparu cyfleoedd i aelodau unigol o'r gymuned ddysgu, cymdeithasu, gwirfoddoli a gweithio.

Mae adeiladau sydd dan berchnogaeth y gymuned yn darparu gwasanaethau sy'n gallu atal problemau. Mae'r cyfleoedd i gymdeithasu ac i wirfoddoli yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Mae diogelu mynediad lleol at wasanaethau fel llyfrgelloedd, cyfleoedd hyfforddi a gwasanaethau iechyd lleol yn helpu i feithrin cydnerthedd. Mae adeiladau cymunedol yn fannau lle gall pobl ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth, er enghraifft banc bwyd, cyngor ar ddyledion a budd-daliadau, a dosbarth ymarfer corff neu grŵp colli pwysau. Gall y gweithgareddau hyn atal problemau rhag dwysáu neu waethygu yn aml. Mae hyn yn osgoi'r angen am ymyriadau mwy dwys.

Bydd y Gronfa Benthyciadau yn helpu grwpiau cymunedol i wella'r adeiladau hyn. Mae gan lawer ohonynt, yn enwedig y rhai a oedd dan berchnogaeth y sector cyhoeddus o bosibl, lwyth o waith cynnal a chadw wedi cronni. Gallai'r gwelliannau hyn gynnwys gwell inswleiddio, system gynhesu fwy effeithlon, technoleg newydd fel paneli solar,

ffenestri gwydr triphlyg, a systemau casglu dŵr glaw. Mae'r gwelliannau hyn yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio ac yn darparu adeiladau cymunedol sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol dros y tymor hir.

Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd

Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu cynigion ar sut byddai system gyfiawnder wahanol ac ar wahân yn gweithredu yng Nghymru. Cafodd y Glasbrint Troseddwyr Benywaidd ei ddatblygu ar y cyd gan Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ymyrryd yn gynnar ac atal; gan ystyried sut gallwn wyro pobl ymhellach oddi wrth drosedd yn y lle cyntaf, ond lle bo rhaid i ni weithio gyda throseddwyr, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfannol ac adferol. Cafodd glasbrint ar wahân ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ei ddatblygu ar y cyd rhwng swyddogion a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, gan adeiladu ar themâu allweddol Adolygiad Charlie Taylor o System Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, ond yn canolbwyntio ar y system fel y mae yng Nghymru. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru a'r Swyddfa Gartref yn bartneriaid allweddol yn y gwaith hwn hefyd.

Mae'r ddau Lasbrint yn fwriadol uchelgeisiol ac yn nodi nifer o argymhellion. Bydd llawer ohonynt yn cael effaith ar wasanaethau datganoledig mewn amrywiaeth o bortffolios gweinidogol (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a thai). Y bwriad yw y bydd yr argymhellion a nodir yn y Glasbrintiau'n cael eu cysoni â'r blaenoriaethau cyfredol yn y portffolios dan sylw, er mwyn darparu dull gweithredu cydlynol a chydweithredol ar gyfer polisi cyfiawnder sy'n bodloni anghenion Cymru.

Yn 2021-22 rydym wedi dyrannu £0.5m i fwrw ymlaen â gwaith y Glasbrintiau. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl parhau i gefnogi Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru Menywod, y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25, y prosiect 'Ymweld â Mam', a'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma i bob Tîm Troseddwyr Ifanc yng Nghymru. Bydd y rhaglen waith hon yn helpu i wyro menywod a phlant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac yn helpu i gefnogi adsefydlu, ac i atal aildroseddu.

Mae'r ddau Lasbrint yn cyfrannu at y blaenoriaethau trawsbynciol yn y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r achosion o droseddu, a gwyro pobl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol gan leihau'r risg o droseddu ymysg cymunedau, unigolion a'u teuluoedd. Drwy sicrhau bod y dull system gyfan sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys lefel briodol o gymorth cofleidiol, gan gynnwys cymorth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl i'r rhai sydd wedi profi trawma a allai arwain at droseddu, rydym yn gallu cefnogi'r flaenoriaeth Iach ac Egnïol hefyd. Mae'r flaenoriaeth Uchelgeisiol ac yn Dysgu hefyd yn cael sylw drwy ddarparu lefel briodol o addysg a dysgu i'r rhai yn y system addysg ym mhob lleoliad (gan gynnwys lleoliadau nad ydynt yn rhai prif ffrwd), er mwyn lleihau'r achosion o wahardd o'r ysgol a allai wneud pobl ifanc yn agored i niwed ac mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael sylw hefyd. Mae gan y Glasbrintiau ffocws hirdymor drwy dorri cylchau troseddu rhyng-genedlaethol, gan greu cymdeithas decach â chanlyniadau mwy cyfartal i bawb. Mae diogelu menywod a phlant, a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd ymddygiad troseddol, yn ataliol eu natur gyda dull cydweithredol wedi'i sefydlu er mwyn cyflenwi gwasanaethau trawsnewidiol. Rydym wedi gweithio'n galed i ddeall y cysylltiadau ar draws meysydd polisi a sut gall y dull hwn wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau ac wedi datblygu ein dull o gyflenwi

gwasanaethau effeithiol drwy gynnwys y rhai yr effeithir arnynt (dioddefwyr, menywod, plant a chymunedau).

Trechu Tlodi (gan gynnwys Lles)

Mae'n glir fod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Felly, un o brif themâu'r gyllideb hon yw trechu tlodi. Mae llinellau sylfaen y cyllidebau refeniw wedi cael eu pennu yn ôl sefyllfa Cyllideb Derfynol 2020-21, ac mae'r dyraniadau a wnaed yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf i drechu tlodi wedi cael eu pennu fel y llinell sylfaen a byddant yn parhau yn 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys dyraniadau yn ein portffolios ar gyfer tlodi mislif, urddas mislif, y rhaglen Cynhwysiant Ariannol a'r Rhaglen Credydau Amser. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei arwain gan y galw a bydd yn parhau yn 2021-22 hefyd. Mae **dyraniad newydd o £1.1m** hefyd wedi'i wneud i atgyfnerthu gwasanaethau cynghori ac mae **dyraniad o £1.5m** mewn cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i wneud i gefnogi cynhwysiant ariannol.

O ran Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, rydym yn parhau i helpu plant o aelwydydd incwm isel a Phlant sy'n Derbyn Gofal i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag gwireddu eu llawn botensial drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym hefyd wedi parhau â'n cefnogaeth i brydau ysgol am ddim, Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol, a'r Rhaglen Llwgu yn ystod y Gwyliau.

Gwasanaethau Cynghori

Rydym yn gwybod y bydd Covid-19 a Phontio o'r UE yn cael effaith economaidd anghymesur ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, sydd eisoes dan anfantais. Drwy gefnogi gwasanaethau cynghori, byddwn yn parhau i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl drwy sicrhau bod y grwpiau hynny'n cael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatrys eu problemau o ran dyled, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Mae canlyniadau ymyriadau gwasanaethau cynghori yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â thlodi ac anghydraddoldeb, sef blaenoriaethau allweddol yn y cynlluniau ailadeiladu ac adfer.

Er bod Covid-19 yn effeithio ar bawb, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir y bydd y dirywiad economaidd disgwyliedig yn cael effaith ariannol ddifrifol ar y bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn gweithio yn nwfn yng nghalon cymunedau (drwy eu dyluniad a oedd yn hyrwyddo cydweithio ymysg darparwyr a ariennir), gan sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael gafael ar ein gwasanaethau. Er enghraifft, yn 2020, roedd nodwedd warchodedig gan 80% o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaethau.

Mae pobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn methu'n gyson â hawlio eu hawl gywir i fudd-daliadau lles. O ystyried yr heriau economaidd o'n blaenau yn 2021-22, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hawl lawn i gymorth ariannol gan systemau budd-daliadau Cymru a'r DU. Mae helpu pobl i hawlio budd-daliadau lles yn weithgaredd allweddol a gyflawnir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl a rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2020, cefnogwyd pobl i hawlio dros £20 miliwn o incwm ychwanegol drwy fudd-daliadau lles.

Drwy **fuddsoddi £1.1m arall** mewn gwasanaethau cynghori, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau costeffeithiol sy'n chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o drechu tlodi. Er enghraifft, mae ymysg canlyniadau ymyriadau gwasanaethau cynghori mae cefnogi gwelliannau i iechyd a llesiant unigolion, i'w cyflogadwyedd ac i'w sefyllfa ariannol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn caniatáu i ni wella a chynyddu darpariaeth y gwasanaethau cynghori Cynyddu Incwm a Gwahaniaethu mewn Cyflogaeth a gyflawnir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, er mwyn targedu cyngor a chymorth i grwpiau â nodweddion gwarchodedig sy'n llai tebygol o hawlio eu hawl gyfreithiol i fudd-daliadau lles ac sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef arferion gwahaniaethol cyflogwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd yr argyfwng economaidd y byddwn yn ei wynebu yn 2021-22 yn effeithio drymaf ar y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi tynnu sylw at y ffaith fod pandemig Covid-19 yn cynyddu'r posibilrwydd o ymddygiad gwahaniaethol gan gyflogwyr, mwy byth wrth i'r argyfwng economaidd ddwysáu efallai. Felly, mae'r rhain yn wasanaethau hynod o bwysig ar gyfer darparu cyllid ychwanegol yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Rydym yn gwybod mai pobl agored i niwed sy'n wynebu'r nifer uchaf o broblemau lles cymdeithasol ac mai nhw sy'n wynebu effeithiau mwyaf difrifol y problemau hyn. Dyma pam ein bod wedi mynnu bod darparwyr cyngor y Gronfa Gynghori Sengl yn sicrhau bod pobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn defnyddio eu gwasanaethau. Yn ystod 2020, roedd 80% o'r bobl (a 59% o'r rhain yn fenywod) a ddefnyddiodd wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn perthyn i grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Dyluniodd Llywodraeth Cymru'r Gronfa Gynghori Sengl i ganolbwyntio'n gryf ar weithgareddau ataliol. Rydym nawr yn ariannu model cyflawni gwasanaethau arloesol sy'n cynnwys partneriaid Cyngor a Mynediad. Mae'r rhain yn targedu mynediad cynnar at gyngor ymysg pobl sy'n dueddol o beidio â gofyn am help nes bod problem wedi cyrraedd ei hanterth – lle mae angen ymyriadau mwy costus er mwyn ei datrys.

Mae ein gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl hefyd yn cynnig dull grymuso, lle mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau eu cynlluniau gweithredu eu hunain, wedi'u datblygu ar y cyd, sy'n cynnwys y camau gweithredu byddant yn eu cymryd i ddatrys eu problem(au). Mae'r dull hwn yn cynyddu gwybodaeth, gallu a sgiliau defnyddwyr gwasanaethau, gan eu helpu i atal problemau lles cymdeithasol rhag codi eto yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau cynghori yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni nifer o'r Nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru lewyrchus (cynyddu incwm), Cymru gydnerth (grymuso pobl i ddelio â'u problemau eu hunain), Cymru iachach (lleddfu'r straen mae problemau heb eu datrys yn ei achosi), a Chymru sy'n fwy cyfartal (mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo mynediad at gyfiawnder cymdeithasol).

Cafodd y Gronfa Gynghori Sengl ei dylunio i ariannu darparwyr a oedd yn cynnig modelau cyflawni gwasanaethau a oedd yn cwmpasu'r pum ffordd o weithio. Felly, mae Llywodraeth Cymru nawr yn ariannu modelau cydweithredol o gyflawni gwasanaethau cynghori, sy'n cynnig gwasanaethau integredig ac ataliol sy'n datrys problemau pobl ac yn eu helpu i rwystro problemau lles cymdeithasol rhag codi yn y dyfodol.

Cynhwysiant Ariannol

Mae'r **Gronfa Cymorth Dewisol** fel cronfa grantiau wedi'i arwain gan y galw yn rhan allweddol o'r gwaith o drechu tlodi. Mae'r Gronfa'n cynnig taliadau arian parod neu gymorth mewn nwyddau (eitemau hanfodol y cartref a nwyddau gwyn), gan ddarparu cymorth brys i bobl i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant. Yn 2021-22 rydym yn cynnal ein cefnogaeth i'r Gronfa ar y lefelau a ddarparwyd yng Nghyllideb Derfynol 2020-21.

Ers dechrau'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2013 mae dros 419,000 o ddyfarniadau wedi'u gwneud, cyfanswm o dros £71.1m o gyllid grant i'r rhai mwyaf agored i niwed. Yn 2021-22 bydd y Gronfa'n parhau i roi cymorth i'r rhai mewn angen drwy ddau fath o grant nad oes yn rhaid eu had-dalu. Mae'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng yn helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng fel colli swydd neu oedi mewn budd-daliadau, ac yn talu am gostau byw uniongyrchol fel cost bwyd a thanwydd i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol difrifol. Mae Taliad Cymorth i Unigolion yn helpu'r rhai y mae angen gofal arnynt i fyw'n annibynnol yn hytrach na mynd i sefydliad fel cartref gofal neu ysbyty, neu aros mewn sefydliad o'r fath. Oherwydd bod pwysau Covid-19 yn dal i effeithio ar unigolion, mae unigolion a theuluoedd ledled Cymru yn troi at y gronfa am gymorth ychwanegol i'w helpu gyda rhywfaint o'r heriau a'r pwysau ariannol sy'n eu hwynebu.

Yn ystod 2020-21 mae pwysau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar unigolion a theuluoedd ledled Cymru, sy'n troi mwy a mwy at y gronfa am gymorth ychwanegol i'w helpu gyda rhywfaint o'r heriau a'r pwysau ariannol sy'n eu hwynebu. Mewn ymateb i Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £13.9m yn ychwanegol yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2020-21 i gefnogi'r galw cynyddol ar y Gronfa, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn hawliadau. Roedd y cyllid ychwanegol hwn hefyd yn cefnogi'r penderfyniad i lacio rheolau'r Gronfa o ran nifer ac amledd dyfarniadau'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng o ganlyniad i Covid-19 rhwng 1 Mai 2020 a 31 Mawrth 2021. Rhoddodd hyn gymorth hollbwysig i unigolion a theuluoedd ledled Cymru sydd ar incymau isel ac yn wynebu caledi ariannol difrifol. Rhwng 18 Mawrth 2020, pan ddechreuodd gwaith cofnodi Covid-19, a 30 Tachwedd 2020 cafodd cyfanswm o 144,253 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng y Gronfa eu gwneud, gan ddod i gyfanswm o £9.3m. O'r rhain, roedd 116,247, sef cyfanswm o £7.5m, yn datgan Covid-19 fel achos.

Mae dadansoddiad o daliadau argyfwng Covid-19 yn dangos mai'r mwyafrif llethol sy'n eu defnyddio yw pobl a oedd yn wynebu caledi yn barod a bod hynny wedi'i ddwysáu o ganlyniad i'r pandemig. Gofynnwyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau gyfeirio hawlwyr newydd at y Gronfa Cymorth Dewisol ond mae nifer y bobl sy'n ddi-waith ers cyfnod byr ac yn defnyddio'r Gronfa yn dal yn isel. Gan fod nifer o fusnesau'n dibynnu ar gynllun Ffyrlo'r DU i dalu eu staff, rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y swyddi sy'n cael eu dileu, y busnesau sy'n cau ac mewn diweithdra, a rhagor o bobl yn bwriadu hawlio Credyd Cynhwysol. Yn yr amgylchiadau hyn disgwylir y bydd rhai unigolion yn troi at y Gronfa am gymorth.
Bydd cymorth pellach i'r Gronfa yn cael ei ystyried fel rhan o'r ystyriaeth o ddyraniadau i'w gwneud yn y Gyllideb Derfynol o gronfa wrth gefn Covid-19.

Bydd sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn rhan flaenllaw o gynlluniau gwario Llywodraeth Cymru yn helpu unigolion i wella eu sefyllfa ariannol a'u llesiant cyffredinol, gan atal rhagor o ymyriadau costus i bwrs y wlad. Mae cynhwysiant ariannol yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'r blaenoriaethau sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl a thai a nodir yn Ffyniant i Bawb. Mae dyled a rheoli arian yn wael yn gallu effeithio ar allu person i gadw swydd ac mae cysylltiadau wedi'u sefydlu bod problemau o ran dyled, tai a lles yn gallu arwain at salwch meddwl. Mae ein gwaith cynhwysiant ariannol yn helpu dinasyddion i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chadw

swyddi, ac yn lleihau'r risg o brofiadau niweidiol i blant drwy liniaru amrywiaeth o ffactorau unigol, perthynol, cymunedol a chymdeithasol i rieni/gofalwyr.

Mae'r gwaith cynhwysiant ariannol yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Gronfa'n cyfrannu at nifer o'r nodau, gan gynnwys "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Chymru iachach". Mae'r cymorth a ddarperir yn helpu'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael mynediad at gynhyrchion ariannol nad ydynt yn gallu cael mynediad atynt yn rhywle arall, gan gyfrannu at Gymru lewyrchus, gydnerth ac iachach sy'n fwy cyfartal. Mae hefyd yn gymorth ataliol, gydag undebau credyd yn hyrwyddo arferion cynilo a mynediad at fenthyciadau moesol i bobl sydd, heb wasanaeth undeb credyd, yn debygol o ddefnyddio benthycwyr uchel eu llog.

Er bod undebau credyd yn ymdrechu i ddarparu credyd ac arbedion fforddiadwy i bawb, nid oes modd i rai pobl fforddio benthyg yn gyfrifol ac yn deg gan undebau credyd neu ddarparwyr cyllid cymunedol eraill, a hynny o ganlyniad i'w sefyllfa ariannol sydd eisoes yn fregus, gan gynnwys gorddyled sylweddol. Mae'n bryderus y byddant yn troi'n aml at gredyd uchel ei gost a benthyg anghyfreithlon, gan ddwysáu eu sefyllfa sydd eisoes yn fregus. Oherwydd hynny, mae £0.5m wedi'i neilltuo i dreialu cynllun benthyciadau heb log, gan weithio gyda Fair4All Finance a Thrysorlys Ei Mawrhydi i brofi a yw'n bosibl i bobl nad ydynt yn gallu fforddio benthyg gan ddarparwyr credyd fforddiadwy ar hyn o bryd gael mynediad at gredyd cyfrifol sydd yn fforddiadwy iddynt.

Mae cefnogi'r ddarpariaeth o gredyd fforddiadwy yn y ffordd hon yn enghraifft o wariant ataliol. Bydd hyrwyddo benthyg yn deg ac yn gyfrifol, lle mae pobl dim ond yn benthyg faint maent yn gallu fforddio ei ad-dalu, yn helpu i leihau'r lefelau gorddyled yn y tymor hir. Bydd yn cael effaith sylweddol iawn ar bobl a fydd yn gallu, drwy gael gafael ar y cynnyrch ariannol cywir am bris teg, leddfu eu pryderon ariannol, gwella eu llesiant ariannol, a dechrau eu taith ariannol drwy gael eu hannog i arbed ychydig ochr yn ochr â'u benthyciadau, a fydd yn bosibl drwy gael gafael ar gredyd isel ei gost, yn hytrach nag uchel ei gost.

Undebau Credyd

I gefnogi cynhwysiant ariannol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i undebau credyd i gyflawni amrywiaeth o brosiectau yn ein cymunedau. Mae'r prosiectau hyn yn hybu twf a chyrhaeddiad, gan ganiatáu i ragor o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol elwa ar gyllid fforddiadwy. Mae'r prosiectau'n cynnwys twf y gyflogres i gefnogi cydnerthedd ariannol ac annog gweithwyr i gael digon o gynilion wrth gefn, prosiectau cynilo mewn ysgolion a charchardai, gwaith allgymorth yn y gymuned i hybu aelodaeth, a phrosiect marchnata cydweithredol sy'n codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, cafodd **cyfalaf ychwanegol o £1m** ei sicrhau i gefnogi undebau credyd gyda'u sefyllfaoedd cyfalaf yn ystod 2020-21 er mwyn iddynt allu parhau i helpu pobl i gael gafael ar gredyd fforddiadwy. Mae undebau credyd wedi cael eu gwahodd i wneud cais am y cymorth hwn.

Yn 2021-22 rydym wedi **dyrannu £1m yn ychwanegol** o gyfalaf trafodiadau ariannol i undebau credyd, sy'n dangos ein cefnogaeth i undebau credyd a bod cynhwysiant ariannol yn ymrwymiad allweddol. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y broblem o allgáu ariannol ac wedi amlygu'r angen am gredyd fforddiadwy sy'n hygyrch ac yn briodol i bawb. Bydd cynyddu cynhwysiant ariannol drwy wella mynediad at gredyd fforddiadwy yn gwella nifer o agweddau ar fywyd, iechyd a llesiant pobl yn sylweddol.

Cynhwysiant Digidol

Gall datblygu sgiliau digidol cymunedau arwain at ragor o gyfleoedd economaidd, cymdeithas fwy cyfartal a gwell cydlyniant cymunedol. Bydd sicrhau cymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ddigidol yn helpu i gynyddu cyfraniad Gweinidogion Cymru at gyflawni pob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wneud Cymru'n wlad lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal gyda chymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda, a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae cyflenwi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol â'r sgiliau digidol sylfaenol i ddefnyddio technoleg yn eu galluogi i elwa ar holl fanteision bod ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd dysgu; gwneud cais am swyddi; rheoli cyllid drwy adnoddau cyllidebu ar-lein neu fancio ar-lein; cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu; chwilio am awgrymiadau ar gyfer ffordd iach o fyw a'u rhannu; a chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hollbwysig.

Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd cynhwysiant digidol ar draws y Llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach, gan gydnabod yr angen i helpu dinasyddion i allu cael gafael ar wasanaethau hollbwysig sy'n aml yn cael eu darparu o bell yn ystod y pandemig. O ganlyniad, rydym wedi cynnal y gyllideb Cynhwysiant Digidol yn 2021-22 ar £1.25m (mae dyraniad bach nad yw'n arian parod o £149k wedi cael ei wneud i ddarparu ar gyfer dibrisiant asedau a brynwyd yn ystod 2020-21). Bydd sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan flaenllaw o gynlluniau gwario Llywodraeth Cymru fel rhan o drawsnewid digidol ehangach yn helpu unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus digidol, gan gynnwys cymorth i gael a chadw swydd, i gael gafael ar wasanaethau iechyd ac i wella llesiant cyffredinol, gan atal ymyriadau mwy costus i bwrs y wlad.

Grant Plant a Chymunedau

Mae'r rhaglenni yn y Grant Plant a Chymunedau yn cyfrannu at ein hymrwymiadau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r grant yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal, ac mae'r rhaglenni'n cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen, yn enwedig plant a theuluoedd, a'r rhai sy'n ceisio cael swydd. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn flaenoriaeth allweddol ac yn un o'r elfennau canolog o adferiad Covid-19. Mae cadw llinell hon y gyllideb ar £135.4m yn golygu bod modd parhau darparu'r cymorth hwn i'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Bwriad y Grant Plant a Chymunedau yw mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Eu nod yw lleihau neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac felly i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r gwaith o ddatblygu'r dull Cysoni Cyllid ei hun wedi cael ei gyflawni gyda chyfraniad agos awdurdodau lleol, a oedd yn gweithio ar y cyd â'i gilydd ac â Llywodraeth Cymru.

Diwygio Lles

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n symud hawlwyr o fudd-daliadau blaenorol i Gredyd Cynhwysol. Dechreuodd hyn ym mis Gorffennaf 2019 ac mae disgwyl cwblhau'r broses erbyn mis Rhagfyr 2023.

Mae argyfwng Covid-19 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod 271,890 o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Hydref 2020, o'i gymharu â 150,527 ym mis Chwefror 2020.

Ym mis Awst 2020, roedd 221,190 o aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru, o'i gymharu â thua 400,000 o aelwydydd pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn.

O ganlyniad i barhad y gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol, ym mis Ebrill 2019 gwnaethom gyflwyno trothwy incwm net blynyddol o £7,400 i hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n dymuno hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant. Gwnaethom ddarparu amddiffyniad wrth bontio hefyd, sy'n golygu bod disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod eu teulu'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau blaenorol cymwys pan gyflwynwyd y trothwy, neu unrhyw hawlwyr newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, wedi'u diogelu yn erbyn colli prydau ysgol am ddim pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru, hyd yn oed os bydd eu cymhwysedd yn newid. Pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd unrhyw hawlwyr presennol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd bellach (oherwydd eu bod yn ennill uwchben y trothwy) yn parhau i gael amddiffyniad hyd nes diwedd cyfnod addysg presennol y disgybl (er enghraifft nes eu bod yn gorffen y cyfnod cynradd neu'r cyfnod uwchradd).

Roeddem wedi darparu £7 miliwn yn ychwanegol drwy'r Setliad yn 2019-20 i dalu am y cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant a fydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r cynnig amddiffyn wrth bontio. Mae hyn ar ben y £5 miliwn o gyllid yr oeddem wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol yn 2018-19, fel grant penodol yn y MEG Addysg, i dalu am gostau prydau ysgol am ddim ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol. Ni wnaed unrhyw newidiadau fel rhan o gyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf, felly arhosodd y £7m yn y setliad. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig ar gyfer 2021-22 gan ein bod yn dal yn aros am fodel wedi'i ddiweddaru gan yr Adran Addysg.

Gwaith ar y Cyd rhwng y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb am y tro cyntaf fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2020-21. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys yr uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella prosesau ein cyllidebau a'n trethi.

Mae hyn yn cynnwys ein dull gweithredu ar gyfer datblygu sut awn ati i asesu effaith penderfyniadau cyllidebu yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu ein dull gweithredu yn barhaus. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y camau rydym wedi'u cymryd ar ein taith a sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft 2021-22, sy'n cyflwyno ein huchelgeisiau pum mlynedd treigl yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau arfaethedig o Gynllun y llynedd yn ystod 2020.

Mae hyn wedi cynnwys y dulliau newydd rydym wedi'u harchwilio er gwaethaf y pandemig i'n helpu i benderfynu pa ddulliau eraill gallem eu defnyddio i gyd-fynd ag Asesiad Effaith Integredig Strategol y gyllideb. Er enghraifft, ar ôl ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y llynedd, rydym wedi datblygu model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ein dadansoddiad cychwynnol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22.

Ym mis Ionawr 2020, dyfarnwyd y contract i ymchwilio i gryfhau a chynyddu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru i gonsortiwm yn cynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Diverse Cymru ac Young Wales. Nod yr ymchwil hwn yw archwilio dulliau o gryfhau a chynyddu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau i ddeddfwriaeth, polisi, canllawiau neu ddiwygiadau eraill er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Roedd methodoleg yr ymchwil yn cynnwys cyfweliadau a gweithdai â sefydliadau rhanddeiliaid dros lwyfan ar-lein, cynnal grwpiau ffocws profiad go iawn gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion â gwahanol nodweddion gwarchodedig, a dosbarthu holiadur. Mae'r tîm ymchwil wrthi'n dadansoddi'r data a gasglwyd. Y bwriad yw cynnal profion maes ar y canfyddiadau/argymhellion drafft yng nghanol/diwedd mis Rhagfyr 2020. Bydd yr adroddiad terfynol, yn cynnwys y prif ganfyddiadau ac argymhellion, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror 2021.

Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, byddwn yn crynhoi effaith ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratif, ac yn cyhoeddi astudiaethau achos ar effaith penderfyniadau gwario penodol.

Ein polisi arferol yw cyflwyno asesiadau o effaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r polisi y maent yn cyfeirio ato. Yn ystod y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys adran yn benodol ar asesiadau o effaith sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws ar adran coronafeirws ein gwefan – https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws Ein barn ar hyn o bryd yw bod rhoi asesiadau o effaith yn yr un ardal o'r wefan â'r pwnc y maent yn ymdrin ag ef yn adlewyrchu eu rôl hollbwysig fel rhan o'r broses llunio polisïau ac yn hybu tryloywder, a bod hynny'n well na darparu asesiadau o effaith mewn un lleoliad canolog. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad ehangach o effeithiolrwydd ein dull gweithredu ar gyfer asesu effaith wrth ddatblygu polisïau ac o gyfleoedd i barhau i'w wella. Mae'r pandemig wedi oedi'r gwaith hwn ond bydd yn dylanwadu arno hefyd. Mae'n bosibl y bydd datblygiad yr arferion gorau wrth asesu effaith yn effeithio ar ein dull gweithredu yn y dyfodol o ran sut a ble rydym yn rhannu asesiadau o effaith.

O ran yr Asesiad Integredig o'r Effaith, ein dull gweithredu presennol yw cynnwys yr holl asesiadau o effaith gyda'i gilydd mewn un adnodd. Erbyn hyn mae gennym dros ddwy flynedd o brofiad o ddefnyddio'r adnodd (dan amodau arferol llunio polisïau ac yn yr amgylchiadau anarferol y mae polisïau wedi cael eu datblygu yn ystod y pandemig). Cafodd y gwaith o adolygu'r Asesiad Integredig o'r Effaith ei oedi ar ddechrau'r pandemig ond mae newydd ailddechrau, a bydd yn rhan o'r gwaith ehangach yn cefnogi galluogrwydd Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r adnodd Asesiadau Integredig o'r Effaith sy'n canolbwyntio ar wella'r broses o lunio polisïau ac ar gynyddu tryloywder. Bydd hefyd yn golygu ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr statudol ac aelodau o Grŵp Cynghori'r Gyllideb ar Gydraddoldeb.

ATODIAD A

EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)			
RESOURCE BUDGET			
BEL	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Local Govt General Revenue Funding	3,399,147	210,395	3,609,542
City & Growth Deals	10,000	-10,000	0
Police General Revenue Funding	86,600	1,750	88,350
Non-Domestic Rates Rates Relief	27,700	0	27,700
Local Govt PFI Revenue Consequences	3,124	-132	2,992
Transformation & Legislation	8,857	-1,818	7,039
Non-Domestic Rates Collection Costs	5,172	0	5,172
Emergency Financial Assistance Scheme	1	23,270	23,271
Total:Funding Support for Local Government Action	**3,540,601**	**223,465**	**3,764,066**
Valuation Office Agency Services	8,561	0	8,561
Valuation Tribunal for Wales	1,039	0	1,039
Local Taxation Research & Analysis	100	0	100
Total: Valuation Services Action	**9,700**	**0**	**9,700**
Sponsorship of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales	598	0	598
Expenditure to Promote Local Democracy	126	0	126
Total: Building Local Democracy Action	**724**	**0**	**724**
Improvement & Support	350	0	350
Total: Local Government Improvement Action	**350**	**0**	**350**

EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)			
RESOURCE BUDGET			
BEL	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Academi Wales	1,134	0	1,134
Total: Academi Wales Action	**1,134**	**0**	**1,134**
Community and Town Councils	144	0	144
Public Services Boards	530	0	530
Total: Supporting Collaboration and Reform Action	**674**	**0**	**674**
Supporting Communities	483	0	483
Children and Communities Grant	135,442	0	135,442
Housing Support Grant	126,763	40,000	166,763
Total: Early Intervention, Prevention & Support Action	**262,688**	**40,000**	**302,688**
Financial Inclusion	13,202	0	13,202
Digital Inclusion	1,250	149	1,399
Total: Financial Inclusion and Digital Inclusion Action	**14,452**	**149**	**14,601**
Fire & Rescue Services	10,425	-2,000	8,425
Fire & Rescue Services - Communication Systems	1,765	2,150	3,915
Community Fire Safety	848	0	848
Total: Fire & Rescue Services and Resilience Action	**13,038**	**150**	**13,188**
Homelessness	17,907	4,000	21,907
Total: Homelessness Prevention Action	**17,907**	**4,000**	**21,907**
Housing Policy	5,429	-545	4,884
Total: Housing Policy Action	**5,429**	**-545**	**4,884**
Building Safety*	**0**	**545**	**545**
Building Safety	**0**	**545**	**545**
Housing Finance Grant	13,100	0	13,100
Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action	**13,100**	**0**	**13,100**
Housing Programme Revenue Funding	1,073	0	1,073
Total: Housing Revenue Funding Action	**1,073**	**0**	**1,073**
Regeneration	560	0	560
Cardiff Harbour Authority	5,400	0	5,400
Total: Regeneration Action	**5,960**	**0**	**5,960**
Planning & Regulation Expenditure	5,096	0	5,096
Total: Planning and Regulation Action	**5,096**	**0**	**5,096**
EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL RESOURCE BUDGET	**3,891,926**	**267,764**	**4,159,690**
*New BEL and Action - Building Safety			

EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)			
CAPITAL BUDGET			
BEL	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Local Govt General Capital Funding	197,837	0	197,837
Total: Local Government General Capital Funding Action	**197,837**	**0**	**197,837**
Fire & Rescue Services	1,000	0	1,000
Fire & Rescue Services - Communication Systems	210	0	210
Community Fire Safety	670	0	670
Total: Fire and Rescue Services and Resilience Action	**1,880**	**0**	**1,880**
Rapid Response Adaption Programme	5,660	0	5,660
Total: Housing Policy Action	**5,660**	**0**	**5,660**
Integrated Care Fund	40,000	0	40,000
Total: Integrated Care Fund Action	**40,000**	**0**	**40,000**
Major Repairs Allowance and Dowry Gap Funding	108,000	0	108,000
Total: Achieve Quality Housing Action	**108,000**	**0**	**108,000**
Social Housing Grants (SHG)	163,219	36,780	199,999
Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action	**163,219**	**36,780**	**199,999**
Building Safety	**0**	20,000	**20,000**
Total: Building Safety	**0**	**20,000**	**20,000**
Regeneration	41,808		41,808
Total: Regeneration Action	**41,808**	**0**	**41,808**
EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL CAPITAL BUDGET	**558,404**	**56,780**	**615,184**

EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)				
FINANCIAL TRANSACTIONS				
BEL	**Financail Transactions**	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Financial Inclusion	Credit Unions	-5	1,501	1,496
Total: Financial Inclusion and Digital Inclusion Action		**-5**	**1,501**	**1,496**
Social Housing Grants (SHG)	Building with Modular and Housing Loans	60,000	-60,000	0
Land for Housing	Land for Housing	10,000	-10,000	0
Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action		**70,000**	**-70,000**	**0**
Building Safety	Building Safety Fund	**0**	12,000	12,000
Total: Building Safety		**0**	**12,000**	**12,000**
Help to Buy Wales Fund and Other Schemes	Help to Buy	68,510	3,800	72,310
Action:Increase the Supply and Choice of Market Housing Action		**68,510**	**3,800**	**72,310**
Integrated Care Fund	Clych Caron Integrated Rescue Centre	2,000	-2,000	0
Total: Integrated Care Fund Action		**2,000**	**-2,000**	**0**
Regeneration	Town Centre Loans	10,000	-5,000	5,000
Total: Regeneration Action		**10,000**	**-5,000**	**5,000**
EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL FINANCIAL TRANSACTIONS		**150,505**	**-59,699**	**90,806**

EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)			
RESOURCE BUDGET			
BEL	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence	5,250	1,575	6,825
Total: Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Action	**5,250**	**1,575**	**6,825**
Community Cohesion	1,600	-1,600	0
Equality and Community Cohesion*	5,766	840	6,606
Total: Equality and Inclusion Action	**7,366**	**-760**	**6,606**
Advice Services**	8,901	1,100	10,001
Total: Advocacy Services	**8,901**	**1,100**	**10,001**
Support for the Voluntary Sector and Volunteering	6,625	3,669	10,294
Total: Support for the Voluntary Sector	**6,625**	**3,669**	**10,294**
Community Support Officers	16,787	0	16,787
Total: Community Support Officers	**16,787**	**0**	**16,787**
Female Offending and Youth Justice Blueprints	575	500	1,075
Total: Female Offending and Youth Justice Blueprints	**575**	**500**	**1,075**
Chware Teg	360		360
Total: External Bodies Action	**360**	**0**	**360**
EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL RESOURCE BUDGET	**45,864**	**6,084**	**51,948**
*Previously 'Equality and Prosperity'			
**Previously 'Advocacy Services'			

EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)			
CAPITAL BUDGET			
BEL	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence	2,169	0	2,169
Total: Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Action	**2,169**	**0**	**2,169**
Gypsy Traveller Sites	5,000	-1,500	3,500
Total: Gypsy Traveller Sites Action	**5,000**	**-1,500**	**3,500**
Community Facilities Programme	4,838		4,838
Total: Community Facilities Programme Action	**4,838**	**0**	**4,838**
EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL CAPITAL BUDGET	**12,007**	**-1,500**	**10,507**

EXTRACT FROM HOUSING AND CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)				
FINANCIAL TRANSACTIONS				
BEL	**Financail Transactions**	**2020-21 Final Budget £000s**	**Changes £000s**	**New Plans Draft Budget 2021-22 £000s**
Community Facilities Programme	Community Asset Loan Fund	1,000	-20	980
Total: Community Facilities Programme Action		**1,000**	**-20**	**980**
EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL FINANCIAL TRANSACTIONS		**1,000**	**-20**	**980**

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-4478-20

Lynne Neagle, AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@senedd.cymru

Copi at:
John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

SeneddCommunities@senedd.cymru

6 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr 20 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein hymagwedd at dâl y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol trwy Fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau tâl ar draws y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf o gofio penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi codiad cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Bydd goblygiadau dyfarniadau tâl yn 2021-22 yn gorfod cael eu hymgorffori o fewn gwaith cynllunio cyllideb yr awdurdodau lleol yng ngoleuni'r Setliad. Mae ein penderfyniadau yn y gyllideb yn targedu cymaint o gymorth ag y gallwn at iechyd a llywodraeth leol i gefnogi pwysau mewn gwasanaethau rheng flaen gan ganolbwyntio ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer tâl y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar ddosbarthu cyllid ar draws yr awdurdodau lleol ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb tâl athrawon a'r ymrwymiad a wnaed gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn trwy gyfeirio cyllid at y rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

At ei gilydd (ac eithrio trosglwyddo cyllid ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol), bydd llinell sylfaen y setliad yn cynyddu £176 miliwn mewn termau arian parod yn 2021-22. Mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn yn adlewyrchu cynnydd mwy yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) i ddigolledu ar gyfer gostyngiad mewn casglu Ardrethi Annomestig, a achosir yn bennaf gan effaith y pandemig.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddir y gwariant y mae'r awdurdodau lleol yn ei gyllidebu i bennu maint cymharol sectorau'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA). Ar gyfer 2021-22, i gydnabod cytundeb tâl athrawon ar gyfer 2020/21, rydym yn cyfeirio £19.973 at sector SSA gwasanaethau ysgolion, i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11, cyn rhannu gweddill y cynnydd ar draws y sectorau SSA.

Cyfrifwyd y ffigur o £19.973 miliwn fel a ganlyn (ac mae'n cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ar bensiynau athrawon):

- Roedd £13.148m = y pum mis o'r elfen 2.6% [1]o gytundeb tâl 2020/21 nad oedd eisoes yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (7 mis, gan gynnwys Medi 2020 i Fawrth 2021, eisoes yn y llinell sylfaen, ar werth o £18.4m yn setliad 2020-21).

  plws

- £6.825m = 12 mis llawn o elfen 0.5%[2] o gytundeb tâl 2020/21, nad oedd unrhyw ran ohono yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (mae 7 mis ohono'n cael ei dalu fel grant penodol, gan gwmpasu Medi 2020 i Fawrth 2021, ar gost o £3.981m)

Diben cyfeirio'r cyllid at rannau penodol o'r fformiwla yw sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu yn y ffordd fwyaf priodol, i gydnabod y pwysau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Nid yw'n ffordd o bennu faint o gyllid sydd yn y setliad ar gyfer diben penodol. Felly, ni fyddai'n gywir siarad yn nhermau cyfrannau o gyllid sydd wedi'u cynnwys at ddiben penodol.

O ran pensiynau athrawon, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol yn y setliad hwn yn benodol at y diben hwnnw. Mae'r cyllid a oedd yn cael ei ddarparu trwy setliad 2020-21 yn aros yn y llinell sylfaen ac yn cael ei ddosbarthu yn ôl y fformiwla ehangach sy'n seiliedig ar anghenion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth asesu'r pwysau ar yr awdurdodau lleol.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

---

[1]2.6% oedd amcangyfrif gorau y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant adeg y cyfrifiad
[2] 0.5% i gydnabod y gwahaniaeth rhwng amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2.6%)a'r cynnydd cyffredinol o 3.1% i'r bil cyflogau

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddPPIA@senedd.cymru

8 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae eich llythyr yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Anfonodd Helen Mary Jones lythyr tebyg ataf ar ran y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (CWLC) ar 19 Tachwedd ac rwyf wedi drafftio papur tystiolaeth i'w drafod gyda'r pwyllgor ar 14 Ionawr 2021 (wedi'i atodi yn Atodiad A). Mae'r papur yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynigion y gyllideb ym maes y Gymraeg fel sydd wedi'u hamlinellu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu manylion gwariant arfaethedig ar y Gymraeg yn y ddau MEG ar gyfer 2021-22 er mwyn gweithredu *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* fel a ganlyn:

- Y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn fy mhortffolio i:
  - BEL y Gymraeg
  - BEL Comisiynydd y Gymraeg.
- Y MEG Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg:
  - BEL y Gymraeg mewn Addysg.

Fel sydd wedi'i nodi yn fy mhapur i'r Pwyllgor CWLC, mae fy nghyllideb i'n ategu cyllideb y Gweinidog Addysg o ran cefnogi gweithgareddau addysgiadol. Mae gan *Cymraeg 2050* dair brif thema:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n ymwneud â gosod cyd-destun a seilwaith briodol i gefnogi themâu 1 a 2.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nod pob un o ymyraethau fy mhortffolio o dan BEL y Gymraeg a BEL Comisiynydd y Gymraeg, yn y pen draw, yw cynyddu defnydd o'r iaith (Thema 2 a 3). Mae'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo i'r Gymraeg o dan BEL y Gymraeg mewn Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg yn dueddol o ganolbwyntio ar Thema 1: caffael iaith mewn lleoliadau cyn-ysgol, ysgol ac ôl-16.

Fodd bynnag, mae yna gysylltiadau clir rhwng gwariant pob un o'r tri BEL (er enghraifft y Siarter Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) gan na all caffael iaith fyth ddigwydd heb gefnogaeth ffactorau eraill. Mae'r ddwy gyllideb yn cydweithio ac rwy'n trafod cynnydd yn erbyn targedau *Cymraeg 2050* gyda'r Gweinidog Addysg, fel gyda nifer o weinidogion eraill ar draws y Llywodraeth, yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod nodau polisi wedi'u halinio.

Dyma felly ddiolch i'r pwyllgor am ei waith wrth graffu ar wariant ar y Gymraeg, a hoffwn eich cyfeirio at y dystiolaeth y gwnes i ei pharatoi ar gyfer y Pwyllgor CWLC, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Yn y papur hwnnw, er hwylustod, fe welwch fod y dystiolaeth wedi'i darparu o dan bob un o gerrig milltir *Cymraeg 2050*.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Copi i: Y Gweinidog Addysg